Bundle Health Board - Welsh 29 September 2022

1 GWEINYDDU AGORIADOL

1.2 Datganiadau o fuddiant ar yr agenda gyfredol Cadeirydd Penderfyniad Adroddiad llafar

1.3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – 4 Awst 2022; 24 Awst 2022 Cadeirydd Penderfyniad Papur

22.139 - Health Board Minutes 04.08.2223622900 V0.3_cym.doc

1.4 Cofnod Camau Gweithredu Cadeirydd Penderfyniad Papur

1.5 Stori'r Claf Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Sicrwydd Fideo

1.5 CYM - For Approval - Patient Story - Board - Sept 2022.docx

1.6 Adroddiad y Cadeirydd Cadeirydd Gwybodaeth Ar lafar

1.7 Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol Prif Swyddog Gweithredol Sicrwydd Papur

1.7 CYM - CEO report - August final with PHW.docx

1.7 CYMRAEG - CE Report Cover August.docx

2 STRATEGAETH A CHYNLLUNIO

2.1 Strategaeth Bartneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu Prif Swyddog Gweithredol Penderfyniad Papur

2.1a Cover sheet_ Health Board_ Partnerships Engagement and Communications Strategy September 2022 (Cymraeg).docx

2.1 Appendix 1 PEC Implementation Plan_FINAL (1).docx

2.1 Appendix 2 PEC Strategy Stakeholder Analysis DRAFT____ FINAL.docx

2.1 BCUHB Partnerships Engagement and Communication__ Strategy__ 2022-2025 FINAL DRAFT 16.09.22.docx

2.2 Cynllun datgarboneiddio Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Penderfyniad Papur

3 ADRODDIADAU ANSAWDD, DIOGELWCH AC ARWYDDOCAOL

3.1 Adroddiad Sicrwydd Gofal Heb ei Drefnu a Gofal wedi'i Gynllunio (gan gynnwys gofal sylfaenol) Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig Sicrwydd 10.55 Papur

3.1 CYM Unscheduled Care and Winter Resillience v1.2.docx

3.2 Adroddiad Diogelwch Cleifion Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Sicrwydd Papur

3.2 CYM - APPROVED - Quality and Patient Safety Report V2 - Board - Sept 2022.docx

3.3 Adroddiad Fasgwlaidd Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Sicrwydd Papur

3.4 Fframwaith Ansawdd a Diogelwch, Dysgu a Gwella Llywodraeth Cymru Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Sicrwydd Papur

3.4 cym-For Approval - WG Quality Framework - Board - Sept 2022.docx

3.5 Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022 Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu / Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig Sicrwydd

3.5 Health Board Coversheet (Cym)Market Stability Report 290922.docx

3.5 MSR Draft (Cymraeg) v.04.pdf

3.5 MSR EqIA v.1 (Cymraeg).pdf

3.6 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2021-22 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Sicrwydd

3.7 EITEM AR GYFER CYDSYNIAD Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2008. Diweddaru'r Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru a Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Nick Lyons Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol hysbysrwyddPapur

3.7 (Cym) All Wales AC S12 Board Report FV September 2022.docx

4 LLYWODRAETHU

4.1 Adroddiad Ymyrraeth wedi'i Dargedu Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig Sicrwydd Papur

4.2 Adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori Cadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd Papur

4.2.3 Chair's Assurance Report PFIGC 25.8.22 v1.0_sent for translation 16.9.22 Cymraeg.docx

4.2.9 LPF Chair's Assurance Report 19.7.22 v1.0 Cymraeg.doc

Chair's Assurance Report TIIF Steering Group 22.08.22 v0.01 Draft (cym).docx

HPF Chair's Report Health Board September 2022 CYM v1.0.pdf

5	PERFFORMIAD A CHYFLWYNO (CINIO)
5.1	Adroddiad Perfformiad Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Sicrwydd Papur 5.1 IQPR for HB - September 2022 (July 2022 position) FINAL2 Cymraeg English.docx
6	POBL AC ADNODDAU
6.1	Adroddiad Cyllid Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Sicrwydd Papur
7	ADRODD BLYNYDDOL
7.1	Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Sicrwydd Papur 7.1 Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2021-2022.docx
7.2	Adroddiad Blynyddol Diogelu Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Sicrwydd Papur
8	CLOI
8.1	Eitemau i'w Cyfeirio at Bwyllgorau Cadeirydd Penderfyniad Adroddiad llafar
8.2	Adolygu'r Risgiau y Tynnwyd Sylw atynt yng Nghyfarfod y Bwrdd Cadeirydd Penderfyniad Adroddiad llafar
8.3	Crynodeb o Fusnes y Bwrdd Preifat Ysgrifennydd y Bwrdd Sicrwydd Papur
8.4	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 24 Tachwedd 2022 Cadeirydd Gwybodaeth Adroddiad llafar
8.5	Cwestiynau gan y cyhoedd Cadeirydd Gwybodaeth Adroddiad llafar
8.6	Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd Cadeirydd Gwybodaeth Adroddiad llafar

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB)
Cofnodion drafft o gyfarfod cyhoeddus y Bwrdd Iechyd
a gynhaliwyd ar 4 Awst 2022 trwy fideo-gynadledda

Aelodau'r Bwrdd Yn bresennol:

Enw	Teitl
Mark Polin	Cadeirydd
Jo Whitehead	Prif Weithredwr
Lucy Reid	Is-Gadeirydd
Clare Budden	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Nicholas Callow	Aelod Annibynnol
Cyng Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Gareth Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd
John Gallanders	Aelod Annibynnol
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Gill Harris	Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig
Sue Hill	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol
Cyng R Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Dr Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Molly Marcu	Ysgrifennydd y Bwrdd (dros dro)
Richard Micklewright	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Jane Wild	Aelod Cyswllt (di-bleidlais)

Yn bresennol:

Lowri Gwyn	Ar gyfer Cyfieithu:
Philippa Peake-Jones	Pennaeth y Swyddfa Gorfforaethol
Fiona Lewis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (i gofnodi)
Matthew Joyes	Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Phrofiad
Sally Thomas	Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 22/160)

Eitem Agenda Cam Gweithredu	
AGOR Y CYFARFOD	
22/137 Croeso ac Ymddiheuriadau	

Croesawodd y Cadeirydd Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a oedd wedi dechrau'r wythnos hon i'w chyfarfod bwrdd cyntaf. Atgoffodd y bwrdd fod croeso iddynt wneud eu cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. **22/137.1** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Jacqueline Hughes Aelod Annibynnol Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Dylan Roberts, Prif Swyddog Gwybodaeth Digidol Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	
22/138 Datganiadau o Fuddiant **22/138.1** Nid oedd unrhyw ddatganiadau i'w nodi.	
22/139 Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 26 Mai 2022 er cywirdeb **22/139.1** Derbyniwyd cofnodion y Bwrdd Iechyd ar 26 Mai 2022 a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir, yn amodol ar y canlynol: Cofnod 22/108.3 (Adroddiad y Cadeirydd) byddai'r frawddeg gyntaf yn cael ei diwygio i ddarllen “Nodwyd bod nifer o feysydd yn derbyn sylw brys, gan gynnwys pryderon a godwyd gan staff Ysbyty Gwynedd; y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ii fynd i’r afael â’r rhain.”	**PPJ**
Cofnod 22/114.9 (Isadeiledd Gweithredu Model Gweithredu) – fel eglurhad, pwysleisiwyd bod y materion a nodir yma yn cynnwys camau gweithredu a disgwyliadau’r bwrdd.	**JW/GH**
22/140 Materion yn Codi a Chofnod Gweithredu Cryno **22/140.1** Adolygodd y Bwrdd y log gweithredu. Amlygwyd y pwyntiau canlynol: Cam Gweithredu 3 (Adolygiad o effeithiolrwydd cyfarfodydd) - nodwyd bod achosion o ddyblygu rhwng cylchoedd busnes y bwrdd a'r pwyllgorau yn cael sylw ar gyfer y cylch nesaf o gyfarfodydd; byddai'r mater yn parhau i gael ei drafod drwy raglen datblygu'r bwrdd. Cam Gweithredu 4 (Stori Claf) nodwyd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu yn y cyfarfod bwrdd preifat heddiw i ddechrau; yn amodol ar ddim materion pellach yn codi, cloi Cam Gweithredu 5 (swyddi clercod ward) Cadarnhaodd Cyfarwyddwr	**SG**

Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y byddai gwybodaeth yn cael ei hail-gylchredeg; yn amodol ar derfynu'r cam gweithredu Cam Gweithredu 10: Carlton Court IT nodwyd bod y mater wedi'i adolygu a bod camau wedi'u cymryd i leihau problemau cysylltedd lle bo modd. Wedi'i gau. Cam Gweithredu 18 :(amseroedd aros diagnostig) Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am y camau gweithredu sydd ar y gweill Gweithred 21 (tîm ymyrraeth acíwt) Cadarnhaodd M Joyes fod adolygiad o'r tîm ymyrraeth acíwt ar y gweill. Nodwyd bod pryderon staff ynghylch cael eu hadleoli yn cael eu hymchwilio. Gofynnodd L Reid am ddiweddariad manylach gan fod pryderon wedi'u codi gyda hi fel cadeirydd y pwyllgor. Wedi'i gau. Cytunwyd lle'r oedd camau gweithredu'n cynnwys diweddariad sylweddol ar yr un agenda, y dylid cyfeirio at hyn yn gliriach.	**MJ** **DS**
22/141 Stori'r Claf – Gwasanaeth Covid Hir **22/141.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth stori'r claf, a gyflwynwyd wedyn gan y Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro dros Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Phrofiad. Roedd y stori'n cynnwys datblygiad gwasanaeth Covid Hir y Bwrdd Iechyd a chlywed hanes cleifion yr effeithiodd y Covid Hir arnynt. Pwysleisiwyd argaeledd hunan-atgyfeirio i'r gwasanaeth oedolion. Roedd dros 1,000 o atgyfeiriadau ar y cam hwn a'r amser aros cyfartalog oedd tua 15 wythnos. Roedd plant wedi cael eu cyfeirio at Alder Hey yn flaenorol, ond daeth y gwasanaeth hwn i ben ym mis Mehefin ac roedd trafodaethau ar y gweill yng Nghymru am y ddarpariaeth yn y dyfodol. Roedd gofalwyr yn rhan o'r grŵp ymgysylltu ac roedd amrywiaeth o ddeunyddiau ar gael i ofalwyr. Deallwyd bod un siaradwr Cymraeg yn y gwasanaeth. Byddai hyn yn cael ei gadarnhau. Canmolodd y Bwrdd stori'r claf a gofynnwyd a ellid rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth wedi'i strwythuro'n briodol i alluogi darpariaeth gwasanaeth cynaliadwy ac ymatebol, o ystyried yr amseroedd aros uchel. **22/141.2** Penderfynwyd derbyn stori'r claf.	**MJ** **MJ**
22/142 Cwestiynau Fforwm Cyhoeddus Nodwyd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gwneud cais i archwilio'r modd y gall y cyhoedd gyflwyno cwestiynau.	**PPJ**
22/143 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd	

22/143.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd na fu'n bosibl cyflwyno adroddiad gweithredu'r Cadeirydd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, felly byddai'r materion a nodwyd dyddiedig o fis Ebrill yn awr yn cael eu gosod allan. Roedd wedi cymeradwyo'r materion canlynol o fewn ei bwerau dirprwyedig, yn unol â chyngor Ysgrifennydd y Bwrdd:

- Dyfarnu Contract Flow Cytometry
- 3 x Hawliad Gwerth Uchel
- Prydlesu ystafelloedd ar gyfer Gwasanaethau Datblygu Niwro ym Mharc Menai
- Estyniad prydles ar gyfer tîm CAMHS yn y Ganolfan Optic
- Estyniad Contract Endosgopi
- Prydles Adeiladu Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Rhagsefydlu yn y Dwyrain
- Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol – (Cam 1): Cymeradwyaeth Dyfarniad Uniongyrchol
- Cais gan Gontractwr i Ddiweddaru'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol TAW a'r Les Enghreifftiol
- Contract Niwroddatblygiad
- Tendr Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gweithdrefnau Clinigol, Llawfeddygol a Diagnostig ar gontract allanol
- Gwobr Tendr Wrexham Imaging

22/143.2 Wrth fynd i'r afael ag eitemau mwy sylweddol o ran ei ddiweddariad, ategodd y Cadeirydd ei fod wedi nodi'n glir yn flaenorol i'r Bwrdd fod cyhoeddi papurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn hwyr neu'n anghyflawn, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn, yn annerbyniol ac yn rhwystro'r Bwrdd rhag arfer ei rôl llywodraethu a sicrwydd ac yn gwanhau'r cyfle ar gyfer craffu cyhoeddus. Mae hyn wedi digwydd eto heddiw ynghyd â'r ffaith bod sawl rhes yn y traciwr gweithredu naill ai heb ei ddiweddaru neu'n annigonol. Mae'r ddau yn faterion y gwyddai'r aelodau ei fod ymhell o fod yn hapus yn eu cylch oedd yn ei farn ef yn ddisgwyliadau syml a sylfaenol. Yn ogystal, mae ansawdd rhai o'r papurau, er enghraifft yr adroddiad perfformiad a'r adroddiad cyllid, o'r fath ansawdd fel nad ydynt yn cynnig fawr ddim sicrwydd.

Nid oedd y templed adroddiad newydd ei fabwysiadu i gyd-fynd â'r ddwy eitem hyn, sy'n gofyn am radd ar y lefel sicrwydd, a fyddai'n ddiamau o dan yr amgylchiadau wedi arwain at newid pellach o ran y sicrwydd a ddarperir. Roedd wedi cyflwyno'r pryderon hyn a phryderon eraill yn glir i'r Prif Weithredwr. Roedd yn bryderus bod y tîm gweithredol wedi barnu bod yr adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn dderbyniol o'u safbwynt hwy wrth redeg y sefydliad. Roedd yn disgwyl i'r Prif Weithredwr gynnig esboniad a chynigiodd weithredu yn ei diweddariad ynghyd ag Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei diweddariad pe bai angen.

O ran cyfarfod heddiw, pwysleisiodd bod angen i'r papurau gael eu derbyn fel y'u darllenwyd ac i'r cyflwynwyr ganolbwyntio ar dynnu sylw at ystyriaethau ac

argymhellion allweddol. Roedd yn disgwyl i bob cyfraniad fod yn strwythuredig a chryno. **22/143.3** Er gwaethaf adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru, hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod y cynllun tymor canolig integredig tair blynedd a gyflwynwyd wedi'i dderbyn fel cynllun blynyddol yn unig. Bydd trafodaeth ar y pwnc hwn ac ar gyfrifon 2021/22 yn cael ei gynnal. Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.	
22/144 Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol **22/144.1** Derbyniwyd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol (CEO). Amlygodd y Prif Weithredwr nifer o bwyntiau: Roedd y Bwrdd Iechyd wedi derbyn y cynnig cymorth drafft gan IHI a Gwelliant Cymru yn dilyn cyfarfod diagnostig ar y cyd a gynhaliwyd ar 13 ac 14 Gorffennaf ac yn dilyn hynny, cafwyd crynodeb o welliant mewn cyfarfod ar 27 Gorffennaf. Yr adborth o'r sesiynau hynny oedd nad oes digon o gapasiti gwella ar hyn o bryd i gefnogi'r ystod bresennol o ymdrechion gwella o fewn y Bwrdd Iechyd, er y cydnabyddir bod gan y sefydliad un o'r timau gwella mwyaf a mwyaf newydd yng Nghymru ac nad oes digon o allu ar draws y sefydliad. yn gyffredinol o reolwyr ward ac i fyny i adeiladu a chynnal gweithgarwch gwella. **22/144.2** Mae rhaglen gyfunol IHI a Gwelliant Cymru wedi'i chynllunio i gryfhau ymwybyddiaeth, gallu a chapasiti ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys y Bwrdd a chynigir sefydlu ymyriadau hyfforddi â ffocws am gyfnod o hyd at 12 mis. . Mae Gwella Iechyd Cymru (AGIC) wedi adrodd bod ein perthynas â nhw yn gadarnhaol, bod ganddynt hyder yn ein tîm a bod yr ymatebion a wnaeth y Bwrdd Iechyd i AGIC yn ymddangos o ansawdd da. Yn bwysicach fyth, mae'n rhaid sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar adroddiadau AGIC ac roedd adroddiad AGIC ar yr adran achosion brys ym Mangor i fod i gael ei gyhoeddi yn yr wythnos yn dechrau 8fed Awst 2022, gyda chamau gweithredu ar waith yn yr adran achosion brys yn YGC mewn ymateb i'r canfyddiadau. Mewn ymateb i adolygiad AGIC, roedd mwy o waith saith diwrnod yn cael ei gyflwyno, mae amseroedd brysbennu'n gwella ac rydym yn llawer mwy hyderus ynghylch presenoldeb ein staff clinigol mewn ardaloedd aros i oedolion a phediatrig ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gweithredu atgyfeiriadau meddygon teulu i'r uned asesu acíwt. **22/144.3** Trowyd at fater y cyfrifon terfynol yn ddiweddarach yn yr agenda ac yn adroddiad sicrwydd y Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ac yn yr Adroddiad Cyllid. Mae archwiliad Archwilio Cymru o'n cyfrifon yn parhau. Bydd cyfrifon	

2021/22 yn gymwysedig. Fel Swyddog Atebol, roedd wedi argymell i'r Pwyllgor Archwilio na ddylid ailagor cyfrifon 2021/22 ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd cyfle i drafod y materion hyn mewn man arall ar yr agenda heddiw. **22/144.4** O ran ansawdd y papurau a materion llywodraethu cysylltiedig, cydnabu'r pwyntiau a wnaed gan y Cadeirydd a'r gofynion i wella yn hyn o beth. Roedd Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wedi cytuno ar Weithdrefn Weithredu Safonol fwy cadarn, sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod yr holl bapurau sy'n mynd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu harolygu'n fwy trylwyr a'r holl gofnodion a'r cofnodion gweithredu cysylltiedig; mae hyn yn cynnwys dod â'n terfynau amser mewnol ar gyfer papurau ymlaen yn sylweddol a throsolwg o'r holl bapurau nid yn unig gan y cyfarwyddwr gweithredol sy'n gyfrifol am ansawdd y papurau hynny, ond hefyd gan y tîm gweithredol cyfan a phroses sicrhau ansawdd ehangach o fewn swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. **22/144.5** Disgrifiodd yr adroddiad weithgareddau a chyfarfodydd rheolaidd eraill y Prif Swyddog Gweithredol gan gynnwys gyda Chadeirydd a Phrif Swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned, MS ac ASau, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), Prif Weithredwr Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac ystod o gyfarfodydd a digwyddiadau cenedlaethol ac ardaloedd eraill. Mynegodd Aelod Annibynnol ei bryder nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu'n ddigonol yr ystod o bryderon a heriau a oedd yn bodoli ynghylch gweithrediad a pherfformiad y sefydliad a'r ymatebion iddynt. Addawodd y Prif Weithredwr bwyso a mesur y sylw hwn. Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr.	
22/145 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) **22/145.1** Roedd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn manylu ar ddiweddariad o Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) a Diweddariad o Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) Cymru ar gyfer 3 Mai – 28 Mehefin 2022. **22/145.2** Cadarnhaodd y Bwrdd y diweddariadau.	
STRATEGAETH	
22/146 Strategaeth Glinigol ar gyfer Gogledd Cymru **22/146.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Meddygol	

Gweithredol yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol a oedd wedi'i nodi'n llawn ym mhapurau'r Bwrdd. Roedd y strategaeth yn nodi cynlluniau'r Bwrdd ar gyfer darparu gofal iechyd i'r boblogaeth ar sail asesiad o anghenion y boblogaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd y strategaeth yn ystyried amrywiaeth o ganllawiau ac roedd yn seiliedig ar ymgysylltu parhaus â staff. Byddai cynllun gwasanaeth clinigol 2023/26 yn cael ei ddatblygu. Amlygodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr egwyddorion arweiniol (Adran 4 o'r adroddiad) a oedd yn sail i'r strategaeth. **22/146.2** Gwnaethpwyd y prif bwyntiau canlynol: • paragraff 1.3 byddai'r cyfeiriad at gyfle cyfartal yn cael ei aralleirio • byddai cynllunio gweithlu hirdymor drwy'r Strategaeth Pobl yn cael ei ystyried • nod y strategaeth oedd dod â gofal yn nes at y cartref, er enghraifft, o ofal acíwt i'r gymuned ac o ofal cymunedol i ofal sylfaenol • roedd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn parhau i fod yn ymrwymedig drwy'r strategaeth i ysbytai cymunedol y Bwrdd, ein "trysorau gwerthfawr". • byddai ailgynllunio llwybrau yn ystyried cyflyrau lluosog cleifion • roedd ymgysylltiad clinigol wedi'i ddatblygu gan senedd glinigol • dylai'r cynllun gwasanaethau clinigol gael ei ddiweddaru ym mis Medi 2022 ochr yn ochr â diweddariad ar ymgysylltu clinigol **22/146.3** Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Glinigol	
22/147 Byw'n Iach, Aros yn Iach – adnewyddu'r strategaeth **22/147.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu yn cyflwyno canlyniad yr adborth ymgysylltu ar y strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach. Roedd y strategaeth wedi'i chymeradwyo yng ngwanwyn 2018 yn wreiddiol ac wedi bod yn destun ymgysylltu, a oedd wedi cadarnhau bod y nodau hirdymor a nodir yn y strategaeth yn parhau i fod yn briodol. **22/147.2** Amlygodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu fod yr ymgysylltu wedi digwydd yn ystod pandemig Covid, felly roedd wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag amseroedd aros, er enghraifft. Derbyniwyd yr angen i deithio ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Roedd yr adborth a dderbyniwyd wedi dylanwadu ar y cynllun tymor canolig a'r Strategaeth Glinigol. **22/147.3** Byddai ymgysylltu â'r cyhoedd yn parhau a byddai'n anelu at ymgysylltu â chymunedau anodd eu cyrraedd – gall pobl iau ymgysylltu drwy ddulliau cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd maint y garfan a atebodd yr holiadur. Byddai rôl y Grwpiau Cyflawni Gweithredol yn cael ei thrafod yn ddiweddarach	

heddiw. **22/147.4** Cymeradwyodd y Bwrdd adnewyddu'r strategaeth.	
22/148 Proses adnewyddu Cynllun Tymor Canolig Integredig **22/148.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu yn manylu ar ganlyniad craffu Llywodraeth Cymru ar Gynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd (IMTP) a gyflwynwyd ar gyfer 2022 – 2025. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynllun lefel uchel ar gyfer cyflwyniad Ionawr 2023 i Lywodraeth Cymru. **22/148.2** Nododd yr adroddiad fod cadarnhad wedi dod i law o benderfyniad y Gweinidog nad yw'r cynllun a gyflwynwyd ym mis Mawrth yn bodloni gofynion fframwaith GIG Cymru yn llawn ac felly nid yw'n cael ei gymeradwyo fel CTCI. Mae'r cynllun a gyflwynwyd wedi'i dderbyn fel Cynllun Blynyddol a bydd yn destun monitro parhaus. **22/148.3** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu wrth y bwrdd fod ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn parhau. Yr awgrym oedd y dylai'r Bwrdd ganolbwyntio ar broses gynllunio flynyddol. Nid oedd cynlluniau tair blynedd byrddau iechyd eraill wedi'u derbyn yn llawn. **22/148.4** Roedd gwaith pellach yn cael ei wneud ar broffilio gofal wedi'i gynllunio. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y Bwrdd wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'i sefyllfa yn y gorffennol. Nid oedd bwriad i ail-ysgrifennu'r cynllun yn gyfan gwbl. **22/148.5** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu ei fod yn hyderus yng ngallu'r Bwrdd i gyflwyno'r fersiwn nesaf o'r cynllun ym mis Ionawr. Roedd sgyrsiau ar y gweill a byddai'r mater yn cael ei drafod yn y Pwyllgor PPPH. Byddai crynodeb o sganio'r gorwel a wnaed ym mis Gorffennaf yn cael ei ddosbarthu. **22/148.6** Byddai'r cynllun drafft yn cael ei brofi yn erbyn cynlluniau gweithlu, digidol ac ariannol presennol ym mis Medi. Nodwyd y byddai PFIG yn ystyried fframwaith a strategaeth ariannol; daeth y Strategaeth Ystadau i ben yn 2022. Byddai'r cylch cynllunio yn cynnwys adolygiad penodol o'r strategaethau galluogi. Pwysleisiodd John Cunliffe yr angen i wneud gwelliannau o ran cost yn ystod y flwyddyn. Penderfynodd y Cadeirydd er budd amser y byddai trafodaethau pellach ar Ystadau a Chyllid yn cael eu cynnal o dan yr eitemau priodol yn ddiweddarach heddiw. **22/148.7** Cytunwyd y byddai'r adnewyddiad IMPT yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor PPPH.	**CS**

22/149 Trawsnewid a gwella diweddariad **22/149.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu yn disgrifio prif weithgareddau'r tîm trawsnewid a gwella (T&I) newydd. Roedd yr adroddiad yn disgrifio Ffordd Betsi sy'n dod i'r amlwg ac yn nodi sut mae swyddogaeth T&I yn bwriadu cefnogi y sefydliad trwy: 1. Bod yn un pwynt cydgysylltu ar gyfer yr holl waith Trawsnewid a Gwella ar draws y Bwrdd Iechyd 2. Creu rhaglen, prosiect a chanolfan ragoriaeth wella proffesiynol, cyson ac effeithiol sy'n cymhwyso dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gadarn 3. Galluogi a chefnogi sefydliad hunanwella sy'n blaenoriaethu'r ymyriadau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl **22/149.2** Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol sylw at y dull o wella gwasanaethau yn yr adroddiad (tudalen 5) a sawl adolygiad llwybr clinigol. Disgrifiodd y broses flaenoriaethu, a gynhaliwyd drwy'r tîm gweithredol. Roedd diogelwch cleifion yn thema amlwg oedd yn rhedeg trwy nifer o raglenni clinigol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y gofrestr risg yn amlygu meysydd i'w gwella. Dywedodd y Cadeirydd fod angen sicrwydd ar y Bwrdd bod y buddsoddiad yn y tîm T&I yn cael ei wireddu, gan gynnwys disgrifiad cliriach o gyflawni blaenoriaethau neu fynd i'r afael â risgiau - derbyniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol y cam hwn. **22/149.3** Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	**CS**
RISG	
22/150 Strategaeth Rheoli Risg 2022/25 **22/150.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd yn nodi, i'w gymeradwyo'n flynyddol, y Strategaeth Rheoli Risg. Roedd y drafft wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar 5 Gorffennaf a'r Pwyllgor Archwilio ar 13 Gorffennaf 2022. Byddai'r strategaeth yn gwneud rheoli risg a sicrwydd yn fwy integredig, blaengar a deinamig. **22/150.2** Roedd strategaeth yn cynnig bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd bob chwarter, gyda chefnogaeth Pwyllgorau'r Bwrdd ochr yn ochr â'u hadolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Byddai hyn yn cael ei adolygu gan y Bwrdd yn flynyddol. Roedd yr adroddiad yn cynnig y dylai'r Grŵp Rheoli Risg, sydd ar hyn o bryd yn bwydo i'r Pwyllgor Archwilio adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.	

22/150.3 Mewn perthynas ag Amcan Strategol 5 (diogelwch/ansawdd gwasanaethau) roedd yr archwaeth risg datganedig o CAUTIUS yn adlewyrchu'r statws presennol a'r amlygiad risg o ran fasgwlaidd a Digwyddiadau Byth. Nodwyd y byddai'r Strategaeth Ddigidol a'r IMTP yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth (PPPH) ac y byddai hyn yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny. Mewn perthynas â'r fframwaith Ymyrraeth wedi'i Dargedu, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth wrth symud ymlaen. **22/150.4** Y Bwrdd: 1. Cymeradwyo gweithredu'r strategaeth rheoli risg 2. Cymeradwyo'r dull seilwaith sicrwydd integredig fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad 3. Cymeradwyo'r dull diwygiedig o adolygu a monitro'r BAF fel y nodir yn atodiad 4 yr adroddiad 4. Cymeradwyo'r trefniadau goruchwylio diwygiedig ar gyfer rheoli risg fel y nodir yn adran 4	**MM** **MM**
22/151 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) 2022/23 **22/151.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu a chytuno ar y BAF diwygiedig ar gyfer 2022/23 a'r dull arfaethedig o fonitro hynny. Roedd y BAF yn cynnwys y risgiau a ystyriwyd yn fwyaf arwyddocaol i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Asesir bod rhai y tu allan i'r archwaeth risg ac roedd bylchau sylweddol mewn rheolaethau a sicrwydd. **22/151.2** Roedd yr adroddiad yn nodi sut roedd strwythur y BAF yn esblygu o dan y Strategaeth Rheoli Risg a newidiadau i gynnwys y FfGB; symudwyd chwe risg o'r hen BAF i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a chynigiwyd ychwanegu pum risg newydd at y BAF, fel y crynhoir isod gyda'r sgôr presennol: 1.1 Darparu gofal diogel yn gyson i gleifion yn YGC 20 1.2 Risg o ddarparu safonau gofal gwael yn arwain at niwed i gleifion 20 1.4 Risg o fethiant cyson i ddiwallu targedau perfformiad 16 1.7 Risg o oedi sylweddol o ran cleifion sy'n ffit yn feddygol i gael eu rhyddhau yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch a llif cleifion 16 2.3 Risg o fethiant y Bwrdd Iechyd i ddiwallu ei ddyletswydd o adennill costau, sy'n ddyledus i anallu i gyrraedd targedau ariannol 16	

Mae sicrwydd manwl mewn perthynas â'r holl risgiau a nodwyd wedi'u hymgorffori yn atodiad A yr adroddiad, a byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n fanwl i sicrhau eu bod yn gyflawn gan bwyllgorau priodol y Bwrdd cyn eu cyflwyno ymhellach i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022. **22/151.3** Tynnodd Ysgrifennydd y Bwrdd sylw at risg 2.4 yn y BAF (yn ymwneud â chyflawni cynllun tymor canolig integredig cymeradwy), a ychwanegwyd at y BAF yn wyneb y ddogfen nad oedd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, hysbyswyd y Bwrdd bod y risg cyllid bellach wedi'i gyfuno i ymgorffori cyflawniad y ddyletswydd adennill costau yn ogystal â'r targed arbedion o dan risg 2.3, oherwydd adborth a dderbyniwyd yng ngweithdy'r Bwrdd ym mis Mehefin. **22/151.4** Roedd pryder nad oedd rhai risgiau'n cael sylw gweithredol. Mewn perthynas â risg 3.2 (gwrando a dysgu) roedd pryder bod hyn yn canolbwyntio ar bryderon a godwyd gan staff yn unig ac nad oedd yn cynnwys ffynonellau rhanddeiliaid eraill. Addawodd Ysgrifennydd y Bwrdd ystyried hyn ac adrodd yn ôl i QSE ym mis Medi. Addawodd Ysgrifennydd y Bwrdd adolygu cyflwyniad cyffredinol y BAF i'r Bwrdd er mwyn ei gwneud yn haws i'w ddefnyddio. **22/151.5** Cynigiodd y Cadeirydd drafodaeth all-lein yn cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol ynghylch yr ystod o risgiau a nodwyd, a lefel y sicrwydd sydd ar gael. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn ymgorffori'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fel Cyfarwyddwr Gweithredol arweiniol ar gyfer rheoli risg. Cynigiodd John Cunliffe wneud cyfraniadau fel rhan o'r broses **22/151.6** Yn amodol ar y drafodaeth uchod, aeth y Bwrdd ati i: 1. Cymeradwyo BAF 2022/23 a'r dull arfaethedig o fonitro'r BAF fel y nodir yn adran 2 o'r adroddiad; 2. Cymeradwyo'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng ngweithdy'r Bwrdd ym mis Mehefin ar gyfer y BAF blaenorol a ddisgrifir ym mharagraff 3 3. Cymeradwyo mabwysiadu'r risgiau BAF newydd a grynhoir uchod ac a nodir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r ddogfen BAF yn amodol ar drafodaeth bellach	**MM** **MM** **MM**
22/152 Cynllun Dirprwyo Neilltuedig (SoRD) **22/152.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd yn nodi'r SoRD i'w gymeradwyo. Roedd un ar bymtheg o wahanol Gynlluniau Neilltuo a Dirprwyo gweithredol bellach wedi'u cyfuno i un ddogfen; cymeradwyodd y y Pwyllgor Archwilio y cam hwn. **22/152.2** Yn unol â'r symudiad i'r Model Gweithredu newydd, roedd y fersiwn hwn o'r SoRD wedi'i ddiweddaru ac yn galluogi safoni, cysondeb ac eglurder	

mewn perthynas â dirprwyo materion o'r Bwrdd drwy'r Tîm Gweithredol i'r Is-adrannau Gweithredol. a Gwasanaethau. Roedd ei weithrediad yn dibynnu ar y Model Gweithredu newydd. Byddai unrhyw ddiweddariadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio dros y 12 mis nesaf wrth i'r ddogfen ddatblygu ymhellach. Amlygwyd rôl bwysig y Prif Swyddogion Cyllid wrth sicrhau cydymffurfiaeth (fel gwiriad rheng flaen) â therfynau ariannol. Bydd yr eglurder a'r safoni hwn mewn perthynas â Materion Dirprwyedig yn cael eu pennu ac fe'i cyflwynir trwy un SoRD ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan, sy'n cwmpasu yr holl Is-adrannau Gweithredol a Swyddogaethau Cefnogi. **22/152.3** Nodwyd bod angen adolygiad pellach o dri maes er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau'r Bwrdd Iechyd, gan ystyried darpariaethau Rheolau Sefydlog Cymru Gyfan: Byddai eitem 47 (penodi ymgynghorwyr meddygol) yn cael ei diwygio yn unol â rheoliadau 2005. Eitem 12 (Cronfeydd Elusennol a Ddelir ar Ymddiriedaeth) nodwyd bod y SoRD yn seiliedig ar ddogfen Cymru gyfan a byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn adlewyrchu yn y fersiwn hwn statws ar wahân y Bwrdd yn rôl ymddiriedolwr. Ar eitemau 10c a 10q (Staffio) cytunwyd y dylai hyn gyfeirio at “unrhyw gamau gweithredu” mewn perthynas â'r Rhestr Perfformwyr. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bod angen mynd i'r afael ag addasiadau pellach. Cytunwyd y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn dosbarthu'r ddogfen derfynol i'r Bwrdd er gwybodaeth. Mynegwyd pryder ynghylch y defnydd anghyson o ddalen flaen y bwrdd dwyieithog y cytunwyd arno, y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ymchwilio iddi. **22/152.4** Y Bwrdd: 1. cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r SORD fel y'u hamlygwyd yn Atodiad B o'r adroddiad; 2. cymeradwyo datblygiad parhaus y lefel nesaf o fanylder (fel y cytunir ar swyddi o fewn y strwythurau) ar yr un pryd â lansiad byw y Model Gweithredu **;** 3. cymeradwyo'r arolygiaeth barhaus gan y Pwyllgor Archwilio dros y 12 mis nesaf.	**MM** **MM/SG** **MM**
22/153 Cofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) **22/153.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.	

Pwrpas yr eitem sefydlog hon oedd diweddaru'r Bwrdd ar weithgaredd ar gyfer y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) ers adolygiad diwethaf y Bwrdd ym mis Ionawr 2022, gan gynnwys yr oruchwyliaeth gan Bwyllgorau'r Bwrdd a gwaith y Grŵp Rheoli Risg. Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r newidiadau a gasglwyd yn dilyn adolygiad a diweddariad o'r risgiau ar y CRR, gan nodi'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Tîm Risg Corfforaethol. Mae'r CRR yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei rwymedigaethau o sicrhau bod systemau a phrosesau effeithiol a chynhwysfawr ar waith i asesu risgiau cyfredol ac arfaethedig y bernir eu bod yn ddigon cryf i gael effaith negyddol ar gyflawni amcanion gweithredol, tra'n gwerthuso effeithiolrwydd eu rheolaethau, a monitro. cynlluniau gweithredu cysylltiedig. **22/153.2** Tynnodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sylw at yr wyth prif risg ar y gofrestr. Amlygodd risg fasgwlaidd newydd (cyfeirnod 4476) nad oedd eto wedi'i hystyried gan y pwyllgor; risg CRR21-11 (seiberddiogelwch) i'w ystyried yng nghyfarfod preifat y Bwrdd. Roedd pryder ynghylch cysondeb a gwrthrychedd y sgôr risg ac effaith y mesurau lliniaru a nodwyd. Dylai fod ffocws cliriach ar achos ac effaith. Roedd rhai risgiau wedi bod ar y gofrestr ers 2020, a achosodd bryder am weithrediad cyffredinol y broses rheoli risg. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir unrhyw fethiannau o ran bodloni gofynion statudol. Mewn perthynas â phryder ynghylch cyflogi unigolion anaddas yn enwedig mewn rolau sy'n wynebu cleifion, disgrifiodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y broses a ddefnyddiodd y Bwrdd i reoli hyn. Roedd y mesurau lliniaru sydd ar waith yn golygu bod lefel risg is ar gyflogaeth ddiogel ar waith. Addawodd drafod y mater hwn yn unigol. **22/153.3** Nododd y Bwrdd y prif risgiau corfforaethol fel y nodir yn yr adroddiad, a'r diweddariadau i symudiadau risg yn yr adroddiad.	**SG**
Llywodraethu	
22/154 Model Gweithredu: Diweddariad ar Weithredu **22/154.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr yn rhoi diweddariad ar yr amserlen a'r trefniadau sydd ar waith i weithredu'r Model Gweithredu newydd ar gyfer y sefydliad, ac yn arbennig o ran creu'r strwythur Cyflawni Clinigol Integredig ar 1 Awst 2022. Amlinellodd yr adroddiad strwythurau i Haen 4 y sefydliad, diweddariad ar recriwtio a phenodi i rolau yn y strwythur hwn, y fframwaith llywodraethu a sicrwydd a chynllun cyfathrebu ac ymgysylltu. **22/154.2** Amlygodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig y cysylltiadau rhwng y prosesau llywodraethu a'r strwythurau newydd. Roedd risgiau sy'n gysylltiedig â'r papur yn cael eu trosglwyddo i'r gofrestr risg gorfforaethol. Roedd gwaith yn cael ei wneud i lenwi'r swyddi gweigion oedd yn weddill. Roedd gwaith partneriaeth yn cael ei gryfhau, gan gynnwys gweithredu Tîm Arwain y Bwrdd Iechyd.	

Roedd arwyddion cychwynnol bod y strwythur newydd yn cael effaith ar lawr gwlad, er enghraifft oriau agor ar y penwythnos. Mewn perthynas â rheoli risg (paragraff 7b) roedd “annog” yn golygu “disgwyliedig”. Adlewyrchwyd log risg y prosiect yn y gofrestr risg gorfforaethol. **22/154.3** Roedd pryder am: • Dyblygu ymhlith cyfarfodydd, er enghraifft y Grwpiau Cyflawni Gweithredol a'u trefniadau adrodd ar i fyny, er enghraifft i osgoi dargyfeirio Pwyllgorau Bwrdd. • Paragraff 11 c a'r gofyniad am awdurdodiadau i gynrychiolwyr ymrwymo'r Bwrdd - byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach i sicrhau ei fod yn gweithredu i gryfhau gweithio mewn partneriaeth. **22/154.4** Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	**GH**
22/155 Adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgorau a'r Grŵp Cynghori **22/155.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiadau ac uwchgyfeiriadau o’r cyfarfodydd canlynol: Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad: 03.05.22, 26.05.22 (Anhygoel), 05.07.22 Grŵp Llywio y Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Dargedu : 04.07.22, 12.05.22 Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth: 18.1.22, 3.2.22, 30.3.22, 26.4.22 a 12.7.22 Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth: 20.5.22, 12 07.22 Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol: 10.06.22 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid: 06.06.22 Pwyllgor Archwilio: 30.06.22, 13.07.22 a 22.07.22 Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth: 30.6.22 Gwahoddodd y Cadeirydd arweinwyr y cyfarfodydd hyn i amlygu pwyntiau arwyddocaol i’r Bwrdd: **22/155.2** QSE – • roedd y Pwyllgor wedi tynnu sylw'r Bwrdd at absenoldeb cynllun gwella iechyd meddwl corfforaethol y cytunwyd arno; atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd fod y gwasanaeth wedi mesurau arbennig i'r Bwrdd a'i fod bellach yn destun ymyrraeth wedi'i thargedu. Nododd y disgwyliad y bydd y cynllun gwella iechyd meddwl yn cael ei adrodd i'r QSE nesaf. • pryderon ynghylch dysgu – nid yw’r Pwyllgor yn ddigon sicr yn y maes hwn gan fod themâu sy’n codi dro ar ôl tro. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth am ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd mewn cyfarfod yn y dyfodol - rhoddodd y swyddogion gweithredol sicrwydd bod	**I**

y gwaith hwn ar y gweill. • nododd y Pwyllgor bod y Cabinet wedi adolygu cynllun gwella'r YGC **22/155.2** PPPH - • Codwyd mater uwchgyfeirio'r Bwrdd ynghylch y ffaith nad oedd y Strategaeth Ystadau newydd (Strategaeth Rheoli Asedau bellach) ar gael i'r Pwyllgor; gofynnwyd am sicrwydd y byddai'n dod i gyfarfod Pwyllgor mis Hydref; ymrwymodd y Prif Weithredwr i wirio'r sefyllfa cyn rhoi sicrwydd • Dylid cael llwybr uwchgyfeirio lle nad oedd materion y cytunwyd arnynt yn mynd rhagddynt – byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn bwrw ymlaen â hyn • Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd ynghylch uwch swyddi allweddol yn y seilwaith ystadau; cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod unigolion allweddol yn parhau yn eu swyddi • Roedd y PPPH yn cynllunio sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Perfformiad ar ymarfer recriwtio dwfn. **22/155.3** SRG - • Roedd y grŵp yn cynllunio diwrnod cwrdd i ffwrdd i wella presenoldeb a chynrychiolaeth a byddent yn adrodd yn ôl **22/155.4** Archwiliad - • Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn wir a theg amodol ar gyfrifon 2021/22, gan nad yw wedi gallu cael tystiolaeth archwilio briodol a phriodol a bod croniadau, symiau taladwy a gwariant cysylltiedig wedi'u cyfrifo'n briodol yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cywir. • Derbyniwyd pymtheg o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig; cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod dull cryfach o ymateb i archwiliadau ar waith • Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y cynllun archwilio yn cael ei adolygu mewn perthynas â materion hirdymor y Bwrdd **22/155.5** Derbyniodd y Bwrdd adroddiadau gan bwyllgorau a gweithgorau.	**JW** **MM**
PERFFORMIAD A CHYFLAWNI	
22/156 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig **22/156.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad hyd at 31 Mai, a oedd wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Yr adroddiad hwn oedd cyhoeddiad cyntaf yr IQPR yn y Bwrdd Iechyd ac roedd yn adlewyrchu uchelgais y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio technoleg i gael ddeall perfformiad gofal iechyd yn well ar draws Gogledd Cymru. Soniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am ddatblygiad yr adroddiad yn ystod y misoedd diwethaf a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w wella, gan gynnwys darparu gwybodaeth fwy diweddar. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi nodi ystod o bryderon ynghylch yr adroddiad hwn cyn y cyfarfod a bod yr adroddiad yn dal i fod yn anaddas i'r pwrpas ar hyn	

o bryd. Roedd yn aneglur ac yn cynnwys gwallau. Dywedodd y Cadeirydd y dylid cynnwys naratif gan y Pwyllgorau sy'n ei adolygu. Roedd angen i'r adroddiad ddarparu prif naratif ar berfformiad cyffredinol. Addawodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol ailgyhoeddi'r adroddiad gydag eglurhad o'r naratif. **22/156.2** Amlygodd y Cadeirydd raddfa a maint y tanberfformiad a ddangoswyd yn yr adroddiad. Ar Ofal Heb ei Drefnu roedd ffocws ar berfformiad YGC, gyda chefnogaeth rhaglen Wella Cymru. Parhaodd y gwaith gyda phartneriaid ar oedi i gleifion sy'n ffit yn feddygol i gael eu rhyddhau. O ran Gofal wedi'i Gynllunio, roedd y Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda'r Uned Gyflawni a oedd yn hapus â'r gwaith a wnaed. Roedd y Bwrdd Iechyd yn asesu risg cyfleoedd gan gynnwys defnyddio gwasanaethau Saesneg. Gofynnodd y Cadeirydd am gyfraddau salwch. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn hyderus bod cymorth llesiant staff ar gael, a bod mwy i'w wneud o ran cefnogi rheolwyr i ymdrin ag absenoldeb salwch. **22/156.3** Gofynnodd y Cadeirydd am berfformiad iechyd meddwl ac effaith y cynllun gwella: bydd y Pwyllgor QSE yn parhau i drafod y mater hwn. Roedd data diweddar yn dangos tuedd o welliant. **22/156.4** Cynigiodd y Cadeirydd weithdy bwrdd ar gynaladwyedd gofal cychwynnol a'r adroddiad perfformiad a derbyniwyd yr adroddiad.	**SH** **MM**
22/157 Adroddiad Monitro Cynllun Blynyddol **22/157.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad, y cyntaf yn y fformat newydd hwn, gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar gyfer chwarter un. Byddai naratif yn cael ei ychwanegu mewn perthynas â dangosyddion lefel ambr. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu y byddai'r pryderon ynghylch dyfnder yr wybodaeth a ddarparwyd yn cael sylw. Roedd angen cysylltu canlyniadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad â mesurau y cytunwyd arnynt yn y cynllun tymor canolig. Ar 2022.8 y llwybr troed diabetig roedd y llwybrau wedi'u cymeradwyo ac roedd recriwtio meddygon ymgynghorol yn dechrau. **22/157.2** Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	**SH** **CS** **CS/SH**
22/158 Adroddiad Cyllid – Mis 3 **22/158.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar gyfer y cyfnod1 Ebrill i 30 Mehefin 2022.	

O ran y datganiadau ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol:

- Tra bo'r archwiliad yn mynd rhagddo, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn wir a theg amodol gan nad yw wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio bod croniadau, symiau taladwy a gwariant cysylltiedig wedi'u cyfrifo'n briodol yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cywir.

- Archwiliad Cymru yn parhau i weithio i leihau unrhyw ansicrwydd gweddilliol gyda'r balansau.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod gohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac felly wedi torri rheolau sefydlog

- Trefnwyd gwiriad Sicrwydd Ansawdd Archwilio Cymru i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gwblhau'r archwiliad, cymeradwyo'r cyfrifon a chynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

22/158.2 Roedd Pwyllgor Archwilio wedi'i drefnu ar gyfer 24 Awst i lofnodi cyfrifon 2021/22. Ymddiheurodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol i'r Bwrdd am y gwallau a wnaed a oedd wedi arwain at y sefyllfa bresennol. Roedd cynllun gweithredu adferol ar waith i wella sicrwydd ac atal hyn rhag digwydd eto.

22/158.3 Fel Swyddog Atebol (AO), ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y mater wedi'i drafod yn y Pwyllgor Archwilio a diolchodd i'r Pwyllgor am y gwaith craffu a wnaeth. Cydnabu ei chyfrifoldeb fel AO ac ychwanegodd ei hymddiheuriad i'r Bwrdd. Cymeradwyodd y Cadeirydd yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio; cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r argymhellion yn cael eu gweithredu'n llawn.

O ran Mis 3, roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd ar sefyllfa anffafriol o £2.3m yn erbyn cynllun adennill costau. Roedd hyn yn welliant ar M1 ac M2. Parhaodd y Bwrdd Iechyd i ragamcanu sefyllfa o adennill costau gan fod cynlluniau ar waith i adennill costau drwy weddill y flwyddyn.

22/158.4 Roedd yr arbedion arfaethedig yn cynnwys £13.7m o gynlluniau a ragwelwyd yn erbyn cynllun o £35m, felly amrywiad anffafriol o £21m. Wrth lunio cynllun 2022/23, roedd rhaniad 50/50 rhwng arbedion trawsnewidiol a thrafodol. Teimlai'r Cyfarwyddwr Gweithredol y gellid targedu gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau. Roedd y pwysau presennol yn cynnwys cyffuriau. Roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld gwariant o £7.2m ar Covid.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at yr ystod o risgiau a nodwyd yn yr adroddiad, sef cyfanswm o £68m.

Roedd pryder nad oedd digon o gynlluniau arbed wedi'u nodi ar hyn o bryd ac a ellid cyfiawnhau rhagolwg adennill costau. Awgrymwyd hefyd y dylid dechrau gweithio ar yr arbedion ar gyfer 2023/24.

22/158.5 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr adroddiad wedi'i sicrhau - roedd gorwariant ar draws bron pob maes gweithredol, ac arbedion annigonol wedi'u nodi a'u cynllunio. Yn fyr, roedd y sefydliad yn gorwario ac roedd y perfformiad arbedion ymhell o fod ar y trywydd iawn. Amlygodd bryderon ynghylch digonolrwydd rheolaethau ariannol. Gofynnodd i PFIG adolygu'r sefyllfa yng nghyfarfod mis Awst. Galwodd ar y Prif Swyddog Gweithredol i roi sylwadau ar fesurau rheoli ariannol a chynlluniau eraill oedd gan y pwyllgor gwaith ynghylch y rhaglen arbedion. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith ar y gweill gyda chydweithwyr darparwyr i fynd i'r afael â gofynion rheolaeth ariannol ac arbedion, a bod hyn wedi'i drafod gan y tîm gweithredol yn gynharach yn yr wythnos. Teimlai fod perchnogaeth ar bob lefel yn y sefydliad o'r gofynion arbedion. Roedd arbedion y gellid eu gwireddu yn ystod y flwyddyn. Atgoffodd y Bwrdd fod cynlluniau arbedion trawsnewidiol wedi'u proffilio i'w cyflawni yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cadeiriodd gyfarfod rheolaidd gyda'r swyddogion gweithredol ar sicrhau cydbwysedd ariannol. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod sgyrsiau wedi'u cynnal o dan y model gweithredu newydd gydag arweinwyr gweithredol i helpu i ysgogi arbedion. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd fod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer 29 Medi. **22/158.6** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.	**JC**
22/159 Adroddiad Rhaglen Gyfalaf **22/159.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, a oedd yn disgrifio ffynonellau cyllid cyfalaf a'r gofynion ynghylch sut y'i gwariwyd. Roedd y dyraniad cyfalaf dewisol ar gyfer 2022/23 ychydig o dan £11m ac yn cynrychioli gostyngiad o 24% ar flynyddoedd blaenorol. Mae cyllid ychwanegol o £4.25m ar gyfer 2022/23 wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau delweddu a radiotherapi y cytunwyd arnynt ac mae nifer o achosion busnes wedi'u cyflwyno i gronfa gyfalaf Cymru Gyfan. Roedd y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf wedi nodi gofynion cyfalaf o £1.6bn dros y 10 mlynedd nesaf. Roedd yn ystyried ystod o achosion busnes, yn seiliedig ar feini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad. O ran adnewyddu'r Strategaeth Ystadau, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ceisio partner i'w gefnogi i ddiweddaru'r Strategaeth, cynllun buddsoddi cyfalaf wedi'i flaenoriaethu a rhaglen ad-drefnu ystadau. Y bwriad oedd cwblhau'r gwaith hwn ym mis Tachwedd.	

22/159.2 Nododd y Bwrdd yr adroddiad	
22/160 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021/22 **22/160.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol a chroesawodd y Cadeirydd Sally Thomas i'r cyfarfod i gefnogi'r eitem hon. Gofynnodd y Cadeirydd am y cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol, sydd bellach yn gynllun gwrth-hiliaeth. Roedd Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol wedi'i ffurfio. Roedd cydweithwyr gweithredol wedi cymryd rolau mewn perthynas â gweithredu ynghylch nodweddion gwarchodedig penodol. Amlygodd y Cadeirydd ei bod yn ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd fynychu'r rhaglen hyfforddiant amrywiaeth genedlaethol gyfredol. Byddai'n ofynnol i bob panel recriwtio a dethol gael hyfforddiant ar sail gwerth a chydraddoldeb a chynhwysiant. Ar ran Jackie Hughes, diolchodd yr Is-Gadeirydd iddi am y gwaith a gynrychiolwyd yma. Holodd ynghylch y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – nodwyd mai ciplun ydoedd a bod y gweithgorau yn edrych ar ffactorau profiad byw. Amlygwyd y Fforwm Heddwch ac Undod ar gyfer staff tramor a staff BME fel cyfle ar gyfer cefnogaeth cymheiriaid, ymgysylltu a siarad. Pwysleisiwyd bod angen cefnogi staff o dramor. Mewn perthynas â rhyddid i godi llais, roedd y Bwrdd lechyd wedi lansio ei fenter *Speak Out Safely / Codi Llais yn Ddiogel*, a oedd yn olrhain themâu yn ogystal ag ymateb i bryderon unigol. Roedd rhai straeon symbylol yn dod i'r amlwg o fforymau staff y byddai'n fanteisiol eu rhannu gyda'r sefydliad. **22/160.2** Nododd y Bwrdd yr adroddiad	
POBL AC ADNODDAU	
22/161 Adroddiad Ansawdd a Diogelwch Cleifion – Ebrill/Mai 2022 **22/161.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dywedodd fod 20 o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd yn ystod y cyfnod hwn; roedd cwympiadau wedi lleihau ac roedd gwaith yn y maes hwn yn parhau. Roedd pob digwyddiad wedi cael adolygiad *Make it Safe / Gwna Fe'n Ddiogel*. Bu 12 Digwyddiad Byth yn 2021/22; nid oedd dim i'w adrodd yn y cyfnod hwn. Cafwyd tri hysbysiad Rheoliad 28 gan y Crwner a oedd yn cael eu hadolygu. Roedd y ddau ymateb ar gyfer y Crwner oedd i'w cyflwyno fis Gorffennaf wedi cyrraedd mewn pryd. Roedd cynnydd mewn cwynion ffurfiol ac roedd y gyfradd ymateb a nifer y digwyddiadau hwyr yn cael eu hadolygu a byddai'r gwaith hwn yn cael ei adrodd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Nodwyd bod adroddiad yn dod i QSE ar hysbysiadau Rheoliad 28, y broses ar gyfer dysgu oddi wrthynt ac ar gyfer rhoi sicrwydd o ran cwblhau.	

Cadarnhawyd bod “camau gofal ar ddirywiad” wedi'u cwblhau a bod archwiliadau rheolaidd ar y gweill. Mewn perthynas â chwynion a chyfreitha, y nod oedd creu diwylliant cyfiawn sy'n dysgu. Cymerwyd unrhyw dystiolaeth o faterion ymddygiad neu allu o ddifri ac ymdriniwyd â hwy drwy brosesau priodol. Roedd y staff yn cael eu cefnogi'n briodol drwy'r broses hawlio. Cynhyrchwyd adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol – cyflwynwyd hwn i Gronfa Risg Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gysylltu â Chadeirydd QSE yn hyn o beth. Gofynnodd hefyd y dylai fod mwy o eglurder ynghylch pryd y byddai camau gwella yn cael eu cwblhau. **22/161.2** Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	**AW**
22/162 Diweddariad Gwasanaeth Fasgwlaidd Gogledd Cymru **22/162.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a oedd yn disgrifio’r cynnydd o ran cyflawni’r Cynllun Gwella Fasgwlaidd yn deillio o adolygiad gwahoddiad i adolygu gan Goleg y Llawfeddygon (RCS) a gwaith parhaus i sicrhau bod gwasanaethau fasgwlaidd yn cael eu darparu’n ddiogel ar ffurf y model “*hub and spoke*” a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2019. Mae’r model yn ymhél â phwysau gweithredol. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad cyntaf o’r adolygiad gwadd ym mis Mawrth 2021 a’r ail adroddiad ym mis Chwefror 2022. Mewn ymateb i'r adroddiad cyntaf, sefydlwyd grŵp i ddatblygu a goruchwylio cynllun gwella. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) a chynrychiolaeth lleyg. Ym mis Tachwedd 2021, adolygwyd Cylch Gorchwyl y grŵp a daeth y grŵp yn Grŵp Llywio Fasgwlaidd sydd bellach yn cyfarfod bob mis dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (EMD). Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf (QSE) yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y Cynllun Gwella Fasgwlaidd. Roedd yr ail adroddiad gan yr RCS yn ymwneud ag adolygiad o nodiadau achos o 50 set o nodiadau. Roedd y Coleg yn gallu adolygu 47 set o nodiadau a mynegodd bryderon am y gofal a dderbyniwyd gan gleifion ac ansawdd y ddogfennaeth. Arweiniodd dau Ddigwyddiad Byth yn y gwasanaeth a phryderon eraill yn ymwneud â diogelwch a chynaliadwyedd at Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) ym mis Mawrth 2022 wedi dynodi’r rhwydwaith fasgwlaidd yn Wasanaeth sydd Angen Gwelliant Sylweddol. Mewn ymateb i'r pryderon diogelwch hyn, cyflwynwyd cyfres o fesurau ychwanegol i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Adolygwyd y mesurau hyn yn rheolaidd a dilëwyd dau ofyniad (gan gynnwys llawdriniaeth gan feddygon ymgynghorol deuol) ym mis Mai 2022 yn dilyn asesiad risg manwl ac ategwyd gan gyngor fasgwlaidd allanol. Ar 8 Gorffennaf 2022 cododd Cadeirydd y VQP bryderon diogelwch mewn	

perthynas â rheoli cleifion aortig yn dilyn cwblhau adolygiad o nodiadau 11 claf. Derbyniodd yr EMD dri argymhelliad i'w gweithredu ar unwaith. Adnoddau posibl: 1. Ailgyflwyno llawdriniaeth ymgynghorydd deuol (ar gyfer cleifion aortig yn unig) 2. Cynnwys canolfan arbenigol yng nghyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) ar gyfer pob achos aortig 3. Recriwtio llawfeddyg fasgwlaidd gyda phrofiad aortig. Rhoddwyd argymhellion 1 a 2 ar waith ar unwaith ac maent yn parhau i fod mewn grym. Cefnogir y tîm amlddisgyblaethol gan Ymddiriedolaeth Sefydledig Ysbyty Prifysgol Lerpwl (LUHFT). Mewn dau achos, roedd y gofyniad gweithredu gan feddygon ymgynghorol deuol yn effeithio ar restrau aros. Fodd bynnag, nid yw hi wedi bod yn angenrheidiol i drosglwyddo unrhyw gleifion hyd yn hyn. Roedd cleifion fel arfer yn cael eu gweld fel rhan o BIPBC cyn cael eu trosglwyddo. **22/162.2** Nododd y Bwrdd yr adroddiad a gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol roi gwybod i'r Bwrdd am y mater hwn.	**NL**
CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU	
22/163 Diweddariad Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu **22/163.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn rhoi triongliad o weithgarwch ymgysylltu ar draws swyddogaethau i ddangos ehangder y gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws BIPBC a nodwyd hynny.	
BUSNES I GLOI	
22/164.1 Adolygiad o'r Risgiau a Amlygwyd yn y Cyfarfod Dim i'w nodi.	
22/165 Crynodeb o Fusnes y Bwrdd Preifat i'w Adrodd yn Gyhoeddus **22/165.1** Ystyriodd y Bwrdd Iechyd y materion canlynol mewn sesiwn breifat ar 26 Mai 2022: • Achos Amlinellol Strategol (SOC) Iechyd a Lles Bangor • Cytundeb Microsoft Enterprise **Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.	
22/166 Dyddiad Cyfarfod Nesaf y Bwrdd • 29 Medi 2022	
22/167 Eithrio aelodau o'r Wasg a'r Cyhoedd	

22/167.1 Penderfynwyd gofyn i gynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd adael gweddill y cyfarfod hwn o ystyried natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, y byddai cyhoeddusrwydd yn ei gylch yn niweidiol i les y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad at Gyfarfodydd) 1960.	

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Stori'r Claf			
Adrodd i: ***Report to:***	Bwrdd Cyhoeddus			
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Dydd Iau, 29 Medi 2022			
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Cyflwynir stori'r claf i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y claf yn uniongyrchol i'r cyfarfod. Bydd stori ddigidol y claf yn cael ei chwarae yn y cyfarfod. Mae crynodeb byr wedi ei gynnwys yn y papur sydd ynghlwm.			
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn ac ystyried stori'r claf.			
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth			
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Ansawdd			
Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☐	I Benderfynu arno *For Decision* ☐	Am sicrwydd *For Assurance* ☒	
Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Derbyniol *Acceptable* ☒ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhannol *Partial* ☐ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*
Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: ***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***				
Yn unol ag arferion gorau, cyflwynir stori'r claf i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y claf yn uniongyrchol i'r cyfarfod; nid yw'n cael ei gyflwyno fel eitem sicrwydd. Fodd bynnag, mae'r papur cysylltiedig yn disgrifio rhywfaint o'r dysgu a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r stori.				
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	Ansawdd			
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	Amh.			
Yn unol â WP7, a oedd EqlA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqlA been identified as necessary and undertaken?***	Amh.			
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?***	Amh.			
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan	Amh.			

gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)***	
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith* ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	Amh.
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Amh.
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Amh.
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	Amh.
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)***	Amh.
Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion ***Next Steps: Implementation of recommendations*** Amh.	
Rhestr o Atodiadau: ***List of Appendices:*** Taflen crynodeb Stori'r Claf – bydd stori ddigidol yn cael ei chwarae yn y cyfarfod.	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gofal Cardiaidd – Stori Meddygfa Rysseldene

Bydd stori fideo wedi'i hadrodd gan Cheryl Williams, Uwch Ymarferydd Nyrsio, a chleifion sy'n mynd i Feddygfa Rysseldene yn cael ei chwarae yn ystod y cyfarfod.

Trosolwg o Stori'r Claf

Mae'r stori'n gasgliad o brofiadau cleifion sy'n mynd i'r Clinig Gofal Cardiaidd, Gofal Sylfaenol arbenigol, ym Meddygfa Rysseldene ym Mae Colwyn.

Mae Cheryl Williams, Uwch Ymarferydd Nyrsio, wedi bod yn y swydd ers 12 mis ac mae hi'n arbenigo mewn Cardioleg yn y feddygfa. Mae'r Clinig Cardiaidd yn helpu i leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty drwy ddarparu cymorth, gofal a thriniaeth yn lleol i gleifion. Mae'r Clinig Cardiaidd yn helpu i bontio'r bwlch rhwng Gwasanaethau Cardioleg Gofal Sylfaenol ac Eilaidd.

Mae adborth diweddar wedi dangos bod y gwasanaeth hwn o fudd mawr i gleifion a'u gofalwyr di-dâl.

Crynodeb o Ddysgu a Gwelliannau

Mae'r casgliad o straeon cadarnhaol am gleifion o'r Clinig Cardiaidd wedi cael ei rannu â thîm Meddygfa Rysseldene a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi, a bydd yn cael ei rannu'n ehangach er mwyn hyrwyddo arferion gorau.

Pwyntiau dysgu allweddol a rannwyd:

- Profiad rhagorol cyffredinol o'r Clinig Gofal Cardiaidd o safbwynt y claf a'r gofalwr.
- Dulliau cyfathrebu gwell a mynediad haws at gyngor a chyfeirio Cardioleg arbenigol.
- Mynediad at ofal lleol sy'n lleihau'r angen i gleifion gael gafael ar wasanaethau Gofal Eilaidd.
- Staff cefnogol sy'n deall anghenion y cleifion a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Model arferion da y gellir ei efelychu ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r stori hon yn tynnu sylw at brofiadau cadarnhaol ac fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin diwylliant dysgu o brofiad cleifion, mae dysgu o brofiad cadarnhaol yr un mor bwysig i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael profiad cadarnhaol cyson o'u gofal.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r holl gleifion, gofalwyr a staff a rannodd eu profiadau.

Bwrdd Iechyd – 29 Medi 2022

Teitl yr Adroddiad: Adroddiad y Prif Weithredwr

Sefyllfa

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am faterion sy'n effeithio ar y sefydliad a thynnu sylw at feysydd amserol sydd o ddiddordeb i'r Bwrdd.

Mae rhai o'r materion sy'n cael eu codi yn yr adroddiad hwn yn cael mwy o sylw yn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel rhan o fusnes cyhoeddus y Bwrdd.

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am faterion sy'n effeithio ar y sefydliad, gwaith allanol gyda phartneriaid a gwasanaethau sy'n cael eu cydnabod drwy enwebiadau a gwobrau.

Mae papurau penodol ar agenda cyfarfod y Bwrdd Iechyd sy'n rhoi sylw i'r blaenoriaethau presennol, gan gynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu, gwasanaethau fasgwlaidd, Ymyriadau wedi'u Targedu a chynllunio tymhorol. Felly, nid yw'r materion hyn yn cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Asesu a Dadansoddi

Gweithgareddau Allanol / Partneriaeth

Cyfarfodydd Comisiynu Cymru Gyfan

Cymerais ran mewn cyfarfodydd comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Yn y ddau gyfarfod, rhoddwyd sylw i faterion o bwys o ran darparu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru fel a ganlyn:

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Trafodwyd yr eitemau canlynol sydd o ddiddordeb i'r Bwrdd:

- Trafodwyd y trefniadau ymgysylltu arfaethedig i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol ddiwygiedig. Bydd y

strategaeth hon yn cynnwys yr holl wasanaethau a gomisiynir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a bydd yn cyfeirio at y trefniadau penodol sy'n bodoli ar gyfer trigolion gogledd Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau yng ngogledd orllewin Lloegr. Bydd yr ymgysylltu'n digwydd rhwng 20 Medi a 22 Rhagfyr a bydd yn cynnwys sesiynau datblygu penodol ar gyfer Byrddau Iechyd; manylion i'w cadarnhau. Disgwylir i'r strategaeth gael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

- Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth 5 Mlynedd ddrafft ar gyfer Gwasanaethau Pediatrig Arbenigol sydd wedi cael ei datblygu yn dilyn cyfnod o ymgysylltu. Roedd y gwaith datblygu'n cynnwys grŵp penodol a oedd yn ystyried anghenion Gogledd Cymru a chlinigwyr o'r Bwrdd Iechyd sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn. Bydd y strategaeth nawr yn cael ei chwblhau a'i chyhoeddi maes o law.
- Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod y newidiadau posibl i'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol sydd wrthi'n cael ei datblygu. Mae'r gweithdrefnau hyn yn ystyried ceisiadau unigol am fynediad at wasanaethau arbenigol nad ydynt ar gael yn eang. Bydd diwygiadau arfaethedig i'r broses lywodraethu yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys - Ambiwlans Awyr Cymru

Ar 6 Medi, cymerais ran mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, sy'n goruchwylio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru. Yn y cyfarfod hwn, rhoddodd y comisiynwyr gyflwyniad ar y gwaith y maent yn ei wneud ar y cyd ag Elusen Ambiwlans Awyr Cymru i gynnal adolygiad strategol o weithrediadau'r Elusen. Nod yr adolygiad hwn yw gwneud y defnydd gorau posibl o asedau'r elusen er mwyn cyrraedd cynifer o gleifion â phosibl. Bydd y gwaith hefyd yn cyfrannu at ymarfer caffael mewn perthynas â chontractau hedfan yr elusen a fydd yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae dadansoddiadau cynnar wedi dangos y byddai modd cyflawni dros 500 o deithiau ychwanegol pe byddai'r defnydd o adnoddau'n newid. Cynigir uno canolfan y Trallwng â chanolfan gogledd Cymru i greu un adnodd ar gyfer gogledd Cymru. Nid yw lleoliad y ganolfan arfaethedig hon wedi'i bennu eto. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ar hyn o bryd ac mae llawer o waith ymgysylltu i'w wneud â rhanddeiliaid cyn cyflwyno rhagor o wybodaeth i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol, a hynny cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Bydd angen i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys fod yn hapus bod y cynigion, pan fyddant wedi'u cwblhau, yn rhai y gellir eu cyflawni a hynny'n unol ag anghenion polisi a gwasanaeth.

Mae'r Elusen wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth am yr adolygiad, sydd ar gael ar ei gwefan: Air Ambulance could reach hundreds more patients thanks to analysis | Welsh Air Ambulance Charitable Trust (walesairambulance.com)

Cyfarfod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bartneriaeth ar 22 Gorffennaf. Roedd y drafodaeth yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau pwysig, gan gynnwys:

- Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau – mae'r prosiect hwn yn ceisio moderneiddio'r dull o gyflenwi meddyginiaethau i ysbytai drwy ddatblygu canolfannau gweithgynhyrchu a dosbarthu rhanbarthol. Mae'r cyntaf o'r rhain bellach ar agor yng Nghwmbrân. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda staff yng ngogledd Cymru ynglŷn â'r model ar gyfer darparu yn ein hardal yn y dyfodol. Wrth i gynigion gael eu datblygu, bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu.
- Golchdy – Mae Gwasanaethau golchi bellach yn cael eu darparu i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Fel rhan o'r gwasanaeth cenedlaethol hwn, mae ymrwymiad i ddisodli a moderneiddio hen olchdai, gan gynnwys yr un yn Ysbyty Glan Clwyd. Cafodd yr achos busnes amlinellol ar gyfer disodli'r golchdy yn Ysbyty Glan Clwyd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r cynnig ar gyfer de orllewin Cymru.
- Caffael – rhoddwyd cyflwyniad ar y model gweithredu newydd ar gyfer gwasanaethau caffael. Mae'r amcanion ar gyfer y model newydd yn cynnwys elwa mwy ar gyfleoedd ar gyfer caffael rhanbarthol a Chymru gyfan; sicrhau cefnogaeth i fentrau cenedlaethol fel datgarboneiddio, yr economi sylfaenol a gwerth cymdeithasol, a defnyddio adnoddau caffael arbenigol yn fwy effeithiol.

Mae crynodeb o'r cyfarfod yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, fe wnaeth y Tîm Gweithredol gwrdd â chydweithwyr o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i drafod blaenoriaethau lleol. Roedd hyn yn cynnwys sylw penodol ar y gweithlu a recriwtio, lle mae gwasanaethau'r Bartneriaeth yn hanfodol i'n prosesau a'n gweithgareddau recriwtio lleol.

Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth

Ym mis Awst, fe wnaeth aelodau'r Tîm Gweithredol gwrdd â'r Tîm Gwerth mewn Gofal Iechyd cenedlaethol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau presennol a thrafod sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol. Amlinellodd y tîm cenedlaethol y dull o ddatblygu Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth (VBHC) yng Nghymru a'r blaenoriaethau strategol sy'n cael eu dilyn.

Fel rhan o'r dyraniad ariannol ar gyfer 2022/23, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael £3.4m mewn adnoddau i gefnogi'r gwaith o fabwysiadu VBHC yn gyflym. Mae rhaglen waith bresennol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys ailgynllunio sylweddol o ran gwasanaethau diabetes, gofal traed diabetig, canser y brostad a syndrom twnnel y carpws. Mae'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i gleifion tra'n dangos bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae'r prosiectau VBHC sy'n cael eu datblygu yn y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gwasanaethau methiant y galon
- Gwasanaethau lymffoedema
- Rhagsefydlu

- Gofal sylfaenol ICAN

Mae'r camau hollbwysig nesaf yn natblygiad y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu VBHC yn cynnwys y canlynol:

- datblygu strwythur llywodraethu cadarn i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu llwybrau a phrosiectau byw
- datblygu rhaglen rithwir VBHC i barhau i nodi a hyrwyddo mentrau gydag egwyddorion VBHC cryf
- datblygu ac adolygu'r Dull Gweithredu VBHC ymhellach, gan wella ymgysylltiad a dangos cynnydd drwy'r Matrics Aeddfedrwydd VBHC

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r tîm cenedlaethol i fanteisio ar eu hadnoddau a'u harbenigedd wrth i ni gyflwyno ein rhaglen waith.

Ysgol Feddygol Gogledd Cymru

Ym mis Ebrill 2022 ffurfiodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Rhaglen i fwrw ymlaen â cham tri o'r gwaith o ddatblygu ysgol feddygol annibynnol yng Ngogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn cael ei gadeirio gan Is-Ganghellor Prifysgol Bangor ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol feddygol yng Nghymru, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ogystal â Swyddogion Llywodraeth Cymru ac AaGIC.

Mae'r grŵp yn goruchwylio gwaith yn y meysydd canlynol:

- Cynllunio'r gweithlu i gyfrifo nifer y myfyrwyr meddygol a meddygon sylfaen
- Cadarnhau niferoedd y myfyrwyr mynediad israddedig ac ôl-raddedig ar gyfer yr Ysgol Feddygol annibynnol yng ngoleuni'r uchod
- Llunio dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer lleoliadau wedi'i gymeradwyo ar y cyd gan bob Ysgol Feddygol yng Nghymru

Ffocws ein gwaith lleol ers sefydlu'r Bwrdd Rhaglen fu datblygu rhagor o fanylion ynglŷn â'r gofynion o ran y cwricwlwm a lleoliadau. Mae'r cam hwn o'r gwaith yn ceisio cyfuno anghenion y cwricwlwm a lleoliadau â gofynion o ran llety a staff. Yn ogystal, mae cymorth allanol wedi cael ei gomisiynu i ddatblygu cynigion buddsoddi cyfalaf i hwyluso'r gwaith o ddarparu'r llety angenrheidiol.

Mae'r gwaith hwn wedi bod yn mynd rhagddo dros fisoedd yr haf a disgwylir y bydd yn dod i ben yn yr hydref pan fydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Mae'r broses o oruchwylio ein gwaith lleol yn parhau i gael ei darparu drwy ein trefniadau llywodraethu ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod datblygiad yr ysgol yn mynd rhagddo yn unol â'n cynllun a'n hamserlen.

Sefydlu'r Hyb Lles yn Wrecsam

Yn ystod mis Medi, daeth y gwaith o ddatblygu'r Hyb Lles yn Wrecsam, un o nifer o fentrau ar y cyd o'r fath ar draws gogledd Cymru, i ben. Mae'r Hyb Lles yn fenter atal ac ymyrryd yn

gynnar sydd wedi'i chreu ar y cyd gan bartneriaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam) a'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn darparu cyfleoedd ymgysylltu, cyngor, a chymorth integredig yn y meysydd trydydd sector, gofal cymdeithasol, iechyd a chymuned ar gyfer y cyhoedd. Mae'r Hwb wedi'i ddylunio i fod yn lle hygyrch i bawb ac yn adnodd cymorth sylweddol i'r boblogaeth leol o ran hybu iechyd a lles.

Gweithgareddau Mewnol

Rhoi'r Model Gweithredu ar Waith

Ers 1 Awst, mae'r gwaith o roi'r model gweithredu newydd ar waith wedi dechrau. Mae penodiadau mewnol wedi cael eu gwneud i swyddi uwch drwy'r broses newid sefydliadol, gyda secondiadau a phenodiadau dros dro yn cael eu gwneud i lenwi'r bylchau presennol wrth recriwtio'n barhaol. Bydd cyfweliadau ar gyfer y ddwy swydd Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig sydd ar ôl yn cael eu cynnal ar 22 a 23 Medi ac ar gyfer y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Clinigol Integredig – Gofal Sylfaenol ar 26 a 27 Medi. Mae'r broses recriwtio ar gyfer y Cyfarwyddwyr Nyrsio IHC sydd ar ôl wedi dod i ben a bydd dyddiadau cyfweliadau'n cael eu cadarnhau'n fuan. Bydd y cyfweliadau ar gyfer y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Clinigol Integredig – Gwasanaethau Rhanbarthol yn cael eu cynnal ar 10 Hydref.

Bydd Tîm Arwain newydd y Bwrdd Iechyd, sy'n dod â Chyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch arweinwyr o feysydd gwasanaeth at ei gilydd, yn cwrdd am y tro cyntaf ar 5 Hydref. Sefydlwyd trefniadau atebolrwydd ar gyfer Cymunedau Iechyd Integredig, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Merched a Gwasanaethau Rhanbarthol, a chynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf ym mis Awst. Bydd y rhain nawr yn cael eu cynnal bob dau fis.

Mae cefnogaeth bersonol a hyfforddiant wedi cael eu darparu i staff sydd wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau yn y model gweithredu. Mae datblygu arweinyddiaeth ar gael i dimau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r broses bontio. Bydd digwyddiad rhwydweithio yn cael ei gynnal ar 30 Medi i ddod ag arweinwyr newydd a thimau newydd at ei gilydd i ddechrau adeiladu tîm arwain ehangach y Bwrdd Iechyd.

Rhaglen Pigiad Atgyfnerthu COVID

Dechreuodd rhaglen pigiad atgyfnerthu'r hydref ar 1 Medi yn unol â'r gofynion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae llythyrau gwahoddiad i'r rheini sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen yn cael eu cyhoeddi a dechreuodd y cyntaf 'r rhain gyrraedd cartrefi pobl ddydd Sadwrn 20 Awst.

Yn yr un modd â'r rhaglenni blaenorol, bydd yn cael ei darparu drwy gyfuniad o weithgareddau mewn Practisiau Meddygon Teulu, Fferyllfeydd Cymunedol a Chanolfannau Brechu Byrddau Iechyd. Bydd cyfraniad cydweithwyr mewn gofal sylfaenol ochr yn ochr â staff y Bwrdd Iechyd yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen. Bydd cydweithwyr gofal sylfaenol yn darparu'r brechiad i'w cleifion cymwys tra bydd staff y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ddarparu'r brechiad mewn cartrefi gofal, i'r rheini sy'n gaeth i'w cartrefi ac i staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Archwiliad Cenedlaethol o Ddementia

Gan ddechrau ar 19 Medi, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn yr Archwiliad Cenedlaethol o Ddementia, sef rhaglen archwilio clinigol a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru. Mae'n edrych ar ansawdd y gofal y mae pobl â dementia yn ei gael mewn ysbytai cyffredinol.

Mae'r archwiliad yn arfaethedig a bydd yn adnabod cleifion sy'n cael eu derbyn i'n hysbytai am 24 awr neu fwy, sydd wedi cael diagnosis o ddementia neu sydd ag amheuaeth o ddementia ac yna'n cynnal adolygiadau o nodiadau achos yn yr hydref. Ddechrau 2023, bydd cam pellach o waith i archwilio'r trefniadau rhyddhau. Mae'r archwiliad hefyd yn cynnwys arolygon o Gleifion a Gofalwyr.

Mae'r archwiliad yn cael ei arwain gan Dr Indrajit Chatterjee sydd hefyd yn cydlynu cyfraniad Ysbyty Glan Clwyd. Yr Arweinwyr Clinigol eraill yw Dr Sam Abraham (Maelor Wrecsam) a Dr Conor Martin (Ysbyty Gwynedd). Mae tîm craidd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cefnogi'r archwiliad yn ogystal â chyfraniad gan gydweithwyr y Cydweithrediad Rhanbarthol Dementia ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae manylion yr amserlen a chynnwys yr archwiliad ar gael yma timeline-and-content-summary.pdf (rcpsych.ac.uk)

Croeso i'n cydweithwyr newydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ar ddiwedd y mis, bydd nifer o'n cydweithwyr a gyflogir ar hyn o bryd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yng ngogledd Cymru yn trosglwyddo i ddod yn aelodau parhaol o Dîm Betsi. Bydd 37 o unigolion yn ymuno â ni fel rhan o'r newid hwn, sy'n rhan o waith ehangach i ailstrwythuro adnoddau Iechyd y Cyhoedd ledled y wlad. Gall hyn ond fod yn fuddiol i'n Bwrdd Iechyd ac i'n ffocws ar lwybrau rhanbarthol a bydd yn ategu ein ffocws ar iechyd y boblogaeth.

Dros yr wythnosau sydd i ddod, caiff adnoddau'n ymwneud ag Iechyd y Cyhoedd eu datblygu ar BetsiNet, a gobeithiwn y bydd hyn yn helpu pawb i ddeall y gwaith cyffrous sy'n cael ei wneud ym maes Iechyd y Cyhoedd, yn ogystal â'ch helpu i fanteisio ar arbenigedd y tîm pan fo angen.

Gwobrau ac Enwebiadau

Cofrestr Genedlaethol y Cymalau (NJR) – Gwobr Darparwr Data Safonol

Dyfarnwyd Gwobr Darparwr Data Safonol NJR i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/22 yn nau o'i safleoedd ysbyty, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

Mae cynllun 'Darparwr Data Safonol NJR' wedi cael ei lunio i roi cydnabyddiaeth gyhoeddus i ysbytai am sicrhau rhagoriaeth o ran cefnogi'r gwaith o hyrwyddo safonau diogelwch cleifion drwy gydymffurfio â phroses archwilio ansawdd cyflwyno data gorfodol Cofrestr Genedlaethol y Cymalau.

Er mwyn ennill statws Darparwr Data Safonol ar gyfer 2021/22, roedd yn rhaid i ysbytai gyrraedd y targedau ar gyfer arferion gorau; cynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd casglu data o ansawdd a gwreiddio'r ethos bod data trylwyr a chywir yn galluogi'r NJR i ddatblygu canlyniadau gwell i gleifion.

Health Service Journal - Enwebiad Gwobr Diogelwch Cleifion; Gwasanaethau Methiant y Galon

Mae gwasanaethau Methiant y Galon yn y Bwrdd Iechyd wedi cael eu henwebu am wobr genedlaethol bwysig yn dilyn prosiect cydweithredol i ddefnyddio technoleg ffonau symudol i helpu i fonitro cleifion. Mae'r prosiect yn gydweithrediad â BILI Cwm Taf Morgannwg, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Huma, cwmni technoleg iechyd o Lundain.

Mae'r gwaith cydweithredol hwn i fonitro cleifion methiant y galon o bell wedi cael ei ddewis ar gyfer rownd derfynol Gwobrau Diogelwch Cleifion HSJ 2022 yn y categori Menter Gofal Rhithwir neu Ofal o Bell y Flwyddyn.

Yn ystod y prosiect, roedd monitro cleifion drwy ap ffôn clyfar yn atal aildderbyniadau ac yn cyflymu'r broses o ryddhau cleifion. Roedd cleifion yn anfon data gan gynnwys eu pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon, lefelau ocsigen a manylion symptomau sy'n datblygu i'w tîm clinigol ar ap. Roed y ffigurau'n cael eu casglu ar "ddangosfwrdd", a oedd yn tynnu sylw at unrhyw arwyddion y gallai fod angen cymorth meddygol ar glaf, gan ganiatáu i feddygon a nyrsys ddod â nhw i'r ysbyty neu newid eu meddyginiaeth yn ôl yr angen.

Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn digwyddiad ym Manceinion ar 15 Medi.

Gwobrau GIG Cymru a Gwobrau Cenedlaethol Rhwydwaith Profiad y Claf; dylunio gwasanaeth Covid-19 Hir

Mae gwaith y Bwrdd Iechyd o gynnwys pobl sy'n byw gyda Covid-19 Hir yn nyluniad ein llwybr gwasanaeth wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol. Mae'r rhaglen wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau GIG Cymru ac mae wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cenedlaethol Rhwydwaith Profiad y Claf.

Dyma enghreifftiau o sut mae cleifion wedi dylanwadu ar ddyluniad gwasanaeth Covid-19 Hir:

- Yr awgrym ar gyfer cynnwys gwasanaethau cymorth iechyd meddwl fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth Covid-19 Hir.

- Yr argymhelliad i gynnwys proses hunanatgyfeirio yn ogystal â phroses atgyfeirio meddygon teulu. Dyma'r broses hunangyfeirio gyntaf ar gyfer Covid Hir yn y Deyrnas Unedig. Mae'r broses hunanatgyfeirio yn helpu i leihau unrhyw rwystr mae cleifion yn ei wynebu wrth gysylltu â'u meddyg teulu ac yn rhoi mynediad haws i gleifion at wasanaethau, gan rymuso cleifion i fod yn gyfrifol am reoli eu gofal eu hunain
- Ail-siapio cynnwys a chyflwyniad cwrs hunan-reoli EPP Covid Hir i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion cleifion.
- Cynnwys cleifion yn y broses o gytuno ar leoliadau clinigau i sicrhau bod ardal ddaearyddol gyfartal ar draws gogledd Cymru.
- Yn unol â chyfarwyddyd Cynrychiolwyr Profiad Go Iawn, mae'r broses hunanatgyfeirio yn cael ei hyrwyddo ar draws sefydliadau gofal sylfaenol, eilaidd, cymunedol a thrydydd sector fel Gofalwyr Cymru a'r Samariaid.
- Datblygu sesiynau clinig grŵp ar-lein. Gall y grwpiau ar-lein hyn fod yn fwy hygyrch i gleifion os ydynt yn cael trafferth teithio i leoliad clinigol ar gyfer eu hapwyntiad. Gall cleifion hefyd elwa ar gymorth gan gymheiriaid drwy fynychu sesiynau clinig grŵp.

- Yn dilyn cwblhau'r cwrs hunanreoli EPP ar gyfer Covid Hir, mae llwybr clir wedi ei ddiffinio ar gyfer cleifion sydd eisiau cymryd rhan yn y broses o rannu eu profiadau. Mae amrywiaeth o ddewisiadau i gymryd rhan yn cael eu datblygu a'u rhoi i gleifion ar ôl cwblhau'r cwrs; mae enghreifftiau o gymryd rhan yn cynnwys rhannu eu profiad drwy stori claf.

Argymhelliad

Bod y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad.

ATODIAD 1

ADRODDIAD SICRWYDD

PWYLLGOR PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU

Pwyllgor Adrodd	**Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau**
Cadeiriwyd gan	Tracy Myhill, Cadeirydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Swyddog Gweithredol Arweiniol	Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)
Awdur a manylion cyswllt.	Peter Stephenson, Pennaeth Cyllid a Datblygu Busnes
Dyddiad y cyfarfod	21/07/2022

Crynodeb o'r materion allweddol yn cynnwys cyflawniadau a chynnydd a ystyriwyd gan y Pwyllgor ac unrhyw benderfyniadau cysylltiedig a wnaed.

Materion sy'n Codi – Diweddariad Caffael

Rhoddodd Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael, yr wybodaeth ddiweddaraf am y Model Gweithredu Newydd ar gyfer Caffael. Roedd hwn yn adeiladu ar y cyflwyniad cychwynnol a roddwyd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr eleni, ac roedd yn canolbwyntio'n benodol ar bersbectif sefydliadau GIG Cymru fel cwsmeriaid y gwasanaeth.

Mae'r amcanion ar gyfer y model newydd yn cynnwys elwa mwy ar gyfleoedd ar gyfer caffael rhanbarthol a Chymru gyfan; sicrhau cefnogaeth i fentrau cenedlaethol fel datgarboneiddio, yr economi sylfaenol a gwerth cymdeithasol, a defnyddio adnoddau caffael arbenigol yn fwy effeithiol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy gyfres ddiwygiedig o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Fe wnaeth y Pwyllgor **NODI'R** diweddariad.

Materion sy'n Codi – Diweddariad Recriwtio

Rhoddodd Gareth Hardacre, Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth, drosolwg llafar o'r cynnydd gyda'r cynllun moderneiddio ar gyfer Recriwtio. Cafwyd deialog effeithiol gyda Chyfarwyddwyr y Gweithlu, gan arwain at sefydlu Bwrdd Rhaglen i oruchwylio datblygiad y cynllun. Mae'r symudiadau i roi technoleg ar waith i hwyluso gwirio ID yn fwy effeithiol yn dal ar y trywydd iawn ar gyfer mis Awst ac mae'n aros am gymeradwyaeth derfynol y Llywodraeth.

Fe wnaeth y Pwyllgor **NODI'R** cyflwyniad.

Adroddiad y Cadeirydd

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gweithgareddau y bu hi'n ymwneud â nhw ers cyfarfod mis Mai. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Mynychu sesiwn ddatblygu gyda Bwrdd Ymddiriedolaeth Felindre ar 28 Mehefin i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am ddatblygiadau diweddar ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac i asesu sut gall yr Ymddiriedolaeth a'r Bartneriaeth weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd;
- Parhau i gwrdd â Chyfarwyddwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a chynnal ymweliad pellach ag IP5; a
- Mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Cronfa Risg Cymru yn ystod mis Gorffennaf.

Roedd gan y Cadeirydd ddau bapur hefyd fel rhan o'i chyflwyniad a oedd fel a ganlyn:

- Roedd y cyntaf yn ymwneud ag ailnegodi'r contract ar gyfer Trwyddedau Microsoft GIG Cymru lle roedd y gwaith wedi cael ei arwain gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y dyraniadau ariannol ar gyfer holl sefydliadau GIG Cymru, ac oherwydd yr angen i gytuno ar hyn erbyn diwedd mis Mai, roedd y papur eisoes wedi cael ei gymeradwyo drwy Gam Gweithredu gan y Cadeirydd. Cadarnhaodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd a chymeradwyo'r papur;
- Roedd yr ail bapur yn ymwneud â'r cynnig i'r Pwyllgor gael sesiynau datblygu yn yr hydref er mwyn rhoi amser i aelodau'r Pwyllgor drafod sut y gall fod yn fwy effeithiol yn ei rôl er budd holl sefydliadau GIG Cymru. Roedd y papur yn awgrymu'r opsiwn o naill ai sesiwn diwrnod llawn neu nifer o sesiynau hanner diwrnod. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r sesiynau ond cymysg oedd y farn ynghylch pa opsiwn i'w ddewis. Y gobaith oedd y byddai'r sesiynau'n cael eu cynnal yn bersonol ac y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud y tu allan i'r cyfarfod i fwrw ymlaen â hyn.

Fe wnaeth y Pwyllgor **NODI'R** diweddariad a **Chadarnhau** Cam Gweithredu'r Cadeirydd.

Diweddariad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Cyflwynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei adroddiad, a oedd yn cynnwys y diweddariadau canlynol ar faterion allweddol:

- Roedd cyfarfod diweddar y Tîm Gweithredol ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn adeiladol iawn a chafwyd adborth cadarnhaol ar y cynnydd a wnaed hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol;
- Fodd bynnag, roedd y cynnig i Lywodraeth Cymru gymryd yr arbedion refeniw a ddaeth o brynu Matrix House yn ôl yn syndod a bydd yn cael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- Bydd y cytundeb rhannu risg ar Gronfa Risg Cymru yn cael ei roi ar waith eto eleni a rhagwelir y bydd yn £25m;
- Rydym yn parhau i weithio gyda Grŵp Cymheiriaid y Prif Fferyllwyr i ddatblygu'r cynnyrch sy'n cael eu datblygu drwy'r Uned Meddyginiaethau yn IP5. Mae'r gwaith o ddilysu'r offer llenwi awtomataidd newydd yn mynd rhagddo'n dda a dylai fod ar gael i'w ddefnyddio yn ystod yr wythnosau nesaf; ac
- Mae ehangu'r gwasanaethau SMTL o fewn IP5 hefyd yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r offer newydd yn cael ei ddilysu a disgwyl y bydd y cyfleusterau profi a methodoleg ychwanegol ar waith erbyn mis Awst.

Fe wnaeth y Pwyllgor **NODI'R** diweddariad.

Eitemau sydd angen Cymeradwyaeth/Cadarnhad SSPC

Achos Busnes Amlinellol Golchdy

Daeth Achos Busnes y Rhaglen ar gyfer y Gwasanaeth Golchi i'r casgliad y byddai angen tair uned yn y dyfodol i wasanaethu Cymru fel a ganlyn:

- Cyfleuster newydd yn ne orllewin Cymru i gymryd lle'r golchdai yn Ysbyty Glangwili a Llansamlet;
- Cyfleuster newydd yng ngogledd Cymru i gymryd lle Golchdy Glan Clwyd;
- Ailwampio Green Vale i uwchraddio'r cyfleusterau golchi presennol ac i ganiatáu cau Golchdy Gartholwg.

Yn dilyn adborth, roedd Llywodraeth Cymru am i'r cyfleusterau newydd yn ne orllewin Cymru a gogledd Cymru gael eu bwrw ymlaen fel Achosion Busnes Amlinellol, tra bo'r gwaith adnewyddu yn Green Vale yn destun Achos Cyfiawnhad Busnes ar wahân.

Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ymwneud ag Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer de Orllewin a gogledd Cymru yn unig. Mae'r gwaith o lywodraethu'r Rhaglen Drawsnewid yn mynd drwy'r Bwrdd Rhaglen Golchdy a gymeradwyodd yr achosion busnes amlinellol hyn ar 22 Mehefin. Mae'r achosion busnes amlinellol hefyd wedi bod yn destun dau adolygiad Gateway ac asesiad gan yr Archwilwyr Mewnol.

Y prif fanteision o gymryd rheolaeth o'r Golchdai oedd sicrhau bod y Golchdai yn cydymffurfio â'r safonau a'r ddeddfwriaeth berthnasol ac nid i ddarparu gwasanaeth rhatach er y byddai arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud. Bu diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau Golchi ers amser maith iawn ac mae angen buddsoddiad cyfalaf o £77m ar y tri achos busnes. Mae GIG Cymru yn dibynnu'n fawr ar y golchdai – er enghraifft, mae'r ddau safle

presennol yn ne orllewin Cymru yn prosesu dros 9 miliwn o eitemau'r flwyddyn. Mae'r achosion busnes amlinellol, er bod angen buddsoddiad cyfalaf yn ddi-os, yn gwneud synnwyr economaidd cadarn ac maent yn ticio'r holl flychau amgylcheddol, ac yn darparu amodau gwaith llawer gwell i'r gweithlu. Mae'n bosibl y bydd sefyllfa cyfalaf Cymru gyfan yn golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu fforddio ariannu'r achosion busnes ar yr un pryd, felly bydd angen i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ystyried yr opsiynau gyda nhw.

Fe wnaeth y Pwyllgor **GYMERADWYO'R** Achosion Busnes Amlinellol i symud ymlaen i Achosion Busnes Llawn er mwyn gallu cyflwyno ceisiadau ffurfiol am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Achos Busnes Cadw Cofnodion Meddygol Cleifion

Mae'r Storfa Cofnodion Meddygol Cleifion yn Nhŷ Aberhonddu, Mamheilad, bellach yn llawn ac o ganlyniad nid oes modd cadw cofnodion ychwanegol heb i le ychwanegol gael ei gaffael. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd practisiau meddygon teulu ychwanegol yn gallu manteisio ar y gwasanaeth hwn, sy'n rhyddhau lle ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol, ac na fydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gallu cymryd cofnodion meddygol ychwanegol gan bractisiau meddygon teulu sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth, o gleifion sydd wedi marw, symudiadau cleifion neu uno practisiau er enghraifft.

Mae nifer o opsiynau ar gyfer ehangu'r cynllun wedi cael eu hystyried yn yr achos busnes ond yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw prynu warws arall ar les 10 mlynedd gan ddarparu 75,000 troedfedd sgwâr arall o le storio. Er bod y caffaeliad hwn yn cynnig rhai heriau cyllido, bydd y rhain yn cael eu diwallu drwy gynhyrchu incwm ychwanegol; arbedion o ganlyniad i symud PPE o gyfleusterau storio masnachol i'r warws newydd hwn (hyd nes y ceir capasiti ar y cynllun PMR) ac arbedion mewnol ar y gyllideb Gofal Sylfaenol.

Codwyd cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ynglŷn ag a ddylai cynlluniau yn y dyfodol ganolbwyntio mwy ar ddigideiddio yn hytrach na chaffael rhagor o le i storio cofnodion papur. Cadarnhaodd AB mai dyma'r nod ar gyfer y tymor hwy, ond am y tro mae practisiau meddygon teulu yn gofyn i gofnodion papur barhau i gael eu storio, ac mae costau digideiddio yn sylweddol iawn.

Cafodd yr Achos Busnes ei **GYMERADWYO** gan y Pwyllgor.

Adolygiad Blynyddol 2021/22

Cafodd yr Adolygiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ei adolygu gan aelodau'r Pwyllgor a wnaeth sylwadau ffafriol ar y cynnwys a'r cyflwyniad gan awgrymu y dylid rhannu hyn yn ehangach lle bo hynny'n bosibl.

Fe wnaeth y Pwyllgor **GYMERADWYO'R** Adolygiad Blynyddol.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio

Adolygwyd a chymeradwywyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio gan y Pwyllgor Partneriaeth.

Fe wnaeth y Pwyllgor **GYMERADWYO'R** Cylch Gorchwyl.

Diweddariadau Cyllid, Perfformiad, Pobl, Rhaglen a Llywodraethu

Cyllid – Mae sefyllfa ariannol Mis 3 yn danwariant cronnus anghylchol o £1.338m ar ôl rhagweld £0.943m o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynnydd o 1.25% mewn yswiriant gwladol, costau cymorth adferiad Covid a phwysau ynni. Dim ond mewn perygl y gellir rhagweld y cyllid hwn ar hyn o bryd – byddai'r sefyllfa ariannol wedi bod yn £0.395m o danwariant heb dybio'r cyllid hwn nac unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn a ddelir yn ganolog. Mae'r sefyllfa o flwyddyn i flwyddyn yn cynnwys nifer o arbedion anghylchol na fyddant yn parhau ar yr un lefel yn ystod y flwyddyn ariannol. Nid yw'r sefyllfa chwaith yn adlewyrchu'r adfachiad o £176k o gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Matrix House, a hysbyswyd ym mis Gorffennaf 2022. Ar hyn o bryd mae'r cyfarwyddiaethau'n adolygu cyllidebau gyda'r bwriad o gyflymu cynlluniau i sicrhau rhagor o fuddion ac arbedion i GIG Cymru. Mae'r alldro a ragwelir yn aros yr un fath, gan dybio y bydd cyllid pwysau eithriadol gan Lywodraeth Cymru. £10.277m oedd gwariant Cronfa Risg Cymru hyd at 30 Mehefin 2022. Mae adolygiad lefel uchel o achosion sydd i fod i setlo yn 2022/23 yn dangos bod y £134.8m sydd wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn aros o fewn yr ystod a ragwelir, sy'n golygu bod angen ariannu £25.3m o dan y Cytundeb Rhannu Risg yn 2022/23. Mae dosraniad cyfran risg 2022/23 wedi cael ei adolygu i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gost o sefyllfa alldro 2021/22. Mae hyn wedi arwain at rai newidiadau i'r cyfraniadau gan sefydliadau o ganlyniad i symudiadau yn union ddata 2021/22. Mae'r cyfranddaliadau wedi'u diweddaru'n cael eu hadrodd i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru ar 20 Gorffennaf 2022 a byddant wedyn yn cael eu rhannu gyda'r Cyfarwyddwyr Cyllid. Ein Terfyn Gwariant Cyfalaf presennol ar gyfer 2022/23 yw £1.473m. Mae dyraniad dewisol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer 2022/23 wedi cael ei leihau gan Lywodraeth Cymru i £0.457m o £0.6m a gostyngodd y dyraniad dewisol IP5 o £0.25m i £0.09m. Y gwariant cyfalaf ar gyfer Mis 3 yw £0.297m. Mae adolygiad o'r holl geisiadau am gyllid cyfalaf dewisol yn cael ei gynnal sy'n cynnwys unrhyw ofynion cyllid cyfalaf a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac unrhyw geisiadau newydd a nodir

gan ein Gwasanaethau. Ers trosglwyddo'r Gwasanaeth Golchi Cymru Gyfan yn 2021/22, mae mwy o bwysau ar y dyraniad cyfalaf dewisol gan na chafodd hyn ei gynyddu yn dilyn trosglwyddo'r Gwasanaeth newydd. Ynghlwm wrth yr adroddiad oedd Llythyr Rheoli Archwilio Cymru ac adolygiad o Systemau Lletyol Cenedlaethol a oedd yn rhoi barn gadarnhaol ar integriti systemau a gweithdrefnau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Diweddariad Ch1 y Cynllun Tymor Canolig Integredig – Cafodd y diweddariad chwarterol ffurfiol cyntaf yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae 2022/23 yn flwyddyn o newid wrth i fesurau perfformiad newydd gael eu datblygu. Mae'r diweddariad yn edrych ar sut mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ychwanegu gwerth o ran ansawdd a budd economaidd-gymdeithasol ochr yn ochr â gostyngiadau mewn costau ac arbedion. Ar ddiwedd Chwarter 1, mae 1% o amcanion yr uwch adrannau wedi cael eu 'cwblhau a'u cau', mae 76% o'r amcanion 'ar y trywydd iawn' i'w cwblhau, mae 15% 'mewn perygl o fod oddi ar y trywydd iawn', mae 4% 'oddi ar y trywydd iawn' ac mae 4% 'heb ddechrau eto'. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar gynnwys a fformat yr adroddiad.

Perfformiad – Adroddir ar 34 DPA, gyda 31 ohonynt yn wyrdd a thri yn oren. Mae dau o'r rhain yn ymwneud â nifer y galwadau y deliwyd â nhw, dylai hyn fod yn 95% ond nid yw'n cael ei fodloni yn y Gyflogres (73%) na'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (92%). Y dangosydd oren sy'n weddill yw Recriwtio lle na ddylai'r amser cyfartalog i greu cynnig diamod o greu'r swydd wag fod yn fwy na 71 diwrnod, ar hyn ar hyn o bryd mae'n 91 diwrnod. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r holl feysydd hyn ac mae gwelliannau eisoes yn cael eu nodi. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys asesiad o'r Manteision Dylanwad Proffesiynol i GIG Cymru, sy'n cael ei gyfrifo ar £35m ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

Diweddariad y Swyddfa Rheoli Prosiectau – O'r 24 cynllun sy'n cael eu rheoli gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau, dim ond un sydd wedi'i nodi'n goch ar hyn o bryd. Dyma'r prosiect ar gyfer disodli'r System Dyfarniadau Myfyrwyr sy'n nesáu at ddiwedd oes heb unrhyw opsiwn i ymestyn trefniadau'r contract cymorth y tu hwnt i fis Mawrth 2023. Ar hyn o bryd mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnal ymarfer caffael i ganfod system newydd

Diweddariad ar Bobl a Datblygu Sefydliadol – Mae'r adroddiad ar ffurf dangosfwrdd newydd a gafodd sylwadau ffafriol gan aelodau'r Pwyllgor. Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn isel iawn, ond mae angen gwella prydlondeb o ran rhoi gwybod am absenoldeb. Mae cyfraddau PADR yn parhau i wella ond mae angen mwy o waith arnynt o hyd – canolbwyntiwyd yn benodol yn ddiweddar ar y Gwasanaethau Golchi lle'r oedd y cydymffurfio'n isel iawn i ddechrau ond sydd erbyn hyn yn 73%. Mae nifer y gweithwyr bellach bron yn 5,300 ar ôl trosglwyddo'r carfannau olaf o'r Cynllun Un Prif Gyflogwr. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â sut gall Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gynnal ymchwil i edrych ar hwyluso prentisiaethau'n well a ffyrdd newydd o weithio i wneud

GIG Cymru yn gyflogwr deniadol yn y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ystyried yn y dyfodol.

Cofrestr Risg Gorfforaethol – mae un risg goch o hyd sy'n ymwneud â'r effaith chwyddiant ar nwyddau a gwasanaethau, yn enwedig o ran ynni. Mae hyn yn parhau i gael ei liniaru cymaint ag y bo modd drwy gamau gweithredu'r Grŵp Rheoli Risgiau Prisiau Ynni. Mae un risg newydd wedi cael ei hychwanegu mewn perthynas â'r risgiau i enw da sy'n gysylltiedig â rôl Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn helpu i sefydlu Corff Llais y Dinesydd. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â disodli'r system Taliadau Meddygon Teulu mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, ac uwchraddio CLERIC mewn Systemau Cludwyr Iechyd, ill dau wedi cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol gan fod y systemau newydd yn gweithio'n llwyddiannus yn y ddau achos.

Datganiadau o Fuddiant – adolygodd y Pwyllgor adroddiad yn crynhoi'r ymarfer datganiadau o fuddiant diweddar ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae hyn bellach wedi cael ei ymestyn i'r holl staff ar y sail eu bod yn cwblhau datganiad oes sydd ond angen ei ddiweddaru os bydd amgylchiadau'n newid. Fodd bynnag, bydd gofyn i Gyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol barhau i ddarparu Datganiad blynyddol a chafodd atodiad yn cynnwys manylion eu datganiadau diweddaraf ei gynnwys yn yr adroddiad.

Papurau er Gwybodaeth

Darparwyd yr eitemau canlynol er gwybodaeth yn unig:

- Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio;
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22;
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2021/22
- Ffurflenni Monitro Cyllid (Misoedd 2 a 3)

Unrhyw Fater Arall

Amh.

Materion y mae angen eu hystyried a/neu eu cymeradwyo ar lefel Bwrdd/Pwyllgor

- Gofynnir i'r Bwrdd **NODI** gwaith y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau.

Materion a gyfeiriwyd at Bwyllgorau eraill

Amh.

Dyddiad y cyfarfod nesaf	22/09/2022

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Adroddiad y Prif Weithredwr			
Adrodd i: ***Report to:***	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	29 Medi 2022			
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am faterion allweddol o fewn y sefydliad, gwaith allanol gyda phartneriaid a gwasanaethau sy'n cael eu cydnabod drwy enwebiadau a gwobrau. Mae'r pynciau'n cynnwys: • Gwasanaethau Arbenigol • Ambiwlans Awyr Cymru • Ysgol Feddygol Gogledd Cymru • Rhoi'r Model Gweithredu ar Waith • Rhaglen Pigiad Atgyfnerthu COVID • Archwiliad Cenedlaethol o Ddementia • Gwobrau ac Enwebiadau			
Argymhellion: ***Recommendations:***	Bod y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad.			
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Prif Weithredwr			
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Prif Weithredwr			
Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☒	I Benderfynu arno *For Decision* ☐	Am sicrwydd *For Assurance* ☐	
Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Derbyniol *Acceptable* ☐ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhannol *Partial* ☒ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*
Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: ***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***				

Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag amrywiaeth o flaenoriaethau strategol
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?***	Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?***	Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)***	Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith* ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Amherthnasol
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i bwyllgor cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential Committee (where relevant)***	Not applicable
Camau Nesaf: **Gweithredu argymhellion** ***Next Steps:*** ***Implementation of recommendations*** Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn	
Rhestr o Atodiadau:	

List of Appendices:

Dim

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Strategaeth Ddrafft Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Adrodd i: ***Report to:***	Y Bwrdd Iechyd
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Dydd Iau, 29 Medi 2022
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Mae'r Strategaeth yn nodi dull gweithredu strategol Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ei fabwysiadu. Mae'n disgrifio sut bydd hyn yn cael ei gefnogi a'i hwyluso a sut bydd y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu ei ymdrechion a'i adnoddau o ran ymgysylltu a chyfathrebu. Mae'n nodi'r dull gweithredu ar gyfer manteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd a'r adnoddau yn y swyddogaeth Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu (PEC), ac alinio amcanion a gweithgarwch PEC, â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau partneriaid. Gofynnir i'r Bwrdd drafod a chymeradwyo'r Strategaeth ddrafft.
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Bwrdd drafod a chymeradwyo'r Strategaeth ddrafft.
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Jo Whitehead, Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Helen Stevens Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☐	I Benderfynu arno *For Decision* ☒	Am sicrwydd *For Assurance* ☐

Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐	Derbyniol *Acceptable* ☒	Rhannol *Partial* ☐	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐
	Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*

Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:

Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:	
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	Mae'r Strategaeth ddrafft yn nodi amcanion a gweithgareddau Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu ac yn eu halinio â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau partneriaid.
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	Mae'r Strategaeth yn ystyried dyletswyddau statudol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys: • Deddf GIG (Cymru) 2006. Y mwyaf perthnasol i'r strategaeth hon yw Adran 183 • Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Safonau Iechyd a Gofal 2015 • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 • Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Safonau'r Gymraeg
Yn unol â WP7, a oedd EqlA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqlA been identified as necessary and undertaken?***	Mae Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ac mae wedi'i atodi yn Atodiad 3.
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?***	Mae Asesiad Effaith Economaidd-Gymdeithasol wedi cael ei gynnal ac mae wedi'i atodi yn Atodiad 4.
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)***	Y risg allweddol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth yw y gallai cyfathrebu ac ymgysylltu digyswllt, sydd wedi'i amseru'n wael neu sy'n annilys beryglu hyder, bodlonrwydd a phrofiad cleifion, staff a phartneriaid.
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	Amherthnasol
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Bydd systemau a dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu gwell o fudd i'r gweithlu.

Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Mae'r Strategaeth ddrafft wedi cael ei hadolygu a'i thrafod gan aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae hefyd wedi cael ei rhannu â phartneriaid allweddol eraill yn fewnol ac yn allanol i BIPBC. Mae sylwadau o drafodaethau wedi cael eu cynnwys yn y drafft hwn.
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	Amherthnasol
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)***	Amherthnasol Not applicable
Camau Nesaf: **Gweithredu argymhellion** ***Next Steps:*** Gofynnir i'r *Bwrdd Iechyd* drafod a chymeradwyo'r Strategaeth ddrafft.	
Rhestr o Atodiadau: ***List of Appendices:*** *Atodiad 1: Cynllun Gweithredu* *Atodiad 2: Dadansoddiad Rhanddeiliaid* *Atodiad 3: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Asesiad Sgrinio)* *Atodiad 4: Asesiad Effaith Economaidd-Gymdeithasol*	

Arweiniad:

Y BWRDD IECHYD
29 MEDI 2022
STRATEGAETH DDRAFFT PARTNERIAETHAU, YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

1. Cyflwyniad

Y cyd-destun sy'n esbonio pam fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd/Pwyllgor, unrhyw gamau ymgynghori blaenorol, a'r pwrpas o'i gyflwyno i'r Bwrdd

Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth ddrafft Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu yn nodi dull gweithredu strategol partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu, y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ei fabwysiadu.

Mae wedi cael ei drafod yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, ac mae hefyd wedi cael ei rhannu â phartneriaid allweddol. Mae sylwadau o'r trafodaethau hyn wedi cael eu cynnwys yn y fersiwn drafft terfynol hwn i'r Bwrdd ei ystyried.

2. **Cyd-destun y Strategaeth**

Fel bwrdd iechyd integredig, mae cyfathrebu, ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth rhagorol yn hanfodol. Rydym am gael dealltwriaeth ddofn o'r hyn sy'n bwysig i'n poblogaeth, ein partneriaid a'n gweithlu a chael deialog agored a pharhaus gyda phobl Gogledd Cymru.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu o ddydd i ddydd â chleifion, gofalwyr, y cyhoedd, ein gweithlu, cynrychiolwyr etholedig a'n partneriaid yn creu argraff barhaol am y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn golygu bod gan bawb ran i'w chwarae o ran rhannu'r cyfrifoldeb i gyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'r strategaeth hon yn disgrifio sut bydd hyn yn cael ei gefnogi a'i hwyluso a sut bydd y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu ei ymdrechion a'i adnoddau o ran ymgysylltu a chyfathrebu. Mae'n nodi ein dull gweithredu ar gyfer manteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd a'r adnoddau yn y swyddogaeth Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu (PEC), ac yn alinio amcanion a gweithgarwch PEC â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau partneriaid.

Byddwn yn defnyddio'r strategaeth hon i'n helpu i siarad yn agored ac yn onest am y math o sefydliad rydym yn dymuno ei fod, y safonau rydym yn eu gosod ac yn dal ein hunain yn atebol iddynt, y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud a'r heriau rydym yn eu hwynebu.

Byddwn yn falch o ddathlu ein llwyddiannau a'r cynnydd a wnawn ar ein taith tuag at welliant. Byddwn yn atebol ac yn ymddiheuro pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, yn rhannu'r gwersi a ddysgwn o'r camgymeriadau hynny ac yn ymrwymo i wella'r gofal a ddarparwn yn barhaus.

Bydd y gwaith o gyflawni'r strategaeth hon yn cael ei arwain gan y tîm Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i bawb. P'un ai a ydynt

yn gweithio yn ein lleoliadau iechyd, yn derbyn gofal gennym ni, yn gweithio mewn partneriaeth â ni neu fod ganddynt unrhyw fath o ddiddordeb mewn helpu i greu dyfodol gwell i iechyd a lles pobl Gogledd Cymru. Mae ei lwyddiant hefyd yn dibynnu'n drwm ar swyddogaethau cysylltiedig y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (sy'n arwain ar ymgysylltu â staff) ac Ansawdd (sy'n arwain ar ymgysylltu â chleifion).

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â strategaethau eraill y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Byw'n Iach, Aros yn Iach, y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y Strategaeth a'r Cynllun Pobl, Strategaeth y Gwasanaethau Clinigol a'r Strategaeth Ansawdd, ac yn cael ei llywio ganddi.

3. Goblygiadau Cyllidebol / Ariannol / *Budgetary / Financial Implications*

3.1 Er mwyn gweithredu'r strategaeth hon yn effeithiol, bydd angen adnoddau ariannol. Ar hyn o bryd, mae cyllideb wedi'i phennu i gyflawni gweithgareddau partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu yn flynyddol. Ochr yn ochr â hyn, bydd cyfleoedd am ffynonellau adnoddau ychwanegol bob amser yn cael eu hystyried ar sail prosiect penodol.

4. Rheoli Risg / Risk Management

Y risg allweddol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth yw y gallai cyfathrebu ac ymgysylltu digyswllt, sydd wedi'i amseru'n wael neu sy'n annilys beryglu hyder, bodlonrwydd a phrofiad cleifion, staff a phartneriaid.

5. Goblygiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / *Equality and Diversity Implications*

5.1 Er nad oes unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r Strategaeth ei hun, mae union natur cyfathrebu ac ymgysylltu a gwaith y swyddogaeth wedi'i seilio'n sylfaenol ar egwyddorion sy'n cynnwys cynhwysiant, hygyrchedd, sy'n ddwyffordd, wedi'i dargedu a'i gynllunio.

5.2 Mae Asesiad Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Economaidd-gymdeithasol wedi cael eu cwblhau.

Atodiad 1

Cynllun Gweithredu

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn rhoi mwy o fanylion am sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion. Byddwn yn monitro ein gweithgaredd yn barhaus ac yn diweddaru'r cynllun yn rheolaidd i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r camau gweithredu.

Byddwn yn diweddaru'r cynllun gan ddefnyddio'r allwedd ganlynol:

Heb ddechrau	Monitro parhaus	Cyflawn	Ar y gweill	Hwyr

Amcan 1: Datblygu brand ac enw da'r Bwrdd Iechyd trwy gyfryngau rhagweithiol ac adweithiol a rheoli partneriaid ac ymgysylltu effeithiol fel bod cleifion, y cyhoedd a phartneriaid yn gweld BIPBC fel sefydliad effeithiol ac ymatebol sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd diogel o ansawdd uchel.

Amcan 4: Sicrhau dealltwriaeth ddofn o weledigaeth, gwerthoedd ac amcanion y Bwrdd Iechyd i gefnogi gofal cleifion, lles staff a'r defnydd effeithlon o adnoddau.

Gweithred	Arwain	Erbyn pryd / angen cydweithio?	Statws
Cynhyrchu o leiaf dwy stori newyddion ragweithiol bob wythnos i godi ymwybyddiaeth, dylanwadu ar ymddygiad a dathlu llwyddiant ein staff a'n gwasanaethau trwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac	Parhaus Adolygiad misol o allbynnau gyda dadansoddiad chwarterol	

Cynhyrchir straeon trwy ein tri swyddog y wasg a chyfathrebu ym mhob Cymuned Gofal Iechyd Integredig ac mae ein blaengynlluniwr yn sicrhau bod y dull yn cael ei gydlynu a'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws yr ardaloedd.	Ymgysylltu â'r Cyhoedd		
Darparu swyddogaeth swyddfa'r wasg effeithiol i sicrhau ymateb amserol, proffesiynol i ymholiadau a sylw'r cyfryngau a herio beirniadaeth gyhoeddus lle bo'n briodol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Parhaus Diweddariadau dyddiol ar weithgarwch a dadansoddiad wythnosol a blynyddol o'r sylw	
Sefydlu blaengynllun o weithgaredd PEC a gynllunnir Sicrhau bod y cynlluniwr yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i lywio cynllunio ehangach	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu	Cyflawn Parhaus	
Datblygu cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'u teilwra ar gyfer meysydd ffocws allweddol, e.e. gwaith gwella Ysbyty Glan Clwyd, gwasanaethau fasgwlaidd, iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gofal sylfaenol, canolfannau triniaeth rhanbarthol	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwyr Gweithredol	Parhaus Bydd llywodraethu cynlluniau, cynnydd a sicrwydd yn cael eu gwneud gydag arweinwyr gweithredol neu raglenni perthnasol	
Datblygu a chynnal amserlen o gyfarfodydd wyneb yn wyneb chwarterol gyda phob AS ac AoS	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Parhaus Dadansoddiad chwarterol o themâu a thueddiadau	

Mynychu cyfarfodydd pwyllgor allweddol Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac adeiladu i mewn i amserlen flynyddol Materion Cyhoeddus	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Parhaus Dadansoddiad chwe-misol o themâu a thueddiadau	
Darparu diweddariadau llafar ac ysgrifenedig i AoSau ac ASau ar achosion a godwyd, gyda'r nod o leihau'r ôl-groniad o achosion erbyn Rhagfyr 2022	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Parhaus Dadansoddiad chwarterol o themâu a thueddiadau	
Trefnu ymweliadau i AoSau ac ASau i weld gwelliannau a mentrau newydd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Parhaus Blaengynllun blynyddol ac adolygiad chwarterol o ymweliadau	
Darparu bwletin wythnosol i wleidyddion a phartneriaid Gwella cynnwys ac arddull y bwletin yn seiliedig ar adborth	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Parhaus Yn flynyddol, adolygiad cyntaf erbyn Rhagfyr 2022	
Cynnal arolwg blynyddol o ganfyddiadau rhanddeiliaid	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Erbyn Ionawr 2023 Ac yna yn flynyddol	
Trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a sefydliadau Trydydd Sector sydd â diddordeb penodol ac sy'n gweithio'n agos gyda BIPBC.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	O Ionawr 2023	

Sicrhau bod sylwadau ac ymholiadau trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hateb mewn modd amserol a phriodol, gan gywiro gwallau ffeithiol trwy gyfeirio	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Parhaus Dadansoddiad misol	
Adolygu a diweddaru'r canllawiau cyfryngau i staff	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Erbyn Mawrth 2023	
Archwilio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â BIPBC. Rhoi cyngor ar ganllawiau a phrotocolau i staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Erbyn Rhagfyr 2022	
Cynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol trwy gynyddu nifer y dilynwyr sydd gennym ar Facebook, Twitter ac Instagram 10%	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Erbyn Mawrth 2023	
Ymchwilio, datblygu a lansio llwyfannau newydd i gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd er enghraifft sianeli cymunedol a Snapchat	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Erbyn Mawrth 2023	

Datblygu'r defnydd o gymunedau digidol	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Drwy gydol 2022 i 2025 Dadansoddiad blynyddol	

Amcan 2: Datblygu ymgysylltiad parhaus ac ystyrlon â chleifion, y cyhoedd a gofalwyr, gan gynnig amrywiaeth o fecanweithiau ar gyfer sgyrsiau dwy ffordd sy'n llywio cynllun gwasanaethau ac yn dylanwadu ar benderfyniadau.
Amcan 6 : Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithredol yn ei gymunedau lleol drwy arwain trafodaeth am iechyd, gwasanaethau gofal iechyd a lles; a chyd-ddylunio gwasanaethau a'r strategaeth ar gyfer gofal iechyd yng Ngogledd Cymru i wella iechyd a lles.

Gweithred	Arwain	Erbyn pryd / angen cydweithio?	Statws
Datblygu rhaglen flynyddol o weithgarwch ymgysylltu	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu	Cynllun i'w ddatblygu erbyn Rhagfyr 2022 Adolygiad chwarterol Cydweithio â chydweithwyr ym meysydd cynllunio, trawsnewid, iechyd y cyhoedd a Chymunedau Iechyd Integredig	

	Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth		
Cefnogi rhaglenni trawsnewid gwasanaeth gyda chynlluniau ymgysylltu wedi'u teilwra	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu	Parhaus Bydd y gwaith o lywodraethu cynnydd y cynllun ymgysylltu a sicrwydd yn cael ei wneud trwy grwpiau gorchwyl newid gwasanaeth, y Pwyllgor PPPH	
Cyflwyno templed *Dywedoch Chi, Dywedon Ni* i'w ddefnyddio ym mhob rhaglen waith sydd wedi'i llywio gan ymgysylltu	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	O fis Rhagfyr 2022 ymlaen Adolygiad Blynyddol	

	Cyfarwyddwr Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu		
Parhau i ddatblygu pecynnau cymorth ymgysylltu ar gyfer staff	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth	Adolygiad Chwarterol	
Sefydlu llyfrgell o arfer da ar gyfer ymgysylltu ar BetsiNet	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth	Yn ystod 2023/24	
Datblygu rhaglen hyfforddi gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ac ymgorffori diwylliant o ymgysylltu	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Yn ystod 2023/24	

Adolygu'r dull ymgysylltu sefydliadol ac archwilio cyfleoedd i bobl gymryd rhan trwy gynllun cynnwys y cyhoedd wedi'i adnewyddu Sefydlu grŵp goruchwylio i gydgysylltu'r gwaith o ymgorffori ymgysylltu ar draws y Bwrdd Iechyd (i gefnogi dull TI)	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyfarwyddwr Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu	Adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2023 Camau gweithredu o'r adolygiad i'w cynllunio i weithgarwch 2023/24 a 2024/25 Cydweithio â Thîm Profiad y Claf, Tîm Ymgysylltu â Staff (tîm OD), Timau Cynllunio ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	
Adnewyddu ein Fframwaith Strategol Ymgysylltu â'r Cyhoedd trwy gyd-ddylunio	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Yn ystod 2023/24	
Datblygu amserlen flynyddol o ymgyrchoedd iechyd y byddwn yn arwain arnynt a'r rhai y byddwn yn cyfrannu atynt	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	Bob mis Ebrill Dadansoddiad blynyddol	

Hyrwyddo blaenoriaethau fel y nodir yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	Parhaus Adroddiad DPH eto i'w gyhoeddi ar gyfer 2021/22 Cydweithio â Thîm Iechyd y Cyhoedd	

Amcan 3: Meithrin perthnasoedd newydd a rhai sy'n bodoli'n barod er mwyn galluogi partneriaid i ymgysylltu a chael eu cynnwys wrth ddarparu gofal a llunio trefniadau ar gyfer y dyfodol.

Gweithred	Arwain	Erbyn pryd / angen cydweithio?	Statws
Mapio perchnogion perthnasoedd partner ac adeiladu rhaglen cymorth partneriaeth	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Gofal Iechyd Integredig	Erbyn Rhagfyr 2022 Cydweithio â Chyfarwyddwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr Cymunedol Gofal Iechyd Integredig	
Cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig newydd a sefydlu	Cyfarwyddwr	Erbyn Rhagfyr 2022	

ffyrdd o weithio sy'n cefnogi anghenion ardaloedd	Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu Cyfarwyddwyr Cymunedol Gofal Iechyd Integredig	Adolygiad chwe-misol	
Datblygu a rheoli cronfa ddata ganolog o AoSau ac ASau	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau	Erbyn Hydref 2022 Adolygu'n flynyddol	

Amcan 5: Sicrhau bod gan ein gweithlu gyfleoedd ar gyfer cyfathrebiadau dwy ffordd fel eu bod yn cymryd rhan yn ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel, trwy roi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd a'u cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Gweithred	Arwain	Erbyn pryd / angen cydweithio?	Statws
Cynnal archwiliad cyfathrebu mewnol o gyfathrebiadau staff i helpu i lunio dyfodol cyfathrebiadau, gan gynnwys sut rydym yn cyflwyno negeseuon, sut y gallwn wrando ar farn, a pha fath o gyfathrebiadau sydd orau gan staff	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr y Gweithlu a	Erbyn Hydref 2022	

	Datblygiad Sefydliadol		
Codi ymwybyddiaeth staff o'r hyn sy'n digwydd a sut y gallant gymryd rhan trwy sianeli arferol: • Bwletin wythnosol y Cadeirydd/Prif Swyddog Gweithredol • Bwletin wythnosol • Briff Tîm (gweler isod)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Parhaus Bydd archwiliad cyfathrebu mewnol yn llywio gwelliannau	
Rheoli'r Gwobrau Cyrhaeddiad Staff blynyddol, gan gynnwys sicrhau nawdd ar gyfer y digwyddiad, trefnu, hyrwyddo a rheoli'r digwyddiad	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2022 Digwyddiad ar 21 Hydref 2022 Cydweithio â'r Tîm Datblygu Sefydliadol	
Codi ymwybyddiaeth ar draws ein safleoedd o'n gwerthoedd sefydliadol	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Erbyn Tachwedd 2022	

	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol		
Cefnogi gwaith Gwelliant wedi'i Dargedu Ysbyty Glan Clwyd gyda phartneriaethau, ymgysylltu a gwaith cyfathrebu wedi'u teilwra	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Integredig	Parhaus Mae cynlluniau cyfathrebu wedi'u teilwra'n cael eu monitro'n fisol fel rhan o'r broses TI (cysylltiadau ag Amcan 1)	
Datblygu Briff Tîm sefydliadol i ddilyn cyfarfodydd y Bwrdd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Erbyn Rhagfyr 2022 Cydweithio â'r Tîm Datblygu Sefydliadol i gefnogi'r broses raeadru	
Gwella sianeli cyfathrebu ar gyfer staff nad oes ganddynt fynediad arferol i ddyfeisiau BIPBC	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Adolygu erbyn Rhagfyr 2022 Rhoi datrysiadau ar waith yn ystod 2023/24	

Gwella gwaith dadansoddi a chasglu data i ddangos tystiolaeth o weithgareddau cyfathrebu ar gyfer staff	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg	Parhaus Dadansoddiad chwarterol Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg	
Datblygu systemau cyfathrebu dwy ffordd ymhellach i gefnogi diwylliant o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu Corfforaethol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Parhaus Gwaith i gael ei lywio gan ganlyniad archwiliad cyfathrebu mewnol 2022, datrysiadau wedi'u datblygu erbyn mis Mawrth 2023 a'u rhoi ar waith yn 2022-25	

Atodiad 2

Dadansoddiad Rhanddeiliaid

Fel sefydliad rydym yn ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei uchelgeisiau. Bydd gan bob grŵp rhanddeiliaid ei lefel ei hun o ddiddordeb yng nghynlluniau ac uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd a dylanwad amrywiol dros ei allu i'w cyflawni. Mae angen inni ddeall y grwpiau rhanddeiliaid hynny a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Gall lefel diddordeb a dylanwad yr holl randdeiliaid newid yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd, megis newid arfaethedig i wasanaethau ysbyty - ond yn fras mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi trosolwg o randdeiliaid PBC a sut mae pobl a thimau allweddol o fewn y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'r Tîm Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, yn ymgysylltu â nhw.

Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio


Grwpiau rhanddeiliaid

- Y cyhoedd
- Defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Staff
- Gofal Sylfaenol
- Y Cyfryngau
- Awdurdodau lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau o'r Senedd
- ASau
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Partneriaid y GIG (fel Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru)
- Rhanddeiliaid corfforaethol (fel Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Y Trydydd Sector (fel Cynghorau Gwirfoddol Sirol, rhwydweithiau cyflwr-benodol a sefydliadau unigol - dan gontract a heb gontract)
- Sector preifat
- Partneriaid strategol
- Grwpiau nas clywir yn aml
- Cymunedau economaidd gymdeithasol ddifreintiedig

Mapio rhanddeiliaid

Bydd adolygu anghenion a diddordebau ein rhanddeiliaid yn rheolaidd yn sicrhau ein bod yn penderfynu ar y ffordd orau o gynnwys a chyfathrebu â nhw ar unrhyw adeg benodol. Mae'r grwpiau rhanddeiliaid hyn yn ffitio'n fras i bedwar grŵp gwahanol:

- Diddordeb uchel a dylanwad uchel (rheoli'n agos)
- Diddordeb uchel a dylanwad isel (eu hysbysu)
- Diddordeb isel a dylanwad uchel (eu cadw'n fodlon)
- Diddordeb isel a dylanwad isel (monitro)



Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rydym yn defnyddio ystod o sianeli gwahanol i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid. Gall lefel yr ymgysylltu ag unrhyw grŵp rhanddeiliaid newid yn dibynnu ar amgylchiadau, ond mae'r tabl isod yn amlinellu'r sianeli sefydledig sydd gennym.

Sianeli a Grwpiau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid		
Grŵp Rhanddeiliaid	**Sianeli**	**Arwain**
Cyhoeddus	• Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Newyddlenni • Deunyddiau Ategol (e.e. posteri, standiau baneri, a thaflenni) • Digwyddiadau Cyhoeddus • Arolwg Cyhoeddus • Sesiynau Holi ac Ateb Rhithwir	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Defnyddwyr Gwasanaeth a gofalwyr	• Rhyngweithio o ddydd i ddydd • Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Newyddlenni • Arolwg Cyhoeddus • Deunyddiau Ategol (e.e. posteri, standiau baneri, a thaflenni)	Staff BIPBC Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Profiad Cleifion
Staff	• Rhyngweithio o ddydd i ddydd • Gwefan • Betsinet • Ap Staff • Cyfryngau cymdeithasol • Newyddlenni • Diweddariadau Staff (gan gynnwys neges y Cadeirydd/Prif Swyddog Gweithredol) • Bwletin Corfforaethol • Briffio Staff • Ymweliadau Gweithredol • Deunyddiau Ategol (e.e. posteri, standiau baneri, a thaflenni)	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Rheolwyr Gwasanaeth Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Datblygu Sefydliadol
Gofal Sylfaenol	• Gwefan • Betsinet • Sesiynau briffio trwy'r Tîm Contractio Gofal Sylfaenol • Deunyddiau Ategol (e.e. posteri, standiau baneri, a thaflenni)	Tîm Contractio Gofal Sylfaenol Tîm Cyfathrebu Corfforaethol

Cyfryngau	• Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Datganiadau i'r Wasg • Ffilmio / Cyfweliadau	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
Awdurdodau Lleol	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Briffio Partneriaid • Cyfarfodydd / sesiynau briffio Cell Cyfryngau Gogledd Cymru • Fforymau Ymarferwyr • Cyfarfodydd y Cyngor	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cynllunio Tîm Materion Cyhoeddus Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Aelodau'r Senedd	• Briffio Partneriaid • Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Cyfryngau cymdeithasol • Diweddariad Cyfathrebu Wythnosol	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Materion Cyhoeddus Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
Aelodau Seneddol	• Briffio Partneriaid • Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Cyfryngau cymdeithasol	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Materion Cyhoeddus Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
Cyngor Iechyd Cymuned	• Briffio Partneriaid	Cyfarwyddwyr Gweithredol

	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd	Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cynllunio Tîm Materion Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd Cyfarfod Cyfathrebu Wythnosol (cenedlaethol) • Diweddariad Cyfathrebu Wythnosol • Blaengynlluniwr • Briffio Partneriaid	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
Partneriaid GIG	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Cyfarfod Cyfathrebu Wythnosol (cenedlaethol) • Diweddariad Cyfathrebu Wythnosol	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
Rhanddeiliaid Corfforaethol	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Llythyr cyflwyniad / e-bost • Sesiynau ymgysylltu	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Trydydd Sector	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • E-bost Rhanddeiliaid • Sesiynau Ymgysylltu Byw'n Iach Aros yn Iach • Gwefan	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig

	• Cyfryngau cymdeithasol • Arolwg Cyhoeddus	Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
Sector Preifat	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • E-bost Rhanddeiliaid	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Partneriaid Strategol	• Briffio Uniongyrchol / Cyfarfodydd • Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Fforymau Ymarferwyr Ymgysylltu • Sesiynau Ymgysylltu	Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfarwyddwyr Cymunedol Iechyd Integredig Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Grwpiau Nas Clywir Yn Aml	• Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • E-bost Rhanddeiliaid • Sesiynau Ymgysylltu • Arolwg Cyhoeddus	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd Tîm Cydraddoldeb
Cymunedau Economaidd Gymdeithasol Ddifreintiedig	• Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • E-bost Rhanddeiliaid • Sesiynau Ymgysylltu • Arolwg Cyhoeddus	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd Tîm Cydraddoldeb

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

DRAFFT Strategaeth Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

DRAFT Partnerships, Engagement and Communications Strategy

2022-2025



Rhagymadrodd		**Tudalen 3**
Adran 1	**Cefndir** • Ynglŷn â BIPBC • Cyd-destun a Heriau • Ynghylch Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu • Fframwaith Statudol ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu	**Tudalen 4**
Adran 2	**Amcanion Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu**	**Tudalen 8**
Adran 3	**Mewnwelediadau Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu**	**Tudalen 9**
Adran 4	**Ein Hegwyddorion** • Egwyddorion Ymgysylltu • Egwyddorion Cyfathrebu	**Tudalen 11**
Adran 5	**Gweithredu'r Strategaeth** • Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd • Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Gweithlu • Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau • Cyfathrebu Allanol a Rheoli Enw Da ○ Cysylltiadau Cyfryngau ○ Cyfathrebu Digidol ○ Cyfathrebu mewn Argyfwng ○ Dull Cydgysylltiedig	**Tudalen 13**
Adran 6	**Canlyniadau o'r Strategaeth hon**	**Tudalen 20**
Adran 7	**Cyllideb ac adnoddau**	**Tudalen 21**
Adran 8	**Gwerthusiad**	**Tudalen 22**
Atodiadau	• Cynllun Gweithredu • Dadansoddiad Rhanddeiliaid • Asesiad Sgrinio Effaith Cydraddoldeb • Asesiad Effaith Economaidd Gymdeithasol	

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ymagwedd strategol ar gyfer partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ei mabwysiadu.

Fel bwrdd iechyd integredig, mae cyfathrebu, ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth rhagorol yn hollbwysig. Rydym am gael dealltwriaeth ddofn o'r hyn sy'n bwysig i'n poblogaeth, ein partneriaid, a'n gweithlu a chael deialog agored a pharhaus gyda phobl Gogledd Cymru.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu o ddydd i ddydd â chleifion, gofalwyr, y cyhoedd, ein gweithlu, cynrychiolwyr etholedig a'n partneriaid yn creu argraff barhaol o'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn golygu bod gan bawb ran i'w chwarae wrth rannu'r cyfrifoldeb i gyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'r strategaeth hon yn disgrifio sut y caiff hyn ei gefnogi a'i hwyluso a sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu ei ymdrechion a'i adnoddau wrth ymgysylltu a chyfathrebu. Mae'n nodi ein hymagwedd at wneud y mwyaf o'r arbenigedd a'r adnoddau o fewn y swyddogaeth Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu (PEC) ac yn alinio amcanion a gweithgarwch PEC â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau partneriaid.

Byddwn yn defnyddio'r strategaeth hon i'n helpu i siarad yn agored ac yn onest am y math o sefydliad yr ydym yn anelu ato, y safonau yr ydym yn eu gosod, ac yn dal ein hunain yn atebol iddynt, y newidiadau y mae angen inni eu gwneud a'r heriau a wynebwn.

Byddwn yn falch o ddathlu ein llwyddiannau a'r cynnydd a wnawn. Byddwn yn atebol ac yn ymddiheuro pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, yn rhannu'r gwersi a ddysgwn o'r camgymeriadau hynny ac yn ymrwymo i wella'r gofal a ddarparwn yn barhaus.

Bydd cyflwyno'r strategaeth hon yn cael ei arwain gan y tîm Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i bawb. P'un a ydynt yn gweithio yn ein lleoliadau iechyd, yn cael gofal gennym ni, yn gweithio mewn partneriaeth â ni neu ag unrhyw fath o ddiddordeb mewn helpu i adeiladu dyfodol gwell ar gyfer iechyd a lles pobl Gogledd Cymru. Mae ei lwyddiant hefyd yn dibynnu'n fawr ar swyddogaethau cysylltiedig BIPBC o'r Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (sy'n arwain ar ymgysylltu â staff) ac Ansawdd (sy'n arwain ar ymgysylltu â chleifion).

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â strategaethau eraill y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei llywio ganddynt, gan gynnwys Byw'n Iach, Aros yn Iach, y Cynllun Tymor Canolig Integredig, Strategaeth a Chynllun Pobl, Strategaeth Gwasanaethau Clinigol a'r Strategaeth Ansawdd (sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd).

DRAFT

Adran 1: Cefndir

Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ni yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.9 biliwn a gweithlu o dros 19,000 o staff yn gwasanaethu poblogaeth o tua 703,000. Rydym yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl a gofal eilaidd (ysbyty acíwt) i bobl Gogledd Cymru.

Mae BIPBC yn gweithredu tri phrif safle ysbyty yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Rydym hefyd yn gyfrifol am ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl, timau cymunedol, meddygfeydd a gwasanaethau GIG eraill a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr ar draws Gogledd Cymru.

Ein gweledigaeth yw gwella iechyd poblogaeth Gogledd Cymru, gyda ffocws arbennig ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal rhagorol mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill. Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel ei fod yn meddu ar y sgiliau cywir ac yn gweithredu o fewn diwylliant o ddysgu.

Ategir ein huchelgais i wella iechyd a darparu gofal rhagorol gan ein saith nod strategol:

- Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a darparu mwy o ofal yn nes at y cartref
- Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyfateb â gorau'r GIG
- Parchu unigolion a chynnal urddas a gofal
- Gwrando ar brofiadau unigolion a dysgu oddi wrthynt
- Cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff i ragori
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau drwy arloesi ac ymchwil

Cyd-destun a Heriau

Mae gan BIPBC hanes cymhleth. Fe'i ffurfiwyd yn 2009 pan gyfunodd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru a chwe Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam i ddod yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'n gweithredu mewn amgylchedd hynod wleidyddol, gydag atebolrwydd uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ac o fewn rhanbarth a wasanaethir gan 14 Aelod o'r Senedd a 10 Aelod Seneddol yn ogystal â 330 o gynghorwyr o chwe awdurdod lleol.

DRAFT

Yn ogystal, caiff ei reoleiddio gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru. Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru hefyd yn craffu arno.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda chwe awdurdod lleol (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam) ar raglen wella yn ogystal â thrwy ryngweithio a chysylltiadau o ddydd i ddydd â'r Trydydd Sector trwy ddarparu gwasanaethau a chymorth i gleifion a gofalwyr.

Cafodd ei roi dan Fesurau Arbennig (y lefel uchaf o drosolwg gan Lywodraeth) rhwng 2015 a 2020 o ganlyniad i gyfres o faterion, gan gynnwys pryderon ariannol, llywodraethu a rheoli, rhestrau aros cynyddol, ac adroddiad heriol ar uned iechyd meddwl. Ers mis Tachwedd 2020, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod mewn Ymyrraeth wedi'i Thargedu gan Lywodraeth Cymru (TI) ar draws pedwar maes. Y rhain yw iechyd meddwl (oedolion a phlant), strategaeth, cynllunio a pherfformiad, arweinyddiaeth ac ymgysylltu.

Cyn pandemig COVID-19, roedd BIPBC wedi wynebu ystod o heriau wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth sy'n heneiddio ag anghenion gofal iechyd cynyddol gymhleth ar draws ardal ddaearyddol fawr ac amrywiol. Nid yw hyn wedi newid ac mae bellach wedi'i gymhlethu gan ôl-groniad sylweddol mewn gofal wedi'i gynllunio, mwy o alw ar wasanaethau ysbyty sylfaenol, cymunedol ac acíwt, recriwtio a heriau seilwaith TG.

Yn fwy diweddar, ychwanegwyd Ysbyty Glan Clwyd (YGC) at Ymyrraeth wedi'i Thargedu Llywodraeth Cymru, mae'r ffordd y darperir gofal i gleifion ar rai llwybrau fasgwlaidd yn cael ei adolygu a derbyniodd cyfrifon blynyddol 2021/22 y Bwrdd Iechyd farn amodol.

Mae BIPBC wedi wynebu sawl her ers blynyddoedd lawer, sydd wedi arwain at sylw negyddol parhaus yn y cyfryngau. Mae hyn wedi niweidio ymddiriedaeth pobl Gogledd Cymru. Fel yr unig sefydliad iechyd yng Ngogledd Cymru, mae'n cael sylw cyson yn y cyfryngau lleol o ran adroddiadau iechyd ac mae hyn wedi creu ymdeimlad o sylw negyddol di-baid er bod monitro annibynnol yn y cyfryngau yn dangos bod llawer mwy o sylw cadarnhaol neu gytbwys na negyddol.

Rhaid i BIPBC ailadeiladu hygrededd ac ymddiriedaeth gyda chleifion, gweithlu, y cyhoedd a rhanddeiliaid os yw am lwyddo i gyflawni ei amcanion, nodau a gweledigaeth.

Mae dull newydd o drefnu sut mae'n darparu gofal a gwasanaethau, ynghyd â strategaethau galluogi (fel y Cynllun Pobl, IMTP a Strategaeth Ansawdd), strategaeth gwasanaethau clinigol a methodoleg gwella sengl yn sail i'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i drawsnewid Betsi Cadwaladr Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sefydliad perfformiad uchel sy'n rhoi cleifion yn gyntaf ac yn darparu gofal rhagorol.

Byddwn yn defnyddio'r naratif hwn fel sail i'n gwaith, gan ei ehangu i negeseuon allweddol a fydd yn llywio ein hymagwedd ymgysylltu a chyfathrebu ac yn ffurfio ein sgyrsiau gyda phobl Gogledd Cymru.

DRAFT

Byddwn yn rhagweithiol ac yn gyson yn ein holl gyfathrebu ac ymgysylltu, gan hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd fel darparwr gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel a chyflogwr o ddewis. Byddwn yn adeiladu ar ein dull o ymgysylltu, gan wreiddio diwylliant o gyfranogiad parhaus a hyrwyddo cyd-ddylunio fel methodoleg safonol BIPBC. Byddwn yn sicrhau bod barn ein cleifion, y cyhoedd a phartneriaid yn llywio cynllun gwasanaethau ac yn dylanwadu ar benderfyniadau.

Byddwn yn datblygu ac yn cefnogi perthnasoedd newydd a phresennol fel bod ein partneriaid yn ymgysylltu ac yn cymryd rhan ac yn dod â dealltwriaeth ddofn o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel trwy roi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Byddwn yn sicrhau bod gan ein gweithlu gyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd fel eu bod yn cymryd rhan yn ymrwymiad BIPBC i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel trwy adeiladu ar ein ffyrdd o ymgysylltu a chyfathrebu â nhw gan ddefnyddio eu hadborth i lywio ein hymagwedd.

Ynghylch Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae'r Tîm Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu (PEC) yn rheoli materion cyhoeddus o ddydd i ddydd, cysylltiadau cyhoeddus, cyfathrebu mewnol ac allanol, ymgysylltu â'r cyhoedd, cysylltu a rheoli'r cyfryngau, llwyfannau ac ymgyrchoedd digidol y Bwrdd Iechyd. Mae'n swyddogaeth gymharol newydd gyda'r timau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu corfforaethol yn cyfuno â'r timau materion cyhoeddus a chymorth i elusennau ym mis Awst 2021.

Nid yw'n gyfrifol am wasanaeth PALS na chwynion ffurfiol gan gleifion ond mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Tîm Ansawdd, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, lle mae yna feysydd o orgyffwrdd o ddydd i ddydd, yn ogystal â chyfleoedd i rannu themâu allweddol i lywio gwaith y tîm.

Mae uno'r timau a oedd ar wahân yn flaenorol yn gyfle i ymgysylltu a chyfathrebu'n fwy effeithiol drwy fynd ati'n strategol i fynd ati a datblygu perthnasoedd, cydgysylltu a rhannu mewnwelediad a sicrhau cysondeb mewn gweithgarwch o ran negeseuon a chynnwys.

Mae Elusen Awyr Las yn adrodd i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ac mae strategaeth ar wahân (2022-2027) i gefnogi uchelgeisiau'r elusen wedi'i chymeradwyo mewn egwyddor. Nod y strategaeth hon yw ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus wrth i strategaeth Elusen Awyr Las gael ei rhoi ar waith.

Fframwaith Statudol ar gyfer Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae gennym ystod o ddyletswyddau statudol y mae'n rhaid inni eu bodloni o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Y mwyaf perthnasol i'r strategaeth hon yw Adran 183 - ein dyletswydd statudol i gynnwys pobl, boed yn uniongyrchol neu drwy gynrychiolwyr, wrth:

DRAFT

- gynllunio darpariaeth gwasanaethau,
- datblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newidiadau yn y ffordd y darperir y gwasanaethau hynny, a
- y penderfyniadau i'w gwneud gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n effeithio ar weithrediad y gwasanaethau

Mae adrannau 184 a 185 o NHSWA 2006 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu bod gan bwyllgorau trosolwg a chraffu awdurdodau lleol yng Nghymru (neu gydbwyllgorau ar gyfer ardaloedd dau neu fwy o awdurdodau lleol) rôl graffu mewn perthynas â materion y GIG yng Nghymru. Nid oes unrhyw reoliadau perthnasol mewn grym yng Nghymru mewn perthynas â hyn.

Dyletswyddau statudol eraill sy'n berthnasol i'r strategaeth hon yw:

Deddf Cydraddoldeb 2010
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Mwy na geiriau Cynllun Pum Mlynedd 2022 - 2027
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
Safonau Iechyd a Gofal 2015
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion statudol sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd. Maent yn datgan yn glir ein cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i gleifion, y cyhoedd a staff. Cefnogir deddfwriaeth gan y broses o gyflawni egwyddor y Cynnig Gweithredol fel yr amlinellir yn Mwy na geiriau.

Rydym hefyd yn rhoi sylw dyledus i'r Canllawiau ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

DRAFT

Adran 2: Amcanion Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

Nod trosfwaol y strategaeth hon yw sefydlu a gwreiddio dull partneriaeth, ymgysylltu a chyfathrebu sy'n cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflawni ei amcanion corfforaethol, ei nodau a'i weledigaeth.

Rydym wedi datblygu set o amcanion i helpu i gyflawni hyn:

- Datblygu ymgysylltiad parhaus ac ystyrlon â chleifion, y cyhoedd a gofalwyr.
- Meithrin perthnasoedd newydd a rhai sy'n bodoli'n barod i alluogi partneriaid i ymgysylltu a chymryd rhan.
- Dod â dealltwriaeth ddofn o weledigaeth, gwerthoedd ac amcanion y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu brand ac enw da'r Bwrdd Iechyd trwy reoli cyfryngau a phartneriaid yn rhagweithiol ac adweithiol ac ymgysylltu effeithiol.
- Sicrhau bod gan ein gweithlu gyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd.
- Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithredol yn ei gymunedau lleol.
- Sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried ar bob cyfle.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Ailadeiladu hygrededd ac ymddiriedaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd fel darparwr gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel a chyflogwr o ddewis.
- Bod yn rhagweithiol a chyson yn ein holl gyfathrebu ac ymgysylltu.
- Ymgysylltu â chleifion, y cyhoedd a phartneriaid, yn eu dewis iaith, a sicrhau bod eu barn yn cael ei hadlewyrchu yn ein penderfyniadau, gan ddefnyddio'r egwyddor o gydgynllunio yn ein holl waith
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iechyd a lles i wella iechyd a newid ymddygiad lle bo angen.
- Gwreiddio diwylliant o ymgysylltu parhaus yn y sefydliad drwy wella gallu staff i ymgysylltu.

Byddwn yn sicrhau bod negeseuon cyson yn llifo drwy bob ymgysylltiad a phob sianel gyfathrebu. Bydd y negeseuon cyffredin hynny yn cynnwys:

- Ein nod yw bod yn sefydliad perfformiad uchel sy'n rhoi cleifion yn gyntaf ac yn darparu gofal rhagorol.
- Rydym yn sefydliad mawr, cymhleth ac mae ein timau'n gweithio'n galed bob dydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl Gogledd Cymru.
- Rydym ar daith o welliant ac yn gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd. Gwyddom fod gennym fwy i'w wneud ac rydym yn benderfynol o gyflymu'r newid a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno ffordd newydd o weithio i wella sut rydym yn darparu gwasanaethau integredig i gleifion ar draws Gogledd Cymru.

DRAFT

- Rydym yn gweithio'n agos gyda'n staff, partneriaid a chymunedau ar draws y rhanbarth i lunio a darparu ein gwasanaethau.
- Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unol ag egwyddor y Cynnig Gweithredol

DRAFT

Adran 3: Mewnwelediad i Bartneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae cael cipolwg neu fewnwelediad yn egwyddor allweddol yn y strategaeth hon ac yn llywio ein cyfeiriad a'n gweithredoedd. Rydym yn casglu mewnwelediad yn barhaus trwy ein sgyrsiau, ein systemau adborth a monitro a byddwn yn defnyddio hyn i sicrhau ymagwedd gydlynol.

Mae mewnwelediad sy'n llywio'r strategaeth hon yn cynnwys:

- Adborth yn dilyn ein hymgysylltu â'r cyhoedd ar ein strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach a'n strategaeth Gwasanaethau Clinigol.
- Arolwg rhanddeiliaid BIPBC.
- Arolwg staff (dewisiadau cyfathrebu).
- Monitro allbynnau swyddogaeth PEC yn rheolaidd (e.e. y fewnrwyd, gwefan, print, darlledu a chyfryngau cymdeithasol).
- Deialog a gohebiaeth gan Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol.
- Ein partneriaethau, grwpiau a rhwydweithiau fel y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Fforymau Ymarferwyr Ymgysylltu, Fforwm Canser Gogledd Cymru, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- Rhaglenni ymgysylltu gwella gwasanaethau fel gofal diwedd oes, meddygaeth niwclear, practisau a reolir.
- Digwyddiadau cyhoeddus lle mae nifer uchel o ymwelwyr megis Sioe Môn, Sioe Dinbych a Fflint, yr Eisteddfod.
- Barn gan randdeiliaid ynghylch gwasanaethau newydd, yn cynnwys rhaglenni cyfalaf.
- Arolygon fel *Sgyrsiau Covid* , Cleifion Allanol, arolygon cleifion meddygon teulu, ymgynghoriadau digidol.
- Cydweithio â grwpiau sy'n cynrychioli Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a grwpiau nas clywir yn aml fel Cymdeithas Menywod Tsieineaidd Gogledd-ddwyrain Cymru, Cymdeithas Gogledd Cymru Affrica a ffoaduriaid, y gymuned y teithwyr a'r digartref.
- Fforymau ymgysylltu Trydydd Sector
- Themâu allweddol fel y nodwyd mewn cwynion, pryderon a chanmoliaeth a dderbyniwyd gan BIPBC.

Mae mewnwelediadau allweddol sy'n llywio ein gwaith yn cynnwys:

Mae'r prif adborth a dderbyniwyd drwy ein hymgysylltu yn aml yn amlygu cefnogaeth gadarnhaol i'n staff clinigol, ac roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, codir materion yn rheolaidd gan y cyhoedd, cleifion, staff a phartneriaid. Y themâu a'r meysydd allweddol yw:

- Gallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei fwriadau strategol.
- Mynediad at wasanaethau iechyd, gan gynnwys yn ddaearyddol ac amseroedd aros (gofal sylfaenol, gofal wedi'i gynllunio ac ati).
- Heriau recriwtio a chadw ein gweithlu.

DRAFT

- Cynnwys cleifion, gan gynnwys gwrando ar gleifion, cynnwys penderfyniadau am eu gofal a chyfranogiad ehangach mewn gwelliannau i wasanaethau.
- Cyfathrebu a gwrando, gan gynnwys cyfathrebiadau mwy cydgysylltiedig rhwng gwasanaethau a gwybodaeth i gleifion.
- Gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cydweithio parhaus, ffyrdd newydd o weithio a chynnal y momentwm.
- Gofal cydlynol i gleifion.
- Atal, gan gynnwys ffocws ar iechyd meddwl, addysg a chynnal iechyd a lles.

Mae'r adborth a gawsom yn dangos bod pobl yn awyddus i weld gwelliannau'n cael eu darparu i wasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru, ac mae awydd gan y cyhoedd, cleifion, staff a phartneriaid iddo symud yn gyflym o sefyllfa o fwriadau strategol i weithrediad manwl a gweithredoedd gwirioneddol.

DRAFT

Adran 4: Ein hegwyddorion

Ein Hegwyddorion ar gyfer Ymgysylltu

1. Tryloyw
    - Byddwn yn agored ac yn dryloyw er mwyn adeiladu amgylchedd ymddiriedus.

2. Grymuso
    - Byddwn yn sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo y gallant ddylanwadu ar ein gwasanaethau a'u hiechyd a'u lles eu hunain.

3. Cyd-ddylunio
    - Byddwn yn cyd-ddylunio gwasanaethau, cynlluniau a strategaethau gyda chleifion, y cyhoedd a'n partneriaid

4. Creadigol
    - Byddwn yn addasu'r hyn a wnawn i wahanol gynulleidfaoedd.
    - Byddwn yn defnyddio technoleg ac arloesedd lle bynnag y bo'n briodol.

5. Hygyrch
    - Byddwn yn mynd at bobl yn hytrach na disgwyl iddynt ddod atom ni.

6. Cynhwysol
    - Byddwn yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan.
    - Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys cymunedau nas clywir yn aml.
    - Byddwn yn ymgysylltu â phobl yn eu dewis iaith.

7. Parhaus
    - Byddwn yn meithrin ymgysylltiad ystyrlon parhaus â chymunedau a rhanddeiliaid wrth gynllunio a dylunio gofal a gwasanaethau yn yr iaith briodol.

Ein Hegwyddorion ar gyfer Cyfathrebu

1. Clir, cyson ac amserol
    - Byddwn yn defnyddio iaith glir (gan osgoi jargon ac acronymau) ac yn esbonio'r rhesymau dros yr hyn a wnawn.
    - Byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau statudol yn Safonau'r Gymraeg, gan ddarparu cyfathrebiadau dwyieithog i gleifion, y cyhoedd a staff.
    - Byddwn yn ymateb i geisiadau am wybodaeth yn brydlon ac yn llawn.
    - Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhannu negeseuon mewn modd amserol i weddu i anghenion ein rhanddeiliaid.

2. Agored, gonest a chywir
    - Byddwn yn agored ac yn ymddiheuro pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau.
    - Byddwn yn gwirio ein ffeithiau ac yn defnyddio ffynonellau credadwy.

DRAFT

- Byddwn yn meithrin hygrededd ac ymddiriedaeth trwy rannu cyflawniadau a llwyddiannau'r sefydliad.

3. Dwy ffordd
    - Byddwn yn annog adborth.
    - Byddwn yn hyrwyddo ein hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n gwrando ac yn dysgu.
    - Byddwn yn defnyddio sianeli sy'n ei gwneud yn haws i'n cynulleidfaoedd ymgysylltu â ni.

4. Wedi'i dargedu ac yn berthnasol
    - Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir.
    - Byddwn yn sicrhau bod ein cyfathrebiadau yn hygyrch i'n derbynwyr arfaethedig.
    - Byddwn yn ymwybodol o'r amrywiaeth o fewn ein cymunedau.

5. Wedi'i gynllunio a phroffesiynol
    - Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi amcanion strategol y Bwrdd ac amcanion ein partneriaid pryd bynnag y gallwn.
    - Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gynllunio a chydlynu cyfathrebiadau.
    - Byddwn yn sicrhau bod gan y tîm PEC yr adnoddau, y sgiliau a'r arbenigedd priodol i gyflawni.

6. Sianeli (ein ffyrdd o gyfathrebu) sy'n briodol
    - Byddwn yn adolygu'r defnydd o'n sianeli yn rheolaidd i bennu eu heffeithiolrwydd.
    - Byddwn yn arloesi ac yn addasu technolegau newydd fel y bo'n briodol.

DRAFT

Adran 5: Gweithredu'r Strategaeth

Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r dull o gyflawni'r strategaeth partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu:

- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gweithlu
- Materion cyhoeddus a phartneriaethau
- Cyfathrebu allanol a rheoli enw da
    - Cysylltiadau â'r cyfryngau
    - Cyfathrebu digidol
    - Cyfathrebu mewn argyfwng
    - Gweithio cydgysylltiedig

Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae angen i ni gynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â chleifion a'r cyhoedd i wrando a gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym fel y gallant gyd-ddylunio a dylanwadu ar ofal a gwasanaethau. Mae angen inni glywed ganddynt hefyd er mwyn helpu i lunio ein cyfeiriad strategol. Mae'r adran hon yn crynhoi ein hymagwedd.

Mae deialog barhaus ac agored yn adeiladu diwylliant o dryloywder ac ymddiriedaeth. Ein hathroniaeth yw cael rhaglen ymgysylltu arferol ochr yn ochr â mecanweithiau sy'n galluogi'r cyhoedd i gael mewnbwn gwirioneddol i wneud penderfyniadau strategol.

Mae bod yn agored am yr heriau sy'n wynebu'r GIG a gweithio gyda chydweithwyr Cynllunio a Strategaeth i gynnwys pobl leol, staff a phartneriaid wrth ddod o hyd i atebion yn hanfodol os ydym am ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel, diogel a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion ein cymuned nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein gwaith ymgysylltu yn dilyn cylch o wrando, dadansoddi, gwirio ein dealltwriaeth, ystyried yr opsiynau, gweithredu'r dull y cytunwyd arno a'i werthuso. Mae hyn yn ein helpu i weithio gyda chleifion, gofalwyr a'r cyhoedd i drawsnewid a gwella gwasanaethau fel bod cleifion yn derbyn gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n well, gofal o ansawdd uchel, dewis iaith a gwell profiad.

Rydym wedi ymrwymo i geisio barn yn gynnar ac i roi adborth i bobl sy'n cyfrannu at sgyrsiau ac arolygon.

Cyd-ddylunio fel mater o drefn

Lle bynnag y bo modd, byddwn yn cyd-ddylunio â chleifion, y cyhoedd, ein gweithlu a phartneriaid. Trwy ein dull ymgysylltu parhaus, byddwn yn cychwyn sgyrsiau am faterion heriol yn gynnar ac yn ceisio dod o hyd i atebion gyda'n gilydd i heriau gwasanaeth fel y gallwn gyd-ddylunio a chydgynhyrchu gwelliannau.

Rydym am archwilio a deall gan ein cleifion, y cyhoedd a phartneriaid sut olwg fydd ar 'dda' iddyn nhw a beth fydd y canlyniadau iechyd a lles.

DRAFT

Mae gwasanaethau'r GIG i bawb ac rydym am fod yn siŵr bod pobl sydd ag anghenion corfforol, iechyd meddwl, cymdeithasol, diwylliannol neu ddysgu gwahanol yn cael eu cynnwys yn ein sgyrsiau. Mae'n hanfodol bod y gwelliannau y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio eu gwneud yn gwella bywydau pobl Gogledd Cymru.

Gwelliant wedi'i Dargedu

Fel rhan o'r gwaith Gwelliant wedi'i Dargedu, rydym wedi canolbwyntio ymdrechion i gydgysylltu gwaith ymgysylltu ar draws y sefydliad fel ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wrando a darparu gwybodaeth amserol, rhagweithiol wedi'i thargedu sy'n dangos bod adborth yn cael ei ddefnyddio. Trwy weithio gyda chydweithwyr ar draws BIPBC, rydym yn dangos cynnydd sylweddol tuag at ymgysylltu parhaus a dwfn gyda mentrau megis 'pecynnau cymorth ymgysylltu' ac archwilio ymgysylltiad ar draws y sefydliad i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan, gan gynnwys arolygon a sesiynau galw heibio, cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, cleifion a grwpiau diddordeb. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i bobl gymryd rhan drwy gynllun cynnwys y cyhoedd wedi'i adnewyddu ac yn annog pobl i gofrestru ar gyfer cyfleoedd i ymwneud â'r Bwrdd Iechyd a llywio ei wasanaethau.

Byddwn yn cynhyrchu arolygon gyda chwestiynau sy'n cael eu hystyried yn ofalus er mwyn galluogi cyfranogwyr i ymgysylltu'n ystyrlon.

Cynhwysol a chysylltiedig

Er mwyn sicrhau y gall cymunedau gymryd rhan byddwn yn ystyried yr heriau daearyddol ac amrywiaeth ein hardaloedd lleol ac yn teilwra'n hymagwedd i sicrhau ymgysylltu ystyrlon. Byddwn yn ofalus i beidio â gorfodi gweithgarwch ymgysylltu ar gymunedau heb yn gyntaf ystyried cyfleoedd i gysylltu â rhwydweithiau a grwpiau partner sy'n bodoli'n barod, sydd i gyd â chyfoeth o wybodaeth leol. Mae ein Cymunedau Iechyd Integredig (IHCs), sy'n ffurfio craidd Model Gweithredu newydd y Bwrdd Iechyd ac a lansiwyd ym mis Awst 2022, mewn sefyllfa dda i nodi blaenoriaethau lleol a chorfforaethol ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu a byddwn yn gweithio ochr yn ochr â nhw i gyflawni'r rhain.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydlynu ac yn gwneud y mwyaf o adnoddau, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ym meysydd cynllunio, trawsnewid, ac iechyd y cyhoedd ac yn yr IHCs i ddatblygu rhaglen flynyddol o weithgarwch a gaiff ei diweddaru bob chwarter. Yn ogystal, byddwn yn cyflwyno templed newydd (Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni) ar gyfer yr holl raglenni gwaith sydd wedi'u llywio gan ymgysylltu.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn adeiladu ar ein fframwaith ymgysylltu drwy gyd-greu fersiwn wedi'i hadnewyddu gyda chleifion, y cyhoedd a phartneriaid.

Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gweithlu

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gweithlu yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff ac mae'n hollbwysig os ydym am gyflawni gweledigaeth a nodau'r Bwrdd Iechyd.

DRAFT

Mae’r cyfuniad o’r pwysau parhaus ar y gweithlu a rhaglen drawsnewid sylweddol ynghyd â chyflwyno Model Gweithredu newydd ym mis Awst 2022 yn golygu na fu cyfathrebu ac ymgysylltu â staff erioed mor bwysig.

Mae adnoddau sylfaenol i gefnogi cyfathrebu mewnol da eisoes ar waith, yn dilyn ailddatblygu’r fewnrwyd, y gofyniad i’r holl staff gael gwerthusiad rheolaidd (PADR), rhaglen i wneud arweinwyr yn fwy amlwg drwy fentrau fel cyflwyno a datblygu digwyddiadau ymgysylltu â grwpiau bach megis sgyrsiau gyda’r Prif Weithredwr a sesiynau Holi’r Panel. Yn ychwanegol at hyn, mae’r Gwobrau Cydnabod Staff yn ddigwyddiad blynyddol pwysig sy’n annog y staff i gydnabod ac enwebu cydweithwyr am eu cyfraniad eithriadol.

Daw rhai o’r mentrau hyn o’r rhaglen Cryfach Gyda’n Gilydd yn dilyn ymgysylltu eang â staff ac mae cynlluniau ar waith i gyflawni mwy o gamau gweithredu o’r rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys cyd-ddylunio compact ar werthoedd ac ymddygiadau, ailgyflwyno Briff Tîm a datblygu pecynnau cymorth i gefnogi rheolwyr llinell gydag ymgysylltu a chyfathrebu. Mae'r tîm Datblygu Sefydliadol (OD) yn arwain ar y mentrau hyn ac yn cael eu cefnogi gan y tîm PEC i'w cyflawni.

Gwnaethpwyd newidiadau i brosesau cyfathrebu mewnol yn dilyn archwiliad yn 2017 yn cynnwys adborth gan fwy na 1,400 o aelodau staff. Roedd y newidiadau yn cynnwys:

- Cyflwyno proses gadarn i fesur y defnydd o bob e-bost defnyddiwr a gosod ein disgwyliadau o ran eu defnydd.
- Caffael ap trydydd parti i gefnogi staff sydd â mynediad gwael i systemau TGCh BIPBC.
- Symud yn gynyddol i fformat digidol ar gyfer dosbarthu newyddion, ond gan nodi bod angen dogfennau printiedig mewn rhai sefyllfaoedd.
- Canolbwyntio ar ddatblygu cynnwys dwyieithog sy’n gwella morâl, yn ennyn diddordeb staff ac yn helpu staff i deimlo’n wybodus.

Mae adferiad o’r tarfu a achoswyd gan COVID-19 yn rhoi cyfle i ni ail-adolygu’r canfyddiadau hyn yng ngoleuni’r ffordd wahanol y mae’r sefydliad yn gweithio bellach. Mae'r archwiliad hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, gyda themâu allweddol yn dechrau datblygu.

Byddwn yn defnyddio'r adborth fel rhan o waith i barhau â gwelliannau a syniadau newydd o fewn cyfathrebu â staff. Mae targedau eang a meysydd i’w gwella yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar wella sianeli cyfathrebu ar gyfer staff nad oes ganddynt fynediad arferol i ddyfeisiau BIPBC fel rhan o'u diwrnod gwaith.
- Datblygu ymhellach ddadansoddeg a chasglu data i ddangos tystiolaeth o weithgareddau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar staff BIPBC.
- Parhau i edrych ar ddatblygu systemau cyfathrebu dwy ffordd a chefnogi diwylliant o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, gan symud i ffwrdd oddi wrth yr arferion o wneud cyhoeddiadau.

DRAFT

Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd bod ymgysylltu â staff a chyfathrebu yn broses ddwy ffordd a rhaid i bawb gydnabod eu cyfrifoldeb i ymgysylltu a chyfathrebu o fewn ac ar draws eu timau a thu hwnt i'r sefydliad ehangach pan fo'n briodol.

Materion cyhoeddus a phartneriaethau

Mae ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn hanfodol os ydym am gryfhau ein perthynas â nhw. Mae angen i ni ddeall anghenion a chymhellion pob un o'n grwpiau rhanddeiliaid ac o fewn y cyd-destun hwn esbonio heriau a llwyddiannau'r Bwrdd Iechyd. Byddwn yn gwrthweithio gwybodaeth anghywir â ffeithiau ac ystadegau ac yn archwilio cyfleoedd sydd o fudd i randdeiliaid a'r Bwrdd Iechyd.

Mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Aelodau o'r Senedd (MS) ac ASau, Llywodraeth Cymru, arweinwyr gwleidyddol awdurdodau lleol a Phrif Weithredwyr, ac aelodau o grwpiau Gogledd Cymru gyfan megis y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ddiweddar, rydym wedi cryfhau ein ffocws ar wella perthnasoedd â phartneriaid ac rydym yn dechrau meithrin perthnasoedd cryfach a mwy cadarnhaol ag Aelodau o'r Senedd, ASau, eu staff a chynrychiolwyr cymunedol. Cyflwynwyd bwletin gwleidyddol a phartner wythnosol ac mae amserlen o gyfarfodydd chwarterol gyda holl Aelodau o'r Senedd ac ASau Gogledd Cymru yn ei lle.

Yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, byddwn yn cynyddu'r dull hwn gyda'n partneriaid allweddol eraill. Er enghraifft, byddwn yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sefydlu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a sefydliadau Trydydd Sector sydd â diddordeb penodol ac sy'n gweithio'n agos gyda BIPBC.

Mae cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd, datblygu ein sianeli ffurfiol ac anffurfiol a darparu cyfleoedd i weld cyfleusterau, siarad â staff a chleifion yn elfennau hanfodol o'r flaenraglen waith.

Cyfathrebu allanol a rheoli enw da

Caiff hyder a boddhad cleifion eu gyrru gan eu profiad bywyd o ofal iechyd naill ai fel claf neu fel gofalwr, gan ffrindiau a theulu, neu gan yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i glywed yn y cyfryngau. Po fwyaf y maent yn ei wybod, y mwyaf gwybodus y byddant am gael mynediad at wasanaethau a'r wybodaeth a'r cyngor a gânt.

Mae enw da BIPBC wedi'i adeiladu ar y profiadau a'r ddealltwriaeth hyn ac er bod llawer o'r cysylltiadau uniongyrchol â gofal iechyd y tu allan i gwmpas y tîm PEC, mae gennym rôl mewn llunio canfyddiadau a rheoli disgwyliadau, yn enwedig yn y cyfryngau a chyda phartneriaid.

Mae cyfathrebu allanol yn rhan hanfodol o sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn amddiffyn ac yn gwella ei enw da. Ein cyfathrebiadau allanol yn aml yw'r argraff gyntaf a gaiff y mwyafrif o bobl o'n sefydliad.

DRAFT

Mae gweithgareddau cyfathrebu allanol yn sicrhau bod y negeseuon a'r wybodaeth yn cael eu cyflwyno i'r bobl gywir, ar yr amser cywir. Bydd ein hoffer cyfathrebu a'n gweithgareddau yn cefnogi ac yn sicrhau pobl am ddiogelwch ac ansawdd ein gwasanaethau.

Nod y strategaeth hon yw datblygu a diogelu brand BIPBC trwy gysylltiadau cyfryngol rhagweithiol ac adweithiol, cyfathrebiadau digidol a dull cydgysylltiedig gyda thimau materion cyhoeddus, ymgysylltu a chefnogi elusennau.

Cysylltiadau â'r cyfryngau

Fel sefydliad GIG, rydym yn atebol i'r cyhoedd ac mae angen i ni weithio gyda'r cyfryngau i egluro ein rôl a bod yn atebol. Mae angen y cyfryngau arnom hefyd – mae'n ffordd werthfawr o gyrraedd pobl, codi ymwybyddiaeth ac annog ffyrdd iachach o fyw. Am y rheswm hwn yn unig, mae'n hollbwysig bod cysylltiadau da â'r cyfryngau yn un o egwyddorion craidd ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'r cyfryngau yn gynulleidfa ac yn gyfrwng cyfathrebu gyda'r gallu i atgyfnerthu neu niweidio enw da. Drwy weithio ar sail parch proffesiynol y naill at y llall, mae angen inni barhau i feithrin ein perthynas o ymddiriedaeth â'r cyfryngau; nid yn unig bwydo llif cyson o straeon newyddion cadarnhaol ond hefyd, cyfaddef ein camgymeriadau os yw pethau wedi mynd o chwith.

Cyflawnir hyn trwy weithio gyda'r cyfryngau, ymateb yn gyflym i ymholiadau'r cyfryngau, cysylltu'n ôl â newyddiadurwyr pan ddywedwn y gwnawn. Mae'n ymwneud â mynd yr ail filltir i helpu newyddiadurwr gyda'i ymholiad trwy ddod o hyd i ateb i gwestiwn neu lefarydd i wneud sylw ar fater neu bwnc.

Mae gennym eisoes berthnasoedd gwaith rhagorol gyda'n cyfryngau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u datblygu gan y tîm cyfathrebu dros nifer o flynyddoedd. Gwnaethom ganolbwyntio ar ymateb pandemig y Bwrdd Iechyd yn y cyfryngau, gan gadw staff a chleifion yn ddiogel a dilyn y canllawiau llym ar atal a rheoli heintiau.

Dros y tair blynedd diwethaf mae ymholiadau a cheisiadau am gyfweliadau a ffilmio wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, yn 2019, rheolodd y Bwrdd Iechyd 271 o ymholiadau gan y cyfryngau, a gynyddodd 207 y cant i 833 yn 2021. Bu'r rhan fwyaf o'r sylw hwn yn y cyfryngau yn gadarnhaol, sy'n ganlyniad i'r straeon newyddion rhagweithiol a chadarnhaol y mae'r tîm wedi'u cynhyrchu sy'n canolbwyntio ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan ein staff ar draws Gogledd Cymru.

Drwy barhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd. Byddwn yn gweithio gyda'r cyfryngau i egluro sut mae ein gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai yn gweithio a'r newid trawsnewidiol i wasanaethau yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Gallwn hefyd reoli straeon anodd yn fwy effeithiol. Byddwn yn gweithio gyda'n staff i baratoi'n rhagweithiol ar gyfer unrhyw straeon cyfryngau posibl.

DRAFT

Cyfathrebu digidol

Mae cyfathrebu digidol yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o hyrwyddo a rheoli enw da'r Bwrdd Iechyd. Mae'n ffynhonnell wybodaeth i gleifion, y cyhoedd, staff, rhanddeiliaid a darpar weithwyr.

Yn ystod y pandemig, daeth yr angen am gyfathrebu dwy ffordd effeithiol yn rhan sylfaenol o'r ymateb i'r feirws a gwelsom lefelau digynsail o alw am ein llwyfannau digidol ac ymgysylltu â'r rheiny.

Mae twf cyflym y cyfryngau cymdeithasol, y defnydd arferol o ffonau clyfar a'r symudiad tuag at ddiwylliant cyfathrebu "bob amser ymlaen" i gyd wedi ymestyn ymhellach gapasiti a gallu cyfathrebwyr y GIG sy'n gweithio mewn amgylchedd a oedd eisoes yn uchel ei broffil, yn wleidyddol sensitif ac yn gyfnewidiol.

Mae'r cynnydd yn nifer y newyddiadurwyr o blith y cyhoedd, blogwyr a llunwyr barn eraill sy'n gweithredu y tu allan i fframwaith gweithgarwch cyfryngau traddodiadol wedi ychwanegu elfen bellach o gymhlethdod.

Yn ogystal, mae dod yn fwy cyfarwydd â chyfryngau cymdeithasol wedi grymuso cleifion, ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr i rannu eu straeon, mewn amser real, am eu profiadau o dderbyn gofal neu weithio yn ein hysbytai, er gwell neu er gwaeth.

Golyga hyn ein bod bellach yn rheoli llawer o'n perthnasoedd â rhanddeiliaid yn y parth cyhoeddus a rhaid rheoli'r rhyngweithiadau hyn yn ofalus. Mae potensial i'r cynnig 'cwsmer rheng flaen' hwn gael ei ystyried fel rhan o drafodaethau ehangach ar wella gwasanaethau cyswllt cyntaf cleifion a'r cyhoedd ac rydym yn croesawu'r posibilrwydd hwn a'r cyfle i drafod yr adnodd i lunio cynnig gwell i gleifion a'r cyhoedd.

Mae cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi dod yn rhan allweddol o swyddogaethau rhagweithiol ac adweithiol gan helpu i gryfhau perthnasoedd â rhanddeiliaid, trawsnewid tirwedd y cyfryngau a chefnogi'r sefydliad mewn argyfwng.

Rydym yn gynyddol yn darparu gwybodaeth mewn ffordd fwy amserol ac wedi'i thargedu'n well trwy ein platfformau ein hunain ac rydym yn cyrraedd ein cynulleidfaoedd arfaethedig yn uniongyrchol. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn enghraifft o blatfform sy'n cael ei hyrwyddo'n eang ac sy'n derbyn llawer iawn o draffig. Yn ei dro, mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i ni dros ein cynnwys ein hunain heb leihau'r sylw y mae'n ei gynhyrchu.

Mewnwelediad allweddol o'n harolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd yn ystod y pandemig oedd bod angen i ni deilwra ein cyfathrebiadau digidol i gymunedau llai. Rydyn ni nawr yn creu cynnwys wedi'i deilwra a chyfleoedd newydd ar gyfryngau cymdeithasol i wneud hyn ac rydyn ni'n disgwyl eu trosi'n ymgysylltu mwy ystyrlon a chynnydd yn ein cyrhaeddiad.

Drwy ddefnyddio offer monitro, rydym yn gwella'n barhaus sut rydym yn gweithio ar draws ein llwyfannau digidol ac yn archwilio ffyrdd newydd o gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar-lein.

DRAFT

Cyfathrebu mewn argyfwng

Mae achub y blaen, ymdrin ag argyfyngau'n llwyddiannus, a lleihau risg i'r sefydliad drwy sylw negyddol yn y cyfryngau yn rhan allweddol o reoli cyfathrebu effeithiol ar draws Gogledd Cymru.

Yn ystod pandemig COVID-19, dangosodd BIPBC ei allu i weithredu mewn cyfnod parhaus o argyfwng. Dysgwyd o'r profiad a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i wella ein cyfathrebu mewn argyfwng.

Mae gennym ddyletswydd i gyfathrebu'n dda â'r cyhoedd yn ystod argyfwng fel eu bod yn wybodus ac yn gallu ymateb i argyfwng, ac felly lleihau effaith hyn ar holl wasanaethau'r GIG.

Mae gennym dîm cyfathrebu profiadol sy'n gallu darparu cymorth cyfathrebu mewn argyfwng pan fo angen. Mae gennym hefyd ddull cadarn o gysylltu â chyfarwyddwr y drefn rheoli aur ar gyfer cyfathrebu y tu allan i oriau.

Rydym yn bartner allweddol yng Nghell Cyfryngau Gogledd Cymru sydd â ffocws penodol ar sut y byddai iechyd yn cyfathrebu mewn argyfwng. Rydym wedi ysgrifennu canllawiau ar sut y byddwn yn cyfathrebu mewn argyfwng neu ddigwyddiad mawr.

Bydd risgiau i enw da yn cael eu rhagdybio lle bo modd a bydd llinell gyfathrebu glir yn cael ei sefydlu ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd o argyfwng pan fyddant yn codi.

Dull cydgysylltiedig

Ym mis Awst 2021, ymunodd y timau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu corfforaethol â'r timau materion cyhoeddus ac elusennau i ddod yn swyddogaeth Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu. Mae'r tîm sydd newydd ei ffurfio wedi dod ag arbenigedd ynghyd mewn un gyfarwyddiaeth i gydlynu ymdrechion i wrando, deall a gweithredu ar adborth gan y cyhoedd a phartneriaid.

Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i ddatblygu a diogelu enw da'r Bwrdd lechyd drwy gydlynu dull agored, gonest ac amserol o gyfathrebu ac ymgysylltu â'i randdeiliaid.

DRAFT

Adran 6: Deilliannau o'r Strategaeth hon

Y canlyniadau rydym yn eu disgwyl yw:

- Gwelliant amlwg yn y berthynas â rhanddeiliaid fel y'i mesurir yn yr arolwg rhanddeiliaid blynyddol.
- Gwelliant parhaus yn rheolaeth enw da BIPBC, fel y'i mesurir mewn adroddiadau a dadansoddiadau cyfryngau print, cymdeithasol a darlledu.
- Gwelliant parhaus yn y parth Ymgysylltu Matrics Aeddfedrwydd Gwelliant wedi'i Dargedu, fel y'i mesurir gan y dystiolaeth a gyflwynwyd.
- Perthynas gryfach â swyddfeydd Aelodau'r Senedd, Aelodau Seneddol ac Awdurdodau Lleol, fel y'i mesurir mewn arolwg materion cyhoeddus.
- Mwy o gyfleoedd i bobl Gogledd Cymru fod yn rhan o gyd-ddylunio gwasanaethau a llunio cynlluniau a strategaethau, fel y'u mesurir yn ein fframwaith cynnwys wedi'i adnewyddu, cynlluniau trawsnewid gwasanaethau a chynllun cynnwys y cyhoedd wedi'i adnewyddu.
- Gwelliant parhaus i'n sianeli cyfathrebu, fel y'i mesurir gan ein hymateb i adborth gan gleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid.
- Gwaith tîm cryf yn swyddogaeth PEC, fel y'i mesurir yn amcanion y tîm

DRAFT

Adran 7: Cyllideb ac adnoddau

Y tîm partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu sydd â'r prif gyfrifoldeb am gyflawni'r strategaeth hon gyda chefnogaeth a chymeradwyaeth y Prif Weithredwr, y Bwrdd Iechyd a'i dîm rheoli gweithredol, ochr yn ochr â rhan unigolion a thimau ar draws y sefydliad.

Fel adnodd corfforaethol, mae'r tîm partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu yn darparu gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu, cyngor ac arweiniad ar draws yr holl adrannau corfforaethol ac is-adrannau clinigol, a'r sefydliad cyfan, a bydd yn parhau i reoli'r galwadau a'r pwysau sy'n gwrthdaro a'r effaith a gaiff hyn ar ddarparu gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu y mae hyn yn eu cyflwyno.

Bydd angen adnoddau ariannol i weithredu'r strategaeth hon yn effeithiol. Ar hyn o bryd mae cyllideb wedi'i nodi i ddarparu gweithgareddau partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu yn flynyddol. Ochr yn ochr â hyn, bydd cyfleoedd ar gyfer ffynonellau adnoddau ychwanegol bob amser yn cael eu harchwilio ar sail prosiect penodol.

Bydd y tîm hefyd yn ceisio sicrhau nawdd ar gyfer prosiectau penodol lle bo modd, er enghraifft y seremoni wobrwyo staff flynyddol.

Y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, sy'n aelod di-bleidlais o'r Bwrdd Iechyd, sydd yn arwain partneriaethau, ymgysylltu a chyfathrebu.

DRAFT

Adran 8: Gwerthuso

Bydd y strategaeth hon yn cael ei gwerthuso a'i hadolygu'n barhaus. Mae gennym ystod o ffynonellau sy'n rhoi gwaelodlin i ni o'r hyn y mae'r cyhoedd, y gweithlu a phartneriaid yn ei feddwl a sut mae ein sianeli'n perfformio, e.e. arolygon rhanddeiliaid, y cyhoedd a'r gweithlu a monitro gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, argraffu a darlledu. Mae'r rhain yn ein galluogi i fonitro effeithiolrwydd sianeli a chynhyrchion a gwneud newidiadau ac addasiadau yn ôl yr angen.

Byddwn yn diweddaru'r strategaeth yn rheolaidd i adlewyrchu adborth gan ein staff, cleifion, y cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid.

Byddwn yn adolygu ac yn dadansoddi ein perfformiad yn barhaus gan ddefnyddio ffynonellau amrywiol, a amlinellir isod.

- Pob sylw yn y cyfryngau
- Dadansoddiad o wefan BIPBC – ymwelwyr unigryw, nifer yr ymweliadau, ymweliadau â thudalennau, rhyngweithio ac ymatebion
- Adborth o'n rhyngweithio â'r cyhoedd
- Rhyngweithio cyfryngau cymdeithasol, ee nifer y dilynwyr a'r cyfeiriadau Twitter, a hoffterau a sylwadau Facebook
- Newidiadau i ofal a gwasanaethau o ganlyniad i'n proses o gasglu mewnwelediad – byddwn yn olrhain effaith lleisiau cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith datblygu/trawsnewid gwasanaethau
- Cynnwys grwpiau nas clywir yn aml – byddwn yn olrhain pwy rydym yn siarad â nhw ac yn gwrando arnynt fesul prosiect, ymgyrch a gweithgaredd ymgysylltu
- Dadansoddiad o dueddiadau gohebiaeth AoS ac AS
- Dadansoddiad o ymholiadau gwasanaeth cyngor a chyswllt cleifion (PALS)
- Dadansoddiad o dueddiadau cwynion a chanmoliaeth
- Adborth gan grwpiau eiriolaeth, megis Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- Adborth o'n harolwg rhanddeiliaid
- Adborth o'n harolygon cyfathrebu mewnol
- Ein gwerthusiad ac adroddiadau cyfryngau ein hunain

Byddwn yn adolygu ein cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodir yn y strategaeth hon bob mis ac yn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun gweithredu a thactegau yn ôl yr angen.

Bydd cynnydd yn erbyn y strategaeth hon yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Iechyd bob chwe mis neu yn unol â chais y Bwrdd.

DRAFT

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Y Diweddaraf am Ofal Heb ei Drefnu a Chynllun y Gaeaf			
Adrodd i: ***Report to:***	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Thursday, 29 September 2022			
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	*Diweddariad wedi'i restru ar yr agenda mewn perthynas â'r cynllun gofal heb ei drefnu yn unol â'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac mewn Argyfwng 2021-2026* Mae'r papur yn nodi diweddariad am y 12 mis blaenorol ar gyfer gofal heb ei drefnu ac yn nodi meysydd i'w datblygu dros y 6 mis nesaf er sicrwydd. Parhau i ddatblygu cynllun y gaeaf yn unol â 6 nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ochr yn ochr ag ymgyrch 1000 o welyau Cymru Gyfan i gefnogi capasiti prynu ychwanegol yn y fan a'r lle, cynyddu capasiti D2RA, capasiti staffio ychwanegol a dychwelyd gofod clinigol i ddarparu lle ar gyfer cleifion. Mae'r cynllun yn gweithio ar y cyd â chynllunio corfforaethol a chymunedau iechyd integredig i sicrhau bod cynllun y gaeaf yn cyd-fynd â phroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth gan Awdurdodau Lleol ac aelodau'r trydydd sector.			
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd am y camau sy'n cael eu cymryd yn y rhaglen gwella Gofal Heb ei Drefnu a'r cynlluniau ar gyfer y gaeaf			
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig			
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Phil Orwin – Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol Dros Dro Geraint Farr – Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro ar gyfer Gofal Brys			
Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☐	I Benderfynu arno *For Decision* ☐	Am sicrwydd *For Assurance* ☒	
Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Derbyniol *Acceptable* ☐ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhannol *Partial* ☒ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*

<table>
<tr><td colspan="2">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:

Justification for the above assurance rating. Where ‘Partial’ or ‘No’ assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td>Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:

Link to Strategic Objective(s):</td><td>Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac mewn Argyfwng 2021-2026</td></tr>
<tr><td>Goblygiadau rheoleiddio a lleol:

Regulatory and legal implications:</td><td>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Yr Awdurdod Gweithredol Ansawdd a Diogelwch</td></tr>
<tr><td>Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?

In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</td><td>Cwblheir sgrinio’r EQIA fel rhan o’r gwaith o ddatblygu Cynllun y Gaeaf</td></tr>
<tr><td>Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?

In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</td><td>Bydd SEIA ar gyfer Cynllun y Gaeaf yn cael ei gwblhau os bydd angen</td></tr>
<tr><td>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)

Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</td><td>Anallu i ddarparu gofal amserol diogel i’r rheini sydd angen gofal heb ei drefnu.

Anallu i gefnogi gofal cleifion yn ystod cyfnodau o gynnydd yn y galw dros y gaeaf.

Anallu i gefnogi’r Chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng.</td></tr>
<tr><td>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith

Financial implications as a result of implementing the recommendations</td><td>Yr arwydd cyntaf yw nad oes cyllid ychwanegol newydd gan Lywodraeth Cymru o ran gofal heb ei drefnu / cynllunio ar gyfer y Gaeaf. Pwrpas yr ymarfer blaenoriaethu yw ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymgeisio petai cyllid yn dod ar gael.

Byddai gan y prosiect 1000 o welyau Cymru Gyfan ar hyn o bryd gost gychwynnol o:

<table>
<tr><th>Cynllun</th><th>IHC</th><th>Cost (PYE)</th></tr>
<tr><td>Prynu Bloc / Yn y Fan a’r Lle - gwelyau Camu i Fyny / Camu i Lawr</td><td>Gogledd Cymru Gyfan</td><td>1 miliwn</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

	<table><tr><td>D2RA - Therapïau</td><td>Gorllewin</td><td>200k</td></tr><tr><td>Tuag Adref – Gwasanaeth Pontio</td><td>Gorllewin</td><td>210k</td></tr><tr><td>Agor ward Gaeedig i ddarparu Gwelyau Camu i Lawr</td><td>Canol</td><td>250k</td></tr><tr><td>Rheoli oedolion risg uchel drwy bennu lefel risg</td><td>Dwyrain</td><td>150k</td></tr></table> Gyda rhyw gynllun ychwanegol posibl yn cynyddu £2.4 Miliwn o bosibl.
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Mwy o strwythur gweithredol i gefnogi'r rhaglen USC/EC dan arweiniad clinigol a chaniatáu i'r economi iechyd gael ei datblygu i fwrdd rhaglen ehangach yr USC/EC.
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Trafodwyd gyda'r Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol o ran cefnogaeth ar gyfer datblygu. Mae Hysbysu Gofal Iechyd (IHC) wedi bod yn gysylltiedig â chynllunio cychwynnol ar gyfer cynllunio pwysau'r gaeaf. Mae diweddariadau ar gynnydd wedi cael eu rhannu'n ddiweddar â swyddogion gweithredol a'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth (PPPH) gan nodi y bydd y sylwadau a dderbynnir yn siapio cynllun y gaeaf wrth iddo gael ei ddatblygu Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynllunio corfforaethol a chymunedau iechyd integredig i sicrhau bod cynllun y gaeaf yn cyd-fynd â phroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)	Amherthnasol

Reason for submission of report to confidential board (where relevant)	Not applicable

Camau Nesaf:
Gweithredu argymhellion

Camau Nesaf:

1. ***Ailgychwyn y Bwrdd USC i gefnogi datblygiadau wrth fynd i mewn i'r gaeaf.***
2. ***SBAR i gefnogi'r gofynion staffio.***
3. ***Rhannu'r cynllun gaeaf wedi'i gwblhau ar gyfer sicrwydd yn unol â'r cynlluniau lechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan 2022-2023 sydd wedi'u diweddaru.***

Gweithredu'r argymhellion:

Ailgychwyn y Bwrdd USC erbyn diwedd mis Medi 2022.
SBAR i gefnogi'r gofyniad staffio erbyn diwedd mis Medi 2022.
Rhannu cynlluniau'r gaeaf wedi'u cwblhau yn wythnos gyntaf mis Hydref 2022.

Rhestr o Atodiadau:
Dim

List of Appendices:
Atodiad 1 – 1000 o welyau Cymru Gyfan.

Atodiad Un

Canllawiau:

Perfformiad Gofal Heb ei Drefnu

Mae pwysau sylweddol yn dal i gael eu profi ar draws GIG Cymru oherwydd nifer o ffactorau priodoli sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys a heb eu trefnu, gan gynnwys cynnydd parhaus yn nifer y bobl sy'n mynd i Adrannau Brys ledled Gogledd Cymru, gyda lefel aciwt cyson uwch y cleifion sy'n mynd i Adrannau Brys fel y rhagwelwyd fel rhan o gynllun adfer COVID.


Mae hyn oherwydd y ffactorau canlynol:

i) Galw uwch ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a allai gynghori cleifion i fynd eu hunain i Adrannau Brys os gallant oherwydd cynnydd yn y Cynllun Diogelwch Clinigol, sy'n arwain at lefel aciwt uwch ymysg y rhai sy'n hunan-gyflwyno.

ii) Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn yn uniongyrchol gan feddygon teulu i unedau asesu ac sydd, yn hytrach, yn anfon cleifion i'r Adran Frys, oherwydd y galw ar y gweithlu.

iii) Effaith cleifion yn cael eu gohirio / ddim yn gallu gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn ystod cyfnod y pandemig ac sydd wedi dirywio'n glinigol erbyn hyn, gan olygu eu bod bellach yn mynd i Adrannau Brys i gael triniaeth frys ar gyfer eu cyflwr, sy'n effeithio ar y galw mewn Adrannau Brys a'r galw ar WAST am gerbydau i'w cludo yno.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos cyfanswm y Gweithgarwch Gofal Heb ei Drefnu ar gyfer Unedau Brys a Mân Anafiadau ledled Gogledd Cymru dros y 2 flynedd diwethaf.



Ffigur 1: Perfformiad Unedau Brys (ED) / Mân Anafiadau (MI) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r llif allan o Adrannau Brys a thrwy wardiau cleifion mewnol yn parhau i fod yn araf, oherwydd pwysau eithriadol wrth y drws cefn gyda rhyddhau cyfyngedig o ysbytai aciwt a chymunedol sydd yn waeth oherwydd nifer o ffactorau yn yr economi iechyd, h.y. gofal cymdeithasol, capasiti pecynnau gofal, cyfyngiadau cartrefi gofal/cartrefi preswyl. Mae heriau o ran recriwtio gweithlu a phrinder staff yn parhau i fod yn broblem barhaus yn yr amgylchedd economaidd cymdeithasol (Salwch, cyfyngiadau ariannol, recriwtio y tu allan i'r ardal) gyda staff yn gorfod lleihau oriau gwaith i gynnal cydbwysedd bywyd a gwaith neu ymgeisio am feysydd gwaith sy'n cynnig cymhelliant ariannol.

Mae'r adrannau Brys yn dychwelyd at y dull gweithredu busnes fel arfer gan nad yw cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn broblem mwyach oherwydd newidiadau mewn arferion gweithio.

Mae'r pwysau a brofir gan Awdurdodau Lleol ynghylch materion sy'n ymwneud â darparu gofal cartref yn arwain at oedi cyn rhyddhau cleifion sy'n feddygol gymwys. Mae'r cleifion hyn yn aros yn hwy yn yr ysbyty am becynnau gofal i gael eu rhoi ar waith. Mae oedi parhaus wrth aros am leoliadau, penderfyniadau cyllido neu gadarnhau capasiti cartrefi gofal sy'n parhau i waethygu, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn y llif drwy'r economi iechyd a chynnydd yn y gwaith o ddatgyflyru cleifion wrth iddynt ddisgwyl am y gefnogaeth ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel.

1. Corff yr adroddiad / *Body of report*

Mae'r rhaglen Gofal Heb ei Drefnu wedi bod yn datblygu dros y 12 mis diwethaf yn unol â'r 6 nod cenedlaethol, ffrydiau gwaith ochr yn ochr â'r Model Mynediad Cymru ar gyfer Gofal Brys (WAM) a elwid gynt yn fframwaith darparu Ansawdd Adrannau Achosion Brys (EDQDF), Yn dilyn y gwaith dros y 12 mis blaenorol, cafwyd cyfnod o ailosod ac adolygu'r camau gweithredu sydd wedi symud ymlaen yng Ngham 1 a defnyddio adborth i ddatblygu Cam 2 yn unol â'r 6 nod yn hytrach na'r ffrydiau gwaith.

Ffrwd waith 1 - y diweddaraf:

- Cwblhawyd adolygiad manwl o weithrediad / capasiti'r Uned Mân Anafiadau ynghyd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi i edrych ar set sgiliau'r staff a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yng ngweithrediad/cyfleusterau yr Unedau Mân Anafiadau ar draws Gogledd Cymru.
- Mae'r gwasanaeth 111 yn parhau i ddatblygu yn ystod ei gyfnod cynnar, gydag adolygiadau parhaus o'r gwasanaethau a ddarperir.
- Mae SIATAT/GP OOH yn datblygu cefnogaeth i gartrefi gofal/cartrefi nyrsio i leihau'r effaith ar WAST drwy'r Gwasanaeth 999.
- Mae UPCC yn cael eu cyflwyno ledled Gogledd Cymru ar ôl eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yn Economi Iechyd y Dwyrain.
- Mae cyfnod segur yr Adastra yn parhau i effeithio ar SICAAT/GP OOH, gan olygu bod y gwasanaethau'n dal i fod yn y cynllun parhad Busnes.

Ffrwd Waith 1 Camau Nesaf:

- Cynllunio tymor hir gan ddefnyddio'r cynllun 111 i helpu cleifion i ddewis yn ddoeth / ffrydio i leihau presenoldeb yn yr Adrannau brys a'r galw ar WAST. (Nodau 1 a 2 y cynllun chwe nod)

- Mae gwaith yn parhau hefyd i ddatblygu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cefnogi pob economi iechyd ac yn sicrhau'r un gwasanaeth ar gyfer poblogaeth cleifion Gogledd Cymru.
- Adolygu gwasanaethau sy'n gallu cael gafael ar 111 a lleihau'r risg o derminoleg dryswch, hy: MIU/UPCC/GP OOH ac ati a phontio ar draws i ganolfannau triniaeth frys gweithredol sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau uchod.
- Ymgysylltu'n well â WAST mewn perthynas â defnyddio Unedau Mân Anafiadau/UPCCS fel llwybr yn hytrach nag Adrannau Brys.
-

Ffrwd waith 2 - y diweddaraf:

- Mae rhaglen recriwtio BIPBC yn unol â'r cyllid a gefnogir bellach wedi cau gydag ymgyrch recriwtio lwyddiannus ar gyfer 2 o'r 3 safle. Dechreuwyd comisiynu asiantaeth recriwtio i gefnogi'r ymgyrch recriwtio ar gyfer y 3ydd safle.
- Mae gweithgarwch Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC) posibl yn cael ei fapio, sy'n dangos yr effaith y gall SDEC ei chael ar lif Adrannau brys a derbyniadau brys yn unol â'r model Chwe Nod.
- Erbyn hyn, mae gan bob safle SDEC gweithredol gyda gwaith parhaus yn mynd ymlaen i gefnogi'r model 7 diwrnod.

Ffrwd Waith 2 Camau Nesaf:

- Bydd cyfeiriadur gwasanaeth yn cael ei ddatblygu a'i rannu gyda phob darparwr gofal iechyd i gefnogi mynediad uniongyrchol.
- Cytundeb ar ddefnyddio gwasanaeth TG wedi'i wreiddio i gofnodi gweithgarwch SDEC a dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol ar draws Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Meincnodau SDEC Ch1 yn cael eu hadolygu i nodi unrhyw lwybrau ychwanegol i'w cefnogi.
- Adolygiad ym mis Tachwedd 2022 o broses atgyfeirio'r Parafeddygon i SDEC a nodi unrhyw wersi a ddysgwyd neu'r gallu i gynyddu mynediad.

Ffrwd waith 3 - y diweddaraf:

- Mae digwyddiadau rhyddhau aml-asiantaeth (MADE) yn parhau i ddigwydd ym mhob safle i gefnogi gwell rhyddhau cynnar drwy ymgysylltu'n llawn ag Awdurdodau Lleol a darparwyr gofal Iechyd.
- Mae wardiau cyfeillion yn parhau i ddatblygu yng ngoleuni'r ffaith bod lefel perygl wardiau coch yn cael ei ostwng ar safleoedd yr ysbyty, gan arwain at lai o symudiadau heb fod yn glinigol ar bob safle.
- Mae dangosfyrddau ward wythnosol bellach yn fyw ar gyfer pob ward ysbyty aciwt a chymunedol ac yn cael eu defnyddio wrth adolygu dyfeisiau aml-swyddogaeth (MFDS).
- Cytunwyd ar safonau proffesiynol mewnol mewn 2 o'r 3 safle a'u rhoi ar waith.

Ffrwd Waith 3 camau nesaf:

- Cwblhau'r safonau proffesiynol Mewnol ar y safle terfynol er mwyn cytuno arnynt a'u rhoi ar waith.
- Adolygiad o ddigwyddiadau rhyddhau aml-asiantaeth ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy raglen Drawsnewidiol USC i gadarnhau bod buddion y digwyddiadau'n cael eu gwireddu gyda'r holl randdeiliaid.

Ffrwd waith 4 - y diweddaraf:

- Ffocws parhaus i adolygu'r prosesau 'aseswyr dibynadwy' fel ffordd o nodi'n gyflym y cam nesaf ar gyfer cleifion sy'n feddygol gymwys i gael eu rhyddhau (MfD) neu cyn MfD.
- Cynigion ar gyfer llwybrau a/neu wardiau pwrpasol ar gyfer cleifion y bernir eu bod yn feddygol gymwys i gael eu rhyddhau sy'n cael eu trafod ar bob un o'r tri safle ond sydd ar gamau archwiliadol.

Ffrwd Waith 4 camau nesaf:

- Datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol (SOP) ar draws Prifysgol Betsi Cadwaladr i gynnwys proses uwchgyfeirio i bartneriaid yr ALl.
- Creu dangosfwrdd i gofnodi cynnydd cleifion sy'n feddygol gymwys i gael eu rhyddhau, y gall yr holl randdeiliaid gael mynediad ato.

Ochr yn ochr â'r ffrwd waith 6 nod ac fel rhan o'r ffocws gweithredol ar y fframwaith gofal Brys / heb ei drefnu:

- Rheoli'r Galw – Creu dangosfwrdd electronig ar gyfer ymchwydd mewn cynnydd (lefelau OPEL/ED) sy'n cael eu diweddaru drwy wybodeg yn unol â WPAS/Symphony sy'n gadarn ac yn gywir ac yn cefnogi'r broses o roi gwybod yn gynnar am gynnydd yn y galw.

  Gwaith ychwanegol y tu allan i sbardunau OPEL (Camau Gweithredu) sy'n cael eu rheoli'n lleol ar gyfer cynyddu lefelau risg, lle rydyn ni wedi defnyddio pob cyfle cyn cynyddu lefelau safle, gyda chamau gweithredu clir ar gyfer staff perthnasol i gefnogi'r broses o ostwng lefelau.

  Proses gadarn pan fydd safleoedd ar statws OPEL uwch i sicrhau camau gweithredu clir i gefnogi ostwng lefelau i gefnogi WG/DU.

  Cytundeb gydag NCCU i gefnogi gweithredu fframwaith cynyddu lefelau system gyfan ar gyfer gofal Brys ac mewn Argyfwng, gyda sbardunau diwygiedig i gyfateb i'r galw presennol am wasanaethau yn hytrach na sbardunau hanesyddol.

- Gwaith ar y cyd â WAST – Parhau â'r daith wella ar gyfer gostyngiad o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlans gan ddefnyddio llwybrau eraill.

  Adolygiadau ar y cyd o unrhyw Atodiadau B i gefnogi gweithio ar y cyd ar hyd y rhaglen wella.

  Ailddechrau ymgysylltu lleol ar bob safle gydag ardaloedd WAST i sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn cael eu rhannu.
  Adolygu sbardunau a chynllunio ar gyfer Cynllunio Diogelwch Clinigol a chamau gweithredu ar gyfer safleoedd wrth gynyddu lefelau.

- Gofal Brys - ED – Cwblhau'r rhaglen recriwtio ar gyfer staffio Adrannau Brys yn unol â'r cynnydd mewn cyllid.

Adolygiad safle o'r taflwybrau ar gyfer perfformiad 4 awr / 12 awr nawr bod staff yn eu lle ac wedi'u ymsefydlu.
Adolygu presenoldeb achosion Mawr a Mân i ganfod themâu i gefnogi dulliau eraill hy: Mân achosion yn cynyddu yn ystod y cyfnodau OOH.

- Rheoli capasiti – Adolygu protocolau ysbyty llawn a phennu meincnod ar gyfer derbyn hy. 90% gyda chynyddu lefelau risg a rheoli galw lleol, 95% yn llawn yna rhoi'r protocol ysbyty llawn ar waith, ond mae angen proses adolygu ffurfiol ar gyfer gostwng lefelau er mwyn canfod unrhyw gyfleoedd a gollwyd.

  Adolygiad o fodelu gwelyau lleol ar ôl y pandemig.

  Datblygu lolfa ryddhau 7 diwrnod yn unol â gwasanaethau 7 diwrnod y GIG, ac adolygu capasiti'r lolfeydd rhyddhau ar draws safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i leihau cyfyngiadau.

Gwaith ar y cyd ag Awdurdodau Lleol (yn unol â chynllun y gaeaf 2022-2023):
i) Defnyddio capasiti camu i lawr yn well;
ii) Datblygu atebion ar y cyd ar gyfer capasiti ychwanegol ee cartref gofal / camu i lawr a ariennir gan y GIG;
iii) Datblygu gweithlu integredig i sicrhau gweithlu gofal cynaliadwy; iv) Gweithio gyda'n gilydd i wella cyfathrebu ac ymgysylltu.

Defnyddio data a gwybodaeth – Herio sut rydym yn defnyddio'r data yn erbyn perfformiad.

Cynlluniau'r Gaeaf

Mae pob Cymuned Iechyd wedi nodi nifer o gynlluniau gaeaf arfaethedig ar gyfer 2022-23 ar wahân i fidiau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gyda chyfathrebu ar y cyd wedi'i gytuno rhwng gofal wedi'i gynllunio/gofal heb ei drefnu a chynllunio i atal dyblygu a chefnogi disgwyliadau realistig.

Er nad ydym wedi cael unrhyw arweiniad penodol gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw gyllid Gofal heb ei Drefnu (USC), eu disgwyliad yw nad oes gennym gynllun gaeaf ar wahân eleni a bod y cynlluniau'n cyd-fynd â rhaglen wella USC fel rhan o'r 6 nod.

Nid yw cynllun gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru gyfan ar gyfer 2022-2023 wedi'i ryddhau'n genedlaethol eto, ond mae dull gweithredu rhagweithiol yn unol â'r chwe Nod ar gyfer gofal brys ac mewn argyfwng ynghyd â phrosiect 1000 o welyau Cymru gyfan.

Mae'n ofynnol comisiynu 1000 o leoedd gofal neu leoedd mewn cartrefi gofal ychwanegol ar draws Cymru gyfan – gyda'r capasiti ychwanegol ar gael yn ddelfrydol erbyn mis Hydref i baratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf. Y gofyniad ar gyfer Gogledd Cymru yw 243 o leoliadau gofal ychwanegol a all fod yn gapasiti gwelyau ychwanegol neu'n becynnau gofal cymorth cymunedol.

Gan gydnabod nad yw gofal estynedig fel claf mewnol pan fydd person yn feddygol gymwys i gael ei ryddhau er budd gorau'r unigolyn a bod hynny'n achosi nifer o risgiau a niwed gwirioneddol. Yn ogystal, nid oes gennym y gallu i ymateb yn amserol i ofal brys, gofal mewn argyfwng na gofal wedi'i gynllunio ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru. Er mwyn darparu dewisiadau diogel yn lle gofal ysbyty i'r rheini sy'n cael eu hasesu'n Feddygol Addas i'w Rhyddhau (MFFD) / Wedi'u Hoptimeiddio'n Feddygol (MO), mae'n amlwg bod angen uwchraddio ymateb Gogledd Cymru ar unwaith. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn cael ei weld fel 'Ymdrech Ar y Cyd' gyda'n partneriaid statudol a'n rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio ein prosesau gweithredol er mwyn peidio ag ansefydlogi'r gwasanaeth bregus presennol ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r gofyniad i gomisiynu 243 o leoliadau gofal ychwanegol yn dod o fewn 5 thema; Optimeiddio Rhyddhau o Ysbyty, Camu i lawr i adfer, Cynyddu Capasiti Cartrefi Gofal, y Gweithlu ac Ehangu'r 3ydd Sector, gyda ffocws rhanbarthol y cytunwyd arno ar gynlluniau atal / osgoi derbyn. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r 6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng.


Ar gyfartaledd, mae nifer y cleifion mewnol yr asesir eu bod yn MFFD ond sy'n aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag sy'n ofynnol o ran eu hanghenion gofal meddygol / clinigol, yn 274 ar unrhyw un adeg. Adroddir am hyn yn wythnosol i'r Uned Gyflawni (DU). Yn ogystal â'r nifer hwn, ar gyfartaledd mae 100 o bobl yn aros am asesiad gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (heb eu cynnwys yn yr adroddiadau i'r DU). Oherwydd y diffyg parhaus o ran darpariaeth gofal cartref, mae 100 o bobl eraill hefyd yn y gymuned yn cael eu cefnogi gan dimau gofal iechyd a thimau integredig cymunedol (Timau Adnoddau Cymunedol, Timau Cartref yn Gyntaf, Nyrsys Ardal ac ati) fel rhan o 'wasanaeth pontio' estynedig. Mae nifer y bobl sy'n aros am leoliad Cartref Gofal yn cyfrif am 33% o gyfanswm yr MFFD a adroddwyd. O'r rhain, mae 41% yn aros am gartrefi gofal nyrsio a 59% am gartrefi gofal preswyl. Mae'r bobl sy'n aros am becynnau gofal cartref yn cyfrif am 42% o gyfanswm yr MFFD a adroddwyd i'r DU. Nid yw'r sefyllfa hon yn gwella ac mae wedi dirywio ymhellach dros yr 16 wythnos diwethaf.

Cytunir mai'r ffocws ar gynllun y gaeaf eleni fydd cefnogi'r elfennau a nodir uchod o ffrydiau gwaith 3,4 a 5 o ran cefnogi'r gallu i ryddhau'r cleifion hynny sy'n feddygol ffit mewn modd diogel ac amserol i gefnogi'r gwaith o wella llif.

Bydd y cynlluniau arfaethedig ar gyfer y gaeaf, ar ôl iddynt gael eu hadolygu, yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

1. A yw'r cynigion yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag uchelgais y cynllun USC?
2. A yw wedi'i wneud o'r blaen a pha fetrig a ddangosodd ei fod yn llwyddiannus?
3. A oes cyfle realistig i recriwtio'r staff yn erbyn yr amserlen?

Bydd cynlluniau'r gaeaf yn cael eu gwerthuso yn ôl y matrics isod ar ôl iddynt ddod i law, gyda mewnbwn MDT gan yr holl randdeiliaid i sicrhau llywodraethu o ran cynllunio penderfyniadau:



Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Amh.

2. Goblygiadau Cyllidebol / Ariannol / *Budgetary / Financial Implications*

Cyllid i gefnogi'r gwaith modelu gwasanaeth ar gyfer y grŵp rheoli gofal brys ar gyfer yr economïau iechyd ehangach, ochr yn ochr ag adolygu'r gwariant ychwanegol yn erbyn y gwaith modelu 7 diwrnod ar gyfer SDEC. Cefnogaeth IMPT ar gyfer ariannu prosiectau ehangach o fewn cynllun USC ac i gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer y gaeaf. (I'w gadarnhau unwaith y bydd y cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gaeaf wedi'i gyhoeddi)

3. Rheoli Risg / Risk Management

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) 20-02 ar gyfer Rheoli Gofal Heb ei Drefnu yn Ddiogel ac yn Effeithiol o fewn blaenoriaeth strategol 1 ar gyfer Gofal Diogel Heb ei Drefnu, yn disgrifio'r risg *"...efallai na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol oherwydd nad yw'n gallu ymrwymo prosesau cefnogi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion".* Mae camau lliniaru i leihau niwed, gwella canlyniadau cleifion a gwella profiad cleifion a staff ar draws y system gofal brys ac mewn argyfwng wrthi'n cael eu cadarnhau yn unol â'r rhaglen waith ar gyfer gwella a'r trefniadau llywodraethu ac adrodd diwygiedig.

4. Goblygiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / *Equality and Diversity Implications*

Amh.

Atodiad 1

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Capasiti Ychwanegol yn y Gymuned			
Adrodd i: ***Report to:***	Y Bwrdd Iechyd			
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Thursday, 29 September 2022			
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Pwrpas y papur hwn yw cadarnhau'r gofyniad i gynyddu lleoliadau a chapasiti gofal yn y gymuned gan yr hyn sy'n cyfateb i 243 o welyau / lleoliadau erbyn mis Hydref 2022 yn barod ar gyfer pwysau'r gaeaf.			
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr argymhellion			
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Gill Harris			
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Jane Trowman			
Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☒	I Benderfynu arno *For Decision* ☒	Am sicrwydd *For Assurance* ☐	
Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Derbyniol *Acceptable* ☐ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhannol *Partial* ☒ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*
Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:				

Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:	
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch e.g. Health and Safety Executive
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?***	Cwblheir sgrinio'r EQIA fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun y Gaeaf
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?***	Bydd SEIA ar gyfer Cynllun y Gaeaf yn cael ei gwblhau os bydd angen
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)***	
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith* ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	(crynodeb o sut mae'r papur wedi cael ei adolygu, yr ymateb a'r newidiadau a wnaed ar ôl cael adborth) (summarise where the paper has been reviewed, the response and what changes have made due to feedback)
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)	

Links to BAF risks: *(or links to the Corporate Risk Register)*	
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)***	
Camau Nesaf: - Adolygu a mireinio'r broses ymhellach yn dilyn adborth - Datblygu cynllun prosiect manwl i eistedd oddi tano gan gynnwys cerrig milltir allweddol, cofrestr risg a thafl-lwybr yn erbyn targedau	
Rhestr o Atodiadau: 1. ***Ciplun Ffitrwydd Meddygol i Ryddhau*** 2. ***Cynyddu Capasiti Cymunedol – Cynllun Gogledd Cymru***	

CYFARFOD CYHOEDDUS
Cynyddu Capasiti Cymunedol
29ain Medi 2022

1. Cyflwyniad / Cefndir

Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn dal i wynebu pwysau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen, sy'n cael eu gwaethygu gan heriau'r gweithlu, chwyddiant, y pandemig ac adferiad.

Ar 23ain Mai, 2022 ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i bryderon ynghylch digonolrwydd a chomisiynu gofal preswyl i bobl hŷn ledled Cymru, gan gynnwys darpariaeth cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn yr aseswyd bod angen gwelyau EMI arnynt.

Yn ogystal, mae'n ofynnol comisiynu 1000 o leoedd gofal neu leoedd mewn cartrefi gofal ychwanegol ar draws Cymru gyfan – gyda'r capasiti ychwanegol ar gael yn ddelfrydol erbyn mis Hydref i baratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf. Y gofyniad ar gyfer Gogledd Cymru yw 243 o leoliadau gofal ychwanegol a all fod yn gapasiti gwelyau ychwanegol neu'n becynnau gofal cymorth cymunedol.

Gan gydnabod nad yw gofal estynedig fel claf mewnol pan fydd person yn feddygol gymwys i gael ei ryddhau er budd gorau'r unigolyn a bod hynny'n achosi nifer o risgiau a niwed gwirioneddol. Yn ogystal, nid oes gennym y gallu i ymateb yn amserol i ofal brys, gofal mewn argyfwng na gofal wedi'i gynllunio ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru. Er mwyn darparu dewisiadau diogel yn lle gofal ysbyty i'r rheini sy'n cael eu hasesu'n Feddygol Addas i'w Rhyddhau (MFFD) / Wedi'u Hoptimeiddio'n Feddygol (MO), mae'n amlwg bod angen uwchraddio ymateb Gogledd Cymru ar unwaith.

Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn cael ei weld fel 'Ymdrech Ar y Cyd' gyda'n partneriaid statudol a'n rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio ein prosesau gweithredol er mwyn peidio ag ansefydlogi'r gwasanaeth bregus presennol ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r gofyniad i gomisiynu 243 o leoliadau gofal ychwanegol yn dod o fewn 5 thema y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac sy'n cyd-fynd â'r 6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac mewn Argyfwng. Rydyn ni yng Ngogledd Cymru wedi cytuno i ganolbwyntio ar gynlluniau atal / osgoi derbyn.

1. Optimeiddio Rhyddhau o Ysbyty
2. Camu i lawr i adfer
3. Cynyddu Gallu Cartrefi Gofal i'r Eithaf
4. Y gweithlu
5. Ehangu'r 3ydd Sector

Y disgwyliad yw nad oes unrhyw oedi / ychydig iawn o oedi ar gyfer cleifion y pennir eu bod yn barod i'w rhyddhau ar draws yr holl wasanaethau Iechyd i gleifion mewnol yr aseswyd eu bod yn MFFD / MO.

2. Corff yr adroddiad

Ar gyfartaledd, mae nifer y cleifion mewnol yr asesir eu bod yn MFFD ond sy'n aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag sy'n ofynnol o ran eu hanghenion gofal meddygol / clinigol, yn 274 ar unrhyw un adeg. Adroddir am hyn yn wythnosol i'r Uned Gyflawni (DU). Yn ogystal â'r nifer hwn, ar gyfartaledd mae 100 o bobl yn aros am asesiad gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (heb eu cynnwys yn yr adroddiadau i'r DU). Oherwydd y diffyg parhaus o ran darpariaeth gofal cartref, mae 100 o bobl eraill hefyd yn y gymuned yn cael eu cefnogi gan dimau gofal iechyd a thimau integredig cymunedol (Timau Adnoddau Cymunedol, Timau Cartref yn Gyntaf, Nyrsys Ardal ac ati) fel rhan o 'wasanaeth pontio' estynedig.

Mae nifer y bobl sy'n aros am leoliad Cartref Gofal yn cyfrif am 33% o gyfanswm yr MFFD a adroddwyd. O'r rhain, mae 41% yn aros am gartrefi gofal nyrsio a 59% am gartrefi gofal preswyl. Mae'r bobl sy'n aros am becynnau gofal cartref yn cyfrif am 42% o gyfanswm yr MFFD a adroddwyd i'r DU.

Nid yw'r sefyllfa hon yn gwella ac mae wedi dirywio ymhellach dros yr 16 wythnos diwethaf.

<u>Capasiti Ychwanegol gan y Gymuned Iechyd Integredig a'r Awdurdod Lleol</u>

Gellir rhannu'r targed o 243 o leoliadau ychwanegol ar gyfer Gogledd Cymru yn ôl y Cyngor Lleol a'r Gymuned Iechyd Integredig. Oherwydd y galw cynyddol a'r problemau capasiti, cydnabyddir efallai na fydd y nifer hwn yn ddigonol i sicrhau mynediad a llif diogel dros y misoedd nesaf ac mae'n rhaid i ni ystyried cynlluniau ar gyfer targedau ymestyn ychwanegol i sicrhau mynediad at ofal diogel.

Local council	Population over 65yrs number (2020)	% of NW Pop > 65 yrs	Number of additional Placements required based on population	Number of additional placements based on MFFD HB Data*	Integrated Health Community		20% Additional Stretch Target
Anglesey	18,650	11.32	26	34	71		85
Gwynedd***	28,550	17.33	42	36			
Conwy	32,950	20.61	50	36	81		97
Denbighshire	23,500	14.27	35	35			
Flintshire**	33,300	20.22	49	46	91		109
Wrexham	27,750	16.85	41	56			
North Wales	164,700		243	243	243		291
Wales	668,600						
*Data collected by the HB and submitted to DU but has not been validated by the LAs							
**Flintshire has discharges from Countess of Chester which are not included in the MFFD data collected by the HB							
*** Similar issue to Flintshire for people being discharged from Bronglais							

Llywodraethu

Mae cynllun Gogledd Cymru ar gyfer capasiti ychwanegol yn ymdrech ar y cyd â'n partneriaid statudol a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda'r 3ydd sector a rhanddeiliaid eraill dros yr wythnosau nesaf, ac yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Bwrdd Iechyd ac uwch arweinwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd bob pythefnos â'r DU, ac mae pob IHC yn cwrdd â'u cynrychiolwyr ALl perthnasol bob pythefnos. Mae trefniadau Llywodraethu Mewnol yn cael eu cryfhau i gefnogi a monitro'r gwaith o weithredu ac asesu cyflawniad yn erbyn cerrig milltir allweddol ac i nodi cyfleoedd pellach ar gyfer cynyddu capasiti.

Capasiti Ychwanegol

Mae cyfanswm o 45 o gynlluniau wedi cael eu cyflwyno, gyda'r potensial ar gyfer tua 250 o leoliadau gofal ar draws y Bwrdd Iechyd a 6 Awdurdod Lleol. Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn peri risg uchel a lefel isel o sicrwydd oherwydd argaeledd cyllid a staffio priodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r gallu i gyflawni, risg, lliniaru a chyflwyno'r capasiti ychwanegol fesul cam. Mae trafodaethau drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi dechrau gyda'r 3ydd Sector a Chymdeithasau Tai.

3. Goblygiadau Ariannol / Cyllidebol

Bydd cynyddu lleoliadau cymunedol yn arwain at oblygiadau cyllidebol gan ei bod wedi'i gwneud yn glir na fydd unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gael i gefnogi'r gwaith hwn. Disgwylir y bydd cyllid sydd eisoes wedi'i ddyrannu i Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys unrhyw lithriant yn y dyraniadau.

Mae nifer o gynlluniau eisoes wedi nodi y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt, tra bo eraill yn dal i fod yn y cam cwmpasu ac eto i nodi'r gwir gost.

Crynhoir y cynlluniau a nodwyd hyd yma isod:-

Cynllun	IHC	Cost (PYE)
Prynu Bloc / Yn y Fan a'r Lle - gwelyau Camu i Fyny / Camu i Lawr	Gogledd Cymru Gyfan	1 miliwn
D2RA - Therapïau	Gorllewin	200k
Tuag Adref – Gwasanaeth Pontio	Gorllewin	210k
Agor ward Gaeedig i ddarparu Gwelyau Camu i Lawr	Canol	250k
Rheoli oedolion risg uchel drwy bennu lefel risg	Dwyrain	150k

Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)

Bydd gweithredu'r chwe model o ofal integredig drwy'r RIF newydd yn helpu i sicrhau dull mwy cytbwys ac integredig o gomisiynu a darparu gwasanaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar ofal a chymorth ataliol ac integredig a fydd yn helpu i reoli'r galw am wasanaethau allweddol fel gofal preswyl a nyrsio. Bydd llawer o'r cynlluniau RIF yn cyfrannu at y cynnydd mewn lleoliadau cymunedol, ond mae RIF wedi'i ymrwymo'n llawn ar gyfer y flwyddyn

ariannol hon a bydd llawer o'r cynlluniau'n sicrhau newid trawsnewidiol yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

3. Rheoli Risg

Mae nifer o risgiau a rhwystrau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn llwyddiannus, a bydd yn rhaid iddynt gael eu gwrthbwyso gan y risg o beidio â cheisio cyflawni'r capasiti ychwanegol. Mae'r crynodeb o'r risgiau isod yn nodi'r risgiau posibl i'r Bwrdd Iechyd o ran darparu neu gomisiynu'r capasiti ychwanegol.

Gweithlu – Dyma'r prif risg o ran darparu capasiti ychwanegol. Mae llawer o'r cynlluniau a nodwyd yn gofyn am staff ychwanegol, adleoli staff a chyflwyno rolau newydd. Gall recriwtio staff ychwanegol gael effaith negyddol anfwriadol ar rannau eraill o iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd recriwtio i swyddi newydd yn cymryd amser ac yn effeithio ar unrhyw gam o'r capasiti ychwanegol. Bydd angen dealltwriaeth lawn o logisteg a mynediad at geir cronfa ar gyfer staff cymunedol ychwanegol a rhoi mesurau lliniaru ar waith.

Cyllid – Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cynyddu capasiti cymunedol a dim cytundeb i rannu risg gyda phartneriaid. Gall ffioedd ychwanegol a delir am welyau camu i lawr osod cynsail a chyflwyno risg a phwysau ariannol ychwanegol.

Effaith negyddol anfwriadol bosibl ar feysydd darparu gwasanaethau eraill – Fel rhan o nodi a lliniaru risgiau pob cynllun, rhaid ystyried yr effaith ar bob agwedd ar iechyd (gofal sylfaenol, gofal wedi'i gynllunio), gofal cymdeithasol, y 3ydd sector, darparwyr annibynnol a gofalwyr di-dâl a bod yn rhan o asesiadau effaith.

Darparwyr Annibynnol Cartrefi Gofal – Gallai comisiynu lleoliadau ychwanegol mewn cartrefi gofal roi pwysau ychwanegol ar y sector gyda'r potensial i gynyddu nifer y cartrefi gofal wrth uwchgyfeirio pryderon neu fod angen cymorth ychwanegol. Efallai na fydd gan Ddarparwyr Gofal lety addas i gefnogi ail-breswylio fel rhan o ofal camu i lawr. Gall darparwyr gofal cartref recriwtio i leoliadau ychwanegol mewn cartrefi gofal.

Darparwyr Gofal Cartref – Dim gwelliant o ran cadw a recriwtio staff mewn gofal cartref (darpariaeth fewnol ALl a darparwyr annibynnol), mewn rhai ardaloedd daearyddol mae'r cynllun yn darparu capasiti ychwanegol cyfyngedig ar gyfer gofal yn y cartref ar wahân i ymestyn timau iechyd a allai gyflwyno heriau o ran darparu a chofrestru.

Symud y pwysau – heb ddigon o adnoddau a chanolbwyntio ar wella / optimeiddio canlyniadau i gefnogi pobl yn y capasiti ychwanegol, mae perygl y bydd y 'pwynt gwasgedd' yn cael ei symud, ac y bydd yn parhau i gael effaith ar lif / rhyddhau.

5. Goblygiadau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd egwyddorion y cynllun a'r cynlluniau penodol yn destun EqIA yn dilyn trafodaethau gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, grwpiau gofalwyr, y 3ydd sector a phartneriaid allweddol eraill wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Adroddiad ar Ansawdd a Diogelwch Cleifion: Mehefin 2022 – Gorffennaf 2022
Adrodd i: ***Report to:***	Bwrdd Cyhoeddus
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Dydd Iau, 29 Medi 2022
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i'r Bwrdd lechyd am faterion pwysig sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion sydd wedi codi yn ystod y ddau fis blaenorol, ochr yn ochr â data tueddiadau tymor hwy, a gwybodaeth am y gwelliannau sydd ar y gweill.
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Ansawdd

Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☐	I Benderfynu arno *For Decision* ☐	Am sicrwydd *For Assurance* ☒

Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Derbyniol *Acceptable* ☐ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhannol *Partial* ☒ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*

Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:
Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:

Mae hyder yn y data a ddarperir yn yr adroddiad, fodd bynnag, mae cryfder y dysgu a'r gwelliant yn dal i fod yn faes sy'n peri pryder ac yn ganolbwynt allweddol i'r gwaith. Mae hyn yn cael sylw drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n cyd-fynd â risg Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar gyfer ansawdd (1.2), y Rhaglen Gwella Diogelwch Cleifion a'r Strategaeth Ansawdd sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd.

Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	Ansawdd
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	Gall enghreifftiau o niwed i gleifion ddangos methiant i gydymffurfio â Safonau lechyd a Gofal GIG Cymru neu ddeddfwriaeth diogelwch.
Yn unol â WP7, a oedd EqlA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqlA been identified as necessary and undertaken?***	Amh.
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?	Amh

In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?	
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)***	BAF 1.2 – Ansawdd
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith* ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	Amh
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Amh
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Amh
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	BAF 1.2 – Ansawdd
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)***	Amh
Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion ***Next Steps: Implementation of recommendations*** Amh	
Rhestr o Atodiadau: ***List of Appendices:*** Adroddiad ar Ansawdd a Diogelwch Cleifion	

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad ar Ansawdd a Diogelwch Cleifion i'r Bwrdd Iechyd

Mehefin 2022 - Gorffennaf 2022



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Adroddiad ar Ansawdd a Diogelwch Cleifion
Mehefin 2022 – Gorffennaf 2022

CYFLWYNIAD

Yn y GIG yng Nghymru, mae'r diffiniad o ansawdd mewn statud yn cynnwys tri dimensiwn: diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol a phrofiad cleifion (a gofalwyr).

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o wybodaeth allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd rhwng misoedd Ebrill a Mai 2022. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi uchafbwyntiau ansawdd allweddol i'r Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod.

Mae gwybodaeth fanwl am dueddiadau, themâu, dysgu a gwella ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn yr Adroddiad Diogelwch Cleifion bob deufis a'r Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr dair gwaith y flwyddyn.

Mae dwy adran yn yr adroddiad hwn a all gynnwys digwyddiadau sy'n effeithio ar weithwyr ac aelodau o'r cyhoedd, yn ogystal â chleifion; mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol ac yn hawliadau atebolrwydd. Gan mai'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd sy'n rheoli'r materion hyn, maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn rhoi darlun cyffredinol o'r meysydd hyn.

DIGWYDDIADAU SY'N ADRODDADWY YN GENEDLAETHOL

Mae'r diffiniad canlynol o ddigwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn berthnasol:

"A patient safety incident which caused or contributed to the unexpected or avoidable death, or severe harm, of one or more patients, staff or members of the public, during NHS funded healthcare."

Yr amserlen ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath ydy o fewn saith diwrnod gwaith.

Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, rhoddwyd gwybod am 24 o ddigwyddiadau oedd yn adroddadwy yn genedlaethol i'r Uned Gyflawni.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o ddigwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol fesul cymuned/gwasanaeth iechyd dros y 12 mis diwethaf, gan ddarparu cymhariaeth flynyddol a chyfnodol:

	Meh 21	Gorff 21	Awst 21	Medi 21	Hyd 21	Tach 21	Rhag 21	Ion 22	Chwe 22	Maw 22	Ebr 22	Mai 22	Meh 22	Gorff 22
Cymuned Iechyd y Gorllewin: YG	2	0	2	1	2	4	1	8	0	8	1	3	0	1
Cymuned Iechyd y Gorllewin: Sylfaenol a Chymuned	0	0	0	0	0	1	1	1	0	3	2	0	0	1
Cymuned Iechyd Canolog: YGC	0	1	4	0	2	3	3	6	8	4	5	2	6	4

Cymuned Iechyd Canolog: Sylfaenol a Chymuned	0	0	0	0	0	3	0	1	3	1	0	0	1	1
Cymuned Iechyd y Dwyrain: WMH	0	2	1	3	0	6	4	0	0	5	0	1	1	2
Cymuned Iechyd y Dwyrain: Sylfaenol a Chymuned	0	0	1	0	0	2	1	1	0	0	0	0	2	1
Menywod a Bydwreigiaeth	0	0	0	0	0	2	3	0	0	1	0	0	1	2
Diagnosteg a Chefnogaeth Glinigol	0	0	1	0	1	0	0	0	0	0	0	1	0	0
Gwasanaethau Canser	0	0	0	1	0	0	1	0	1	0	0	0	0	0
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	0	1	0	1	1	0	1	1	0	1	0	1	0	1
Gwasanaethau Cefnogi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	2	4	9	6	6	21	15	18	12	23	8	8	11	13

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa'r Bwrdd Iechyd o ran digwyddiadau sy'n adroddadwy fesul 100,000 o'r boblogaeth o'i chymharu â sefyllfa Cymru gyfan fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Cyfnod	Digwyddiadau BIPBC/100,000 o boblogaeth	Digwyddiadau ar lefel Cymru gyfan/100,000 o boblogaeth
Meh/Gorff 2021	1.0	1.8
Awst/Medi 2021	1.8	2.3
Hyd/Tach 2021	3.8	3.0
Rhag/Ion 2022	4.3	3.2
Chwe/Maw 2022	6.2	3.8
Ebrill/Mai 2022	2.9	2.9
Mehefin/Gorffennaf 2022	3.4	2.7
CYFARTALEDD	**3.3**	**2.8**

O ystyried y niferoedd bach sydd dan sylw, a'r gofynion adrodd penodol ar gyfer rhai digwyddiadau sy'n gallu amrywio, dylid ystyried y cyfartaledd yn gymhariaeth fwy defnyddiol na chyfnod unigol o ddau fis.

Ar ben y digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol y soniwyd amdanynt uchod, rhoddwyd gwybod am bymtheg Hysbysiad Rhybudd Cynnar (EWN), naw ohonynt yn ymwneud â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (Clostridium difficile ac achosion o Covid-19). Mae'r hysbysiadau eraill yn ymwneud â digwyddiadau a allai ddenu sylw'r cyfryngau.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 80 digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn agored, ac mae 44 ohonynt yn hwyr. Mae cyfanswm nifer y digwyddiadau agored wedi cynyddu o 69 yn y cyfnod blaenorol; mae'r nifer sy'n hwyr wedi cynyddu o 32. O'r 44 digwyddiad sy'n hwyr ar hyn o bryd, mae'r prif ddigwyddiadau hwyr yn eistedd gydag Aciwt y Gorllewin (14), Aciwt Canolog (13), Ardal Ganolog (4). Mae cymorth penodol yn cael ei ddarparu i'r gwasanaethau hyn.

Roedd y gyfradd gwblhau gyffredinol o fewn yr amserlen yn 30.4% ym mis Mehefin, gan ostwng i 26.7% ym mis Gorffennaf. Mae'r effaith ar wasanaethau oherwydd pwysau clinigol, salwch staff, swyddi gwag ac adleoli staff wedi parhau i effeithio ar allu gwasanaethau i ymateb yn fwy amserol i ymchwiliadau i ddigwyddiadau. Mae materion staffio o fewn y Tîm Diogelwch Cleifion yn cael sylw. Bydd hyn yn galluogi'r Tîm Diogelwch Cleifion i roi gwell

cefnogaeth i dimau a gwasanaethau ansawdd lleol i flaenoriaethu'r adroddiadau hynny sy'n hwyr. Mae adroddiadau wythnosol yn tynnu sylw at berfformiad yr is-adrannau.

Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion wedi ymrwymo i ddychwelyd i'r lefelau perfformiad a welwyd mewn cyfnodau blaenorol ac mae'n gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau i ddatrys materion sydd wedi cyfrannu at y sefyllfa lai ffafriol hon.

Yn y tymor byr, gan gydnabod yr oedi cyn cynnal ymchwiliadau llawn, mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod Adolygiadau Cyflym Gwneud yn Ddiogel yn cael eu cwblhau fel bod dysgu cynnar i wella diogelwch yn cael ei nodi a'i roi ar waith. Bydd data ar adroddiadau am ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu cynnwys yn adroddiadau'r dyfodol, i roi trosolwg ehangach a manylach ar ddiogelwch.

Gellir dadansoddi'r digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol (NRIs) a gofnodwyd fel a ganlyn

- Codwm gyda niwed difrifol (n=9)
- Briw pwyso sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, Graddfa 3 neu uwch, yn datblygu (n=4)
- Marwolaeth annisgwyl claf nad yw'n hysbys i'r gwasanaethau iechyd meddwl (n=2)
- Digwyddiad Byth – Prosthesis mewnblaniad anghywir (n=1)
- Oedi neu fethiant i fonitro'r claf (n=2)
- Oedi cyn trin (n=1)
- Oedi cyn gwneud diagnosis (n=1)
- Marwolaeth newyddanedig (n=1)
- Marwolaeth y fam - (n=1)
- Gwall gyda'r feddyginiaeth (n=1)
- Arall (n=1)

Mae pob NRI yn destun Adolygiad Cyflym Gwneud yn Ddiogel, Panel Dysgu Cyflym o bosibl, ac ymchwiliad cymesur. Mae'r dysgu a'r camau gweithredu sy'n deillio o bob un yn cael eu cofnodi ar system rheoli diogelwch Datix.

Mae Paneli Dysgu Cyflym (RLP) yn cael eu cynnal rhwng yr uwch dîm gwasanaeth a'r swyddogion gweithredol clinigol cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl Digwyddiad Byth a/neu pan fydd digwyddiad niweidiol lle mae claf wedi cael niwed sylweddol neu wedi marw. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, cynhaliwyd 10 cyfarfod Panel Dysgu Cyflym mewn perthynas â'r digwyddiadau mwyaf difrifol.

Rôl y Panel Dysgu o Ddigwyddiadau (ILP) yw cymedroli a sicrhau ein bod yn gwella ansawdd ymchwiliadau ac adroddiadau yn gyson. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, cyflwynwyd 77 o adroddiadau ymchwilio i'r ILP. Mae hyn yn cynnwys yr ymchwiliadau hynny a gomisiynwyd nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd yn genedlaethol.

Rhennir yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau (y tu hwnt i'r gwasanaeth uniongyrchol) drwy rwydweithiau a chyfarfodydd llywodraethu clinigol/ansawdd, a thrwy rybuddion diogelwch pan fo hynny'n briodol.

Mae rhannu a gwreiddio dysgu yn y system yn parhau i fod yn risg i'r sefydliad (ac mae wedi'i gynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd). Mae cynlluniau ar waith i gryfhau'r broses o gael gafael ar ddysgu, ei rannu a'i ymgorffori, gan gynnwys y canlynol:

- Dysgu ar dudalen yn lle'r templed “gwersi a ddysgwyd” sydd wedi'i hailenwi'n Insight
- Bwletin ILP misol yn gweithredu fel crynodeb o'r holl adroddiadau Insight
- Llyfrgell Dysgu Diogelwch Cleifion ganolog fel rhan o'r Fewnrwyd newydd
- Digwyddiadau Dysgu Gorfodol (gan ddefnyddio cysyniad Digwyddiad Model Rhydychen) yn dilyn pob ymchwiliad a gaiff ei gwblhau
- Diweddaru'r Polisi a'r broses Rhybuddion Diogelwch.

Themâu a nodwyd o Ddigwyddiadau a Adroddwyd yn Genedlaethol

Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn monitro digwyddiadau i ganfod themâu a ble mae angen i'r rhain gyfrannu at flaenoriaethau'r sefydliad (gan gydnabod bod ymchwiliadau llawn ar y gweill). Ar hyn o bryd, dyma'r themâu a nodwyd:

- Adnabod claf sy'n dirywio ac uwchgyfeirio
- Cwympiadau
- Briwiau pwysedd a gafwyd yn sgil gofal iechyd (HAPU)
- Diogelwch llawfeddygol

Mae'r pedwar maes thema hyn yn seiliedig ar faterion sy'n codi dro ar ôl tro o ran cadw cofnodion ac, er nad ydynt yn uniongyrchol yn achosi digwyddiad, maent yn cyfrannu at yr amgylchiadau sy'n creu amodau anniogel.

Y pum maes hyn yw'r prosiectau â blaenoriaeth i'w datblygu fel rhan o'r Rhaglen Gwella Diogelwch Cleifion.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o rai o'r themâu a'r camau sydd ar y gweill.

Adnabod claf sy'n dirywio ac uwchgyfeirio (gan gynnwys oedi/methiant o ran monitro claf, methiant i weithredu ar symptomau niweidiol, oedi cyn gwneud diagnosis (n=4)

Cafwyd pedwar digwyddiad yr adroddwyd arnynt yn genedlaethol yn ystod y cyfnod hwn pan fu oedi yn y broses o adnabod, uwchgyfeirio a thrin claf a oedd yn dirywio a arweiniodd wedi hynny at niwed difrifol neu farwolaeth. Digwyddodd pob un ohonynt yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae Atodiad 1 yn dangos yr adroddiadau ar y categori digwyddiadau hwn dros y 14 mis diwethaf.

Cyflwynwyd crynodeb o'r gwaith gwella sydd ar y gweill i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 06 Medi 2022, sy'n cynnwys:

- Sefydlwyd yr Adolygiad Sbardun Sepsis, Uwchgyfeirio a Stiwardiaeth Gwrthfiotigau (Grŵp STEAR) ym mis Mawrth 2022 i ymchwilio i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym o ran adnabod Sepsis, ac yna i wella'r broses o archwilio'r gwaith o reoli Sepsis ar draws y Bwrdd Iechyd drwy broses gorchwyl a gorffen.

- Mae sesiynau hyfforddi ar gleifion sy'n dirywio yn cael eu cynnal yn fisol ar gyfer pob cymuned iechyd. Nodwyd bod niferoedd da yn manteisio ar y sesiynau hyn. Mae i bob sesiwn amcanion safonol.
- Mae grŵp gorchwyl a gorffen Tîm Ymyriadau Aciwt (AIT), dan arweiniad y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, wedi cwblhau ei asesiad llinell sylfaen. Nodwyd blaenoriaethau megis adolygu safonau gweithredu, datblygu fframwaith cymwyseddau ar gyfer tîm AIT a safoni sesiynau hyfforddi ar gleifion sy'n dirywio.

Cwympiadau (n=9)

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd cyfanswm o naw o gwympiadau cleifion a arweiniodd at niwed difrifol/parhaol a oedd felly'n bodloni'r meini prawf ar gyfer adrodd yn genedlaethol. Maent yn rhannu fel a ganlyn:

Aciwt y Dwyrain (4), Ardal y Dwyrain (3), Aciwt Canolog (2)

Mae hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol pan oedd nifer y cwympiadau yn 6.

Mae Atodiad 2 yn dangos yr adroddiadau ar y categori digwyddiadau hwn dros y 14 mis diwethaf.

Cyflwynwyd crynodeb o'r gwaith gwella sydd ar y gweill i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 06 Medi 2022, sy'n cynnwys:

- Dyma'r cyfraddau cydymffurfio presennol gyda'r e-ddysgu newydd ar gyfer cwympiadau: Modiwl Cwympiadau 1a 73% a Modiwl Cwympiadau 1b 71%.
- Mae offeryn hunanasesu wedi cael ei ddatblygu gan y Tîm Nyrsio Corfforaethol gydag arweinwyr cwympiadau yn barod i helpu'r Cymunedau Iechyd i ddeall sut maen nhw'n perfformio yn erbyn Polisi Cwympiadau NU06 a lansiwyd yn gynharach eleni.
- Mae Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, fel y ffordd ymlaen ar gyfer gwreiddio a chynnal gwelliannau, wedi cymeradwyo'r Gydweithrediaeth Gwella Cymunedau Iechyd o ran lleihau niwed a diogelwch cleifion. Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar 21 Gorffennaf 2022 gyda 45 yn bresennol drwy Teams. Bydd y gweithdy hwn yn cael ei gynnal eto ym mis Awst ar gyfer aelodau nad oeddent yn gallu dod i'r diwrnod lansio. Mae dyddiadau wedi'u pennu ar gyfer Dosbarth Meistr 1 y Gydweithrediaeth Cwympiadau a fydd yn dechrau ym mis Medi 2022.
- Mae'r Prosiect Cwympiadau Cymunedol ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a chydweithwyr WAST yn Ardal y Dwyrain wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran lleihau nifer y cleifion y mae angen eu trosglwyddo i'r Adran Gofal Brys.
- Mae'r achos busnes dros gynnig Tîm Amlddisgyblaethol - Cwympiadau ar gyfer pob economi iechyd wrthi'n cael ei ddatblygu.

Cynhaliwyd ymchwiliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn adrodd o dan RIDDOR am ddau ddigwyddiad ar wahân i gleifion lle gwnaeth cwympo arwain at niwed. Ar ôl i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2021 ar gyfer rheoli cwympiadau ymysg oedolion sy'n gleifion mewnol, mae llawer o newidiadau wedi cael eu gwneud yn y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'r gofynion o ran diffygion sylweddol a nodwyd, gan gynnwys:

- Mae Polisi Atal a Rheoli Codymau Cleifion Mewnol (NU06) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael ei adolygu.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati fesul haen i gynnal rhaglen hyfforddi ar draws y Bwrdd Iechyd ers hysbysiad gwella'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Mae'r Grŵp Strategol ar Gwympiadau bellach yn cael ei gefnogi gan grwpiau cymunedol iechyd integredig.
- Dechreuodd y Gydweithrediaeth Gwella Ansawdd Cwympiadau ym mis Medi 2022 (mae hyn yn cynnwys dosbarthiadau meistr penodol sy'n canolbwyntio ar ddysgu ar y cyd ar draws y Bwrdd Iechyd).
- Pecyn Cymorth Cwympiadau a ddatblygwyd i wella'r adnoddau yn Ffordd Betsi o Wella Ansawdd – mae hwn yn cynnwys adnodd asesu sylfaenol.
- Mae'r broses achos busnes wedi dechrau nodi refeniw ar gyfer Tîm Cwympiadau, a fydd yn cynnwys cydlynydd cwympiadau gyda mewnbwn nyrsio a meddygol a mewnbwn gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ar gyfer pob cymuned iechyd i gefnogi'r cynllun cyflawni gwella cwympiadau.

Cynhaliwyd archwiliad pellach gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o asesiadau risg trin cleifion a chwympiadau cleifion ar safle Ysbyty Maelor Wrecsam ar 18 Mai 2022. Er y nodwyd gwelliannau yn y pedair ardal yr ymwelwyd â hwy, roedd dal angen gwneud gwaith i sicrhau bod y naill asesiad risg a'r llall yn addas ac yn ddigonol. Rhoddodd arolygydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch adborth yn nodi pryder ynghylch datblygiad effeithiol y model hyfforddiant a chymorth a ddisgrifiwyd gan y tîm. Roedd angen dilyniant a chyflawni ar frys a chysondeb ar draws yr holl ysbytai, yn enwedig lle canfuwyd bod oedolion sy'n gleifion mewnol wedi cwympo.

Felly, mae risg sylweddol o hyd o gamau gorfodi pellach gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o ran rheoli'r risg o Gwympiadau ymysg Cleifion Mewnol. Gwelir tystiolaeth o hyn yn yr adolygiad parhaus o achosion yng Nghymuned Iechyd y Gorllewin. Er bod cynnydd sylweddol, mae anghysonderau o hyd oherwydd heriau o ran cyflawni gweithredol sy'n peryglu ffocws cyson y staff sy'n arwain ar gwympiadau. Felly, gofynnwyd i Gyfarwyddwr Nyrsio pob Cymuned Iechyd nodi arweinydd i gydlynu'r cynlluniau gwella cwympiadau.

<u>Briw pwyso sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, Graddfa 3 neu uwch (n=4)</u>

Yn ystod y cyfnod adrodd, roddwyd gwybod i'r Uned Gyflawni am gyfanswm o bedwar briw pwyso cysylltiedig â gofal iechyd (HAPU) gradd 3, gradd 4 neu nad oedd modd eu graddio. Maent yn rhannu fel a ganlyn:

Aciwt Canolog (1), Aciwt y Dwyrain (1), Ardal Ganolog (1) ac Ardal y Gorllewin (1)

Mae Atodiad 3 yn dangos yr adroddiadau ar y categori digwyddiadau hwn dros y 14 mis diwethaf.

Cyflwynwyd crynodeb o'r gwaith gwella sydd ar y gweill i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 06 Medi 2022, sy'n cynnwys:

- Mae Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, fel y ffordd ymlaen ar gyfer gwreiddio a chynnal gwelliannau, wedi cymeradwyo'r Gydweithrediaeth Gwella Cymunedau Iechyd o ran lleihau niwed a diogelwch cleifion.

- Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar 21 Gorffennaf 2022 gyda 45 yn bresennol drwy Teams. Mae gweithdy rhagarweiniol arall wedi'i drefnu ar gyfer 10 Awst 2022, ac mae'r grŵp gwella HAPU cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 25 Awst 2022 lle bydd mesurau a chanlyniadau'n cael eu cytuno, gyda Dosbarth Meistr 1 y Gydweithrediaeth HAPU yn dechrau yn gynnar ym mis Medi 2022.
- Mae pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r dull cydweithredol o ymdrin â briwiau pwyso cysylltiedig â gofal iechyd, a fydd yn cael ei gyflwyno yn y grŵp gwella ym mis Awst.
- Mae data gwaelodlin yn cael ei gasglu ar gyfer pob Cymuned Iechyd. Bydd tri maes ffocws allweddol ar gyfer pob economi iechyd: Adrannau brys, cleifion mewnol, a'r gymuned gan gynnwys cartrefi gofal.

Diogelwch llawfeddygol (n-0)

O fewn y cyfnod adrodd, nid oedd dim digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch llawfeddygol oedd yn adroddadwy yn genedlaethol.

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, rhoddwyd gwybod am un Digwyddiad Byth newydd, sy'n ymwneud â diogelwch llawfeddygol, ac mae'r manylion i'w gweld isod.

Mae Atodiad 4 yn dangos yr adroddiadau ar y categori digwyddiadau hwn dros y 14 mis diwethaf.

Mewn ymateb i nifer y digwyddiadau diogelwch llawfeddygol (gan gynnwys Digwyddiadau Byth), a'r dysgu a nodwyd, roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod rôl ffactorau dynol er atal a lliniaru methiant systemig o ran cleifion, teuluoedd a staff clinigol. Nod y Bwrdd Iechyd yw prif ffrydio gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer seiliedig ar ffactorau dynol er mwyn sicrhau bod gofal mwy diogel yn cael ei ddarparu'n gyson ac mewn modd cynaliadwy i gleifion, gan gefnogi ein staff i gyflawni hynny: *ei gwneud yn hawdd iddynt wneud y peth iawn.*

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y canlynol: (1) comisiynu cwmni allanol gydag arbenigedd ym maes ffactorau dynol, AQuA, i feithrin capasiti a gallu mewn ffactorau dynol a'i gymhwyso i ofal iechyd ac mae hyfforddiant yn y cyswllt hwn ar gyfer cohort 2 (o 3) wedi dechrau yn y cyfnod hwn, (2) dechrau datblygu cyfadran ar draws y sefydliad sy'n canolbwyntio ar ffactorau dynol, a (3) dechrau rhaglen wedi'i thargedu i'w chynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer diogelwch llawfeddygol.

I gefnogi (3) mae'r Gyfarwyddiaeth Trawsnewid a Gwella wedi recriwtio Cymrawd Gwella Ansawdd (sy'n aelod parhaol o'r Tîm Diogelwch Cleifion) sydd wedi parhau â'i secondiad.

Mae'r gwaith parhaus yn cynnwys adolygu'r broses bresennol ar Restr Wirio Sefydliad Iechyd y Byd yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Wrecsam Maelor, yn ogystal â meincnodi gyda darparwyr allanol y GIG ac mae ymweliadau allanol wedi cael eu cynnal gan y Cymrawd Sicrhau Ansawdd i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach. Mae'r rhestr wirio ar fersiwn 5 ar hyn o bryd a bellach mae'n cynnwys cynllun PDSA/cyflwyno sydd wedi'i sefydlu ar gyfer mis Awst 2022.

Dyma enghreifftiau o'r prif newidiadau a gwelliannau:

- Mae'r elfen 'Oedi – Briffio Ymlaen Llaw' wedi cael ei hailddyrannu i gefn y rhestr wirio i roi mwy o le ar gyfer yr elfennau 'Mewngofnodi, Amser Pwyllo ac Allgofnodi'. Mae hyn yn darparu mwy o le ar gyfer testun rhydd i gofnodi gwybodaeth hanfodol.

- Mae alergeddau a gwybodaeth hanfodol fel ‘Pob gweithgaredd i STOPIO’ wedi’u hamlygu mewn coch.
- Rhaid i staff y theatr fod yn ymwybodol o unrhyw ddarpar staff sy’n ymuno â’r tîm a allai fod yn absennol ar y cam briffio ymlaen llaw hollbwysig – ar ôl ymuno â’r tîm, rhaid iddyn nhw hefyd fod yn ymwybodol o’r cynllun a rannwyd.
- Ychwanegu’r datganiad ‘Siarad o blaid diogelwch y claf’ ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn briffio ymlaen llaw.
- Cynnal ‘gwiriad o gwmpas yr ystafell’ i sicrhau bod staff yn gallu codi unrhyw beth cyn anfon am y claf.

Mae presenoldeb y Cymrawd Ansawdd ac ymrwymiad a chymhelliant Grŵp Gwella Sefydliad Iechyd y Byd yn sicr wedi hoelio sylw o’r newydd ar bwysigrwydd cynnwys y staff yn llawn a chydymffurfio â’r rhestr wirio. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a mesuradwy.

Camau Gorfodi’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Yng Nghymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw’r corff gorfodi ar gyfer digwyddiadau diogelwch cleifion yn ogystal â digwyddiadau diogelwch sy’n ymwneud â’r gweithlu a’r cyhoedd. Fel y nodir uchod, mae’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cymryd camau yn erbyn y Bwrdd Iechyd o ran rheoli cwympiadau cleifion mewnol ac mae gwaith gwella ar y gweill.

Hefyd, bydd y Bwrdd yn ymwybodol, yn dilyn marwolaeth drist claf yn Uned Hergest, bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cynnal ymchwiliadau ac wedi cyhoeddi Hysbysiad Tramgwyddo ar 09 Mai 2022. Nododd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dri achos o dorri’r Cod yn ei Hysbysiad Tramgwyddo: 1) asesiadau risg a chynlluniau gofal a thriniaeth, 2) diogelwch gwelyau a 3) clymiadau a symud eiddo. Ymatebodd y Bwrdd Iechyd i’r Hysbysiad ar 11 Awst 2022 gan amlinellu’r gwaith gwella sydd ar y gweill. Mae Grŵp Tasg yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos, gyda chynllun gwella ar waith. Mae’r cynllun hwn yn cynnwys:

- Comisiynu hyfforddiant asesu risg clymiadau i staff;
- Comisiynu hyfforddiant uwch ar asesu risg i staff (gan ddefnyddio model WARRN – Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru);
- Archwiliad clymiadau llawn ar bob uned – mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau arbenigwr annibynnol i gefnogi’r broses hon.

Mae’r camau gweithredu hyn yn adeiladu ar y rhai sydd ar waith o’r adolygiad annibynnol o ddigwyddiadau difrifol. Mae’r gwaith hwn yn cyd-fynd â’r cynllun gwella is-adrannol, a gafodd ei gyflwyno a chraffu arno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 06 Medi 2022, gyda chraffu ychwanegol ar y gwaith ynglŷn â’r Hysbysiad Tramgwyddo yn digwydd yng nghyfarfodydd yr Uwchgynhadledd Iechyd Meddwl, gyda’r cyfarfod diwethaf wedi’i gynnal ar 09 Medi 2022.

DIGWYDDIADAU BYTH

Mae Digwyddiadau Byth yn cael eu diffinio fel “*digwyddiadau’n ymwneud â diogelwch cleifion y gellir eu hatal yn llwyr oherwydd bod canllawiau neu argymhellion diogelwch ar gael ar lefel genedlaethol ac y dylai pob darparwr gofal iechyd fod wedi eu rhoi ar waith*.” Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o ddigwyddiadau sy’n cael eu hystyried yn Ddigwyddiadau Byth. Mae gan bob math o Ddigwyddiad Byth y potensial i achosi niwed

difrifol i gleifion neu i achosi marwolaeth. Fodd bynnag, nid oes angen i niwed difrifol neu farwolaeth fod wedi digwydd o ganlyniad i ddigwyddiad penodol er mwyn i'r digwyddiad hwnnw gael ei gategoreiddio'n Ddigwyddiad Byth.

Yn y flwyddyn ariannol bresennol, Ebrill i Orffennaf 2022/23, adroddwyd am un digwyddiad byth, o'i gymharu â phedwar dros yr un cyfnod yn 2021/22. Er ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau pendant, mae'n debygol bod yr hyn a ddysgwyd o ymchwiliadau blaenorol a'r gwaith gwella sydd ar y gweill wedi dechrau cael effaith.

Mae Atodiad 5 yn dangos yr adroddiadau ar y categori digwyddiadau hwn dros y 14 mis diwethaf.

Digwyddiadau Byth Newydd

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, rhoddwyd gwybod am un Digwyddiad Byth newydd.

Roedd hyn yn ymwneud ag un gydran o fewnblaniad sydd un maint yn llai na'r hyn a argymhellir gan y gwneuthurwyr a'r dechneg weithredol.

Cynhaliwyd Panel Adolygiad Cyflym a Dysgu Cyflym – mae'r dysgu uniongyrchol yn cynnwys gweithio gyda'r gwneuthurwr i ddeall eu proses wirio a nodi elfennau y gallai'r Bwrdd Iechyd eu rhoi ar waith yn ei broses ei hun, ac adolygu'r drefn lywodraethu ar gyfer ymwelwyr mewn theatrau i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn dilyn arferion da.

Mae ymchwiliad llawn i'r digwyddiad yn mynd rhagddo.

RHYBUDDION A HYSBYSIADAU DIOGELWCH CLEIFION

Mae Llywodraeth Cymru (LIC), gyda chefnogaeth Uned Gyflawni GIG Cymru, yn arwain y gwaith o ganfod risgiau a phryderon diogelwch cleifion cenedlaethol sylweddol a fyddai'n gofyn am Ateb Diogelwch Cleifion ar lefel genedlaethol i'w gyflwyno i'r GIG yng Nghymru. Cyhoeddwyd dau fath o ateb, sef:

- RHYBUDD (PSA): Mae hyn yn gofyn am weithredu'n ddi-oed gyda dyddiad gweithredu penodol i fynd i'r afael â risgiau uchel/problemau diogelwch sylweddol.
- HYSBYSIAD (PSN): Mae hwn yn cael ei gyhoeddi i sicrhau bod sefydliadau a'r holl staff gofal iechyd perthnasol yn cael gwybod am y problemau posibl o ran diogelwch cleifion cyn gynted â phosibl. Mae Hysbysiad yn caniatáu i sefydliadau asesu'r potensial ar gyfer risgiau tebyg i ddiogelwch cleifion yn eu hardaloedd eu hunain a chymryd camau ar unwaith. Mae'r cam hwn yn 'rhybuddio' sefydliadau o risg sy'n dod i'r amlwg. Gellir ei gyhoeddi'n brydlon, unwaith y bydd risg newydd wedi'i nodi er mwyn gallu dosbarthu gwybodaeth yn gyflym ar gyfer gweithredu.

Mae'n ofynnol i sefydliadau gadarnhau eu bod wedi cydymffurfio erbyn y dyddiad a nodir.

Rhybuddion Hwyr

Cyfeirnod	Teitl	Perthnasol i?	Math	Dyddiad dechrau'r cam gweithredu	Terfyn Amser	Nodiadau

PSN057	Cardiau Therapi Steroid Brys: Cefnogi Adnabod a Rheoli Argyfwng Adrenal mewn Oedolion a Phlant yn Gynnar	Ledled Prifysgol Betsi Cadwaladr	Datrysiad Diogelwch Cleifion - Hysbysiad	27/05/2021	31/12/2021	Cafwyd oedi o ran cymeradwyaeth feddygol ar achosion sydd wedi cael eu huwchgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.

Rhybuddion sydd wedi Cau

Caewyd un rhybudd a darparwyd tystiolaeth gan wasanaethau – PSN058 Asesu/triniaeth frys yn dilyn llyncu magnetau cryf iawn.

ADOLYGIAD UNED GYFLAWNI GIG CYMRU

Gofynnodd y Bwrdd Iechyd i'r Uned Gyflawni gynnal asesiad trylwyr o'i phroses digwyddiadau.

Ar 30 a 31 Mai 2022, bu staff o Dîm Ansawdd a Diogelwch Uned Gyflawni GIG Cymru yn ymweld â phencadlys BIPBC i arsylwi ar nifer o swyddogaethau ansawdd a diogelwch a darparu adborth wyneb yn wyneb ar ymchwiliadau diweddar a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Dywed yr adroddiad adborth:

"Ar y cyfan, roedd adborth yr Uned Gyflawni yn gadarnhaol iawn o ran y dull gweithredu, ffocws ac ansawdd y swyddogaethau yr arsylwyd arnynt ac a drafodwyd gydag uwch dîm corfforaethol y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am ansawdd. Roedd tystiolaeth glir o ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y claf a ffocws ar yr agenda Ansawdd a Diogelwch, gyda'r tîm yn dangos arweinyddiaeth gadarnhaol ac ymrwymiad i sicrhau safonau uchel ar draws y sefydliad. Cydweithiodd y tîm Ansawdd a Diogelwch yn llwyr â'r Uned Gyflawni gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i drafod cyfleoedd i archwilio dulliau amgen, gan ymateb yn gadarnhaol i'r holl adborth ac awgrymiadau fel yr amlinellir yn y crynodeb adborth isod."

"Ar y cyfan, teimlwyd bod gan y tîm corfforaethol afael dda ar ansawdd digwyddiadau a'r rheolaeth arnynt.. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r tîm corfforaethol wedi defnyddio dull rheoli ansawdd cryf er mwyn gwella ansawdd a chryfder ymchwiliadau. Gan fod ymchwiliadau ar y cyfan o safon sy'n fwy na digonol, mae'r Uned Gyflawni yn teimlo bod hyn wedi'i gyflawni ac mai'r tîm corfforaethol yn awr fydd y gorau i fwrw ymlaen â dull sicrhau prosesau/systemau ansawdd, gan ddatganoli'r swyddogaeth rheoli ansawdd, ar y cyfan, i'r timau lleol."

"Wrth gymryd agwedd sy'n canolbwyntio mwy ar sicrwydd, gall y tîm corfforaethol roi mwy o bwyslais ar adnabod risg sylweddol o ddigwyddiadau unigol neu drwy themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, gan oruchwylio'r gwaith o asesu, lliniaru a rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol, gan eu galluogi hwy yn eu tro i ddarparu gwell sicrwydd ar y lefelau priodol gyda'r Bwrdd Iechyd."

“Mae’r Uned Gyflawni hefyd wedi awgrymu bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried datblygu dull mwy cydweithredol o ddysgu am ddigwyddiadau, er enghraifft digwyddiadau dysgu, sy’n helpu timau i fynd drwy’r broses ddysgu mewn ffordd sy’n cael ei hwyluso. Mae sefydliadau eraill sydd wedi mabwysiadu’r drefn hon wedi dangos bod y dull hwn (lle mae’n briodol) yn helpu i leihau rhwystrau naturiol rhag dysgu drwy roi sylw i ddimensiynau dynol newid, drwy gynnwys y gweithlu yn y broses myfyrio, dysgu a newid sy’n ofynnol yn dilyn digwyddiadau niweidiol. Cynigiodd yr Uned Gyflawni ddychwelyd a helpu i hwyluso digwyddiad o’r fath os oedd hynny’n ddefnyddiol.”

Mae’r awgrymiadau gan Uned Gyflawni GIG Cymru yn cael eu ffurfio’n brosiect gwella.

YMGYFREITHA

Yn ystod y cyfnod hwn o ddeufis, sef mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, derbyniwyd 36 hawliad neu hawliad posibl yn erbyn y Bwrdd Iechyd. O’r rhain, roedd 32 yn ymwneud ag esgeulustod clinigol a phedwar yn ymwneud ag anaf personol.

Yn ystod y cyfnod o ddeufis, caewyd 62 o hawliadau. O’r rhain, roedd 46 yn ymwneud ag esgeulustod clinigol ac 16 yn ymwneud ag anaf personol. Mae’r ffigur hwn yn uchel gan fod y tîm wedi parhau i adolygu hawliadau cyn symud i RL Datix a chau’r rheini a oedd â chyfyngiad amser arnynt a lle na bu gweithredu am fwy na 12 mis. Roedd cyfanswm y costau ar gyfer yr holl hawliadau a gaewyd yn ystod y cyfnod hwn yn £2,613,842.98 cyn ad-daliad gan Gronfa Risg Cymru.

Mae’r themâu canlynol wedi’u nodi ar gyfer y cyfnod hwn o ran esgeulustod clinigol:

1. Rhoi gofal ar waith
2. Diagnosis – Gan gynnwys oedi cyn cael diagnosis
3. Triniaeth

Yn ôl y disgwyl, mae’r nifer fwyaf o hawliadau agored yn ymwneud â Llawdriniaeth, Meddygaeth Arbenigol a Menywod a Gofal Mamolaeth. Nid yw hwn yn broffil anarferol o arbenigeddau o fewn y GIG. Mae’r themâu’n parhau’n debyg. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i gydymffurfio â’r Cynllun Adrodd yn Gynnar a fabwysiadwyd yng Nghymru mewn perthynas â hawliadau posibl am anafiadau geni.

Mae’r themâu canlynol wedi’u nodi o ran anafiadau personol:

1. Llithro/baglu
2. Trais ac Ymddygiad Ymosodol

Mae angen cwblhau Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau ar gyfer pob hawliad sydd wedi’i setlo. Mae hwn yn cofnodi canfyddiadau’r ymchwiliad ac unrhyw gamau a gymerwyd ac mae’n cael ei ddatblygu ar y cyd gan y rheolwr hawliadau a’r arweinydd clinigol perthnasol. Rhaid i’r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i Gronfa Risg Cymru i adennill costau.

CWESTAU

Mae Crwner EM yn rhoi gwybod i’r Bwrdd Iechyd pan fydd wedi agor cwest i farwolaeth claf ac mae angen rhagor o wybodaeth arno gan y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod y cyfnod perthnasol, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, daeth 77 o gwestau newydd neu geisiadau am wybodaeth gan y crwner i law gan y Crwneriaid yng Ngogledd Cymru.

Cwblhawyd 53 o gwestau rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022. Mae dosbarthiad casgliadau'r cwestau yn unol â chanfyddiadau blaenorol, ac nid oes unrhyw ganfyddiadau anarferol nac annisgwyl i'w cymryd o hyn.

Rheoliad 28 (Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol)

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol) newydd gan Grwner EM i'r Bwrdd Iechyd,

Dyma'r ymatebion i adroddiadau rheoliad 28 a ddaeth i law yn flaenorol:

1. Mater – Oedi cyn darparu tystiolaeth o gamau gweithredu a gwblhawyd ar ôl ymchwiliad / newid arferion gweithio

Pryderon y Crwner:

1. Er gwaethaf canfod yn gynharach bod arferion gweithio presennol yn yr adran Oncoleg (rhoi adroddiad ar ddesg y clinigydd) wedi arwain at fethiant i drin yn brydlon, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi Gweithdrefn Weithredu Safonol newydd ar waith yn llawn tan fis Rhagfyr 2021.
2. Cydnabyddiaeth ffurfiol o'r Weithdrefn Weithredu Safonol gan ysgrifenyddion Oncoleg a Haematoleg heb ei chwblhau tan 22 Chwefror 2022
3. Methiant i gwblhau proses archwilio i sicrhau bod newidiadau'n weithredol ac yn effeithiol.
4. Mae'r amser a gymerwyd i roi newidiadau ar waith a sicrhau bod arferion gweithio diogel newydd yn cael eu cyflwyno a'u mabwysiadu yn peri risg i fywyd.

Anfonwyd ymateb at CEM ar 01 Gorffennaf 2022, yn rhoi sylw i'r pryderon uchod.

a. Cadarnhad bod Gweithdrefn Weithredu Safonol yn rhan o broses gynefino staff newydd yn yr adran Ganser, ac yn rhan o gyfarfodydd ysgrifenyddol rheolaidd ar gyfer Canser, ac yn rhannu'r hyn a ddysgir gyda gwasanaethau eraill.
b. Cwblhawyd 2 gylch archwilio ar y broses newydd (mis Mai a mis Mehefin) hyd yma, gyda gwelliannau'n cael eu dangos yn yr ail gylch. Mae archwiliadau misol bellach ar waith i'w bwydo i gyfarfodydd Llywodraethu'r Gwasanaethau Canser.
c. Y diweddaraf ynghylch y Prosiect Rheoli Canlyniadau – y nod yw integreiddio â Phorth Clinigol Cymru – yn barod i'w gyflwyno. Y bwriad yw defnyddio'r Gwasanaeth Anadlol fel gwasanaeth mabwysiadu cynnar, a'i gyflwyno ledled Prifysgol Betsi Cadwaladr erbyn diwedd y flwyddyn.
d. Sicrwydd wedi'i roi ynghylch craffu ar yr holl gamau gweithredu o ymchwiliadau sydd heb eu cyflawni ac sy'n hwyr fel rhan o Adroddiad Diogelwch Cleifion deufisol (o fis Mehefin 2022), i sicrhau bod y perfformiad o ran cyflawni camau gweithredu'n cael ei weld a galluogi is-adrannau i gael eu dal yn atebol drwy gyfarfodydd Llywodraethu a chyfarfodydd adolygu atebolrwydd.

e. Eglurhad o'r broses OCP yn y swyddogaeth Ansawdd er mwyn darparu mwy o eglurder a disgwyliadau ar gyfer staff ansawdd sydd wedi'u lleoli'n lleol o fewn is-adrannau a fydd yn gweithredu model partner busnes, gan ddarparu cymorth lleol ar lefel cyfarwyddiaeth ac is-adran. Mae hyn yn cysylltu â strategaeth 'Cryfach Gyda'n Gilydd' y sefydliad.
f. Adolygu'r broses archwilio clinigol i sicrhau bod y rhaglen archwilio yn cyd-fynd yn agosach â'r risgiau a nodwyd drwy faterion fel adroddiadau digwyddiadau difrifol a materion cwest. Cyflwyno system archwilio electronig newydd.

2 M**ater – Oedi gyda'r gwasanaeth ambiwlans**

Pryderon y Crwner:

1. Y rheswm cyntaf am yr oedi gyda'r gwasanaeth ambiwlans – yr holl adnoddau eraill wedi'u neilltuo eisoes
2. Oedi wrth drosglwyddo o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar draws pob safle
3. Pryder y bydd marwolaethau'n digwydd yn y dyfodol naill ai pan fydd cleifion yn aros i gael eu trosglwyddo i'r ysbyty o ambiwlans, neu pan na fydd ambiwlansys ar gael i ddiwallu anghenion y gymuned.
4. Mae'r materion hyn sy'n peri pryder yn rhai hirsefydlog ac er gwaethaf y camau gweithredu arfaethedig yn y dyfodol, mae'r pryderon yn dal i fodoli.

Cyhoeddwyd Rheoliad 28 PFD ar y cyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Cysylltodd y Bwrdd Iechyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ynghylch y posibilrwydd o ddarparu ymateb ar y cyd, ond fe'i gwrthodwyd.

Anfonwyd ymateb at Grwner EM ar 20 Gorffennaf 2022, yn rhoi sylw i'r pryderon uchod.

a. Cafodd pryderon Crwner EM eu cydnabod a chadarnhawyd bod y rhain yn cael eu rhannu gan PBC. Effaith barhaus pandemig Covid-19 ar staffio ac adnoddau o ran cyflawni gwelliannau cynaliadwy, a phwysigrwydd cydnabod nad dim ond mater sy'n ymwneud ag ambiwlans, adran achosion brys a gofal iechyd yw gwelliannau. Mae materion yn ymwneud â 'llif' gofal cymdeithasol ehangach, sydd yn ei dro yn effeithio ar bwysau ar yr adrannau achosion brys ac ambiwlans.
b. Esboniad o'r Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu a Gofal Brys sy'n adleisio chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac mewn argyfwng, gan sicrhau bod gwaith yng Ngogledd Cymru yn cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau'r llywodraeth.
   Sef:
   1. Cynllunio wedi'i gydlynu ar gyfer poblogaethau mewn perygl
   2. Cyfeirio ar gyfer gofal brys 24/7
   3. Dewisiadau sy'n ddiogel yn glinigol yn lle cael eich derbyn i'r ysbyty
   4. Ymateb cyflym i argyfwng
   5. Gofal gorau posibl mewn ysbytai ac arferion rhyddhau cleifion
   6. Dull cartref yn gyntaf
c. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch recriwtio cyfarwyddwr y rhaglen i ddatblygu hyn ymhellach.

d. Sicrwydd o ran ymrwymiad y bwrdd iechyd i fuddsoddi yn y rhaglen yn ogystal ag aros am benderfyniad cyllido gan Lywodraeth Cymru ar gynllun 111 yn Gyntaf.
e. Eglurhad o'r prosiectau sydd ar y gweill ar gyfer Cam 1 y Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu a Gofal Brys yn ogystal â chynlluniau ar gyfer Cam 2.
f. Gwybodaeth ychwanegol i Grwner EM ynghylch ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â'r rhaglen wella mewn ymateb i'r ffaith bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi nodi bod Prifysgol Betsi Cadwaladr angen gwelliannau sylweddol – gan gynnwys:
    1. Egwyddorion sylfaenol
    2. Arweinyddiaeth, grymuso, diwylliant, a datblygu sefydliadol
    3. Adrannau brys, meddygaeth, a llif
    4. Fasgwlaidd a theatrau
    5. Archwilio, canlyniadau, a sicrwydd

    Mae'r cynllun gwella'n cael ei ddatblygu gyda staff a rhanddeiliaid, ac mae gwaith allweddol yn cael ei wneud sy'n berthnasol i fater oedi gyda'r gwasanaeth ambiwlans.
g. Bydd y gwaith gwella yn YGC yn cael ei werthuso'n rheolaidd, ac yn dibynnu ar y dystiolaeth o ran gwelliant, bydd yn cael ei gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd ehangach.

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC)

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru sy'n arolygu gwasanaethau'r GIG ac sy'n rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella.

Mae AGIC hefyd yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn adolygu'r gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau bod pobl agored i niwed yn derbyn gofal o ansawdd da mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Ymgymerodd AGIC ag arolygiad o'r Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor Wrecsam ar 8 – 10 Awst 2022. Ni chodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol neu faterion difrifol. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r broses arolygu'n parhau ar ffurf adolygu dogfennau clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl am y cynllun gwella gan AGIC ac, yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau bod yr adborth llafar cychwynnol o'r arolygiad yn cael ei rannu â staff ar draws pob safle, a bod y gwaith o wella'r gwasanaeth yn cael ei ddechrau.

Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd AGIC wybod i'r Bwrdd Iechyd y byddai arolygiad ar y safle yn Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei gynnal rhwng 9 a 10 Awst 2022, gyda ffocws yr ymweliad ar lif cleifion gan ganolbwyntio ar lwybr strôc, o'r adeg y mae'r claf yn cyrraedd mewn ambiwlans, neu'n cyflwyno ei hun mewn Adran Achosion Brys, hyd at yr adeg y bydd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty neu'r adeg y bydd ei ofal yn cael ei drosglwyddo i wasanaethau eraill. Cafodd y dyddiadau eu newid yn ddiweddarach i 25 – 27 Gorffennaf gan AGIC oherwydd y trefniadau gweithredol. Ni leisiwyd unrhyw bryderon ar unwaith na phryderon difrifol gan AGIC. Nodwyd mai ymarfer casglu gwybodaeth yn unig oedd yr ymweliad a bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei dadansoddi maes o law ac yn rhan o'r adroddiad cenedlaethol a fydd yn cael ei ddrafftio yn ddiweddarach eleni/dechrau 2023. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Tîm Ansawdd yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gwella newydd yn YGC mewn perthynas â cheisio sicrwydd ynglŷn â gweithredu yn sgil yr arolygiadau a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Adroddwyd ynglŷn â'r sefyllfa i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 06 Medi 2022.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd wedi gwahodd AGIC i gymryd rhan yn ein Rhaglen Rowndiau Mawr Ansawdd ym mis Medi 2022. Bydd AGIC yn cynnal sesiwn i staff y Bwrdd Iechyd ynghylch pwy ydyn nhw, sut maen nhw'n gweithredu a sut gall y Bwrdd Iechyd, yn unol â Safonau Iechyd a Gofal Cymru, sbarduno gwelliant.

Cwynion

Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, daeth 377 o gwynion i law a rhoddwyd 162 o ddatrysiadau cynnar ar waith. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cwynion sy'n dod i law.

Ni chyrhaeddwyd y targed o 75% yng nghyswllt y gyfradd ymateb o 30 diwrnod gan y Bwrdd Iechyd (roedd y gwir berfformiad yn 36.05% ar gyfartaledd). Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cwynion hwyr yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y sefyllfa wedi dirywio dros gyfnod y gaeaf ac mae'n gwella'n araf. Ddiwedd mis Gorffennaf 2022, roedd 441 o'r cwynion ar ei hôl hi.

Mae ffocws sylweddol ar waith i gefnogi gwasanaethau i adfer eu sefyllfa. Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn symud cymaint o adnoddau â phosibl i ganolbwyntio ar wella'r sefyllfa hon. Mae cynllun adfer wedi cael ei ddatblygu a'r bwriad yw mynd i'r afael â'r sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r risg o bwysau parhaus neu fwy o bwysau ar y gwasanaeth yn peryglu llwyddiant y cynllun hwn. Mae data perfformiad yn cael ei rannu bob wythnos gydag uwch arweinwyr i gefnogi'r gwaith monitro gweithredol.

Y themâu cyffredin o fewn cwynion oedd cydsyniad, cyfrinachedd a chyfathrebu, yn ogystal â mynediad at apwyntiadau, derbyn, trosglwyddo a rhyddhau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â gwasanaethau i gefnogi gwelliannau lleol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Nid oes materion penodol i'w hadrodd fel eithriadau i'r Bwrdd ar hyn o bryd.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Adroddiadau Budd y Cyhoedd gan yr Ombwdsmon yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022. Derbyniwyd un adroddiad budd y cyhoedd drafft ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Mae gwybodaeth fanwl am achosion allweddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Derbyniwyd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2021-2022 ar 09 Awst 2022, ac fe'i rhoddwyd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 06 Medi 2022.

Adborth gan Gleifion

Mae adborth cleifion a gwrando ar leisiau cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn allweddol er mwyn gwella gwasanaethau'n effeithiol. Mae system CIVICA ar gyfer adborth cleifion mewn amser real yn cael ei gwreiddio ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, gyda'r broses o'i rhoi ar waith wedi dechrau yn haf 2021. Mae'n fecanwaith i gefnogi adborth gan gleifion a gofalwyr mewn amser real. Mae'r system adborth cleifion ar-lein yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio nifer o arolygon ar draws nifer o sianeli, ynghyd ag adrodd safonol, tynnu sylw a dadansoddi testun gwell. Mae'n garreg filltir bwysig o ran rhoi cyfle i bob claf a gofalwr sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, cafwyd 1,826 o ymatebion adborth gan gleifion. O'r rhain:

- Roedd y sgôr profiad cyfartalog yn 9.09 allan o 10;
- Dywedodd 39.49% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg gyda staff os oeddent yn dymuno;
- Dywedodd 79.62% o'r ymatebwyr fod staff wedi cymryd amser i ddeall beth sy'n bwysig iddynt;
- Dywedodd 76.04% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt;
- Dywedodd 85.38% o'r ymatebwyr eu bod yn derbyn cymorth pan oedd angen.

Mae gostyngiad ym mhob un o'r mesurau allweddol hyn o'i gymharu ag adroddiadau blaenorol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi'r data hwn ymhellach er mwyn penderfynu a oes modd canfod unrhyw faterion penodol. Fodd bynnag, fe ymddengys ar hyn o bryd ei fod yn ostyngiad cyffredinol ym mhrofiad y claf yn hytrach na rhywbeth y mae modd ei briodoli i fater penodol.

Mae Atodiad 6 yn cynnwys siartiau sy'n dangos data dros y 14 mis blaenorol.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn defnyddio dadansoddiad testun hybrid o ddata ansoddol i ddarparu gwybodaeth allweddol o'r naratif a ddarperir gan gleifion yn ogystal â'r sgoriau mae cleifion yn eu rhoi. Y prif eiriau cadarnhaol yw tosturiol, cyfeillgar, proffesiynol a chwrtais. Y prif eiriau negyddol yw aros, cyfleusterau, cysur a bwyd.

Darperir dadansoddiad o'r wybodaeth hon i wasanaethau drwy ddangosfwrdd byw ac adroddiad misol. Anogir gwasanaethau i ystyried eu hadborth a gweithredu i wella.

Mae Fframwaith Adborth Cleifion a Gofalwyr newydd yn cael ei ddatblygu i sefydlu dull cryfach o wrando a gweithredu ar adborth.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cleifion (PALS) yn cynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth gyfrinachol am faterion sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'n bwynt cyswllt i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Ymdriniodd y tîm â 1,117 o gysylltiadau yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf. Roedd y tîm hefyd wedi casglu 349 darn o adborth.

Mae gwybodaeth fanwl wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

CASGLIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i'r Bwrdd Iechyd am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion, gan gynnwys Digwyddiadau sy'n Adroddadwy

yn Genedlaethol, Digwyddiadau Byth a gweithgarwch AGIC sydd wedi digwydd yn ystod y ddau fis diwethaf.


Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:


- Mae cyfradd y Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol wedi dychwelyd i lefel sy'n cyd-fynd yn well â'r cyfartaledd cenedlaethol – y prif themâu o hyd yw cwympiadau, briwiau pwysedd a gafwyd yn sgil gofal iechyd, ac adnabod a chymryd camau ar gyfer cleifion sy'n dirywio. Mae gwaith gwella ar gyfer yr holl feysydd hyn wedi cael ei adfywio o dan arweinyddiaeth uwch staff clinigol.
- Mae cyfradd y digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn ymwneud â diogelwch llawfeddygol (ac yn benodol Digwyddiadau Byth) wedi gostwng ac er ei bod yn rhy gynnar dod i gasgliad pendant, mae'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau blaenorol a'r gwaith gwella dwys yn debygol o fod yn gwneud gwahaniaeth.
- Y risg o gamau gorfodi pellach gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â chwympiadau ymysg cleifion mewnol a risg pwyntiau clymu ymysg cleifion mewnol.
- Mae nifer yr ymchwiliadau i ddigwyddiadau sydd ar ei hôl hi, ac o ganlyniad i hynny cau o fewn yr amserlen darged, yn is na'r disgwyl. Mae'r gwasanaethau'n nodi mai pwysau clinigol a gweithredol yw'r prif achos. Mae'r tîm corfforaethol yn darparu cymorth. Y Bwrdd Iechyd yw'r allanolyn i ryw raddau yn hyn o beth.
- Mae un Rhybudd Diogelwch hwyr o hyd. Er mai dyma'r sefyllfa gyffredinol orau yng Nghymru, mae'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i gau yn cael eu dilyn ac maen nhw wedi cael eu huwchgyfeirio at y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.
- Mae nifer y cwynion hwyr yn dal i fod yn annerbyniol o uchel, ac mae hynny'n effeithio ar gydymffurfio â'r targed cau. Yn yr un modd â digwyddiadau, mae'r gwasanaethau'n dweud mai pwysau yw'r rheswm dros hynny. Mae cymorth yn cael ei ddarparu i bob is-adran gan y tîm corfforaethol, ac mae cynllun adfer wedi'i ddatblygu. Mae'n debygol o gymryd sawl mis i fynd i'r afael â'r sefyllfa sydd wedi cronni ac mae'r risg o bwysau parhaus neu fwy o bwysau ar wasanaethau yn peryglu llwyddiant.
- Yn ystod y ddau fis diwethaf, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y mesurau profiad allweddol i gleifion ar draws gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i bwysau cynyddol ar wasanaethau.


Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflwyno gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau drwy'r Adroddiad Diogelwch Cleifion bob deufis a'r Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr dair gwaith y flwyddyn.

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.


Atodiad 1 – Cyfraddau adrodd digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol - Adnabod claf sy'n dirywio ac uwchgyfeirio (gan gynnwys oedi/methiant o ran monitro claf, methiant i weithredu ar symptomau niweidiol, oedi cyn gwneud diagnosis










Atodiad 2 – Cyfraddau adrodd digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol – Cwympiadau









Atodiad 3 – Cyfraddau adrodd digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol – Briwiau Pwysedd a gafwyd yn sgil gofal iechyd (HAPU)



Atodiad 4 – Cyfraddau adrodd digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol – Diogelwch Llawfeddygol




Atodiad 5 – Cyfraddau adrodd digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol – Digwyddiadau Byth





Atodiad 6 – Adborth Cleifion






6. Did staff take the time to understand what matters to you
(% of 'Always' Responses against 80% Target)
100.00%
90.00%
80.00%
70.00%
60.00%
50.00%
40.00%
30.00%
20.00%
10.00%
0.00%
82%
83%
84%
85%
86%
90%
84%
84%
87%
85%
88%
86%
81%
80%
Jun
Jul
Aug
Sep
Oct
Nov
Dec
Jan
Feb
Mar
Apr
May
Jun
Jul
2021/2022 - Qtr 1
2021/2022 - Qtr 2
2021/2022 - Qtr 3
2021/2022 - Qtr 4
2022/2023 - Qtr 1
2022/2023 - Qtr 2


3. Did you feel you were given all the information you needed?
(% of 'Always' Responses against 80% Target)
100.00%
90.00%
80.00%
70.00%
60.00%
50.00%
40.00%
30.00%
20.00%
10.00%
0.00%
81%
82%
81%
81%
83%
86%
81%
78%
84%
81%
85%
83%
76%
76%
Jun
Jul
Aug
Sep
Oct
Nov
Dec
Jan
Feb
Mar
Apr
May
Jun
Jul
2021/2022 - Qtr 1
2021/2022 - Qtr 2
2021/2022 - Qtr 3
2021/2022 - Qtr 4
2022/2023 - Qtr 1
2022/2023 - Qtr 2


4. Did you get assistance if needed?
(% of 'Always' Responses against 80% Target)
100.00%
90.00%
80.00%
70.00%
60.00%
50.00%
40.00%
30.00%
20.00%
10.00%
0.00%
87%
87%
85%
87%
88%
87%
83%
83%
85%
86%
90%
89%
82%
82%
Jun
Jul
Aug
Sep
Oct
Nov
Dec
Jan
Feb
Mar
Apr
May
Jun
Jul
2021/2022 - Qtr 1
2021/2022 - Qtr 2
2021/2022 - Qtr 3
2021/2022 - Qtr 4
2022/2023 - Qtr 1
2022/2023 - Qtr 2

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol
Adrodd i: ***Report to:***	Bwrdd Cyhoeddus
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Dydd Iau, 29 Medi 2022
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Pwrpas y papur hwn yw sicrhau bod y Bwrdd yn gweld fframwaith amgaeedig Llywodraeth Cymru, sy'n sylfaen allweddol ar gyfer datblygu a gweithredu Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn barhaus.
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn ac ystyried y fframwaith.
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt, Ansawdd Erika Dennis – Prif Reolwr, Ansawdd

Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☒	I Benderfynu arno *For Decision* ☐	Am sicrwydd *For Assurance* ☒

Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Derbyniol *Acceptable* ☐ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhannol *Partial* ☒ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*

Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: ***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***
Mae'r adroddiad hwn yn darparu copi o'r fframwaith cenedlaethol – nid yw sgôr sicrwydd yn berthnasol.

Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	Ansawdd
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	Mae'r goblygiadau rheoleiddiol, pe na bai'r Bwrdd Iechyd yn gwreiddio'r fframwaith, yn cynnwys peidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), Safonau Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?	Amh

In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?	
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?***	Amh
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)***	Mae'r fframwaith hwn yn gysylltiedig â BAF 1.2 - Ansawdd
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith* ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	Amh – ond gallai fod goblygiadau ariannol o unrhyw gamau y cytunir arnynt yn y Strategaeth Ansawdd ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Amh – ond gallai fod goblygiadau gweithlu o unrhyw gamau y cytunir arnynt yn y Strategaeth Ansawdd ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Amh
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	Mae'r fframwaith hwn yn gysylltiedig â BAF 1.2 - Ansawdd.
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)***	Amh
Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion ***Next Steps: Implementation of recommendations*** Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu'r Strategaeth Ansawdd yn cael ei wneud yn unol â'r fframwaith hwn. Mae Cyfarwyddwr Cyswllt - Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn mynychu'r Fforwm Ansawdd Cenedlaethol a'r Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd, gan sicrhau cysondeb rhwng gwaith lleol a gwaith cenedlaethol.	
Rhestr o Atodiadau: ***List of Appendices:*** Y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol	

CYFARFOD CYHOEDDUS BWRDD Y CYFARWYDDWYR
29 Medi 2022

Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru: Dysgu a Gwella (2021)

1. Cyflwyniad

Mae'r fframwaith wedi cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i sicrhau ei fod yn gwybod am y fframwaith, a gellir ei ddefnyddio i'w ystyried wrth ddatblygu a gweithredu Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd, gan fod y fframwaith yn darparu cyfarwyddyd clir i'r Bwrdd Iechyd a sefydliadau gofal iechyd eraill yng Nghymru o ran ansawdd a diogelwch.

2. Trosolwg o'r Fframwaith

Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Cymru Iachach, yn 2016 yn nodi dyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol, a thynnir sylw at ansawdd a diogelwch fel blaenoriaeth uwchlaw popeth arall. Mae hyn wedi cyfrannu at y strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach, a'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol sy'n esblygu, yng Ngogledd Cymru gydag amcan hirdymor allweddol i wella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau.

Er mwyn cryfhau'r gwaith o gael system gofal iechyd sydd wedi'i seilio ar ansawdd, cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 ei phasio gan y Senedd ac mae'n rhoi dyletswydd ansawdd uwch a dyletswydd gonestrwydd sefydliadol a fydd, gyda'i gilydd, yn cryfhau'r dull o ymdrin â gofal diogel o ansawdd uchel.

Er mwyn dod yn wasanaeth iechyd sy'n cael ei arwain gan ansawdd, mae'n allweddol bod y Bwrdd Iechyd, ynghyd â sefydliadau gofal iechyd eraill yng Nghymru, yn gweithredu o fewn System Rheoli Ansawdd effeithiol. I roi cyfarwyddyd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (Dysgu a Gwella) yn 2021.

Mae'r fframwaith yn pwysleisio bod yn rhaid i'r bwrdd sbarduno system rheoli ansawdd effeithiol ar draws y sefydliad. Er bod gwella ansawdd yn allweddol, mae'n rhan o broses fwy, sef System Rheoli Ansawdd. Yn ganolog i hyn mae dysgu parhaus sydd nid yn unig yn ailadrodd y cylch gwella ond yn manteisio ar ddysgu blaenorol ac yn cael gwybodaeth i wella prosesau.

Mae'r fframwaith felly yn nodi elfennau allweddol System Rheoli Ansawdd; *cynllunio, gwella* a *rheoli*, sydd gyda'i gilydd yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn rhoi *sicrwydd* cyffredinol bod y systemau sydd gennym ar waith yn gweithio'n effeithiol i gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer pobl Gogledd Cymru.

Mae'r fframwaith wedi cyfrannu at gwmpasu a datblygu Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd, gan ddadansoddi gwybodaeth o System Rheoli Ansawdd y Bwrdd Iechyd.

Yn sail i'r System Rheoli Ansawdd mae creu amgylchedd dysgu, lle caiff staff eu cefnogi a'u hannog i ddysgu a gwella. Drwy gyfuno Cynllunio Ansawdd, Rheoli Ansawdd a Gwella Ansawdd, sy'n seiliedig ar Sicrhau Ansawdd, byddwn yn gwella ansawdd ein gwasanaethau ac yn gwella'r canlyniadau i boblogaeth Gogledd Cymru yn unol â'r cyfarwyddyd a nodir yn Cymru Iachach a'n strategaeth ni ein hunain, Byw'n Iach, Aros yn Iach, ac yn creu cylch gwella, gan helpu i sicrhau diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus.

3. Rhoi'r Fframwaith ar waith

Y Strategaeth Ansawdd, a'i Chynllun Cyflawni Ansawdd cysylltiedig, fydd mecanwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyflawni'r fframwaith cenedlaethol.

Mae'r strategaeth yn parhau i gael ei thrafod a'i datblygu dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bydd y cynllun diwygiedig ar gyfer y gwaith hwn yn arwain at fireinio'r strategaeth ymhellach dros y chwarter nesaf ar gyfer craffu gan y Pwyllgor a'r Bwrdd tua diwedd y flwyddyn.

Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau â'i agenda ansawdd ac yn ymgysylltu'n llawn â'r rhaglenni cenedlaethol, gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn craffu'n fanwl.

Teitl yr Adroddiad:	Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022
Adroddiad i:	Bwrdd Iechyd
Dyddiad y Cyfarfod:	Dydd Iau, 29 Medi 2022
Crynodeb Gweithredol:	Diben y papur hwn yw cyflwyno drafft terfynol yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) i'r Bwrdd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cysylltiad cryf rhwng yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) rhanbarthol a gynhyrchwyd yn ddiweddar. Mae'r PNA yn nodi'r angen a'r galw presennol a rhagamcanol am ofal a chymorth, a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni'r galw hwnnw. Mae'r MSR yn asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir i ddiwallu'r anghenion a'r galw a nodwyd yn y PNA. Mae'r MSR yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r farchnad ofal i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol a bydd o gymorth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth yn well. Mae'r asesiad MSR yn canolbwyntio ar wasanaethau a reoleiddir. Mae'r rhain yn cynnwys: • gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant); • gwasanaethau llety diogel i blant; • gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd; • gwasanaethau mabwysiadu; • gwasanaethau maethu; • gwasanaethau lleoli oedolion (cysylltu bywydau) • gwasanaethau gofal cartref a gwasanaethau eiriolaeth. Mae'r broses lywodraethu a chymeradwyo fel a ganlyn: • Gorffennaf - Hydref 2022 - cyflwyno i Gyngor Llawn y 6 Awdurdod Lleol • Awst 2022 – cyflwyno i Dîm Gweithredol BIPBC er gwybodaeth • Medi 2022 – cyflwyno i PPPH er gwybodaeth • Medi 2022 - cyflwyno i Fwrdd BIPBC i'w gymeradwyo • Tachwedd 2022 - cyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i'w gymeradwyo • Tachwedd 2022 - rhoi ger bron Llywodraeth Cymru
Argymhellion:	Gofynnir i aelodau'r Bwrdd gymeradwyo drafft terfynol yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol
Arweinydd Gweithredol:	Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu Gill harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig
Awdur yr Adroddiad:	Wendy Hooson, Pennaeth Strategaeth Iechyd a Chynllunio BIPBC

Pwrpas yr Adroddiad:	I'w Nodi *For Noting* ☒	I'w Benderfynu *For Decision* ☒	Am sicrwydd *For Assurance* ☐

Lefelau Sicrwydd:	Arwyddocaol	Derbyniol	Rhannol	Dim Sicrwydd

	Significant ☐	*Acceptable* ☒	*Partial* ☐	*No Assurance* ☐
	Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth *No confidence / evidence in delivery*
Cyfiawnhad dros y sgôr sicrwydd uchod. Lle nodir sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim' uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn:				
Cysylltiad ag Amcan(ion) Strategol:	Yr asesiad MSR o sefydlogrwydd a digonolrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig yw sail y PNA rhanbarthol. Mae mynd i'r afael â materion iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau iechyd yn flaenoriaethau allweddol ac yn feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ein Cynllun Blynyddol. Bydd yr MSR a'r PNA yn cael eu defnyddio i nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella a'r cryfderau y dylem adeiladu ymhellach arnynt. Bydd y ddwy ddogfen yn llywio ein prosesau cynllunio a chomisiynu ac yn ein galluogi i'w gwneud yn gydnaws ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth.			
Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cod Ymarfer i gefnogi'r gwaith o baratoi MSR fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth i baratoi a chyhoeddi MSR yn seiliedig ar ddata ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol yn ogystal â fersiwn cyfun ar batrwm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. "*Mae'r ddyletswydd i baratoi ac i gyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, fel y nodir yn Neddf 2014, yn perthyn i bob awdurdod lleol, ond mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni'r swyddogaeth hon ar batrwm rhanbarthol, er mwyn i un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei baratoi ar gyfer pob un o saith ardal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymru.*" (Adran 3.11, Cod Ymarfer).			
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?***	Mae EqIA wedi'i gynnal. Amlygwyd anghydraddoldebau o ran darpariaeth gofal a phrinder cyflenwad o fewn y farchnad ofal. Bydd yr wybodaeth o'r EqIA yn			

	cael ei defnyddio yn y Cynlluniau Ardal Leol, cynlluniau comisiynu yn y dyfodol a datblygiadau strategaeth / polisi er mwyn sicrhau eu bod mor gynhwysol â phosibl.
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?	Mae'r EqIA yn cynnwys y Gymraeg a'r dyletswyddau Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r MSR a'r PNA yn ceisio nodi'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a'r rhwystrau a brofir gan y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd hyn yn: - llywio penderfyniadau rhanbarthol a lleol wrth gynllunio a chomisiynu gofal a chymorth (yn enwedig, ond nid yn gyfan gwbl, y gwasanaethau a reoleiddir) - helpu i lunio datblygiad cynllun comisiynu rhanbarthol - llywio datblygiad yr IMTP diwygiedig
Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeiriad i'r BAF a CRR)	Ni fu'n bosibl cyflwyno'r MSR i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mehefin 2022 (y dyddiad a nodir yn y Cod Ymarfer) oherwydd yr amser a gymerwyd i gasglu data a'r amser paratoi hir ar gyfer ceisio cymeradwyaeth gan bob un o'r chwe Awdurdod Lleol a BIPBC. I liniaru hyn, bu cydweithio agos â Llywodraeth Cymru a chytunwyd ar ddyddiad cyflwyno diwygiedig (Tachwedd 2022). Mae drafft cynnar o'r MSR wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru er gwybodaeth.
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i weithredu'r argymhellion	Nid oes unrhyw ofynion ariannol penodol yn codi o'r papur hwn. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, efallai y bydd angen buddsoddi mewn rhai meysydd blaenoriaeth. Dilynir llwybrau llywodraethu priodol pe bai angen buddsoddiad.
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i weithredu'r argymhellion	Nid oes unrhyw oblygiadau gweithlu penodol yn codi o'r papur hwn. Mae goblygiadau gweithlu wedi'u disgrifio yn yr MSR.
Adborth, ymateb, a chrynodeb dilynol yn dilyn ymgynghoriad	Mae'r MSR yn tynnu ar y gwaith ymgysylltu a wnaed i ddatblygu'r PNA. Mae hyn yn cynnwys arolwg a gwblhawyd gan dros 350 o unigolion ac adolygiad o ymchwil berthnasol, deddfwriaeth, cynlluniau comisiynu ac asesiadau eraill o anghenion. Datblygodd Grŵp Llywio Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Arolwg Darparwyr Cofrestredig, a chafwyd 63 o ymatebion. Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r uchod wrth ddatblygu a llunio'r MSR.

Cysylltiad â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: *(neu gysylltiad â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)*	Ddim yn berthnasol
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i'r bwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)	Ddim yn berthnasol

Camau Nesaf:
Gweithredu argymhellion

- Bydd yr MSR a'r PNA yn cael eu defnyddio'n lleol i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod yr adferiad ôl-bandemig.
- Bydd yr MSR terfynol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefannau pob Awdurdod Lleol, gwefan BIPBC a gwefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Bydd cam nesaf y rhaglen hon yn cynnwys defnyddio'r PNA a'r MSR i ddatblygu Cynllun Ardal gyda blaenoriaethau rhanbarthol yn cael eu nodi'n glir. Bydd y Cynllun Ardal yn cael ei gyhoeddi yn 2023.

Rhestr o Atodiadau:

Atodiad 1 - Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR)
Atodiad 2 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru

Drafft 0.4 (Mehefin 2022)

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: northwalescollaborative@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712432

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Crynodeb 9
3. Gwasanaethau Preswyl (oedolion) 14
4. Gwasanaethau gofal cartref 52
5. Gwasanaethau preswyl (plant) 91
6. Gwasanaethau maethu 121
7. Gwasanaethau mabwysiadu 146
8. Gofalwyr di-dâl 149
9. Gwasanaethau eirioli 157

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a gynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol. Mae'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad wedi ei lunio gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a). Dyma Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf i gael ei lunio ac mae'n ystyried canfyddiadau o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Gogledd Cymru 2022.

1.2 Pwrpas yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad

Mae'r adroddiad yn ein helpu ni i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, fel y gallwn gomisiynu a chefnogi darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth yn effeithiol.

Bydd yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn asesu:

- Digonolrwydd gofal a chymorth o ran bodloni anghenion a gofynion ar gyfer gofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth
- sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoli

Gwasanaethau rheoli yw'r rhai a restrir yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiad) a Gwasanaethau Rheoli (Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021. Ar hyn o bryd, y rhain yw:

- gwasanaeth cartref gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaeth llety diogel (i blant)
- gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd
- gwasanaeth mabwysiadu
- gwasanaeth maethu
- lleoliadau oedolion
- gwasanaeth gofal cartref

- gwasanaeth eirioli

Yr asesiad yw'r sail y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud penderfyniadau i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth at y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ardal lleol, strategaeth comisiynu strategol a datganiadau sefyllfa'r farchnad.

Mae'r asesiad wedi'i wneud ar y cyd gan y chwe chyngor lleol sydd yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y chwe chyngor lleol yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Nod yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yw gwella ein dealltwriaeth o'r farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, a sut fydd hyn yn datblygu a newid dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y canfyddiadau o fewn yr asesiad hwn yn cynorthwyo pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth i ddarparu gwasanaethau gwell a digonol i'n trigolion sydd angen gofal a chymorth.

1.3 Dulliau ymchwil

Mae'r dulliau ymchwil yn cynnwys:

- Dadansoddi setiau data lleol a chenedlaethol i ddod o hyd i dueddiadau.
- Tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd.
- Tystiolaeth o ymchwil lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Blaenoriaethau o bolisïau / strategaethau / cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Ymatebion i'r arolwg rhanbarthol ac ymarferion ymgynghori eraill gan drigolion, sefydliadau, staff a darparwyr.

1.4 Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a) yn datgan fod rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion. Fel rhagflaenydd i'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad, mae asesiad o anghenion y boblogaeth wedi cyflawni ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu rhanbarthol ar raddfa fawr yn seiliedig ar egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac

egwyddorion cyd-gynhyrchu. Rhoddodd yr ymarfer hwn fewnwelediad o effaith uniongyrchol sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol ar bobl gydag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn yr asesiad o les y boblogaeth.

Roedd darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig yn ymgysylltu trwy arolwg darparwr rhanbarthol. Anfonwyd gwahoddiad i holl ddarparwyr cofrestredig ar draws y rhanbarth i gwblhau'r arolwg trwy'r comisiynwyr. Derbyniwyd 63 ymateb.


Yn ogystal, mae timau lleol hefyd wedi gwneud gwaith ymgysylltu eu hunain lle nad oedd hynny'n cael ei wneud yn rhanbarthol. Cafodd penodau drafft hefyd eu rhannu gyda phartneriaid ar gyfer adborth a sylwadau.

1.5 Llywodraethu'r prosiect

Gofynnodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Fwrdd Comisiynu Gogledd Cymru oruchwylio'r prosiect. Fe wnaethant sefydlu grŵp llywio rhanbarthol i gydlynu datblygiad yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r chwe awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd trefniadau rheoli'r prosiect yn sicrhau bod cysondeb ar gyfer yr holl bartneriaid wrth lunio adroddiad rhanbarthol. Lluniwyd adroddiadau prosiect rheolaidd ac fe gawsant eu rhannu â'r byrddau rhanbarthol yn ôl yr angen.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gymeradwyo gan y chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Diagram 1: Trefniadau llywodraethu'r prosiect



1.6 Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd

Mae paratoi un asesiad hygyrch o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd marchnad ar draws chwe awdurdod lleol ac ardal un bwrdd iechyd o fewn y terfynau amser wedi bod yn broses heriol. Roedd pwysau ychwanegol Covid-19 yn cyfrannu at hynny. Diolch i ymdrechion tîm y prosiect, grŵp llywio'r prosiect a oedd yn cynnwys arweinwyr lleol, yr is-grŵp data, y grŵp ymgysylltu, timau

sefydliadau partner, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a darparwyr fe gyd-gynhyrchwyd yr adroddiad hwn.

Un o'r prif heriau oedd cael gafael ar ddata o ansawdd da am y boblogaeth a'r farchnad gofal cymdeithasol. Ni fydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i'w gynnwys yn yr asesiad ac nid oedd nifer o ddangosyddion ar gael oherwydd newidiadau i'r modd mae data'n cael ei gasglu ers yr asesiad diwethaf a gan fod rhywfaint o waith casglu data wedi'i ohirio oherwydd Covid-19.

Argymhellir bod grŵp llywio'r y grwp llywio ar y cyd asesiad o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd marchnad yn parhau i drefnu cyfarfodydd rheolaidd i oruchwylio'r diweddariadau a gwneud rhagor o argymhellion ynglŷn â sut i wella ansawdd, argaeledd a chydlyniant y data i lywio asesiadau o anghenion yn y dyfodol.

2. Crynodeb

Crynodeb o flaenoriaethau rhanbarthol

Mae gofal cartref (gofal yng nghartrefi'r bobl eu hunain) yn farchnad flaenoriaethol sydd wedi'i dynodi gan gomisiynwyr, gan nad yw darparwyr presennol yn y sector preifat wedi gallu cwrdd â'r galw ers cryn amser bellach o ganlyniad i heriau o ran staffio. Oherwydd hyn, dynodwyd bod tyfu a datblygu gwasanaethau, yn cynnwys gofal cartref cyffredinol ac arbenigol, yn gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae comisiynwyr yn awyddus i gydweithio â darparwyr i gynyddu capasiti gofal er mwyn cwrdd ag anghenion y boblogaeth. Y prif themâu a blaenoriaethau i ddarparwyr a chomisiynwyr ym mhob maes iechyd a gofal cymdeithasol yw:

- Recriwtio staff. Mae'r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol dros ben ac mae angen cynnig cyfraddau tâl a buddion cyflogaeth cystadleuol er mwyn denu pobl.
- Prosiect recriwtio Gofal Cartref Integredig rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd a datblygu rolau a llwybrau gyrfa integredig ar draws sefydliadau.
- Telerau ac amodau. Mae angen i'r rhain adlewyrchu a chydnabod gwerth rolau gofal cymdeithasol, a'u pwysigrwydd yn y system iechyd a gofal, yn ogystal ag adlewyrchu'r ffaith bod y rolau hyn yn rhai crefftus at ei gilydd.
- Mae'r cyfraddau cadw staff yn wael oherwydd y telerau ac amodau gwael yn y sector gofal cymdeithasol. Mae effaith yr argyfwng costau tanwydd a chostau byw yn cael ei theimlo bellach yn y sector lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn profi tlodi mewn gwaith. Mae staff yn gadael y sector hefyd oherwydd amodau gweithio ymestynnol a diffyg parch at y gwaith y maent yn ei wneud a'r lefelau o gyfrifoldeb sy'n gysylltiedig. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio a'u gorweithio.
- Nid yw staff sy'n newydd i'r sector yn aros yn y sector yn y tymor hir am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan ddwysedd y rolau, yn enwedig y rheini sy'n cynorthwyo pobl sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol. Mae angen i ddarparwyr a chomisiynwyr roi gwell cymorth i staff i gwrdd â'r heriau o weithio yn y sector gofal cymdeithasol.

- Rhoddir blaenoriaeth i raglenni trawsnewid gwasanaethau a dylai'r rhain ganolbwyntio'n gynt ar hwyluso hyblygrwydd wrth ddefnyddio oriau gofal a gomisiynwyd, lle gellir ymddiried mewn darparwyr i ystwytho'r pecyn o oriau gofal mewn partneriaeth â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Er cydnabod y cyfyngiadau sydd ar gyllidebau pawb, bydda'r hyblygrwydd hwn yn gwella ansawdd ac yn arbed costau drwy leihau costau gweinyddu.
- Nodwyd bod datblygu gweithio drwy bartneriaeth wirioneddol rhwng comisiynwyr a darparwyr yn faes allweddol.
- Mae darparwyr yn cydnabod budd y taliadau COVID ychwanegol ac mae addasrwydd parhaus y sector yn cael ei gydnabod yn flaenoriaeth allweddol oherwydd y gwaith pwysig y mae darparwyr gofal cartref yn ei wneud wrth gadw pobl yn iach yn eu cartrefi eu hunain, wrth roi'r gallu i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac wrth atal ymweliadau â'r ysbyty sydd heb eu cynllunio.
- Datblygu partneriaethau â darparwyr cartrefi gofal er mwyn darparu gwasanaethau gofal / seibiant preswyl lefel isel i leddfu'r pwysau ar ddarpariaethau gofal cartref.
- Datblygu cyfleoedd o ran micro-gomisiynu a thaliadau uniongyrchol fel dewis yn lle'r model gofal cartref traddodiadol.
- Cynyddu'r cymorth i ofalwyr di-dâl er mwyn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth gofal cartref ac edrych ar ddulliau o weithredu sy'n cael eu harwain gan ofalwyr, fel darparu mwy o seibiant i ofalwyr.
- Cynyddu nifer y lleoliadau arbenigol sydd ar gael mewn cartrefi gofal i bobl hŷn, oedolion ag anghenion iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl â dementia.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o lety argyfwng a thymor hwy sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn cynnwys anghenion o ran iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anghenion emosiynol ymddygiadol.

Crynodeb o themâu lleol

Ynys Môn

- Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid gwasanaethau ac mae moderneiddio yn faes y byddwn yn canolbwyntio arno gyda mwy o uchelgais i ddatblygu opsiynau llety, gan ategu gwaith y rhaglen drawsnewid.

- Mae'r gweithlu gofal yn Ynys Môn yn heneiddio, felly mae angen denu a chadw staff gofal cymdeithasol newydd.
- Rydym am gydweithio â darparwyr i sicrhau sefydlogrwydd, yn enwedig mewn perthynas â chostau staffio, cyflenwi, dewis, gwasanaethau a chyflawni.

Gwynedd

- Mae problemau'n codi'n rheolaidd mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, ac mae'r holl wasanaethau yn rhoi gwybod am brinder a phryder gwirioneddol.
- Diffyg cymorth ariannol. Mae'r holl wasanaethau wedi codi pryderon ynghylch y gallu i gynnal gwasanaethau o ansawdd da ag adnoddau cyfyngedig. Yn aml, o ganlyniad i ddiffyg cyllid, rydym yn gorfod defnyddio darparwyr y tu allan i'r sir. Mae hyn yn arwain at gostau uwch sydd, yn eu tro, yn dwysáu'r broblem.
- Prinder sylweddol o ran y gofal preswyl sydd ar gael yn y sir i blant sydd â'i angen, o'i gymharu â gwasanaethau eraill sydd ar gael i blant. Mae darpariaeth gymharol dda o deuluoedd maeth o fewn y sir ac mae nifer mawr o adnoddau a gwasanaethau o fewn y sir i gynorthwyo plant anabl. Mae'n ymddangos bod anghysondeb yn y ddarpariaeth.

Conwy

- Recriwtio a chadw staff ar draws y sector, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a staff nyrsio. Mae hyn yn gysylltiedig â thâl ac amodau ond nid hynny'n unig.
- Gwasanaethau preswyl plant. Mae angen brys am ddarparu llety ar gyfer lleoliadau argyfwng a lleoliadau tymor hwy ac rydym yn ystyried nifer o wahanol opsiynau i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sir a lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro costus a lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n bell oddi wrth y teulu.
- Darparu gwasanaethau gofal cartref, gan nad yw darparwyr presennol yn y sector preifat wedi gallu cwrdd â'r galw ers cyfnod hir bellach.

Sir Ddinbych

- Rydym am gynyddu'r capasiti gofal i gwrdd ag anghenion y boblogaeth o fewn Sir Ddinbych, yn cynnwys gofal preswyl ar gyfer plant, pobl ifanc, pobl ag anableddau cymhleth, pobl hŷn (yn cynnwys y rheini ag anghenion iechyd meddwl), gofal maeth, gofal cartref ac ailalluogi.
- Rydym wedi ymrwymo i wella cyfathrebu mewnol ar draws gwasanaethau / timau a chyfathrebu â sefydliadau ein partneriaid, ac i rannu arferion da.
- Mae cynyddu'r ddarpariaeth o lety seibiant dros nos sydd ar gael yn flaenoriaeth yn Sir Ddinbych.

Wrecsam

Y prif flaenoriaethau mewn Gwasanaethau Plant yn Wrecsam yw:

- Gwneud lleoliadau'n fwy sefydlog, lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy wasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar a dileu elw yn y farchnad lleoliadau plant
- Darparu llety argyfwng i bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl
- Uwchgyfeirio mwy o anghenion a phryderon iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Datblygu cartrefi plant newydd
- Gwella ansawdd ymarfer a pherfformiad ar draws Gwasanaethau Plant
- Y prif flaenoriaethau mewn Gwasanaethau Oedolion yn Wrecsam yw:
- Tyfu a datblygu gwasanaethau, yn cynnwys Gofal Cartref (sy'n cynnwys gofal cartref/ailalluogi; byw ac ymadfer yn y gymuned)
- Gwasanaethau dydd a chyflogaeth
- Lleoliadau argyfwng

Sir y Fflint

Rhoddir blaenoriaeth i'r farchnad Gofal Cartref yn Sir y Fflint er mwyn helpu i adfer cydbwysedd yn y sector gofal. Mae darparwyr gofal annibynnol yn parhau i gydweithio'n greadigol â'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y nifer lleiaf posibl o bobl yn aros am ofal yn eu cartrefi.

Yn Sir y Fflint, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu rhai pwysau critigol a phroblemau allweddol ym meysydd y gweithlu, comisiynu a meini prawf ariannu.

Oddi ar Ionawr 2022 yn Sir y Fflint, mae'r meysydd lle mae pwysau'n parhau yn cynnwys:

- gofal gan ddau aelod staff
- darparu gofal mewn ardaloedd gwledig
- darparu gofal i gleifion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty
- darparwyr yn dychwelyd pecynnau gofal o ganlyniad i heriau o ran staffio
- costau busnes uwch – biliau cyfleustodau ac yswiriant
- costau tanwydd uwch, yn cael eu hysgwyddo gan y staff gofal eu hunain gan mwyaf.

Ers y pandemig, mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl i oedolion wedi troi'n ansefydlog dros ben ac mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at argaeledd y ddarpariaeth mewn cartrefi gofal annibynnol. Mae'r cyngor yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, a model newydd o ofal camu i lawr i ategu'r rhaglen rhyddhau i asesu ac ymadfer a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd.

Mae hanner y plant mewn gofal preswyl o Sir y Fflint yn cael eu lleoli y tu allan i'r wlad yn Lloegr a'r Alban. Mae gofal preswyl mewnol yn cael ei ddatblygu i adfer cydbwysedd y farchnad yn Sir y Fflint.
Dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad ar gyfer gwasanaethau preswyl i blant, mae'r cyngor yn bwriadu:

- Cydweithio â darparwyr presennol a newydd a'u helpu i weithredu modelau gofal a fydd yn cwrdd ag anghenion plant.
- Cydweithio â darparwyr presennol a newydd a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn ffordd a fydd, yn ogystal â gwella canlyniadau i'n plant, yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Cydweithio â darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am blant ag anghenion mawr lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen yn lle darpariaeth les ddiogel.
- Dynodi darparwyr a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â ni yn ystod cyfnodau pontio, yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwr maeth neu ailymuno â'r teulu.
- Mae'r diwylliant Cymreig yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac rydym am gael mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

3. Gwasanaethau Preswyl (oedolion)

Trosolwg o'r boblogaeth

Mae'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal yn debygol o gynyddu

Mae'r asesiad o'r boblogaeth yn dangos fod y nifer o bobl dros 65 oed yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 17% rhwng 2010 a 2020 a rhagwelir y bydd cynnydd pellach o 20% dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau cartrefi gofal. Mae'r tabl isod yn dangos y newid a ddisgwylir ym mhob sir, a disgwylir mai yng Nghonwy fydd y cynnydd mwyaf a Gwynedd y cynnydd lleiaf.

Tabl 1: Y nifer a amcangyfrifir o bobl dros 65 oed yn 2020 a'r nifer a ragwelir yn 2040.

Cyngor lleol	2020 nifer	2040 nifer	Newid nifer	Newid canran
Ynys Môn	18,650	22,500	3,850	17.2%
Gwynedd	28,550	34,300	5,700	16.7%
Conwy	32,950	43,500	10,550	24.3%
Sir Ddinbych	23,500	30,400	6,900	22.6%
Sir y Fflint	33,300	42,400	9,150	21.5%
Wrecsam	27,750	34,500	6,750	19.6%
Gogledd Cymru	164,700	207,600	42,900	20.7%
Cymru	668,600	850,750	182,150	21.4%

Ffynhonnell: Amcangyfrifiad o'r boblogaeth yng nghanol blwyddyn 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Nid y cynnydd ym mhoblogaeth pobl hŷn yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar y galw. Mae yna hefyd newidiadau mewn disgwyliadau a pholisi sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd y galw yn cynyddu ar yr un gyfradd â chyfanswm y boblogaeth. Er enghraifft, fe all y galw newid wrth i bobl gael eu cefnogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, neu gymryd llety gofal ychwanegol i gadw eu hannibyniaeth gyda'r dewis o dderbyn cefnogaeth fel bo angen.

Mae pobl yn tueddu i symud i ofal preswyl yn hŷn a phan fo'u hanghenion yn fwy cymhleth, er enghraifft, o ganlyniad i ddementia. Roedd yr asesiad o'r boblogaeth yn amcangyfrif cynnydd o 65% rhwng 2017 a 2035 yn y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, tua 7,000 yn fwy o bobl. Nid yw'r cynnydd blaenorol wedi bod mor uchel â'r disgwyl gan fod y gyfradd o bobl sy'n datblygu dementia wedi gostwng, efallai o ganlyniad i welliannau mewn iechyd a mwy o flynyddoedd wedi eu treulio mewn addysg (Matthews *et al.*, 2016). Ond mae'n parhau yn debygol y bydd y duedd o ran bod angen cefnogaeth cartref nyrsio a phreswyl sy'n gynyddol arbenigol ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn parhau.

Trosolwg y farchnad

Mae yna tua 220 o gartrefi gofal preswyl a 60 o gartrefi nyrsio yng Ngogledd Cymru, sy'n darparu tua 4,100 o leoliadau gofal preswyl a 2,500 o leoliadau nyrsio.

Tabl 2: Y nifer presennol o **gartrefi gofal oedolion** (18 oed a hŷn) yn ôl math ac ardal

Cyngor lleol (a, b, c)	Preswyl	Preswyl gydag iechyd meddwl	Nyrsio	Nyrsio gydag iechyd meddwl	Cyfanswm (d)
Ynys Môn	12	7	3	2	24
Gwynedd	14	9	7	3	33
Conwy	43	12	13	5	73
Sir Ddinbych	46	13	5	5	69
Sir y Fflint	22	12	7	2	35
Wrecsam	16	10	9	2	37
Gogledd Cymru	153	63	44	19	271

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.
(a) Yn Ynys Môn mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelyau iechyd meddwl ac felly nid yw'r rhain wedi eu gwahanu.
(b) Mae gan Sir Ddinbych 26 o gartrefi preswyl arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu.
(c) Mae gan Sir y Fflint 8 o gartrefi arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y categori preswyl.
(d) Mae gan Sir y Fflint nifer o gartrefi sydd â chofrestriad deuol. Nid yw cyfanswm y rhifau yn adio.

Tabl 3: Y nifer presennol o leoliadau cartref gofal parhaol sydd ar gael i bob **oedolyn 18 oed a hŷn**

Cyngor lleol (a, b, c)	Preswyl	Preswyl gydag iechyd meddwl	Nyrsio	Nyrsio gydag iechyd meddwl	Cyfanswm
Ynys Môn	341	98	115	64	618
Gwynedd	351	199	353	175	1,078
Conwy	671	226	441	144	1,482
Sir Ddinbych	802	0	321	0	1,123
Sir y Fflint	416	261	179	44	900
Wrecsam	223	490	526	108	1,347
Gogledd Cymru	2,804	1,274	1,935	535	6,548

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.
Nodiadau:
(a) Mae'r categorïau o ofal wedi dod yn fwy amhendant ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 felly nid yw'r categorïau hyn ond yn darlunio'r rhaniad rhwng mathau o ofal.
(b) Yn Ynys Môn mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelyau iechyd meddwl ac felly nid yw'r rhain wedi eu gwahanu.
(c) Mae gan Sir y Fflint 50 o leoliadau arbenigol i bobl gydag Anableddau dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y categori preswyl.

Ffioedd cartref gofal

Cafodd yr angen am ffioedd cartref gofal cynaliadwy a digonol ei amlygu yn yr ymgynghoriad ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Caiff lefelau ffioedd eu seilio ar fethodoleg Gogledd Cymru gyda phob cyngor yn cymryd i ystyriaeth benderfyniadau lleol ac ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae yna drafodaethau parhaus yn ymwneud â sut y caiff y sector ei ariannu, gan gydnabod breuder y sector, gan gynnwys y gwaith ailgydbwyso gofal a'r Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef (Llywodraeth Cymru, 2021c).

Lleoedd gwag mewn cartrefi gofal

Yn ystod y pandemig mae nifer o gartrefi gofal wedi bod â lefelau uwch o leoedd gwag nag yn flaenorol. Byddai lefelau'r lleoedd gwag ar gyfartaledd fel arfer tua 10%, a chredir fod hynny'n gynaliadwy ar gyfer y sector (Laing, 2020). I rai roedd hyn o ganlyniad i absenoldebau staff neu swyddi gwag o ganlyniad i faterion recriwtio, tra roedd eraill angen defnyddio ystafelloedd ychwanegol ar gyfer storio cyfarpar diogelu personol (PPE) neu ar gyfer mannau byw ychwanegol er mwyn lleihau maint grwpiau o breswylwyr a oedd yn rhannu cyfleusterau. O bryd i'w gilydd mae yna gyfyngiadau wedi bod ar dderbyniadau o ganlyniad i achosion o Covid-19 hefyd.

Roedd lleoedd gwag mewn cartrefi gofal hefyd yn cynyddu yng Nghonwy cyn y pandemig o ganlyniad i gyflwyno timau ailalluogi a oedd yn gweithio i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi am gyfnod hwy. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn llai effeithiol yn ystod y pandemig gan fod llai o weithwyr gofal cartref wedi bod allan yn y gymuned.

Tabl 4: Y ganran o leoliadau cartref gofal gwag, 31 Mawrth 2021

Cyngor lleol	Wedi'u meddiannu	Heb eu meddiannu	Cyfanswm y lleoliadau	Canran y rhai nad ydynt wedi eu meddiannu
Ynys Môn	548	65	613	11%
Gwynedd	933	122	1,055	12%
Conwy	1,337	115	1,452	8%
Sir Ddinbych	1,161	249	1,410	18%
Sir y Fflint	748	152	900	17%
Wrecsam	1,059	288	1,347	21%
Gogledd Cymru	5786	991	6777	15%

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.

Lleoliadau cartref gofal a gaiff eu hunan ariannu

Nid yw cyfanswm y bobl sy'n ariannu eu lleoliadau cartref gofal eu hunain ar draws Gogledd Cymru gael oherwydd polisi gwahanol y Cynghorau. Roedd gan Sir y Fflint 194 o bobl yn hunan-ariannu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar 1 Chwefror 2022.

Daeth amcangyfrifon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) i'r casgliad fod tua 36.7% o drigolion cartrefi gofal a oedd yn ariannu eu gofal eu hunain rhwng 2019 a 2020.

Trosolwg o'r farchnad yn Ynys Môn

Mae Ynys Môn wedi nodi'r anghenion canlynol.

- Mae angen mwy o ofal dementia.
- Fe all arwahanrwydd cymdeithasol fod yn risg benodol i bobl hŷn yn Ynys Môn o ganlyniad i natur wledig y sir, diffyg cludiant, a'r pellter y mae nifer yn byw oddi wrth eu teuluoedd.
- Mae angen gwasanaethau arbenigol ychwanegol ar Ynys Môn.
- Nid oes digon o welyau preswyl a nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn Ynys Môn.
- Mae yna lai o alw am welyau preswyl cyffredinol.
- I bobl hŷn gydag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia, mae yna ddiffyg lleoliadau preswyl a nyrsio arbenigol.

Trosolwg o'r farchnad yng Ngwynedd

Mae Gwynedd wedi nodi'r meysydd canlynol lle ceir hi'n anodd i fodloni'r gofyn:

- Diffyg lleoliadau preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer pobl hŷn gydag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia.
- Diffyg gweithwyr cymorth y gymuned a phreswyl yn arbennig Tan y Marian ac o fewn darpariaeth ddydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddechrau gwasanaeth ar gyfer unigolion newydd ac mae nifer o unigolion yn derbyn llai o ddyddiau / oriau cefnogi yn y gymuned.
- Mae'n anodd i gynnal a datblygu gwasanaeth wedi ei deilwra i'r unigolyn sydd angen gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn 'Cefnogi Ymddygiad Personol' a Chefnogaeth Weithredol.
- Y galw am ofal arbenigol dementia (preswyl a nyrsio). Ar hyn o bryd nid oes yna ofal nyrsio dementia yn ardal Meirionnydd / Llŷn.
- Nid oes yna unrhyw ddarpariaeth iechyd meddwl arbenigol gan gynnwys ar gyfer awtistiaeth a salwch meddwl difrifol yng Ngwynedd. Conwy yw'r lleoliad agosaf ond nid yw'r ddarpariaeth yn y Gymraeg.

- Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am ofal preswyl dros dro o ganlyniad i brinder gofal yn y cartref.
- Nid ydym yn gallu llenwi gwelyau gwag yn rhai o gartrefi'r Cyngor o ganlyniad i lefel dibyniaeth uchel preswylwyr.
- Fe all rhyddhau yn amhriodol o'r ysbyty heb ddigon o amser i wella arwain at gynnydd mewn dibyniaeth.
- Mae absenoldeb salwch a recriwtio yn broblem.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae yna gynlluniau i gynyddu darpariaeth breswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) drwy addasu unedau yng nghartrefi preswyl y cyngor.

Ar hyn o bryd mae yna 33 o ddarparwyr cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio pobl hŷn yng Ngwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu 11 o gartrefi preswyl ar gyfer pobl hŷn yn uniongyrchol.

Tabl 5: Lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn Gwynedd

	Cyfanswm y lleoliadau cofrestredig	Y nifer o leoliadau dementia
Plas Maesincla	23	23
Plas Ogwen	27	-
Plas Pengwaith	31	-
Plas Hedd	28	7
Plas Hafan	30	8
Plas y Don	30	-
Plas Gwilym	27	-
Hafod Mawddach	25	8
Bryn Blodau	41	17
Cefn Rodyn	22	-
Llys Cadfan	33	15

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Mae'r canlynol yn rhoi'r diweddaraf o ran ein hymdrechion i ehangu darpariaeth gofal i bobl gyda dementia:

- Plas Hedd. Ni all un gwely seibiant agor o ganlyniad i adeiladu. Datblygiad newydd ar y gweill. Cynllun i newid uned 8 gwely arall i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Plas Hafan. Yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.
- Bryn Blodau. 9 gwely i bobl sy'n byw gyda dementia, o ganlyniad i'r sefyllfa staffio ni ellir cefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia, ond cynigir gwasanaeth gwahanol.
- Hafod Mawddach. Fe fydd datblygiad newydd yn cynyddu lleoedd cofrestredig i 30 gydag 8 gwely i bobl sy'n byw gyda dementia. I'w gwblhau Medi 2022.
- Cefn Rodyn. Nid yw 5 gwely ar y llawr cyntaf yn cael eu defnyddio o ganlyniad i faterion yn ymwneud â diogelwch tân ac arhosir am lifft newydd. Datblygiadau newydd wedi eu cwblhau yn 2021. Mae un ystafell wedi ei datblygu ar gyfer defnydd bariatrig, y lleill ar gyfer pobl gydag anghenion preswyl mwy dwys.
- Llys Cadfan. Yn cael ei ddefnyddio i gapasiti llawn, 1 gwely seibiant ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia ac 1 gwely seibiant preswyl.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynyddu'r nifer o welyau preswyl iechyd meddwl i bobl hŷn yn eu cartrefi mewnol. Yn wreiddiol roedd yna 38 o welyau rhwng Plas Maesincla ac unedau Bryn Blodau a Llys Cadfan. Nawr mae yna unedau ym Mhlas Hafan, Plas Hedd, uned ychwanegol yn Llys Cadfan a Bryn Blodau. Mae rhagor o waith ar y gweill i greu ail uned ym Mhlas Hedd ac uned newydd yn Hafod Mawddach gyda'r gobaith o agor yn ddiweddarach eleni. Tra bod hyn yn gynnydd sylweddol mae angen gwneud mwy i newid cydbwysedd gwelyau iechyd meddwl pobl hŷn yn y sir a bodloni anghenion. Mae costau refeniw sylweddol yn gysylltiedig â phob uned wedi'i newid o leoliadau preswyl i leoliadau iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM).

Nodwyd y bylchau canlynol:

- Gofal Arbenigol Dementia (preswyl a nyrsio) yn ardal Meirionnydd - ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofal nyrsio dementia yno.
- Gofal preswyl / nyrsio ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion corfforol a synhwyraidd.

Ar gyfer y dyfodol mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd darpariaeth breswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn cael ei greu ym Mhlas Gwilym a Phlas Pengwaith. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Llywodraeth Cymru i ddatblygu safle Penrhos, Pwllheli. Y bwriad yw i gyflwyno achos busnes i Gabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer datblygu cartref gofal ar y safle. Mae'r nifer o unigolion sydd â dementia yn cynyddu, ac rydym yn adolygu'r angen yn rheolaidd ac yn ceisio addasu cartrefi'r cyngor i fod yn hyblyg ac addas i fodloni'r angen yn y dyfodol.

Trosolwg o'r farchnad yng Nghonwy

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yng Nghonwy yn cael eu comisiynu gan ddarparwyr cartref gofal preifat sy'n darparu 98% o'r gwelyau yn y sir. Mae'r ddarpariaeth ar hyd yr arfordir yn rhesymol, ond mae yna brinder lleoedd yn ne / ardaloedd gwledig y sir ac mae pryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae gwasanaeth y sir yn dda o ran lleoedd preswyl a nyrsio, ond mae yna brinder darpariaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer anghenion preswyl a nyrsio, yn arbennig ar gyfer y rhai hynny sydd angen gofal arbenigol iawn. Mae mwyafrif yr adeiladau a gaiff eu defnyddio fel Cartrefi Gofal yn hŷn ac yn aml maent yn anheddau preswyl sydd wedi eu haddasu. Ar y cyfan maent yn cael eu cynnal yn dda gan y darparwyr, ond fe all atgyweiriadau a'u cynnal a'u cadw fod yn gostus. Roedd cynllun ffisegol nifer o gartrefi o'r fath yn ei gwneud yn anodd iawn i ddarparwyr reoli'r achosion o Covid yn ystod y pandemig, tra ar yr un pryd fe welodd y cartrefi oedd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol fod ganddynt well adnoddau i reoli achosion o'r fath.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir Ddinbych

Caiff dros 90% o leoliadau cartref gofal eu comisiynu gan ddarparwyr allanol. Mae yna ddau gartref gofal mewnol. Fe gaeodd y cyngor un o'r tri chartref preswyl oedd

ganddo yn 2019. Mae'r safle yn Rhuthun nawr yn cael ei ddatblygu i ddarparu mwy o randai gofal ychwanegol.

Mae yna ostyngiad bach wedi bod yng nghapasiti'r sector cartrefi gofal yn gyffredinol yn Sir Ddinbych yn y blynyddoedd diweddar. Mae yna lai o alw am ofal preswyl heb gefnogaeth ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl neu anghenion corfforol cymhleth.

Mae mwyafrif y cartrefi gofal yn Sir Ddinbych yn adeiladau hŷn sydd wedi eu haddasu. Mae rhai achlysuron wedi bod lle na fu'n bosibl darparu lle ar gyfer pobl gydag anghenion bariatrig o ganlyniad i strwythur yr adeiladau - maint y drysau neu gynllun y coridorau. Hefyd ychydig o gartrefi gofal sydd â gofod ar gyfer teclynnau codi o'r to ar gyfer codi a symud neu welyau mwy. Mae'r gofyniad am fwy o fewnbwn gan staff hefyd yn rhwystr.

Ychydig o leoedd gwag sydd yna ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae tua 18 o oedolion wedi eu lleoli mewn cartref gofal gan nad oes digon o gefnogaeth ar gael i'w galluogi i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

Ers Mai 2021 mae yna 32 o leoliadau iechyd meddwl preswyl pobl hŷn (HaSM) y tu allan i'r sir a 29 o leoliadau nyrsio. Mae yna 33 o leoliadau y tu allan i'r sir yn Sir Ddinbych ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion iechyd meddwl, yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg lleoliadau lleol addas.

Mae gan Sir Ddinbych 282 o leoedd ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal anghenion dysgu arbenigol. Maent wedi nodi'r tueddiadau canlynol:

- **Demograffeg:** Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd angen cefnogaeth yn cynyddu, ac mae pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hirach. Mae'r tueddiadau hyn o ran demograffeg yn dueddol o barhau.
- **Agweddau a disgwyliadau** Mae'r rhan fwyaf o unigolion a'u teuluoedd eisiau / yn disgwyl cael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned.
- **Cyllid** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod yn cynyddu ond rydym nawr yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian (o ganlyniad i leihau setliadau awdurdodau lleol, cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol a chyfyngiadau'r Grant Cymorth Tai).

- **Darpariaeth bresennol** Caiff cefnogaeth ei darparu'n gyffredinol drwy deulu agos a / neu staff gofal cyflogedig hirdymor. Gwneir llai o ddefnydd o asedau anffurfiol wedi eu lleoli yn y gymuned.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir y Fflint

Mae yna gynnydd cyffredinol wedi bod mewn darpariaeth breswyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ailagor tri o gartrefi ac ehangu Tŷ Marleyfield ym Mwcle. Mae un cartref mawr wedi newid o ddarparu gofal nyrsio i ddarparu gofal preswyl sydd ar yr un pryd wedi cynyddu capasiti gofal preswyl a lleihau'r capasiti gofal nyrsio. Fe gaeodd cartref nyrsio cyffredinol yn Nhreffynnon yn 2019 ac un arall ym Mawrth 2022 a leihaodd leoliadau nyrsio cyffredinol o 75. Mae yna waith atgyweirio yn digwydd mewn un cartref gofal ar hyn o bryd sydd wedi lleihau capasiti'r farchnad dros dro.

Mae Marleyfield, Croes Atti, a Llys Gwenffrwd yn gartrefi gofal sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol a sy'n eiddo i'r Cyngor ac wedi eu lleoli yn nhrefi Bwcle, Y Fflint a Threffynnon. Dim ond ychydig o ailwampio neu adnewyddu sydd ei angen ar yr adeiladau. Mae Llys Gwenffrwd yn wahanol yn y ffaith fod y ddarpariaeth yn cael ei darparu dros dri llawr, sy'n golygu fod angen newid mewn lefelau staffio i gefnogi pobl gyda dementia yn greadigol ar y llawr uchaf.

Yn hanesyddol mae yna brinder wedi bod o ran lleoliadau sydd wedi arwain at leoliadau y tu allan i'r sir.

Hefyd mae cymhlethdod yr angen a diffyg lleoliadau yn lleol yn arwain at oedi o ran trosglwyddo gofal o'r ysbyty. Roedd hyn yn amlwg yn ystod y pandemig ac ar un pwynt, o ganlyniad i achosion gweithredol mewn cartrefi nyrsio, nid oedd yna unrhyw leoliadau nyrsio ar gael yn Sir y Fflint y gellid rhyddhau pobl iddynt o'r ysbyty.

O fewn y sector Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol, o ganlyniad i'r dewis bychan o ddarparwyr lleol a natur arbenigol y gefnogaeth, mae'n bosibl y bydd angen i rai o'r lleoliadau preswyl hyn fod y tu allan i'r sir a gall hynny arwain at gostau ychwanegol. Mae hyn yn cael effaith ar unigolion ac yn cynnal cysylltiadau gyda theulu a ffrindiau.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Cartrefi newydd sy'n hygyrch i bawb:

- Mae gan Marleyfield a Croes Atti unedau ar wahân ar gyfer y rhai hynny sydd ag anghenion cysylltiedig â dementia.

Cefnogi pobl i fyw gartref am gyfnod hirach:

- Mae Llys Gwenffrwd yn gartref i leoliadau adsefydlu ac mae'r tri chartref yn darparu nifer o leoliadau seibiant, camu i fyny / camu i lawr a lleoliadau asesu yn hytrach na phreswyl parhaol.
- Mae gan Marleyfield a Croes Atti ddarpariaeth gofal dydd cydffiniol a fyddai'n cael eu heffeithio gyda rhai o'r dewisiadau sy'n cael eu cyflwyno.
- Disodli Croes Atti gyda chartref gofal newydd ar gyn safle Ysbyty Fflint. Fe fydd gan y cartref gofal newydd 25 o welyau ychwanegol, bydd 12 ohonynt yn hygyrch i'r Bwrdd Iechyd, wedi eu clustnodi i ddarparu model newydd o ofal camu i lawr i gefnogi'r rhyddhau i raglen asesu ac adfer a ddatblygwyd o fewn y Bwrdd Iechyd.

Darpariaeth ar gyfer pobl gydag anableddau cymhleth

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi amlygu'r angen am i welyau corfforol a synhwyraidd arbenigol fod ar gael yn lleol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi ei bod yn anodd i fodloni'r galw am ofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion corfforol a synhwyraidd.

Nododd Cyngor Sir Ddinbych ddiffyg capasiti ar gyfer llety preswyl i bobl gydag anableddau cymhleth (anableddau corfforol a dysgu), sy'n golygu fod nifer o bobl yn mynd allan o'r sir, i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau. Ar hyn o bryd mae yna 13 o leoliadau y tu allan i'r sir a all arwain at gostau uwch. Mae hyn hefyd yn effeithio ar deuluoedd sy'n ymweld a'r cyswllt â'r unigolyn.

Yn Sir Ddinbych gan fod unigolion gydag anghenion cymhleth wedi symud ymlaen o leoliadau iechyd i gael eu cefnogi yn y gymuned, mae angen gwaith parhaus i ymgorffori methodoleg Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol ymhellach wrth ddarparu

cefnogaeth. Fe fydd hyn yn sicrhau fod y sgiliau a'r wybodaeth ar gael ac yn cael eu cynnal o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

Mae tai gofal ychwanegol yn cynnwys eiddo hunangynhwysol sydd wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer oedolion hŷn gyda gofal a chefnogaeth ar gael ar lefel ddigonol i alluogi pobl i aros gartref er gwaethaf llesgedd, cyfnodau o salwch neu anableddau ac yn aml heb yr angen i symud i ofal preswyl.

Gyda byw â chymorth neu byw yn y gymuned mae pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth ffurfiol y telir amdani yn cael ei darparu gan asiantaeth gofal cartref cofrestredig.

Mae tai gwarchod hefyd yn cynnwys eiddo hunangynhwysol ar gyfer oedolion hŷn ac fel arfer mae'n cynnwys cymorth gan reolwr cynllun (warden) neu staff cymorth.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Ynys Môn

Mae dau ddatblygiad gofal ychwanegol yn Ynys Môn, Hafan Cefni a Phenucheldre, sy'n darparu cyfanswm o 118 o unedau gofal ychwanegol ar hyn o bryd, pob un ohonynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ym mis Mawrth 2022, ymrwymodd y Cyngor i symud cynllun newydd yn ei flaen yn ardal Aethwy a bydd hyn yn darparu 40 o unedau ynghyd â 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol.

Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn awgrymu bod darpariaeth gofal ychwanegol ar y trywydd iawn i fodloni'r galw hyd at 2025 a bod angen 127 o unedau ychwanegol erbyn 2035 i fodloni'r galw a ragwelir. Ar hyn o bryd mae 12 o bobl ar y rhestr aros am dai gofal ychwanegol.

Mae tystiolaeth o ymgynghoriad lleol yn cefnogi symudiad tuag at ddarparu gofal ychwanegol a darpariaeth tai â chymorth ac i ffwrdd o gartrefi gofal preswyl traddodiadol.

Mae 71 uned o lety â chymorth ac mae pob un yn cael ei feddiannu ar hyn o bryd. Darperir y rhain gan 7 darparwr gofal yn ogystal â gwasanaeth mewnol. Mae'r galw ar hyn o bryd yn drech na'r capasiti o ran Gofal Ychwanegol a Llety â Chymorth.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yng Ngwynedd

Mae yna dri chynllun tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd sy'n darparu cymysgedd o randai hunangynhwysol 1 a 2 ystafell wely.

- Cae Garnedd, Bangor: y 42 uned i gyd wedi eu meddiannu a 37 o ymgeiswyr ar y rhestr aros.
- Awel y Coleg, Bala: 30 uned, 1 heb ei feddiannu a 3 o ymgeiswyr ar y rhestr aros.
- Hafod y Gest, Porthmadog: 40 o unedau, i gyd wedi eu meddiannu a 21 ar y rhestr aros.

Mae unedau gofal ychwanegol hefyd yn rhan o'r sgwrs ynglŷn â datblygiad Canolfan Lleu – y canolbwynt iechyd a gofal ym Mhenygroes gyda Grŵp Cynefin a datblygiad safle Penyberth ym Mhenrhos, Pwllheli gyda Clwyd Alyn.

Mae'r galw ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad ac mae yna gynlluniau i ddatblygu mwy.

Mae yna 412 uned o dai gwarchod yng Ngwynedd, gyda dim ond 30 uned â warden llawn amser. Maent i gyd wedi eu poblogi ac yn gyffredinol mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad yng Ngwynedd, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn nad ydynt un ai angen gwasanaethau cefnogol warden neu nad ydynt yn gymwys am hynny, sef y prif faen prawf ar gyfer tai gwarchod.

Mae yna 78 o leoliadau byw â chymorth, 39 o rai trydydd sector (50%), 32 o rai'r sector preifat (40%) a 7 o rai mewnol (10%).

Yn hanesyddol mae'n anodd i gael staff mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft de Gwynedd, ac mae darparwyr tai â chymorth wedi cael trafferth gyda hyn. Mae llety â chymorth yn flaenoriaeth ar gyfer y maes anabledd dysgu gyda 75 o unigolion wedi eu nodi fel rhai sydd angen llety. Fe fydd cyfran uchel o'r unigolion hyn angen model tai â chymorth ac felly rydym yn rhagweld angen am hyblygrwydd y farchnad.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn wynebu'r un math o heriau pan ddaw i recriwtio a chynnal timau staff. Fodd bynnag, dros y misoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno nifer o unigolion yn llwyddiannus i leoliadau tai â chymorth newydd ac mae darparwyr yn adrodd eu bod mewn sefyllfa i gyflwyno ceisiadau tendro ar gyfer prosiectau newydd. Mae rhai darparwyr allanol yn symud ymlaen i ddatblygu llety

newydd ac yn cefnogi cyfleoedd yn ne Gwynedd. Cyn y pandemig roedd darparwyr wedi ymrwymo i edrych ar ddarparu gwasanaeth yn wahanol, fel grwpiau yn rhannu cymorth, ond mae'r cyfyngiadau wedi cael effaith ar y datblygiad hwn.

Mae darparwyr sy'n gweithio o fewn y modelau cefnogi gweithredol a 'Chefnogi Ymddygiad Personol' wedi eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig o ganlyniad i gyfyngiadau staff a phrinder staff ac felly mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn ar frys gyda'n darparwyr i sicrhau hyfforddiant a mentora i hyrwyddo'r dull hwn o weithio a sicrhau ymagwedd ataliol a seiliedig ar ganlyniadau.

Mae darparwyr yn gyffredinol yn gweithio'n agos gyda'r timau amlddisgyblaethol i ymateb i'r galw os oes yna newid mewn anghenion, i ymateb i argyfwng ac yn y blaen. Rydym wedi gweld enghreifftiau o gydweithio a blaenoriaethu gyda darparwyr yn ymrwymo i weithio'n hyblyg i sicrhau fod unigolion yn derbyn gwasanaeth gofal a chefnogaeth sy'n bodloni eu hanghenion.

Fel arfer caiff angen o fewn y gwasanaeth ei fodloni gan becynnau wedi eu teilwra ar gyfer unigolion a darpariaeth ar raddfa fach, nad yw o reidrwydd yn ddeniadol nac yn gynaliadwy i ddarpar ddarparwyr. Mae recriwtio yn anodd ac yn ddibynnol ar y boblogaeth leol gan fod pobl yn annhebygol o symud i'r rhanbarth ar gyfer y gwaith o ganlyniad i gyfraddau isel cyflogau a'r gofynion ieithyddol. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai o'r darparwyr presennol ar y fframwaith ac felly fe allai ailagor y broses dendro ar gyfer darparwyr newydd posibl fod yn fanteisiol. Rydym yn rhagweld cynnydd yn yr angen am dai â chymorth o fewn y blynyddoedd sydd i ddod yng Ngwynedd. Mae angen i ni ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio ymagwedd KeyRing (Keyring, 2022) ac edrych ar gomisiynu neu ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen o fewn yr ardaloedd clwstwr. Mae ystyriaeth wedi ei gwneud yn y gorffennol, ond mae angen ystyriaethau pellach mewn ymgynghoriad gydag unigolion/teuluoedd/darparwyr.

Mae pob darparwr yn wahanol gyda rhai yn cael mwy o anghenion cymorth nac eraill. Mae'r pwysau arnynt o bryd i'w gilydd yn golygu nad ydynt o bosibl mewn sefyllfa gref i ymateb i gyfleoedd tendro neu i gynnig tendr ar gyfer y Cytundeb Tai â Chymorth. Mae darparwyr sy'n cefnogi unigolion gydag anghenion difrifol a chymhleth yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd i adrodd nad yw'r lefel o gynnydd chwyddiannol a gynigir gan y Cyngor yn ddigonol.

Mae darparwyr yn gyffredinol yn sefydlog ac yn gallu cynnal y lefelau gofynnol o wasanaeth i ddarpariaeth tai â chymorth presennol. Mae'n anodd dweud a ydynt mewn sefyllfa i fodloni'r galw a'r cynnydd mewn angen gan fod sefyllfa pob darparwr yn wahanol. Mae darparu oriau ychwanegol drwy wasanaethau cefnogi wedi bod yn anodd ac yn heriol gyda dim digon o staff profiadol ar gael. Mae hyn wedi rhoi pwysau ar ofalwyr ac rydym wedi gorfod gweithio gyda'n gilydd fel 'gofal estynedig' gyda nifer o ddarparwyr i fodloni anghenion.

Angen cydweithio agos rhwng gweithwyr cymdeithasol, unigolion a theuluoedd i sicrhau fod yr holl ddewisiadau yn cael eu harchwilio. Mae'r gwaith yn barhaus drwy brosiect llety i nodi anghenion unigol a chynllunio ymlaen i edrych ar y model mwyaf priodol o gefnogaeth / cadw o fewn eu cymunedau ac mor agos â phosibl i'w teulu. Mae rhai unigolion yn derbyn cefnogaeth gan fwy nag un darparwr neu gyfuniad o daliadau uniongyrchol a darpariaeth wedi ei chomisiynu.

Y berthynas rhwng y comisiynydd a'r darparwr

- Mae perthnasoedd yn dda yn gyffredinol.
- Cryfhaodd trefniadau cyswllt dros y pandemig.
- Mae darparwyr yn mynychu Grŵp Trawsnewid AD bob deufis lle gallant fwydo i mewn i'r agenda.
- Cyswllt rheolaidd rhwng y darparwyr / Tîm AD ar wahanol lefelau i leisio unrhyw faterion sy'n codi fel eu bod yn cael sylw amserol.
- Mae darparwyr yn ganolog i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr nawr yn cysylltu gyda'n Gwasanaeth Lles - grwpiau rhithiol ac wyneb yn wyneb.
- Dros y 18 mis diwethaf mae strwythur y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi newid - mae yna fwy o bwyslais ar yr ardaloedd - cryfhau darpariaeth drwy gael arweinydd ar gyfer De Gwynedd ac Arfon. Mae hyn wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng y comisiynydd / darparwr.

Y berthynas o ddarparwr i ddarparwr

Yn gyffredinol mae'r berthynas yn ymddangos yn un dda er fod yna lai o gyd gynllunio wedi bod mae'n debyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Rydym wedi gweld enghreifftiau lle mae darparwyr wedi camu i sefyllfa o argyfwng i gefnogi darparwr arall drwy gynnig staff i lenwi'r bylchau. Er enghraifft, mewn un achos lle dirywiodd sefyllfa un unigolyn ac roedd angen cefnogaeth bedair awr ar hugain, fe ddaeth hyd at 4 darparwr gyda'i gilydd i ffurfio rota i'w gefnogi

mewn llety dros dro. Mewn achos arall lle cafodd darparwr anawsterau wrth gynnal rota wrth gyflwyno unigolyn i gartref newydd, fe ddaeth darparwr arall i'r adwy a chytunodd y ddau ddarparwr i weithio gyda'i gilydd dros dro i alluogi i anghenion gael eu bodloni. Fe aethom ati i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r cytundeb.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yng Nghonwy

Mae yna bedwar cynllun tai gofal ychwanegol yn sir Conwy, sy'n darparu cyfanswm o 185 o fflatiau. Hafan Gwydir yn Llanrwst, Hafod y Parc yn Abergele, Llys y Coed yn Llanfairfechan a Than y Fron yn Llandudno. Yn Ebrill 2022, roedd yna 62 o bobl ar y rhestr aros ac roedd 10 o'r rhain o du allan i'r sir (dau o Sir Ddinbych ac wyth o rannau eraill o'r DU ond gyda chysylltiadau teuluol â'r ardal).

Mae yna 46 o brosiectau byw â chymorth sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat amrywiol, cymdeithasau tai a'r cyngor.

Dim ond darparu ar gyfer nifer o bobl o fewn bob prosiect y mae'r mwyafrif o brosiectau byw â chymorth, ac felly er bod yna 46 prosiect dim ond lleoedd ar gyfer 136 o bobl sydd yna. Nid yw hyn yn gyfran uchel, yn enwedig o ystyried poblogaeth Conwy. Dim ond tua 8 o leoedd gwag sydd yna ar hyn o bryd ac mae yna alw mawr am leoedd gwag. Nid oes yna unrhyw brosiectau byw â chymorth yn ne'r sir.

Mae cyflenwad safleoedd byw â chymorth yn isel iawn ac mae'r cyngor yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i ddigon o lety ar gyfer cleientiaid.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Sir Ddinbych

Mae yna dri chynllun tai gofal ychwanegol yn Sir Ddinbych ac un a fydd yn agor yn fuan yn Ninbych. Fe fydd cartref gofal a gaeodd yn Rhuthun yn ddiweddar yn cael ei ddefnyddio fel gofod i ehangu cynllun tai gofal ychwanegol a gaiff ei redeg gan gymdeithas dai. Roedd yna leoedd gwag yn achlysurol o ganlyniad i'r pandemig ond fel arall mae'n anarferol iawn i gael lle gwag mewn cynllun tai gofal ychwanegol. Er y bydd y nifer o fflatiau tai gofal ychwanegol yn cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn, y disgwyl yw y bydd y galw yn parhau i gynyddu ac yn mynd y tu hwnt i'r cyfanswm o fflatiau sydd ar gael.

Yn Sir Ddinbych mae'r rhan fwyaf o bobl gydag anableddau dysgu yn byw mewn tai â chymorth (byw yn y gymuned).

Caiff y rhan fwyaf o leoliadau cartref gofal newydd eu hystyried fel mesur dros dro hyd nes y daw tenantiaeth addas ar gael o fewn lleoliad Byw yn y Gymuned. Fodd bynnag, mae yna nifer gymharol uchel o bobl hŷn gydag anableddau dysgu sy'n byw mewn cartrefi gofal o hyd. Mae hyn yn hanesyddol ac yn rhannol yn ganlyniad i gau Ysbyty Gogledd Cymru. Ni ystyrir y byddai symud yr unigolion hyn yn ymarferol nac er y lles gorau iddynt.

Gyda Byw yn y Gymuned mae pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth ffurfiol y telir amdani yn cael ei darparu gan asiantaeth gofal cartref cofrestredig drwy gytundeb bloc gyda Sir Ddinbych. Yn Sir Ddinbych ni chaiff y gwasanaeth cefnogi ei ddarparu gan (ac nid yw'n gysylltiedig â'r) landlord. Caiff gwasanaethau cefnogi ar gyfer pob cynllun Byw yn y Gymuned newydd eu comisiynu drwy broses dendro y cytunwyd arni.

Ym Medi 2021, roedd yna 57 eiddo Byw yn y Gymuned yn Sir Ddinbych, a gaiff eu darparu rhwng 11 o ddarparwyr. Dim ond 2 o'r eiddo hyn a gaiff eu gweithredu gan y Cyngor. Hefyd mae yna gyfuniad o ddarparwyr lleol, darparwyr lleol llai a darparwyr lleol a chenedlaethol gyda statws elusennol. Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Mae 125 o bobl yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd (y capasiti yw 136 o bobl), y rhan fwyaf gyda dros 20 awr o gefnogaeth yr wythnos, un ai yn cael ei rannu neu un i un. Mae gan y rhan fwyaf o unigolion gytundeb tenantiaeth fel sy'n digwydd fel arfer o ran Byw â Chymorth.

Mae yna ddarparwyr sy'n gallu cynnig ystod o gefnogaeth o lefel isel i anghenion mwy cymhleth a chefnogaeth bedair awr ar hugain.

Mae recriwtio staff wedi bod yn broblematig i ddarparwyr yn ystod y pandemig ac mae wedi cael effaith ar y nifer o leoedd a gaiff eu cynnig yn rheolaidd.

Mae nifer o gontractau presennol Byw yn y Gymuned wedi eu hymestyn y tu hwnt i'w cyfnod gwreiddiol a nawr mae yna bwysau sylweddol am i'r cynllun cyfan gael ei aildendro yn unol â rheoliadau. Mae'r darparwyr a staff y cyngor yn teimlo fod hyn yn cyflwyno risg sylweddol i unigolion, darparwyr a'u staff ar hyn o bryd. Ar y gwaethaf fe allai aildendro olygu y byddai nifer o ddarparwyr yn colli busnes a niferoedd mawr

o staff yn gadael y sector ar adeg pan fo hi bron yn amhosibl i recriwtio. Fe allai unrhyw ansicrwydd arwain o bosibl at nifer o staff yn gadael, hyd yn oed os yw Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE) yn weithredol. Fe allai'r ansicrwydd hwn gael effaith ddinistriol ar farchnad y darparwr gofal cymdeithasol lleol a'r dinasyddion y maent yn eu cefnogi. Mae'n bosibl y byddai rhai darparwyr yn rhoi eu contractau yn ôl ac na fyddent yn dymuno cynnig am fwy. Yn arbennig gyda nifer mor fawr o gontractau, yn y pen draw fe allai hyn ddadsefydlogi marchnad y darparwr gofal cymdeithasol ymhellach yn Sir Ddinbych.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Sir y Fflint

Mae Gofal Ychwanegol yn parhau i fod yn ddewis hynod o boblogaidd o ran tai i bobl hŷn yn Sir y Fflint, sy'n cynnig y cyfle iddynt i fyw yn annibynnol tra bod ganddynt gefnogaeth tîm gofal a chefnogaeth ar y safle, os a phan fo angen hynny. Mae hyn yn ei dro yn rhyddhau capasiti ac amser mewn gofal cartref wedi ei leoli yn y gymuned.

Mae manteision byw mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol yn cynnwys:

- Aros yn annibynnol am gyfnod hirach gyda chefnogaeth ar y safle, yn eich gofod byw eich hun.
- Fe ellir cynyddu neu leihau'r gefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion.
- Mae cefnogaeth mewn argyfwng ar gael, gan gynnwys yn ystod y nos.
- Mae'n galluogi cyplau, pan fo un partner yn ddibynnol iawn, i barhau i fyw gyda'i gilydd.
- Cyfleoedd i gymdeithasu gyda phreswylwyr eraill mewn lleoliad cymunedol.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor bedwar cyfleuster Gofal Ychwanegol, Llys Eleanor (Glannau Dyfrdwy), Llys Jasmine (Yr Wyddgrug), Llys Raddington (Y Fflint) a Phlas yr Ywen (Treffynnon) sydd newydd dderbyn preswylwyr, gyda chyfanswm o 238 o unedau gofal ychwanegol.

Fel ag ar Awst 2021, mae yna gyfanswm o 60 eiddo Byw â Chymorth yn Sir y Fflint, yn cael eu darparu rhwng 10 darparwr. Caiff 16 o'r eiddo hyn eu gweithredu gan y Cyngor. Hefyd mae yna gyfuniad o ddarparwyr cenedlaethol, darparwyr lleol llai a darparwyr lleol a chenedlaethol gyda statws elusennol. Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Caiff 139 o bobl eu cefnogi, y rhan fwyaf gyda dros 20 awr o gefnogaeth yr wythnos, un ai yn cael ei rannu neu un i un. Mae gan y rhan fwyaf o unigolion gytundeb tenantiaeth fel sy'n digwydd fel arfer o ran 'Byw â Chymorth'.

Mae yna ddarparwyr sy'n gallu cefnogi o lefel isel i anghenion mwy cymhleth ar y Fframwaith.

Wrth ailgomisiynu gwasanaethau presennol mae yna bosibilrwydd o drosglwyddo staff (Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth) i'r cwmni newydd. Ar gyfer gwasanaethau newydd, mae'n rhaid i'r darparwr recriwtio a all effeithio ar amserlenni a denu staff o ddarparwyr presennol sydd wedyn yn gorfod llenwi'r swyddi .

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Wrecsam

Mae yna ddau gynllun tai gofal ychwanegol yn Wrecsam gyda chyfanswm o 116 uned. Mae gan Plas Telford 56 uned ac roedd 5 lle gwag yma ddiwedd Mawrth 2022. Mae gan Maes y Dderwen 60 uned ac roedd 10 lle gwag yma ddiwedd Mawrth 2022.

Mae'r galw ar gyfer y rhai hynny gydag anghenion cymwys yn isel, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ail lansio cynllun i ddenu mwy o geisiadau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd yn gwerthuso eu model o dai gofal ychwanegol ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ymhellach i sicrhau ei gynaliadwyedd wrth ddiwallu anghenion newidiol a chynyddol. Mae'n anodd rhagweld y galw gan ei bod yn ymddangos nad yw'r model presennol yn gallu ymateb i anghenion canolig ac uchel. Mae ystadegau'r boblogaeth a thystiolaeth o ddyheadau pobl hŷn yn awgrymu y dylai fod yna alw cynyddol am dai gofal ychwanegol. Y flaenoriaeth yn y tymor byr i ganolig yw i sicrhau model cynaliadwy o dai gofal ychwanegol, sy'n darparu gwerth am arian a gwasanaethau o ansawdd sy'n cynnig dewis gwirioneddol wahanol i ofal preswyl.

Yn ogystal â chynllun tai gofal ychwanegol Wrecsam, mae Adran Tai CBSW yn darparu rhaglen dreigl o ailfodelu i ddarparu llety gwell a chynyddol hygyrch i bobl hŷn ar draws y Gwasanaeth Tai Gwarchod mewnol.

Ar adeg llunio'r adroddiad, roedd 126 o bobl gydag ystod o anghenion cymorth cymhleth a lefel isel yn cael eu cefnogi yn y sector annibynnol gan 9 o ddarparwyr byw â chymorth - cymysgedd o sefydliadau elusennol a phreifat. Mae yna 19 o bobl gydag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain gan wasanaeth

byw â chymorth mewnol y cyngor ar draws 10 eiddo. Mae mwyafrif y gwasanaethau hyn yn rhai pedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos, er mae rhai ar gyfer cefnogaeth yn ystod y dydd yn unig, lle mae staff ar gael i gefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol.

Caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn bennaf gan y Gwasanaeth Anabledd sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu er bod yna nifer o bobl sy'n byw gydag angen am gefnogaeth iechyd meddwl sy'n cael eu cefnogi gan Wasanaeth Adfer y cyngor ei hun - caiff 10 o bobl eu cefnogi mewn eiddo gyda thenantiaid a gaiff ei ariannu gan ofal cymdeithasol.

Fe gydnabyddir y gall ail dendro contractau amharu ar fywydau dinasyddion a gaiff eu cefnogi o fewn y model hwn ac felly caiff contractau hirdymor o 7+3 mlynedd eu defnyddio, gydag adolygiadau ansawdd a lles rheolaidd yn ystod cyfnod y contract. Mae Fframwaith Byw â Chymorth Gogledd Cymru nawr mewn grym ac mae wedi ei ddefnyddio ar gyfer comisiynu contractau newydd. Mae recriwtio a chadw wedi profi i fod yn heriol i ddarparwyr, yn arbennig ar gyfer staff sy'n gallu gyrru a defnyddio cerbyd symudedd unigolyn a gefnogir.

Sefydlogrwydd y Farchnad

Heriau Rhanbarthol

Mae yna rai heriau cyffredin ar draws Gogledd Cymru a Chymru gyfan sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y sector a restrir uchod.

- Cadw a recriwtio staff gofal a nyrsio.
- Mae angen i ffioedd cartrefi gofal gael eu gosod ar raddfa gynaliadwy. Mae nifer gynyddol o ddarparwyr yn adrodd fod ffioedd heriau ariannol presennol yn annigonol ac maent yn gweithio gyda chomisiynwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn.Galw cynyddol am wasanaethau gyda chyllidebau sy'n lleihau.
- Cymhlethdod cynyddol o ran anghenion gofal. Mae pobl yn aros adref yn hirach gyda phecyn cefnogi ac felly pan mae angen lleoliad cartref gofal arnynt, mae eu hanghenion yn fwy cymhleth ac mae mwy o gyfranogiad.
- Ymhlith yr elfennau cadarnhaol a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad oedd cyllid Llywodraeth Cymru, sydd

wedi helpu gyda lleoedd gwag yn y sector preswyl, yn ogystal â gwaith i hyrwyddo'r sector a chyllid i geisio cael cyflog byw gwirioneddol.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Ynys Môn

Cau cartref

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf ym mis Mawrth 2022, caeodd Cartref Preswyl Caledonia (15 gwely).

Galw am leoedd

Gostyngodd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng nghyfnod cynnar y pandemig yn ystod 2020, ond gwelwyd cynnydd yn 2021-22 wrth i effeithiau cynnar Covid ddechrau mynd heibio ac o ganlyniad i ddiffygion yn y sector gofal cartref. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedd yn cyflwyno ac angen asesiad, ond roedd y sector gofal cartref preifat yn bennaf ar yr un pryd yn colli staff ac yn gorfod trosglwyddo pecynnau gofal presennol yn ôl.

Recriwtio

Yr her fwyaf sy'n wynebu'r sector fu recriwtio a chadw staff ar bob lefel. Mae llawer o gartrefi gofal wedi adrodd am swyddi gwag sydd wedi effeithio ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. Mae'r diffyg staff wedi'i waethygu gan staff nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd bod ganddynt Covid. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth sylweddol ar asiantaethau staffio. Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau ar draws y sector o ran staff rheoli.

Chwyddiant

Ers dechrau 2022, mae cyfradd chwyddiant wedi cynyddu'n gyflymach ac yn uwch na chyfradd y cynnydd yn y ffioedd a delir i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae costau cyfleustodau, tanwydd ac yswiriant hefyd wedi cynyddu'n aruthrol. Mae hyn yn profi'n heriol iawn i lawer o ddarparwyr, sydd, ar ôl ymdopi drwy'r pandemig, yn ei chael hi'n anodd amsugno'r costau hyn ar adeg pan mae cymorth ariannol y llywodraeth ar gyfer Covid wedi dod i ben.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Ngwynedd

Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

Gyda'r cynnydd yn y galw mae yna bryder na all y farchnad ymateb yn ddigonol ac yn ddigon cyflym i alw o ystyried yr argyfwng staffio presennol.

Mae yna gynnydd wedi bod yn y nifer o ddarparwyr sy'n adrodd fod ffioedd preswyl a nyrsio pobl hŷn yn annigonol. Mae darparwyr yn rhwystredig pan maent yn adrodd am gynnydd mewn cost a phan na chynigir taliadau uwch iddynt. Mae yna gynnydd mewn ffioedd atodol ar gyfer gofal preswyl a nyrsio. Hefyd mae yna arafwch yn nifer y gweithlu sy'n cofrestru.

Mae'r trothwy ar gyfer hunan-ariannu wedi bod yn cynyddu ac mae ar hyn o bryd ar £50,000 sy'n golygu fod llai o bobl yn hunan-ariannu. Mae gan y rhai sy'n ariannu eu gofal eu hunain yr hawl i gael eu gofal wedi ei gomisiynu drwy'r cyngor sydd â goblygiadau o ran gallu cartrefi gofal i ofyn am ffioedd uwch gan y rhai sy'n ariannu eu hunain.

Anabledd corfforol, iechyd meddwl ac anabledd dysgu
Mae pob darparwr yn wahanol gyda rhai â mwy o anghenion cymorth nac eraill. Mae'r pwysau arnynt o bryd i'w gilydd yn golygu na allant fod mewn sefyllfa gref, er enghraifft, i ymateb i gyfleoedd tendro neu i gynnig tendr ar gyfer y Cytundeb Tai â Chymorth. Mae darparwyr sy'n cefnogi unigolion gydag anghenion difrifol a chymhleth yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd i roi gwybod nad yw'r lefel o gynnydd chwyddiannol a gynigir gan y Cyngor yn ddigonol.

Effaith Covid-19
Mae rhai darparwyr nyrsio wedi gwneud y gorau o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael, fel lleoedd gwag, cefnogaeth gyffredinol gyda chynaliadwyedd, cefnogaeth ar gyfer staff a phrofi ymwelwyr. Nodir fod y darparwyr mwyaf yn cynnig am gymorth, gyda darparwyr llai yn dueddol o holi yn hwyrach ac yn ei chael yn anodd i ddilyn y canllawiau diweddaraf a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ymwneud â'r canllawiau. Mae yna bryder yn ymwneud â'r effaith y bydd dod â'r gefnogaeth ariannol i ben yn ei gael.

Hyblygrwydd y farchnad

Mae yna botensial ar gyfer addasu o fewn cartrefi gofal y Cyngor. Potensial i addasu rolau / tasgau o fewn cynllun gofal cartref, ond mae angen cefnogaeth gan y darparwr i'w gweithredu. Mae staffio yn broblem fawr ar hyn o bryd ar gyfer darparwyr gofal cartref a chartrefi gofal.

Achosion o fethiant posibl o ran busnes a chynllunio wrth gefn

Caiff pryderon eu nodi un ai drwy wybodaeth a rennir gan Arolygiaeth Gofal Cymru neu fel rhan o gyswllt wythnosol y Tîm Sicrwydd Ansawdd. Mae'r tîm yn darparu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth os oes yna unrhyw faterion yn codi yn ymwneud â hyfywedd busnesau. Cafodd cefnogaeth ariannol ddiweddar (Cronfeydd COVID-19), fel cefnogaeth ar gyfer gwelyau gwag ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig, eu diwallu gan y Gronfa Galedi a chafodd cefnogaeth gyffredinol gyda chynaliadwyedd y farchnad ei gynnig drwy gronfa adferol a hynny drwy gronfa adfer y llywodraeth. Nid oedd yna unrhyw gronfeydd o'r fath ar gael yn uniongyrchol gan y cyngor cyn y pandemig ac eithrio fel dewis olaf neu fesur brys ac mae'r cymorth ariannol COVID-19 presennol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2022.

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn dymuno meithrin ymagwedd Cyfrifo Llyfr Agored gyda chartrefi gofal er mwyn deall eu rhwymedigaethau/cyfyngiadau ariannol ei gilydd yn well er mwyn sefydlu p'run ai yw'r rhain yn feysydd lle gallwn gynnig cefnogaeth boed yn ariannol neu drwy gynnig cefnogaeth i'r cartrefi gofal i symleiddio eu gweithdrefnau.

Cartrefi gofal yn cau

Mae yna 4 cartref wedi cau yng Ngwynedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dau gartref preswyl (Llwyn ym Mai 2018 a Foelas yn Ebrill 2022) a dau gartref nyrsio (Penisarwaun ym mis Gorffennaf 2018 a Penrhos yn Rhagfyr 2020). Yn gynyddol, mae'n anodd i gartrefi gofal annibynnol bach fod yn ariannol hyfyw a gallai hyn gyfrannu at gau pellach yn y dyfodol.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Nghonwy

Cartrefi yn cau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae dau gartref wedi cau yn y sir. Roedd un yn ddarparwr llai ac roedd costau cynnal a chadw'r adeilad hŷn a oedd wedi ei drawsnewid yn uwch na'r incwm posibl gan breswylwyr. Fe brofodd y perchnogion y farchnad ar gyfer gwerthu ond ni chafwyd unrhyw gynigion. Ystyriwyd addasu i ofal

nyrsio neu ofal iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) ond nid oedd y cartref o faint digonol ac nid oedd y cynllun yn ddigonol i roi'r enillion oedd eu hangen ar fuddsoddiad a chaewyd y cartref. Roedd yr ail gartref a gaeodd yn fwy ac yn llwyddiannus. Nid oedd yna unrhyw broblemau gyda gwelyau gwag nac ansawdd y gwasanaeth, ond wedi gwneud ymholiadau am gyfnod hir o amser nid oedd yna unrhyw brynwyr ar gyfer y busnes pan oedd y perchennog yn barod i ymddeol, ac felly caeodd y gwasanaeth. Yn y ddau achos cafodd preswylwyr y cartrefi hyn eu hadleoli'n llwyddiannus i gartrefi eraill yn y sir.

Galw am leoedd

Fe ostyngodd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng nghyfnodau cynnar y pandemig yn ystod 2020, ond fe fu cynnydd sylweddol yn 2021-22 wrth i effeithiau cynnar Covid ddechrau pasio ac o ganlyniad i ddiffygion yn y sector gofal cartref. Fe welsom gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl a oedd yn cyflwyno ac angen asesiad, ond roedd y sector gofal cartref a oedd yn breifat yn bennaf ar yr un pryd yn colli staff ac yn gorfod rhoi pecynnau gofal presennol yn ôl. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd ar yr arfordir ym Mae Colwyn, Llandudno a'r ardaloedd o amgylch ar gyfer lleoliadau preswyl a nyrsio. Nid oes yna ddata ar gael eto ar y galw am ofal iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM), galw yr ydym ni'n teimlo sydd hefyd wedi cynyddu.

Mae'r nifer o leoliadau y tu allan i'r sir wedi gostwng yn raddol.

Recriwtio

Recriwtio a chadw staff ar bob lefel yw'r her fwyaf sydd wedi wynebu'r sector. Mae bron i bob cartref gofal wedi nodi swyddi gwag ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd, uwch gynorthwywyr gofal iechyd, nyrsys a staff domestig ac maent wedi dweud fod hyn wedi cael effaith ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. Gwaethygwyd y sefyllfa o ddiffyg staff gan y ffaith nad oedd rhai aelodau o staff yn gallu gweithio gan fod Covid arnynt. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth uchel ar asiantaethau staffio sydd mewn rhai achosion wedi bod yn darparu 20% i 50% o'r staffio ar gyfer rhai darparwyr. Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau ar draws y sector mewn staff rheoli. Mae ymgynghoriad gyda darparwyr wedi nodi nifer o resymau posibl a allai fod yn gyfrifol am yr her o ran recriwtio.

- Mae ymadael â'r UE wedi cael ychydig o effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol ond mae wedi cael effaith sylweddol ar sectorau eraill hefyd fel manwerthu a lletygarwch sy'n sectorau mawr iawn yn sir Conwy.

- Cystadleuaeth o fanwerthu a lletygarwch. Mae cartrefi gofal yn adrodd fod staff yn gadael i ymuno â'r ddau sector hwn sydd wedi cynyddu tâl ac amodau i ddenu staff newydd. Caiff y gwaith yn aml ei ystyried fel gwaith lle mae llai o straen a gydag oriau mwy rhesymol.
- Ymddeoliad cynnar. Mae nifer o ddarparwyr yn dweud fod aelodau o staff wedi cymryd ymddeoliad cynnar yn ystod y pandemig.
- Cystadleuaeth gan swyddi sy'n talu yn well gyda'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol ac asiantaethau recriwtio.

Chwyddiant

Ers dechrau 2022, mae graddfa chwyddiant wedi cynyddu yn gynt ac yn uwch na'r ffioedd a gaiff eu talu i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae costau cyfleustodau, tanwydd ac yswiriant wedi cynyddu ddwywaith ac weithiau deirgwaith o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Ar ôl ymdopi drwy'r pandemig, nid yw nifer o ddarparwyr yn gallu llyncu'r costau hyn ar adeg pan fo cymorth ariannol y llywodraeth ar gyfer Covid wedi dod i ben.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir Ddinbych

Mae yna ffocws cynyddol wedi bod ar gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud nad ydynt eisiau byw mewn cartref gofal preswyl os oes yna ddewis i aros yn annibynnol. Mae Sir Ddinbych yn defnyddio sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig" gyda phobl er mwyn ein galluogi ni i gytuno ar ganlyniadau priodol eu gofal a'u cymorth. Rydym yn defnyddio'r olwyn adnoddau i sicrhau ein bod yn cynnwys cefnogaeth y mae pobl yn ei gael gan deulu, ffrindiau a chymunedau wrth drafod sut i weithio tuag at y canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Mae yna sylfaen ddarparwyr amrywiol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer gofal preswyl a nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn gyfyngedig.

Mae'r farchnad yn amrywiol gyda chartrefi o faint amrywiol, mewnol ac annibynnol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn gartrefi gofal bach, annibynnol mewn adeiladau hŷn nad ydynt wedi eu hadeiladu'n bwrpasol.

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda darparwyr ac yn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen.

Mae yna ddiffyg staff nyrsio sydd wedi eu hyfforddi wedi bod ar gael yn ne'r sir, sy'n golygu fod Llangollen Fechan wedi wynebu ffioedd asiantaeth afresymol ac felly penderfynwyd dod â chofrestru deuol i ben ar gyfer gofal preswyl a nyrsio, gan ganolbwyntio ar welyau preswyl yn unig. Mae hyn yn golygu fod yna lai o welyau nyrsio yn y de.

Fe ddaeth darparwr llai, Chesterton, i'r casgliad nad oedd yn ariannol hyfyw ac felly fe gaewyd y cartref dan reolaeth gyda chyfarfodydd wythnosol rhwng staff y cyngor a rheolwyr y cartref. Cafodd yr holl breswylwyr eu hadleoli mewn dull diogel a derbyniol.

Mae'r pandemig wedi amlygu problemau hyfywedd economaidd cartrefi gofal bach ac annibynnol. Mae trafferthion recriwtio a chadw staff, diffyg hyblygrwydd o ran cynllun a chyfleusterau i gyd wedi dangos y gallai fod yna symudiad yn y dyfodol tuag at adeiladau mwy a mwy modern neu rai wedi eu hadeiladu'n bwrpasol lle mae arbedion maint yn rhoi mwy o wytnwch.

Bylchau mewn gwasanaethau / cefnogaeth:

- Staff cefnogi sy'n siarad Cymraeg (yn bennaf yng ngogledd y sir)
- Mentrau cymdeithasol a darparwyr annibynnol sydd wedi eu lleoli yn ne'r sir.
- Ymyriadau tymor byr, sy'n canolbwyntio ar gynnydd gyda chanlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Dewisiadau eraill i wasanaethau traddodiadol (gan gynnwys seibiant a gweithgareddau dydd)
- Mae'r gofrestr anableddau dysgu a data anghenion tai yn dangos nad yw niferoedd yn newid yn sylweddol ond mae cymhlethdod yr angen yn cynyddu.

Yn arolwg y darparwr ar gyfer yr adroddiad hwn, adroddodd darparwyr Sir Ddinbych fod angen deiliadaeth o 85% ar gyfartaledd ar gyfer cynaliadwyedd. 78% yw'r ddeiliadaeth bresennol ar gyfartaledd. Ar adeg yr arolwg roedd yna gyfradd lleoedd gwag o 25% yn Sir Ddinbych, roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol o 20%.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod gwerth meithrin a chefnogi darparwyr o ansawdd da - er enghraifft, yn ystod Covid-19 fe gymrwyd camau i osgoi methiant darparwr yn rhagweithiol. Ar yr un pryd mae pwysau cyllidebol yn golygu na all comisiynwyr bob amser ymateb i geisiadau yn ymwneud â ffioedd yn y modd yr hoffai darparwyr iddynt wneud hynny. Yn gyffredinol mae gennym ni berthynas dda

gyda'r rhan fwyaf o ddarparwyr. Fe all hyn fod yn fwy anodd i'w gynnal pan fo angen i ni leisio pryderon gyda darparwr (e.e. yn ymwneud ag ansawdd neu ddiogelu) a phan fo'r ffi negodi yn cynyddu neu ddatgomisiynu gwasanaeth. Yn ystod y pandemig fe geisiom sicrhau fod darparwyr (er enghraifft gwasanaethau dydd allanol) yn gallu goroesi yn ariannol a hefyd fe fuom yn gweithio'n agos gyda darparwyr i helpu i gadw pobl yn ddiogel ac iach.

Fe wellhaodd y berthynas rhwng darparwyr yn ystod y pandemig ac roedd yna enghreifftiau da o gefnogaeth cymheiriaid a chyfeillgarwch rhwng darparwyr. Un enghraifft dda hirdymor yw Cartref Gofal lleol a arweiniodd ar gymuned o gefnogaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, gyda nifer o ddarparwyr gofal, gofal yn y cartref yn bennaf, yn mynychu - pob un yn rhannu arfer da yn ymwneud ag ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gyda siaradwyr gwadd yn siarad am fentrau newydd yn Sir Ddinbych. Mae perthnasoedd yn y cyfarfod hwn yn gefnogol.

- Yr heriau eraill a nodwyd yw:
- Recriwtio a chadw
- Absenoldeb salwch uchel
- Sicrhau fod digon o leoedd yn yr ardal leol, gallu bodloni lefel angen yr unigolyn tra'n parhau i gefnogi dewis a rheolaeth ac atal derbyn i ysbytai acíwt a chymunedol.
- Diffyg llety seibiant dros dro addas y gellir ei archebu ymlaen llaw - mae gofalwyr di-dâl yn ei chael yn anodd i geisio dod o hyd i gartrefi preswyl/nyrsio sy'n fodlon derbyn pobl am un tro neu ar sail achlysurol, yn arbennig os oes ganddynt anghenion uwch neu eu bod yn arddangos ymddygiad heriol. Fe all hyn fod o ganlyniad i ariannu, staffio neu rywbeth arall. Mae yna fflat seibiant yng Nghorwen ond ni chaiff ei ddefnyddio'n dda yn bennaf oherwydd diffyg argaeledd pecynnau gofal. Nid oes gan staff mewn cartref gerllaw y capasiti i lenwi er nad ydynt yn bell i ffwrdd. Mae llety seibiant i bobl gydag anableddau cymhleth yn gyfyngedig iawn - Alexandra House yn unig. Trafodaethau parhaus gydag Alexandra House a CBS Conwy.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir y Fflint

Mae gan Sir y Fflint sail darparwr amrywiol lle na ddibynnir ar un darparwr ond mae lleoliadau

nyrsio cyfyngedig ac lleoliadau nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM). Mae'r farchnad yn amrywiol gyda chartrefi o faint amrywiol, mewnol ac annibynnol, a gaiff eu rhedeg gan deulu neu fel rhan o sefydliad mwy. Mae'r cyngor yn symud ymlaen gyda chynyddu capasiti mewn darpariaeth breswyl fewnol. Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda darparwyr ar fynediad a gadael i sicrhau fod y broses yn rhedeg yn llyfn, gan gynnig unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen. Er bod y farchnad yn gadarn a bod gan bob darparwr gynlluniau wrth gefn mewn grym i fynd i'r afael â'r mwyafrif o faterion, mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno amgylchiadau eithriadol ac nid oedd darparwyr wedi cynnwys hyn yn eu cynlluniau. Mae'r rhain ers hynny wedi eu diweddaru.

Nododd adolygiadau busnes diagnostig a gynhaliwyd gyda 18 cartref yn 2017 y materion canlynol yn ymwneud â sefydlogrwydd.

- Roedd gan gartrefi gofal a oedd yn eiddo i grŵp gefnogaeth cefn tŷ a gweinyddiaeth ganolog a ymddangosai fel pe bai'n lleihau pwysau amser a llwyth gwaith o'i gymharu â chartrefi annibynnol llai.
- Ni nodwyd unrhyw wahaniaethu rhwng cleifion preifat a'r rhai a ariannwyd gan yr awdurdod lleol ond roedd darparwyr yn gofyn am ffioedd atodol gan awdurdodau lleol o ganlyniad i bwysau ariannol.
- Recriwtio a chadw: yn cael ei effeithio gan faint y cartref a'r ffordd y caiff ei reoli, mae'n helpu i fod ar y prif lwybr bws, rhai pryderon am ddelwedd y sectorau, cyflogau a chystadlu gyda'r GIG am staff.
- Mae'r cyfraddau salwch ac absenoldeb yn uwch ac mae polisïau mewn grym. Achos mwyaf cyffredin absenoldeb yw salwch a dolur rhydd.
- Mae nifer o gartrefi mewn adeiladau hŷn gydag effeithlonrwydd ynni gwael ac mae'n anodd eu haddasu. Roedd yna fwy o ofod i ehangu a gwell gofod y tu allan mewn cartrefi gwledig, ond mae'r rhain hefyd yn llai cyfleus i'w cyrraedd. Roedd costau gwresogi yn bryder mawr ac awgrymodd rhai cartrefi y byddai polisi caffael ar y cyd o bosibl yn helpu i roi gwell grym gwario iddynt. Byddai cartrefi yn gwerthfawrogi cyngor ar bolisi gwastraff hefyd.
- Nid oedd ganddynt safbwynt clir ar yr isafswm o breswylwyr sydd eu hangen i wneud cartref yn hyfyw, ond roeddent yn ymwybodol o p'run ai a oeddent yn colli arian neu beidio.

- Gwerthfawrogiad o grant diweddar ar gyfer prynu ased ac argymhelliad ar gyfer llyfrgell asedau lle gellir benthyg offer drud, a ddefnyddir yn achlysurol yn hytrach na'i brynu yn gyfan gwbl.
- Mae cyllid yn heriol ac yn golygu fod angen ychwanegu at ffioedd awdurdod lleol a chyfran o gleifion preifat i oroesi. Mae'r cynnydd yn y cyflog byw, gostyngiad cyffredinol yng nghyfraddau diweithdra, cynnydd mewn cyflogaeth ac effaith anhysbys Brexit yn awgrymu y bydd y gronfa o ymgeiswyr yn mynd yn llai. Mae maint yr elw yn dynn a bydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn ogystal â chynnydd mewn costau cyffredinol eraill fel cyfraddau busnes, costau tanwydd a chostau bwyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd hirdymor y sector.

Ers y pandemig mae'r farchnad wedi dod yn hynod o ansefydlog o ganlyniad i:

- Gartrefi preswyl a nyrsio yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.
- Gartrefi preswyl a nyrsio yn cael eu cymryd drosodd gan arwain at ansefydlogrwydd a newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau
- Diffyg staff gan fod rhai yn ymddeol neu'n gadael y busnes.
- Nifer isel o leoliadau nyrsio a dim darparwyr gyda lleoliadau agored i sicrhau sefydlogrwydd y lleoliad.
- Diffyg cyllid i geisio cynorthwyo'r darparwyr mewn cyfnod anodd.
- Cartrefi Gofal yn cau, gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau fel ffactorau ariannol neu ddiffyg staff cymwys.
- Mae recriwtio o fewn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol yn bryder parhaus, mae hyn yn cael effaith ar gynaliadwyedd darpariaethau.

Amlygodd trafodaethau gyda'r Unigolion Cyfrifol y materion canlynol:

- Newidiadau cyflym mewn canllawiau
- Cynnydd mewn costau byw
- Y Gronfa Galedi yn lleihau
- Recriwtio a chadw
- Gofalwyr da nad ydynt yn wybodus o ran TG ac nad ydynt yn awyddus i uwchsgilio ac ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar gyfer cofrestru.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Wrecsam

Mae gan holl gartrefi gofal Wrecsam gyflenwyr allanol ac maent ar hyn o bryd yn gwerthuso hyfywedd tymor canolig i dymor hirach y farchnad breswyl breifat ac maent yn ystyried sut y gallent ddarparu datrysiadau gofal tymor byr canolradd yn y tymor canolig i'r tymor hirach gan ei bod yn ymddangos fod gan y farchnad hon rai cyfyngiadau o ran darparu yn y cyd-destun hwn.

Mae'r fethodoleg gosod ffioedd, cyllidebau a diffyg cytundeb yn rhanbarthol ar y Cytundeb Cyn Lleoli sy'n gosod y telerau a'r amodau trosfwaol hefyd yn rhwystro comisiynu gofal preswyl sy'n ymatebol ac yn hyblyg.

Mae'r rhwystrau i fynediad i'r farchnad yn cynnwys cyfleusterau ac eiddo addas a'r costau sy'n rhan o ddatblygu eiddo posibl. Hefyd y farchnad recriwtio sydd eisoes yn anodd/prinder staff mewn cyfleusterau sydd wedi'u sefydlu. Mae syniadau am ffyrdd y gallai'r cyngor lleol gefnogi yn cynnwys cymorth i ganfod eiddo addas, mentrau ariannol, benthyciadau i gynorthwyo gyda sefydlu, cymorth recriwtio posibl. Fe all y diffyg hyblygrwydd mewn fframweithiau rhanbarthol i ailagor fod yn rhwystr hefyd. Fe allai'r cyngor weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i alluogi prosesau cofrestru cyflymach a chodi cyllideb er mwyn ymateb i chwyddiant.

Mae'r holl gontractau yn destun monitro rheolaidd o dan y telerau a'r amodau a dylai hyn godi unrhyw broblemau/materion yn gynnar i alluogi i fesurau ataliol a/neu fesurau brys gael eu rhoi mewn grym i geisio osgoi argyfwng. Y prif ddangosyddion fyddai anawsterau a adroddwyd o ran recriwtio, cadw staff - nifer fawr o unigolion yn gadael, wastad wedi cael anawsterau mewn cadw staff yn y diwydiant yn ei gyfanrwydd, colledion ariannol, dim cronfeydd wrth gefn, o bosibl y llety ddim yn addas ar gyfer y dyfodol a dim arian i wneud newidiadau.
Proses uwchgyfeirio pryderon gan gynnwys ymgysylltu gyda chynghorau comisiynu eraill.

Uwchgyfeirio pryderon

Mae nodi pryderon i'w huwchgyfeirio o fewn cartrefi gofal yn rhan o broses sicrwydd ansawdd y cyngor gyda'r broses yn arwain at welliannau ym mherfformiad ac ansawdd y gwasanaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar staff. Fe all y wybodaeth hon newid yn gyflym ond mae ciplun wedi ei gynnwys isod.

- Ynys Môn: Nid oes darparwyr ar hyn o bryd o dan y broses uwchgyfeirio pryderon (Mai 2022).
- Gwynedd: Un cartref lle mae pryderon wedi eu huwchgyfeirio am resymau yn ymwneud â busnes/rhesymau ariannol. Fel ag ar Fawrth 31 2021, roedd yna dri darparwr yn y broses uwchgyfeirio pryderon, gyda phryderon ar fin cael eu huwchgyfeirio yn ymwneud ag un arall. Fe ellir crynhoi'r rhesymau dros weithredu'r broses uwchgyfeirio pryderon gyda'r pedwar cartref hwn fel rhesymau'n ymwneud ag arweinyddiaeth, rheoli a goruchwylio.
- Conwy: Un darparwr o dan y broses uwchgyfeirio pryderon pan ysgrifennwyd yr adroddiad ac un darparwr arall yn ystod y pandemig. Mae yna berthynas dda rhwng y darparwyr a'r awdurdod lleol ar y cyfan o ran y meysydd o bryder a nodwyd yn gynnar ac a ddatryswyd heb yr angen am weithdrefnau ffurfiol.
- Sir Ddinbych: 2 ddarparwr ar hyn o bryd o dan y broses uwchgyfeirio pryderon (Mai 2022) ond roedd hyd at tua 6 pan oedd y pandemig yn ei anterth. Yn ystod y pandemig polisi Cyngor Sir Ddinbych oedd i ddefnyddio'r broses uwchgyfeirio pryderon pan oedd achosion mewn unrhyw gartref gofal. Roedd hyn yn sicrhau fod yna ymagwedd strwythuredig i gyfarfodydd ac roedd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnwys.
- Sir y Fflint: 5 o gartrefi gofal wedi eu gosod o dan y broses uwchgyfeirio pryderon rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2021. Hysbysiad diffyg cydweithredu/hysbysiad gweithredu brys wedi ei gyhoeddi i 3 cartref gofal rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 (nid yw'n cynnwys 3 darparwr gyda pherchnogion newydd).
- Wrecsam: Tri cartref gofal wedi eu gosod o dan y broses uwchgyfeirio pryderon yn ystod cyfnod yr adroddiad hyd at Fawrth 2021, gyda dau o'r cartrefi hynny wedi cwblhau'r broses o fewn y terfynau amser. Arhosodd un cartref yn y broses wedi ei gefnogi gan gydweithwyr gofal iechyd ac iechyd tan fis Ebrill 2021.

Cartrefi gofal yn cau

Gwersi a ddysgwyd o gartrefi gofal yn cau

Beth weithiodd yn dda

Mae profiad o gartrefi yn cau'n ddiweddar yn amlygu'r canlynol.

- Perthynas waith dda rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, y cyngor a'r bwrdd iechyd gyda chydweithwyr o Ofal Iechyd Parhaus ac arweinwyr nyrsio cymunedol yn

cael eu cynnwys ochr yn ochr â staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion contractau a chomisiynu.

- Cysylltu ag eiriolaeth
- Darparu rhestr o leoedd gwag yn y sector ar hyn o bryd.
- Cydweithwyr iechyd yn gweithio gyda staff gofal cymdeithasol mewn Timau Adnoddau Cymunedol gan greu perthnasoedd cryfach, byrhau'r amser hyd at gyflawni canlyniadau a gwella'r profiad i breswylwyr.
- Staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion contractau a chomisiynu yn gweithio'n fwy agos i wella deialog a chydweithio ar draws timau gweithredol a chefnogi busnes.
- Gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws yr holl dimau.
- Cyfathrebu rheolaidd gyda darparwyr
- Pwysigrwydd cychwyn trafodaethau cyn gynted â phosibl i hwyluso cydgynllunio a chydweithio.
- Tîm dynodedig o staff y cyngor i gefnogi pobl gyda'u pacio a chyfrifo ar gyfer eu heiddo, yn ogystal â darparu presenoldeb gan y cyngor yn y cartref.

Heriau

- A allai methiant y darparwr fod wedi ei ragweld, neu wedi ei asesu o ran risg cyn i'r hysbysiad gael ei roi? Anodd rhagweld yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael. Efallai y gallai proses ar y cyd gael ei datblygu yn seiliedig ar brofiadau i arwain sefyllfaoedd yn y dyfodol.
- Sicrhau fod digon o leoedd yn yr ardal leol, gallu bodloni lefel angen yr unigolyn, tra'n parhau i gefnogi dewis a rheolaeth. Hefyd atal derbyn i ysbytai acíwt a chymunedol.
- Rheoli disgwyliadau ac emosiynau staff a phreswylwyr yn ystod y broses.
- Deall perchnogaeth offer - beth sy'n perthyn i'r cartref, y Bwrdd Iechyd, Storfeydd, Llywodraeth Cymru fel cyfarpar diogelu personol (PPE) a sicrhau fod yr offer yn cael ei symud i leoliad newydd gyda'r preswylydd.
- Gweithio gyda thrydydd parti fel gweinyddwyr. Safbwyntiau a chanlyniadau a ddisgwylir yn wahanol, cywirdeb gwybodaeth, dealltwriaeth o bolisi Cymreig.
- Cynnal lefel ddiogel o staff yn y lleoliad sy'n cau.
- Cael mynediad i ffeiliau staff i hwyluso cyflogaeth o ran cyflogwyr newydd.
- Cymhlethdodau darparwr newydd yn dod yn gyfrifol am y cartref fel busnes gweithredol. Yn benodol, os oes yna gyfyngiadau wrth iddynt gofrestru.

Cefnogodd Sir Ddinbych ddarparwyr i ddiweddaru cynlluniau wrth gefn yn ystod y pandemig pan brofwyd anawsterau newydd ac eithriadol. Mae staff Cyngor Sir Ddinbych wedi gweithio ochr yn ochr â darparwyr pan fo staff wedi bod yn amhosibl i'w gael fel arall. Wedi dod â darparwyr ynghyd i feithrin gwell perthnasoedd a rhannu arfer orau, er enghraifft, yn ymwneud â rheoli haint. Nid yw ymweliadau monitro yn ôl yn llawn eto ers y pandemig, ond ymwelwyd â'r holl gartrefi gyda risgiau posibl ac roedd mesurau dros dro yn cynnwys galwadau ffôn. Mae cyfarfodydd ymgysylltu â darparwyr nawr yn fisol, ond ychydig sy'n eu mynychu.

Mae Sir y Fflint hefyd wedi canfod fod symud oddi wrth ymweliadau monitro systematig blynyddol tuag at ymagwedd datblygu ymarfer wedi helpu i ddatblygu perthnasoedd adeiladol a phroffesiynol effeithiol gyda darparwyr, sydd wedi bod yn hanfodol er mwyn eu galluogi i ymdrin â heriau'r pandemig gyda'i gilydd.

Adborth gan breswylwyr cartrefi gofal

Mae gan bob sir systemau mewn grym i ymgynghori ac ymgysylltu gyda phreswylwyr cartrefi gofal. Mae crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd isod.

- Adborth cadarnhaol, yn canolbwyntio'n benodol ar staff yn darparu cymorth. Cawsant eu disgrifio fel rhai gofalgar iawn, oedd ag amser i bobl ac yn cefnogi gyda holl agweddau gofal personol ac anghenion cysylltiedig. Cafodd rheolwyr a staff swyddfa eu crybwyll hefyd o ran ei bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn datrys problemau wedi iddynt gyrraedd. Dywedodd pawb hefyd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr adeiladau.
- Codwyd rhai materion gan unigolion, ddim yn aml ond roeddent yn bwysig, gan gynnwys hyfforddiant a nodiadau atgoffa i staff yn ymwneud â materion fel cnocio ac aros wrth ddrysau, y defnydd o ffonau symudol a sut y mae eu hymagwedd tuag at denantiaid yn bwysig. Er enghraifft peidio â brysio, eu trin fel oedolion.

Adborth gan ddarparwyr

- Dinasyddion yn profi dirywiad cyflym neu ddigwyddiadau sy'n newid bywyd fel strôc ac yna colli galluedd meddyliol gydag arian. Yn aml nid oes unrhyw Atwrneiaeth Oes mewn grym. Fe allai fod o gymorth i hyrwyddo Atwrneiaeth Oes yn fwy ac fe allai hyn leihau rhestr aros dirprwyaeth y cyngor a'r llwyth gwaith.
- Mae cludiant yn broblem fawr i bobl hŷn, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. Mae gwasanaethau bws

yn gyfyngedig iawn, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ac yn aml nid yw cludiant cyhoeddus yn gwbl hygyrch neu'n gyfeillgar i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae Deialu a Theithio yn rhagorol ond dim ond yng ngogledd y sir y mae'n weithredol ac nid yw'n rhad. Mae tacsis yn ddrud ac nid ydynt bob amser ar gael neu'n hygyrch. Roedd angen ffôn symudol i archebu lle ar y bws Fflecsi newydd - mae hyn nawr wedi ei ddiwygio.

- Mae'r capasiti o ran y Gymraeg yn broblem.
- Pwysau yn ymwneud â recriwtio a chadw gyda staff yn gadael y sector yn dilyn straen Covid a gallu'r sector i dalu cyflog cystadleuol (o'i gymharu â sectorau eraill fel manwerthu). Gofynion rheoliadol. Diffyg sgiliau yn ymwneud ag ysgrifennu cynigion a deall gofynion y broses dendr.

Effaith y prosesau comisiynu ar y farchnad

Mae gan bob cyngor systemau mewn grym i gefnogi a chydgysylltu gyda darparwyr, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau gyda darparwyr a chefnogaeth gydag hyfforddiant ac adnoddau. Mae enghreifftiau yn cynnwys Rhaglen 'Cynnydd i Ddarparwyr' mewn Cartrefi Gofal yn Sir y Fflint sy'n adnodd hunan-asesu i reolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio sut maent yn dod ymlaen o ran darparu cefnogaeth bersonol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Byw â Chymorth

Fe weithiodd comisiynwyr Gogledd Cymru o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd gyda'i gilydd i ddatblygu Fframwaith Byw â Chymorth a aeth yn fyw ar 1 Ebrill 2020. Mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes wedi eu derbyn i'r cytundeb fframwaith yn dilyn y gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac ansawdd gofynnol. Mae hyn yn galluogi comisiynwyr i gomisiynu gwasanaethau gan fabwysiadu'r cytundeb fframwaith a all symleiddio prosesau tra'n parhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau yr awdurdod lleol.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 41 o gontractau byw â chymorth sydd i ddod i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae'r rhain wedi bod mewn grym ers sawl blwyddyn ac maent wedi eu hymestyn nifer o weithiau gyda bwriad i ail dendro. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd yn ymwneud â sut fyddai orau i ail dendro. Y pryder yw y gallai ail-dendro gael effaith a fyddai'n dadsefydlogi'r farchnad leol gan ddwysáu problemau cyfredol o ran cadw staff a chreu risg fod darparwyr yn rhoi contractau cyfredol yn ôl

yn hytrach na chynnig am fwy. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â pha ddull i'w fabwysiadu.

Y Gymraeg

Mae tua 24% o staff gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn gallu cyfathrebu yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b) (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018). Ar draws Gogledd Cymru mae 20% o reolwyr cartrefi gofal cofrestredig yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae'r ganran uchaf yng Ngwynedd lle mae 57% o siaradwyr Cymraeg rhugl.

Nododd ymgysylltu yn Sir Ddinbych fod derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn flaenoriaeth uchel yn ardal Dinbych ac nad oes digon o ofal yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ne'r sir. Mae gan nifer o staff rai sgiliau o ran y Gymraeg ond mae yna ddiffyg hyder ac felly mae prosiect mewnol yn edrych ar ffyrdd o wella hyn. Nododd arolwg o gartref gofal Cysgod y Gaer yng Nghorwen ym Mawrth 2022 fod y gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Gweithredol' o ran y Gymraeg a'i fod yn rhagweld, nodi ac yn bodloni anghenion y bobl leol sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio o ran y Gymraeg a'u hanghenion diwylliannol .

Gwerth cymdeithasol a gwasanaethau ataliol

Mae'r cysyniad o werth cymdeithasol yn cynnwys y canlynol.

- Y gwerth a brofir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan ddarparu 'beth sy'n bwysig' a chyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio.
- Y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd ychwanegol y gall contract ei ddarparu sydd y tu hwnt i'r gofynion craidd.
- Y ddyletswydd sydd gan gynghorau lleol i hyrwyddo gofal cymdeithasol a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr, a'r trydydd sector (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Mae Canolfan Cydweithredol Cymru (2021) wedi llunio canllawiau i godi ymwybyddiaeth o fodelau menter gymdeithasol a menter gydweithredol posibl yn y sector cartrefi gofal.

Rydym eisiau hyrwyddo ‘modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol’ sy’n:

- Cyflawni canlyniadau lles.
- Gweithio yn gydgynhyrchiol - gan roi llais cryf a gwir reolaeth i ddefnyddwyr.
- Bod â gogwydd ataliol a lleihau dibyniaeth.
- Ymgorffori cydweithio, cydweithrediad a phartneriaeth.
- Ychwanegu gwerth - cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Yn ogystal ag i hyrwyddo gweithgareddau sy’n cynnal neu’n cryfhau lles gofalwyr di-dâl a chapasiti cymunedol tu hwnt i’r farchnad - heb hynny ni all y farchnad fod yn sefydlog.

Mae pob sir yn cefnogi ystod o wasanaethau ataliol a all helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac osgoi’r angen am ofal preswyl neu nyrsio. Mae hyn yn cynnwys prosiectau rhanbarthol a gaiff eu hariannu drwy’r Gronfa Gofal Integredig gan gynnwys prosiectau atal cwympiadau a gofal cam i fyny/cam i lawr. Mae ‘cam i fyny’ yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o’r cartref/lleoliadau cymunedol i atal derbyniadau ysbyty acíwt diangen neu dderbyniadau cynamserol i ofal hirdymor. Mae ‘cam i lawr’ yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o ofal acíwt ar gyfer adfer ac i gefnogi rhyddhau amserol o’r ysbyty.

Mae prosiectau yn cynnwys asiantwyr cymunedol, llyw-wyr a phrosiectau presgripsiynu cymdeithasol sy’n cysylltu pobl gyda’r gefnogaeth a’r gweithgareddau sydd ar gael yn eu cymuned leol. Maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyfeillio, eiriolaeth a seibiant.

Mae’r prosiectau Gofal Micro ac Catalyddion Cymunedol yn darparu cefnogaeth i ficro ddarparwyr i fynd i mewn i’r marchnadoedd gofal. Caiff taliadau uniongyrchol eu defnyddio i helpu pobl i gael mynediad i ofal personol a byw mor annibynnol â phosibl.

Mae yna ragor o wybodaeth am y gwasanaethau ataliol sydd ar gael yng Ngogledd Cymru yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Y Gweithlu

Mae’r tabl isod yn dangos nifer y rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig oedd yng Ngogledd Cymru ar 1 Ebrill 2020. Mae dadansoddiad o’r data yn dangos:

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe adawodd 46 o reolwyr y gofrestr ac fe ymunodd 31, trosiant o 14%.
- Mae'r gymhareb merched i ddynion yn 6:1 ac mae 230 dros 51 oed.
- Mae gan tua thraean o reolwyr cofrestredig ychydig o sgiliau o ran y Gymraeg ac mae 20% yn rhugl.

Tabl 6: Nifer y rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig, 31 Mawrth 2020

Cyngor lleol	Rheolwyr cartrefi gofal
Ynys Môn	30
Gwynedd	61
Conwy	67
Sir Ddinbych	66
Sir y Fflint	39
Wrecsam	47
Gogledd Cymru	310

Ffynhonnell: Gofal Cymdeithasol Cymru, rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig

Nododd arolwg rhanbarthol a luniwyd ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad fod 1 o bob 5 swydd gweithiwr gofal yn wag ar draws y rhanbarth, gan gynnwys swyddi uwch weithwyr gofal a gweithwyr gofal.

Ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mae yna rai pryderon fod gan fwy o gartrefi yn cynnig gofal preswyl a gofal preswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) i'll dau heb o reidrwydd ddarparu cyfleusterau ar wahân ar gyfer preswylwyr gwahanol ac o bosibl heb fod â setiau sgiliau a threfniadau mewn grym.

Mae yna gynnydd mewn anghenion hyfforddi o ganlyniad i'r diffyg hyfforddiant oedd ar gael ac yn cael ei gynnig yn ystod y pandemig, sy'n cynnwys hyfforddiant sylfaenol fel hyfforddiant sefydlu a chodi a symud yn gorfforol.

Mae yna rai pryderon y gallai staff fod wedi symud oddi wrth yr ethos ailalluogi o ganlyniad i bwysau yn ystod y pandemig. Er enghraifft, unigolion wedi eu datgyflyru

o ganlyniad i ddiffyg gweithgarwch a staff ddim yn hyrwyddo ffurfiau syml o annibyniaeth, fel mynd i'r toiled heb gymorth.

Dywed awdurdodau lleol ei bod yn dod yn fwy anodd recriwtio rheolwyr cartrefi gofal. Hwyrach y bydd gan ddulliau eraill megis 'Tyfu Eich Hun' y potensial i greu'r amodau ar gyfer datblygu gweithlu cynaliadwy.

4. Gwasanaethau gofal cartref

Trosolwg o'r boblogaeth

Amcangyfrifir y bydd y nifer o bobl 65 oed a hŷn sy'n cael anawsterau gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd yn cynyddu 25% erbyn 2040.

Bydd mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain

Gall cyfansoddiad aelwydydd effeithio hefyd ar y galw am wasanaethau i gefnogi annibyniaeth. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod 44,000 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain, sy'n 59% o'r holl aelwydydd 65 oed a hŷn. Canfu ymchwil gan Gyngor Gwynedd bod perthynas gref rhwng y nifer o bobl 65 oed a hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain a nifer y cleientiaid sy'n derbyn pecyn gofal cartref mewn ardal (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Ar ben hynny, mae gan tua 28% o bobl yng Nghymru incwm mor isel fel nad ydynt yn cyfrannu at gost eu gofal cartref (AGGCC, 2016). Rhagwelir bod gan 30% o bobl ddigon o gyfalaf i ariannu eu gofal eu hunain, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal (AGGCC, 2016)

Tabl 7: Nifer y bobl 65 a hŷn y rhagwelir eu bod yn cael anhawster gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd

Cyngor lleol	nifer 2020	canran 2020	nifer 2040	canran 2040	Newid yn y nifer	Newid yn y ganran
Ynys Môn	5,100	27%	6,550	29%	1,500	23%
Gwynedd	8,000	28%	10,050	29%	2,050	20%
Conwy	9,450	29%	13,050	30%	3,600	27%
Sir Ddinbych	6,450	27%	8,800	29%	2,400	27%
Sir y Fflint	9,150	27%	12,350	29%	3,250	26%
Wrecsam	7,550	27%	10,000	29%	2,450	24%
Gogledd Cymru	45,700	28%	60,900	29%	15,150	25%
Cymru	185,300	28%	248,900	29%	63,600	26%

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn cyfansymio

Ffynhonnell: Daffodil, Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhagolygon y boblogaeth yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Digonolrwydd y farchnad

Trosolwg o'r farchnad

Mae nifer yr oriau cyfartalog o ofal cartref fesul wythnos a gomisiynir gan bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Tabl 8: Oriau gofal cartref cyfartalog a gomisiynir gan yr awdurdod lleol/bwrdd iechyd fesul wythnos

Sir	Person hŷn	Anabledd dysgu	Iechyd meddwl person hŷn	Anabledd corfforol	Cyfanswm
Ynys Môn	3644	390		582	3,643
Gwynedd					11,144
Conwy	8024	5523	382		13930
Sir Ddinbych	-	-	-	-	5150
Sir y Fflint (a, b)	6,047	913	22	1,160	8,142
Wrecsam	559	638	1196	955	8388
Gogledd Cymru					44558

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Cymorth lle bo'r angen (nid mewn llety tai â chymorth)
(b) Iechyd meddwl person hŷn – sector annibynnol, ond darperir y mwyafrif o'r cymorth gan dîm iechyd meddwl mewnol)
(c) Learning disability floating support (not in supported living accommodation)
(d) Older person mental health - independent sector, but majority of support provided by in house mental health team

Yn nhermau cydbwysedd y farchnad, ar gyfartaledd mae mwy na 70% o'r farchnad gofal cartref yng Nghymru yn cynnwys darparwyr y sector annibynnol gyda'r gweddill yn gymysgedd o ddarparwyr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae gan Wynedd 44% o ofal cartref sy'n cael ei ddarparu'n fewnol ar hyn o bryd a 56% drwy'r sector annibynnol, ond yn Sir y Fflint mae'r awdurdod lleol yn darparu tua 10% o'r ddarpariaeth gofal cartref ar hyn o bryd.

Tabl 9: Canran amcangyfrifedig y farchnad o'r sector gofal cartref yn ôl math

Sir	Mewnol	Sector annibynnol
Ynys Môn (a)	18.5	81.5
Gwynedd	44	56.0
Conwy	9.7	90.3
Sir Ddinbych	10	90.0
Sir y Fflint	10.5	89.5
Wrecsam	3	97

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Dylai fod yn ddarparwr mewnol/allanol (sector annibynnol a thrydydd sector) wedi'i rannu'n 30/70%

Tabl 10: Nifer y darparwyr sy'n gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol

Sir	Nifer y darparwyr
Ynys Môn	1
Gwynedd	1
Conwy	3
Sir Ddinbych	6
Sir y Fflint	6
Wrecsam	4
Rhanbarthol (a)	52

Ffynhonnell: Rhwydwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru
(a) Mae'r darparwyr a nodwyd ar gyfer pob sir yn ddarparwyr sydd ond yn darparu gwasanaethau yn y sir honno. Darparwyr rhanbarthol yw'r rhai sy'n gweithio mewn mwy nac un sir yng Ngogledd Cymru.

Tabl 11: Cyfradd gyfartalog fesul awr gofal cartref yn ôl grŵp poblogaeth (£)

Sir	Person hŷn	Anabledd dysgu	Iechyd meddwl pobl hŷn	Anabledd corfforol
Ynys Môn	17.83	16.04	17.83	17.83
Gwynedd	19.13	19.13	19.13	19.13
Conwy (a)	20.60	20.60	20.60	20.60
Sir Ddinbych (a)	19.53	19.53	19.53	19.53
Sir y Fflint (b, c)	18.67	16.84	-	18.67
Wrecsam	20.33	16.90	20.58	20.28

Ffynhonnell: data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Y gyfradd gyfartalog ar draws pob grŵp o'r boblogaeth
(b) Byw â chymorth
(c) Mae'r mwyafrif o ofal iechyd meddwl pobl hŷn yn cael ei gefnogi'n fewnol, ni ddarparwyd cyfartaledd.

Trosolwg o'r farchnad ranbarthol

Mae gofal cartref yn farchnad flaenoriaeth a nodwyd gan gomisiynwyr, ac nid yw darparwyr presennol y sector preifat yn gallu cyflawni'r galw am swm sylweddol o amser yn awr. O ganlyniad i hyn, mae twf a datblygiad gwasanaethau, gan gynnwys gofal cartref cyffredinol (sy'n cynnwys gofal cartref, ail-alluogi, byw yn y gymuned ac adferiad) wedi'u nodi fel cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Trosolwg o'r farchnad ar Ynys Môn

Ar Ynys Môn, mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd (Mawrth 2022) oherwydd prinder staff yn y darparwyr gofal cartref.

Trosolwg o'r farchnad yng Ngwynedd

Yng Ngwynedd, ni fu digon o ofal cartref i gyflawni'r angen ar draws Gwynedd, yn arbennig yn ardal Eifionydd a Phwllheli ar hyn o bryd.

Yng Ngwynedd, mae diffyg argaeledd gofal cartref ar hyn o bryd, ac mae natur y trefniadau presennol yn golygu y gall darparwyr wrthod rhoi gofal, neu ddychwelyd

pecynnau. Gall argyfyngau mynych ddigwydd, lle mae darparwyr yn adrodd nad ydynt yn gallu darparu gofal mwyach o ganlyniad i broblemau staffio.

Ar hyn o bryd, nid oes llawer o ddewis i bobl yn y maes. Mae sicrhau unrhyw ofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal eu hunain, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal. Mae prosiect gyda 'Catalyddion Cymunedol' wedi dechrau, i annog pobl i sefydlu cwmni bychan i ddarparu gofal, gyda'r gobaith y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa.

Trosolwg o'r farchnad yng Nghonwy

Mae nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy wedi lleihau yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, fel y dangosir yn y tabl isod.

Bu rhai rhesymau sylfaenol am hyn, effaith COVID a gweithwyr gofal yn gadael y sector ac nid yw'r sector yn gallu recriwtio staff newydd.

Fel y gellir gweld, yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r nifer o ddinasyddion sy'n derbyn gofal cartref wedi lleihau'n ddramatig ac mae tystiolaeth gan ddarparwyr yn dangos mai diffyg gofal cartref sy'n gyfrifol am hyn. Yn y cyfnod o fis Mai i fis Tachwedd 2021 mae tua 950 awr o becynnau gofal cartref wedi'u dychwelyd am na allai asiantaethau'r sector preifat gyflawni'r galw.

Tabl 12: Nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy

Blwyddyn	Cyfanswm y cleientiaid
2017/18	898
2018/19	818
2019/20	799
2021/22	717

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

O'r wythnos hon, 2 Ebrill 2022, mae 698 o becynnau yn cael eu darparu i bobl hŷn ar draws Conwy.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y pecynnau ac oriau sy'n cael eu cyflawni, wythnos 2 Ebrill 2022. Dangosir yr ardaloedd yn y tabl hwn fel ardaloedd y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC).

Tabl 13: Cyfanswm nifer y pecynnau a'r oriau gofal cartref sy'n cael eu darparu yng Nghonwy (Ebrill 2022)

Ardal TAC	Pecynnau	Oriau	Oriau cyfartalog fesul pecyn
Abergele	146	1,709	11.7
Colwyn	206	2,251	10.9
Llandudno	172	2,217	12.9
Arfordirol	91	1,166	9.0
Gwledig	83	747	9.0
Cyfanswm	698	8,091	11.6

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn cyfansymio
Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Gellir gweld mai'r ardal TAC Colwyn sydd â'r nifer fwyaf o becynnau a'r ardal Wledig sydd â'r nifer leiaf. Mae'n ddiddorol gweld hefyd nad ardaloedd Llandudno ac Arfordirol sydd â'r nifer fwyaf ond bod yr oriau cyfartalog fesul pecyn uwch nac mewn unrhyw ardal arall, mae'n debyg mai oedran cyfartalog y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn sy'n gyfrifol am hyn a'r ffaith bod angen pecynnau cymorth mwy dwys arnynt.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir Ddinbych

Roedd 585 o bobl yn derbyn gofal cartref yn Sir Ddinbych yn ystod 2020-21. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tabl 14: Demograffeg y bobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir Ddinbych

Grŵp oedran	Canran y Ddarpariaeth
18-24	1%
25-64	19%
65-74	11%
75-84	24%
85+	45%

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Nid oes gan Sir Ddinbych ddigon o ddarparwyr i roi dewis gwirioneddol i bobl neu i roi elfen o gystadleuaeth yn y farchnad. Nid yw comisiynwyr wedi llwyddo i gyflawni'r galw ac nid ydynt wedi gallu darparu gofal cartref ar gyfer pob cais. Er enghraifft, ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 116 o bobl yn aros am becynnau gofal cartref, yr oedd 26 ohonynt yn derbyn cymorth dros dro. Swyddogaeth y Tîm Cymorth Dros Dro yw darparu gofal cartref a chymorth am gyfnod byr o amser tra bydd y pecynnau gofal yn cael eu sicrhau drwy'r sector darparwyr. Mae heriau penodol yn bodoli yn ne'r sir oherwydd nifer fach iawn o ddarpariaeth annibynnol sydd ar gael. Dim ond yn y de y mae ein tîm mewnol yn gweithio ac mae eu hymyrraeth yn aml yn datblygu i fod yn hirdymor oherwydd diffyg darpariaeth amgen. Ar ben hynny, mae'r timau ail-alluogi, yn y gogledd a'r de, yn canfod eu bod yn derbyn pecynnau gofal brys yn rheolaidd ac mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i gynnig gwasanaethau ail-alluogi.

Mae'r ystod o anghenion gofal yn eang ac mae'n cynnwys:

- bregusrwydd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran
- anableddau corfforol
- anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth
- namau synhwyraidd
- salwch cronig
- cyflyrau iechyd hirdymor
- dementia
- iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, gorbryder
- camddefnyddio sylweddau

- gofal lliniarol

Rydym yn gweithio gyda'r Catalyddion Cymunedol i sicrhau bod trigolion Sir Ddinbych yn gallu cael mynediad at y math o ofal a chymorth sy'n eu gweddu orau. Yn ychwanegol, ma Catalyddion Cymunedol yn cefnogi dinasyddion sy'n dymuno derbyn cymorth i'w dderbyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw hwy.

Catalyddion Cymunedol

Mae Catalyddion Cymunedol yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio ar hyd a lled y DU i geisio gwneud yn siŵr bod pobl sydd angen gofal a chymorth i fyw eu bywydau yn gallu cael y cymorth hwnnw mewn ffyrdd, ar adegau ac mewn lleoedd sy'n addas iddyn nhw, gyda dewis gwirioneddol o opsiynau lleol deniadol. Maent yn helpu pobl ar draws y DU i ddefnyddio eu hegni a'u talentau i sefydlu 'micro-fentrau cymunedol'. Mae micro-fentrau cymunedol yn fusnesau neu'n fentrau bach iawn neu'n grwpiau sy'n gallu cynnig cymorth gyda gofal neu iechyd neu lesiant pobl leol yn eu hardal.

Mae gan Gatalyddion Cymunedol lawer o brofiad ac arbenigedd a gallant gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol i bobl sy'n dymuno dechrau menter gofal newydd, er mwyn iddynt allu gwneud hyn yn ddiogel a llwyddiannus.

Yn Sir Ddinbych, mae Catalyddion Cymunedol wedi'u comisiynu gan y Cyngor i ddefnyddio ei arbenigedd i helpu i fynd i'r afael â heriau gofal cymdeithasol.

Symud gydag Urddas / Gofal Addas

Ers blynyddoedd lawer, mae wedi bod yn arfer sefydledig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sydd angen cael eu codi, neu ofalu amdanynt yn y gwely, i gael pecyn gofal gyda dau o bobl er mwyn cynorthwyo a chyflawni'r gofal.

Nid yw'n hysbys lle neu sut y sefydlodd yr arfer hwn, ond gydag arloesedd offer symud a thrin a symud i ddull gofalu a chefnogi sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei gwestiynu a'i herio'n gynyddol.

Amcangyfrifir y gallai o leiaf 37% o ddinasyddion Sir Ddinbych dderbyn cymorth gan un gofalwr (yn hytrach na dau) gyda'r manteision ychwanegol o gynnal urddas a chyfforddusrwydd gyda'r hyblygrwydd uwch sy'n gysylltiedig â darparu dim ond un gofalwr. Mae offer symud a chodi mwy arbenigol yn cael eu cynllunio a'u gweithgynhyrchu er mwyn hwyluso gofal gan un person sy'n galluogi i anghenion gofal ein Dinasyddion gael eu cyflawni gyda'r lefel isaf o gymorth ac ymyrraeth.

Mae Sir Ddinbych wedi bod yn hyrwyddo'r ffordd hon o weithio ar draws gofal Iechyd a Chymdeithasol a hyfforddi staff er mwyn iddynt fod yn fwy cyfarwydd ag offer arbenigol symud a chodi a'u bod felly'n teimlo'n fwy hyderus i gefnogi ein Dinasyddion i gael eu hanghenion gofal wedi'u cyflawni gyda'r lefel isaf o ymyrraeth.

Mae'r prosiect Symud gydag Urddas yn ymgorffori hyrwyddo annibyniaeth a thechnegau codi a symud priodol ar gyfer darparu gofal. Gan ddefnyddio caredigrwydd a dull ysgafn a thosturiol mae'n cynnwys edrych ar y nifer o ofalwyr sydd eu hangen i roi sylw i anghenion person, wrth gael eu codi, eu trosglwyddo neu eu symud gan ddefnyddio technegau ac eitemau o offer penodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd 5 sesiwn gyda Therapyddion Galwedigaethol i ddiweddaru sgiliau defnyddio systemau rheoli gwelyau. O ganlyniad, mae'r system rheoli gwelyau Nordig yn stoc graidd erbyn hyn a gellir eu harchebu'n uniongyrchol gan ein Gwasanaeth Offer Cymunedol sydd wedi golygu llai o oedi rhwng yr asesiad cychwynnol a darparu gwelyau i ddinasyddion.

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ffurfiol gyda 22 aelod o staff gofal o'n tîm mewnol Annibyniaeth yn y Cartref. Yn dilyn ymlaen o'r hyfforddiant, mae'r tîm yn gweithio i sicrhau yn awr bod pecynnau gofal ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu hystyried o fewn ethos Symud gydag Urddas cyn trosglwyddo gofal i ddarparwyr gofal cartref allanol.

Cyflwynwyd prosiect peilot gydag un asiantaeth Gofal Cartref, lle bydd y Rheolwr a'r hyfforddwr Symud a Chodi yn derbyn sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth i drafod ethos Symud gydag Urddas, y maent yn ei gyflwyno yn awr gyda'u tîm gofal. Y nod yw, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, y gwneir gwaith i adolygu'r pecynnau gofal gan ddau berson.

Cwblhaodd arweinydd ein prosiect Symud gydag Urddas sesiwn hyfforddiant gyda hyfforddwyr Symud a Chodi bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBP) i drafod gofal gan un person.

Mae Tîm Ar Ffiniau Gofal newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cyd-fynd â'n gweledigaeth strategol ar gyfer dull mwy modern ac effeithiol o ddarparu cymorth gofal cymdeithasol sy'n atgyfnerthu gwytnwch unigol a chymunedol. Mae'r tîm Ar Ffiniau Gofal yn unigryw yn y ffaith ei fod yn seiliedig yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac mae'n recriwtio, yn hyfforddi ac yn adleoli Gwirfoddolwyr.

Mae'r Rheolwr yn Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac yn fentor sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau. Mae dau Gydgysylltydd Ar Ffiniau Gofal yn cynorthwyo'r Rheolwr i gyflawni'r prosiect.

Mae'r Tîm wedi dangos sut y gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar lwybrau gofal cynlluniedig, yn cefnogi dinasyddion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gweithio'n agos gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol i gyflawni dull gweithredu 'tîm o amgylch yr unigolyn', lleihau'r galw am ofal cynlluniedig traddodiadol. Er enghraifft; mae gennym wirfoddolwyr sy'n darparu gofal seibiant i ofalwyr, ac rydym yn paru'r 'rhai sy'n derbyn gofal a gwirfoddolwyr' yn ofalus a bwriadol, ac mae hyn wedi creu profiad ystyrlon a phleserus i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn y gofal. Mae gennym enghreifftiau pan fydd dinasyddion wedi parhau 'ar ffiniau' gofal cynlluniedig a gofal heb ei gynllunio, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl, lleoliadau Gofal Cartref a gofal cartref traddodiadol, gan alluogi dinasyddion i aros yn y gymuned.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir y Fflint

O ran demograffeg y bobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir y Fflint, y grwp mwyaf yw pobl 85 oed a hŷn, gweler y tabl isod.

Tabl 15: Demograffeg pobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir y Fflint

Grŵp oedran	Canran y ddarpariaeth
18 i 24	1%
25 i 64	17%
65 i 74	12%
75 i 84	27%
85 a hŷn	43%

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

O'r rhai o dan 65 oed, mae cyfran debyg o bobl yn derbyn cymorth ar gyfer anabledd dysgu â'r gyfran â nam corfforol neu synhwyraidd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y newidiadau i'r boblogaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf yn cael effaith ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth. Gallai'r cynnydd hwn yn y nifer o bobl sy'n byw yn y gymuned sydd â dementia ac anghenion cymhleth gynyddu'r galw am wasanaethau gofal cartref, yn arbennig 'pecynnau gofal staffio

dwbl'. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r awdurdod ei ystyried er mwyn parhau i gefnogi unigolion i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hwy.

Mae Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Mewnol Sir y Fflint yn darparu gofal a chymorth i oedolion ag angen wedi'i asesu yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu'n dair ardal ddaearyddol ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy dîm o staff gofal sy'n gweithio ar draws Sir y Fflint. Mae'r tair ardal hyn yn atgynhyrchu'r gwaith cymdeithasol a'r timau iechyd yn lleol ac mae hyn yn cynorthwyo gyda pharhad gofal a datblygu perthnasoedd gwaith ar draws gwahanol broffesiynau. Y tair ardal yw:

- Ardal y Gogledd-ddwyrain – ardal Glannau Dyfrdwy
- Ardal y De – ardaloedd Yr Wyddgrug / Bwcle
- Ardal y Gogledd-orllewin – ardaloedd Treffynnon / Y Fflint

Mae ethos y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn un o ail-alluogi a chefnogi pobl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn darparu gwasanaethau i bobl 18 oed a hŷn yr aseswyd bod ganddynt angen gofal cymdeithasol ac sy'n byw yn Sir y Fflint. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn darparu cymorth ar gyfer ystod o anghenion iechyd a gofal, gan gynnwys:
Mae'r ystod o anghenion gofal yn eang ac mae'n cynnwys:

- bregusrwydd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran
- anableddau corfforol
- anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth
- namau synhwyraidd
- salwch cronig
- cyflyrau iechyd hirdymor
- dementia
- iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, gorbryder
- camddefnyddio sylweddau
- gofal lliniarol

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn cefnogi pobl drwy dri model/dull gweithredu gofal a chymorth gwahanol, sy'n amrywio yn ôl yr unigolyn a beth sy'n bwysig iddynt hwy.

Ail-alluogi – cynlluniwyd hyn i gynorthwyo pobl i adennill, gwella a chynnal eu sgiliau byw o ddydd i ddydd a sicrhau'r lefel uchaf o annibyniaeth wrth iddynt barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Gwasanaeth tymor byr yw hwn y gellir ei ddarparu am hyd at chwe wythnos. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos gyda thimau rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac mae ganddo rôl bwysig yn ceisio lleihau derbyniadau ac ail-dderbyniadau mewn ysbytai ac mae'n gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Ffisiotherapyddion a Nyrsys Ardal. Mae gan y gwasanaeth rôl bwysig hefyd yn gweithio gyda phobl i gyflawni eu nodau personol eu hunain a helpu i ymgartrefu'n ôl i'w hamgylchedd eu hunain yn eu cartref ac yn y gymuned leol. Y nod yw cynorthwyo pobl i sicrhau'r lefel uchaf o annibyniaeth cyn gynted â phosibl a sicrhau, os bydd angen gofal a chymorth parhaus ar bobl, bod hyn ar y lefel briodol.

Byw'n Dda – mae hyn yn darparu gofal a chymorth hyblyg i bobl sy'n byw gyda dementia. Cynlluniwyd y gwasanaeth i alluogi pobl i fyw'n annibynnol a cheisia gynorthwyo pobl i barhau i fod yn egnïol yn eu cartref ac yn eu cymunedau cyhyd ag y bo'n bosibl. Mae'r gofal a'r cymorth wedi'i deilwra o amgylch yr unigolyn. Mae gofal, cymorth a gweithgareddau yn cael eu datblygu dros amser wrth i'r staff feithrin perthynas gyda'r person a'u bod yn deall beth sydd ei angen arnynt. Mae'r dull hwn yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac mae'n cyfrannu i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia yn llwyddo i gynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag y bo'n bosibl.

Mae pobl ag anghenion gofal cymhleth hirdymor yn derbyn cymorth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cymorth byw dyddiol, helpu i gyflawni nodau a nodwyd, cefnogaeth gyda meddyginiaeth yn ogystal â gofal diwedd bywyd / gofal lliniarol yn ôl yr angen. Wrth gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, mae'r gwasanaeth yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd, a gall hynny helpu pobl i oresgyn argyfwng yn ôl yr angen.

Yn ogystal â darpariaeth gofal mewnol yr Awdurdod Lleol ei hun, mae'r Comisiynwyr yn Sir y Fflint yn defnyddio 28 o ddarparwyr yn weithredol o Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru. Mae yna nifer fach sy'n cyflawni gwasanaeth byw â chymorth hefyd yn benodol o dan fframwaith amgen.

Mae gwasanaethau'r sector annibynnol a gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn cyflawni tua 7500 awr o ofal cartref yr wythnos ar hyn o bryd. Mae darpariaeth fewnol Cyngor Sir y Fflint yn cyflawni tua 12% o'r farchnad hon, ond mae'n anelu at gynyddu'r gwasanaethau a gyflawnir yn yr ardal hon i gynorthwyo mwy o bobl i fyw adref, yn unol â Chynllun y Cyngor. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys darparu Gofal Ychwanegol, lle mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni tua 370 awr o ofal yr wythnos.

Trosolwg o'r farchnad yn Wrecsam

Mae gan Wrecsam boblogaeth o ychydig dros 135,000 yn ôl cyfrifiad 2017. Mae mwy na 45% (58,359) o'r boblogaeth honno dros 45 oed. Mae 23% pellach (31,700) o'r boblogaeth yn 60 oed a hŷn. Mae 19,000 (14%) mewn iechyd gweddol, ac mae 6,500 (5%) mewn iechyd gwael a 1,800 (1%) mewn iechyd gwael iawn. Darperir y ddarpariaeth gofal cartref yn Wrecsam drwy fodel ardal leol.

O'r rhain, mae yna nifer sy'n darparu gwasanaethau gofal i'r rhai mewn angen ac sy'n gwneud hynny'n ddi-dâl. Dadansoddir y rhain fel a ganlyn: mae 8,900 yn darparu 1 i 19 awr o ofal di-dâl yr wythnos; mae 2,200 yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos ac mae 4,000 yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos. Mae'n debygol, dros gyfnod o bum mlynedd, y bydd angen i bob un o'r bobl hyn gael mynediad at wasanaethau ar ryw lefel.

Sefydlogrwydd y farchnad

Heriau rhanbarthol

Mae bwlch yn bodoli yn y gwasanaethau o ran ymweliadau byr i'r cartref i ddarparu cymorth gyda meddyginiaeth. Nid yw'r gwasanaethau iechyd na gwasanaethau cymdeithasol yn darparu ymweliadau ar gyfer meddyginiaeth yn unig, ond mae angen y gofal hollbwysig hwn ar bobl hŷn â phroblemau gyda'u cof (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol, gyda'r cynnydd mewn chwyddiant a'r costau tanwydd uwch, a chost ehangach pwysau byw ar ddechrau 2022 yn creu ansefydlogrwydd i ddarparwyr gofal cartref a'u staff, er enghraifft mewn tlodi gwaith.

Gallai gostyngiad mewn cyllidebau gyflwyno heriau pellach o ran lefel y gwasanaethau y gellir eu comisiynu a'u darparu. Ar draws Gogledd Cymru, mae

darparwyr wedi gwerthfawrogi'r cyllid cymorth a dderbyniwyd ar hyd y pandemig Covid-19. Er enghraifft, £1 filiwn ar gyfer gofal cartref sydd wedi darparu sefydlogrwydd yn ystod y pandemig. Mae pryder ynglŷn ag effaith diwedd y flwyddyn ariannol.

Sefydlogrwydd y farchnad ar Ynys Môn

Yn dilyn y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem, gyda chyfradd trosiant y staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn 2021/22.

Mae galw cynyddol am wasanaethau ond mae cyllidebau, ynghyd â phwysau chwyddiant yn cael anhawster i gyflawni'r galw.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Ngwynedd

Mae Gwynedd wedi dechrau sefydlu model gofal cartref newydd yn ddiweddar ac mae'r dangosyddion cynnar yn gadarnhaol iawn, gyda darparwyr yn sicrhau mwy o lwyddiannau recriwtio. Bydd dechrau'r broses dendro ar gyfer gofal cartref ar ddechrau mis Ebrill 2022 yn rhoi cyfle i gomisiynwyr sefydlu'r model newydd ar draws y Sir, gyda'r gobaith o sicrhau llawer mwy o sefydlogrwydd yn dilyn hynny. Y gobaith yw y gellir recriwtio mwy o staff, cyflawni mwy gyda'r un lefel staffio a chyflawni mwy o arbedion (llai o deithio a llai o fiwrocratiaeth) sy'n arwain at fwy o amser i ofalu a chanlyniadau gwell i bobl (drwy ganolbwyntio ar beth sy'n gwneud gwahaniaeth i'r unigolyn a theilwra'r gofal yn briodol), drwy fabwysiadu'r model newydd. Y bwriad yn y model newydd yw cynnal y rhaniad 50:50 rhwng y sectorau mewnol ac allanol ar gyfer y ddarpariaeth. Mae cynnwys y contract newydd ar gyfer darparwyr allanol yn golygu bod gennym y rhyddid i addasu'r gymhareb hon yn ystod oes y cytundeb. Ceir argyfyngau rheolaidd wrth ddarparu gofal cartref, pan fydd darparwyr yn adrodd nad ydynt yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth mwyach oherwydd problemau staffio. Wrth i'r trefniadau newydd ddod i rym, bydd angen cyfnod pontio, gan gynnwys prosesau cysgodi effeithiol a hyfforddiant.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Nghonwy

Nid yw marchnad y sector Annibynnol wedi gallu cyflawni gofynion gofal cartref Conwy ers y pandemig. Ar hyn o bryd mae gan Gonwy (Ebrill 2022) 900 a mwy awr o ofal heb ei froceru na all y farchnad ei gyflawni (60+ o becynnau). Mae hyn wedi bod yn gyson am fwy na 12 mis ac mae'n cael ei ddarparu'n fewnol a thrwy ddarpariaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae trafodaethau gyda

Darparwyr yn awgrymu mai problemau staff / recriwtio yn y sector sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r sefyllfa yn gwella yn raddol ond yn rhy araf i gyflawni'r cynnydd yn y galw am y ddarpariaeth.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir Ddinbych

Mae ethos darpariaeth fewnol Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ail-alluogi ac mae'n cefnogi pobl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn darparu gwasanaethau i bobl 18 oed a hŷn yr aseswyd bod ganddynt ofal angen gofal cymdeithasol ac sy'n byw yn Sir Ddinbych.

Mae darpariaeth fewnol Sir Ddinbych yn cynnwys Gweithwyr Ail-alluogi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Tîm Cymorth Dros Dro – bwriedir i'r holl wasanaethau fod yn ymyriadau tymor byr.

Swyddogaeth y Tîm Cymorth Dros Dro yw darparu gofal cartref a chymorth am gyfnod byr o amser tra bydd pecynnau gofal yn cael eu sicrhau drwy'r sector darparwyr yn Ne Sir Ddinbych. Gwelir yn gynyddol bod holl elfennau'r ddarpariaeth fewnol yn cynnal achosion am gyfnodau hwy oherwydd y diffyg gofal cartref sydd ar gael. Oherwydd y nifer isel o ddarparwyr sy'n gallu darparu gofal yn ne Sir Ddinbych, mae yna ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth fewnol.

Gwelwyd lefelau uchel o absenoldebau staff hefyd ar draws y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â lefelau uchel o straen a gorbryder yn dilyn y pandemig.

Mae comisiynwyr yn cael anhawster i sicrhau pecynnau gofal, yn benodol yn ne Sir Ddinbych. Y prif reswm am hyn yw diffyg argaeledd staff gofal. Mae hyn yn broblem tymor hir sy'n gwaethygu. Dychwelodd darparwyr gofal cartref tua 600 awr o becynnau gofal yn 2021 oherwydd diffyg argaeledd staff.

Mae yna ystod dda o ddarparwyr yn Sir Ddinbych, er nad yw pob un ar y fframwaith yn gwneud ceisiadau gweithredol am becynnau. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar y sector gofal cartref yn y Sir. Yn benodol, mae sicrhau pecynnau gofal dau berson yn her, yn ogystal â'r diffyg argaeledd darpariaeth gofal yn ardal ddeheuol y Sir ac mewn ardaloedd gwledig. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwasanaethau gofal cartref mewn lleoliadau gwledig yn ddrutach – mae ymchwil yn awgrymu ei fod 20% yn uwch, ac mae'r gyfradd gyfartalog fesul awr hyd at 11% yn uwch. Mae costau cynyddol tanwydd trafnidiaeth yn her i bob darparwr.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth gofal cartref well i ddinasyddion â lefelau uwch o anghenion gofal a chymorth. Byddai'n rhaid i'r model fod yn hyblyg (yn hytrach nac 'amser a thasg'), er mwyn cefnogi'r staff gofal i feithrin perthnasoedd a gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac ennill sgiliau uwch drwy hyfforddiant a chwarae rôl allweddol yn cynllunio gofal a chymorth i ddinasyddion. Yn y pen draw, byddai gan y ddarpariaeth ffocws clir ar ganlyniadau, a byddai llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn y canlyniadau hynny.

Mae Sir Ddinbych yn gobeithio cynnal cynllun peilot sy'n cynnwys cerbydau trydan er mwyn darparu gofal yn ystod 2022.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint, mae'r farchnad yn fodel cymysg gyda gofal cartref mewnol yn cael ei ehangu. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor er mwyn helpu i ail-gydbwyso'r sector gofal. Mae darparwyr gofal annibynnol yn parhau i weithio mewn dulliau creadigol gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y nifer o bobl sy'n aros am ofal yn y cartref mor isel â phosibl. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn heriol yn ystod dwy flynedd ddiwethaf y pandemig COVID.

Rydym yn dechrau gweld datrysiadau creadigol yn awr gan gynnwys defnyddio Cerbydau Trydan i gefnogi staff gofal cartref drwy gynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru. Cânt eu defnyddio i gefnogi staff gofal cartref na allant yrru.Cael mynediad at gynllun Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu profion gyrru ar gyfer gweithwyr gofal cartref sy'n aros am ddyddiad ar gyfer prawf. Mae Sir y Fflint yn parhau i ehangu Micro-ofal i gefnogi unigolion. Mae'r farchnad yn parhau i fod yn heriol, ond mae'r holl randdeiliaid yn parhau i weithio mewn partneriaeth i oresgyn yr heriau hysbys a wynebir ar draws y DU ar hyn o bryd.

Yn Sir y Fflint, wrth ystyried darparwyr annibynnol yn unig, nid oes gan unrhyw ddarparwr gyfradd sy'n fwy na 12% o'r farchnad annibynnol yn yr ardal wrth ystyried oriau a gyflawnir, gyda'r cyfartaledd fesul darparwr yn 4.5%.

O ran cydbwysedd y farchnad yn Sir y Fflint, mae'r mwyafrif helaeth (12 o'r 18) yn lleol, ac yn darparu gwasanaethau naill ai'n gyfan gwbl yn Sir y Fflint, neu yn Sir y Fflint a'r awdurdodau cyfagos. Mae 4 darparwr arall yn gweithio ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, ac mae gennym 2 ddarparwr cenedlaethol hefyd.

Yn Sir y Fflint, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu pwysau critigol a materion allweddol ym meysydd y gweithlu, comisiynu a meini prawf cyllido. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried sut i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn drwy adolygu rolau gwaith cymdeithasol, gwella'r llwybrau gyrfa ym maes gofal cymdeithasol a chynnig mwy o eglurder am y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer ffrydiau cyllido penodol.

Mae yna heriau eraill y mae ffrydiau gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gobeithio mynd i'r afael â hwy, megis recriwtio gyda Gofalwn Cymru a lleoliadau plant, fodd bynnag mae'n bwysig nodi bod y rhain yn parhau i gyflwyno pwysau critigol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint.

O fis Ionawr 2022 yn Sir y Fflint, mae'r meysydd o bwysau parhaus yn cynnwys:

- gofal staff dwbl
- ardaloedd gwledig
- rhyddhau o'r ysbyty
- darparwyr yn dychwelyd pecynnau o ganlyniad i heriau staffio
- costau busnes uwch – biliau cyfleustodau ac yswiriant
- costau tanwydd uwch, yn effeithio ar y staff gofal eu hunain.

Mae angen yn drech na'r cyflenwad yn Sir y Fflint. Oherwydd yr hinsawdd ariannol heriol a'r angen i annog mwy o bobl i ymuno â'r diwydiant gofal, mae ffyrdd eraill o ddarparu yn cael eu hystyried, er enghraifft micro-ofal.

Mae yna her o ddiffyg gweithwyr gofal, mae'r rhai sydd angen yn profi anawsterau oherwydd bod llai o staff gofal ar gael. Mae gan asiantaethau gofal mawr gostau eiddo a gorbenion a buddsoddwyr/cyfranddalwyr i'w bodloni, felly mae costau gofal fesul awr yn uwch.

Yn y gwasanaethau i bobl hŷn, mae sylfaen amrywiol o ddarparwyr, ac nid oes dibyniaeth ar un darparwr neu sector. Fodd bynnag, yn y gwasanaethau anableddau dysgu ac anableddau corfforol, nifer fach o ddarparwyr sydd ar gael i ddewis ohonyn nhw ac mae dibyniaeth arnynt i gyflawni anghenion y gwasanaeth.

Mae yna ystod eang o wasanaethau ar gael yn ôl yr hyn y mae'r unigolyn yn ei ddymuno, er enghraifft gofal cartref traddodiadol, Micro-ofal a Thaliadau Uniongyrchol.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Wrecsam

Ar hyn o bryd (Ebrill 2022) mae prinder sylweddol ym mhob maes o ofal cartref a'r farchnad iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yn Wrecsam na welwyd yn ffigurau Ebrill 2021 ac sy'n debygol o ddeillio o heriau ehangach, cenedlaethol yn ymwneud â'r gweithlu a'r adferiad yn dilyn Covid.

Mae datrysiadau cylchol a datrysiadau seibiant eraill hefyd yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae diffyg capasiti i gyflawni gofal seibiant rheolaidd a hyblyg a seibiannau byr yn parhau i fod yn faich ar ofalwyr di-dâl sydd eisoes yn teimlo cynnydd yn eu rôl ofalu o ganlyniad i Covid a heriau eraill yn ymwneud â'r gweithlu.

Ardaloedd mwy gwledig y sir sy'n profi'r anhawster mwyaf wrth gyflawni gwasanaethau gofal cartref cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2021, mae capasiti micro-fenter wedi cynyddu ac mae Wrecsam wedi cysylltu gyda Lloegr i gefnogi'r galw ond nid yw cynaliadwyedd y dulliau hyn wedi'i werthuso.

Ychydig iawn o hyblygrwydd sy'n bodoli yn y farchnad bresennol (Ebrill 2022) oherwydd heriau sylweddol y gweithlu a'r adferiad yn dilyn Covid ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er y gwelwyd gostyngiad o 30% yn y rhestrau aros am ofal cartref ers Ebrill 2021, mae'n parhau i fod yn uchel iawn ac nid yw datrysiadau tymor byr i'r tymor canolig wedi'u gwerthuso a'u profi eto yn nhermau eu sefydlogrwydd tymor hwy yn y farchnad. Cefnogodd cyllid adfer Covid a chyllid caledi lawer o'r adferiad hwn yn ystod 2021-22 gyda sefydlogrwydd ariannol tymor hwy yn parhau i fod yn her.

Gall cofrestru gofal cartref lesteirio hyblygrwydd y prosesau comisiynu a chyflawni gwasanaethau hefyd. Gall gofynion RISCA, er eu bod yn ceisio gwella ansawdd, fod yn rhwystr i rai sefydliadau a staff pan mae recriwtio eisoes yn her iddynt. Yn ogystal, fel tref ar y ffin, rydym yn dibynnu ar ddarparwyr o Loegr mewn rhai ardaloedd. Mae darparwyr wedi'u cyfyngu o ran nifer y bobl y gallant eu cefnogi y tu allan i gofrestriad AGC, a all fod yn hir iawn..

Adborth gan ddinasyddion a darparwyr

Er bod gofal brys yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn sy'n disgyn ac sy'n cael eu hanafu, mae angen gwasanaeth ymateb ar gyfer pobl sy'n disgyn ac nad ydynt yn cael eu hanafu a gofal cartref y tu allan i oriau arferol. Ar hyn o bryd, os oes angen

cymorth ychwanegol ar unigolyn hŷn oherwydd digwyddiad annisgwyl, er enghraifft eu gofalwr yn mynd yn sâl, nid oes ganddynt unrhyw fynediad at gymorth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

“Mae darparwyr gofal cartref annibynnol wedi dweud wrthym eu bod wedi llwyddo i ddechrau darparu gofal o fewn y 48 awr ond mae wedi bod yn anodd. Yr heriau a’r oedi mwyaf yw trefnu gofal ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth” (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2019a)

“Dywedodd darparwyr annibynnol gofal cartref wrthym ynglŷn â darparu gofal i bobl nad ydynt wedi gallu manteisio ar gyfnod o ail-alluogi pan nad oes unrhyw gapasiti yn y tîm ail-alluogi. Canfuom mai’r rheswm yn aml am hyn yw bod rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth ail-alluogi oherwydd mae’r gwasanaeth yn darparu’n bennaf ar gyfer pobl sy’n cael eu rhyddhau o’r ysbyty ag anghenion lefel isel, sydd angen cyfnod ymadfer” (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2019a)

Mae adborth o’r arolwg Darparwyr Rhanbarthol [Chwefror 2022] yn nodi’r heriau a wynebir gan ddarparwyr fel a ganlyn:

- Recriwtio staff. Mae’r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol iawn ac mae’n rhaid i ni allu cynnig pecyn ariannol i weithwyr gofal, sy’n gystadleuol ac sy’n teilyngu’r rôl.
- Cadw staff oherwydd telerau ac amodau gwael yn y sector gofal cartref. Mae costau tanwydd a’r argyfwng costau byw yn dechrau cael eu teimlo yn y sector yn awr, lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn dioddef tlodi mewn gwaith.
- Staff yn gadael y sector oherwydd amodau gwaith gwael a diffyg parch am y gwaith a wnânt a’r lefelau o gyfrifoldeb sy’n gysylltiedig â hyn. Mae staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi a’u bod yn cael eu gorweithio.
- Cadw staff sy’n newydd i’r sector na allant ddelio â natur ddwys y swydd o gefnogi pobl gyda chyflyrau fel awtistiaeth, pobl sydd angen gofal personol ac yn y blaen. Mae angen cefnogaeth well ar staff i gyflawni heriau’r rôl hon.

Cafwyd awgrymiadau hefyd gan y darparwyr ar ffyrdd i wella’r sector ac ansawdd y gofal, gan gynnwys:

- Galluogi hyblygrwydd wrth ddefnyddio oriau gofal wedi'u comisiynu. Er eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu pawb, gall fod yn rhwystredig pan na all darparwyr dibynadwy fod yn hyblyg gydag oriau ac yn y blaen. Treulir mwy o amser yn cyfiawnhau unrhyw amrywiaeth, yn hytrach nac ar allu 'bancio'r oriau hyn er mwyn cyflawni canlyniadau pobl a gwella ansawdd yn sgil hynny. Weithiau hyblygrwydd yw'r ffordd orau i gefnogi rhywun (gwneud y gorau o hwyliau neu gymhelliant penodol).
- Datblygu gwaith partneriaeth gwirioneddol gyda darparwyr.
- Strwythur cyflog cyfartal i bob darparwr er mwyn rhwystro pobl rhag symud o un i'r llall ar gyfer cyfraddau gwell.
- Cydnabod costau *gwirioneddol* darparu gwasanaethau gofal er mwyn galluogi darparwyr i barhau i ddarparu gwasanaethau o safon a denu / cadw staff o safon.
- Mwy o bwyslais ar ddefnyddio darparwyr lleol yn hytrach na chwmnïau cenedlaethol gyda swyddfeydd lleol.
- Rhannu adnoddau rhwng darparwyr, er enghraifft hyfforddi staff.

Ffactorau sefydlogrwydd eraill yn y farchnad

Ystyried safon y farchnad

Mae Sir y Fflint yn defnyddio *Cynnydd i Ddarparwyr* mewn cartrefi gofal, sy'n offer hunanasesu y gall rheolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio eu cynnydd yn cyflawni cymorth wedi'i bersonoli i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae 'Cymorth wedi'i Bersonoli' yn un o nodau allweddol polisi cenedlaethol ac mae'n golygu teilwra cymorth i'r unigolion, a'u galluogi i gael cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl dros eu gwasanaeth, yn hytrach na chefnogi pawb yn yr un ffordd. Mae'r rhaglen wedi'i ehangu i gynnwys gofal cartref a gwasanaethau gofal ychwanegol yn 2020/21.

Yn Sir Ddinbych, mae comisiynwyr wedi cydnabod yr angen i weithio gyda darparwyr gofal cartref i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Gwneir gwaith pellach ar y cyd gyda darparwyr yn y dyfodol.

Yng Ngwynedd, mae comisiynwyr wedi gweithio gyda'u cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd ar brosesau 'Diwydrwydd Dyladwy'. Mae'n rhaid i bob darparwr sy'n gwneud cais i fod yn rhan o fodel cyflawni newydd y Cyngor gyflawni rhai gofynion penodol.

Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Croesewir y ffaith bod y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Cyllid Trawsnewid yn symud i raglen pum mlynedd y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, fodd bynnag rydym yn parhau i weithio drwy'r canllawiau ac effaith y newidiadau. Oherwydd gwerth y cyllid hwn, mae'n hollbwysig bod unrhyw newidiadau i'r meini prawf yn cael eu cyfleu ymlaen llaw er mwyn i Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill ystyried a chynllunio gwasanaethau gyda hyn mewn cof.

Pan fydd angen comisiynu'n uniongyrchol gyda darparwr, mae arfer Caffael presennol wedi bod yn rhwystr yn aml i'r angen i weithredu'n gyflym. Mae prosesau caffael wedi bod yn feichus ac yn anneniadol i rai darparwyr, yn arbennig yn y trydydd sector, sydd yna'n llesteirio'r nifer o gyflenwyr sy'n cyflwyno ceisiadau tendro.

Mae Timau Contractau a Chomisiynu ym mhob Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal preswyl, gofal cartref a darparwyr Byw â Chymorth. Er bod y cyfarfodydd hyn wedi'u cynnal cyn y pandemig, mae eu hamlder wedi cynyddu. Mae'r cymorth a'r rhwydweithio yn adnodd hanfodol i ddarparwyr. Cafodd y cyfarfodydd eu mynychu hefyd gan gydweithwyr o'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a swyddogion BIPBC er mwyn i bartneriaid allu rhoi cyngor a chymorth pan fyddai angen.

Ochr yn ochr â'r cyfarfodydd hyn, sefydlwyd cyfeiriad e-bost penodedig lle gallai darparwyr holi cwestiynau ac ymholiadau ynglŷn â Covid-19 a gellid ymateb iddynt mewn dull amserol.

Roedd y tîm mewn cysylltiad dyddiol dros y ffôn gyda darparwyr i gasglu data, holi ynghylch cyflenwadau PPE, trafod unrhyw faterion a oedd yn codi neu fod yn glust i wrando a rhoi cefnogaeth yn y cyfnod anodd hwn.

Mae Sir Ddinbych yn defnyddio Cyllidebau Cymorth wedi'u Gweinyddu gan Drydydd Parti. Yn yr achos hwn trosglwyddir arian gan yr Awdurdod Lleol yn uniongyrchol i drydydd parti a allai fod yn darparu rhywfaint o ofal a chymorth y person yn uniongyrchol neu ddarparu gwasanaeth cyfrif wedi'i reoli. Caiff yr arian ei wario ar

beth bynnag y cytunir arno yng nghynllun gofal a chymorth yr unigolyn i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau cytunedig. Yn y trefniant hwn trydydd parti sy'n gyfrifol am y gyllideb yn gyfrifol am dalu darparwyr neu wasanaethau a phryniannau unigryw a chyd-gynhyrchu gydag ymarferwyr.

Bydd Sir Ddinbych hefyd yn parhau i gomisiynu rhywfaint o ofal a chymorth tymor hir gan gynnwys gofal cartref a gofal preswyl i'r rhai sydd ei angen.

Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gwybodaeth yn PNA2022 yn datgan bod llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal cartref yn cael anhawster i ddarparu siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn a chefnogi staff i wella eu Cymraeg. Mae angen i hyn gynnwys cyfleoedd i'r rhai sy'n newydd i'r iaith a'r rhai sydd angen meithrin hyder. Mae llawer o sefydliadau yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'w staff, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cyrsiau a gynigir gan y cyngor lleol neu'r bwrdd iechyd.
- Grwpiau siarad Cymraeg amser cinio.
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn cynnal gweithdai i'w cyfoedion di-Gymraeg.

Yn yr Arolwg Darparwyr (Chwef 2022) mae'r darparwyr yn datgan ei bod yn her recriwtio siaradwyr Cymraeg yn eu lleoliad, ac y byddai cymorth i hysbysebu/cyfieithu yn ddefnyddiol i gwmnïau llai.

Mae darparwyr yn ymdrechu'n weithredol i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg, ond ei bod yn anodd cynnal unrhyw ddysgu pan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigon aml (ar lefel bersonol yn ogystal ag i'r sefydliad).

Mae Sir y Fflint yn nodi, fel rhan o'r fframwaith Mwy Na Geiriau, mae'r Cyngor yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn derbyn y Cynnig Gweithredol. Er y manteisiwyd ar hyn ar gyfer rhai asesiadau gwaith cymdeithasol, mae unigolion a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r prinder staff gofal ar hyn o bryd ac nid ydym wedi derbyn ceisiadau i ofal gael ei ddarparu gan ofalwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol iawn o hyn ac ar hyd y pandemig diweddar maent wedi gweld cynnydd yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n ail-afael yn eu sgiliau Cymraeg blaenorol nad ydynt wedi'u defnyddio ers blynyddoedd lawer

o bosibl. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n Sefydliadau Addysg Bellach lleol i ddarparu cyrsiau'r iaith Gymraeg ar bob lefel er mwyn cyflawni anghenion unigol.

Mae Sir Ddinbych yn sicrhau bod preswylwyr yn derbyn y Cynnig Gweithredol pryd bynnag y byddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Mae diffyg capasiti cyffredinol yn y rhwydwaith darparwyr ac mae diffyg argaeledd gwasanaethau gyda siaradwyr Cymraeg yn broblem iddynt. Defnyddir offer defnyddiol megis symbolau Cymraeg ar ffeiliau fel nodiadau atgoffa amserol i staff. Fodd bynnag, mae'r argyfwng recriwtio yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg lleol, er enghraifft Y Bedol.

Cyflwynir y sefyllfa yng Ngwynedd yn nhermau siaradwyr Cymraeg yn y tabl isod.

Mae gan Wynedd weithlu gofal cartref sylweddol sy'n gallu siarad Cymraeg, ac mae cyfran ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae Gwynedd wedi buddsoddi'n helaeth yn hyrwyddo a datblygu sgiliau'r iaith Gymraeg ymhlith staff gofal ac wrth recriwtio staff gofal sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n barod i wella eu sgiliau Cymraeg. Yn nhermau tasgau gofal, mae sgiliau Cymraeg llafar yn bwysicach wrth gyfathrebu â dinasyddion a rhoi gofal yn eu dewis iaith iddynt.

Tabl 16: Staff Gofal sy'n Siarad Cymraeg yn narpariaeth gofal cartref Gwynedd (Ebrill 2020)

Swydd	% sydd wedi cofrestru sy'n 'rhugl' yn y Gymraeg	% sydd wedi cofrestru sydd â 'rhywfaint' o sgiliau'r iaith Gymraeg	% sydd wedi cofrestru nad oes ganddynt unrhyw sgiliau'r iaith Gymraeg
Gweithwyr Gofal Cartref	51.2	23.0	9.8
Rheolwyr Gofal Cartref	56.4	17.9	12.8

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan Gyngor Gwynedd

Cynaliadwyedd y ddarpariaeth

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyflogi Swyddog Cynllunio a Datblygu yn ddiweddar i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol annibynnol i oedolion drwy'r pandemig Covid-19 diweddar, ac i ddod yn hyderus a chydnerth er mwyn cyflawni anghenion cymorth pobl hŷn yn Sir y Fflint i'r dyfodol. Bydd y swyddog yn gweithio'n agos gyda'r sector gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd ac adferiad yn dilyn y pandemig. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gyda chynlluniau cynaliadwyedd ac ymgyrchoedd recriwtio yn fewnol ac ar draws y sector.

Ychydig iawn o ddewis a roddir i bobl mewn gwirionedd. Mae sicrhau unrhyw ofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal eu hunain, ond nid yw'n rhwydd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal.

Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad

Mae gan ddarparwyr gofal mewnol ac annibynnol swyddi gwag sylweddol oherwydd mae gofalwyr presennol yn gadael y sector gofal am lawer o wahanol resymau. Mae hyn yn peri pryder o ran sefydlogrwydd y farchnad, ac yn benodol y gallu i gyflawni gofal, yn benodol mewn ardaloedd anos eu cyrraedd.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth i gyflawni'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal uniongyrchol, bydd hyn yn cael effaith ar gywasgiad tâl a'r gallu i recriwtio / darparu datblygiad gyrfa i rolau uwch. Gallai hyn gael effaith ar sefydlogrwydd y farchnad wrth i'r flwyddyn ariannol nesaf ddechrau.

Mae costau busnes, y tu hwnt i gyflogau hefyd yn cynyddu gyda chwyddiant, ac mae costau tanwydd yn benodol yn cynyddu'n sylweddol. Ym maes Gofal Cartref mae hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar ddengarwch y rôl a hyfywedd ariannol modelau busnes presennol.

Nododd ymarfer ymgynghori gyda darparwyr [mewnol ac allanol] a gynhaliwyd gan Sir y Fflint y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau canlynol i'r farchnad. Rhennir y themâu hyn ar draws y rhanbarth.

Cryfderau

- Perthnasoedd Broceru da gyda darparwyr a chyfathrebu rhagorol rhwng y tîm a'r darparwyr.

- Cymorth gan gyfarfodydd darparwyr gyda chyfarfodydd rhithwir a chynrychiolaeth yr uwch arweinwyr.
- Mae'r comisiynwyr ar ben arall y ffôn i gynnig cymorth a chyngor.
- Mae'r darparwyr yn cydweithio ac nid oes gwrthdaro na chystadleuaeth.
- Mae cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer Unigolion Cyfrifol yn gadarnhaol a defnyddiol er mwyn cael cymorth gan gyfoedion.
- Cydweithio agored – datblygu rhwydwaith cymorth
- Mae cael llyfr agored ar gyllid a chael sgyrsiau onest yn galluogi i benderfyniadau gwybodus gael eu gwneud.
- Mae'r comisiynwyr yn deall y sefyllfa "ar lawr gwlad"

Gwendidau

- Gweinyddu ymatebion i alwadau, er enghraifft, os yw'r gofalwr yn hwyr
- Parhau i ddefnyddio tasg ac amser
- Mae diweithdra yn yr economi gyffredinol yn isel sy'n creu cystadleuaeth am staff, megis swyddi manwerthu tymhorol
- Gall disgwyliadau'r dynasyddion fod yn heriol ar gyfer tasgau y tu hwnt i'r cynllun gofal
- Colli staff i sectorau economaidd eraill, i'r bwrdd iechyd ac i rolau eraill yn y sector gofal cymdeithasol er enghraifft cartrefi gofal / Byw â Chymorth
- Gofalwyr nad ydynt yn gallu defnyddio TG
- Mae angen cefnogaeth well ar ddarparwyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru
- Nid yw'r cyflogau y gallwn eu cynnig i staff yn ddigon cystadleuol ar gyfer y gwaith a wneir mewn gofal cartref

Cyfleoedd

- Mae gofal cymdeithasol ar yr agenda wleidyddol - ni all y rhai sy'n gwneud penderfyniadau anwybyddu gofal cymdeithasol mwyach
- Hyblygrwydd o fewn bandiau amser a thasgau
- Gellir datblygu'r ymgysylltiad â chomisiynwyr a'r rhwydwaith o ddarpariaeth fframwaith
- Mae angen i ddarparwyr ymgysylltu â darpar gyflogeion wyneb yn wyneb a dangos iddynt beth yw'r gwaith
- Dealltwriaeth well o gost rhedeg asiantaeth gofal cartref – edrych ar y ddogfen "Unfair to Care"

- Asesiad realistig o'r cyfrifoldebau yn y rôl ofalu o gymharu â rolau eraill, er enghraifft swyddogion heddlu
- Angen clywed mwy gan y defnyddwyr gwasanaeth a buddiannau'r cymorth hwn
- Hysbysebu rolau drwy gyfryngau niferus, nid dim ond ar-lein, er enghraifft radio, bysiau, hysbysfyrddau.
- Cyfle am fwy o gydweithio gyda'r gwasanaethau iechyd i sicrhau bod gan bobl mewn ysbytai fynediad at therapyddion er mwyn cynorthwyo i'w rhyddhau o'r ysbyty.

Bygythiadau

- Nid yw pobl ifanc yn cael eu denu gan ofal cartref neu ofal yn gyffredinol
- Gweithlu sy'n heneiddio a dim cynllunio olyniaeth
- Mae'r Telerau ac Amodau yn y sector yn wael ar gyfer y math o waith a wneir a'r cyfrifoldebau cysylltiedig
- Nid yw gofal yn cael ei werthfawrogi na'i ystyried yn bwysig o gymharu â sectorau eraill, er enghraifft gwasanaethau brys ac iechyd
- Mae'r fframweithiau cofrestru a chymwysterau yn rhwystr i bobl, yn arbennig y rhai â heriau llythrennedd a rhifedd
- Mae'r sector gofal yn agos at fethu'n llwyr
- Nid yw'r sector Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd gofal cartref
- Mae rôl gofalwyr yn heriol a gofynnir iddynt ymgymryd fwyfwy â thasgau mwy cymhleth – mae angen meithrin perthynas gryfach gyda nyrsio ardal
- Telerau ac amodau gwell mewn rolau gofal Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn arwain at ddad-sefydlogi
- Mae cyfyngiadau Budd-daliadau'r Wladwriaeth yn creu anfantais i weithwyr gofal ac yn creu tlodi mewn gwaith

Gwasanaethau Ataliol

Un flaenoriaeth hirdymor yw parhau i gynorthwyo pobl i adennill eu hannibyniaeth, lleihau dibyniaeth ar y sector gofal statudol. Gwneir hyn drwy ddarparu mynediad effeithiol at wasanaethau presgripsiynau cymdeithasol / trydydd sector drwy'r Un Pwynt Mynediad yn ogystal â rheoli derbyniadau yn effeithiol i sefydlu / rhyddhau gwelyau.

Rhai o'r enghreifftiau Lleol o ddulliau ataliol cymunedol yw:

Cymunedau Oed-gyfeillgar – Mae Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud a chan bwy, er mwyn sicrhau bod Sir y Fflint yn lle da i heneiddio.

Mae prosiect tymor byr i sefydlu prawf cysyniad ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol yn cael ei redeg hefyd gan FLVC ar ran y Bwrdd Iechyd.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a BIPBC yn comisiynu gwasanaeth seibiant gofalwyr i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth eistedd a gofal cartref yn Sir y Fflint. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Crossroads. Mae'r seibiant ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sydd â rolau gofalu heriol iawn, ac mae hyn yn cynnwys gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia. Cynigir y gwasanaeth hwn am gyfnod o 12 wythnos ac yna cyfeirir pobl at SPOA er mwyn archwilio opsiynau seibiant parhaus.

Llyw-wyr Cymunedol - Defnyddir Presgripsiynau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych gan Y Groes Goch Brydeinig ac Age Connects. Mae'r Llyw-wyr Cymunedol yn rhan o'r pedwar Tîm Adnoddau Cymunedol. Maent yn defnyddio 'Pwyntiau Siarad' yn Llyfrgelloedd Sir Ddinbych fel lle i bobl gwrdd, er na fu hyn yn bosibl yn ystod y pandemig Covid-19 a darparwyd llawer o'r cymorth dros y ffôn yn ystod y cyfnod hwn. Maent yn ffynhonnell wybodaeth gyfredol, gywir ac amserol ynghylch yr ystod o gymorth sydd ar gael yn y gymuned. Maent yn hollbwysig er mwyn cysylltu pobl, lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Yn ystod 2020-21, fe wnaeth y Llyw-wyr Cymunedol 2,424 o drigolion Sir Ddinbych.

Mae Sir Ddinbych yn ceisio comisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr sy'n:

- Cynnal sgyrsiau ystyrlon gyda phobl
- Cysylltu pobl gyda'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Gweithio gyda phobl i gael rheolaeth dros eu bywydau
- Adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl i adnabod datrysiadau unigol

Mae Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynharach, cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pobl yn ganolog yn y penderfyniadau a wneir ynghylch y math o wasanaethau cymorth cymunedol maent yn eu cael. I lawer o bobl, bydd hyn yn golygu y gellir rhoi cyllideb cymorth iddynt reoli eu gofal eu hunain a chymorth i gyflawni canlyniadau cytunedig. Gallai hyn fod ar ffurf Taliad Uniongyrchol, Cyllideb

Cymorth a Reolir gan Drydydd Parti neu Gyllideb Cymorth a Reolir gan Awdurdod Lleol ar gyfer yr unigolyn. Bydd cyllidebau cymorth yn gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol llai cyfyngol, ac un sy'n cefnogi arloesedd. Yn Sir Ddinbych gwneir y gwaith canlynol.

- Sied Dynion – Mae Cymdeithas genedlaethol Siediau Dynion y DU yn darparu lle i ddynion rannu'r offer a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithio ar brosiectau o'u dewis hwy ac ar eu cyflymder eu hunain ac mewn lleoliad diogel, cyfeillgar a chynhwysol. Maent yn lleoliadau i rannu sgiliau a dysgu gweithgareddau unigol a phrosiectau cymunedol, o ddiben, cyflawniad a rhyngweithio cymdeithasol. Mae sied dynion lleol yn gweithredu yn Ninbych.

- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn cynnig 'Gofal Gwalia' sy'n cyflawni rolau'r gofalwr er mwyn iddynt allu cael rhywfaint o seibiant. Gall hyn fod yn rheolaidd neu ar sail ad hoc a chodir tâl am y gwasanaeth hwn.

- Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW) – Mae ACNEW yn rhan o raglenni cenedlaethol Age Connects Cymru, menter gymdeithasol sy'n darparu cymorth i bobl 50+ oed. Yn lleol, mae'r gwasanaethau'n darparu cymorth tai tymor byr, torri ewinedd traed, gwasanaeth glanhau a siopa a gweithgareddau cymdeithasol.
- Addysg a Dysgu – Mae llawer o brosiectau lleol yn atgyfeirio pobl at Brifysgol y Drydedd Oes (U3A). Mae U3A yn darparu cyfleoedd i bobl sydd wedi ymddeol ac sydd wedi lled-ymddeol i ddod at ei gilydd a dysgu, nid ar gyfer cymwysterau, ond 'am ei wobr ei hun'.
- DEWIS – Mae Dewis Cymru yn wefan sy'n ceisio helpu pobl gyda'u llesiant, naill ai eu llesiant eu hunain neu lesiant aelod o'u teulu neu ffrind. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth a all helpu pobl i feddwl beth sy'n bwysig iddyn nhw ac mae'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau a all ddarparu cymorth. Gall sefydliadau ar draws Cymru lwytho eu gwybodaeth eu hunain i'r safle.

- Asiantau Cymunedol – yn Wrecsam mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan Gynghorau Cymuned a'i reoli ganddynt Gall Asiantau Cymunedol ddefnyddio gwasanaethau'r trydydd sector o amgylch y sir i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Mae meddygon teulu yn cysylltu pobl â'r Asiantau Cymunedol.

Yn Wrecsam maent yn cefnogi gwasanaethau canlynol y trydydd sector.

- NEWCIS: Gwybodaeth, cyngor, cymorth a gwasanaethau seibiant i ofalwyr

- Cymorth Alzheimer's: Y brif thema yng nghynllun gweithredu dementia Llywodraeth Cymru yw galluogi pobl sy'n byw gyda dementia (gan gynnwys dementia cynnar) i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau i fyw gartref pan fydd hynny'n bosibl, gan osgoi derbyniadau diangen yn yr ysbyty neu ofal preswyl ac oedi pan fydd rhywun yn barod i gael eu rhyddhau o ofal neu'r ysbyty.
- Catalydd Cymunedol: Sefydlu a chefnogi cyfeirlyfr ar-lein o fentrau gofal cymdeithasol yn Wrecsam er mwyn galluogi mynediad haws at wybodaeth i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Darparu gwerth 6 diwrnod o gymorth i ddatblygu sefydliadau'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn datblygu darpariaeth gofal cartref.
- Cymorth golwg: Diben y gwasanaeth yw galluogi oedolion sy'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg i gyflawni eu gweithgareddau dyddiol gyda hyder, drwy ddarparu hyfforddiant proffesiynol mewn sgiliau byw'n annibynnol newydd a/neu addasol, yn ogystal â chofrestru unigolion yr aseswyd eu bod wedi colli eu golwg, nam difrifol ar y golwg, fel yr argymhellwyd gan Offthalmolegydd ymgynghorol drwy'r broses Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI). Bydd y Darparwr yn meddu ar nifer fach o ddarnau o offer arbenigol y gellir eu benthyca i unigolion i'w cefnogi gyda'u nam gweledol.
- Rhwydwaith Cymorth Pobl Fyddar: Diben y gwasanaeth hwn yw darparu cymorth ymarferol, gwybodaeth a chyngor i blant ac oedolion sy'n fyddar (yn aelod o'r Gymuned Ddiwylliannol Fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf), sy'n colli eu clyw neu sy'n Fyddar Ddall (nam deuol ar y synhwyrau). Yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol, disgwylir i'r darparwr llwyddiannus atgyfeirio unigolion at wasanaethau eraill a allai gynorthwyo'r unigolyn. Disgwylir i'r darparwr feddu ar nifer fach o ddarnau o offer arbenigol y gellir eu benthyca i unigolion i'w cefnogi gyda'u hanghenion cyfathrebu / colli clyw.
- Delta (Teleofal): Mae Teleofal yn wasanaeth a all helpu i'ch cadw'n ddiogel yn eich cartref a'ch galluogi i alw am gymorth mewn argyfwng. Gall Teleofal eich helpu i fyw'n annibynnol yn eich cartref, gan ddarparu tawelwch meddwl i chi y bydd rhywun yn cael eu hysbysu'n awtomatig os bydd angen cymorth arnoch neu os bydd argyfwng.
- Y Groes Goch Brydeinig: Gweithiwr Cyswllt y Trydydd Sector a ddarperir i weithio gyda Phwynt Mynediad Unigol Wrecsam i sicrhau bod gwybodaeth am ddarpariaeth y trydydd sector ar gael yn gyfleus i weithwyr proffesiynol perthnasol. Cefnogi dinasyddion Wrecsam i gael mynediad at fathau anstatudol

o gymorth, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'w galluogi i gynnal eu hannibyniaeth ac osgoi cynnydd mewn angen.

- Hafal (partneriaeth gyda'r gwasanaethau tai): Llety â Chymorth a chymorth lle bo'r angen i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Adferiad: Llety â Chymorth a chymorth lle bo'r angen i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl
- Cerrig Camu: Cwnsela, cymorth a gwaith grŵp arbenigol unigol ar gyfer goroeswyr (oedolion) cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys cymorth cwnsela i unigolion cyn, yn ystod ac ar ôl achos llys. Mae hwn yn faes cwnsela arbenigol a bwriedir iddo gyflawni anghenion yr unigolyn/unigolion, gydag ymrwymiad i gefnogi'r unigolion cyhyd ag y bydd angen, gan gydnabod bod llawer o bobl yn agored iawn i niwed ac y gallent hunan-niweidio neu gael teimladau hunanladdol ar adegau.

Ystyriaethau eraill sy'n effeithio ar y farchnad

Gwerth cymdeithasol

Mae'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 yn nodi: "Cyd-gynhyrchu a gwerth cymdeithasol: Wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn mae'n rhaid ystyried barn y boblogaeth. Dylai fod gan bobl hŷn lais i ddylanwadu ar y gwasanaethau y gallant eu defnyddio. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi papur sy'n esbonio sut y gellir comisiynu gwasanaethau, fel gofal cartref, drwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r ddarpariaeth ac yn canolbwyntio ar les yn ogystal ag unrhyw angen brys." (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae Sir y Fflint wedi symud at fodelau cyflawni Micro-ofal ac mae ganddynt raglen beilot i fod yn rhan o'r cynnig Gwasanaethau Cymdeithasol parhaus. Er mwyn cyflawni'r galw cynyddol am ofal, sefydlwyd y Prosiect peilot Micro-ofal i ehangu'r cyflenwad o ofal a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ar draws Sir y Fflint. Mae mentrau micro-ofal yn fusnesau bach sy'n amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau sy'n cyflogi 5 o bobl sy'n cynnig gofal a gwasanaethau cymorth hyblyg ac wedi'u personoli i bobl sy'n agored i niwed, ac sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol. Y nod yw annog pobl i ddod yn ficro-ofalwyr sydd â:

- Diddordeb mewn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn ond nad oes ganddynt unrhyw brofiad o bosibl
- Yn gweithio yn y sector gofal yn awr ond sydd â diddordeb mewn bod yn fos eu hunain
- Yn cefnogi pobl yn weithredol yn eu cymunedau lleol
- Eisiau gwneud rhywbeth sy'n cynorthwyo eraill ac sy'n gwneud gwahaniaeth.

Mae'r tîm Micro-ofal yn gweithio gydag unigolion i:

- Eu cefnogi i ddatblygu eu busnes neu syniad
- Darparu gwybodaeth am hyfforddiant, cyllid a mathau eraill o gymorth ac adnoddau sydd ar gael
- Cefnogi unigolion i ddatblygu a chyflawni gwasanaeth o safon yn unol â deddfwriaethau a rheoliadau presennol Llywodraeth Cymru
- Darparu cysylltiadau i rwydwaith o ddarparwyr micro-ofal eraill er mwyn cefnogi ei gilydd

O fis Chwefror 2022, roedd 27 o ficro-ofalwyr yn masnachu yn Sir y Fflint. Mae Tîm Micro-Ofal Sir y Fflint hefyd wedi creu tudalennau gwe micro-ofal i'w defnyddio gan y micro-ofalwyr a'r bobl sy'n chwilio am ficro-ofalwyr. Mae'n darparu gwybodaeth allweddol i bobl sy'n ystyried gweithio fel micro-ofalwr. Mae hefyd yn darparu esboniadau i'r cyhoedd ynghylch micro-ofal ac yn rhestru micro-ofalwyr a'u manylion cyswllt. Bydd hyn yn cefnogi ein nod o ddatblygu cynaliadwyedd parhaus yn y prosiect. Mae'r wefan ar gael yn www.careatflintshire.co.uk Mae'r rhaglen hon yn symud allan o'r cam 'peilot' yn awr ac mae wedi'i hymgorffori yn ein cynnig.

Hefyd yn Sir y Fflint, dechreuwyd ar y gwaith o **recriwtio gwirfoddolwyr** ddechrau mis Ebrill 2021, a ysgogwyd gan ein cydweithwyr yng Nghyngor Gwirfoddol Sir y Fflint (FLVC). Mae Tîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint, gyda chefnogaeth FLVC, wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol i wirfoddolwyr, ynghylch diogelu, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, cydsyniad, diogelu data, urddas, egwyddorion gofal a chyfrinachedd. Erbyn diwedd Ebrill 2020, yn dilyn yr hyfforddiant a'r gwiriadau DBS gofynnol, roedd grŵp o 64 o wirfoddolwyr ar gael i'w lleoli mewn cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y sir.

Mae Sir y Fflint yn elwa o bresenoldeb cadarn a rhwydweithiau'r trydydd sector ac mae perthynas gadarnhaol rhwng y Cyngor a Chyngor Gwirfoddol Sir y Fflint (FLVC). Mae'r Tîm Llesiant yn FLVC a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) yn cefnogi'r trydydd sector a'u partneriaid statudol mewn nifer o ffyrdd:

- Hyrwyddo sefydliadau, gwasanaethau a gweithgareddau'r trydydd sector i bartneriaid statudol
- Cynrychioli'r trydydd sector mewn grwpiau cynllunio a phartneriaeth strategol
- Ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymgynghoriadau ac ymgysylltiadau ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Hyrwyddo gwaith partneriaeth o fewn y trydydd sector ac ar draws sectorau
- Cyfeirio at neu ddarparu cymorth a chyllid busnes
- Darparu hyfforddiant i sefydliadau er mwyn gwella eu capasiti a'u heffeithiolrwydd
- Esbonio natur gymhleth comisiynu a chaffael
- Helpu i sicrhau bod y gwasanaethau yn gyfredol gyda'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf, a'ch tywys drwy'r newidiadau i strwythurau'r GIG ac awdurdodau lleol
- Helpu i ddechrau gwasanaethau neu grwpiau newydd
- Cynorthwyo'r trydydd sector yn Sir y Fflint a Wrecsam i gael mynediad at wasanaethau FLVC ac AVOW.

Comisiynir Catalyddion Cymunedol fel prosiect drwy Gronfa Trawsnewid Cymunedol Llywodraeth Cymru yn Wrecsam. Nod y prosiect yw cefnogi datblygiad micro-fentrau i gefnogi'r cynnig gofal cartref yn Wrecsam. Ni fwriedir i'r mentrau hyn ddisodli'r cynnig gan asiantau Gofal Cartref ond yn hytrach eu bwriad yw cefnogi sefydlogrwydd a chaniatáu dewis a rheolaeth i ddinasyddion. Mae'n cefnogi'r opsiynau taliad uniongyrchol i ddinasyddion. Mae gennym 37 o ficro-fentrau ar hyn o bryd sydd wedi cwblhau'r safonau gwneud yn dda ac sydd ar ein cofrestr o ddarparwyr yn Wrecsam.

Mae Gwynedd yn datgan bod 44% o ofal cartref yn cael ei ddarparu'n fewnol heddiw. Mae yna nifer o gwmnïau bach annibynnol sy'n lleol i Wynedd a rhai cwmnïau mwy. Nid oes gan y farchnad yng Ngwynedd lawer o gydweithredwyr a mentrau cymdeithasol, ond maent yn datblygu. Mae darparwyr y trydydd sector yn y sir ond nid yw'n bresenoldeb cyson yr hoffai'r awdurdod lleol ei weld ym mhob rhan

o Wynedd. Mae Comisiynwyr yn cael anhawster mawr i sicrhau darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae gan rai ardaloedd rwydwaith cymunedol anffurfiol cryf ar waith.

Mae Gwynedd yn cynnig datblygu Mentrau Cymdeithasol drwy hybiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr elfennau llesiant a hefyd datblygu darpariaeth asesu offer arbenigol – tŷ technegol. Mae gan Wynedd 15 o Ddarparwyr y Trydydd Sector sy'n gweithredu yng Ngwynedd.

Fel yr esboniwyd uchod, ychydig iawn o ddewis o ddarpariaeth gofal cartref sydd gan bobl yng Ngwynedd. Mae sicrhau gofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis trefnu eu gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal. Mae prosiect wedi dechrau gyda 'Chatalyddion Cymunedol', i annog pobl i sefydlu cwmnïau bach i ddarparu gofal, a'r gobaith yw y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa.

Taliadau uniongyrchol

Mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo Taliad Uniongyrchol trwy amlygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n adlewyrchu llais, dewis a rheolaeth trwy rymuso unigolion i fod mor annibynnol â phosibl yn eu cymuned leol.

Rhai o fanteision dewis Taliadau Uniongyrchol yw:

- Mae unigolion yn dewis pwy sy'n darparu eu gofal a chymorth
- Mae unigolion yn dewis pryd y darperir eu gofal i weddu i'w bywyd bob dydd
- Mae taliadau uniongyrchol yn hyblyg i fodloni gofynion unigol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i ddatblygu'r gwasanaeth drwy ymgynghori'n rheolaidd ag arbenigwyr taliadau uniongyrchol (dinasyddion) ac i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas.

Mae ein gweledigaeth a'n ffordd o weithredu newid wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ac mae ei lwyddiant wedi arwain at 243 o unigolion yn cymryd rheolaeth o'u pecyn gofal ac yn dewis derbyn cymorth trwy daliadau uniongyrchol ar yr ynys o gymharu â 35 o unigolion yn 2015.

Bydd Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu a defnyddio Taliadau Uniongyrchol, lle bydd unigolion, neu'r person cyfrifol a ddewisir ganddynt, yn derbyn arian yn uniongyrchol gan y cyngor i ariannu eu hanghenion gofal a chymorth cytunedig yn y ffordd o'u dewis. Gallai hyn gynnwys recriwtio cynorthwyydd personol neu dalu am wasanaethau asiantaeth neu sefydliad o'u dewis.

Ar hyn o bryd nid oes digon o ddarparwyr i roi dewis i bobl neu gyflwyno elfen o gystadleuaeth. Mae Catalyddion Cymunedol yn cynorthwyo darparwyr lleol bach (Micro ddarparwyr) i lansio gwasanaethau ond ychydig iawn ohonynt sy'n barod i ddarparu gofal personol, a dyna lle mae'r bwlch mwyaf yn bodoli. Er y bydd gostyngiad o bosibl yn y gofal a'r cymorth sydd ei angen ar unigolion oherwydd ein hymyriadau a'n gwaith ataliol cynharach, rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn y nifer o bobl ag anghenion mwy cymhleth, er enghraifft dementia. Mae Sir Ddinbych wedi recriwtio i ddwy swydd cynghorwyr byw'n annibynnol. Rhan o'u rôl yw cydgysylltu pethau a chynnig cyngor cyson a defnyddiol i deuluoedd, er enghraifft ynghylch Taliadau Uniongyrchol, Micro ddarparwyr a'r mathau eraill o gymorth sydd ar gael i ddinasyddion a gofalwyr.

Yn Sir y Fflint mae Taliadau Uniongyrchol yn ddull pwysig i bobl allu arfer dewis, llais a rheolaeth a phenderfynu sut i gyflawni eu hanghenion ar gyfer gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. Yn Sir y Fflint, mae'r dulliau gweithredu yn canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau, gan geisio galluogi dinasyddion i gynnal ymreolaeth dros eu bywyd, eu cefnogaeth, eu hunan benderfyniad a'u hymreolaeth yn ogystal â defnydd effeithlon o adnoddau.

Yn y blynyddoedd diweddar mae Gwasanaethau Cymorth Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi'u trawsnewid yn llwyr ac maent bellach yn darparu gwasanaeth mwy cyfannol sy'n fuddiol i Ddinasyddion, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid y trydydd sector Sir y Fflint. Rhai o fanteision allweddol y gwasanaeth yw:

- Llawer mwy o reolaeth dros y gwasanaeth a sut mae'n cyflawni blaenoriaethau'r adran.
- Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â thimau gwaith cymdeithasol i ymgorffori'r arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Systemau a rennir, dulliau cyfathrebu gwell a mynediad gwell at y gwasanaeth.

- Proses Atgyfeirio sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr hyn i'w gyflawni ac sy'n cefnogi cydweithrediad gyda'r unigolyn i fod yn berchen ar y canlyniad a datblygu datrysiadau pwrpasol.
- Mewn sefyllfa well i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector.
- Ymreolaeth i ddatblygu, profi ac ymgorffori arloesedd yn unol ag uchelgeisiau a blaenoriaethau'r adran.
- Dull llawer mwy cyfannol, sy'n canolbwyntio ar anghenion y dinasyddion yn yr achos cyntaf, ond hefyd anghenion ymarferwyr, cymunedau, partneriaid ac yn y blaen.
- Ystyriaeth o'r farchnad Cynorthwywyr Personol yn nhermau safonau, ansawdd, hyfforddiant a chyfleoedd i wneud cynnydd.
- Cymorth sy'n gymesur. Yn bwysicaf, nid ydym eisiau cefnogi pobl yn ormodol, ond yn hytrach eu galluogi i reoli eu trefniadau eu hunain.

Yn ystod Chwarter 2 (Gorffennaf i fis Medi) derbyniodd 498 o bobl Daliad Uniongyrchol yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynrychioli'r nifer fwyaf o dderbynwyr y pen o'r boblogaeth mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Taliadau Uniongyrchol yn cynrychioli 39% o'r gwasanaethau a ddarperir yn y cartref.

Tabl 17: Taliadau uniongyrchol Sir y Fflint yn ôl categori Ch2 2021/22

Categori Gwasanaeth	Nifer y taliadau uniongyrchol
Anableddau dysgu	169
Nam corfforol / ar y synhwyrau	104
Plant ag anableddau	78
Pobl hŷn	65
Gwasanaethau plant	49
Iechyd meddwl	24
Oedolion agored i niwed	9
Cyfanswm	498

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Gan weithio mewn partneriaeth â chwmni ffilm lleol (Follow Films) Mae derbynwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi cael cymorth i adrodd straeon unigryw o'u

bywydau a sytTaliadau Uniongyrchol Sir y Fflint i adrodd eu hanesion unigryw o'u bywydau a sut mae taliadau uniongyrchol wedi eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a phrofiadau bywyd gwell. Mae effaith y ffilmiau hyn a'r adborth iddynt wedi bod yn arwyddocaol ac mae'r ffilmiau yn cael eu defnyddio yn awr gan awdurdodau lleol a sefydliadau ymhell ac agos.

Y Gweithlu

Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth o Weithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru, mae'r sector o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i:

- Newidiadau i ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Fframwaith cymhwyster newydd
- Strwythurau cyflog cystadleuol gyda sectorau eraill
- Cystadleuaeth gan sectorau eraill

Mae yna flaenoriaeth frys i sicrhau bod gweithlu digonol ar gyfer cyflawni gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol. Mae recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a gweithwyr gofal uniongyrchol yn her benodol erbyn hyn ar draws Gogledd Cymru.

Mae Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru yn profi cyfnod o newidiadau digynsail, lle mae angen iddynt gyflawni gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol, gyda phwyslais ar atal, diogelu, ymyrryd, gweithio mewn partneriaeth a gweithio integredig, cyd-gynhyrchu a grymuso, sy'n galw am bwyslais gwahanol ar sgiliau a hyfforddi'r gweithlu.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu ar y materion sy'n gysylltiedig â recriwtio a dethol yn y gweithlu Gofal Cartref. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil ar y 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a dethol gweithwyr gofal cartref ac i'r graddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref' (Atkinson, Crozier a Lewis, 2016). Roedd gwaith ymchwil gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion yn ceisio nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl i 'ddewis a pharhau i weithio fel gweithwyr gofal cartref'.

Mae yna tua 17,000 aelod o staff gofal cartref sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal cartref sydd wedi'u comisiynu yng Nghymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a). Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Gweithlu Gofal Cartref (Llywodraeth Cymru, 2016) yn argymell bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn derbyn cydnabyddiaeth fel gweithwyr proffesiynol medrus. Mae'n rhaid herio'r ddelwedd negyddol o'r sector ac annog pobl i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Y prif ffactorau a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad hwn oedd:

- Cyflogau isel
- Pwysau gwaith
- Oriau anghymdeithasol
- Telerau ac amodau gwael
- Contractau 'dim orau' neu 'oriau heb eu gwarantu' sy'n atal pobl rhag ymuno â'r sector, am nad oedd unrhyw oriau wedi'u gwarantu
- Nid yw amser rhai ymweliadau yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn
- Diffyg hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa
- Yn cael ei ystyried fel swydd statws isel o gymharu â gofal iechyd

Mae Awdurdodau Lleol wedi ehangu eu Rhaglenni Carefirst a rhaglenni eraill Cymorth i Gyflogeion i'r gweithlu allanol [nid yr awdurdod lleol]. Mae Rhaglenni Carefirst/Cymorth i Gyflogeion yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ar-lein neu drwy'r rhif rhadffôn. Mae'r gwasanaeth am ddim i bob cyflogai allu cael mynediad ato pryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Gellir gwella'r gofal a ddarperir gan ofalwyr cartref i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl drwy sicrhau bod staff yn cael eu hannog i weithio yn y maes y maent yn fwyaf galluog ynddo. Mae angen hyfforddiant arbenigol ac amser ychwanegol i gwblhau tasgau ar y rhai sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Mae yna ddiffyg gweithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi mewn dementia, a gallai'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn. Mae comisiynwyr yn awyddus i sicrhau bod yr asiantaethau a gyflogir ganddynt i ddarparu gofal dementia yn cyflawni eu rhwymedigaethau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y

proffesiwn er mwyn denu staff o safon uchel. (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae Gwynedd yn datgan bod potensial i addasu rolau / tasgau o fewn eu cynlluniau gofal cartref ond bod angen cymorth gan ddarparwyr i'w gweithredu. Mae staffio yn broblem fawr ar hyn o bryd i ofalwyr gofal cartref a chartrefi gofal.

Yn Sir y Fflint, mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio hefyd gyda Mind Gogledd Ddwyrain Cymru i ddarparu cymorth ychwanegol i weithwyr gofal cymdeithasol. Roedd gwybodaeth, therapïau siarad a gweithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi llesiant yn ystod y cyfnod anodd hwn ar gael.

Mae darparwyr yn Sir y Fflint wedi datgan ei bod yn anodd defnyddio ffair swyddi Cymru Gyfan a bod y TG yn drwsgl, yn arbennig os nad oes gennych unrhyw gefnogaeth TG.

Mae Sir y Fflint wedi gweithio mewn partneriaeth â Dinasyddion i gynllunio a gweithredu llwyfan unigryw sy'n cefnogi cyflogwyr taliadau uniongyrchol a Chynorthwywyr Personol. Mae Porth Cymhorthydd Personol Sir y Fflint yn galluogi cyflogwyr taliadau uniongyrchol i chwilio am Gymorthyddion Personol sydd ar gael yn eu hardal eu hunain ac i Gymorthyddion Personol hyrwyddo eu hunain a'u hargaeledd i weithio. Mae Cymorthyddion Personol yn cwblhau proffil i ddisgrifio eu hunain, eu profiad, eu gallu ac yn y blaen a gall darpar gyflogwyr taliadau uniongyrchol chwilio drwy'r gronfa ddata ac ymgysylltu â'r bobl maent yn credu y gallent helpu i gyflawni eu hanghenion a/neu gyflawni canlyniadau llesiant personol. Yn ddiweddar maent wedi ychwanegu tudalen swyddi gwag sy'n galluogi dinasyddion i bostio eu gofynion h.y. yr anghenion/canlyniadau i'w cyflawni, gan wneud y system yn broses ddwy ffordd.

Mae cynllun taliadau uniongyrchol Sir y Fflint wedi mynd ati'n fwriadol i newid y cymorth sydd ar gael ar gyfer y gweithlu arwyddocaol hwn, ond sydd weithiau'n ddatgysylltiedig. Rhai o'r mentrau hyd yma yw:

- Cydgysylltydd Cymorthyddion Personol yn ymgysylltu â'r gweithlu. Cymorth bugeiliol ar gyfer Cymorthyddion Personol sy'n gweithio mewn swyddi cymhleth/ynysedig yn cael ei ymgorffori yn y rôl.

- Datblygu a gweithredu Cod Ymddygiad Cymorthyddion Personol. Mae hyn wedi helpu'r Cymorthyddion Personol i ddeall eu rôl, eu swyddogaethau a beth yw'r disgwyliadau ohonynt.
- Mae Tystysgrif Sefydlu Cymorthyddion Personol Sir y Fflint wedi'i datblygu ar sail 7 modiwl craidd ac sydd wedi'i chynllunio'n benodol o amgylch y rôl Cymorthyddion Personol. Ers ei chyflwyno, mae 11 CP wedi cwblhau eu tystysgrif ac mae 35 arall yn gweithio tuag at y dyfarniad. Ar gyfer CP sydd wedi cofrestru ar y cynllun, mae yna 50 o fodiwlau hyfforddiant pellach y gallant gael mynediad atynt yn eu hamser eu hunain. Dyma'r fenter gyntaf o'i bath ac rydym yn trafod potensial hyn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer dull gweithredu Cenedlaethol.
- Datblygwyd Porth Cymorthyddion Personol i helpu cyflogwyr taliadau uniongyrchol i recriwtio ac i hyrwyddo cyfleoedd gwaith i ddarpar CP.

Mae recriwtio staff gofal a chymorth wedi bod yn anodd yn hanesyddol oherwydd y gronfa fach o weithwyr yn y maes, diffyg ymwybyddiaeth neu gydnabyddiaeth o'r rolau a'r risg o ddad-sefydlogi'r farchnad breifat. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'n dulliau recriwtio a lansiad mentrau newydd sy'n cynnwys yr ymgyrch Gofalwn Cymru a'r gwaith recriwtio ar sail gwerthoedd, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymgeiswyr newydd ac ymgeiswyr sy'n dychwelyd i'r proffesiwn.

5. Gwasanaethau preswyl (plant)

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal preswyl i blant a phobl ifanc. At ddibenion yr asesiad hwn, mae'r bennod yn cynnwys rhai rhwng 0 ac 18 oed yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys am wasanaethau nes eu bod yn 25 oed, megis pobl anabl a'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae gwasanaethau preswyl yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal (Plant) - gofal mewn cartref â staff cyflogedig
- Llety Diogel - lle diogel a saff
- Gwasanaethau Preswyl Teulu - llety ble mae rhieni a phlant yn aros gyda'i gilydd i gael eu hasesu / cael gofal


Mae penodau ar wahân ar wasanaethau maethu a mabwysiadu.

Trosolwg o'r boblogaeth

Rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer y plant

Yn 2020, roedd tua 123,700 o blant rhwng 0 a 15 oed yng Ngogledd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021b). Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd yn nifer y plant rhwng 2015 a 2020 ar draws Gogledd Cymru neu ym mhob sir. Amcangyfrifir y bydd nifer y plant yn gostwng 7% yng Ngogledd Cymru yn ystod y 15 mlynedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r lefel yn amrywio ar gyfer pob awdurdod lleol o ostyngiad o 2% yng Ngwynedd i 12% yn Wrecsam, fel y dangosir yn y siart isod. Mae hwn yn batrwm cenedlaethol, ac amcangyfrifir y bydd gostyngiad o 5% yng Nghymru gyfan.

Siart 1: Amcanestyniadau poblogaeth, plant 15 oed ac iau (seiliedig ar 2018)



Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2018 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Mae nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth wedi cynyddu

Yn 2020, roedd bron i 2,900 o blant yn cael gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn 2,300 i bob 100,000 o blant yn y boblogaeth, sydd ychydig is na'r gyfradd i Gymru gyfan, sef 2,550 i bob 100,000 o blant yn y boblogaeth. Mae'r niferoedd yn amrywio ar draws Gogledd Cymru a thros amser ac nid oes patrwm clir.

Yn 2018-19 roedd 575 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Ngogledd Cymru. Er bod y niferoedd yn amrywio o yn flwyddyn i'r llall ar gyfer pob awdurdod lleol, mae'r lefel wedi parhau'n debyg yn gyffredinol dros Ogledd Cymru, gyda gostyngiad bychan o 3% (15 o blant). Oherwydd bod y niferoedd mor fach, nid yw'n bosibl dynodi patrymau clir oherwydd, er enghraifft, gallai newid dramatig o un flwyddyn i'r llall ddigwydd oherwydd bod un teulu wedi symud i ardal neu o ardal.

Nid oes disgwyl i nifer y plant sy'n derbyn gofal barhau i gynyddu

Er bod y ffigurau cyffredinol ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi dangos cynnydd cyson o un flwyddyn i'r llall hyd yma, ni ddisgwylir i hyn barhau yn y dyfodol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

Roedd plant sydd wedi profi gofal yn fwy diamddiffyn yn ystod y pandemig

Amlygodd yr Adolygiad Cyflym o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2020) effaith y pandemig ar blant sydd wedi profi gofal, ac roedd yn cynnwys unigedd ac unigrwydd a tharfu ar fynediad at wasanaethau. Yng Ngogledd Cymru, cafwyd gostyngiad cychwynnol mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant ond wedyn, cododd y cyfraddau yn ôl i'r lefel ddisgwyliedig. Cynhaliwyd mwy o ymweliadau monitro i aelwydydd ble roedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant - ymweliadau wythnosol yn hytrach na'r amserlen 10 diwrnod.

Mae cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o'r newydd

Yn 2021 roedd 1,470 o blant a phobl ifanc lleol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol Gogledd Cymru, sy'n debyg i'r darlun cenedlaethol yng Nghymru gyfan. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 350 yn ystod yr amser a ddangosir yn y tabl isod. Mai llai o blant yn derbyn gofal fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru na gweddill Cymru, ond mae amrywiadau sylweddol ar draws y rhanbarth, o 800 yn Sir y Fflint i 1,300 yn Wrecsam. Mae'n bwysig nodi bod y nifer yn newid yn sydyn ar hyn o bryd gyda chynnydd sylweddol mewn pobl ifanc sydd newydd gael llety.

Tabl 18: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o blant sy'n derbyn gofal (dan 18 oed) gan awdurdod lleol, 2017 a 2021

Cyngor lleol	2017 Nifer	2017 Cyfradd	2021 Nifer	2021 Cyfradd	Newid Nifer
Ynys Môn	140	1,039	160	1,214	20
Gwynedd	220	927	280	1,210	65
Conwy	180	829	215	1,015	35
Sir Ddinbych	160	825	180	923	20
Sir y Fflint	210	654	255	795	45
Wrecsam	215	736	375	1,304	160
Gogledd Cymru	1,120	805	1,470	1,063	350
Cymru	5,960	949	7,265	1,153	1,305

Ffynhonnell: StatsCymru

Trosolwg o'r farchnad

Er gwaetha'r ymrwymiad ar y cyd i atal ac ymyrryd yn gynnar, bydd cyfran fach o blant sy'n derbyn gofal angen lleoliadau preswyl bob amser. Yn dibynnu ar anghenion gofal, gall hyn fod mewn:

Cartrefi Gofal Preswyl â staff gofal cyflogedig
Uned Llety Diogel
Uned Breswyl Teulu

Rhoddodd y Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) ddadansoddiad o ddarpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Cymru. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 70 o blant Gogledd Cymru yn byw mewn cartref gofal. Cynyddodd cyfanswm y plant oedd yn byw mewn cartref gofal 133% yng Ngogledd Cymru rhwng 2016 (30 o blant) a 2020 (70 o blant). Mae'r tabl isod yn dangos bod y ffigwr hwn wedi mwy na dyblu i 158 rhwng 2020-2021.

Tabl 19: Ciplun o nifer y bobl ifanc mewn lleoliadau preswyl ar 31 Mawrth 2021.

Sir	Preswyl
Ynys Môn	10
Gwynedd	21
Conwy	37
Sir Ddinbych	20
Sir y Fflint	39
Wrecsam	31
Gogledd Cymru	158

Ffynhonnell: Casglu data awdurdodau lleol

Nodiadau: Mae preswyl yn cynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau preswyl teulu, lleoliadau ysgol preswyl

Cyfran o'r farchnad

Roedd 17 darparwr annibynnol gofal preswyl i blant yn rhedeg 42 o sefydliadau ac yn darparu 180 o leoliadau cofrestredig ('gwely') ar draws Gogledd Cymru.

Oherwydd y ddarpariaeth gyfyngedig o leoliadau mewnol yn y rhanbarth, mae'n rhaid i awdurdodau dalu i sefydliadau allanol a elwir yn 'ddarparwyr'. Mae mwy o wybodaeth ar y gwaith i gynyddu capasiti preswyl mewnol yn yr adran ar y Rhaglen Drawsnewid i Blant.

Llety diogel

Nid oes darpariaeth llety diogel yng Ngogledd Cymru. Mae cartref diogel cenedlaethol, pwrpasol i blant yn Ne Cymru. Mae lle i 18 o blant a phobl ifanc o bob rhyw rhwng 12 a 17 oed yn Hillside.

Rhoddir plant mewn llety diogel drwy orchymyn llys ac mae'r niferoedd yn isel iawn, rhwng 0 a 2 fesul awdurdod bob blwyddyn heb unrhyw batrwm clir. Nid oes cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth hon yng Ngogledd Cymru.

Trafodir darpariaeth cam i lawr o lety diogel a lleoliadau lles diogel yn yr adran llety brys.

Digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad

Mae lleoliad yn y sir neu gerllaw yn bwysig i blant a bobl ifanc gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol sefydledig gyda theulu (rhieni, brodyr a chwiorydd ac eraill) a'r ysgol – sy'n eu helpu i ddatblygu eu hunaniaeth ac aeddfedrwydd emosiynol (NICE, 2021).

Mae'r tabl isod yn dangos mai yng Nghonwy a Gwynedd mae'r gyfradd uchaf o leoliadau y tu allan i Ogledd Cymru. Mae dros hanner y lleoliadau preswyl ar draws y rhanbarth y tu allan i Ogledd Cymru.

Tabl 20: Nifer y lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir

Sir	Cyfanswm y lleoliadau	Lleoliadau y tu allan i Ogledd Cymru	% y lleoliadau y tu allan i Ogledd Cymru
Ynys Môn	16	5	31%
Gwynedd	16	10	63%
Conwy	16	12	75%
Sir Ddinbych	10	5	50%
Sir y Fflint	31	17	55%
Wrecsam	18	8	44%
Gogledd Cymru	107	57	53%

Ffynhonnell: Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019)

Mae prinder darparwyr preswyl lleol

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adroddiad oedd yn archwilio'r achos dros ail-gydbwyso darpariaeth gofal cymdeithasol mewn Gwasanaethau Plant (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2020). Nododd yr adroddiad anghydbwysedd grym sylweddol yn y farchnad gofal preswyl plant, sy'n effeithio ar leoliadau a dewis, y gallu i wneud y dewis gorau ar gyfer anghenion plentyn, y llwyth gwaith a'r canlyniadau i blant. Heb ail-gydbwyso, bydd dibyniaeth barhaus ar ddarparwyr preifat, mewn rhai achosion gyda chostau uchel ac amheuaeth o werth

am arian, mwy o ansefydlogrwydd a chanlyniadau gwael i blant. Rhaid i nod unrhyw ail-gydbwyso fod i ddatblygu marchnadoedd sefydlog, cryf, sy'n cynnig opsiynau a dewis, gofal o ansawdd, llai o leoliadau'n methu a chanlyniadau da i blant.

Mae galw cynyddol am leoliadau preswyl a diffyg cyflenwad o ddarparwyr preswyl lleol wedi arwain at 'farchnad darparwyr'. Mae darparwyr yn gallu dewis a dethol pa bobl ifanc maent yn eu derbyn, sy'n gallu golygu ei bod yn fwy anodd dod o hyd i leoliad i rai ag anghenion a heriau ymddygiad mwy cymhleth. Gall hyn fod oherwydd sgiliau/arbenigedd y darparwr, pryder am sut gallai'r ymddygiad amharu ar breswylwyr eraill a'r gymuned leol, a phryder y gallai hyn i gyd gael effaith ar ganlyniadau'r gwasanaeth.

Ochr yn ochr â'r pwysau ariannol, mae pwysau hefyd ar amser staff. Os bydd gwely'n dod yn rhydd, mae'n bosibl y bydd nifer o wasanaethau lleol yn ceisio ei sicrhau, gan arwain at gystadleuaeth.

Mae'r galw uchel hwn yn rhoi pwysau ar gyllideb awdurdodau lleol, ac mae darparwyr yn gallu pennu cost y ddarpariaeth. Mae perygl y bydd gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir yn cynyddu wrth i gostau lleoliadau gynyddu mewn marchnad sy'n cael ei harwain gan alw.

Ar hyn o bryd, mae Gogledd Cymru yn dibynnu ar y sector annibynnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl plant. Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Blant a Chyllid Gofal Integredig wedi cael eu defnyddio i gynyddu'r ddarpariaeth fewnol ac ariannu gweithgarwch ataliol. Mae awdurdodau lleol yn parhau i archwilio cyfleoedd i hwyluso dull gwahanol i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar leoliad y tu allan i'r sir sy'n arwain at bwysau ariannol anghynaladwy i wasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Mae prinder darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiad cymhleth

Yn 2019, roedd dros hanner y plant a roddwyd mewn gofal preswyl yn cael gofal yn bennaf oherwydd anghenion emosiynol ac ymddygiad ac roedd dau draean ohonynt rhwng 13 a 16 oed (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

Mae prinder sylweddol o leoliadau arbenigol i bobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiad sylweddol yng Ngogledd Cymru. Mae plant yn cael eu lleoli yn Lloegr yn aml, oddi wrth eu teuluoedd. Mae darpariaeth gyfyngedig yn Lloegr. Mae gweithwyr

cymdeithasol yn ei chael yn anodd lleoli plant ag anghenion dwys gan fod darparwyr yn tueddu i gadw lleoedd i geisio lleoli plentyn ag anghenion llai dwys.

Mae'n bosibl y bydd rhai plant wedi cael eu haddysg yn Gymraeg, ac felly byddant yn ei chael yn anodd ymdopi mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac angen tiwtor neu gymhorthydd i roi cymorth ychwanegol.

Mae pobl ifanc mewn argyfwng yn aml yn mynd i'r Adran Achosion Brys ac yn aros mewn ysbyty mewn sefyllfaoedd brys.

Mae prinder llety brys

Mae gwasanaethau cymdeithasol ar hyd a lled y DU yn wynebu pwysau cynyddol i ddod o hyd i leoliadau mewn achosion brys. Yn lleol, mae rhai sefyllfaoedd yn codi pan na allwn ddod o hyd i leoliad i blentyn. Oherwydd hyn mae'n rhaid datblygu sefyllfa dros dro i ddarparu llety a chymorth nes gellir dod o hyd i leoliad. Gall y sefyllfaoedd hyn godi o anawsterau i leoli pobl ifanc yn dilyn methiant perthnasoedd yn y cartref, trosglwyddo plant pan fydd yr heddlu wedi defnyddio eu grym gwarchod i symud plant a diffyg gwelyau diogel i bobl ifanc ag anghenion a risgiau lles dwys.

Mae'n bwysig pwysleisio mai fel dewis olaf mewn sefyllfaoedd brys y defnyddir y trefniadau hyn, oherwydd amgylchiadau eithriadol ac am gyfnod byr nes gellir dod o hyd i ddarpariaeth sy'n cael ei rheoleiddio. Mae trefniadau diogelu ynghylch lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn cynnwys cymeradwyaeth uwch reolwr, hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru fel ein rheoleiddiwr, cynllun gofal a chymorth, cwblhau ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol, cynnwys Swyddogion Adolygu Annibynnol a goruchwylio gweithwyr cymdeithasol i edrych ar drefniadau / cynlluniau symud ymlaen.

Gall y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi yn eu lle mewn achosion brys fod gyfystyr â lleoliadau heb eu rheoleiddio. Dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n drosedd i rywun ddarparu gwasanaeth wedi'i reoleiddio heb gael ei gofrestru yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwnnw.

Trosolwg o’r farchnad leol

Mae Datganiad Sefyllfa’r Farchnad 2021 yn arfarnu’r farchnad ac yn nodi beth sy’n digwydd, y gwasanaethau preswyl sydd eu hangen i blant yn y rhanbarth a’r dyheadau ar gyfer darparwyr y dyfodol.

- Mae nifer y plant sy’n byw mewn cartref plant wedi cynyddu, gallai rhai o’r plant hyn fyw gyda theulu maeth ond ar hyn o bryd, nid oes digon o ofalwyr maeth gyda’r sgiliau cywir i’w cefnogi.
- Mae rhai o’n plant sy’n byw mewn cartref plant yn byw y tu allan i ffiniau’r awdurdod lleol er gwaethaf capasiti digonol yn yr ardal.

Yr hyn nad oes arnom ei angen:

- Nid ydym yn annog i ddarparwyr annibynnol gofal preswyl i blant nad yw eu gwasanaethau’n cael eu datblygu i fodloni anghenion ein plant, ehangu yng Ngogledd Cymru.
- Nid oes arnom eisiau i ddarparwyr weithredu cartrefi plant heb fodel gofal clir na chyflenwi darpariaeth safonol yn unig.

Yr hyn y mae arnom ei eisiau:

- Mae arnom eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a’u cefnogi i ddarparu modelau gofal fydd yn bodloni anghenion ein plant.
- Mae arnom eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a’u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn modd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i’n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i’n cymunedau.
- Mae arnom eisiau darparwyr sy’n gallu gofalu’n ddiogel am ein plant sydd ag anghenion dwys lluosog ac sy’n gallu darparu llety amgen i ddiogelu darpariaeth lles.
- Mae arnom eisiau darparwyr fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwyr maeth neu gael eu haduno â’u teulu.
- Mae diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac mae arnom eisiau mwy o ddarparwyr sy’n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Ynys Môn

Mae 3 adnodd cartref grŵp bychan yn Ynys Môn gyda'r potensial i gynnig 5 gwely i blant sydd angen y gwasanaeth. Mae ein 4ydd eiddo yn cael ei adnewyddu a bydd wedi ei orffen ym mis Awst 2022. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol gynnig 3 gwely posibl arall yn lleol i gyrraedd cyfanswm o 8 gwely.

Mae gwasanaeth cartref grŵp bychan Ynys Môn yn galluogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth i aros gyda'u teulu biolegol mor hir â phosibl. Y nod yw osgoi'r angen am leoliadau preswyl arbenigol 'y tu allan i'r sir' os bydd y teulu'n chwalu.

Mae ein tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol yn cefnogi'r teulu a staff gofal fydd yn gyfrifol am ofal yr unigolyn ifanc o ddydd i ddydd. Mae hyn yn rhoi cysondeb ar draws yr ystod o ofal a chymorth a roddir i unigolion.

Canlyniadau

- Gallu datblygu a chynnig opsiwn cynyddol o 'ofal ar y cyd' i unigolion a theuluoedd rhag i'r teulu chwalu'n llwyr.
- Cyfle i'r unigol ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiadau newydd a allai eu galluogi i symud ymlaen i lety â chymorth arall i fodloni eu hanghenion unigol.
- Gallu darparu gofal tymor hirach a chyfle i weithio mewn partneriaeth yn gynt gyda'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu Oedolion i'w cefnogi drwy'r broses bontio.
- Bod ar gael i fodloni anghenion pobl ifanc eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth, yn dibynnu ar yr anghenion a aseswyd.

Gwynedd

Mae diffyg capasiti wedi'i nodi mewn lleoliadau gofal preswyl plant yng Ngwynedd ac yng Nghymru yn ehangach. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn ymdrin â'r angen ac nid oes rhagolwg o ddarpariaeth newydd yn y dyfodol agos. Mae darparwyr presennol yn rhai bach iawn, sy'n golygu fod plant yn gorfod mynd i Loegr, sy'n gallu arwain at broblemau eilaidd, yn enwedig gan nad oes cyflenwad digonol yn Lloegr ychwaith. Mae gweithwyr cymdeithasol yn ei chael yn anodd lleoli plant ag anghenion dwys gan fod darparwyr yn tueddu i gadw lleoliadau i blant ag anghenion llai dwys. Nodwyd ei bod yn bosibl sicrhau lleoliad i bob unigolyn, ond bod angen trafodaethau pellach er mwyn lleoli'r rhai ag anghenion mwy dwys. Mae'r ffioedd hefyd yn uchel iawn.

Codwyd y materion canlynol fel rhwystrau i ddatblygu gofal preswyl:

- Mae stigma o hyd yn gysylltiedig â chartref gofal plant.
- Mae angen i blant sy'n cael eu rhoi gyda'i gilydd mewn lleoliad gofal allu cyd-fyw ac yn aml iawn mae ganddynt anghenion gwahanol neu rai sy'n gwrthdaro, sy'n gallu bod yn gymhleth ac yn frawychus iawn i ddarparwyr newydd oherwydd y risgiau ariannol wrth sefydlu busnes o'r fath.
- Mae'r cynnydd sylweddol ym mhrisiau'r stoc dai yng Ngwynedd yn gwneud achos busnes yng Ngwynedd yn llai deniadol.

Conwy

Mae'r tabl isod yn dangos y mathau a nifer y lleoliadau yng Nghonwy dros y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 21: Math a nifer y lleoliadau, Conwy, 2017 i 2021

Sir		2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Lleoliadau maethu	-	249	221	212	203	208
Mabwysiadu/Lleolwyd ar gyfer Mabwysiadu	-	11	16	15	17	22
Byw'n Annibynnol		15	16	23	29	23
Cartrefi Preswyl/Ysgolion/Hostel		30	31	33	37	48
Troseddwyr Ifanc/Llety Diogel		1	2	2		
Lleolwyd gyda Rhiant/Rhiant arall		46	41	38	24	39
Gofal Meddygol/Nyrsio		11	4	1	1	
Canolfan Deulu neu uned Mam a'i phlentyn					1	5
Lleoliad heb ei Reoleiddio dan Gyfarwyddyd y Llys, Adran 38(6)					3	12
Lleoliadau Dros Dro					3	11

Ffynhonnell: Casglu data awdurdodau lleol

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng, mae hyn yn cyd-fynd â buddsoddiad a phwyslais sylweddol ar wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal. Cafodd tîm Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth Conwy 4,400 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021. Mae'r tîm wedi cael mwy o atgyfeiriadau. Yn anecdotaidd, mae'r achosion wedi bod yn fwy cymhleth.

Mae'r prif heriau i gynnal darpariaeth yn cynnwys:

- Gweithlu - Mae recriwtio gweithwyr gofal plant, yn enwedig rhai â phrofiad, yn her sylweddol**.** Mae gweithwyr cymdeithasol profiadol yn chwilio am swyddi eraill oherwydd natur y gwaith amddiffyn plant ac effaith hyn ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac iechyd meddwl**.** Mae awdurdodau lleol yn cystadlu ag asiantaethau i ddenu gweithwyr cymdeithasol, sy'n talu cyflogau uwch.
- Ymdrechu i newid statws plant sy'n derbyn gofal drwy Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig (Perthnasau).
- Mae gweithio mewn partneriaethau effeithiol gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn parhau i fod yn anghyson gan fod gan bob asiantaeth safbwyntiau gwahanol a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro - gwaith achos heriol, risg uchel, sy'n cymryd amser.
- Prinder llety brys a dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir / dros dro. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i ni ar hyn o bryd.

Mae costau lleoliadau wedi dyblu bron iawn, o gyfartaledd yr wythnos o £3,500 yn 2017 i rai sy'n gofyn rhwng £6,000 a £7,000 yn 2021/22.

Sir Ddinbych

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 20 o blant neu bobl ifanc mewn darpariaeth cartrefi gofal, ac mae mwy na'u hanner y tu allan i Gymru. Er bod y plant a'r bobl ifanc hyn wedi cael eu rhoi'n briodol mewn lleoliadau preswyl yn seiliedig ar eu hanghenion, mae diffyg opsiynau lleol wedi golygu bod rhai lleoliadau yn bell iawn o'u cartrefi.

Mae galw am leoliadau preswyl i blant â phroblemau iechyd meddwl sydd ag ymddygiad cymhleth oherwydd trawma. Mae diffyg lleoliadau hefyd sy'n gallu

cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef Camfanteisio Rhywiol neu Gamfanteisio Troseddol.

Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu 39 o wasanaethau cartrefi gofal plant, mae hanner y plant a phobl ifanc hyn yn cael eu lleoli y tu allan i'r wlad, yn Lloegr neu'r Alban. Mae angen pwyslais ar fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir o'r dechrau. Er bod y plant wedi cael eu rhoi'n briodol mewn lleoliadau preswyl yn seiliedig ar eu hanghenion, ychydig iawn o ddulliau hyfyw eraill oedd ar gael a allai fod wedi arwain at ddad-ddwysau, gan ddileu'r angen am leoliad y tu allan i'r sir.

Mae galw am wasanaethau preswyl i blant sy'n dioddef â'u hiechyd meddwl ac nid oes digon o ofal a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol i'w darparu. Mae gwasanaethau y tu allan i'r sir yn cael eu defnyddio, sy'n achosi mwy o oblygiadau o ran cost.

Mae gan nifer o ddarparwyr preswyl lleol hefyd gynlluniau ar gyfer ehangu, sy'n gyfle arall mewn partneriaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion lleol.

Dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y sector, nod y cyngor yw:

- Gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u cefnogi i ddarparu modelau gofal fydd yn bodloni anghenion plant.
- Gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn modd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i'n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Gweithio gyda darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am blant sydd ag anghenion dwys lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen i ddiogelu darpariaeth lles.
- Nodi darparwyr fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwyr maeth neu gael eu haduno â'u teulu.
- Mae diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac mae arnom eisiau mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Wrecsam

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn comisiynu unrhyw ddarpariaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal plant, er bod gennym ni 33 o blant a phobl ifanc wedi'u lleoli mewn lleoliadau y tu allan i'r sir yng Nghymru a Lloegr. Mae angen ffocws ar fentrau sydd wedi'u cynllunio i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir o'r cychwyn cyntaf.

Gan ddefnyddio Cyllid Cyfalaf Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, eleni roeddem yn gallu lansio ein Rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref a fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar brynu, ailbwrpasu a/neu ailddatblygu eiddo naill ai gan CBSW neu mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu cynlluniau byw â chymorth a chartrefi plant bach yn Wrecsam, gan alluogi pobl i ddychwelyd i'r Fwrdeistref i gwrdd â'u tai a/neu anghenion gofal ac atal yr angen i gomisiynu lleoliadau all-sirol yn y dyfodol. Eleni, fe wnaethom sicrhau tri eiddo ac mae mwy yn y cynllunio o dan gynlluniau grant cyfalaf newydd ac ehangedig Llywodraeth Cymru. Mae galw am wasanaethau preswyl i blant sy'n dioddef o'u hiechyd meddwl, ac nid oes lefel ddigonol o ofal a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol i ddarparu hyn. Mae gwasanaethau'n cael eu ceisio y tu allan i'r sir sy'n golygu goblygiadau cost pellach.

Mae gan nifer o ddarparwyr preswyl lleol hefyd gynlluniau ar gyfer ehangu, sy'n rhoi cyfle arall i weithio mewn partneriaeth i alinio'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion lleol. Dros y flwyddyn i ddod, bydd ein blaenoriaethau yn canolbwyntio ar:

- Uchafu cyllid cyfalaf rhanbarthol i ehangu gofal yn nes at y cartref a datblygu datrysiadau gofal lleol dielw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Prosiect fframwaith aduno – defnyddio proses NSCC i wella llwyddiant ailuno.
- Gwella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion gyda chymorth cyfreithiol a gwaith cymdeithasol penodol wedi'i ymrwymo i gynllunio i ryddhau cleifion a darparu Gorchmynion Gofal Rhyddhau.
- Twf parhaus yn y cynnig gwarcheidiaeth arbennig a chefnogaeth.
- Lansio 'Myfyrio' – rhaglen i gefnogi gostyngiad yn nifer y beichiogrwydd cylchol sy'n dod i ben gyda phlant yn cael eu tynnu.

- Gwerthusiad o gyfraddau tâl ar gyfer Gofalwyr Maeth i adlewyrchu costau byw yn well a lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â thlodi.
- Cyflwyno Prosiectau Kickstart a Llety â Chymorth
- Therapi Aml-Systemig – parhau i gyflwyno dull Therapi Aml-systemig ar draws gwasanaethau i gynnwys cymorth symud ymlaen/cam-i-lawr i deuluoedd.
- Proses Sefydlogrwydd Cynnar i'w sefydlu gan flaenoriaethu sefydlogrwydd o'r cychwyn, Rydym hefyd yn anelu at;
- Uchafu'r defnydd o gyllid cyfalaf rhanbarthol newydd a chynyddol i ddatblygu llety/unedau lleoliadau brys newydd i gynyddu'r ddarpariaeth o lety seibiant brys i'r teuluoedd hynny mewn argyfwng.

Darpariaeth cartrefi plant mewnol

Cafodd Gogledd Cymru gyllid grant o £3.8m ar gyfer rhaglen drawsnewid ranbarthol i blant a phobl ifanc yn 2021/22. Mae'r bartneriaeth strategol o awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ym mhob ardal ddaearyddol yn y rhanbarth yn goruchwylio darpariaeth y rhaglen drawsnewid. Yn ardaloedd y Canol a'r Dwyrain, bydd dwy Ganolfan Asesu Preswyl pwrpasol yn agor yn 2022/23. Byddant yn cefnogi darpariaeth gofal mewnol yn nes at y cartref i blant ag anghenion ymddygiad ac emosiynol cymhleth.

Tabl 22: Capasiti blynyddol ychwanegol a grëwyd gan Gyllid y Rhaglen Drawsnewid 2021/22

Ardal	Lleoliadau Asesu Blynyddol	Lleoliadau Brys Blynyddol	Lleoliadau Cartref Gofal
Gorllewin (Ynys Môn a Gwynedd)			-
Canol (Conwy a Sir Ddinbych)	12	-	12
Dwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam)	12	182	4
Gogledd Cymru	24	182	4

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol
Nodiadau: Asesiadau blynyddol y Dwyrain a'r Canol yn seiliedig ar 4 lleoliad 16 wythnos. Lleoliadau brys blynyddol y Dwyrain yn seiliedig ar 1 lleoliad gydag arhosiad o ddim mwy na 2 noson.

Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a BIPBC (Gorllewin)

Nid oedd digon o alw i gyfiawnhau comisiynu canolfan breswyl teulu llawn amser. Mae capasiti presennol yn cael ei fodloni'n ddigonol.

Mae'r Tîm Trawsnewid ar Ynys Môn yn wasanaeth newydd fydd yn cynnig darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn.

Bydd y Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd un ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu ble mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel.

Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd ymarfer, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi. Mae eu pwyslais ar weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned.

Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Canol)

Bwthyn y Ddôl

Mae tîm amlddisgyblaethol Bwthyn y Ddôl yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ar ymylon gofal ac mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal.

Bydd y tîm yn canolbwyntio i ddechrau ar gwblhau asesiad holistaidd drwy broses ymgynghori er mwyn argymell rhaglen o ymyriadau.

Mae model gofal newydd yn seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ddatblygu drwy dîm aml-asiantaeth. Mae hwn wedi cael ei deilwra i anghenion pobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu fod yr ymyrraeth wedi helpu pobl ifanc aros gartref yn ddiogel.

Mae dull teulu cyfan sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cynnwys cynnal trafodaethau aml-asiantaeth yn rheolaidd, sydd wedi hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws pob asiantaeth.

Bydd y ganolfan asesu breswyl newydd yn cynnig:

Pedwar lleoliad ar gyfer asesiadau preswyl
Llety 'brys' tymor byr, heb ei gynllunio i ddau o blant a phobl ifanc
Rhagwelir y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2023.

Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Dwyrain)

Bydd Tŷ Nyth, Canolfan Asesu Breswyl a chartref preswyl i blant yn darparu cefnogaeth wedi'i danategu gan y dull Pontio Ymyriadau Teuluol (FIT) Therapi Aml Systemig (MST).

Daeth y Tîm MST (Therapi Aml-Systemig) yn weithredol ym mis Mai 2020 yn ystod y cyfnod cloi COVID, yn cynnwys Goruchwyliwr, pedwar Therapydd a Gweinyddwr. Mae'r tîm Therapi Aml-systemig yn darparu asesiad dwys a chymorth therapiwtig i bobl ifanc ag anghenion sylweddol, yn aml gyda lefelau uchel o ymddygiad heriol ar

draws meysydd lluosog a all gynnwys ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol, cam-drin sylweddau, colli cartref, hunan-niweidio a phatrymau gwahardd o'r ysgol / risg o waharddiad. Mae gan bob teulu becyn gofal pwrpasol wedi'i deilwra i anghenion eu teulu, gan ddefnyddio cryfderau presennol y teulu i roi'r cyfle gorau posibl ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r Tîm Therapi Aml-systemig wedi bodloni'r meini prawf i weithredu model MST UK o dan ofynion trwyddedu llym gan gynnwys cymhwysedd i ymarfer trwy hyfforddiant dwys. Mae MST yn fodel clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gweithio gyda'r holl systemau sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys addysg, dylanwadau cymunedol ac unrhyw oedolion arwyddocaol / eraill yn y teulu. Mae'n meithrin gwydnwch y teulu ac yn cynnig cymorth sy'n hygyrch '24/7'. Cydnabod y gall problemau yn y teuluoedd godi ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Cynhelir apwyntiadau yng nghartref y teulu ar adegau sy'n gyfleus i'r teulu. Mae'r tîm yn gweithredu gydag ethos MST o 'beth bynnag sydd ei angen.' Mae'r Tîm yn darparu cymorth uniongyrchol i feithrin gwydnwch teuluoedd am rhwng 3 a 5 mis. Mae'r ffocws ar atal lleoliad y tu allan i'r cartref trwy ofal neu ddalfa ymhlith pobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol gartref, yn y gymuned a/neu yn yr ysgol.

Bydd y gwasanaeth yn darparu;

- 4 lleoliad asesu preswyl ar yr un adeg (hyd arhosiad 12 i 16 wythnos) i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed.
- Cefnogaeth i ofalwyr pobl ifanc gan y tîm MST FIT i gynyddu sgiliau a chefnogi pontio llyfn i'r cartref.
- Cymorth parhaus i deuluoedd am hyd at 4 mis pellach a gydag asiantaethau allweddol eraill megis gofal cymdeithasol ac ysgolion a rhwydweithiau cefnogi eraill yn y gymuned. Y nod yw gwella annibyniaeth teuluoedd a lleihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau statudol.

Hefyd, bydd y gwasanaeth yn darparu:

- 1 lleoliad i blant sydd angen llety brys (arhosiad o ddim mwy na 2 noson)

Bydd Park Avenue yn cynnig 4 lleoliad hirdymor i blant nad yw cymorth mewn lleoliadau mwy yn addas iddynt. Mae'r bartneriaeth strategol yn ceisio ymrwymo i 6 chartref grwpiau bychan dros y 3 blynedd nesaf.

Ystyried ansawdd y farchnad

Rhanbarthol

Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn dîm cenedlaethol i Gymru sy'n gweithio i gefnogi Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Awdurdodau Lleol i gomisiynu a chontractio lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Maent yn rheoli Fframwaith Preswyl Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru.

Mae monitro prosesau Sicrwydd Ansawdd a Rheoli Risg yn y Fframwaith yn nodi patrymau o ran darparwyr a phroblemau.

Ynys Môn

Mae gan Ynys Môn ddau Gartref Grwpiau Bychan cofrestredig – sef "Cartrefi Clyd Môn" – sydd wedi eu cofrestru ac sy'n cynnal Cartref Clyd Bryn Hwfa a Chartref Clyd Llanfairpwll. Mae'r ddau wedi bod yn rhedeg ar gapasiti llawn drwy gydol y flwyddyn, yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma yn ystod eu plentyndod cynnar ac yn brwydro ag anhwylderau ymlyniad.

Yn dilyn llwyddiant y ddau gartref cyntaf, mae Ynys Môn ar fin agor y trydydd o'u Cartrefi Clyd Môn yng Nghaergybi, cartref grŵp bychan arbenigol, fydd yn gyfle am seibiant i blant sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau arbenigol plant.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd pedwerydd cartref y agor, sy'n dal yn y cam cynllunio a chofrestru – Cartrefi Clyd Môn Rhosybol.

Mae prosiect arall yn y cam cynllunio a chofrestru sef Cartrefi Clyd Môn Llangristiolus, fydd yn gyfleuster modern yn arbenigo mewn Gwasanaethau Dydd i'r Gwasanaethau Arbenigol Plant. Oherwydd y bydd y ddau gyfleuster newydd hwn yn agor yn 2022, bydd llai o alw am leoliad y tu allan i'r sir.

Cafodd y cyfleusterau yng Nghartref Clyd Bryn Hwfa a Chartref Clyd Llanfairpwll eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2020 a dyfarnwyd eu bod yn Rhagorol.

Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i welliant parhaus drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eu gofalwyr a staff cyflogedig a gwrando arnynt drwy arolygon ar gamau allweddol y broses gefnogi er enghraifft, ar ddiwedd lleoliadau.

Mae plant wedi helpu i siapio contractau ar gyfer y Gwasanaeth i Rai sy'n Gadael Gofal a'r Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol drwy'r broses werthuso.

Mae Ymgynghoriad parhaus â Phlant a Phobl Ifanc ar yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wrth drafod ar lafar neu'n ysgrifenedig am fywydau ac amgylchiadau gofal a brofwyd gan blant a phobl ifanc. Mae hyn mewn ymateb i geisiadau gan Voices from Care, Comisiynwyr Ifanc a Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol sydd wedi amlygu'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a'i effaith ar blant a phobl ifanc.

Mae Hyfforddiant Sgyrsiau Cydweithredol wedi galluogi ymarferwyr Gwasanaethau Plant i ystyried sut i feithrin perthnasoedd gwell â phobl. Cafwyd adborth sylweddol gan ymarferwyr fel rhan o ymarfer myfyriol.

Sir y Fflint

Yn ystod mis Ebrill 2021, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru wiriad sicrwydd i adolygu pa mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gyda phwyslais ar ddiogelwch a lles. Roedd y prif lwybrau ymholi yn canolbwyntio ar bedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac roedd y darganfyddiadau / dyfarniadau'n cyd-fynd â nhw – Pobl – Llais a Rheolaeth, Lles, Partneriaethau ac Integreiddio.

Tueddiadau presennol a'r rhai disgwyliedig

- Heriau wrth gael mynediad at welyau lles diogel a dewisiadau eraill lleol sy'n darparu ymyrraeth mewn argyfwng a dargyfeirio o lety diogel.
- Heriau wrth gael gafael ar leoliadau lleol priodol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

- Mae angen trefniadau a chyfleusterau tymor byr ychwanegol a phriodol i blant. Mae hyn hefyd yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol ac weithiau eu brodyr a chwiorydd.
- Yn aml mae gan blant dros 16 oed anghenion cymhleth ac ychydig o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau, mae angen dull strategol i gefnogi anghenion llety a chymorth pobl ifanc rhwng 16 – 18 oed a'r rhai sy'n gadael gofal.

Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Defnyddir Fframweithiau Awdurdodau Lleol Cymru gyfan i gomisiynu lleoliadau unigol ar draws ystod o fathau o leoliadau. Mae'r fframweithiau hyn yn darparu partneriaethau lefel strategol â darparwyr mewn gwasanaethau maethu a phreswyl. Defnyddir y fframweithiau un ai pan fo angen comisiynu'n allanol dan Ddyletswydd Digonolrwydd y Rhanbarth neu pan fo'r ansawdd gorau, cyflawni canlyniadau a gwerth am arian yn cael ei gyflawni drwy gomisiynu allanol yn hytrach na darparu'r gwasanaeth yn fewnol. Mae'r Fframweithiau Cymru gyfan yn cael eu rheoli gan yr egwyddorion uchod.

Y dull a ddefnyddir i e-dendro lleoliadau maethu a phreswyl allanol yw'r Adnoddau Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant sy'n cynnig comisiynu tryloyw, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i leoliadau a reolir gan y Fframwaith a'r rhai sydd y tu allan i'r Fframwaith ac mae'n caniatáu cydymffurfio â'r arweiniad a rheoliadau caffael sy'n sylfaen i gomisiynu.

Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg

Nid oes gan y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir (neu wlad) – **IS IT COUNTY OR COUNTRY?** oherwydd diffyg lleoliadau arbenigol, y dewis o gael gwasanaethau gofal yn Gymraeg. Mae hon yn broblem benodol yng Ngwynedd.

Gwasanaethau ataliol

Dynododd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth flaenoriaeth allweddol i gefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc gyda phwyslais ar wasanaethau ataliol. Cafodd hyn ei ddynodi fel maes blaenoriaeth allweddol ar draws y rhanbarth.

Defnyddiwyd y Gronfa Gofal Integredig 2016-22 i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ymyrraeth gynnar i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Heb y cyllid hwn, mae'n

bosibl y byddai plant a phobl ifanc angen mwy o ymyriadau gan Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Haen 3 a 4 a Heddlu Gogledd Cymru , ac mae'n bosibl na fyddent wedi gallu aros gyda'u teuluoedd.

Dylid defnyddio gwersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol i archwilio datblygiad gwasanaethau ataliol ymhellach drwy'r Gronfa Fuddsoddi Ranbarthol 2022-27.

Ynys Môn

Mae'r gwasanaeth plant a theuluoedd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol fel bod llai o blant a phobl ifanc angen derbyn gofal. Y prif ddarpariaeth ataliol yw'r tîm teuluoedd cryf. Maent yn cynnig cefnogaeth ddwys i deuluoedd ble mae problemau camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a phroblemau iechyd meddwl ymhlith rhieni wedi cael eu nodi ac yn cyfrannu at y risgiau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu gartref. Drwy ddefnyddio ymyrraeth yn seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi ei llywio gan seicoleg, mae'r tîm wedi dangos yn gyson bod y rhain yn ffyrdd effeithiol o leihau risg a hwyluso newid sy'n caniatáu i deuluoedd aros gyda'i gilydd. Hefyd, datblygwyd rhaglen mentor cymheiriaid ac er ei bod yn ddyddiau cynnar, rydym yn disgwyl i hon fod yn ychwanegiad effeithiol i'r ddarpariaeth.

Mae'r Tîm Trawsnewid yn wasanaeth newydd a sefydlwyd yn 2021. Byddant yn cynnig darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn. Mae'r Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd un ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu ble mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel. Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd ymarfer, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi. Mae eu pwyslais ar weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned. Yn 2022, bydd y tîm yn cael ei ymgorffori i'r tîm teuluoedd cryf, gan ehangu cylch gwaith a chwmpas y tîm hwnnw.

Nod y gwasanaeth yw darparu'r gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynharaf bosibl i deuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y tîm o amgylch y teulu sydd wedi tyfu'n ddiweddar o 6 i 8 gweithwyr cefnogi. Mae ein gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaeth cam-drin domestig GORWEL, lles emosiynol a gofalwyr ifanc

Gweithredu dros Blant, cymorth iechyd meddwl i rieni gan Adferiad, Canolfan Cymorth Cynnar a chyfarfodydd aml-asiantaeth Un Drws Ffrynt.

Gwynedd

Drwy gyllid ICF, mae Gweithredu dros Blant wedi sefydlu gwasanaeth Dychwelyd ac Atal Gwynedd i Blant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu gwasanaeth therapiwtig uniongyrchol i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, yn cynnwys lleihau'r angen a nifer y lleoliadau drud y tu allan i'r sir ac i gefnogi datblygiad darpariaeth gofal lleol o ansawdd uchel i blant Gwynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn atal achosion o chwalu teulu yn cynnwys lleoliadau mabwysiadu'n methu sy'n arwain at fod angen lleoliad plant sy'n derbyn gofal.

Yr angen mwyaf o atgyfeiriadau yw i sefydlogi lleoliadau maeth, rydym yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy ofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r gefnogaeth i rieni maeth nid yn unig i rieni maeth newydd, ond i ofalwyr profiadol hefyd. Fel bob amser, mae cydweithio'n allweddol i lwyddiant ac yn yr enghreifftiau hyn, mae gweithio mewn partneriaeth agos gyda maethu yn hanfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar hunan-ofal i rieni maeth. Mae'r gwasanaeth Dychwelyd ac Atal wedi parhau i fod ar agor i aelodau grŵp maethu preifat Gwynedd ar Facebook, yn rhannu cyngor a dolenni ar amrywiaeth o bynciau o rianta i faterion yn ymwneud â'r pandemig.

Canlyniadau'r gwasanaeth yw:

- Lleihau nifer y Plant Sy'n Derbyn Gofal.
- Datblygu dull therapiwtig system gyfan i'r teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu.
- Atal plant rhag bod angen derbyn gofal drwy ddarparu Therapi'n Canolbwyntio ar Ymlyniad i alluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddeall trawma a'i effaith yn well.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni a chynnal lleoliadau gofal sefydlog drwy gefnogi gofalwyr yn therapiwtig i ddeall a rheoli ymddygiad sy'n herio.
- Cefnogi ac uwchsgilio gofalwyr i ddatblygu ymatebion gofalgar, therapiwtig i ymddygiad, sy'n helpu i sefydlogi lleoliadau a'u hatal rhag methu.
- Darparu gwasanaeth hygyrch, prydlon sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau ac nad yw'n creu stigma.

- Darparu cymorth dwys a mewnbwn therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal sy'n addas i gael eu dychwelyd i'w cymunedau yng Ngwynedd.
- Gweithio gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu i gyflawni lleoliadau sefydlog.
- Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae creadigrwydd a chefnogaeth hyblyg y staff yn sicrhau hyn.

Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn, gweler un enghraifft isod:

"Hollol wych a chefnogaeth a chyngor amhrisiadwy. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn gymorth gwirioneddol ac yn rhywbeth y mae gennym hyder ynddo a gwybod eu bod yno i ni bob amser fel teulu i'n helpu drwy'r amseroedd gwael ac i ninnau rannu ein rhwystredigaeth hefyd! Mae lefel eu hymrwymiad i ni yn dangos yn eu gofal ohonom ar ôl cyswllt gan wneud yn siŵr ein bod yn iawn neu ar ôl penwythnos gwael. Ni allwn ganmol digon ar y gwasanaeth hwn."

Conwy

Cyfiawnder Ieuenctid

- Gorchmynion Atgyfeirio - ymgysylltwyd â 38 o bobl ifanc yn y 6 mis diwethaf, 4 wedi ail-droseddu
- Gwaith Cyfiawnder Adferol Uwch - 66 atgyfeiriad cychwynnol
- Cefnogwyd 78 o bobl oedd wedi cael niwed ac yna cefnogwyd 44 o'r bobl ifanc (oedd wedi cyflawni'r drosedd) i ymgysylltu ag ymyriadau penodol wedi'u harwain gan safbwynt y dioddefwyr i ddatblygu dealltwriaeth o effaith eu hymddygiad.
- Ni chafodd unrhyw bobl ifanc oedd wedi ymgysylltu â'r prosiect ddedfryd o garchar.

Tabl 23: Atgyfeiriadau Cyfiawnder Ieuenctid Conwy Ebrill i Medi 2021

Math o atgyfeiriad	Nifer
Cardiau melyn	203
Datrysiad cymunedol fflat	13
Atgyfeiriadau atal	44
Datrysiad cymunedol +	24
Rhybudd ieuenctid	0
Rhybudd amodol ieuenctid	6
Cyfanswm	290

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Sir Ddinbych

Yn 2021 sefydlwyd y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT) drwy gyllid Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Tîm yn cynnig cefnogaeth gynnar wedi'i thargedu ar gyfer teuluoedd sy'n cael problemau i reoli anawsterau emosiynol ac ymddygiad.

Mae'r Tîm, sy'n cynnwys Llyw-wyr Lles, Therapyddion Galwedigaethol, Arbenigwyr Cymorth Ymddygiad a Seicolegwyr, yn gweithio gyda theuluoedd i ddeall yr ymddygiad heriol a gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth a chefnogaeth i helpu i ddatblygu a gweithredu cynlluniau ymddygiad positif a rhoi ymgynghoriad arbenigol pan fo angen.

Mae'r tîm aml-asiantaeth sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol wedi datblygu model gofal penodol a dull partneriaeth o gefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Maen nhw bellach ar waith ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r rhaglen hefyd wedi uwchsgilio 78 o staff awdurdod lleol mewn therapïau fydd y tîm yn eu defnyddio, mae hyn wedi annog dull cyson ac iaith a rennir, gan roi cysondeb ar draws asiantaethau partner a thimau. Nododd y gwerthusiad annibynnol o'r prosiect;

- Roedd dull partneriaeth cryf ar lefel uchel yn allweddol wrth sefydlu'r gwasanaethau newydd.
- Roedd staff asiantaethau partner wedi eu plesio o ran pa mor gyflym roedd y tîm LIFT yn ymateb i atgyfeiriadau a cheisiadau am gyngor ac arweiniad.

- Cyfleoedd ar gyfer ymgynghoriadau a chydweithio, oedd yn cyfrannu at ddysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu plant.
- Mae teuluoedd wedi ymgysylltu'n dda.

Adborth gan rieni:

- "Mae bywyd yn llawer gwell gartref rwan ers i [aelodau staff] wneud y fideo i ni"
- "Mae gan M lawer gwell cyswllt â'i deimladau, fel finnau, ers i'r LIFT ein helpu ni, mae ei ymddygiad wedi gwella hefyd"
- "Mae wedi bod yn hyfryd cael rhywun sy'n gwrando a ddim yn barnu"

Yn ystod y cyfnod ble mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei darparu i Sir Ddinbych, mae'r cymorth hwn ar gyrion gofal wedi gweithio gyda 122 o deuluoedd (sef 200 o blant).

Rhaglen Integredig Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg
Mae'r rhaglen hon yn darparu ystod o Gefnogaeth i Deuluoedd a Rhieni yn Sir Ddinbych. Ein nod yw darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i deuluoedd diamddiffyn cyn i broblemau waethygu a sicrhau bod plant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn cael cymorth ychwanegol.

Yn 2021-22, cafodd ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf 302 o atgyfeiriadau. Roedd gennym restr aros fisol o 18 ar gyfartaledd ac amser aros o 26 diwrnod ar gyfartaledd o dderbyn yr atgyfeiriad i ddyrannu gweithiwr. Fe wnaethom gefnogi 369 o deuluoedd ac asesu anghenion 114 o deuluoedd o'r newydd.

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu llawer o wasanaethau ac ymyriadau o amgylch teuluoedd unigol, gan sicrhau ymgysylltu, asesu angen a chynllunio cefnogaeth. Yng nghanol materion parhaus ac anghenion anwadal oherwydd Covid-19, hyd yma mae'r Tîm wedi creu 29 o gynlluniau gweithredu yn llwyddiannus gyda theuluoedd. Gan ddefnyddio methodoleg a brofwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi amcangyfrif yr arbedion cost posibl a gyflawnwyd gan y Tîm i wasanaethau eraill. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Ionawr i Rhagfyr 2021 yn dangos arbedion o £122,823.

Tabl 24: Arbedion cost posibl gan y Tîm o Amgylch y Teulu i wasanaethau, Ionawr i Rhagfyr 2021

Maes gwasanaeth	Amcangyfrif o'r arbedion	Materion yr ymdriniwyd â nhw
Trosedd	£52,272	Ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig ac ymddygiad troseddol
Addysg	£22,264	Absenoldeb, gwahardd a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol
Iechyd	£6,187	Camddefnyddio cyffuriau
Iechyd meddwl	£18,052	Materion iechyd meddwl i blant, pobl ifanc ac oedolion
Cyflogaeth	£24,048	Cymorth i gael gwaith
Cyfanswm	£122,823	

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Yn 2021, cefnogodd ein Hymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg 1,182 o blant dan 4 yn y rhannau mwyaf o amddifadedd lluosog ym Mhrestatyn, y Rhyl a Dinbych. Fe wnaethom gefnogi 52 o deuluoedd eraill ar draws y sir drwy Allgymorth. Helpodd ein Therapyddion Iaith a Lleferydd 102 o blant ochr yn ochr â'n tîm Datblygiad Iaith Cynnar, sydd wedi darparu ymyriadau Portage a Chwerthin a Dysgu i 36 o blant. O fis Ionawr i fis Rhagfyr 2021, fe wnaethom ddarparu 31,998 o sesiynau gofal plant di-dâl i 366 o blant, gan ddarparu 1,348 o sesiynau ychwanegol.

Mae ein Hymwelwyr Iechyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu plant yn Sir Ddinbych. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021, gwaeth y tîm 218 cyswllt â phlant mewn mesurau Amddiffyn Plant, 135 cyswllt â phlant gyda Chynllun Gofal a Chefnogaeth a 115 gyda Phlant Sy'n Derbyn Gofal. Gwnaethant 639 cyswllt â phlant sydd angen gwasanaeth Dwys Haen 3.

Tabl 25: Gweithgareddau Ymwelwyr Iechyd Sir Ddinbych , 2021

Gweithgaredd	Nifer
Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant	102
Adroddiadau Llys / Datganiadau'r Heddlu	12
Adroddiadau / presenoldeb mewn Cynadleddau Achos	77
Adroddiadau MARAC	26
Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a fynychwyd	29
Asesiadau Diogelu Cyn Geni	97
Cyfarfodydd yn ymwneud â diogelu a fynychwyd	337

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Ym mis Ionawr, fe wnaethom benodi Nyrs Diogelu newydd, sydd wedi mynychu pedair Cynhadledd Achos a chwech cyfarfod gweithwyr proffesiynol (Grwpiau Craidd / Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth / Plant Sy'n Derbyn Gofal).

Sir y Fflint

MYFYRIO

Mae'r Gwasanaeth MYFYRIO yn cefnogi merched sydd wedi colli un plentyn neu fwy drwy achosion gofal ac sydd mewn perygl uwch o golli mwy o blant drwy'r un profiad.

Mae'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn adnodd help cynnar aml-asiantaeth i blant a theuluoedd sydd â dau neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae partneriaid yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Iechyd, Cyfiawnder Ieuenctid, Tai, Sir y Fflint yn Cysylltu â Chwsmeriaid, Addysg, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymorth y Blynyddoedd Cynnar a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.

Cafodd y Ganolfan Cymorth Cynnar 2,641 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Mawrth 2021 ac mae'r tîm wedi addasu i fodloni anghenion yn ystod y pandemig. Symudodd holl aelodau'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn gyflym i gynnal trafodaethau ar-lein ac addasodd asiantaethau'n dda yn ystod y cyfnod clo ac ni chafwyd unrhyw darfu ar gyfarfodydd. Arafodd nifer yr atgyfeiriadau ychydig yn ystod Ebrill/Mai gan gynyddu eto o fis Mehefin.

‘Lleoliad Rhiant a Phlentyn Gyda’i Gilydd’
Mae’r ymgyrch recriwtio ‘Lleoliad Rhiant a Phlentyn Gyda’i Gilydd’ yn dechrau dwyn ffrwyth. Ei nod yn cadw plant gyda’u rhieni mewn lleoliad gofal maeth a aseswyd yn arbennig.

Mae Sir y Fflint yn craffu’n agos ar benderfyniadau a ddylid rhoi pobl ifanc hŷn mewn gofal, ac yn enwedig, pa wahaniaeth y gellir ei gyflawni ar y cam hwyr hwn.

Gwasanaeth Cyfarfod Sir y Fflint
Bwriad Gwasanaethau Cyfarfod Sir y Fflint yw cadw teuluoedd gyda’i gilydd pan fo’n bosibl. Mae teuluoedd yn cael cynnig Cyfarfod Grŵp Teulu cyn gynted â phosibl, i’w hatal rhag cyrraedd argyfwng. Mae Cyfarfodydd Cyfarfod Teuluoedd yn archwilio a fyddai aelodau’r teulu ehangach neu unigolion cysylltiedig yn barod i gynnig cael eu hasesu i ofalu am y plentyn. Mae mwy o gyllid ar gael i atgyfnerthu’r dull hwn. Rydym wedi gweld cynnydd yn yr atgyfeiriadau i’r gwasanaeth, a nodwyd bod teuluoedd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd effaith COVID-19 a’r straen a’r pwysau cynyddol ar fywyd teuluol. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd cyflym mewn atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol, sydd eto’n amlygu’r pwysau y mae’r pandemig wedi’i gael ac yn dal i’w gael ar deuluoedd.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Mae’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth statudol gan yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth ddiduedd am ddim i deuluoedd (a’r rhai sy’n gweithio gyda nhw) ar ystod o bynciau ac mewn fformatau gwahanol.

Mae pynciau’n cynnwys iechyd, addysg, hamdden, cyllid a gofal plant cofrestredig. Mae’r gwasanaeth yn prosesu 20,000 o ymholiadau’r chwarter ar gyfartaledd, un ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac e-bost neu ar y wefan a thrwy’r cyfryngau cymdeithasol.

Wrecsam

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Adran wedi gwneud cynnydd cyson o ran datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd y ddogfen Fframwaith Cymorth Cynnar ac Atal, yn dilyn lansiad aml-asiantaeth ynghyd â dogfen Trothwy Gwasanaethau Plant.

Diben y ddogfen Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar yw cynorthwyo pawb wrth gynllunio Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar. Mae'n cefnogi wrth ystyried pwy sydd angen cymryd rhan, beth yw'r egwyddorion a fydd yn llywio trafodaethau a phenderfyniadau ac i alluogi unigolion i ddatblygu achos busnes clir ar gyfer gwella, ehangu neu ail-bwrpasu gwasanaethau presennol.

Ers datblygu'r Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar, mae Partneriaeth Atal a Chymorth Cynnar newydd wedi'i sefydlu ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth a fydd yn helpu i ganolbwyntio'r Cyngor a'i Bartneriaid ar sicrhau bod cymorth i blant a phobl ifanc. ac mae teuluoedd ar gael iddynt cyn i faterion waethygu. Ei nod yw helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i helpu eu hunain yn y lle cyntaf ond pan fydd angen mwy o help, ein nod yw darparu'r cymorth cywir yn llawer cynharach. Bydd datblygiad pellach y Bartneriaeth Atal a Chymorth Cynnar yn parhau trwy gydol y flwyddyn i ddod.

6. Gwasanaethau maethu

Trosolwg o'r boblogaeth

Rhagwelir y bydd nifer y plant yn lleihau

Mae nifer amcangyfrifedig y plant (0-15 oed) yn 2020 a'r rhagamcanion ar gyfer 2040 yn dangos bod disgwyl i nifer y plant yng Ngogledd Cymru leihau yn ystod y blynyddoedd i ddod (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r lleihad hwn i'w weld ar draws pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac eithrio Gwynedd lle rhagwelir y bydd cynnydd bach (1.8%). Yn gyffredinol, disgwylir y bydd gostyngiad o 6.1% yn nifer y plant yng Ngogledd Cymru.

Roedd diweddariad y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad 2021 yn rhoi trosolwg o'r ystadegau allweddol;

- Roedd cynnydd o 34% yn nifer y plant yr oedd angen gofal maeth arnynt yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 (600 o blant) a mis Mawrth 2020 (805 o blant).
- Ar 31ain Mawrth 2020, roedd 805 o blant yng Ngogledd Cymru yn byw gyda gofalwr maeth, roedd 40% (325 o blant) yn byw gyda gofalwr maeth annibynnol - roedd angen lleoliad gofal arbenigol ar y rhan fwyaf o'r plant hynny er mwyn cynnal eu hanghenion, gan nad oedd modd i'r gwasanaethau mewnol wneud hynny.
- Ar hyn o bryd mae 11 o blant yn byw mewn cartrefi plant y gellid gofalu amdanynt gan ofalwyr maeth arbenigol. Nid oes digon o ofalwyr maeth â'r sgiliau cywir i gefnogi proffiliau anghenion ein plant.
- Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Chwefror 2021, roedd angen lleoliad ac asesiad rhiant a phlentyn ar 34 o blant.

Mae'r galw am ofal maeth wedi cynyddu

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal maeth yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2015 i tua 945 yn 2020. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Wrecsam, gyda nifer y plant yn dyblu. Roedd cynnydd sylweddol yng Ngwynedd hefyd. Mae'r niferoedd mewn awdurdodau lleol eraill wedi amrywio.

Tabl 26: Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2015	2017	2018	2019	2020
Ynys Môn	90	100	100	90	110
Gwynedd	145	145	145	165	200
Conwy	120	125	150	140	140
Sir Ddinbych	125	110	110	115	115
Sir y Fflint	135	140	135	150	140
Wrecsam	120	135	170	175	240
Gogledd Cymru	735	755	810	835	945
Cymru	4,250	4,425	4,700	4,840	4,990

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol sydd mewn lleoliadau maeth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y lleoliadau maeth, roedd y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (2019) yn nodi nad oedd disgwyl cynnydd mawr yn y dyfodol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio lleoliadau gofal maeth mewnol ac asiantaethau maethu annibynnol i ddarparu gofal. Mae rhai o'r asiantaethau maethu annibynnol yn elusennau neu'n fentrau cydweithredol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y mathau gwahanol o ddarpariaeth lleoliadau maeth, yn ôl Awdurdod Lleol.

Tabl 27: Nifer y lleoliadau maeth yn ardal yr awdurdod lleol a gomisiynwyd yn ôl y math o ddarparwr

Cyngor lleol	Mewnol (nifer)	Darparwr annibynnol (nifer)	Cyfanswm (nifer)	Mewnol (canran)	Darparwr annibynnol (canran)
Ynys Môn	37	32	69	54%	46%
Gwynedd	98	31	129	76%	24%
Conwy	82	41	123	67%	33%
Sir Ddinbych	69	19	88	78%	22%
Sir y Fflint	55	13	68	81%	19%
Wrecsam	119	21	140	85%	15%
Gogledd Cymru	460	157	617	75%	25%

Ffynhonnell: Darparwyd gan bob awdurdod lleol

Rhagweld cynnydd yn y galw am rieni maeth

Cyfrifodd y Rhwydwaith Maethu Cenedlaethol fod angen tua 550 o rieni maeth newydd ar draws Cymru bob blwyddyn i ateb y galw. Mae hyn yn awgrymu y bydd prinder lleoliadau maeth yn y blynyddoedd i ddod, o ystyried y galw cynyddol.

Materion yn ymwneud â digonolrwydd ar gyfer rhai plant

Gwelodd y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol, 2019) fod problemau yn ymwneud â digonolrwydd wrth geisio dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol, gan gynnwys:

- Gofal seibiannol
- Troseddwyr ifanc
- Ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches
- Rhieni ifanc
- Grwpiau o frodyr/chwiorydd
- Sefyllfaoedd brys

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn broblem, ac wrth i'r galw am leoliadau gynyddu y disgwyl yw na fydd digon o leoliadau gofal i ateb y galw a ragwelir.

Mae gwefan Maethu Cymru wedi hwyluso'r ffordd i'r 22 Awdurdod Lleol ffurfio rhwydwaith o arbenigedd lleol ym maes maethu. Mae'n ceisio gwneud argraff fwy ar lefel genedlaethol, gan weithio gyda gofalwyr maeth er mwyn adeiladu gwell dyfodol i blant lleol. Mae'n rhannu un brand ac un llais i gryfhau prosesau recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth.

Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) wedi canfod bod plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu a bod plant mewn darpariaeth awdurdod lleol yn fwy tebygol o aros yn eu hawdurdod lleol, gan eu galluogi i gadw cysylltiadau pwysig. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cynyddu lleoliadau lleol ac yn lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal.
Yn ôl y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018), mae cynnydd wedi bod yn y galw am faethu cysylltiedig (gyda theulu neu ffrindiau) hefyd. Mae'n nodi hefyd bod lleoliadau awdurdodau lleol yn arwain at gwell ganlyniadau i'r plant. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen i awdurdodau lleol gael y capasiti i hwyluso hyn neu sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd i gadw cysylltiadau os bydd yn cael ei roi mewn lleoliad maeth o fath arall.

Trosolwg o'r farchnad

Trosolwg o'r farchnad ranbarthol

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y ddarpariaeth faethu yn ôl y math o ddarparwr.

Tabl 28: Lleoliadau maethu, gwelyau a chyfran y farchnad yn ôl y math o ddarparwr.

Math o ddarparwr	Cyfran y farchnad (Canran)	Lleoliadau (nifer)	Lleoliadau gofal (nifer)
Mewnol	62%	776	453
Preifat	37%	469	206
Trydydd sector	1%	16	7
Gogledd Cymru	100%	1261	666

Ffynhonnell: Data CCSR a gyrchwyd 31/05/22

Trosolwg o'r farchnad yn Ynys Môn

Mae'r tabl yn dangos faint o blant yn Ynys Môn sy'n cael eu lleoli fwyfwy y tu allan i'w hawdurdod lleol.

Tabl 29: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth fesul ardal – Ynys Môn

Lleoliad y gofal	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
O fewn yr awdurdod lleol	65	60	70	80	-45
Y tu allan i'r awdurdod lleol (Cymru)	30	30	30	20	50
Y tu allan i Gymru	0	0	0	0	0

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiadau Plant sy'n derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 30: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth fesul math – Ynys Môn

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	30	25	25	35	5
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	20	20	40	40	20
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	15	15	10	10	-5
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	5	0	0	0	-5
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	25	25	25	25	0

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Trosolwg o'r farchnad - Gwynedd

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn dangos bod plant yn ardal Gwynedd wedi cael eu lleoli fwyfwy mewn lleoliadau maeth o fewn Sir Gwynedd. Mae'r nifer a gafodd eu lleoli y tu allan i Wynedd ond yng Nghymru wedi lleihau. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru.

Tabl 31: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Gwynedd

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid Nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	110	120	140	135	25
Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, Cymru	35	40	50	50	15
Y tu allan i Gymru	0	5	5	15	15

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigyrau isod yn dangos bod nifer cynyddol o blant yng Ngwynedd yn derbyn gofal mewn lleoliadau maeth y tu mewn a'r tu allan i Wynedd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau gyda theulu/ffrindiau.

Tabl 32: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math - Gwynedd

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	35	50	50	45	10
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	70	65	85	85	15
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod	5	10	15	25	20
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	15	15	10	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	20	20	30	30	10

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae awdurdod lleol Gwynedd ei hun yn adrodd bod "darpariaeth gymharol dda" o leoliadau maeth ar gael yn y sir, o'i gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth ond mae'n cydnabod y gall prinder gofalwyr maeth fod yn broblem yn y dyfodol agos. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddai angen tua 10 – 12 lleoliad maeth newydd bob blwyddyn i gynnal hyn ac o leiaf 18 – 20 i wella'r ddarparieth.

Trosolwg o'r farchnad - Conwy

Mae Conwy wedi cynyddu nifer y lleoliadau maeth o fewn yr awdurdod lleol ac mae nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, mae nifer y lleoliadau y tu allan i Gonwy ond yng Nghymru wedi cynyddu, gweler y ffigyrau isod.

Tabl 33: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Conwy

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	95	85	100	100	5
Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, Cymru	20	35	35	35	15
Y tu allan i Gymru	35	25	5	5	-30

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Conwy wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoliadau maeth o fewn yr awdurdod lleol a chynnydd bach mewn lleoliadau gydag asiantaethau.

Tabl 34: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math - Conwy

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	25	20	15	20	-5
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	65	60	55	55	-10
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	25	30	35	30	5
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	10	10	15	5
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	20	20	20	20	0

Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Conwy yn dweud bod gwir angen lleoliadau brys a rhai mwy tymor hir ar unwaith. Mae'r awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau lleol i blant, mae'n ystyried amrywiaeth o ddewisiadau i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sir a lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro, costus a lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n bell o'r teulu.

Trosolwg o'r farchnad – Sir Ddinbych

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn dangos cynnydd yn nifer y lleoliadau ar gyfer plant o Sir Ddinbych o fewn y Sir honno a'r tu allan iddi ond yn dal i fod yng Nghymru.

Tabl 35: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal – Sir Ddinbych

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
O fewn yr awdurdod lleol	85	90	90	90	5
Y tu allan i'r awdurdod lleol, yng Nghymru	15	15	15	20	5
Y tu allan i Gymru	10	10	10	10	0

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Sir Ddinbych wedi gwneud defnydd cynyddol o asiantaethau y tu mewn a'r tu allan i'r ardal ac mae cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau gyda theulu /ffrindiau y tu allan i'r ardal.

Tabl 36: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl math – Sir Ddinbych

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	20	20	20	20	0
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	60	70	65	65	5
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	0	5	10	5	5
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	5	10	10	10	5
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	5	0	0	-10
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	10	10	15	5

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi nodi bod angen cynyddu'r capasiti gofal er mwyn ateb anghenion poblogaeth Sir Ddinbych am wasanaethau gofal maeth. Mae hefyd yn cydnabod bod prinder llety seibiannol dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth.

Trosolwg o'r farchnad – Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint mae plant wedi bod yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir, yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Mae'r ffigyrau hefyd yn dangos gostyngiad yn nifer y lleoliadau yn Sir y Fflint.

Tabl 37: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl ardal – Sir y Fflint

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	95	95	90	90	-5
Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, yng Nghymru	25	35	30	45	20
Y tu allan i Gymru	15	20	15	20	5

Mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r data yn y tabl isod yn dangos bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o asiantaethau gan Sir y Fflint ar gyfer lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt.

Tabl 38: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math – Sir y Fflint

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	35	35	35	30	-5
Gydag awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	60	60	50	55	-5
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	5	5	5	15	10
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	15	15	15	15	0
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	15	15	10	15	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	5	15	20	25	20

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Yn ôl Sir y Fflint, ar 31 Mawrth 2021, roedd 109 o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal maeth o fewn a'r tu hwnt i Ardal yr Awdurdod Lleol (heb gynnwys lleoliadau teulu) ac ar 16 Chwefror 2022, roedd y ffigwr hwn yn 102. Mae'r awdurdod lleol yn dweud y gall ofalu am y rhan fwyaf o blant o dan 8 oed o fewn y gwasanaethau maethu mewnol ar hyn o bryd.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r materion canlynol yn ymwneud â digonolrwydd y farchnad:

- Yr angen i ateb y galw a ragwelir am ofalwyr maeth mewnol
- Rhieni maeth i gynorthwyo plant yn y categorïau oedran 10–14 ac 15+
- Dod o hyd i leoliadau lleol addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth
- Ateb y galw ar gyfer plant y mae angen pecynnau gofal amlasiantaeth cymhleth arnynt neu mae ganddynt gynlluniau rheoli risg heriol, er enghraifft, materion yn ymwneud â rheoli dicter, ymddwyn yn ymosodol yn eiriol neu'n gorfforol tuag at oedolion
- Prinder lleoliadau ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd a phlant ag anableddau
- Dim digon o rieni maeth â sgiliau ar gyfer plant ym mhen uchaf y proffil anghenion, sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd
- Oherwydd diffyg lleoliadau mae plant yn cael eu gosod mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio
- Dim digon o ofalwyr sy'n siarad Cymraeg
- Mae prinder lleoliadau rhiant a phlentyn yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint

Trosolwg o'r farchnad - Wrecsam

Mae'r tabl yn dangos cynnydd ym mhob math o leoliadau yn Wrecsam, gan gynnwys plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal.

Tabl 39: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl ardal - Wrecsam

Lleoliad y gofal	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	115	120	145	150	35
Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, yng Nghymru	30	40	65	75	45
Y tu allan i Gymru	20	15	20	25	5

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd mawr yn y defnydd o asiantaethau yn Wrecsam, gyda'r cynnydd mwyaf y tu allan i'r awdurdod lleol.

Tabl 40: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl math - Wrecsam

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	60	70	75	80	20
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	65	55	70	70	5
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	15	20	25	30	15
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	20	20	15	15	-5
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	15	15	40	55	40

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu Fframwaith 4C a phenodwyd Swyddog Lleoli i reoli cronfa ddata'r Fframwaith yn Wrecsam. Mae'r defnydd a'r disgwyliadau o Fframwaith 4C yn parhau i gael eu hymgorffori mewn ymarfer fel tystiolaeth fel arfer gorau. Rydym wedi profi galw cynyddol am leoliadau sy'n gallu bodloni anghenion pobl ifanc hynod gymhleth. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer a chost

lleoliadau o'r fath. Er mwyn cyflawni yn erbyn yr agenda di-elw, bydd angen buddsoddiad pellach yn natblygiad gofal preswyl awdurdodau lleol.

Mae Wrecsam yn ystyried rhoi blaenoriaeth i geisio lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â dileu elw o'r farchnad lleoliadau plant. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod bod diffyg lleoliadau dros dro neu dymor byr i blant.

Sefydlogrwydd y farchnad

Heriau rhanbarthol

Mae'r Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (2019) a 'Maethu Cymru' (2021) wedi nodi heriau sy'n wynebu sefydlogrwydd gwasanaethau maethu yng Ngogledd Cymru a Chymru yn gyffredinol; mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Problemau recriwtio a chadw staff
- Lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol, gan gynnwys; gofal seibiannol, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid/mewnfudwyr/ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau o frodyr/chwiorydd a sefyllfaoedd argyfwng
- Amcangyfrifir y bydd angen 550 o rieni maeth newydd yng Nghymru bob blwyddyn i ateb y galw

Sefydlogrwydd y farchnad – Ynys Môn

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod y materion canlynol yn effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth maethu yn y dyfodol:

- Gweithlu – recriwtio a chadw staff, proffil oedran y gweithlu, costau
- Cyflenwad a dewisiadau sydd ar gael
- A all yr argyfwng costau byw effeithio ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ac felly amharu ar yr amcanestyniad o ostyngiad yn y galw?
- Effaith plant sy'n ceisio lloches ar adnoddau gan gynnwys lleoliadau a chymorth sydd ar gael.
- Effaith cyraeddiadau heb eu cynllunio i Borthladd Caergybi.

Sefydlogrwydd y farchad – Gwynedd

Mae Gwynedd wedi nodi sawl ffactor a all ddylanwadu ar sefydlogrwydd maethu:

- Recriwtio a chadw staff
- Prinder posibl o leoliadau maeth, amcangyfrifir y bydd angen 10-12 lleoliad newydd bob blwyddyn i gynnal y ddarpariaeth ac o leiaf 18-20 i'w gwella
- Cyllid – pryderon yn ymwneud â chynnal ansawdd gwasanaethau ag adnoddau cyfyngedig
- Mae diffyg cyllid yn aml yn arwain at ddefnyddio darparwyr y tu allan i'r sir sy'n golygu costau uwch, ac mae hyn yn ychwanegu at y broblem

Sefydlogrwydd y farchad – Conwy

Mae Conwy yn cyfeirio at faterion allweddol yn ymwneud â sefydlogrwydd eu gwasanaeth maeth yn y dyfodol:

- Recriwtio a chadw staff (yn gysylltiedig â thâl ac amodau ond nid yn gyfyngedig i'r materion hyn)
- Mae dirfawr angen lleoliadau brys a mwy hirdymor yn y sir

Sefydlogrwydd y farchnad – Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod rhai ffactorau allweddol a all effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth:

- Cynnydd yn y capasiti i ateb anghenion y boblogaeth yn Sir Ddinbych
- Materion yn ymwneud â staffio a recriwtio
- Hyfforddiant a gwybodaeth arbenigol
- Problemau ariannu hirdymor posibl
- Anghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth
- Nid yw'r cyflenwad o ofal arbenigol yn ateb y galw
- Gofal seibiannol dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth
- Diffyg lleoliadau i blant ag ymddygiad heriol/cymhleth

Cynaliadwyedd y ddarpariaeth

- Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod y materion canlynol yn effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth: mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o recriwtio gofalwyr maeth mewnol ac mae diffyg ymgeiswyr. Mae hyn wedi arwain at wneud mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maeth Annibynnol.

- Mae'r diffyg lleoliadau sydd ar gael yn golygu nad oes unrhyw leoliadau yn cael eu cynnig neu cynigir lleoliadau sydd gryn bellter i ffwrdd, ac nid yw hyn bob amser er lles yr unigolyn ifanc.
- Mae plant y mae angen lleoliad gofal arnynt, ond ni ellir dod o hyd i ofal maeth ar eu cyfer, yn cael eu rhoi mewn gofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae'n ymddangos bod amharodrwydd i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Gall hyn arwain at leoliad gofal sydd cryn bellter i ffwrdd.
- Pwysau penodol os bydd plentyn/unigolyn ifanc yn hunan-niweidio neu'n dangos tueddiadau hunanladdol, mae darparwyr yn amharod i gynnig lleoliadau ac mae'r ddarpariaeth frys yn hynod o gyfyngedig.

Camau ataliol ar gyfer plant 'ar gyrion gofal'

Yn ystod y cyfnod pan wnaeth y gronfa gofal integredig gynnal y ddarpariaeth 'ar gyrion gofal', cafodd 122 o deuluoedd (200 o blant) gymorth, gan gynnwys y canlynol:

Gwnaeth 7 o rieni a 2 ofalwr maeth (19 o blant) fynychu Grŵp Cyfranogi Rhieni newydd (gwaith cydweithredol gyda 'Parents and Carers against Exploitation', Heddlu Gogledd Cymru, cydweithwyr Iechyd ac Adran Arweiniol Diogelu Sir Ddinbych). O blith y rhain, nid yw 6 bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trosolwg amlasianaeth ym Mhanel Ecsbloetio Sir Ddinbych ac nid yw 2 ohonynt bellach yn cael eu gweld gan yr adran gofal cymdeithasol.

Derbyniodd 2 o blant mewn lleoliadau maeth tymor hir ymyrraeth ddwys a wnaeth sefydlogi eu lleoliad a galluogi'r gofalwr maeth a'r rhiant i gael dealltwriaeth ar y cyd o anghenion pob plentyn unigol.

Gwnaeth 16 aelod staff ar draws Gofal Cymdeithasol, Ymyrraeth Gynnar a Thai fynychu hyfforddiant Sgiliau Therapi Ymddygiadol Dilechdidol (DBT: Dialectical Behavioural Therapy) a bydd y Gwasanaeth Therapiwtig yn mentora'r staff hyn i ddatblygu grwpiau sgiliau DBT ar gyfer Gofalwyr Maeth a Pherthnasau, Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal a Phrosiectau Rhannol-annibynnol a Digartrefedd.

Derbyniodd 1 unigolyn ifanc ymyrraeth ddwys gan y Gwasanaeth Therapiwtig ar ôl i gydweithwyr yr heddlu ddefnyddio Pwerau Amddiffyn yr Heddlu. Roedd angen gofal

maeth tymor byr ar yr unigolyn ifanc a chafodd ei ailgartrefu gyda'i deulu cyn pen 6 wythnos, nid yw bellach yn cael ei weld gan Gofal Cymdeithasol.

Ymgysylltu

Mae Sir Ddinbych yn rhestru'r dulliau canlynol a ddefnyddir er mwyn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth:

- Cynhelir gwerthusiad ansawdd gofal gan Wasanaeth Maethu Sir Ddinbych ym mis Ebrill a mis Mai 2022. Bydd holiaduron yn cael eu hanfon er mwyn ceisio barn plant/pobl ifanc, gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau, aelodau'r panel a rhieni, a bydd y canlyniadau yn helpu i wneud gwelliannau lle bo'r angen yn ogystal â nodi arfer da.
- Datblygwyd grŵp Facebook caeëdig ar gyfer gofalwyr maeth gan holi barn gofalwyr maeth ac mae'n cael ei ddiweddaru'n gyson â gwybodaeth newydd. Mae creu'r tudalen/grŵp wedi cynnig ffordd arall o gasglu adborth, mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu ar draws ardal ddaearyddol fwy ac mae'n haws dod o hyd i'r wybodaeth hon.
- Mae dau fforwm plant/pobl ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd. Nid yw wedi bod yn bosibl iddynt gyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae staff sy'n rhedeg y fforymau yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd.
- Fforwm Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal (Clwb KIC) ar gyfer pobl ifanc 8 - 15 oed sy'n byw gyda gofalwyr maeth. Maent yn cyfarfod ac yn gwneud gweithgareddau yn ystod gwyliau hanner tymor, yn rhannu eu profiadau, yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.
- Mae Clwb KWC (Kids who care) yn grŵp o blant/pobl ifanc y mae eu rhieni yn ofalwyr maeth ac maent hefyd yn rhan o'r broses faethu. Maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor, yn rhannu profiadau, yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.
- Boreau coffi rhithiol i ofalwyr maeth – cafodd gwahoddiadau eu hanfon ynghyd â phecyn yn cynnwys cwdyn te a phecyn o fisgedi. Er mwyn hwyluso'r sgwrs, cafodd gofalwyr maeth eu rhannu'n grwpiau yn seiliedig ar eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Cafodd y boreau coffi eu harwain gan y gweithiwr cymorth goruchwyliol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr y Gwasanaeth, Rheolwr y Tîm Maethu a'r Swyddog Comisiynu Lleoliadau/Swyddog Recriwtio yn 'galw heibio' hefyd. Daeth llawer o bobl i'r

digwyddiadau hyn, a chafwyd llawer o chwerthin, trafodaeth ac adborth cadarnhaol iawn gan y rhai oedd yn bresennol.

- Mae'r Gwasanaeth Maethu wedi gwella ei ddulliau o gyfathrebu gyda gofalwyr maeth drwy anfon newyddlen reolaidd, a chynnal Cystadleuaethau Gwasanaeth Maethu Sir Ddinbych lle gofynnir i blant gynllunio cardiau Nadolig, paentio cerrig a thyfu blodyn haul.

Sefydlogrwydd y farchnad – Sir y Fflint

Nododd Sir y Fflint nifer o faterion a oedd yn effeithio ar sefydlogrwydd gwasanaethau maeth:

- Gofalwyr maeth â sgiliau/profiad i gefnogi pobl yn eu harddegau a grwpiau o frodyr/chwiorydd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc 14, 15 ac 16 oed sy'n dod i mewn i'r system ofal
- Lleoliadau rhiant a phlentyn

Camau a gymerwyd i wella sefydlogrwydd

Mae recriwtio rhieni maeth wedi bod yn broblem yn Sir y Fflint ac mewn ymateb i hyn datblygwyd porth Maethu gyda Sir y Fflint i hyrwyddo rolau Maethu. Mae'r wefan yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth, adnoddau a straeon gan rai o rieni maeth presennol Sir y Fflint. Mae'r awdurdod hefyd wedi targedu ei strategaeth recriwtio i roi sylw i'r galw am rieni maeth â sgiliau a phrofiad i gefnogi plant 12 oed a throsodd.

Rhaglen Mockingbird

Sir y Fflint oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r model Mockingbird sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer lleoliadau maeth. Mae'r rhaglen yn meithrin y berthynas rhwng plant, pobl ifanc a theuluoedd maeth gan eu helpu i adeiladu cymuned gadarn a gofalgar sy'n cynnwys rhwng chwech a deg teulu i greu clwstwr. Nod y model yw gwella gofal maeth a chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu maethu.

Action for Children – Gwasanaeth Ailgartrefu ac Atal (RAP)

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth therapiwtig dwys ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gyda chefnogaeth gan ofalwyr maeth profiadol. Mae'r gwasanaeth yn bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, iechyd, CAMHS a'r elusen Action for Children.

Nod y gwasanaeth yw:

- Atal lleoliadau rhag chwalu neu sefyllfaoedd rhag mynd yn waeth a chyrraedd pwynt lle bydd angen lleoli pobl y tu allan i'r sir
- Dychwelyd pobl ifanc i leoliadau sefydlog yn eu cartrefi
- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael cyfleoedd addysgol
- Gwella cadernid a hyder plant a gofalwyr

Addasiadau i Bolisi Cartrefi Gofalwyr Maeth
Cafodd y polisi 'Addasiadau i Gartrefi Gofalwyr Maeth' ei gyflwyno yn 2020, er mwyn cynorthwyo gofalwyr maeth i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w cartref i ddarparu lle digonol ar gyfer plant/pobl ifanc. Mae'n helpu i ddarparu lleoliadau ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd, bodloni anghenion plant ag anableddau lluosog, sicrhau capasiti ychwanegol ar gyfer lleoliadau maeth a bodloni gofynion iechyd a diogelwch a fyddai fel arall yn golygu bod yn rhaid symud plentyn.

Mae'r cyllid yn ategu'r cymorth sydd ar gael ac mae'n gam ymlaen i sicrhau lleoliadau lleol a sefydlog ar gyfer plant. Bydd ceisiadau ar gyfer arian grant yn cael eu hystyried hyd at £36,000, ac £20,000 ar gyfer adleoli i eiddo mwy addas. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y grant, mae'n rhaid i ofalwyr a gweithiwr cymdeithasol sicrhau eu bod wedi ystyried pob dewis/adnodd arall yn gyntaf.

Mae grantiau ar gael ar gyfer y canlynol hefyd: teuluoedd sy'n mabwysiadu neu sy'n ystyried gwneud hynny, teuluoedd a ffrindiau /gofalwyr plant o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr sydd wedi ymrwymo i'w rôl gofalu am y tymor hir, neu o leiaf nes bydd y plentyn yn 18 oed.

Cyfarfodydd sefydlogrwydd lleoliadau – Mae'r rhain yn cael eu trefnu'n fewnol pan fydd problemau yn codi wrth geisio cynnal lleoliad a bydd yr Asiantaeth Faethu Annibynnol yn eu cadeirio yn ôl yr angen.

Cyfarfodydd Tarfu – Bydd y gwasanaeth yn trefnu cyfarfodydd grŵp er mwyn dod â'r teulu a rhanddeiliaid ynghyd ac ystyried y gwersi a ddysgwyd.

Sefydlogrwydd y farchnad - Wrecsam

Nododd Wrecsam y materion canlynol a allai effeithio ar sefydlogrwydd lleoliaddu maethu:

- Yr angen i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal
- Dileu elw o'r farchnad lleoliadau gofal plant
- Lleoliadau dros dro/tymor byr
- Prinder staff
- Diffyg lleoliadau addas

Mae angen gofalwyr i gefnogi pobl ifanc yn eu harddegau a mamau a babanod yn ardal Wrecsam. Er mwyn recriwtio gofalwyr i ddiwallu'r anghenion hyn, mae'r awdurdod lleol wedi;

- Dechreuwyd adolygiad o gyfraddau tâl gofalwyr, gan gynnig cyfradd uwch ar gyfer gofalwyr arbenigol/medrus sy'n gallu gofalu am blant ag anghenion cymhleth.
- Cynnal ymgyrch recriwtio gan ddefnyddio bysiau, hysbysfyrddau a chyfryngau cymdeithasol.

Mae Cynnig Gadawyr Gofal Wrecsam wedi'i ddatblygu drwy gydol y flwyddyn ac mae'r gwaith o ddatblygu llwybrau llety ar gyfer pobl ifanc ar y gweill. Bydd hyn yn darparu graddau amrywiol o gymorth ar eu llwybr i annibyniaeth a'u tenantiaeth eu hunain.

Cyflawnir hyn drwy ddatblygu gwasanaethau mewnol gan gynnwys;

- Gwasanaeth Llety â Chymorth
- Prosiect Kick Start
- Prosiect Cam i Lawr
- Defnyddio fflat hyfforddi.

Mae'r Tîm Gadael Gofal wedi'i leoli mewn 'siop wybodaeth' hygyrch gyda'u gweithwyr cymdeithasol a'u cynorthwywyr personol tra'n gallu manteisio ar y 'siop un stop' ar gyfer unrhyw feysydd cymorth a nodwyd gan gynnwys mynediad at grantiau cyllid a chymorth cyflogaeth.

Ystyriaeth o ansawdd y farchnad

Roedd yr adroddiad ‘The State of the Nation’ gan yr Asiantaeth Faethu (2021) yn cynnig mewnwelediad i ansawdd gwasanaethau maeth ar draws Cymru, ac roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- dywedodd 44% o ofalwyr maeth annibynnol a 51% o ofalwyr maeth awdurdodau lleol nad oeddynt yn derbyn cymorth i gadw mewn cysylltiad â phlant roeddynt wedi gofalu amdanynt. Roedd gofalwyr maeth yn ystyried bod hyn yn ‘greulon’, ac yn dod â pherthynas bwysig i ben yn achos plant sydd eisoes wedi dioddef llawer o golled yn barod.
- nid yw rhai gwasanaethau maethu yn cynnal cymeradwyaeth gofalwyr maeth, hyd yn oed os ydynt yn bwriadu parhau i faethu. Mae’r sefyllfa hon a’r ffaith bod cymorth ariannol yn dod i ben yn atal pobl ifanc rhag symud ymlaen i’r cam ‘Pan rydw i’n barod / When I am Ready’.
- nid oes gan 20% o ofalwyr maeth annibynnol ac 12% o ofalwyr maeth yr awdurdodau lleol blant yn eu gofal. Argymhellir eu bod yn gwneud gwell defnydd o sgiliau gofalwyr maeth i fodloni anghenion plant.
- roedd gan 57% o ofalwyr maeth awdurdodau lleol gynllun dysgu a datblygu a gytunwyd, nid oedd gan 31% gynllun o’r fath a doedd 12% ddim yn gwybod. Roedd gan 66% o ofalwyr maeth annibynnol gynllun dysgu a datblygu, nid oedd gan 22% gynllun o’r fath a doedd 12% ddim yn gwybod
- roedd cymeradwyaeth maethu gan awdurdodau lleol yn fwy cyfyngedig na chymerawyaeth annibynnol, ac argymhellir bod asesiadau awdurdodau lleol yn defnyddio statws cymeradwyo mwy eang, gweithdrefnau paru cadarn a phrosesau sefydlogi lleoliadau
- mae gofalwyr maeth yn dymuno meithrin perthynas gyda gweithwyr cymdeithasol a phlant yn eu gofal er mwyn cynnig sefydlogrwydd a pharhad o ran y gweithwyr cymdeithasol. Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd 53% o ofalwyr maeth wedi cael un gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, roedd 29% wedi cael dau, roedd 12% wedi cael tri ac roedd 6% wedi cael pedwar neu ragor
- Roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn cael eu ‘diystyru’ a’u ‘hanwybyddu’ ac nad oedd eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi gan y gweithlu gofal

cymdeithasol. Mae diffyg parch i'w hymrwymiad, sgiliau a'u hymroddiad yn broblem hirdymor sy'n aml yn cael ei nodi yn y maes maethu

- Mae gofalwyr maeth eisiau lwfansau i dalu am yr holl gostau o ofalu am blentyn a thaliad sy'n adlewyrchu eu gwerth fel aelod o'r tîm o amgylch y plentyn. Mae taliadau digonol yn hanfodol er mwyn denu gofalwyr maeth newydd ymroddedig â'r sgiliau cymwys
- Diffyg dewis o ran lleoliad. Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu paru â lleoliadau addas, byddai angen i wasanaethau weld cynnydd sylweddol yn y mynediad at leoliadau lleol o ansawdd
- Nid yw lefelau staffio yn ddigonol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer teuluoedd maeth. Mae'r gwasanaethau am weld lefelau staffio a fyddai'n eu galluogi i ddarparu arfer gorau a gwella safonau
- Ymarfer sy'n wybodus am drawma – pryderon ynglŷn â mynediad at hyfforddiant a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer pobl sy'n gofalu am blant sydd wedi wynebu trawma. Mae'r gwasanaethau yn dymuno i blant sy'n derbyn gofal gael eu blaenoriaethu i dderbyn gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd ac addysg
- Cymorth i ofalwyr maeth gyda gwell gwasanaethau cymorth cymheiriaid a darpariaeth y tu allan i oriau. Roedd y gwasanaethau hynny a oedd yn gallu cynnig y cymorth hwn wedi gwella eu lefelau cadw a sefydlogrwydd

Tueddiadau presennol a'r dyfodol

Prif dueddiadau presennol a'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau maeth yw:

- Cynnydd yn y galw am leoliadau
- Llai o leoliadau ar gyfer plant hŷn
- Llai o leoliadau ar gyfer plant â chynlluniau gofal cymhleth /problemau ymddygiad
- Diffyg rhieni maeth â sgiliau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth
- Cynnydd tebygol yn y galw am leoliadau
- Prinder tebygol o leoliadau, nid yw'r cyflenwad yn cyfateb i'r galw

Y Gymraeg

Nodwyd bod prinder rhieni maeth Cymraeg eu hiaith yn Sir y Fflint.

Trafodir y ddarpariaeth o ran y Gymraeg ar draws gweddill Gogledd Cymru yn y bennod ar wasanaethau plant yn yr adroddiad hwn.

Darpariaeth arall

Mae diffyg sylweddol o leoliadau maeth neu breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad heriol neu gymhleth.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o recriwtio gofalwyr maeth mewnol ac mae diffyg ymgeiswyr. Mae hyn wedi arwain at mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maeth Annibynnol.

Mae'r diffyg hyn wedi golygu nad oes modd cynnig lleoliadau o gwbl, neu gellir cynnig lleoliadau gryn bellter i ffwrdd yn unig, ac nid yw hyn bob amser er lles yr unigolyn ifanc.

Mae plant y mae angen lleoliad gofal arnynt ond nid yw'n bosibl dod o hyd i ofal maeth ar eu cyfer yn cael eu symud i ofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae'n ymddangos bod amharodrwydd i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Unwaith yn rhagor, gall hyn arwain at gynnig lleoliad gryn bellter i ffwrdd.

Mae pwysau pendol os yw'r plentyn /unigolyn ifanc yn dangos tueddiadau hunan-niweidio eu hunanladdol, ac mae darparwyr yn amharod i gynnig lleoliadau i'r garfan hon. Mae'r ddarpariaeth frys yn hynod o gyfyngedig.

Gweithlu

Cyfeiriodd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) at y ffaith bod nifer o aelwydydd sydd wedi'u cymeradwyo i faethu yn cael eu colli o'r system. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn cynyddu ymholiadau, trosiadau, cymeradwyaeth a chadw rhieni maeth.

Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y rhieni maeth a'r lleoliadau wedi cynyddu rhywfaint ar draws Gogledd Cymru. Fodd bynnag, yng Ngwynedd a Sir Ddinbych gwelwyd lleihad yn nifer y rheini maeth a'r lleoliadau sydd ar gael, ac yn Sir y Fflint roedd lleihad yn nifer y rheini maeth ond cynnydd yn nifer y lleoliadau. Os bydd y lleihad hwn yn nifer y rhieni maeth neu'r lleoliadau yn parhau, gallai hyn arwain at sefyllfa lle na fydd digon o leoliadau i blant yn yr awdurdodau lleol hyn.

Tabl 41: Nifer y lleoliadau maeth a gymeradwywyd ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2016/17	2017/18	2018/19
Ynys Môn	86	69	43
Gwynedd	164	178	198
Conwy	113	130	127
Sir Ddinbych	156	155	149
Sir y Fflint	133	157	156
Wrecsam	161	172	166
Gogledd Cymru	813	861	839
Cymru	4,075	4,170	4,317

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 42: Nifer y rhieni maeth a gymeradwywyd, ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2016/17	2017/18	2018/19
Ynys Môn	45	38	39
Gwynedd	103	111	120
Conwy	70	84	80
Sir Ddinbych	78	77	74
Sir y Fflint	77	77	76
Wrecsam	100	112	110
Gogledd Cymru	473	499	499
Cymru	2,347	2,443	2,462

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Sgiliau a hyfforddiant sy'n ddymunol ar gyfer gofalwyr:

Gofalwyr sy'n gallu gweithio gyda'n gwasanaethau mewnol ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i ddarparu gofal therapiwtig sy'n wybodus am drawma.

Gofalwyr sy'n ymwybodol o effaith llinellau cyffuriau ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi plant sy'n agored i gael eu hecsbloetio gan y gangiau hyn. Mae hyn yn cynnwys y cadernid i weithio gyda phlant sy'n cael eu hecsbloetio gan gangiau, sy'n diflannu'n aml ac sy'n gallu ymddwyn yn ymosodol yn eiriol ac weithiau'n gorfforol.

Gofalwyr sy'n gydnerth ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i weithio gyda thrawma yn ystod plentyndod, plant yn diflannu, ecsbloetio a hunan-niweidio.

Gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant i ddeall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ar y plant maent yn gofalu amdanynt.

Gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn ymyrraeth frys, ac sy'n gallu gweithio'n ddigynnwrf o dan bwysau cynllunio brys.

Gofalwyr sy'n gydnerth pan fyddant yn wynebu bygythiad o niwed corfforol ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i dawelu sefyllfaoedd, ynghyd â chynllunio ar gyfer rheoli ymddygiad cadarnhaol, lleihau'r defnydd o ddulliau atal corfforol.

Gofalwyr sy'n gallu siarad Cymraeg neu sydd wedi ymrwymo i ddysgu'r iaith.

Gwerth cymdeithasol

Mae tri darparwr yn cynnig cyfanswm o 16 gwely mewn 7 lleoliad gofal ar draws y rhanbarth, mae'r rhain yn cyfrif am 1.3% o'r farchnad.

Dileu elw o'r sector gofalu am blant sy'n derbyn gofal

Un o'r amcanion llesiant a sefydlwyd yn Rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-2016 yw amddiffyn, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Un flaenoriaeth allweddol yn y maes gwaith hwn yw dileu elw preifat o'r sector gofalu am blant sy'n derbyn gofal.

Gall comisiynu lleoliadau i asiantaethau annibynnol gael effaith ar ddarpariaethau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal annibynnol i sicrhau bod y farchnad fewnol a marchnad y sector annibynnol yn gweithredu i ddiwallu anghenion gofal maeth. Amlygwyd hyn fel risg bosibl gan awdurdod lleol Sir y Fflint, a ddywedodd ei fod yn canolbwyntio ar ddefnyddio asiantaethau maethu annibynnol ar gyfer y gwasanaethau hynny roeddynt yn cael trafferth eu darparu drwy wasanaethau'r awdurdod lleol.

Er bod holl awdurdodau lleol Cymru yn talu isafswm y lwfans cenedlaethol neu fwy na hynny, gwelodd yr arolwg o lwfansau gofal maeth o'r Rhwydwaith Maethu (2020)

fod gofalwyr maeth yn teimlo nad yw eu lwfans presennol yn talu am gostau llawn gofalu am blentyn. Mae'r rhwydwaith yn argymell gwneud taliadau maeth yn dryloyw fel bod gofalwyr maeth yn gallu gweld yn union faint yw'r lwfans, faint y mae'n rhaid ei wario ar y plentyn, faint yw'r ffî a faint sy'n daliad am amser a sgiliau'r gofalwr maeth.

7. Gwasanaethau mabwysiadu

Trosolwg ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae gweithio'n rhanbarthol yn helpu i ddod o hyd i deuluoedd newydd yn fwy effeithiol, lleoli plant yn gynt a gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Ym mis Ebrill 2014, cafodd ei integreiddio i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau'n cydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol cyfredol mabwysiadu, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) ac yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth, o fewn yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu. Mae ganddo fframwaith sy'n ceisio ei gwneud yn haws i fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc gael cymorth pan mae ei angen.

Mae gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y gwasanaeth mabwysiadu yn cynnwys:

- Paratoi'r plentyn i gael ei fabwysiadu
- Canfod teuluoedd a pharu
- Diogelu Plant
- Darparu cymorth mabwysiadu
- Recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr
- Hyfforddiant paratoi i fabwysiadu (cyn/ar ôl cael cymeradwyaeth)
- Cymorth mabwysiadu (cyn/ar ôl mabwysiadu, system 'bydis', cyswllt ar ôl mabwysiadu)
- Gwasanaeth cwnsela i rieni biolegol
- Babanod sy'n cael eu hildio
- Gwasanaethau i oedolion wedi'u mabwysiadu

Trosolwg o'r boblogaeth

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y plant yn derbyn gofal a gafodd eu rhoi i'w mabwysiadu ym mhob awdurdod lleol. Mae hi werth nodi bod y gwasanaeth wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol ers 2020, felly mae'n anodd cymharu data lleol ac nid yw'n adlewyrchu'r gwasanaeth erbyn hyn.

Tabl 43: Nifer y plant yn derbyn gofal a gafodd eu rhoi i'w mabwysiadu yn ôl awdurdod lleol 2020/21

Cyngor lleol	Nifer y plant
Ynys Môn	6
Gwynedd	2
Conwy	17
Sir Ddinbych	7
Sir y Fflint	1
Wrecsam	11
Gogledd Cymru	44

Ffynhonnell: Ffigyrau wedi'u darparu gan bob awdurdod lleol

Tueddiadau heddiw a rhagolygon y dyfodol

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer plant:

- Mwyaf o alw am leoliadau i blant o'r Dwyrain
- Nifer uchaf o fabwysiadwyr o'r Dwyrain
- Llai o fabwysiadwyr yn y Gorllewin a phlant angen eu lleoli oddi wrth y Dwyrain
- Yn genedlaethol, mae mwy o blant nag sydd o fabwysiadwyr ar gael
- Ystyriaeth i nifer y siaradwyr Cymraeg (mabwysiadwyr/plant)

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer oedolion:

- Oedolion yn gofyn am eu cofnodion geni i ddod o hyd i'w rhieni biolegol – gwasanaeth wedi'i atal yn ystod y pandemig, ond mae mwyafrif y gwasanaethau wedi ailddechrau, ond mae rhestr hir
- Staffio – 43 o staff, 10 ar fin mynd neu ar gyfnod mamolaeth ac mae'n anodd recriwtio i swyddi cyfnod penodol felly efallai y bydd yn effeithio ar y gallu i asesu yn 2022/23

Adroddiadau ansawdd

Pwysleisiodd Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) y meysydd canlynol i wella sefydlogrwydd y farchnad:

- Cynyddu nifer y mabwysiadwyr sy'n cael eu cymeradwyo
- Lleihau nifer y plant sy'n disgwyl am deulu i'w mabwysiadu
- Datblygu'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu
- Recriwtio – gweithwyr sesiynol a seddi gwag ar y panel mabwysiadu

Nododd arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) y meysydd hyn i'w gwella:

- Datblygu prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac asesu i ba raddau mae amcanion y datganiad o ddiben yn cael eu cyflawni a dangos tystiolaeth i brofi sut mae'r rhain yn cefnogi canlyniadau lles i blant
- Argaeledd y 'Cynnig Gweithredol', i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg
- Y datganiad o ddiben a'r pecyn gwybodaeth i fabwysiadwyr yn cynnwys gwybodaeth am y system adolygu annibynnol fel bod mabwysiadwyr yn ymwybodol o hyn
- Dylai ffeiliau canolwyr gynnwys llwybr archwilio clir o waith sydd wedi'i wneud

8. Gofalwyr di-dâl

Trosolwg o'r boblogaeth

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt ac mae'n ddyletswydd ar gynghorau lleol i asesu eu hanghenion a hyrwyddo eu lles. Mae cefnogi gofalwyr di-dâl yn fesur ataliol ar gyfer y gofalwr unigol yn ogystal ag ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal.

Yn ôl cyfrifiad 2011 ceir oddeutu 79,000 o bobl, o bob oed, yn darparu gofal yn ddi-dâl yng ngogledd Cymru – ac mae disgwyl i'r niferoedd godi wrth i'r galw am ofal a chymorth gynyddu. Daeth mwy o ofalwyr di-dâl atom yn ystod y pandemig i dderbyn cymorth.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymorth y mae ar ofalwyr di-dâl ei angen yn cael ei ddarparu i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano, felly mae diffyg darpariaeth yn y farchnad ofal yn arwain at alw ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Mae'r asesiad o'r boblogaeth wedi amlygu bod problemau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach, o ran recriwtio a chadw staff, yn arwain at ofynion ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar ofal cymhleth, sy'n golygu bod gofalwyr di-dâl yn gyfrifol am ofal unigolion sydd ag anghenion gofal uwch. Mae'r blaenoriaethau eraill a nodwyd yn cynnwys adnabod gofalwyr yn fuan, seibiant i ofalwyr (gofal seibiant), gwella asesiadau gofalwyr di-dâl a chynhwysiant digidol.

Digonolrwydd yn y farchnad

Mae nifer y gofalwyr yn cynyddu. Mae'r twf mwyaf i'w weld yn y rheiny sy'n darparu rhwng 20 a 48 awr o ofal yr wythnos. Mae cynnydd hefyd yn nifer y gofalwyr sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos; yn Sir Ddinbych mae oddeutu 46% o'r gofalwyr hyn dros 65 oed. Rhain yw'r gofalwyr sy'n debygol o fod â rolau gofalu dwys a gydag anghenion cymorth uwch.

Mae'r tueddiadau demograffig hyn yn cael eu hadlewyrchu gan y nifer cynyddol o bobl sy'n byw gydag anhwylderau hirdymor, yn cynnwys anableddau dysgu,

dementia a chyflyrau iechyd meddwl, yn ogystal â thwf cyffredinol yn y boblogaeth hŷn.

Gwyddom o siarad gyda gofalwyr di-dâl a'r gwaith mapio sydd wedi'i wneud, bod rhai gofalwyr sydd angen cymorth yn ei chael hi'n anodd canfod gofal amgen ac mae llawer yn methu cymryd seibiant am gyfnodau hir, oherwydd effaith pandemig Covid-19.

Yn ôl adroddiad 'Road to Respite' (Gorffennaf 2021) Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru seibiant byr yw unrhyw seibiant sy'n cryfhau a/neu'n cynnal perthynas ofalu anffurfiol ac sy'n gwella lles gofalwyr a'r bobl maent yn gofalu amdanynt.

Yn 2021-22 dyfarnodd Llywodraeth Cymru grant seibiant gofalwyr i awdurdodau lleol, gyda phwyslais ar gefnogi datblygiad seibiant hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na'r gwasanaeth eistedd traddodiadol neu gymorth gofal amgen.

Nododd yr asesiad o'r boblogaeth fod yna ystod eang o wasanaethau ar gael yn y rhanbarth i gefnogi gofalwyr. Mae'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, sy'n arwain ar ofalwyr o fewn y tîm cydweithio rhanbarthol, yn mapio'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yn y gogledd yn rheolaidd, gan nodi unrhyw faes sy'n cael ei ddyblygu yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ar draws y chwe chyngor a'r bwrdd iechyd.

Yn ogystal â'r angen am fwy o seibiant i ofalwyr (gofal seibiant) ar draws y rhanbarth, mae'r anghenion lleol canlynol wedi'u hamlygu hefyd:

Mae'r ffactorau canlynol yn effeithio ar ofalwyr di-dâl;

- Bylchau yn y ddarpariaeth gyffredinol mewn gwasanaethau i ofalwyr pobl hŷn a'r unigolion sy'n derbyn gofal
- Rhestrau aros am gefnogaeth gofal cartref ym mhob rhan o Wynedd oherwydd diffyg darpariaeth
- Bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer seibiant tymor byr o ofalu pan fo gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal anghenion na ellir eu diwallu gan gefnogaeth sector gwirfoddol/trydydd sector.
- Mae canolfannau dydd wedi bod ar gau yn ystod cyfnod COVID – rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu cymorth amgen ar sail 1:1. Rydym yn ailagor canolfannau dydd yn raddol ac yn y broses o ailfodelu gwasanaethau gofal

dydd i bobl hŷn gan ddatblygu darpariaeth fwy lleol ar gyfer nifer llai o unigolion.

- Daeth gofal seibiant mewn cartrefi preswyl i ben yn ystod y cyfnod COVID o ganlyniad i'r rheoliadau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi dechrau eto, ond mae heriau staffio yn bodoli yn un ar ddeg o gartrefi preswyl y Cyngor.
- Mae ardaloedd lle mae canran uchel o fewn y boblogaeth hŷn, a chanran isel o'r boblogaeth oedran gweithio - her recriwtio a chystadlu gyda gwasanaethau lleol eraill/unigolion iau yn gadael yr ardal am gyfleoedd gwaith.
- Mae daearyddiaeth yr ardal yn cyfrannu at y bylchau, gyda nifer yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus am fynediad i gefnogaeth briodol.

Ynys Môn

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl trwy gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Meddwl i'r Dyfodol Cynllunio l'r Dyfodol yn o fewn Cynnal Gofalwyr a ariennir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gael sgyrsiau gyda gofalwr am eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol. Mae cael sgwrs ar y cam cynharaf posibl yn caniatáu amser i nodi a threfnu unrhyw newidiadau neu addasiadau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r person y maent yn gofalu amdano, a hwy eu hunain fel y gofalwr.

Gwynedd

Mae'r gwasanaeth anabledd dysgu wedi llwyddo i barhau i gynnig seibiant i wasanaethau dros gyfnod Covid. Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi llwyddo i gynyddu'r ddarpariaeth yma, gan gyflwyno unigolion i seibiant am y tro cyntaf e.e. unigolion oedran pontio, yn ogystal â gallu cynnig arosiadau rheolaidd i unigolion sy'n byw gartref gyda gofalwyr/teulu di-dâl.

Mae'r galw am wasanaethau cwnsela a ddarperir gan y trydydd sector (Cynnal Gofalwyr) yn sylweddol uwch na'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae cyfleoedd dydd a gwasanaethau cefnogol yn parhau i wynebu her o ran y diffyg staffio/recriwtio felly mae nifer o unigolion yn derbyn llai o ddyddiau/oriau.

Mae defnydd o fyngalo gwyliau (a ddarperir gan Antur Waunfawr) wedi ei ymestyn am chwe mis arall, gyda'r cynnig i unrhyw un sy'n gofalu yng Ngwynedd drefnu arhosiad byr am ddim. Mae nifer o ofalwyr wedi manteisio ar hyn.

Mae rhaglen waith gwydnwch cymunedol Gwynedd yn edrych ar ddatblygu hybiau gwybodaeth/mentrau cymunedol i gwrdd ag anghenion ar lefel leol.

Mae cyfleoedd seibiant i unigolion ag anableddau dysgu ar gael trwy Gynllun Rhannu Bywydau Gwynedd a Môn a Seren Cyf. Mae gwaith yn parhau trwy'r hybiau cymunedol a grybwyllwyd uchod i gynnig cyfleoedd a gweithgareddau yn lleol a hefyd trwy ein Tîm Llwybrau Llesiant.

Sir Ddinbych

Mae galw cynyddol am ddarpariaeth gofal amgen a gofal seibiant mwy hyblyg ar benwythnosau, dros nos neu gyfnodau wedi'u trefnu ymlaen llaw fel 'Respitality' ar gyfer oedolion hŷn a phlant ac oedolion gydag anableddau cymhleth, i atal perthynas y gofalwr a'r unigolyn rhag chwalu, i leihau derbyniadau brys i ofal preswyl ac i roi mwy o ddewis i bobl.

Sir y Fflint

- Mae'r galw am seibiant a chymorth i rieni sy'n gofalu yn cynyddu, oherwydd cymhlethdodau'r cyflyrau iechyd amrywiol sydd gan rai plant, yn ogystal â'r nifer uchel sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol
- Mae canfod seibiant i blant ac oedolion gydag anghenion cymhleth, yn cynnwys anghenion iechyd, yn her barhaus
- Mae canfod cynorthwywyr personol addas yn her ac yn faes sydd arnom ni angen ei ddatblygu yn ogystal ag ehangu cymorth cymunedol i wella gwydnwch a gallu teuluoedd i gynnal eu rolau gofalu. Cefnogi proses recriwtio cynorthwywyr personol

Cafodd cyfleoedd seibiant lleol eu heffeithio'n fawr gan y pandemig, gyda lleoedd brys yn unig yn cael eu cynnig

Wrecsam

Mae ymgysylltu â gofalwyr di-dâl yn Wrecsam wedi amlygu nifer o heriau sylweddol ers y pandemig. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu mewn partneriaeth â gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymorth. Er mwyn gyrru'r agenda yn ei blaen mae cyllid

ar gyfer Swyddog Arweiniol Gofalwyr Di-dâl wedi'i sicrhau o'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol 22/23.

Lansiwyd Cynllun Taliad Uniongyrchol Gofalwyr Di-dâl yn 2021/22. Gwnaed 31 o daliadau y llynedd. Roedd hyn yn galluogi gofalwyr di-dâl i brynu atebion seibiant a oedd yn bodloni eu hanghenion yn hyblyg.

Sefydlogrwydd y farchnad

Mae llawer o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yng ngogledd Cymru yn cael ei ariannu drwy grantiau neu'n cael ei gomisiynu i sefydliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol sydd â hanes hir a gwerthfawr o gefnogi gofalwyr. Mae'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn gallu denu cyllid allanol yn effeithiol i ddatblygu gwasanaethau er mwyn i ofalwyr di-dâl ychwanegu gwerth ychwanegol at y ddarpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae dibynnu ar gyllid grant yn gallu peryglu sefydlogrwydd rhai gwasanaethau. Mae rhai gwasanaethau i ofalwyr yn cael eu comisiynu'n rhanbarthol neu'n is-ranbarthol i geisio symleiddio'r gofynion comisiynu ac adrodd sydd ar sefydliadau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth.

Amlygodd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fod modd cyflawni modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol a gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy'r profiad a rennir gyda chyd-ofalwyr, cefnogi'r naill a'r llall a chydgyfnewid. Bydd angen cymorth ar ofalwyr di-dâl i greu trefniadau cydweithredol a bydd angen strategaeth fuddsoddi ar gomisiynwyr sy'n creu gallu y tu hwnt i'r farchnad.

Mae'n bwysig cydbwyso gwasanaethau ataliol sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles gofalwyr a gwasanaethau a gomisiynir sy'n cwrdd ag anghenion asesedig gofalwyr.

Mae comisiynu gwasanaethau wedi'i osod yn erbyn yr angen i ymateb i bwysau cyllidebol a wynebir yn genedlaethol, ac felly mae buddsoddi mewn gwasanaethau cynaliadwy yn allweddol er mwyn cwrdd â'r galw.

Rydym yn comisiynu gwasanaethau sy'n:

- Hyblyg, ar gael ledled y sir ac yn cwrdd ag anghenion unigol gofalwyr
- Cynaliadwy yn yr hirdymor
- Annog ymgysylltu gyda, a mynediad i, weithgareddau cymunedol sy'n cefnogi'r gofalwr a/neu'r sawl sy'n derbyn gofal

- Galluogi gofalwyr i barhau i ofalu, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth gan gymheiriaid, hyfforddiant a seibiant byr o'r rôl ofalu

Gwynedd

Yn gyffredinol, a yw'r farchnad yn debygol o ddarparu a chynnal y lefelau gwasanaeth gofynnol i fodloni'r cyflenwad

Mae'r prosiect gofal cartref yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â gofal a chymorth cartref i unigolion yn y gymuned. Mae'r agenda atal cydnerthedd cymunedol yn edrych ar ddatblygu cymunedau i gefnogi'r agenda ataliol. Rydym hefyd yn addasu cartrefi preswyl y Cyngor i greu mwy o unedau gofal dementia a darpariaeth gofal dydd a seibiant.

Sir Ddinbych

Yn lleol, mae llawer wedi'i gyflawni i foderneiddio cymorth ac i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu gyda mewnbwn gofalwyr di-dâl a theuluoedd er mwyn helpu i nodi 'beth sy'n bwysig' a defnyddio dull Sir Ddinbych sy'n seiliedig ar asedau i'w helpu nhw i ganfod datrysiadau.

Rydym ni'n annog pobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol a thalebau pontio'r bwlch yn greadigol i gefnogi dewis unigolion ac i ganiatáu i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant neu fwynhau gweithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda'r sawl sy'n derbyn gofal a hebddo. Er enghraifft, galluogi gofalwyr di-dâl i fynd i gyngerdd neu briodas neu dalu am aelodaeth campfa, peiriant golchi newydd, cyrsiau hyfforddiant neu wersi gyrru.

Mae'r anghenion dynodedig yn Sir Ddinbych yn cynnwys:

- Mwy o gymorth seibiant arbenigol (penodol i gyflwr) i adlewyrchu'r gwahanol anghenion, e.e. lleoedd sy'n addas i bobl sydd ag anaf i'r ymennydd, strôc, dementia a chyflyrau niwrolegol eraill (mewn argyfwng ac ar gael i'w harchebu ymlaen llaw)
- Gweithgareddau/digwyddiadau cymunedol sy'n darparu gofal seibiant ac o les i ofalwyr, gyda digon o staff/gwirfoddolwr hyfforddedig i barhau i gefnogi pobl gyda chyflyrau cynyddol sydd angen lefelau uwch o ofal
- Amrywiaeth o ddewisiadau hyblyg, yn cynnwys mwy o wasanaethau sesiynol a chymunedol ar draws Sir Ddinbych, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig

- Cymorth mewn argyfwng i helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol gartref ac allan o'r ysbyty, a mwy o ddewisiadau seibiant rheolaidd a chyson sy'n hawdd eu harchebu ymlaen llaw
- Cymorth grŵp/unigol ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn enwedig i ofalwyr sy'n gweithio a methu mynd i grwpiau cymorth neu fanteisio ar wasanaethau eraill yn ystod y dydd
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da am y dewisiadau seibiant amrywiol sydd ar gael

Mae seibiant yn gweithio orau pan fo gofalwyr yn hapus gyda'r trefniadau, sydd wedyn yn helpu i leihau gorbryder. Mae'r argyfwng recriwtio bresennol yn effeithio ar ddarparwyr – sydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff a gwirfoddolwyr gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir i ddarparu seibiant o'r radd flaenaf.

Mae cymorth seibiant sy'n gweithio orau i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal yn cynnwys gweithgareddau ystyrlon sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u hobïau. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hyrwyddo datblygiad Catalyddion Cymunedol / Cyflogwyr Micro a defnyddio gwirfoddolwyr ychwanegol ochr yn ochr â gwasanaethau a gomisiynir. Rydym ni hefyd yn annog mentrau cymdeithasol lleol i gynnal prosiectau arloesol i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Rydym ni'n aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu llety seibiant a chynllun seibiant byr cenedlaethol. Yn lleol gall gofalwyr archebu llety gwesteion mewn cynlluniau gofal ychwanegol a dau eiddo sydd wedi'u haddasu'n ddiweddar yn Rhuthun a Chorwen. Mae Rhannu Bywydau hefyd ar gael, yn bennaf ar gyfer pobl gydag anableddau cymhleth, lle mae unigolion yn cael eu paru gyda theuluoedd Rhannu Bywydau. Mae gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) a Chynnal Gofalwyr eiddo seibiant a charafán.

Sir y Fflint

Rydym ni'n croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r ystod o ddewisiadau seibiant sydd ar gael i ofalwyr er mwyn cwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am wasanaethau seibiant yn sgil effaith y pandemig ar iechyd meddyliol a chorfforol gofalwyr.

Rydym ni'n parhau i archwilio dewisiadau seibiant hyblyg i ofalwyr yn seiliedig ar y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyrraedd, ochr yn ochr â gweithgareddau ystyrlon i'r rheiny sy'n derbyn gofal.

Mae ein ffocws ar sicrhau sefydlogrwydd y cymorth i ofalwyr di-dâl yn cynnwys:

- Ystyried sut mae modd i meicro-ofal gefnogi gwasanaethau dydd / seibiant
- Datblygu ein cynnig taliadau uniongyrchol ymhellach i ofalwyr
- Datblygu Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc a'r cerdyn ID ymhellach

9. Gwasanaethau eirioli

Mae eiriolaeth yn golygu derbyn cefnogaeth gan unigolyn arall er mwyn helpu rhywun i fynegi ei safbwyntiau a'i ddymuniadau, a'i helpu i wneud safiad dros ei hawliau.

Mae pob unigolyn yn wahanol. Mae eu hanghenion cymorth yn wahanol, ac yn gallu newid yn ystod eu bywydau. Mae amrywiaeth o wasanaethau eirioli wedi'u datblygu er mwyn cydnabod y gwahaniaethau yma.

Mae'r holl fathau o eirioli yn gyfartal o ran gwerth. Dylai defnydd yr eiriolaeth, a phryd, ddibynnu ar yr hyn sydd orau i'r person sydd ei angen. Un math o eiriolaeth yw Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol sy'n cynnwys eiriolwr hyfforddedig proffesiynol yn gweithio ar sail un-i-un gydag unigolyn i sicrhau bod barn yr unigolyn hwnnw yn cael ei gyfleu'n gywir a'i hawliau'n cael eu cynnal.

Plant a phobl ifanc

Mae eiriolaeth yn garreg sylfaen allweddol i gyflawni ein hymrwymiad i hawliau plant ac mae arnom ni angen gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth pan fydd arnynt ei angen a hynny gan bobl a fydd yn gwrando arnynt ac yn cynrychioli eu barn.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i awdurdodau lleol Cymru fod â gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc ac fe ddylent hefyd wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth. Mae Tros Gynnal Plant yn darparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yn y gogledd.

Pan fydd ar blant a phobl ifanc angen gwasanaethau, weithiau bydd angen eiriolwr i gwrdd â nhw i egluro'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn eu helpu i ddeall beth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn gallu helpu. Dyma yw cynnig gweithredol.

Mae'n rhaid gwneud cynnig gweithredol i:

- Blant mewn gofal
- Bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol

Mae'n gyfrifoldeb statudol ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc, gan gydymffurfio â'r holl reoliadau, safonau,

deddfwriaeth, cyfarwyddiadau, codau ymarfer, fframweithiau canlyniadau ac unrhyw ddiwygiad neu amnewidyn sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae'r gwasanaeth yn 'wasanaeth eirioli' at ddibenion paragraff 7(1) Atodlen 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac yn unol â hynny yn wasanaeth rheoledig y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r darpariaethau/gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)
- Canllawiau statudol yn ymwneud â Rhannau 2 i 15 Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Gofalwyr ifanc

Un o'r pethau a nodir gan ddarparwyr gwasanaethau sydd ei angen ar ofalwyr ifanc yw cymorth eirioli er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.

Mae'r trydydd sector wedi comisiynu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar draws y gogledd. Mae Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych/Credu wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y siroedd hynny; gyda GOGDdC yn darparu'r gwasanaeth yn Sir y Fflint a Gweithredu dros Blant yn darparu'r gwasanaeth yng Ngwynedd a Môn.

Oedolion

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion unigolion o ran cymorth eirioli wrth ymgymryd â swyddogaethau amrywiol sy'n cynnwys penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol unigolion e.e.

- Asesiad o'r angen am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Paratoi, cynnal neu adolygu cynlluniau gofal a chymorth
- Diogelu eiddo unigolyn sy'n derbyn gofal oddi cartref
- Penderfynu ar allu unigolyn i dalu ffi
- Diogelu a dyletswydd i roi gwybod am blant neu oedolion mewn perygl
- Hyrwyddo integreiddio gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd
- Derbyn cwynion neu sylwadau am wasanaethau cymdeithasol

Eiriolaeth:

- Diogelu unigolion sy'n ddiamddiffyn, yn profi gwahaniaethu neu y mae gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd eu gwasanaethu
- Siarad ar ran unigolion sy'n methu gwneud hynny drostynt eu hunain
- Grymuso unigolion sydd angen llais cryfach drwy eu galluogi i fynegi eu hanghenion a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain
- Galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth, i archwilio a deall eu dewisiadau, ac i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau
- Cefnogi pobl yn weithredol i wneud dewisiadau gwybodus

Pobl hŷn

Ariannwyd Rhaglen Eiriolaeth y Llinyn Aur gan Lywodraeth Cymru am bedair blynedd rhwng 2016 a 2020 fel cynllun ychwanegol ac ategol i weithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r rhaglen bellach wedi dod i ben ond mae Age Cymru yn parhau i ymrwymo i eiriolaeth yng Nghymru drwy'r prosiect HOPE.

Ynys Môn, Gwynedd a Wrecsam: Mae Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru yn cynnig gwasanaethau eirioli i bobl dros 65.

Conwy a Sir Ddinbych: Mae Canolfan Byw'n Annibynnol DEWIS yn cynnig eiriolaeth i unrhyw un dros 65 oed, neu unrhyw ofalwr.

Pobl sy'n byw gyda dementia (pob sir): Mae Cymdeithas Alzheimer's yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n byw gyda dementia, boed ganddynt alluedd a'r gallu i gyfathrebu neu beidio.

Iechyd Meddwl

Efallai y bydd ar bobl sy'n derbyn gofal iechyd meddwl eilaidd angen cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010) neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Efallai y bydd angen eiriolaeth ar bobl hŷn gyda dementia, sydd wedi colli cysylltiad â ffrindiau a theulu, neu bobl gydag anableddau dysgu difrifol neu broblemau iechyd meddwl hirdymor sydd wedi bod mewn sefydliadau preswyl am gyfnod hir a heb lawer o gysylltiadau allanol.

Efallai y bydd ar bobl eraill gyda chyflyrau iechyd meddwl angen cymorth gan unigolyn arall er mwyn mynegi barn neu ofyn am gyngor ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r sefydliadau canlynol yn darparu cymorth eirioli arbenigol i bobl gydag anghenion iechyd meddwl:

- Gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS) (Conwy a Sir Ddinbych)
- Gwasanaethau Eirioli Gogledd Ddwyrain Cymru (ASNEW) (Wrecsam a Sir y Fflint)
- Cynllun Adfocatiaeth Iechyd Meddwl (Gwynedd ac Ynys Môn)

Anabledd dysgu

Yn aml iawn mae mynediad pobl gydag anabledd dysgu at wasanaethau gwella iechyd a thriniaethau cynnar yn salach, e.e. gwasanaethau sgrinio cancr, adolygiadau clefyd y siwgr blynyddol, cyngor ar ryw a pherthnasoedd a chymorth gyda dulliau atal cenhedlu(Harris *et al.*, 2016). Mae Gwasanaeth Cyswllt ar gyfer Iechyd Anableddau Dysgu BIPBC yn gweithio ar draws y gogledd i godi ymwybyddiaeth ac i leihau anghydraddoldeb.

Mae eiriolaeth hefyd ynghlwm wrth ganlyniadau lles. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion eiriolaeth unigolion wrth gynnal asesiadau a chynllunio gofal. Efallai y bydd ar bobl gydag anabledd dysgu angen cymorth i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu cynnal.

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol DEWIS yn darparu gwasanaethau eirioli i oedolion diamddiffyn 18 i 64 oed, yn cynnwys pobl gydag anableddau dysgu. Mae Ynys Môn hefyd yn comisiynu Cymdeithas Adfocatiaeth Gogledd Cymru.

Awtistiaeth

Mae eirioli ar gyfer oedolion a phlant awtistig a'u gofalwyr yn sicrhau bod hawliau'r unigolyn yn cael eu cynnal. Gall eiriolaeth ddarparu cymorth mewn sawl ffordd, yn cynnwys i dderbyn diagnosis, goresgyn rhwystrau a defnyddio gwasanaethau.

Hunaneiriolaeth

Yn ogystal, mae Swyddog Hunaneiriolaeth Rhanbarthol wedi'i benodi o ganlyniad i'r angen am ddod â lleisiau newydd i grwpiau hunaneiriolaeth ar draws y gogledd. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyswllt Conwy, Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru a Phobl yn Gyntaf Cymru. Mae gan y Swyddog Hunaneiriolaeth anabledd dysgu ac mae wedi'i gyflogi gan Cyswllt Conwy. Ei rôl yw cysylltu gyda sefydliadau a grwpiau lleol ar draws y gogledd i godi ymwybyddiaeth am, a hyrwyddo buddion hunaneiriolaeth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

Cyfeiriadau

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2020) *Rebalancing Social Care: A report on Children's Services at ADSS Cymru*. Ar gael yn: https://www.adss.cymru/en/blog/post/rebalancing-social-care-a-report-on-children-s-services (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Atkinson, P.C., Crozier, D.S. & Lewis, L. (2016) *Ffactorau sy'n effeithiol ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithiwr gofal cartref ac i ba raddau mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref*. Llywodraeth Cymru: Canolfan Pobl a Pherfformiad, Ysgol Fusnes Prifysgol Metropolitan Manceinion. Ar gael yn (Saesneg yn unig): https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/160317-factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers-final-en.pdf (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal Cymru (2019a) 'Archwiliad o Wasanaethau Pobl Hŷn: Cyngor Sir Ynys Môn'. Ar gael yn: https://arolygiaethgofal.cymru/arolygiad-o-wasanaethau-oedolion-hyn-cyngor-sir-ynys-mon (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) 'Adroddiad Arolygu ar Gymdeithas Plant Dewi Sant'. Ar gael yn: https://www.adoptionwales.org/wp-content/uploads/2019/05/Inspection-Report-St-Davids-Children-Society.pdf (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2016) '"Uwchben a Thu Hwnt": Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru'. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn: https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-03/161027aboveandbeyonden.pdf.

Maethu Cymru (2021) 'Fframwaith Maethu Cenedlaethol: Adroddiad Terfynol 2018 i 2021'. Ar gael yn: https://www.adss.cymru/cy/blog/post/national-fostering-framework-final-report-2018-2021 (Defnyddiwyd: 20 Mai 2022)

Harris, J. *et al.* (2016) 'Learning disabilities and autism: a health needs assessment for children and adults in Cheshire and Merseyside'. Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn: https://www.ljmu.ac.uk/~/media/phi-reports/pdf/2016_01_learning_disabilities_and_autism_a_health_needs_assessment_for_children_and_adults.pdf (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022).

Laing, W. (2020) 'Care Cost Benchmarks, Financial year 2019/20 and projections for financial year 2020/21'. LaingBuisson Healthcare Intelligence.

Matthews, F.E. *et al.* (2016) 'A two decade dementia incidence comparison from the Cognitive Function and Ageing Studies I and II', *Nature Communications, Published online: 19 Ebrill 2016; | doi:10.1038/ncomms11398* [Rhag brint]. doi:10.1038/ncomms11398.

NICE (2021) 'Looked-after children and young people NICE guideline [NG205]'. NICE. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng205 (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) ‘Adolygiad Ansawdd Gofal: Ebrill 2020 – Medi 2020’. Ar gael yn: https://northwalesadoption.co.uk/wp-content/uploads/2021/03/Quality-of-Care-report-2020.pdf (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

ONS (2021) *Care homes and estimating the self-funding population, England*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/carehomesandestimatingtheselffundingpopulationengland/2019to2020 (Defnyddiwyd: 13 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2019) Datganiad o Sefyllfa’r Farchnad ar gyfer gofal preswyl i blant a phobl ifanc, maethu a llety diogel’. Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/comisiynu/ (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2020) *Adolygiad Cyflym Asesiad o Anghenion Poblogaeth.* Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/adolygiad-cyflym/ (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2020) ‘Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru’. Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/ (Defnyddiwyd: 19 Mai 2022).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018a) *Gweithlu gofal cartref, fesul rôl.* Ar gael yn: https://www.socialcaredata.wales/IAS/themes/workforceandqualifications/socialcareworkforce/tabular?viewId=2505&geoId=141&subsetId= (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018b) *Proffil Staff Gofal Cymdeithasol – Iaith.* Ar gael yn: https://www.socialcaredata.wales/ (Defnyddiwyd: 13 Mai 2022).

Canolfan Cydweithredol Cymru (2021) ‘Cartrefi Gofal yng Nghymru: hyrwyddo mentrau cymdeithasol’. Ar gael yn: https://wales.coop/wp-content/uploads/2021/06/Care-Home-Guide-1-final.pdf (Defnyddiwyd: 18 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents (Defnyddiwyd: 9 Awst 2916).

Llywodraeth Cymru (2016) *‘Gweithlu Gofal Cartref: Gwella’r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref yng Nghymru.* Dogfen Ymgynghori WG27421. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/y-gweithlu-gofal-cartref

Llywodraeth Cymru (2020) ‘Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer Cymru ar sail-2018’. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2021a) ‘Adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad: cod ymarfer’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer (Defnyddiwyd: 17 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2021b) *‘Amcangyfrifon canol blwyddyn o’r boblogaeth’*. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority

Llywodraeth Cymru (2021c) ‘Datganiad ysgrifenedig: Y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth – camau nesaf (29 Hydref 2021)’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-papur-gwyn-ar-ailgydbwyso-gofal-chymorth-y-camau-nesaf (Defnyddiwyd: 17 Mai 2022).

KeyRing (2022) *Lle mae KeyRing yn gweithio yng Nghymru*, *KeyRing*. Ar gael yn: https://www.keyring.org/where-we-work/wales (Defnyddiwyd: 30 Mehefin 2022).

The King’s Fund (2006) *Tyfu Rhai Eich Hun*, *The King’s Fund*. Ar gael yn: https://www.kingsfund.org.uk/publications/grow-your-own (Defnyddiwyd: 30 Mehefin 2022)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) (yn cynnwys yr laith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol) Tachwedd 2021

Enw'r Polisi neu'r Ymarfer	Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru		
Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran (yn gyfrifol am y Polisi neu'r Ymarfer)	Morwenna Edwards and Claire Darlington		
Gwasanaeth / Adran	Cydweithrediad Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru	**Dyddiad Dechrau'r Asesiad**	06/06/22

Enw'r swyddog(ion) (a phartneriaid) sy'n llenwi'r AEC		
Enw(au)	**Teitl(au) Swydd**	**Llofnod(ion)**
Catrin Perry	Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu a Gweithlu	
Sarah Bartlett	Rheolwr Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru	
Natalie Pryor	Rheolwr Prosiect –Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella	
	Rheolwr Comisiynu, Contractau a Thrawsnewid - Cyngor Gwynedd	
	Rheolwr Gwasanaeth Safonau Ansawdd a Comisiynnu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	
	Swyddog Ansawdd a Pholisi – Cyngor Sir Ddinbych	
	Swyddog Cynllunio a Datblygu - Cyngor Sir y Fflint	

	Swyddog Cynllunio a Chomisiynu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	
	Cyngor Sir Ynys Môn	
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
	Iechyd Cyhoeddus Cymru	

*Ystyriwch ddefnyddio teitlau swydd yn unig wrth gyhoeddi

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad Adolygu	Disgrifiwch y Newidiadau'n Fras		AEC wedi'i Gymeradwyo gan Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran / Gwasanaeth / Pwyllgor	
				Dyddiad y Cwblhawyd yr AEC	
				Enw	
				Teitl Swydd	
				Llofnod Llofnod	

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn declyn aml-ddefnydd sy'n sicrhau y gweithredir camau priodol i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cymryd camau priodol i gydymffurfio efo gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Adran 44: Mesur yr Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried effaith penderfyniadau strategol a pholisi ar yr iaith.

Wrth gynllunio i gyflwyno polisi neu ymarfer newydd, neu adolygu un sy'n bodoli eisoes, newid neu dorri gwasanaeth neu wneud penderfyniadau strategol, mae gofyn i ni ystyried a fydd y penderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig neu a fyddai'n medru creu canlyniadau anghyfartal yn sgil anfanteision economaidd-gymdeithasol. Os yw'n debygol y bydd hyn yn digwydd, rhaid i ni weithredu'n briodol. Nid ein hatal rhag gwneud pethau yw bwriad y broses AEC, ond yn hytrach sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith. Mae'n ein helpu i ganolbwyntio ar y camau y gallwn eu gweithredu i ddileu a/neu liniaru unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol a chyflwyno mesurau i weld cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal.

I gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, rhaid rhoi 'sylw ddyledus' (neu ystyried yr angen yn gydwybodol) i: ddileu gwahaniaethu, gweld cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da a'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Po fwyaf perthnasol a phosib yw'r effaith, po fwyaf yw'r gofyn i ystyried y ddyletswydd. Bydd y Ddyletswydd Gyffredin yn fwy perthnasol i rai swyddogaethau nag eraill ac fe allant hefyd fod yn fwy perthnasol i rai nodweddion gwarchodedig nac eraill. Rhaid cyflawni'n dyletswydd yn fanwl, gyda meddwl agored a rhaid ei hystyried ar adeg y bydd yn gwneud gwahaniaeth i'n penderfyniadau. Rhaid asesu effaith polisïau sydd o berthnasedd uchel bob amser, megis penderfyniadau cyllidebol strategol, rhaglenni grantiau, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth (yn cynnwys atal neu ad-drefnu gwasanaethau), a pholisïau recriwtio neu dâl. Gweler Canllawiau Asesu Effaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) a'r am arweiniad pellach. Ni ellir dirprwyo ein dyletswydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Dylai'r ffurflen hon ddangos pa gamau a gymerwyd i gynnal yr asesiad yn cynnwys gwaith ymgysylltu/ymgynghori perthnasol, y wybodaeth a gafodd ei hystyried, canlyniadau'r asesiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn sgil y canlyniadau hynny. Dylid cyhoeddi'r AEC os yw'n dangos y bydd effaith sylweddol (neu debygol) ar ein gallu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol.

Manteision cynnal AEC:

- Cael gwell dealltwriaeth o'r bobl fyddai'n cael eu heffeithio gan y polisi neu'r ymarfer
- Medru diwallu anghenion gwahanol yn well a bod yn fwy hygyrch a chynhwysol
- Galluogi cynllunio i lwyddo - mae'n nodi'r peryglon posib a chanlyniadau anfwriadol cyn gwneud unrhyw ddifrod
- Galluogi gwell cynllunio fydd yn gwneud penderfyniadau rhagweithiol yn hytrach na rhai adweithiol, gan osgoi gorfod dadwneud penderfyniadau fyddai â goblygiadau ar gostau ac ar enw da
- Dangos fod penderfyniadau wedi cael eu gwyntyllu'n llawn ac wedi ystyried barn y bobl fydd yn cael eu heffeithio
- Ein galluogi ni i reoli disgwyliadau wrth egluro'r cyfyngiadau yr ydym yn gweithio oddi mewn iddynt (e.e. cyllideb)
- Helpu i osgoi risgiau a gwella canlyniadau i unigolion
- Gwneud i ffwrdd ag ymarferion amhriodol neu newidiol a dileu gwahaniaethu sefydliadol
- Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn ymddangos yn un hir, ond yn ogystal â chynnwys camau angenrheidiol y broses, mae hefyd yn cynnwys nodiadau canllaw yn y meysydd allweddol i'ch cynorthwyo wrth gynnal AEC. Ceir dolenni ychwanegol i wybodaeth bellach hefyd i'ch cynorthwyo. Ceir mwy o wybodaeth ar GIG/CLILC PSED/ AEC fan hyn.

Camau Asesu Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Cam 1 - Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer
Cam 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith
Cam 3 - Caffael a Phartneriaethau
Cam 4 - Ymdrin ag Effaith Andwyol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

Cam 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen
Cam 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro'r Canlyniadau ac Adolygu Data
Cam 7 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Nodyn Pwysig i'r Swyddog/ion sy'n cynnal yr asesiad:
Mae'n bwysig fod yr AEC yn cael ei gwblhau pan fo'r polisi neu'r ymarfer yn cael ei ddatblygu er mwyn medru defnyddio darganfyddiadau'r AEC i ddylanwadu ar y polisi neu'r ymarfer a'i siapio. Argymhellir fel isafswm i'r asesiad gael ei gwblhau gan swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y polisi neu'r ymarfer, arbenigwr yn y maes a chyfaill beirniadol gydag o leiaf un person sydd wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol ar AEC. Fel rhan o'r broses wneud penderfyniadau, mae angen cyflwyno'r ddogfen hon i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ynghyd â drafft o'r polisi neu'r ymarfer.

Os ydych yn datblygu strategaeth neu gynllun lefel uchel nad yw'n cynnwys digon o fanylion i ddangos sut y bydd yn effeithio ar unigolion neu grwpiau (h.y. pan fydd cynlluniau a gweithrediadau'n gorwedd o dan y strategaeth fydd yn penderfynu hyn), dylech barhau i gynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn. Efallai y bydd angen i chi gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb eraill ar y cynlluniau a'r camau gweithredu sydd o dan y strategaeth lefel uchel. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Os yw eich polisi neu ymarfer yn deillio o gyfarwyddyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol, dylech barhau i asesu effaith hyn yn lleol i nodi unrhyw effaith wahaniaethol yn sgil gwahaniaeth lleol**.**

Dylech ystyried p'un ai yw digwyddiadau eraill, megis Covid-19, Brexit, Black Lives Matter ac ati wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau neu wedi eu dwysáu sy'n gofyn i chi roi sylw iddynt wrth i chi weithio trwy'r AEC.

CAM 1 - Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Beth sy'n cael ei asesu? *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi'i dicio' fel sy'n briodol)*

☐ Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu sy'n cael eu hadolygu (sy'n addasu darpariaeth gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

☐ Adolygiad gwasanaeth neu gynigion ad-drefnu sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff, e.e. darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal, addysg

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbedion, e.e. sy'n arwain at newid cyfleusterau cymunedol, cyfleoedd cefnogaeth neu gyflogaeth

☐ Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach yn cynnwys comisiynu/digomisiynu neu adolygu gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu ar hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, hunanwasanaeth, newid lleoliad

☐ Digwyddiadau Cyhoeddus Mawr

☐ Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol (cyfeiriwch at unrhyw AEC cenedlaethol ac ystyried effaith leol)

X Cyfarwyddeb a bwriad strategol, yn cynnwys y rhai y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu datblygu sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus

☐ Cynlluniau tymor canolig i'r tymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaeth a chynlluniau gwella)

☐ Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Iaith Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar y gallu (yn cynnwys gan bartneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau yn y Gymraeg

☐ Eraill, eglurwch yn y bocs isod:

Er mwyn sicrhau bod yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn tynnu ar ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gyda'r bwriad o adlewyrchu anghenion yr holl bobl sydd ag angen cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol a thynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth i'r unigolion hynny yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r holl gamau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad hwn yn adlewyrchu'r anghenion a nodwyd ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig ac yn tynnu sylw at fylchau mewn gwasanaethau a fydd yn atal anghydraddoldeb wrth darparu gwasanaethau yn y dyfodol trwy strategaethau comisiynu a chynlluniau ardal.

2. Beth yw nodau, amcanon a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mae'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) Gogledd Cymru yn asesu'r cyflenwad a'r digonolrwydd yn y farchnad gofal cymdeithasol. Y nod yw tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau a rhoi gwybodaeth er mwyn hyrwyddo marchnad gofal cymdeithasol sy'n fwy cynaliadwy ac fe'i defnyddir fel adnodd gan gomisiynwyr i ddadansoddi'r cyflenwad a'r galw ochr yn ochr â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB). Pwrpas yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gynhwysol.

Gyda'i gilydd, mae adroddiadau'r AAB a'r ASF yn tynnu sylw at feysydd lle mae anghydraddoldebau mewn darpariaeth gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol, er mwyn cyfrannu at strategaeth, polisi, cynllunio ac ymarfer gofal cymdeithasol.

Mae'r ASF yn tynnu sylw at effeithiau negyddol o brinder cyflenwad yn y farchnad gofal cymdeithasol, ac bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig a fydd yn cael ei gwireddu drwy Gynlluniau Ardal Leol, sef cynlluniau comisiynu a fydd yn pennu gweithgarwch a fydd yn effeithio ar y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o anghydraddoldeb.

Bydd yr ASF yn darparu

- Gwell dealltwriaeth o ddarlun presennol y ddarpariaeth o wasanaethau ledled y rhanbarth
- Modd i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen gwirioneddol
- Am fod yr asesiad yn cael ei wneud ar sail ranbarthol, mae'n haws i pobl â nodweddion gwarchodedig gymryd rhan ac gall ddatblygu ymateb rhanbarthol i'r asesiad a all ddod â buddion ariannol, osgoi dyblygu, ac yn y blaen.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Noder: Ystyriwch gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (lle mae pobl wedi'u grwpio efo'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw)

- Darparwyr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig, yn cynnwys darparwyr preifat, darparwyr y trydydd sector a darparwyr mewnol awdurdodau lleol

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dinasyddion sy'n derbyn gofal a chymorth

Yn ogystal â'r naw nodwedd warchodedig, aseswyd anghenion y grwpiau poblogaeth iechyd canlynol yn yr AAB. Mae cysylltiad cryf rhwng y grwpiau hyn a rhai nodweddion gwarchodedig.

- Plant a phobl ifanc (Oed)
- Pobl hŷn (Oed)
- Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau (Anabledd)
- Anabledd dysgu (Anabledd)
- Awtistiaeth (Anabledd)
- Iechyd meddwl (Anabledd)
- Gofalwyr di-dâl (Anabledd)

4. Ydi'r polisi'n ymwneud â, wedi'i ddylanwadu gan, neu wedi'i effeithio gan bolisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol), e.e. AEC strategol os yw hwn yn AEC gweithredol neu i'r gwrthwyneb?

Noder: Ystyriwch hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau (partneriaeth) rhanbarthol, polisïau cenedlaethol, diwygio lles.
Sylwer: Ystyriwch hyn yn nhermau gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau (partneriaethau) rhanbarthol, polisïau cenedlaethol, diwygiadau lles.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyflwynodd ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol.
- Mae'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi ei gynhyrchu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021).
- Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn dylanwedu ar flaenoriaethau strategol lefel uchel wedi'u seilio ar ddadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw mewn Cynlluniau Ardal Leol, a fydd yn eu tro yn cyfrannu i Cynlluniau Comisiynu Strategol a Datganiadau o Sefyllfa'r Farchnad.

- Hwn yw'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf a luniwyd ac mae'n rhoi sylw i ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022, sy'n darparu data a mewnwelediad gan yr holl randdeiliaid, yn cynnwys y rheini sy'n cael gofal a chymorth er mwyn cyfrannu i'r asesiad effaith hwn.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Plant 1989
- Deddf Gofal Plant (2006)
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Datganiad Llywodraeth Cymru o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Troseddau Difrifol
- Deddf Tai (Cymru) 2014

CAM 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

Wrth lenwi'r adran hon, rhaid i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth i lenwi'ch AEC, neu a oes angen cwblhau cyfnod o ymgysylltu/ ymgynghori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r broses AEC yn gofyn i chi **ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli budd y sawl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a'u cynnwys yn y broses *a'r* sawl sydd â buddiant yn y modd yr ydych yn cyflawni eich swyddogaethau**. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gofyn i ni **ystyried lleisiau'r bobl yn y gymuned yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi byw â phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Dylech ymgysylltu gyda chymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd i ddeall a yw'ch cynigion yn effeithio mwy arnynt neu yn eu rhoi dan fwy o anfantais. Mae angen i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu. Cofiwch y gall budd-ddeiliaid hefyd gynnwys ein staff ein hunain yn ogystal â sefydliadau partner.

Cyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu penodol, dylech yn gyntaf ddefnyddio'r data o waith ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio diweddar. Gall hyn fod ar bolisi perthnasol diweddar neu asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan gydweithwyr neu ffynonellau eraill, e.e. A yw Cymru'n Decach?, Dogfen Data Cefndirol Gogledd Cymru, InfoBase Cymru, MALIC. Gall hyn helpu i fagu hyder ymysg grwpiau a chymunedau ein bod yn gweithredu ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddweud. Os nad oes gennych fawr o wybodaeth, neu ddim hyd yn oed, o ymgysylltu blaenorol sy'n berthnasol i'r AEC hwn, dylech ymgymryd â rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch budd-ddeiliaid a chyda grwpiau cynrychioli perthnasol i sicrhau nad ydych yn anghofio anghenion pob grŵp gwarchodedig heb yn wybod i chi. Yn arferol nid yw hi'n dderbyniol i nodi'n y bydd polisi yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb yn gyffredinol, ac felly bydd unigolion yn cael eu heffeithio'n gyfartal waeth beth fo'u nodweddion. Dylai'r dadansoddiad hwn fod yn fwy cadarn na hyn, yn dangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac wedi rhoi sylw i unrhyw fylchau neu wahaniaethau. Efallai y bydd angen camau penodol i ymdrin ag anfantais sy'n bodoli neu i ddiwallu gwahanol anghenion.

Gall **Egwyddorion Gunning**, a sefydlwyd o achosion llys blaenorol, helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio tegwch wrth ymgysylltu ac ymgynghori:

Egwyddor 1: Rhaid ymgynghori pan fo'r cynigion dal yn cael eu ffurfio. Ni ddylech fod wedi penderfynu yn barod.
Egwyddor 2: Rhaid cyflwyno rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. Ydi'r bobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?
Egwyddor 3: Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o gofio'r amgylchiadau?
Egwyddor 4: Rhaid mynd ati'n gydwybodol i ystyried cynnyrch yr ymgynghori wrth benderfynu'n derfynol.

5. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac a ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i fynd ymlaen?

Do X Naddo ☐ ***(dileer fel sy'n briodol X)***

6. Os do, pa weithgarwch wnaethoch chi ei gynnal a gyda phwy?

Mae'r ASF yn tynnu ar y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a wnaed yn ystod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Arolwg a gwblhawyd gan fwy na 350 o unigolion, sefydliadau a phartneriaid. Mae adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad yn darparu rhagor o fanylion am y dulliau a'r broses.
- Chwiliad llenyddiaeth cynhwysfawr a gynhaliwyd mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
- Canfyddiadau o ymchwil berthnasol, deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau eraill o anghenion, datganiadau o sefyllfa ac adroddiadau ar ymgyngoriadau.

- Roedd gwaith gan yr is-grŵp cyfathrebu i Grŵp Llywio'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi arwain ar lunio Arolwg o Ddarparwyr Cofrestredig. Anfonwyd gwahoddiad at yr holl ddarparwyr cofrestredig gan gomisiynwyr awdurdodau lleol. Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion.
- Roedd timau lleol wedi cynnal eu gweithgareddau ymgysylltu eu hunain lle nad oedd hyn wedi'i gynnwys ar lefel ranbarthol, yn cynnwys cyfarfodydd un-i-un â darparwyr cofrestredig.

7. Os mai Na yw eich ateb, efallai y byddwch yn dymuno ystyried atal y gwaith er mwyn i chi gynnal gweithgarwch ymgysylltu (pellach) y gallwch ei gynnwys yn y cynllun gweithredu isod. Cynhwyswch unrhyw wybodaeth a gafwyd o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocsys yng nghwestiwn 8.

Gweithrediad	**Dyddiadau**	**Amserlen**	**Cyfrifoldeb Arweiniol**	**Gwybodaeth wedi'i hychwanegu i'r AEC ( )**

8. Pa wybodaeth sydd gennych am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r ystyriaethau/dyletswyddau statudol a ganlyn o'ch profiad chi o'r ddarpariaeth gwasanaeth fel mae'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, adc o'r gwaith ymgysylltu neu ymgynghori diweddar? Cynhwyswch unrhyw ddata perthnasol ychwanegol; gwybodaeth o ymchwil a rheoli perfformiad; arolygon; astudiaethau gan Lywodraeth, corff proffesiynol neu sefydliad; Data Cyfrifiad; A yw Cymru'n Decach? (Data CCHD[1]); gwybodaeth o sgrinio cychwynnol; cwynion/clod; data ac adborth defnyddwyr gwasanaeth; arolygon/archwiliadau; data economaidd-gymdeithasol yn cynnwys data WIMD[2]. Efallai y byddwch yn dymuno cynnwys isdeitlau i ddangos o ble y daw pob elfen o'ch data, e.e., data cenedlaethol, data lleol, data'r sefydliad, ymarferion ymgysylltu cyffredinol neu benodol ac ati.

Ystyriwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cynnwys tueddiadau mewn data, daearyddiaeth (materion trefol neu wledig), demograffeg, materion mynediad, rhwystrau ac ati. Cynhwyswch hefyd unrhyw feysydd eraill lle ceir canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol neu unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (h.y. lle

mae budd-ddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth, staff, cyrff cynrychioladol, ac ati wedi eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw) ac unrhyw faterion a nodwyd ar gyfer pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol a /neu economaidd llai ffafriol.

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	**Data Perthnasol**	**Effaith gadarnhaol a/neu negyddol**	**Prompt** (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Hil	Mae cyfraddau marwolaeth uwch o ganlyniad i'r coronafeirws ymysg grwpiau o Bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol. (AAB, tudalen 22) Roedd anghenion iechyd meddwl wedi cael effaith anghymesur ar iechyd meddwl cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol o ganlyniad i'r pandemig. (AAB, tudalen 214) Roedd cymunedau Du ac ethnig lleiafrifol wedi dweud wrthym fod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn faes lle'r oedd angen gwelliant. (AAB, tudalen 211) Bydd plant a oedd â'r cyrhaeddiad addysgol isaf cyn y pandemig wedi colli mwy o dir o'u cymharu â'u cyfoedion, yn cynnwys plant mewn grwpiau ethnig penodol (AAB, tudalen 22)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Sut mae eich cynnig yn ystyried: Ethnigrwydd Cenedl Sipsiwn / Teithwyr Iaith: darparu cyfieithydd Ffoaduriaid / Ceiswyr Lloches Mudwyr Gweithredu Cadarnhaol Digwyddiadau ymwybyddiaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar Sail Hil (UNCERD) Ystyriwch faterion croesdoriadaeth Cyd-gynhyrchu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	Mae diffyg ymchwil ynghylch pobl mewn grwpiau Du ac ethnig lleiafrifol sydd â phrofiad o Awtistiaeth. Oherwydd hyn, gall fod yn anoddach byth iddynt gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen i ni ddeall profiadau pobl a theuluoedd awtistig o wahanol gefndiroedd a diwylliannau a helpu i greu cymdeithas sy'n gweithio i'r holl bobl awtistig. (AAB, tudalen 196)		
Anabledd	**Data lleol:** • Nifer cyfartalog wythnosol yr oriau o ofal cartref a gomisiynir gan awdurdodau lleol/byrddau iechyd • Y gyfradd gyfartalog yr awr ar gyfer gofal cartref yn ôl grŵp poblogaeth (£) **<u>Pobl ag Anghenion Iechyd Meddwl</u>** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl yn brin ledled Gogledd Cymru (AAB 2022) **<u>Pobl ag Anabledd Dysgu</u>** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi cynyddu ond rydym bellach yn wynebu'r angen i gynorthwyo mwy o bobl â llai o arian (o ganlyniad i leihau setliadau awdurdodau lleol, cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol a chyfyngiadau ar y Grant Cymorth Tai) (ASF 2022)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Nid oes darpariaeth iechyd meddwl arbenigol wedi'i chynnwys ar gyfer awtistiaeth a salwch meddwl difrifol yng Ngwynedd. Conwy yw'r lleoliad agosaf ond mae'r ddarpariaeth yn ddi-Gymraeg (ASF 2022).	Sut mae eich cynnig yn ystyried model cymdeithasol anabledd? Ystyriwch rwystrau fel Symudedd / Medrusrwydd Pobl ddall neu sydd â nam ar eu golwg Pobl F/fyddar neu â nam clyw Iechyd Meddwl Anableddau Dysgu Dementia Gwahaniaeth niwrolegol / Awtistiaeth Cyd-gynhyrchu Mynediad i adeiladau / cyfleusterau Dulliau cyfathrebu Gofalwyr

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	Mae galw mawr am lety byw â chymorth ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu (AAB 2022) Mae'n bosibl y bydd y cynnydd hwn yn nifer y bobl sy'n byw yn y gymuned gyda dementia ac anghenion cymhleth yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau gofal cartref, yn enwedig pecynnau gofal â mwy nag un gofalwr. (ASF) **<u>Oedolion ag anawsterau dysgu ac eraill sydd ag anableddau cymhleth</u>** Mae angen mwy o dai pwrpasol i gwrdd ag anghenion penodol, yn enwedig gwasanaethau cam i fyny/cam i lawr, lle mae lleoliad wedi methu a bod angen cymorth mwy dwys ar yr unigolyn am gyfnod penodol, yn hytrach na'i dderbyn i ysbyty (AAB 2022)	**Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd ac ehangu rhai presennol lle mae bylchau yn y ddarpariaeth. **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Bydd y wybodaeth o'r ASF yn helpu comisiynwyr i gefnogi darparwyr preifat a mewnol i wella cynaliadwyedd ariannol a chynllunio cyllidebau'n effeithiol. Bydd y wybodaeth o'r ASF yn helpu comisiynwyr i lunio strategaeth a chynlluniau i liniaru'r risg o amseroedd	Cyflyrau iechyd tymor hir eraill Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		aros hwy ac unigolion yn symud i gartrefi preswyl. .	
Anabledd (parhad)	**<u>Gofalwyr di-dâl</u>** Mae tua 79,000 o bobl o bob oed yn darparu gofal yn ddi-dâl yng Ngogledd Cymru (2011), ac rydym yn rhagweld y bydd y nifer hwn yn cynyddu wrth i'r angen am ofal a chymorth gynyddu. Pennod yr AAB ar Ofalwyr Di-dâl.	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Mae'r wybodaeth yn yr AAB a'r ASF yn dangos bod diffyg darpariaeth yn y farchnad gofal yn arwain at alwadau ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar gymhlethdod gofal sy'n golygu bod gofalwyr di-dâl yn profi cyfrifoldebau gofalu gydag anghenion mwy am ofal. Roedd y ffaith bod pobl yn byw'n hirach ynghyd ag effaith COVID-19 yn cynyddu'r pwysau ar ofalwyr di-dâl ymhellach.	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		Effaith gadarnhaol: Mae'r ASF yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ategu achosion busnes a cheisiadau am gyllid ac yn cyfiawnhau cynyddu adnoddau i gynorthwyo gofalwyr di-dâl.	
Rhyw	Mae cyfraddau marwolaeth uwch o ganlyniad i goronafeirws ymysg dynion (AAB, tudalen 22) Yn aml, bydd menywod a merched yn ei chael yn anodd cael atgyfeiriad i wasanaethau diagnostig Awtistiaeth, a nifer ohonynt yn gorfod ceisio diagnosis gan wasanaeth preifat. (AAB, tudalen 196) Mae astudiaethau wedi dangos bod menywod anabl ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig a'u bod ddwywaith yn fwy tebygol hefyd o ddioddef ymosod a threisio (Safe Lives: 2017). (AAB, tudalen 150) Mae ymchwil yn awgrymu bod menywod sy'n profi cam-drin domestig yn fwy tebygol o brofi cyflwr iechyd	**Effaith Gadarnhaol:** Mae'r darlun o'r anghydraddoldebau y mae dynion a merched yn eu hwynebu yn helpu i nodi anghenion cymorth tebygol a chynllunio gwasanaethau'n effeithiol.	Sut mae eich cynnig yn ystyried Dynion / Merched Hunaniaeth Rhywedd Cyfleusterau toiled / newid babi Gofal plant Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau Gweithwyr rhyw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Merched (UNCEDAW) Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	meddwl, tra bydd menywod sydd â chyflwr iechyd meddwl yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig. Mae 30-60% o fenywod sydd â chyflwr iechyd meddwl wedi profi trais domestig (Howard et al: 2009). (AAB, tudalen 217)		
Oedran	***Pobl Hŷn sydd ag angen gofal preswyl*** ***Data rhanbarthol/cenedlaethol:*** • Amcangyfrif o nifer y bobl dros 65 oed yn 2020 ac amcanestyniad o'r nifer yn 2040 (Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru) • Mae cyfraddau marwolaeth uwch o ganlyniad i COVID-19 ymysg pobl hŷn (AAB, tudalen 22) **Data lleol:** • Nifer presennol y cartrefi gofal i oedolion (18 oed a hŷn) yn ôl math ac ardal (pecynnau data ASF yr awdurdodau lleol) • Nifer presennol y lleoliadau parhaol mewn cartrefi gofal sydd ar gael i'r holl oedolion 18 oed a hŷn	Roedd yr AAB yn dangos yr angen am ddarpariaeth arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl. Roedd yr ASF yn nodi bod hyn yn fwlch yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys gofal preswyl i bobl hŷn, yn cynnwys: • Darpariaeth gofal dementia • Lleoliadau iechyd meddwl preswyl a nyrsio i bobl hŷn • Darpariaeth i bobl hŷn sydd ag anabledd dysgu ac sydd hefyd ag anghenion o ran iechyd corfforol a dementia **Effaith gadarnhaol**: Bydd yr ASF yn darparu tystiolaeth dros roi blaenoriaeth i ddarpariaeth o'r mathau hyn wrth ystyried	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	• Canran y lleoliadau mewn cartrefi gofal sydd heb eu llenwi, 31 Mawrth 2021 • Lleoliadau i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Ngwynedd (data'r awdurdod lleol) • Trosolwg o'r farchnad gofal preswyl i oedolion yn ASF Ynys Môn • Nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer darpariaeth gofal preswyl arbenigol yn Sir Ddinbych (data'r awdurdod lleol) • Nifer y cartrefi gofal sydd wedi cau 2019-2021 (awdurdodau lleol) • Adborth gan breswylwyr cartrefi gofal • Adborth gan ddarparwyr O ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn byw gartref yn hirach a bod y boblogaeth yn heneiddio, mae cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion am ofal preswyl i oedolion ac yn y galw am leoliadau gofal. Nid yw'r cymysgedd presennol o ddarpariaeth gofal preswyl at anghenion cyffredinol ac arbenigol yn un sy'n cyfateb i'r galw a ragwelir yn y dyfodol (ASF)	datblygiadau i gwrdd ag anghenion hyfforddi'r gweithlu, sefydlu a datblygu gwasanaethau newydd a datblygu adeiladau i gwrdd â'r galw. **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Mae pobl hŷn sydd ag angen gofal preswyl arbenigol yn fwy tebygol o: • Brofi oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty (Cynnydd mewn oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty) • Cael eu lleoli y tu allan i'r sir **Effaith gadarnhaol**: Mae'r ASF yn darparu mewnwelediad a all helpu darparwyr i ailbwrpasu a chreu	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		darpariaeth newydd lle y bo angen i gwrdd â'r galw.	
Oedran (parhad	**<u>Pobl Hŷn sydd ag angen Gofal Cartref</u>** **Data cenedlaethol** Rhagolwg o nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n ei chael yn anodd cyflawni gweithgareddau byw pob dydd (Daffodil, Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol ac amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru) • Nifer wythnosol cyfartalog yr oriau o ofal cartref a gomisiynir gan awdurdodau lleol/byrddau iechyd (casgliad data awdurdodau lleol) • Amcangyfrifon o gyfrannau canrannol ym marchnad y sector gofal cartref yn ôl math (data awdurdodau lleol) • Nifer y darparwyr yn ôl ardaloedd gweithredu (data awdurdodau lleol) • Niferoedd y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy (data'r awdurdod lleol)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Mae prinder yn y ddarpariaeth o ofal cartref sydd ar gael ledled y rhanbarth, lle gwelir yr effaith o brinder staff gofal. Oherwydd natur y trefniadau presennol, gall darparwyr wrthod rhoi gofal, neu ddychwelyd pecynnau gofal. Gellir cael argyfyngau'n aml, lle mae darparwyr yn dweud nad ydynt yn gallu darparu gofal bellach oherwydd problemau staffio. Mae'r ASF yn darparu dadansoddiad a all helpu darparwyr a chomisiynwyr i ddatblygu camau lliniaru i leihau'r risgiau canlynol:	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	• Nodweddion demograffig pobl sy'n derbyn gofal cartref yn Sir y Fflint • Nifer yr oriau gofal a ddychwelir gan ddarparwyr Mae'r galw am ddarpariaeth o ofal cartref yn fwy na'r cyflenwad ohoni ym mhob ardal yng Ngogledd Cymru. Mae mwyafrif y bobl sy'n derbyn gofal cartref ledled y rhanbarth yn hŷn na 65 oed. Er hynny, mae hyn yn debygol o effeithio hefyd ar oedolion sydd â chyflyrau iechyd tymor hir ac anableddau corfforol.	• Na fydd pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt a'u bod yn wynebu'r risg o 'lithro drwy'r rhwyd'. • Symud i ofal preswyl yn lle hynny. Mwy o bwysau yn achos y rheini sydd â theulu, ffrindiau neu rwydweithiau cymorth eraill iddynt dderbyn y rôl o fod yn ofalwyr di-dâl	
Oedran (parhad)	**<u>Plant a Phobl Ifanc sydd ag angen gofal preswyl</u>** • Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (diweddariad 2021) • Lleoliadau y tu allan i'r sir (StatsCymru) Mae mwy na 50% o'r plant mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir, oddi wrth rieni, brodyr a chwiorydd a rhwydweithiau cymorth,	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Yn achos plant a phobl ifanc na allant fynd i lety diogel/argyfwng oherwydd eu hanghenion emosiynol ac ymddygiadol	Sut mae eich cynnig yn ystyried oedran Pobl Hŷn Plant Pobl Ifanc Pobl o Oed Gweithio Teuluoedd Ifanc Demograffeg DS: Os oes plant / pobl ifanc yn cael eu heffeithio, cwblhewch y Rhestr Wirio Hawliau Plant 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) Cyfrifoldebau gofalu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Oedran (parhad)	a hynny'n effeithio ar y teulu cyfan (Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad) Mae prinder: • darparwyr preswyl lleol. • darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth • llety argyfwng	cymhleth, mae achosion o ddefnyddio ystafelloedd a136, o ymgyflwyno/derbyn amhriodol i ysbytai, o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty ac o ddefnyddio gofal heb ei reoleiddio wedi'u nodi gan wasanaethau Plant awdurdodau lleol. **Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu gwybodaeth a all helpu comisiynwyr i newid cydbwysedd y farchnad gofal, datblygu modelau gofal newydd a chreu mwy o gapasiti gofal i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc. Ceir cystadlu am leoliadau, gall darparwyr ddewis a dethol unigolion sydd â'r anghenion lleiaf cymhleth, fel y bydd y rheini sydd â'r anghenion mwyaf yn aros yn hirach i gael eu lleoli neu'n cael eu hanfon yn bellach oddi cartref.	Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Crefydd a Chred		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith	Sut mae eich cynnig yn ystyried crefydd, cred neu ddiffyg cred?

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Cymunedau ffydd Dim Cred Gofynion diet Bwydlysyddiaeth / Feganiaeth Credoau athronyddol eraill Cod gwisg / gwisgoedd ffurfiol Gwyliau/gweithgaredau crefyddol Cyd-gynhyrchu Ystyriwch faterion Croesdoriaethaeth
Cyfeiriadedd rhywiol	Mae arolygon yn awgrymu bod pobl lesbiaidd a hoyw hŷn hefyd yn profi lefelau uwch o unigrwydd. Mae unigrwydd yn gysylltiedig â nifer o wahanol risgiau iechyd, yn cynnwys clefyd coronaidd y galon, iselder, dirywiad gwybyddol a marw cyn pryd. (Valtorta et al., 2016). Mae ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael yn effeithio'n anghymesur ar bobl mewn grwpiau sy'n wynebu risgiau mwy neu sydd wedi'u hymyleiddio. Mae hyn yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. (AAB, tudalen 219)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Sut mae eich cynnig yn ystyried cyfeiriadedd rhywiol? Hoyw Lesbiaidd Deurywiol Heterorywiol Terminoleg Cyfrinachedd ynghylch rhywioldeb Cyplau yr un rhyw Pethynas agosaf (next of kin) Cyd-gynhyrchu Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Ail-bennu Rhywedd		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Sut mae eich cynnig yn ystyried y gymuned trans? Person sy'n bwriadu, wedi dechrau neu wedi gorffen newid eu hunaniaeth rhywedd Trawsryweddol Defnyddio iaith yn briodol, h.y. rhagenwau priodol Cyfleusterau newid a thoiledau sy'n niwtral o ran rhywedd Cyd-gynhyrchu Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth
Priodas a Phartneriaeth sifil		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Statws priodasol Statws partneriaeth sifil Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Beichiogrwydd a Mamolaeth		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Mamau beichiog Pobl sydd â hawl i absenoldeb mamolaeth a thadolaeth Maethu / Mabwysiadu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
			Mamau sy'n bwydo o'r fron Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Yr iaith Gymraeg	Mae prinder staff ac argaeledd gwasanaethau yn arwain at leoli y tu allan i'r sir. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y rheini sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn cael gofal yn Saesneg. Nodwyd hyn yn benodol ar gyfer unigolion lle mae'r Gymraeg yn elfen hanfodol yn y ddarpariaeth o wasanaethau, yn cynnwys; plant ac oedolion ag anghenion cymhleth, fel y rheini sy'n byw gydag anableddau corfforol a dysgu, yn cynnwys iechyd meddwl ac Awtistiaeth.	**Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu asesiad o'r bylchau yn y ddarpariaeth o ofal gan ddarparwyr preifat yn Gymraeg a dynododd rwystrau rhag derbyn gofal yn Gymraeg ar gyfer cynllunio darpariaeth yn y dyfodol, yn cynnwys anawsterau wrth recriwtio a chadw'r gweithlu a mwy o leoliadau y tu allan i'r sir.	Sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Argaeledd gwasanaethau, gweithgareddau a gwybodaeth a mynediad atynt. Technoleg Hawliau unigolion i ofn am wasanaethau yn y Gymraeg. Yr effaith ar gymunedau Cymraeg, yn cynnwys: Effeithiau cadarnhaol / negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Newidiadau posib i nifer/canran y siaradwyr Cymraeg Mudo Cyfleoedd gwaith / newidiadau staffio. Anghenion a chyfleoedd hyfforddi Argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
			Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol	Mae pobl o rai grwpiau ethnig, plant, pobl anabl a gofalwyr i gyd yn fwy tebygol o brofi tlodi. (AAB, tudalen 22) Mae Gorllewin y Rhyl 1, Gorllewin y Rhyl 2 a Queensway 1 yn Wrecsam ymysg y deg ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019) Mae'r cyfraddau derbyn i adrannau achosion brys 25% yn uwch ymysg pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, mae gwahaniaeth clir o 7 mlynedd yn eu disgwyliad oes a gwahaniaeth cyffredinol o 14 blynedd o ran iechyd gwael ac anabledd (Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb BIPBC 2020-2021).	**Effaith gadarnhaol:** Drwy gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, darparu gofal yn agosach i'r cartref a gwella mynediad, bydd effaith gadarnhaol ar y rheini sydd â statws economaidd-gymdeithasol is.	Pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill sy'n byw yn yr un gymdeithas. Gall nifer o ffactorau bywyd bob dydd waethygu anfantais, nid dim ond ffiniau trefol neu wledig. Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth – lle mae hunaniaeth yn cymhlethu statws economaidd-gymdeithasol, e.e. rhieni sengl (menywod yn aml), pobl anabl, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Ystyriwch y gall yr effaith fod mewn nifer o barthau, er enghraifft: Anghydraddoldebau mewn Addysg, Iechyd, Safonau Byw. Gwaith, Cyfiawnder a Diogelwch a Chyfranogiad. Esiamplau

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Hawliau Dynol	Mae pobl mewn grwpiau Ethnig Lleiafrifol yn fwy tebygol o fod yn rhai dan gadwad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Race and Mental Health – Tipping the Scale, Mind, 2019) Mae'r cyfyngiadau a weithredwyd i reoli'r pandemig wedi cael effaith ar allu plant i arfer eu hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn cynnwys yr hawl i gael gofal iechyd… ac maent wedi cael llai o amddiffyniad rhag trais, cam-drin ac esgeuluso. (AAB, tudalen 76) Yn yr adroddiad 'Locked Out: Liberating Disabled People's Lives and Rights Beyond Covid-19' (2021) nodir bod y pandemig wedi cael effaith niweidiol ar nifer o feysydd bywyd y rheini sydd ag anableddau dysgu.	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Gweler Erthyglau Hawliau Dynol Ystyriwch faterion croesdoriaeth
Arall (nodwch os gwelwch yn dda)		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar	E.e., Caethwasiaeth Fodern, Diogelu, Effeithiau eraill Covid, Gofalwyr, Cyn-droseddwyr, Cyn aelodau'r lluoedd arfog, Pobl sy'n Gadael Gofal, Cam-

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	drin Sylweddau, y Digartref Ystyriwch faterion croesdoriadaeth

Deddf Hawliau Dynol 1998	
• Erthygl 2 Yr hawl i fyw • Erthygl 3 Y rhyddid rhag arteithio a thriniaeth annynol neu ddiraddiol • Erthygl 4 Y rhyddid rhag Caethwasiaeth a llafur gorfodol • Erthygl 5 Yr hawl i ryddid a diogelwch • Erthygl 6 Yr hawl i brawf teg • Erthygl 7 Yr hawl i beidio â chael eich cosbi ac eithrio dan gyfraith droseddol	• Erthygl 8 Yr hawl i barch i fywyd, teulu, cartref a gohebiaeth breifat • Erthygl 9 Yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd • Erthygl 10 Yr hawl i ryddid mynegiant • Erthygl 11 Yr hawl i Ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag Eraill • Erthygl 12 Yr hawl i briodi a sefydlu teulu • Erthygl 13 Yr hawl i gael mynediad i unioni effeithiol os caiff eich hawliau eu torri • Erthygl 14 Gwarchod rhag gwahaniaethu

9. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut ydych yn bwriadu ymdrin ag hwy?

Er mwyn cryfhau eu gwaith yn y dyfodol, gallai awdurdodau lleol adolygu gwybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y rheini sy'n derbyn gwasanaethau ar sail nodweddion gwarchodedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion ar lefel strategol. Gellid dadansoddi'r data hyn ar lefel ranbarthol ochr yn ochr â data am y boblogaeth er mwyn gwirio a yw grwpiau'n gallu cael at wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt a chael gofal o'r un ansawdd â'r boblogaeth gyffredinol.

Noder: Os nad yw'n bosib cael y wybodaeth hon nawr, dylech gynnwys hyn yn eich cynllun gweithredu yng Ngham 6 er mwyn i'r wybodaeth hon fod ar gael ar gyfer AEC yn y dyfodol.

10. Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Hefyd sut i weithredu i fanteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Rhoddir sylw i ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg – roedd yr holl ymgynghori wedi'i gynnal yn ddwyieithog, yn cynnwys arolygon a gohebiaeth. Mae'r ASF yn cael ei roi i randdeiliaid ar ffurf ddwyieithog i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi ar ffurf ddwyieithog. Lle cafwyd cais, mae dogfennau wedi'u cyfieithu ar gyfer staff awdurdodau lleol sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf.

11. Os ydych yn diweddaru'r AEC hwn o fersiwn flaenorol o bolisi neu ymarfer tebyg, a gafodd canlyniadau arfaethedig y cynnig hwnnw eu cyflawni neu a oedd yna ganlyniadau eraill? (Rhowch fanylion, er enghraifft, oedd yr effaith wedi'i chyfyngu i'r bobl yr oeddech wedi meddwl fyddai'n cael eu heffeithio'n wreiddiol, neu a gafodd bobl eraill eu heffeithio? Os felly, sut?)

Amherthnasol

12. Beth yw effaith gronnus y cynnig hwn ar wahanol grwpiau gwarchodedig wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn a wnaed gan y sefydliad? (Efallai y byddwch angen trafod hyn gyda'ch Pennaeth Gwasanaeth neu Aelod Cabinet i ystyried yn ehangach a fydd y cynnig hwn yn effeithio ar grwpiau penodol yn fwy andwyol oherwydd penderfyniadau eraill y mae'r sefydliad yn eu gwneud, e.e. effaith ariannol/tlodi, colli aml wasanaethau a p'un ai yw hyn yn rhoi'r un grwpiau dan anfantais, e.e., pobl anabl, pobl hŷn, rhieni sengl (merched yn bennaf), ac ati)

Amherthnasol

13. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal? (Rhowch grynodeb o'ch darganfyddiadau os ydych wedi ystyried hyn eisoes fel rhan o'r broses sgrinio)

I gael rhagor o wybodaeth, gweler: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Mae'r ASF yn tynnu sylw at heriau a wynebwyd yn y 5 mlynedd diwethaf yn y farchnad gofal cymdeithasol sydd yn rhwystr i wireddu'r weledigaeth o Gymru Iachach a Chymru sy'n Fwy Cyfartal drwy ddisgrifio'r ddarpariaeth o wasanaethau a darparu data, ymchwil a dadansoddiad i gyfrannu at gynllunio yn y dyfodol.

14. Disgrifiwch unrhyw effaith negyddol bwriadol a nodwyd gennych ac eglurwch pam eich bod yn credu fod gennych gyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol[1] neu weithred gadarnhaol[2])

Amherthnasol

Noder: [1]: Cyfiawnhad Gwrthrychol - rhoi amddiffyniad ar gyfer defnyddio polisi, rheol neu ymarfer fyddai fel arall yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol neu anuniongyrchol. I ddibynnu ar yr amddiffyniad cyfiawnhad gwrthrychol, rhaid i'r cyflogwr, y darparwr gwasanaeth neu sefydliad arall ddangos fod ei bolisi neu reol wedi'i ddefnyddio am reswm da - ei fod yn 'fodd cymesur o gyflawni nod ddilys'. Y '**nod ddilys'** yw'r rheswm am y gwahaniaethu ac ni ddylai fod yn wahaniaethol ynddi ei hun a rhaid iddi fod yn rheswm didwyll neu'n rheswm go iawn, e.e. iechyd, diogelwch neu les unigolion. Os mai lleihau costau yw'r nod yn syml, am ei fod yn rhatach gwahaniaethu, ni fydd hyn yn ddilys. Ystyriwch a yw pwysigrwydd y nod yn gorbwyso unrhyw effeithiau gwahaniaethol y driniaeth anffafriol a sicrhewch nad oes unrhyw fesurau eraill ar gael fyddai'n cyflawni'r nod heb lawer o anhawster (yn gymesurol) ac yn osgoi'r effaith wahaniaethol hon.

Noder: [2]: Gweithredu Cadarnhaol – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu gweithredu cadarnhaol tuag at grp penodol os oes tystiolaeth digonol o angen. Er enghraifft, pan fo cyflogwr yn cymryd camau penodol i wella cydraddoldeb yn y gweithle i roi sylw i unrhyw anghydbwysedd rhwng cyfleoedd, i leihau anfantais neu gynyddu faint sy'n cyfrannu at weithgarwch penodol, drwy efallai gynyddu nifer y bobl anabl mewn swyddi uwch lle maent yn cael eu tangynrychioli wrth dargedu grwpiau penodol gyda hysbysebion swyddi neu gynnig hyfforddiant i helpu creu cyfleoedd i grwpiau penodol. Mae disgwyl i'r sector cyhoeddus ystyried defnyddio gweithredu positif i'w helpu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond y tybir eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Bydd ☐ Na fydd ☒ Ansicr ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

16. Os mai 'Bydd' neu 'Ansicr' oedd eich ateb i gwestiwn 15, nodwch isod, i ba grwpiau gwarchodedig mae hyn yn berthnasol ac eglurwch pam (yn cynnwys ardrawiad neu effeithiau tebygol y dewis arfaethedig hwn)

Amherthnasol

I gael rhagor o wybodaeth, gweler: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

17. Os ydych wedi ateb 'Na fydd' i gwestiwn 15, a ydych wedi nodi unrhyw rwystrau sydd gyfystyr ag effaith wahaniaethol i grwpiau penodol a beth ydynt?

Mae anghenion iechyd y boblogaeth yn fwy tebygol o fod yn ddwysach yn achos Pobl Hŷn, Plant a Phobl Iau a'r rheini sydd ag Anabledd Corfforol neu Ddysgu – gan effeithio'n sylweddol ar nodweddion gwarchodedig Oed ac Anabledd. Mae'r gwaith yn yr ASF a'r AAB yn ceisio dynodi'r rhwystrau hynny ac ni fydd yn achosi unrhyw effeithiau negyddol newydd.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys pan wneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg hefyd yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi neu newid mewn darpariaeth gwasanaeth, ar yr iaith Gymraeg sy'n cynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth neu gan drydydd parti. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut all trefniadau o'r fath leihau canlyniadau anghyfartal a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill (ar sail cytundeb perthnasol), rhaid ystyried yn ofalus a fyddai'n briodol:

- i feini prawf gosod y cytundeb hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol (i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da);
- gosod amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu cyflawni tair nod y Ddyletswydd Gyffredinol.

Dim ond yn berthnasol i drefniadau contract sy'n "gytundebau perthnasol" sydd un ai'n golygu gosod 'contract cyhoeddus' neu ganlyniad 'cytundeb fframwaith' mae hyn yn berthnasol, y mae'r ddau yn cael eu rheoleiddio gan y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus (2004/18/EC) sy'n rheoleiddio trothwyon penodol yr UE. Ceir mwy o wybodaeth fan hyn.

Rhaid i ni ystyried sut all trefniadau o'r fath wella cyfleoedd cyfartal a lleihau canlyniadau anghyfartal, yn arbennig ar benderfyniadau caffael a chomisiynu mawr. Mae'r PSED yn berthnasol i'r gwaith y mae sefydliadau sector cyhoeddus yn ei gyflawni wrth ddarparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan. Felly, mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny yn arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod y modd yr ydym yn caffael a monitro'r gwasanaethau hynny yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol dan Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un modd, mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn berthnasol i unrhyw waith a wneir ar ran, ac yn enw, cyrff cyhoeddus sydd ei hunain yn destun y Safonau, ac felly dylid ystyried sut mae'r gofynion hyn yn cael eu monitro a'u cyfathrebu trwy ddogfennau caffael. Nid yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn pasio i drydydd parti trwy gaffael comisiynu na allanoli. Felly, pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff sydd ddim yn rhan o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, nid yw'r ddyletswydd ond yn berthnasol i ni fel y corff cyhoeddus perthnasol.

18. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd ☒ Na fydd ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

Os mai 'Na fydd' yw eich ateb, ewch ymlaen i Gam 4

19. Os ateboch 'Bydd', pa gamau fyddwch chi'n eu gweithredu i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau? Meddyliwch am:

Caffael

- Gosod disgwyliadau cydraddoldeb clir mewn dogfennau Tendro a Manylebau, gan ddangos sut y gellir adeiladu hyrwyddo cydraddoldeb i mewn i brosiectau caffael unigol.
- Ar beth wnaethoch chi seilio eich penderfyniadau yn y broses o osod y contract yn cynnwys ystyried cyflogaeth foesegol a chod ymarfer cadwyn gyflenwi
- Sicrhau bod cymalau contractau'n cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a gofynion economaidd-gymdeithasol yn ogystal â Dyletswyddau'r Iaith Gymraeg (cofiwch fod unrhyw ddyletswyddau o Fesur yr Iaith Gymraeg 2011 a Safonau'r Iaith Gymraeg hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir ar eich rhan dan gontract gan gyrff allanol). Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth, rheoli a gorfodi contractau

Partneriaethau

Byddwch yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r AEC
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Iaith Gymraeg
- Dangos fod y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi derbyn ystyriaeth ddyledus

Y partneriaid yw comisiynwyr mewn awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol y mae gofyn iddynt gydymffurfio'n llwyr a rheoli cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ar gydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg a rhoi sylw dyladwy i ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol mewn arferion comisiynu.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Andwyol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

20. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? (Rhowch y manylion yn fras)

Effaith gadarnhaol sylweddol	Effaith negyddol sylweddol
Cynhaliwyd ymchwil drwyadl ar gyfer yr AAB a'r ASF a fydd yn darparu mewnwelediad i randdeiliaid ar y grwpiau o bobl sy'n fwyaf tebygol o wynebu'r risg o anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar gynllunio i ddarparu cymorth effeithiol i'r unigolion hynny. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol hirdymor ledled y rhanbarth, gan ddylanwadu ar strategaeth, llunio polisi ac ymarfer ar gyfer comisiynwyr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd a darparwyr annibynnol a darparwyr y trydydd sector yn y farchnad gofal cymdeithasol.	

21. Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'r camau lliniaru y byddwch yn eu gweithredu i ddatblygu eich drafft polisi/ymarfer terfynol. Yma, cofnodwch pa fesurau neu newidiadau y byddwch yn eu cyflwyno i'r polisi neu'r ymarfer yn y drafft terfynol allai leihau neu ddileu unrhyw effaith anghyfreithlon neu negyddol neu anfantais a/neu wella cyfleoedd cyfartal/gyflwyno newid positif; neu leihau canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? (Gall hyn hefyd gyfrannu at y Cynllun Gweithredu yn C30)

Effaith Anghyfreithlon neu Negyddol a Nodwyd	Camau Lliniaru / Gweithrediadau Cadarnhaol yn y Polisi/Ymarfer	Cwblhawyd (✓)
Amherthnasol		

22. A fydd y mesurau hyn yn cael gwared ag unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?

Bydd ☐ Na fydd ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

23. Os 'Na fydd', pa gamau gweithredu allech chi eu defnyddio i gyflawni'r un nod mewn ffordd arall?

Amherthnasol

24. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010)

b) lleihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol;

c) cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Amherthnasol

25. A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i lunio barn gytbwys?

Oes ☐ Nac oes ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

26. Os ateboch 'Oes', nodwch eich cyfiawnhad dros hyn:

Amherthnasol

27. Os ateboch 'Na', pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch a beth sydd angen i chi ei wneud i allu penderfynu?
(Noder: A ddylech gynnwys gasglu data yn y cynllun gweithredu (Cam 6)?)

Amherthnasol

[Efallai y bydd angen i chi oedi fan hyn nes eich bod wedi cael y wybodaeth ychwanegol]

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

28. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4 uchod, nodwch yn y tabl isod a ydych yn medru mynd ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail?

(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi'i dicio' fel sy'n briodol)

	Penderfyniad
☒ Ie	Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol
☐ Ie	Parhau â'r polisi neu'r ymarfer ond gydag addasiadau i wella neu i gael gwared o'r meysydd o effaith andwyol a nodwyd yng Ngham 4.
☐ Ie	Dal ati gyda'r cynllun am fod modd cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol
☐ Na	Peidio â pharhau â'r polisi neu'r ymarfer am nad oes modd ymdrin â'r effaith andwyol. Ystyried ffyrdd eraill o ymdrin â'r materion.

29. A oes unrhyw argymhellion terfynol o ran canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur.

30. Amlinellwch isod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd yn eich helpu i fonitro eich polisi/ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)

31. Amlinellwch isod pa drefniadau fyddwch chi'n eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn yn cynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (yn cynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amlder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)

CAM 7 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ar ôl ei gwblhau, trefnwch i'r AEC hwn gael ei gymeradwyo gan eich Pennaeth Gwasanaeth/Adran a threfnu iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi gan anfon copi i'r Swyddog Cydraddoldeb.

Cyfarfod a dyddiad: **Meeting and date:**	Cyfarfod y Bwrdd 22 Medi 2022
Cyhoeddus neu Breifat: **Public or Private:**	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad **Report Title:**	Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018. **Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru gyfan) a Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru.**
Cyfarwyddwr Cyfrifol: **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**	Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.
Awdur yr Adroddiad **Report Author:**	Meryl Roberts, Rheolwr Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2).
Craffu blaenorol: **Prior Scrutiny:**	Amherthnasol
Atodiadau **Appendices:**	**Atodiad 1:** Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007:- Cyfarwyddydau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018. - Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy ar gyfer Cymru. **Atodiad 2:** Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007:- - Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru

Argymhelliad / Recommendation:

Mae'r manylion a gyflwynir i'r Bwrdd yn yr Adroddiad hwn yn grynodeb o'r cymeradwyaethau sydd wedi cael eu cadarnhau yn barod ar gyfer cymeradwyaethau Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled y wlad.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu cofnod llywodraethu o ran cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007) parthed y broses gymeradwyo a chadarnhau.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a'r Ddogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2).

Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate

Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		**Ar gyfer Trafodaeth For Discussion**		**Ar gyfer sicrwydd For Assurance**	✓	**Er gwybodaeth For Information**	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						**N**	

Sefyllfa / Situation:

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ymgymryd â swyddogaeth ddirprwyedig Gweinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12(2) ar ran yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod prosesau effeithiol ar gyfer cymeradwyo, ail-gymeradwyo, atal a therfynu cymeradwyaeth Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12(2) yng Nghymru.

Cefndir / Background:

Mae'r Broses Gymeradwyo yn rhan o'r broses ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007).

Mae Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Llywodraeth Cymru (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018, Trefniadau Gweithdrefnol Clinigwyr Cymeradwy (Gorffennaf 2018) a Dogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) Cymru Gyfan (Medi 2021) yn nodi'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo Meddygon a Chlinigwyr anfeddygol sy'n dymuno cael eu cymeradwyo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Defnyddir y dogfennau hyn gan y Tîm Cymeradwyo a Phanel Adran 12 a Chlinigwyr Cymeradwy Cymru Gyfan sy'n craffu ar geisiadau am gymeradwyaeth a dderbyniwyd oddi wrth Glinigwyr ledled y wlad. Derbynnir ceisiadau naill ai ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy neu geisiadau Adran 12(2) gan Seiciatryddion, Ymarferwyr Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill sy'n gymwys i wneud cais am statws cymeradwy dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) (fel y'i diwygiwyd yn 2007).

Mae ceisiadau'n cael eu harchwilio gan y tîm cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio, ac yna'n cael eu cyflwyno i aelodau'r Panel er mwyn iddynt graffu arnynt, eu hasesu a gwneud argymhelliad.

Yn dilyn asesiad y Panel, rhaid i unrhyw argymhelliad i gymeradwyo gael ei gadarnhau'n ffurfiol gan y Bwrdd Cymeradwyo, er mwyn i'r broses gymeradwyo fod yn gyfreithlon ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion deddfwriaethol.

Ceisir cadarnhad drwy lythyr Gweithredu ysgrifenedig gan y Cadeirydd ac fe'i cyflwynir i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i'w gydlynu a'i gwblhau.

Yna ceir cymeradwyaeth yn ysgrifenedig gan Gadeirydd y Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol, Ysgrifennydd y Bwrdd a dau Aelod Annibynnol ac fe'i dychwelir i'r Tîm Cymeradwyo.

Mae'r Clinigydd wedyn yn cael gwybod ei fod wedi cael ei gymeradwyo a chaiff hyn ei gadarnhau yn ysgrifenedig mewn llythyr cymeradwyo wedi ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol.

Wedyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau'r penderfyniadau'n ffurfiol drwy'r papur hwn sy'n cael ei gyflwyno bob dau fis

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Mae'r Bwrdd yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach y Cyfarwyddydau sy'n sail i'r swyddogaeth bwysig hon.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Adroddiad ffeithiol yw hwn at ddibenion sicrwydd.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Dim

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Er mwyn sicrhau bod yr holl Glinigwyr yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, mae Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan yn asesu ceisiadau yn unol â'r Trefniadau Gweithdrefnol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Os nad ydy Clinigwyr yn gwneud cais am ail-gymeradwyaeth yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, gallai eu cymeradwyaeth ddod i ben a chael effaith niweidiol ar argaeledd Clinigwyr Cymeradwy, Clinigwyr Cyfrifol a Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar draws y gweithlu yng Nghymru.

O dan Reoliadau Iechyd Meddwl (Cydnabyddiaeth Gilyddol) 2008, mae Meddyg cymeradwy Adran 12(2) yn Lloegr hefyd wedi'i gymeradwyo yng Nghymru, ac fel arall. Oherwydd diffyg Cyfarwyddydau Adran 12 ar gyfer Cymru ar hyn o bryd, mae risg na fydd Meddyg cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru yn gyfreithlon yn Lloegr.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Mae'r Broses Gymeradwyo yn bodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd 2007) a Chyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi nad oes gan Gymru Gyfarwyddydau Adran 12 ar hyn o bryd ar gyfer cymeradwyo, ail-gymeradwyo a therfynu cymeradwyaeth Meddyg Adran 12(2). Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â'r Tîm Cymeradwyo ar 20 Hydref 2021 a chytunwyd y bydd Cyfarwyddydau Adran 12 yn cael eu gwneud. Adolygodd Tîm Cyfreithiol Llywodraeth Cymru Gyfarwyddydau Adran 12 drafft ar gyfer cydymffurfio, a chynhaliwyd cyfarfodydd pellach rhwng y Tîm Cymeradwyo a Llywodraeth Cymru ar 8 Rhagfyr 2021, 4 ac 11 Chwefror 2022, 11 Mawrth 2022, ac 20 Mai 2022 i adolygu a chytuno ar y cynnwys. Bydd rhagor o gyfarfodydd yn cael eu trefnu i sicrhau bod y Cyfarwyddiadau Adran 12 drafft yn cael eu hadolygu, eu cytuno a'u deddfu gan Weinidog Cymru.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Dim.

Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy a Meddygon Cymeradwy Adran 12 (2) yng Nghymru 29 Mehefin 2022 – 24 Awst 2022		
	AC	**Adran 12 (2)**
Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo	12	6
Atal cymeradwyaeth dros dro	0	0
Ail-ysgogi cymeradwyaeth/Ailysgogi a dychwelyd i weithio yng Nghymru	2	3
Tynnwyd	1	0
Wedi ymddeol	0	0
Wedi cofrestru heb drwydded i ymarfer ac wedi ymddeol	2	0
Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (i Gofrestr Ad12)	2	2
Trosglwyddwyd/Tynnwyd o Ad12 – Daeth yn Glinigwr Cymeradwy	0	5
Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach	4	3
Cymeradwyaeth wedi dod i ben	1	0
RIP	0	0

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

ATODIAD 1

Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007

Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru)

Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru

29 Mehefin 2022 – 24 Awst 2022

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 12

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Lyons	Ita	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Hamadryad, Bluetown, Caerdydd, CF10 5UY.	4 Gorffennaf 2027	Ie
Ramachandran	Jayalakshmi	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ysbyty Ty Garngoch, Hospital Road, Gorseinon, Abertawe SA4 4LH.	11 Gorffennaf 2027	Ie
Sikabofori	Bennett Tamunotonye	Regis Healthcare Limited, Hillview Hospital, Hillside, Glynebwy, NP23 5YA.	20 Ebrill 2024	Ie
Hider	Andrew	Ludlow Street Healthcare Limited, Uned 1, Castleton Court, Fortran Road, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT.	18 Gorffennaf 2027	Ie
Nash	Jonathan Robert	Mental Health Care UK Limited, Ysbyty Annibynnol Dewi Sant, Carrog, Corwen, LL21 9BG.	18 Gorffennaf 2027	Ie
Heliwr	Stephen	Priory Group Limited, Ysbyty Annibynnol Llanarth Court, Rhaglan, Y Fenni, Sir Fynwy, NP15 2AU	20 Gorffennaf 2027	Ie

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Karim	Bakir	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ysbyty Ty Garngoch, Hospital Road, Gorseinon, Abertawe SA4 4LH.	25 Gorffennaf 2027	Ie
Ingley	Sanjay	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned EMI Bodnant, Ffordd Maesdu, Llandudno, LL30 1QY.	27 Gorffennaf 2027	Ie
Shooter	Ben	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ward Felindre, Ysbyty Bronllys, Brecon Road, Bronllys, LD3 0LU.	9 Awst 2027	Ie
Janas	Mark Antoni	Priory Group Limited, Ysbyty Annibynnol Llanarth Court, Llanarth, NP15 2YD.	12 Awst 2027	Ie
Biswas	Mridul	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ.	15 Awst 2027	Ie
Tint	Aung	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Iechyd Meddwl Heddfan, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD.	27 Ebrill 2027	Ie

Atal cymeradwyaeth dros dro: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ail-ysgogi cymeradwyaeth: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Heke	Sian Katherine	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ward Fendrod, Ysbyty Cefn Coed, Heol Waunarlwydd, Y Cocyd, Abertawe SA2 0LB.	15 Chwefror 2026	Ie
Slater	Alan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Adran Niwroseiciatreg, Hafan y Coed, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Heol Penlan, Penarth CF64 2XX.	28 Mawrth 2027	Ie

Tynnwyd Gadael Cymru a Chymeradwyaeth wedi dod i ben: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Roberts	Owen	Priory Group Limited, Priory Hospital, Church Village, Tonteg, CF38 1HE.	6 Awst 2022

Wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Ddim wedi cofrestru mwyach ac wedi ymddeol: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Feeney	John Thomas (Sean)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Iechyd Meddwl Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, Lôn Sarn, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, LL18 5UJ.	12 Gorffennaf 2022
Cupok	Anke	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Uned Enlli, Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth, SY23 1ER.	28 Gorffennaf 2022

Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy i Gofrestr Ad12: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Tye	Tracy	d/o Cyfeiriad Preifat	11 Gorffennaf 2023
Srinivasan	Janika	d/o Cyfeiriad Preifat	21 Mehefin 2023

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 4

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Shetty	Adarsh	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Tîm Allgymorth ac Adfer, Llawr Cyntaf, Iechyd Meddwl, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ.	28 Chwefror 2026
Chugh	Sanjay	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Clinig Plant a Theuluoedd Tywysoges Cymru, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ	18 Medi 2022
Cantrell	Paul	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Uned Llanfair, Ysbyty Llandochau, Heol Penlan, Llandochau, CF64 2XX.	18 Medi 2023

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Nair	Akshey	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW.	22 Hydref 2022

Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 1

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Bevan-Jones	Rhys Vaughan	Adran Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc, Yr Isadran Meddygaeth Seicolegol a'r Niwrowyddorau Clinigol , Canolfan MRC ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig, Prifysgol Caerdydd, Adeilad Haydn Ellis, Heol Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ.	12 Awst 2022

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

ATODIAD 2

Deddf Iechyd Meddwl 1983

Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru

29 Mehefin 2022 – 24 Awst 2022

Ad12 Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 6

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Jalal	Umer	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro, Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, Y Barri, CF62 8YH.	5 Gorffennaf 2027	Ie
Rasheed	Areej	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ffordd Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9DT.	21 Gorffennaf 2027	Ie
Howells	Alexander Peter	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ.	26 Gorffennaf 2027	Ie
Proffitt	Rhian	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canolfan Dawn, 35-37 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8PD.	2 Awst 2027	Ie
Withecombe	Julie Louise	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Tŷ Llidiard, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ	7 Awst 2022	Ie
Pearson	Laura Jayne	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ty Garngoch, Hospital Road, Garngoch, Gorseinon, Abertawe SA4 4LH	12 Awst 2022	Ie

Gwaharddwyd oddi ar Gofrestr Ad12: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ad12 Ail-ysgogi cymeradwyaeth/Dychwelyd i Gymru: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Prew	Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ.	3 Mai 2027
Marey	Mohamed Emadeldin	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tîm CAMHS, Ysbyty Sant Cadog, Lodge Road, Caerllion, Casnewydd NP18 3XQ.	21Ebrill 2027

S12 Tynnwyd – Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Wedi Cofrestru Heb Drwydded ac wedi Ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr – Cymeradwyo o dan Ad12: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw Cymeradwyaeth Ad12(2) i ben
Tye	Tracy	d/o Cyfeiriad Preifat	11 Gorffennaf 2023
Srinivasan	Janika	d/o Cyfeiriad Preifat	21 Mehefin 2023

Trosglwyddwyd o Gofrestr Ad12 – Daeth yn Glinigwr Cymeradwy: 5

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Dunstall	Huw	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Uned Asesu a Thriniaeth Hafod y Wennol, Hensol, Pontyclun, CF72 8JY.	2 Awst 2022
Medhurst	David	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Uned Asesu a Thriniaeth Hafod y Wennol, Hensol, Pontyclun, CF72 8JY.	2 Awst 2022

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Rankin	Jennifer	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, GSSMS, Rholben Villa, Ysbyty Maindiff Court, Heol Ross, Y Fenni, NP7 8NF.	2 Awst 2022
Malhotra	Rahul	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Bryn y Neuadd, Ffordd Aber, Llanfairfechan, Conwy LL33 0HH.	2 Awst 2022
Slater	Alan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Llandochau, Penarth, CF64 2XX.	2 Awst 2022

Ad12 Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 3

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Ghafoor	Sanah	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Heol Penlan, CF64 2XX.	12 Gorffennaf 2026
Mostafaie-Mehr	Majid	Cygnet Healthcare Limited, Delfryn House, Argoed Hall Lane, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6FQ.	20 Medi 2022
Barrattshaw	Stephen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ.	31 Awst 2022

Ad12 Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Bwrdd Iechyd
29.9.22

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	**Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth**
Dyddiad y cyfarfod:	25.8.22
Enw'r Cadeirydd:	John Cunliffe, Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Rob Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	Cymeradwyodd y Pwyllgor • Egwyddorion Cynllunio Ariannol 2023-26 ac Amserlen 2023-24 a nodi'r eitemau a ganlyn • Strategaeth Gyllid Ddrafft 2022-2025 • Adroddiad Cyllid Mis 4 2022/23 • Diweddariad ar Reolaeth Ariannol • Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2022 • Cynllun Tymor Canolig Integredig - Asesiad Gweinidogol • Proses datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig • Adroddiad Rhaglen Gyfalaf – Mis 3 a Mis 4 • Adroddiad Statws y Cynllun Adfer Gofal wedi ei Gynllunio • Y Diweddaraf am Fetrigau Gofal Brys • Adroddiad Trawsnewid • Adroddiad Cynllun Pobl (Gweithlu) • Y diweddaraf am archwiliad dwfn o'r gweithlu • Llywodraethu Gwybodaeth - Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Chwarter 4 2021/22 • Adroddiad Blynyddol Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth 2021/22 • Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth 2021/22 • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 2022/23 • Cofrestr Risgiau Corfforaethol Nodwyd hefyd bod y camau gweithredu a ganlyn gan y cadeirydd wedi cael eu cymryd cyn y cyfarfod: • Cyhoeddi Tenantiaeth wrth Ewyllys mewn perthynas ag adeilad sy'n eiddo i'r Bwrdd Iechyd i'w ddefnyddio fel meddygfa gangen gan bractis Coedpoeth. • adnewyddu contract Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol ar ôl gwerthu practis yn y Fflint

	• cyllid ac estyniad contract ar gyfer y darparwr allanol asesiadau Niwroddatblygu presennol Mewn sesiwn breifat, trafododd y Pwyllgor • Cynllun Gofal Cartref Gwynedd • Contract Gofal wedi ei Gynllunio
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	• Roedd llythyrau atebolrwydd (gofyniad ar gyfer Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog) yn dal i gael eu rhoi i ddeiliaid cyllidebau ac yn rhan o ofynion y Model Gweithredu newydd • Ni fydd Cynllun Ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023/24 yn cael ei gwblhau tan ar ôl i'r dyraniadau gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (disgwylir iddynt fod ganol mis Rhagfyr). Mae'r pwyllgor yn disgwyl derbyn cynlluniau drafft pellach yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol nes gellir ei gwblhau. • Y sefyllfa o fewn y mis yw gwarged o £0.1m ar gyfer y cynllun, sy'n arwain at ddiffyg cronnus o £2.2 miliwn ar gyfer y cynllun, (0.35% o'r dyraniad) o fis 4. Mae'r rhagolwg hwn ar gyfer y flwyddyn yn parhau i fod ar y trywydd i adennill costau yn unol â'r bwriad. Rhagwelir y bydd y diffyg hwn yn cael ei adfer erbyn mis 9. • Yn dilyn barn cyfrifon 2021/22 Archwilio Cymru, mae rheolaethau ariannol ychwanegol wedi cael eu nodi ac yn cael eu rhoi ar waith. • Y gwelliannau perfformiad allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad Ansawdd a Pherfformiad oedd ▪ Roedd y nifer a oedd yn defnyddio gwasanaethau sgrinio'r coluddyn wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf ▪ Roedd Meddygon Teulu wedi cyrraedd 76% o'r safonau mynediad cenedlaethol, a hynny'n welliant ar y 42% a welwyd yn 2019 ▪ Roedd llai o gleifion yn aros mwy na 26 wythnos • Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol Rhaglen Gydymffurfio Ysbyty Gwynedd yn dilyn ymatebion a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd. • Roedd adborth cynnar ar y broses a'r gwaith o ymgysylltu â'r gwaith modelu mynd at wraidd y mater a wnaed, yn wreiddiol gan y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar recriwtio, wedi cael derbyniad cadarnhaol. Byddai canfyddiadau a chamau gweithredu yn cael eu rhannu ymhellach yn y cyfarfod nesaf • Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd **89%** yn asesiad y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth; gan gyrraedd lefel 2 neu uwch ym mhob maes.
Risgiau allweddol, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Mae risgiau ariannol mewn perthynas â'r strategaeth gyllid ddrafft yn cael eu cofnodi yn y BAF, gyda mesurau lliniaru yn deillio o weithgareddau a chynlluniau'r tîm trawsnewid. • Dylai'r cymhwyster ar gyfer barn archwilydd 2021/22 gael ei adlewyrchu yn y BAF neu'r gofrestr risg

	• O ran pennu cyllideb 2023/24, roedd y Pwyllgor yn dymuno gweld mwy o reolwyr yn ymgysylltu'n fwy amserol â'r broses. • Ni chafodd y pwyllgor sicrwydd y gall y Bwrdd lechyd weithredu o fewn ei fodd. Roedd cynlluniau i fynd i'r afael â hyn yn cael eu llunio a byddai sefyllfa ddrafft yn cael ei dwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf. • Nid oedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth wedi bodloni gofynion fframwaith GIG Cymru yn llawn, ac ni chafodd ei gymeradwyo. Fodd bynnag, fe'i derbyniwyd fel Cynllun Blynyddol. Dywedodd y Gweinidog fod angen mwy o ffocws ar gyflawni a gwella. • O ran datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023 – 2026, tynnwyd sylw at ddwy risg: o tonnau pellach posibl Covid-19, a allai gyfyngu ar lefel yr ymgysylltu yn y broses adnewyddu o mae'n bosib na fydd y model gweithredu newydd yn hwyluso cynllunio cymunedol iechyd cwbl integredig. Byddai risgiau clinigol yn cael eu hamlygu a byddai risgiau'n cael eu triongli. Roedd disgwyl i arweinwyr systemau integredig gymryd perchnogaeth dros y broses gynllunio. Mae angen i'r datblygiad hefyd gael cysylltiad clir â'r materion a nodwyd yn y llythyr gweinidogol • Mae perfformiad ar draws nifer o feysydd yn parhau i fod yn siomedig ac yn risg i gleifion. Er enghraifft: o Arosiadau rhwng 4 awr a 12 awr am wasanaeth brys o Trosglwyddo o ambiwlansiau o Aros 8 wythnos am ddiagnosis o Amserau aros am apwyntiad ac apwyntiadau dilynol i gleifion allanol o Cyfeirio at driniaeth 36 wythnos ac aros am 104 wythnos o Gwariant ar asiantaethau • Mae rhaglen achos busnes Cyfnod 1 Parhad Wrecsam wedi cael ei gohirio am tua thri mis oherwydd yr angen am arolygon helaeth (yn benodol, ynghylch hyd a lled y gwaith cydymffurfio â rheolau tân). • Mae cyfanswm y rhestr aros wedi parhau i gynyddu, ac mae'r sefyllfa sydd heb ei dilysu yn fwy na 170,000 o gleifion, ac mae tua hanner y cleifion yn aros rhwng 0 a 25 wythnos. Cytunwyd i ddadansoddi ymhellach yr amseroedd aros dros 52 wythnos yn yr adroddiad nesaf. • Risgiau sy'n ymwneud â thrawsnewid a chyflawni'r arbedion trawsnewidiol sydd eu hangen i gyd-fynd â'r adroddiad Trawsnewid
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Gofyn i PPPH gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o gymorth allanol wrth ddatblygu'r strategaeth Ystadau

Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Busnes a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â'r canlynol • Adroddiadau uwch-adrannol • Adroddiad at wraidd y mater ar recriwtio • Cynllunio ariannol
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	27.10.22

Bwrdd Iechyd **19.7.22**	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board *Gwella iechyd a chynnig gofal ardderchog*

Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cynghori

Enw'r Grŵp Cynghori:	Fforwm Partneriaeth Lleol
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Gorffennaf 2022
Enw'r Cadeirydd:	Ms Jan Tomlinson
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Mrs Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Crynodeb o'r eitemau allweddol a drafodwyd:	• Ymyriad wedi'i Dargedu • Model Gweithredu • Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Chwarter 4 2021-2022 • Atal a Rheoli Heintiau • Strategaeth Ansawdd 2022-2025 • Diweddariad Partneriaeth y Gweithlu gan gynnwys Gwerthuso Swyddi a Diweddariad ar Bolisïau'r Gweithlu • Diweddariad am Ymgysylltu â Staff • Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021-2022
Cyngor allweddol / adborth i'r Bwrdd:	• Nodwyd bod y cyfarfodydd wythnosol gyda Lesley Hall a'r cyfarfodydd Tîm Rheoli a gynhelir bob yn ail wythnos gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a chyfarwyddwyr gweithredol eraill yn hynod ddefnyddiol o ran mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a chwestiynau a allai fod gan staff am y Model Gweithredu newydd. Nodwyd hefyd fod unrhyw bryderon a oedd wedi codi, eisoes wedi cael sylw yn y cyfarfodydd hyn. • Roedd y Grŵp Cynllunio Gweithredol wedi trefnu ymarfer gwytnwch pen bwrdd mewn perthynas â brech y mwncïod. Roedd 8 achos wedi bod yng ngogledd Cymru, ac un achos posibl yn yr adran ENT yn Wrecsam. Mae'r tîm Rheoli Atal Heintiau yn parhau i hyrwyddo PPE Lefel 2 ar gyfer unrhyw achosion a amheuir yn ogystal ag achosion a gadarnhawyd, gyda chanllawiau newydd yn nodi y dylid gwisgo PPE Lefel 2 ym mhob achos lle yr amheuir bod gan gleifion mewnol frech y mwncïod, ei bod yn debygol bod gan gleifion mewnol frech y mwncïod neu os yw'r achos wedi'i gadarnhau mewn cleifion

	mewnol. • Adroddodd yr Uwch Nyrs Arweiniol Arbenigol Rheoli Atal Heintiau wrth yr Aelodau am y dechnoleg newydd a fabwysiadwyd yn ddiweddar sef defnyddio Asid Hypoclorws (HA) ar gyfer diheintio lefel uchel o'r amgylchedd, yn hytrach na'r dechnoleg HPV a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae HA yn broses llawer cyflymach ac yn fwy diogel i'w ddefnyddio ac mae hyn o fudd i staff, cleifion a'r amgylchedd. Pan fo gwelyau'n cael eu blocio oherwydd bod angen glanhau dwfn, mae HA yn helpu i ryddhau capasiti i'r system gan ei fod yn dibynnu ar lai o weithwyr domestig. • Mewn ymateb i gwestiynau gan y rheolwyr ynglŷn ag a oedd yna ffyrdd y gallai'r Bwrdd Iechyd gefnogi staff yn ystod y tywydd poeth, cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod yn ymwybodol bod gorsafoedd dŵr wedi bod ar y wardiau a bod dŵr ar gael ar gyfer pob egwyl. Nododd hefyd fod fan hufen iâ wedi'i lleoli yn WHM i staff gael mynediad iddi. Cadarnhaodd Toni Wood (Coleg Brenhinol y Bydwragedd) fod lolis rhew ar gael ar y ward esgor yn YG • Rhoddwyd sicrwydd y bydd canghennau amrywiol gan y Gwasanaeth Trawsnewid a Gwybodaeth newydd sy'n cael ei greu ar hyn o bryd. Bydd un ohonynt yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd gan yr hen dîm Gwella Gwasanaeth yr Hwb Gwella Ansawdd a byddai'n cynyddu cymorth a mynediad i dimau lleol i wneud gwelliannau lleol, gan roi gwell mynediad at hyfforddiant ac offer. • Nodwyd bod y rheolau ynghylch tâl Covid wedi newid a rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod y timau'n gweithio'n galed i drin unigolion â thosturi gan edrych ar bob achos yn unigol yn hytrach na defnyddio dull cyffredinol. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r nifer o staff a oedd yn dioddef o effeithiau Covid-hir. Nododd y Cadeirydd eu bod wedi trafod adolygu'r cyfraddau goramser mewn cyfarfod ymylol diweddar o Staff Cymru Gyfan. Roedd hyn o ganlyniad i'r argyfwng staffio a ddaw yn sgil y lefelau salwch presennol ledled Cymru. Mae'r cwestiwn yn mynd i'r Pwyllgor Busnes. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n adrodd i'r Aelodau pan wneir penderfyniad. • Cafodd yr Aelodau wybod y bydd camau cyflog yn cael eu cau o 1 Hydref 2022 ymlaen yn unol â'r darpariaethau Datblygiad Cyflog a gytunwyd arnynt yn 2018 a bydd fframwaith 2018 yn cael ei roi ar waith. Felly ni fydd camau datblygiad cyflog cynyddrannol a gyrhaeddir ar ôl 1.10.22 yn cael eu prosesu fel mater o drefn. Fe'u gweithredir trwy fewnbynnu manylion staff i Reolwr Hunanwasanaeth ESR mewn cyfarfod Arfarnu Datblygiad Cyflog yn unig. Cadarnhawyd bod sesiynau ymwybyddiaeth ar gael i staff a rheolwyr ynglŷn â hyn. • Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfarfod cenedlaethol diweddaraf y Grŵp Gwerthuso Swyddi wedi cytuno y byddent yn edrych ar ddiweddaru proffiliau Nyrsio a Bydwreigiaeth y DU gyfan. Gyda hyn mewn golwg, byddai holiadur yn cael ei anfon yn

	ddiweddarach yn y flwyddyn lle gellid amlygu unrhyw feysydd y teimlwyd bod angen rhoi sylw iddynt yn y proffil. • Hysbyswyd yr Aelodau bod y tîm Ymgysylltu â Staff, trwy weithio gyda chydweithwyr yn TG, wedi cael gwybod am y ffordd orau o ymgysylltu â staff wrth wneud gwaith trawsnewid mawr; sut i rannu gwybodaeth am gyfleoedd ymgysylltu â staff drwy amrywiaeth o gyfryngau - sesiynau galw heibio, wyneb yn wyneb, arolygon rhithiol, digidol a phapur - a'r ffordd orau o gyrraedd staff nad oes ganddynt fynediad at TG bob dydd. • Nodwyd bod yr ymgyrch Codi Llais yn Ddiogel/ Speak out Safely (SOS) newydd gwblhau ei blwyddyn gyntaf. Yn ystod y flwyddyn, roedd pedwar Gwarcheidwad SOS wedi'u recriwtio ynghyd â nifer o hyrwyddwyr SOS. Nodwyd bod llawer iawn o adborth cadarnhaol, ond cydnabuwyd bod angen rhywfaint o welliant wrth ymdrin â materion yn amserol a chodi ymwybyddiaeth staff ynglŷn â chael gafael ar y gwasanaeth, a'u sicrhau eu bod yn gallu codi pryderon yn ddienw. Cydnabuwyd bod hwn yn ddechrau da ond gwerthfawrogir bod llawer o waith i'w wneud eto, gan weithio gydag undebau llafur a rhwydweithiau staff. • Cafwyd trafodaeth ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud trwy rwydweithiau staff y Bwrdd Iechyd er mwyn ymgysylltu â staff sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Roedd y tîm Ymgysylltu â Staff wedi ceisio deall profiadau bywyd pobl, a thrwy eu gwaith gyda Celtic Pride, Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a rhwydwaith staff lleiafrifoedd ethnig a thramor PBC wedi sicrhau bod yr ymgysylltiadau yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol. Roedd timau wedi gallu archebu sesiynau rhithiol anffurfiol gyda'r Prif Weithredwr, 'Te gyda Jo', lle'r oedd cyfle i staff gymryd rhan mewn sgyrsiau, rhannu manylion y gwaith y maent yn ei wneud a gofyn cwestiynau. Cynhaliwyd digwyddiadau panel pob deufis gyda'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Aelodau Annibynnol ac aelodau eraill o'r Bwrdd, gan roi cyfle i staff gysylltu â chydweithwyr o'r Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd ac i ofyn cwestiynau. Mae'n rhaid ateb pob cwestiwn sy'n codi yn y digwyddiadau panel hyn o fewn deg diwrnod gwaith a rhannu'r ymatebion yn yr ardal Ymgysylltu â Staff ar Betsinet. Mae'r adborth o'r sesiynau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn. • Cynhaliwyd 32 o ymweliadau Ymgysylltu â Staff gyda'r Prif Weithredwr yn mynd gyda'r rheolwyr a'u timau i gwrdd â staff a dysgu am eu profiadau. Cafwyd adborth cadarnhaol • Derbyniodd yr Aelodau gadarnhad y byddai'r hyn oedd, a'r hyn nad oedd yn eu cylch gorchwyl yn glir i'r Hyrwyddwyr ac mai'r bwriad oedd bod hyrwyddwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r undebau llafur ac nid yn eu lle. Roedd y Cadeirydd yn hapus bod y drafodaeth yn dal ar agor. Cytunodd yr Uwch Reolwr Datblygu Sefydliadol y byddai'n rhoi adborth i'r cyfarfod nesaf ynghylch y data a ddarparwyd gan y Gwarcheidwaid a'u cyfeiriadau at yr undebau llafur. Roedd Aelod yn dymuno nodi bod rhai o'i

	haelodau wedi cael profiad cadarnhaol iawn ar ôl mynd at y Gwarcheidwaid am gyngor. • Nododd y Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei bod yn paratoi i dderbyn nifer o ddatblygiadau polisi gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r anghydraddoldebau cynyddol a deimlwyd gan lawer o grwpiau gwarchodedig yn ystod Covid-19. Derbyniwyd Cynllun Gwrth-hiliaeth Cymru ym mis Mehefin a bydd y Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn edrych arno i ehangu cwmpas eu grŵp ymhellach. Roeddent hefyd yn rhagweld Cynllun Gweithredu LHDT Llywodraeth Cymru a gwaith y Tasglu Anabledd a byddant yn briffio'r sefydliad pan ddaw'r rhain i law.
Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Yr ystod o adroddiadau safonol ynghyd â: • Diweddariad ar lafar am yr Ymyriad wedi'i Dargedu gan Jo Whitehead • Cyflwyniad Safonau'r Gymraeg gan Eleri Hughes-Jones • Adroddiad Blynyddol Rheoli Iechyd a Diogelwch • Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad • Straeon Cleifion • Diweddariad gan Ysgrifenyddiaeth Partneriaid yr Undebau Llafur. • Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol (materion o bwys). • Adroddiad Fforwm Partneriaeth Cymru
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	13.00 o'r gloch, Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022, yn rhithiol ar Teams.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Adroddiad y Cadeirydd

Enw'r Pwyllgor:	Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu (TIIF)
Dyddiad y cyfarfod:	22.08.22
Enw'r Cadeirydd:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	• Mae angen ailwerthuso'r sgoriau ar gyfer pob maes er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n cael eu profi ar draws y sefydliad. • Mae angen cyd-ddibyniaeth rhwng y matricsau aeddfedrwydd o ran y sgoriau gan na all pob parth gyrraedd lefel benodol ar ei ben ei hun. • Mae argymhellion Adroddiad y Sefydliad Llywodraethu Da yn cael eu datblygu. • Cytundeb i uno'r Grŵp Tystiolaeth a'r Grŵp Canlyniadau i ddod yn un Grŵp i roi cyfle i ddod â'r elfen gwirio a herio i mewn i un fforwm. • Bydd fformat presennol yr is-grŵp yn cael ei ddiwygio ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. • Cytunodd y grŵp i gael gwared ar y dull "uchel ac isel" gan fod hyn wedi achosi dryswch. • Rhannwyd matrics aeddfedrwydd Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad YGC gyda'r Grŵp. • Cytunwyd ar newidiadau arfaethedig i fatricsau aeddfedrwydd Iechyd Meddwl ac Ymgysylltu Pob Oedran.
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	• Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro cynnydd ymyriadau wedi'u targedu trwy oruchwyliaeth y Grŵp Llywio.
Risgiau allweddol, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Ni chodwyd unrhyw risgiau
Maes Fframwaith Gwella Ymyriadau	• Pob un

wedi'u Targedu y rhoddwyd sylw iddo	
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	• Dim
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	• Dim
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	*Disgrifiwch sut mae'r materion a drafodwyd a'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion a ystyriwyd gan y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy neu, os nad ydynt, nodwch y rhesymau dros hyn.* *1. Cydbwyso'r angen yn y tymor byr gyda chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol* – sy'n cael sylw gan y maes strategaeth, cynllunio a pherfformiad. *2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion* – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu *3. Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a cheisio eu barn* – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu; *4.Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu* – drwy ddyraniad cyllid Llywodraeth Cymru; *5. Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill* – sy'n cael sylw drwy waith ymgysylltu.
Busnes a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf:	• Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddiweddaru yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yng nghyfarfod mis Awst.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	22.09.22

Bwrdd Iechyd *29 Medi 2022*	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board *Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol*

Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cynghori

Enw'r Grŵp Cynghori:	Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Dyddiad y cyfarfod:	2 Medi 2022

Enw'r Cadeirydd:	Mandy Jones, Cynrychiolydd Nyrsio ac Is-gadeirydd y Fforwm

Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd ac Arweinydd Gweithredol y Fforwm

Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd:	**H22/23 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** **H22/23.1** Agorodd yr Is-gadeirydd y cyfarfod, a chydnabod oherwydd nifer yr ymddiheuriadau a ddaeth i law na fyddent yn gallu cynnal cworwm ac felly ni fyddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn parhau er mwyn ymgysylltu â'r cyflwynwyr gwadd. **H22/27 Diweddariad Iechyd y Cyhoedd – Teresa Owen (TO), Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd** Croesawodd Is-Gadeirydd y Fforwm Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, i'r cyfarfod ar gyfer cyflwyno'r diweddariad blynyddol i aelodau'r Fforwm. Eglurodd TO mai hi hefyd yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Profi, Olrhain a Diogelu a'r Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nodwyd bod yr agenda Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cael ei chyflwyno i Fforwm yn gynharach eleni, felly byddai'n canolbwyntio ar Iechyd y Cyhoedd yn y drafodaeth hon. Trafodwyd tri phrif faes yn y cyfarfod heddiw: • Trosglwyddiad / Model Gweithredu Iechyd y Cyhoedd • Ymateb i Flaenoriaethau Gweinidogol – Cynllun Gwaith • Bwriadau Comisiynu Roedd agweddau ar y drafodaeth ar flaenoriaethau Gweinidogol yn cynnwys rhoi'r gorau i ysmygu, bwydo babanod a phwysau iach mewn perthynas ag iechyd y boblogaeth. Yn ogystal, imiwneiddio,

	partneriaethau Gogledd Cymru Iach; a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Ilesiant emosiynol/Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a chynllun cyflenwi gwasanaeth, a rannwyd gydag aelodau'r Fforwm yn y cyfarfod ym mis Mawrth. Cafwyd trafodaeth a dynnodd sylw at optometreg a deintyddiaeth ym maes Iechyd y Cyhoedd. Diolchodd yr Is-gadeirydd i TO ar ran yr aelodau am ymuno â'r Fforwm, am ei hamser gwerthfawr a'r wybodaeth bwysig a rannwyd. **H22/28 Diweddariad ar y Strategaeth Ansawdd – Erika Dennis, Rheolwr Arweiniol Ansawdd ar ran Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Ansawdd, Cyfarwyddiaeth Ansawdd** Nodwyd bod yr eitem hon wedi cael ei thynnu oddi ar yr agenda cyn y cyfarfod a bod y gwesteion wedi tynnu'n ôl. Bydd y Strategaeth Ansawdd Ddrafft ar gael yn ddiweddarach. **H22/29 Diweddariad Strategaeth Pobl – Claire Wilkinson (CW), Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro – Gweithlu Gweithredol, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol** Croesawodd yr Is-gadeirydd Claire Wilkinson, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu Gweithredol i drafod diweddariad y Strategaeth Pobl. Eglurodd CW fod ei swydd wedi cael ei hymestyn i fis Mawrth 2024, ac wrth symud ymlaen bydd hefyd yn gyfrifol am reoli ac arwain y swyddogaeth Datblygu Sefydliadol, ac am ail ran y rhaglen Mewn Undod mae Nerth. Anfonwyd sleidiau'r cyflwyniad ymlaen llaw at aelodau'r Fforwm i'w hadolygu er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r amser yn ystod y cyfarfod. Cafodd y Strategaeth a'r Cynllun Pobl, a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Flwyddyn Gyntaf, ill dau, eu cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd; a chafodd Cynllun Cyflawni y Flwyddyn Gyntaf a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Strategaeth Pobl a'r Llyfrau Gwaith Cynllun, a'r Cynllun Cyflawni wedi ei alinio â'r 5 rhaglen o ddogfennaeth Mewn Undod mae Nerth, hefyd eu rhannu i ategu'r sleidiau cyflwyno ar gyfer y drafodaeth. Ar wahân i themâu allweddol y rhaglen Mewn Undod mae Nerth, wrth gydnabod ac amlygu'r datganiad problem ynghylch recriwtio, roedd CW yn dymuno canolbwyntio ar farn aelodau'r Fforwm a rhoi cyfle i'r aelodau roi adborth am yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol yn eu barn hwy er mwyn gwella'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth a gwerthfawrogodd yr aelodau y canfyddiad a'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff; nodwyd problemau ag elfennau o reolaeth sefydliadau a'r system TRAC, ac atyniad cyffredinol a brandio BIPBC.

	Gwahoddwyd aelodau'r Fforwm i gysylltu â CW os oes ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y broses wella, cyfathrebu ac ymgysylltu, a byddai croeso i aelodau ymuno â'r gweithdy nesaf. Diolchodd yr Is-gadeirydd i CW am ymuno â'r cyfarfod ac am roi o'i amser i gyflwyno'r drafodaeth recriwtio gyda'r aelodau. **H22/30 Adroddiadau Crynhoi y Cadeirydd a'r Aelodau:** H22/30.1 Adroddiad Aelodau'r Fforwm – Nyrsio H22/30.2 Adroddiad Aelodau'r Fforwm – Deintyddiaeth H22/30.3 Adroddiad Aelodau'r Fforwm – Gofal Sylfaenol a Chymunedol H22/30.4 Adroddiad Aelodau'r Fforwm – Optometreg H22/30.5 Adroddiad Aelodau'r Fforwm – Bydwreigiaeth a Chyfarwyddiaeth Merched H22/30.6 Adroddiad Aelodau'r Fforwm – Gwyddorau Gofal Iechyd H22/30.7 Adroddiad Aelodau'r Fforwm - Fferylliaeth a Rheolaeth Meddyginiaethau
Adborth / cyngor allweddol i'r Bwrdd:	**H22/32 Crynodeb o'r wybodaeth i'w chynnwys yn adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd** • Diweddariad Iechyd y Cyhoedd Roedd aelodau'r Fforwm yn cefnogi trosglwyddo'r tîm iechyd cyhoeddus i'r bwrdd iechyd. Mae pwysigrwydd atal, canfod yn gynnar a llesiant yn amlwg a gall aelodau'r Fforwm weld sut gall y Tîm Iechyd Cyhoeddus ddylanwadu ar y cymunedau iechyd integredig i sicrhau bod iechyd y boblogaeth wedi ei wreiddio'n gadarn yn eu cynlluniau. • Strategaeth Pobl Roedd aelodau'r Fforwm wedi eu calonogi gan y gwaith mae Claire yn ei arwain o ran denu a recriwtio. Croesawodd yr aelodau y syniad o ryddhau'r broses recriwtio sy'n cael ei chynnig. Argymhellodd yr aelodau y dylid ystyried dull gweithredu eang ac arloesol o fewn y cyfyngiadau cenedlaethol i fynd i'r afael ag anghenion lleol a chynnig cymhellion sy'n cyd-fynd â chynyddu ffioedd hyfforddi a hyrwyddo cynlluniau 'meithrin eich doniau eich hun'. Cafodd y ffocws ar hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol ei hybu drwy ddathlu llwyddiant yn ein cymunedau ehangach.
Rhoi sylw i Barth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi eu Targedu	• Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) • Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant) • Ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)

Busnes a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o eitemau sefydlog ynghyd â: • Diweddariad Strategaeth Gwelliannau wedi eu Targedu – Cyfarwyddwr Llywodraethu Cyswllt • Trafodaeth flynyddol gyda'r Prif Weithredwr • Trawsnewid a Chynllunio – Cyfarwyddwr Gweithredol • Diweddariad Strategaeth Ansawdd – Ailgyflwyno oherwydd bod eitem ar yr agenda wedi ei gohirio
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2022

Teitl adroddiad: ***Report title:***	Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig (IQPR) hyd at 31.07.2022 Integrated Quality & Performance Report (IQPR) to 31.07.2022
Adrodd i: ***Report to:***	Bwrdd Iechyd Health Board
Dyddiad y Cyfarfod: ***Date of Meeting:***	Thursday, 29 September 2022
Crynodeb Gweithredol: ***Executive Summary:***	Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad yn erbyn y mesurau perfformiad ac ansawdd allweddol a nodwyd fel blaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad yn dangos y gwaith sy'n ymwneud â'r mesurau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2022-23. Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddiwygio i ddarparu mesurau perfformiad gan gynnwys Mesurau Blaenoriaeth Gweinidogol o dan y Nodau Pedwarplyg a nodir yn Cymru Iachach. Yr adroddiad hwn yw ail gyhoeddiad yr IQPR ac mae'n adlewyrchu'r gwelliannau a'r diwygiadau y gofynnwyd amdanynt ar ôl ei wibdaith agoriadol ym mis Awst 2022. Uchelgais y Bwrdd Iechyd yw symud i ddefnyddio technoleg i gael gwell dealltwriaeth o berfformiad ar draws Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad wedi'i adeiladu yn Microsoft PowerBI ac mae'n gynnyrch cydweithio agos rhwng y timau Perfformiad a Gwybodeg. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar fodel Hywel Dda ac mae'n defnyddio methodoleg 'Gwneud i ddata gyfrif' Gwella'r GIG drwy gyflwyno data mewn siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol (SPC) lle bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r gallu i gael mynediad at ddata ar lefel Cymuned Iechyd Integredig yn ogystal ag ar lefel Bwrdd Iechyd. Dyma gam cyntaf y datblygiad. Y cam nesaf, sydd bellach ar y gweill, yw adeiladu safbwyntiau ar lefel pwyllgor. Bydd y farn gyntaf, ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn barod i'w chyflwyno ar 27.10.2022 a bydd fersiwn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael ei chyflwyno ar 20.01.2023. Bydd yr adroddiad yn cael ei adolygu a'i wella'n barhaus hyd nes y bydd yr holl randdeiliaid yn fodlon ei fod yn bodloni anghenion y Bwrdd Iechyd a'i bwyllgorau. Bryd hynny, bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd ar gael ar lwyfannau gwahanol, megis tabledi a ffonau clyfar. This report outlines performance against the key performance and quality measures identified as a priority for the Health Board.

	The report demonstrates the work related to the key measures contained within the NHS Wales Performance Framework 2022-23. This framework has been revised to provide performance measures including Ministerial Priority Measures under the Quadruple Aims set out in A Healthier Wales. This report is the second publication of the IQPR and reflects the improvements and amendments requested after its inaugural outing in August 2022.It is the ambition of the Health Board in moving to utilise technology to gain greater insight into performance across North Wales. The report has been built in Microsoft PowerBI and is a product of close collaboration between the Performance and Informatics teams. The report is based on the Hywel Dda model and utilises NHS Improvement's 'Making data count' methodology by presenting data in Statistical Process Control (SPC) charts where appropriate. This report provides the capability to access data at Integrated Health Community level as well as at a Health Board level. This is the first phase of the development. The next phase, now underway is to build committee level views. The first of these views, for Performance, Finance & Information Governance Committee will be ready for presentation on 27.10.2022 whilst the Quality, Safety & Experience Committee version will be presented on 20.01.2023. The report will be under continued review and improvement until such a time when all stakeholders are satisfied it meets the needs of Health Board and its committees. At this point, the report will then be published in both Welsh and English and will be accessible via different platforms, such as tablets and smartphones.			
Argymhellion: ***Recommendations:***	Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd graffu ar yr adroddiad. The Health Board is asked to scrutinise the report.			
Arweinydd Gweithredol: ***Executive Lead:***	Rob Nolan Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid / Acting Executive Director of Finance			
Awdur yr Adroddiad: ***Report Author:***	Ed Williams Dirprwy Cyfarwyddwr Perfformiad / Deputy Director of Performance			
Pwrpas yr adroddiad: ***Purpose of report:***	I'w Nodi *For Noting* ☐	I Benderfynu arno *For Decision* ☐	Am sicrwydd *For Assurance* ☒	
Lefel sicrwydd: ***Assurance level:***	Arwyddocaol *Significant* ☐ Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran	Derbyniol *Acceptable* ☐ Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran	Rhannol *Partial* ☒ Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran	Dim Sicrwydd *No Assurance* ☐ Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth

	darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives*	darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol *Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives*	*No confidence / evidence in delivery*

Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: ***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***	
Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol: ***Link to Strategic Objective(s):***	Daw'r mesurau perfformiad a gynhwysir yn yr adroddiad hwn o Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2022-23. The performance measures included in this report are from the NHS Wales Performance Framework 2022-23.
Goblygiadau rheoleiddio a lleol: ***Regulatory and legal implications:***	Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd unwaith y caiff ei gyhoeddi ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad This report will be available to the public once published for Quality, Safety and Experience Committee
Yn unol â WP7, a oedd EqlA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP7 has an EqlA been identified as necessary and undertaken?***	Do/Naddo *N* Nid yw'r Adroddiad wedi cael Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan ei fod yn adrodd ar berfformiad gwirioneddol. The Report has not been Equality Impact Assessed as it is reporting on actual performance.
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? ***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?***	Do/Naddo *N* Nid yw'r Adroddiad wedi'i asesu ar gyfer ei Effaith Economaidd-gymdeithasol gan ei fod yn adrodd ar berfformiad gwirioneddol. The Report has not been assessed for its Socio-economic Impact as it is reporting on actual performance.
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)***	Mae'r pandemig wedi cynhyrchu nifer o risgiau i'r ddarpariaeth gofal ar draws y system gofal iechyd. The pandemic has produced a number of risks to the delivery of care across the healthcare system.

Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith* ***Financial implications as a result of implementing the recommendations***	Bydd cyflwyno'r dangosyddion perfformiad a gynhwysir yn y cynllun blynyddol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynllun adfer ariannol y Bwrdd. The delivery of the performance indicators contained within the annual plan will have direct and indirect impact on the financial recovery plan of the Board.
Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith ***Workforce implications as a result of implementing the recommendations***	Bydd cyflawni'r dangosyddion perfformiad a gynhwysir yn ein cynllun blynyddol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol. The delivery of the performance indicators contained within our annual plan will have direct and indirect impact on our current and future workforce.
Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori ***Feedback, response, and follow up summary following consultation***	Mae'r data a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ar 25.08.2022, a gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) ar 06.09.2022. Mae sesiwn benodol yng ngweithdy datblygu'r Bwrdd ar 20.09.2022 i roi cyfle pellach i drafod a chytuno ar fersiynau pellach o fformat yr adroddiad. Mae sesiwn gweithdy datblygu Bwrdd arall, ar gyfer cyflwyniad gan GIG Lloegr ar y fethodoleg 'Gwneud i Ddata Gyfrif' a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad wedi'i threfnu ar gyfer mis Hydref. The data and information in this report has been reviewed by the Performance, Finance & Information Governance Committee on 25.08.2022, and by the Quality, Safety & Experience (QSE) Committee on 06.09.2022. There is a specific session in the Board development workshop on 20.09.2022 to provide further opportunity to discuss and agree the further iterations of the format of the report. A further Board development workshop session, for a presentation by NHS

	England on the 'Making Data Count' methodology used in the report has been arranged for October.
Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) ***Links to BAF risks:*** *(or links to the Corporate Risk Register)*	Mae nifer o risgiau Cofrestr Risg Corfforaethol a BAF yn ymwneud â'r adroddiad hwn a'r pwyllgor hwn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i nodi meysydd o danberfformio a datblygu camau gweithredu dilynol i sicrhau gwelliant parhaus. There are several Corporate Risk Register and BAF risks relating to this report and committee. This report provides an opportunity for areas of under-performance to be identified and subsequent actions developed to make sustained improvement.
Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol) ***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)***	Amherthnasol Not applicable
Camau Nesaf: **Gweithredu argymhellion** Parhau i ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o danberfformiad lle nad yw sicrwydd o ansawdd digonol i gredu bod perfformiad yn gwella neu y bydd yn gwella fel y disgrifir. ***Next Steps:*** ***Implementation of recommendations*** Continued focus on any areas of under-performance where assurance isn't of sufficient quality to believe performance is or will improve as described.	
Rhestr o Atodiadau: Dim ***List of Appendices:*** *None*	

Guidance:

CYFARFOD CYHOEDDUS BWRDD Y CYFARWYDDWYR
RHOWCH Y DYDDIAD
TEITL YR ADRODDIAD

BOARD OF DIRECTORS MEETING IN PUBLIC
INSERT DATE
REPORT TITLE

1. **Cyflwyniad / Cefndir**
   Y cyd-destun sy'n esbonio pam fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd/Pwyllgor, unrhyw gamau ymgynghori blaenorol, a'r pwrpas o'i gyflwyno i'r Bwrdd

   Introduction/Background
   Set the scene on why the report is submitted to the Board/committee, where it has been previously in terms of consultation, and the aim for its submission to Board

2. **Corff yr adroddiad /** ***Body of report***

3. **Goblygiadau Cyllidebol / Ariannol /** ***Budgetary / Financial Implications***
   3.1 Nid oes goblygiadau cyllidebol yn deillio o'r papur hwn. Mae'r adnoddau ar gyfer cynnal cydymffurfiaeth yn cael eu goruchwylio gan ...
   There are no budgetary implications associated with this paper. Resources for maintaining compliance oversight are overseen by …
   3.2 NEU Mae'r goblygiadau cyllidebol yn cael eu lliniaru'n llawn/rhannol drwy ...
   OR Budgetary implications are and fully/partially mitigated via….

4. **Rheoli Risg / Risk Management**

   Mae un risg ar Datix sy'n gysylltiedig â'r maes hwn, sef risg ID xxxx. Mae hon yn risg rannol

   There is one risk on Datix linked to this area which is risk ID xxxx. This risk is partially

5. **Goblygiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth /** ***Equality and Diversity Implications***

   5.1 Os yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â 'phenderfyniad strategol', h.y. bydd y canlyniad yn effeithio ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei bwrpas statudol dros gyfnod sylweddol o amser ac ni ystyrir iddo fod yn benderfyniad 'o ddydd i ddydd', mae'n rhaid i chi gynnwys Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (SED), Asesiad o Effaith Cydraddoldeb (SEIA) yn ogystal ag asesiad Effaith Cydraddoldeb (EqIA) fel atodiad.

   If this report relates to a 'strategic decision', i.e. the outcome will affect how the Health Board fulfils its statutory purpose over a significant period of time and is not considered to be a 'day to day' decision, then you must include a Socio-economic Duty (SED) Impact Assessment (SEIA) as well as a completed Equality Impact (EqIA) as an appendix.

   5.2 Mae angen cydymffurfiaeth EqIA yn unol â Gweithdrefn WP7 er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hymgorffori i brosesau penderfynu a datblygu polisi'r sefydliad.
   EqIA compliance is required in accordance to Procedure WP7 to ensure equality and human rights are embedded into organisational decision-making and policy development processes.

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg

2021-2022





Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb Gweithredol	3
Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol	4
Hunanreoleiddio a Llywodraethu	5
Safonau'r Gymraeg	7
Y "Cynnig Rhagweithiol"	9
Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg	13
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol	18
Y Gwasanaeth Cyfieithu	20
Gweithio mewn Partneriaeth	20
Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau	23
Hyrwyddo ac Ymgysylltu	24
Datblygiadau Gwasanaethau Ychwanegol	29
Dangosyddion Perfformiad Allweddol	32
• Cynllunio'r Gweithlu	32
• Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg	33
• Recriwtio	33
• Cwynion	34
Cyflawniadau a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol	34



‘Cefais fy magu trwy gyfrwng y Gymraeg, felly mae’n llawer haws gen i siarad Cymraeg. Os oeddwn yn teimlo’n ofnus neu yn poeni tra’r oeddwn ar y ward, roedd gallu galw ar nyrs a oedd yn siarad Cymraeg yn gysur mawr imi: byddwn yn setlo a rhoi’r gorau i boeni yn llawer cynt, ar ôl trafod pethau yn fy mamiaith'.

Shauna Fish, o Borthmadog,
Claf yn Ysbyty Gwynedd yn ystod pandemig COVID-19.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu cofnod blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg o'u cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd yn wreiddiol ar 30 Mai 2019.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a chynnwys Safon 120 yn Safonau'r Gymraeg:

- Cwynion
- Cynllunio Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed, gan gynnwys datblygiadau i wasanaethau a chyflawniadau allweddol rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i deimlo effaith pandemig COVID-19, ac mae pwysau ar y gweithlu, ailgynllunio gwasanaethau ac adleoli staff i gyd yn effeithio ar swyddogaethau gweithredol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'r dulliau gwahanol o weithio a gyflwynwyd gan Dîm yr Iaith Gymraeg ar anterth y pandemig yn parhau i gyflawni eu dibenion yn llwyddiannus. Mae hyn yn arbennig o wir am y Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg. Mae modelau dysgu rhithiol wedi darparu cyfleoedd na fyddai fel arall wedi gallu cyrraedd cynulleidfa mor eang. Arwydd o'r llwyddiant hwn yw fod nifer y staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg wedi dyblu dros y flwyddyn ddiwethaf. Maes arall lle rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw yw ein Gwasanaethau Cyfieithu. Mae'r cynnydd hwn o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu'r ymdrech ar lefel uwch i gefnogi cyfeiriad strategol y sefydliad, ac yn adlewyrchu perchnogaeth y Bwrdd Iechyd o Safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn adlewyrchu effaith gadarnhaol polisïau allweddol a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Mae gweithredu'r Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Sgiliau Dwyieithog wedi cael effaith cadarnhaol ar y gweithlu, ac mae mwy o swyddi'n cael eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn sgìl hanfodol. Wrth ddilyn y canllawiau, mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu penodi mwy o siaradwyr Cymraeg i swyddi rheng flaen, yn ogystal â pharhau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant Cymraeg i dargedu staff sydd eisoes wedi bod mewn swyddi ers nifer o flynyddoedd. Parhawyd i gynnal y ddarpariaeth hon er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisi.

Mae gweithredu *Mwy na geiriau* ac egwyddor y *"Cynnig Rhagweithiol"*, sy'n golygu darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn amdano, wedi parhau. Mae'r Cynllun Dewis Iaith yn weithredol yn ein lleoliadau acíwt a chymunedol ac mae hyn wedi sicrhau bod sylfeini cadarn yn eu lle wrth i ni baratoi i groesawu cynllun pum mlynedd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer *Mwy na geiriau*.

Er mwyn parhau â'n blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023, mae rhagolygon a dull gweithredu newydd wedi'u hamlinellu yng nghynllun blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg. Rydym hefyd bellach mewn sefyllfa i allu ailedrych ar ein lleoliadau gofal iechyd ac ar ein dulliau traddodiadol ar lawr gwlad sydd wedi bod yn ddull llwyddiannus o weithredu dros y blynyddoedd.

Cefndir a Sefyllfa Bresennol

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y gofynion a nodir yn Safon 120, ac yn dangos sut rydym yn cynllunio ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

Deall anghenion ein poblogaeth

Mae deall anghenion y boblogaeth yn hanfodol er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 65 y cant, er ein bod yn gwybod y gall hyn fod yn llawer uwch mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, mae 57 y cant o drigolion Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27 y cant yng Nghonwy a 25 y cant yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2 y cant) a Wrecsam (12.9 y cant) yn is o gymharu. Fodd bynnag, mae galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yno hefyd, gan fod ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir yn rhanbarth Dwyrain Gogledd Cymru yn ogystal.

O ran defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd, mae *Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru* [1]yn dangos bod ychydig dros hanner (53 y cant) o siaradwyr Cymraeg Gogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith a 63 y cant yn siarad Cymraeg bob dydd. Yng Ngwynedd, mae 78 y cant o drigolion Cymraeg eu hiaith yn rhugl ac 85 y cant yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yng ngogledd orllewin y rhanbarth, yn dylanwadu ar nifer y bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Yng Ngwynedd, mae 37 y cant o bobl yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser wrth gysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon wedi cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i nodi'r angen am wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac wedi ein galluogi i gynllunio i ateb y galw hwnnw.

Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd

Mae Tîm Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei ofynion deddfwriaethol ac i fynd i'r afael ag anghenion ein cleifion.

[1] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau---Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Iechyd-a-Gwasanaethau-Cymdeithasol/Asesiad-Poblogaeth-Gogledd-Cymru/Gogledd-Cymru-Asesiad-Poblogaeth- 1-Ebrill-2017.pdf

1. Cydymffurfiad Deddfwriaethol
   Sicrhau ein bod yn cefnogi'r sefydliad i gyflawni'r rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a hwylusir gan ein Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg.

2. Hyrwyddo ac Ymgysylltu
   Mae elfennau gweithredol cyflawni'r Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau* yn nwylo'r Swyddogion Iaith. Rhoddir cefnogaeth frwd ganddynt i'r gwasanaethau, a nhw hefyd sy'n sefydlu prosiectau a chynlluniau newydd er mwyn darparu gwasanaeth cwsmeriaid effeithiol.

3. Darpariaeth Hyfforddiant
   Mae ein Tiwtor Iaith Gymraeg a Swyddog Cefnogi yn sicrhau datblygiad sefydliadol yn unol â'n *Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog* a'r agenda iaith Gymraeg ehangach.

4. Gwasanaethau Cyfieithu
   Mae ein Rheolwr Cyfieithu a phum cyfieithydd yn sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth i gleifion yn yr iaith o'u dewis. Maent hefyd yn darparu cyfieithu ar y pryd i ganiatáu i gleifion gyfathrebu yn eu dewis iaith yn ein lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

Hunan-reoleiddio a Llywodraethu

Atebolrwydd Cyffredinol y Bwrdd
Mae ein hatebolrwydd strwythurol wedi parhau, gyda'r Fforwm Strategol Iaith Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, yn sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio ein hymagwedd strategol, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu symud amcanion yn eu blaenau. Mae'r Fforwm yn adrodd i'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae llwybr craffu clir yn ogystal â threfniadau ar gyfer uwch gyfeirio unrhyw faterion arwyddocaol.

Cofrestr Risg y Gwasanaethau Cymraeg
Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae Cofrestr Risg benodol yn ei lle. Mae'r risgiau posibl presennol yn cynnwys bodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gweithredu'r egwyddor o Gynnig Rhagweithiol yn unol â Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru, a chyflawni'r *Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog*.

Cafodd yr holl risgiau eu hadolygu yn ystod 2021-2022, gyda phob un o'r tair sgôr risg ar hyn o bryd ar y lefel cymedrol neu'n isel. Wrth asesu'r risgiau, ystyriwyd effaith barhaus y pandemig, gan nad yw'r gwasanaeth wedi gallu bod mor rhagweithiol ag arfer yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, ni uchafwyd unrhyw risgiau o ganlyniad.

Mae Cofrestr Risg y Gwasanaethau Cymraeg yn cael ei monitro'n chwarterol, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

Sicrwydd Perfformiad Mewnol
Cyflwynwyd Cynllun Siopwr Cudd ar gyfer y Gwasanaethau Dwyieithog am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2018 fel ffordd o graffu ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar safleoedd a lleoliadau amrywiol y Bwrdd Iechyd. Ar ôl gorfod rhoi'r gorau dros dro am ddeunaw mis oherwydd pandemig COVID-19 ailddechreuodd Tîm y Gymraeg y cynllun ym mis Mehefin 2021.

Roedd y cynllun hwn yn wreiddiol yn ystyried arwyddion ac argaeledd gwasanaethau derbynfa dwyieithog ar wahanol safleoedd Byrddau Iechyd, ond oherwydd rheoliadau atal a rheoli heintiau, parhawyd i atal ymweliadau safle oherwydd bygythiad parhaus posibl COVID-19. Ers ailgychwyn yr haf diwethaf, mae ein harolygon 'siopwr cudd' felly wedi canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ansawdd ac argaeledd gwasanaethau ffôn.

Mae nifer o ysbytai cymuned, meddygfeydd a reolir ac adrannau ysbytai acíwt yn dal i gael eu cynnwys ym mhob rownd o arolygon, a gaiff eu cynnal bob chwarter.

Ar ôl cwblhau pob rownd o arolygiadau, mae rheolwyr safle / meddygfeydd / gwasanaeth perthnasol wedyn yn cael adroddiadau pwrpasol sy'n cynnwys dadansoddiad o'r canfyddiadau a'r camau gweithredu sydd eu hangen. Fe'u gwahoddir wedyn i weithio law yn llaw ag aelodau o Dîm yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod unrhyw newidiadau a / neu welliannau angenrheidiol yn gallu cael eu gwneud cyn gynted â phosibl.

Mae rheolwyr yn parhau i fod yn barod ac yn ymroddedig i sicrhau gwelliannau, er gwaethaf y pwysau a'r cymhlethdodau ychwanegol y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu oherwydd y pandemig. Mae'r cynllun yn parhau i sicrhau bod diffygion yn cael eu nodi a'u hunioni'n gyflym mewn safleoedd ar draws gogledd Cymru.

Er gwaetha'r cyfyngiadau presennol, mae'r cynllun ar ei newydd wedd heb os wedi cyfrannu at ddatblygu a chyfoethogi darpariaethau cyfrwng Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol yn ystod y misoedd diwethaf, wrth i wahanol safleoedd / meddygfeydd / gwasanaethau geisio dychwelyd i rywfaint o normalrwydd ar ôl dwy flynedd heriol.

Mae pob ysbyty cymuned a meddygfa a reolir bellach wedi'u cynnwys yn y cynllun ar o leiaf ddau achlysur. Mae ein harolygon 'siopwr cudd' diweddaraf felly wedi ein galluogi i fesur pa gynnydd a wnaed ar wahanol safleoedd mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog, ac ers i'r cynllun gael ei gyflwyno gyntaf.

Ar yr un pryd, mae cymharu data sydd newydd ei gasglu â chanlyniadau gwaelodlin cychwynnol o arolygon a gynhaliwyd cyn mis Mawrth 2020 hefyd yn caniatáu inni fesur sut mae pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Er gwaetha'r pandemig, mae canfyddiadau diweddar wedi cadarnhau bod safonau a gofnodwyd yn flaenorol yn dal i gael eu cynnal mewn sawl lleoliad Bwrdd Iechyd, tra bod rhai rheolwyr meddygfeydd / gwasanaeth hyd yn oed wedi gallu rhoi gwelliannau yn eu lle.

Mae'r arolygon 'siopwr cudd' yn parhau i ddatgelu enghreifftiau niferus o arfer dda sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â'r Gymraeg. Rhennir y rhain wedyn â safleoedd / meddygfeydd / adrannau eraill, fel y bo'n briodol.

Er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd, mae canfyddiadau cyffredinol yn dal i gael eu rhannu gyda'r Timau Rheoli Ardal ac Ysbytai, a chyflwynir adroddiad manwl i Fforwm Strategol Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd bob chwarter. Drwy wneud hyn, gellir parhau i ganfod a delio gyda thueddiadau ehangach, yn ogystal â materion mwy lleol.

Mae'r cynllun yn rhan hanfodol o Gynllun Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2022-2023, a bydd ymweliadau safle yn cychwyn eto o'r ail chwarter ymlaen.

Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg bellach wedi bod yn weithredol ers cael eu pennu'n wreiddiol ar 30 Mai 2019. Bu cynnydd sylweddol i symud y safonau yn eu blaenau o fewn y sefydliad. Mae Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg yn parhau i ddarparu cyfarwyddyd ar draws y sefydliad ar weithredu'r Safonau, yn ogystal â chefnogi a hwyluso'r ddarpariaeth ar lawr gwlad.

Mae'r mecanweithiau i sicrhau cydymffurfiaeth dan ofal Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg (Project Management Group - PMG). Mae'r aelodaeth yn cynnwys arweinwyr enwebedig o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, sy'n cynrychioli meysydd gwasanaeth a chlinigol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r PMG wedi canolbwyntio ar adolygu Cydymffurfiaeth gan ddefnyddio dull hunanasesu er mwyn gweld a yw'r cynnydd a wnaed cyn y pandemig Covid-19 wedi'i gynnal, a pha gymorth ychwanegol sydd ei angen i gefnogi gwasanaethau i gyflawni eu gofynion a dyletswyddau.

Mae pob gwasanaeth wedi llunio adroddiad amlygu a fydd yn caniatáu iddynt fesur ac asesu eu cydymffurfiaeth yn erbyn pob Safon. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio drwy'r canfyddiadau, a fydd yn ein galluogi i nodi unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio posibl a galluogi'r tîm i ganolbwyntio ar y materion hynny os oes angen.

Mae Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr y PMG, naill ai fel grŵp neu'n unigol, ac mae hynny'n caniatáu i drafodaethau manylach ddigwydd am Safonau sy'n benodol i feysydd arbennig.

O ran Safonau penodol, mae cynnydd wedi parhau gyda Safonau 50-53 mewn perthynas â darparu gwasanaethau derbynfa yn y Gymraeg. Darperir cyrsiau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer staff derbynfa gan ein Tiwtor Cymraeg mewnol fel y manylir ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn. Cynhwyswyd enghraifft o arfer dda o fewn yr Adran Radioleg yn holiadur Hunanasesiad diweddar Comisiynydd y Gymraeg. Maent wedi mabwysiadu dull gweledol o adnabod staff sy'n siarad Cymraeg trwy arddangos

poster ym mhob derbynfa sy'n nodi pa aelodau o staff ar ddyletswydd sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg. Mae hyn wedi sicrhau bod gan yr adran broses yn ei lle sy'n eu helpu i gydymffurfio'n llawn â'r Safonau ac i ymateb i anghenion ieithyddol cleifion.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu nifer o drafodaethau lefel uchel yng nghyfarfodydd y Bwrdd ynghylch Safon 37. Mae'r Safon yma'n ymwneud ag a ddylid llunio dogfen, sydd ar gael i un neu fwy o unigolion yn y Gymraeg:

(a) os yw'r testun yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg, neu
(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu dogfen yn y Gymraeg

Yn dilyn y penderfyniad yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2020 i gyfieithu'r holl Eitemau Sefydlog ar yr agenda, rhoddwyd ystyriaeth ychwanegol i gynnydd yn y gallu i gydymffurfio â Safon 37 yn ystod 2021-2022. Nid yw safon 37 yn amlinellu dull cyfieithu cyffredinol ar draws holl ddogfennau'r Bwrdd Iechyd. Yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau adolygu'r "testun" a'r "gynulleidfa a ragwelir" i benderfynu a oes "disgwyliad" neu "awgrym" y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn y Gymraeg.

Cytunwyd felly yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021 y byddai asesiad yn cael ei gynnal o dri chyfarfod nesaf y Bwrdd Iechyd (Medi 2021, Tachwedd 2021 ac Ionawr 2022) i benderfynu pa bapurau y byddai disgwyl iddynt fod wedi cael eu cyfieithu. Cynhyrchwyd yr asesiad yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safon 37, sy'n ymgorffori'r elfennau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar ofynion cyfieithu. Nid oes llawer o hyblygrwydd o ran yr ystyriaethau i'w cymhwyso oherwydd hynny.

Y prif ystyriaethau o fewn yr asesiad yw:

- a yw testun y ddogfen yn ymwneud â mater sy'n berthnasol i, yn effeithio, neu'n bwysig i nifer fawr o unigolion *(a ddiffinnir fel trigolion Cymru yn gweithredu yn eu capasiti personol)*
- a yw testun y ddogfen yn ymdrin â materion yn ymwneud â'r Gymraeg
- a yw'r ddogfen yn un a fydd yn cael ei harddangos yn gyhoeddus
- a yw'n hysbys bod canran neu nifer fawr o'r gynulleidfa a ragwelir yn siaradwyr Cymraeg, ac y mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig iddynt neu maent yn gweithredu yn y Gymraeg
- a ofynnodd mwy nag un person i'r ddogfen fod ar gael yn y Gymraeg
- a yw'r ddogfen yn debygol o ddenu ymateb a sylw'r cyhoedd (ee ar gyfryngau cymdeithasol)
- a yw'r ddogfen yn un y mae'n ofynnol i unigolion ymateb iddi

Yn ystod ymarfer asesu a dadansoddi, daeth yn amlwg y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar gapasiti, galw ac amserlenni. Darparwyd opsiynau ar gyfer y camau nesaf, a oedd yn cynnwys:

OPSIWN 1:
Parhau gyda'r broses gyfredol o gyfieithu agenda, cofnodion, cyflwyniad ac eitemau sefydlog.

OPSIWN 2:
Gweithredu'r asesiad yn achos **holl** bapurau'r Bwrdd, a allai ddileu'r angen i gyfieithu eitemau sefydlog (er na fyddai hyn yn cael effaith sylweddol ar gyfanswm nifer geiriau a'r cyfnod sydd ei angen ar gyfer cyfieithu).

OPSIWN 3:
Gweithredu'r broses asesu dros y tri chyfarfod Bwrdd nesaf gydag adolygiad ymhen chwe mis o'r hyn y gellir ei gyflawni a'i gynnal yn yr hirdymor.

Gan fod y Bwrdd yn awyddus i gryfhau ei ymrwymiad i'r Gymraeg, cytunwyd mai'r trydydd opsiwn fyddai'r dull mwyaf cadarn a theg. Mae hyn wedi bod yn arfer safonol dros y cyfarfodydd Bwrdd diwethaf, a bydd yn cael ei adolygu i weld a yw hynny'n gynaliadwy yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'r penderfyniad hwn yn dangos yr ymrwymiad a'r gefnogaeth ar lefel y Bwrdd i sefydlu hunaniaeth Bwrdd Iechyd dwyieithog.

Y "Cynnig Rhagweithiol"

Gan fod mis Mawrth 2019 yn nodi diwedd cyfnod tair blynedd rhaglen ddilynol Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru *'Mwy na geiriau...'* , datblygwyd Cynllun Gweithredu 2019-2020 sy'n parhau i fod yn weithredol hyd nes y cyhoeddir y cynllun nesaf yn 2022. Mae'r cynllun hwn yn rhoi fframwaith i'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ein strwythur ein hunain ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd yr ydym yn hyrwyddo a darparu gwasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynllun ac mae'n rhagweithiol yn yr holl feysydd thema:

Thema 1 – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
Thema 2 – cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
Thema 3 – Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Un o brif egwyddorion *Mwy na geiriau* yw'r "Cynnig Rhagweithiol", gyda blaenoriaeth i ddod â'r "Cynnig Rhagweithiol" i'r gwasanaethau rheng flaen. Arweiniodd y Bwrdd Iechyd trwy ddatblygu dull allweddol o adnabod dewis iaith trwy ei Gynllun Dewis Iaith arobryn, sy'n darparu'r sail ar gyfer cyflwyno'r "Cynnig Rhagweithiol" yn llwyddiannus.

Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus a'r pwysau ychwanegol a grëwyd gan bandemig COVID-19, parhaodd Cynllun Dewis Iaith arobryn y Bwrdd Iechyd i weithredu yn wardiau ein ysbytai ledled Gogledd Cymru yn ystod 2021-22.

Mae'r magnedau 'Cymraeg' oren hawdd eu gweld bellach yn cael eu defnyddio i wneud darparu gwasanaethau dwyieithog a'r egwyddor "Cynnig Rhagweithiol" yn haws mewn nifer o leoliadau, o Ysbyty Tywyn yn ne Sir Feirionnydd i Ysbyty Cymunedol y Waun ar y ffin rhwng Wrecsam a Lloegr. Mae'r cynllun syml hwn wedi ffynnu ac mae'n parhau i fod yn boblogaidd iawn gyda chleifion a staff fel ei gilydd.

Treialwyd y cynllun yn wreiddiol ar wardiau dethol yn Ysbyty Gwynedd yn 2017, a chafodd ei ehangu'n sylweddol i gynnwys wardiau yn Ysbyty Glan Clwyd a nifer o safleoedd cymunedol ddwy flynedd yn ddiweddarach. Mae'r Cynllun Dewis Iaith yn annog wardiau i osod y magnedau oren ar fyrddau gwyn wrth ochr gwelyau a byrddau gwybodaeth staff, er mwyn gallu adnabod cleifion a gweithwyr y Bwrdd Iechyd sy'n siarad Cymraeg.



Mae'r cynllun yn cyflymu'r broses o baru defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg â chlinigwyr Cymraeg eu hiaith megis meddygon, nyrsys a chynorthwywyr gofal iechyd sydd wedi'u lleoli'n bennaf ar y ward ei hun. Fodd bynnag, mae'r cynllun hefyd yn hwyluso gwaith cynllunio ar raddfa ehangach o fewn y Bwrdd Iechyd, gan fod aelodau o'r gweithlu clinigol ehangach megis ffisiotherapyddion a fferyllwyr sy'n ymweld â'r wardiau hefyd yn gallu adnabod a defnyddio'r magnedau oren i sicrhau bod eu gwasanaethau hwy hefyd yn cael eu defnyddio er mwyn rhoi gwasanaethau yn unol ag anghenion ieithyddol claf.

Ysbyty Glan Clwyd – Dadansoddiad o'r Gweithredu
Cyflwynwyd y Cynllun Dewis Iaith ar y rhan fwyaf o wardiau Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mai 2019 ac mae wedi parhau i gael ei weithredu ledled yr ysbyty ers hynny. Tra bo'r cynllun yn cael ei weithredu mewn modd anffurfiol ar rai wardiau (h.y. heb gadw cofnod ysgrifenedig o'r gwaith), mae Ffurflen Awdit Misol wedi'i chreu i hwyluso'r broses o gasglu data perthnasol.

Mae pob Ffurflen Awdit Misol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â ward / uned benodol:

- *Cyfanswm y cleifion sy'n cael / sydd wedi derbyn gofal;*
- *Nifer y cleifion Cymraeg eu hiaith sy'n cael / wedi derbyn gofal;*
- *Nifer y cleifion Cymraeg eu hiaith a ddewisodd gymryd rhan yn y Cynllun Dewis Iaith (h.y. trwy ganiatáu i fagnet logo oren 'Iaith Gwaith' gael ei arddangos ar y bwrdd gwyn uwchben / wrth ymyl eu gwely);*
- *Faint o staff y ward / uned sy'n siarad Cymraeg.*

Anogir Prif Nyrsys a/neu Lanhawyr, sy'n bennaf gyfrifol am weinyddu'r cynllun, i lenwi'r ffurflen hon fel rhan o archwiliadau ansawdd a diogelwch misol eu ward ac i anfon yr holl dystiolaeth a nodir am ddefnydd y magnedau oren ymlaen i Dîm y Gymraeg. Mae'r data a gesglir yn rhoi cipolwg cynhwysfawr o ddefnydd, llwyddiannau a phoblogrwydd y Cynllun Dewis Iaith ymhlith defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar wybodaeth a dderbyniwyd gan chwe ward / uned benodol ar safle Bodelwyddan rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

Rhyngddynt, darparodd y chwe ward / uned a gymerodd ran wasanaethau gofal iechyd amrywiol i gyfanswm o 819 o gleifion yn ystod y cyfnod dan sylw a oedd yn cynnwys ffurflenni archwilio 47 mis. Nododd cyfanswm o 101 (neu 12.33 y cant) o'r cleifion hyn eu bod yn siarad Cymraeg. Ar ôl cael gwybod am y Cynllun Dewis Iaith,

nododd 63 (neu bron i ddwy ran o dair) o'r cleifion Cymraeg hyn eu bod yn dymuno cael magned logo oren 'laith Gwaith' ar y bwrdd gwyn wrth ymyl / uwchben eu gwely i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg. Yn y tabl isod darperir dadansoddiad manwl fesul ward / uned o'r niferoedd a gymerodd ran ar gyfer y flwyddyn adrodd gyfan.

	Ward / Uned	Nifer y cofnodion misol a ddarparwyd	Cyfanswm nifer y cleifion ar y ward yn ystod y cyfnod cofnodi	Nifer y cleifion oedd yn siarad Cymraeg	Nifer y cleifion Cymraeg eu hiaith a ddewisodd gymryd rhan yn y Cynllun Dewis Iaith	Canran y cleifion Cymraeg eu hiaith a ddewisodd gymryd rhan yn y Cynllun Dewis Iaith
1	Ward 1	7	169	20	19	95%
2	Ward 2 (Gofal yr Henoed)	6	135	14	2	14%
3	Ward 3 (Fasgwlaidd)	6	115	25	12	48%
4	Ward Enfys (NWCTC)	10	180	25	13	52%
5	Uned Newyddenedigol	10	99	11*	11*	100%
6	Wardiau 17 a 18 (Uned y Plant)	8	121	6	6	100%
	Cyfanswm:	**47**	**819**	**101**	**63**	**63.63%**

* *Gan fod pob un o'r cleifion yn yr uned fabanod newydd- anedig yn fabanod (nad ydynt yn siarad unrhyw iaith eto), y 'cleifion newyddenedigol Cymraeg eu hiaith' y cyfeirir atynt yn Nhabl 3 (uchod) yw rhieni'r babanod newydd-anedig .*

Mae'r data a dderbyniwyd am y defnydd o'r magnedau oren yn Ysbyty Glan Clwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn awgrymu bod gweithredu'r Cynllun Dewis Iaith yn yr ysbyty yn parhau i fod yn llwyddiannus a phoblogaidd ymhlith cleifion, er gwaethaf y pwysau a'r cymhlethdodau ychwanegol a achoswyd gan bandemig COVID- 19.

Dewisodd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith optio mewn i'r Cynllun Dewis Iaith ac adlewyrchir hyn yn glir gan y ffaith bod nifer fawr o'r ffurflenni archwilio a ddadansoddwyd yn nodi cyfraddau cyfranogiad misol o dros 80 y cant. Fel y dangosir gan y data a ddarparwyd gan yr Unedau Plant a Newydd-anedig, mae'r defnydd o'r cynllun magned oren yn parhau i fod yn uchel iawn ymhlith rhai grwpiau cleifion. Cofnododd y ddau wasanaeth yma gyfraddau optio mewn o 100 y cant yn ystod 2021-22.

Mae hyn yn arbennig o galonogol gan fod *Mwy na geiriau* yn nodi fod plant a phobl ifanc yn grŵp cleifion agored i niwed a bod ganddynt fwy o angen derbyn eu gwasanaethau yn eu mamiaith. Mae'n amlwg felly fod argaeledd y Cynllun Dewis Iaith yn parhau i fod yn eithriadol o bwysig o fewn rhai cyd-destunau gofal iechyd.

Y “Cynnig Rhagweithiol” - Betsi ar ei Gorau!

Mae Ward Hebog yn Ysbyty Gwynedd yn un o'r wardiau sydd wedi parhau i weithredu'r Cynllun Dewis Iaith drwy gydol y pandemig. Mae hyn wedi sicrhau bod cleifion yn cael cynnig gwasanaethau Cymraeg yn gyson. Bu Rheolwr Ward Hebog, Sian Roberts, yn gweithio gyda Thîm yr Iaith Gymraeg i gasglu adborth a gwerthuso bodlonrwydd cleifion gyda’r cynllun.

Defnyddiwyd holiadur byr i gasglu barn ac, ynghyd â rhoi adborth am y Cynllun Dewis Iaith ei hun, rhoddodd nifer o’r cleifion a gymerodd ran eu barn am argaeledd cyffredinol gwasanaethau dwyieithog yn Ysbyty Gwynedd.

Roedd yr ymateb yn hynod galonogol a mae rhai sylwadau gan y cyfranogwyr isod.



‘Mae digon o staff ar y ward yn siarad Cymraeg ac fe wnes i elwa o’u cael yno yn ystod fy arhosiad’.

Meddai Margaret Whale, claf o Faesgeirchen ym Mangor ***(llun ar y chwith)***

Wedi treulio tair wythnos fel claf ar Ward Hebog, dywedodd **Dewi Jones** o Gaernarfon:

> *‘Roeddwn i’n gallu siarad Cymraeg bob dydd a’r magned oren uwchben fy ngwely yn gadael i bawb wybod mai ‘Cymraeg’ yw fy iaith ddewisol. Mae hi gymaint yn haws i mi siarad yn fy mamiaith – yn enwedig pan dwi’n sâl, a dwi’n ei chael hi’n llawer haws deall a phrosesu gwybodaeth pan gaiff ei roi i mi yn y Gymraeg’.*

Dywedodd **Dewi Owen**, o Ddolgellau:

> ‘*Roedd yn braf iawn clywed cymaint o acenion Cymraeg gwahanol ar y ward. Mwynheais yn arbennig drafod tafodieithoedd Cymraeg rhanbarthol a bratiaith gyda rhai o’r staff… esboniais ein bod yn galw ‘rwdan’ yn ‘swêj’ yn Nolgellau! Mae’n brafiach gallu trafod pethau yn y Gymraeg’.*

Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Mae Tîm Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg yn dal i weld effaith yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19 ac maent yn parhau i addasu eu hadnoddau addysgu, eu modelau a'u dulliau addysgu i sicrhau eu bod yn cefnogi ein staff hynod brysur ac ymroddedig. Mae'r Tîm yn gweithio mewn modd hyblyg er mwyn cynnig y model cymorth gorau posibl i staff, a chyd-fynd â'u hamserlenni gwaith a phatrymau sifft. Mae hyn yn dylanwadu ar y math o gyrsiau a fyddai'n gweddu orau i'w hanghenion. Oherwydd y cyfyngiadau ymweld o ganlyniad i'r pandemig, mae llawer o'n staff yn sylweddoli'n fwy nag erioed beth yw pwysigrwydd gallu siarad Cymraeg gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac mae hyd yn oed ychydig o eiriau Cymraeg gan staff yn gysur i'n cleifion Cymraeg.

Mae'r Tîm yn parhau i hyrwyddo a hysbysebu'r holl gyfleoedd hyfforddiant iaith Gymraeg trwy fewnrwyd newydd y Bwrdd Iechyd, ' BetsiNet '. Mae ' BetsiNet ' bellach yn weithredol ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae'r Tîm yn diweddaru'r tudalennau'n wythnosol. Mae'r wybodaeth wedi'i gosod yn glir er mwyn i'r holl staff allu chwilio am gyrsiau a gwybodaeth berthnasol. Ceir carwsél o bostiadau 'Newyddion' ar frig y dudalen gyntaf yn dwyn sylw at unrhyw wybodaeth newydd; mae hwn yn ddull newydd lle gall staff gael mynediad at wybodaeth am hyfforddiant iaith Gymraeg heb orfod chwilio drwy dudalennau'r fewnrwyd.

Darparu Hyfforddiant Iaith Gymraeg
Dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf, cynigiwyd amrywiaeth o gyrsiau rhithiol ar lefelau gwahanol. Adnewyddwyd cytundeb deuddeg mis gyda'r 'Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol' o dan y 'Cynllun Iaith Gwaith' a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Sicrhaodd hyn fod cyfleoedd a chydweithio wedi gallu parhau a bod cyllid ar gyfer ein Swyddog Cefnogi Hyfforddiant Iaith Gymraeg. Mae'r Swyddog Cefnogi yn parhau i gynnig gwersi yn dilyn cyrsiau rhagflas, tiwtorialau, sesiynau sgwrsio a chefnogaeth barhaol i'n dysgwyr, yn ogystal â hwyluso a delio ag ymholiadau yn ddyddiol.

Mae 669 aelod o staff wedi cymryd rhan yn ein cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' dros y flwyddyn ddiwethaf; mae hyn yn gynnydd o 58 y cant ers y llynedd.

Cofrestrodd 316 o ddysgwyr ar gwrs ar-lein deng awr a ddarparwyd gan 'Cymraeg Gwaith'. Roedd pum cwrs gwahanol ar gael, gyda dau gwrs wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer y sector iechyd a gofal. Mae ein Swyddog Cefnogi yn parhau i gadw mewn cysylltiad rheolaidd, gan annog ac atgoffa staff i gwblhau'r cyrsiau 10 awr. Mae'r Tîm yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r cyrsiau 10-awr, ee pan ddaw ymholiad gan aelod o staff, a defnyddir y cyrsiau hefyd i ategu cyrsiau wyneb yn wyneb gyda thiwtor neu baratoi ar gyfer cwrs yn y dyfodol. Mae'r dolenni cofrestru hefyd yn eithaf amlwg ar ein tudalennau BetsiNet newydd , felly maent ar gael i unrhyw aelod o staff a fydd yn pori ein tudalennau dysgu Cymraeg.

Cofrestrodd 334 aelod o staff ar ein cyrsiau 60 awr Mynediad Rhan 1, Mynediad Rhan 2 neu Lefel Sylfaen Rhan 1 sef cyrsiau ar-lein Cymraeg hunan-astudio a ddarperir gan 'Cymraeg Gwaith'. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'n staff gan y

gellir cwblhau'r cyrsiau pan fo amser yn caniatáu a phan fydd hynny'n siwtio'r dysgwr. Er mai cyrsiau hunan-astudio yw'r rhain, mae cefnogaeth tiwtor ar gael a gwahoddir dysgwyr i sesiynau tiwtorial i ofyn cwestiynau ac i ymarfer eu Cymraeg gyda dysgwyr eraill BIPBC.

Mynychodd 17 aelod o staff gwrs rhithiol dwys gyda Nant Gwrtheyrn yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd cwrs Sylfaen rhithiol yn benodol ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2021 a mynychodd wyth o'n staff y cwrs hwnnw. Fel arfer cyflwynir y cyrsiau hyn fel cwrs preswyl un wythnos, ond oherwydd y sefyllfa gyda COVID-19, fe'u cynhaliwyd yn rhithiol. Erbyn Gwanwyn 2022, roedd Nant Gwrtheyrn yn cynnig cyrsiau preswyl a bu dau ddysgwr yn y Nant am wythnos.

Roedd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu'n fewnol gan ein Tiwtor Iaith Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys:

- Wyth gwers bloc wythnosol (o Lefelau Mynediad Rhan 1 i Uwch)
- Sesiynau 1:1 gydag uwch staff, gan gynnwys y Prif Weithredwr a nifer o unigolion ar lefel y Bwrdd
- Gweithdy Bwrdd ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol
- Sesiynau blasu fel rhan o ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg' y Bwrdd Iechyd*
- Cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer timau gydag arbenigeddau penodol
- Cwrs Sgiliau Cymraeg i Staff Derbynfeydd

Cafodd cyfanswm o 245 o staff gefnogaeth uniongyrchol gan ein Tiwtor.

Datblygwyd y sesiynau blasu uchod i gefnogi'r ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg', gyda'r nod o annog staff i ddefnyddio pa bynnag sgiliau Cymraeg sydd ganddynt yn y gwaith, boed hynny gyda chydweithwyr, cleifion a /neu ymwelwyr . Roedd y gwersi yn gyfle gwych i staff gwrdd â'r Tiwtor Cymraeg newydd ac i ennyn diddordeb ymhlith dysgwyr sydd eisiau parhau i ddysgu a gwella eu Cymraeg. Roedd adborth o'r cyrsiau'n nodi bod 96 y cant o'r dysgwyr yn 'hapus iawn' gyda chynnwys y wers flasu. Dywedodd 76 y cant o'r dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi gwella eu sgiliau Cymraeg ac roedd 92 y cant eisiau parhau i ddysgu Cymraeg.

Yn dilyn llwyddiant y gwersi blasu ym mis Gorffennaf/Awst 2021, creodd y tiwtor Raglen Hyfforddiant Cymraeg newydd. Dyfeisiwyd y rhaglen yn strategol i ddarparu cyrsiau ar gyfer gwahanol feysydd o fewn y sector iechyd yn benodol, a llwyddodd y tiwtor i deilwra pob cwrs i gwrdd ag anghenion pob unigolyn. Cynigiwyd amrywiaeth o gyrsiau ar wahanol lefelau a lansiwyd y rhain ym mis Medi 2021. Braf oedd gweld bod nifer o unigolion o'r sesiynau blasu wedi cofrestru ar gyfer y gwersi wythnosol.

Ar ôl cwblhau eu bloc 10 wythnos o wersi wythnosol ym mis Medi anfonwyd ffurflen werthuso electronig, i'w dychwelyd yn ddienw, at bob dysgwr trwy Microsoft Forms. Roedd canfyddiadau'r ffurflen werthuso yn nodi bod 97 y cant o'r dysgwyr yn 'hapus iawn' gyda chynnwys y cwrs 10 wythnos , a dywedodd cant y cant o'r dysgwyr eu bod wedi mwynhau'r gwersi. Mae arddull addysgu'r tiwtoriaid, adnoddau, cefnogaeth a phroffesiynoldeb i gyd yn ffactorau sy'n sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau'r cwrs ac yna'n parhau â'u taith ddysgu. Dywedodd naw deg saith y cant o'r dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn galonogol gan fod y gallu i ddeall Cymraeg yn rhoi sylfaen dda iddynt ar gyfer cyfathrebu â phobl eraill. Mae hyn

yn rhywbeth y gall rheolwyr a darparwyr fod yn falch ohono ac adeiladu arno i sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn y dyfodol, yn enwedig gyda chleifion a chydweithwyr.

Roedd cant y cant o'r dysgwyr yn credu eu bod wedi cael digon o gefnogaeth gan y Tiwtor. Rhoddwyd canmoliaeth i'r tiwtoriaid a lefel gyffredinol y gefnogaeth a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg – Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Mae'r Dystysgrif Sgiliau Iaith (TSI) yn gymhwyster cydnabyddedig ac achrededig gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chyd Bwyllgor Addysg Cymru. Cafodd y dystysgrif ei datblygu i alluogi ymgeiswyr i ennill tystysgrif sy'n dystiolaeth o'u sgiliau Cymraeg a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod hefyd yw hybu'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a defnyddwyr gwasanaeth. Er gwaethaf blwyddyn anodd oherwydd COVID-19, mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o gyhoeddi bod pedwar aelod o staff wedi llwyddo yn yr arholiad TSI ym mis Awst 2021. Yn dilyn llwyddiant y cynllun yn y blynyddoedd a fu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig parhau â'r cynllun cydweithredol hwn. Byddwn felly'n parhau i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan ymestyn y cytundeb ymhellach. Eleni safodd dau aelod o staff yr arholiad llafar ac ysgrifenedig a byddant yn cael eu canlyniadau ym mis Awst 2022.

Cefnogaeth Hyfforddiant Ychwanegol


Cinio Clebran
Mae Cinio Clebran yn parhau i fynd o nerth i nerth, ond yn rhithiol, ac mae'n braf adrodd bod cyfranogwyr newydd a gwahanol yn mynychu bron bob sesiwn. Cynhelir y Cinio Clebran bob yn ail ddydd Mercher rhwng 12.30 a 1.30pm dros Teams. Penderfynwyd creu cyflwyniadau PowerPoint yn cynnwys geirfa ac ymadroddion allweddol yn y Gymraeg a chyfieithiadau er mwyn cefnogi'r dysgwyr a'u hannog i gymryd rhan yn sgyrsiau'r Cinio Clebran. Mae clywed dysgwyr yn sgwrsio ac yn cyfrannu'n naturiol yn wych, ac yn dangos llwyddiant i annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Nôl ym mis Hydref 2021, lansiodd Tîm y Gymraeg ei Wythnos Gymraeg flynyddol o fewn y Bwrdd Iechyd, sy'n cyd-fynd â'r Diwrnod Su'Mae cenedlaethol. I ddathlu 'Wythnos y Gymraeg' cynhaliodd tîm yr iaith Gymraeg Gwis Cinio Clebran arbennig. Braf oedd cael croesawu aelodau'r Bwrdd a'n swyddogion iaith i fod yn gapteiniaid a chynorthwywyr i'r timau, a chymerodd 12 o ddysgwyr ran yn y digwyddiad hwn.

Tudalen Facebook Dysgwyr Cymraeg BIPBC
Mae 'Ffrindiau Dysgwyr Cymraeg Betsi Welsh Learners Friends' yn grŵp preifat ar Facebook. Defnyddir y grŵp caeedig i roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau, cyrsiau a gweithgareddau; mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ryngweithio, trafod a gofyn cwestiynau mewn amgylchedd anffurfiol, ac mae 94 o aelodau ar hyn o bryd. Mae hyn yn gynnydd o 20 y cant ers mis Mawrth 2021. Mae grŵp Facebook cyhoeddus, 'Dysgwyr Cymraeg Betsi', yn parhau i gael ei ddefnyddio i roi enghreifftiau o arferion da a straeon am lwyddiant. Mae181 o ddilynwyr ar hyn o bryd ar y dudalen honno, sy'n gynnydd o 30 y cant ers mis Mawrth 2021.

udalen YouTube Tiwtor y Gymraeg

Fel rhan o ymgyrch 'Wythnos y Gymraeg' ym mis Hydref 2021, creodd y Tiwtor fideo o ymadroddion Cymraeg yr wythnos. Mae hyn yn sicrhau bod y dysgwyr yn gallu clywed yr ynganiad cywir yn ogystal â gweld y testun ar y sgrin. Ar ôl ei olygu mae'r fideo yn cael ei rhannu ar dudalen YouTube y Tiwtor , ac mae'r ddolen o'r dudalen YouTube yn cael ei rannu trwy dudalen Facebook y Dysgwyr Cymraeg a'i huwchlwytho i dudalennau BetsiNet . Rhennir dolen i'r fideo trwy neges gyffredinol wythnosol y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, gan sicrhau bod yr holl staff yn cael mynediad i'r fideo ac yn gallu dysgu brawddeg o Gymraeg bob wythnos.



Lluniau Mewn Llefydd Lloerig !



Fel rhan o ddathliadau Wythnos y Gymraeg, cynhaliwyd Cystadleuaeth Ffotograffau Creadigol Cymraeg ar gyfer ein dysgwyr. Cawsant eu hannog i dynnu lluniau mewn mannau anarferol gan wisgo neu ddal adnodd Cymraeg ee gwisgo cortyn gwddf 'Cymraeg', darllen/defnyddio'r cylch allweddi dysgwr Cymraeg ac ati. Derbyniwyd llawer o luniau diddorol a chreadigol a gosodwyd montage ohonynt ar Facebook ac ar ein tudalennau mewnrwyd. Rhoddodd elusen Awyr Las y Bwrdd lechyd fasged o gynnyrch Cymreig lleol i'r enillydd.

Roedd y llun buddugol yn dangos dysgwr yn edrych ar ei chylch allweddi Cymraeg tra ar linell sip. Mae gweithgareddau fel hyn yn helpu i ddod â'n dysgwyr at ei gilydd mewn ffordd hwyliog ac anffurfiol, ac roedd hefyd yn gymorth i hysbysebu'r gwahanol adnoddau Cymraeg sydd ar gael i staff.



Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn Betsi

Roedd seremoni Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC, a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022 yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy, yn gyfle i ddathlu ymroddiad staff ar draws y sefydliad, a dangos manteision buddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg mewnol.

Dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer y gwobrau ym mis Medi 2021 gyda Thîm y Gymraeg yn rhoi cyfle i staff enwebu eu cydweithwyr a oedd wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg i safon uchel, ac a oedd wedi defnyddio eu sgiliau newydd i ddarparu gwell gwasanaeth i gleifion a siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru.

Ym mis Ionawr 2022, bu'r beirniaid Linda Tomos, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIPBC a'r beirniad gwadd a'r prif siaradwr, Bethan Gwanas, Awdur a seren deledu yn edrych ar yr ugain enwebiad i a thorri'r rhestr lawr i bump.



Y pum a gafodd eu henwebu oedd:

- Anna MacKenzie, Meddyg Iau, Ysbyty Gwynedd
- Charles Conway, Gweithredwr Llinell Gymorth, Wrecsam Maelor
- Manuela Niemetscheck, Seicotherapydd Celf, Uned Hergest
- Mark Butler, Swyddog Gwybodaeth, Ysbyty Maelor Wrecsam
- Michelle Matthews, Gweinyddwr Radioleg, Ysbyty Glan Clwyd


Ar y noson, aeth y pump uchaf benben â'i gilydd i ennill teitl gwobr Dysgwr y Flwyddyn BIPBC, a'r enillydd teilwng oedd Manuela Niemetscheck. Dyfarnwyd gwobrau i'r pump uchaf a roddwyd yn hael gan noddwyr. Cafodd yr enillydd hefyd ei hebrwng i Ysbyty Glan Clwyd ar ôl y seremoni i oleuo'r ysbyty mewn coch, gwyn a gwyrdd, lliwiau' Cymru, i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Yn ystod y seremoni cafwyd anerchiadau byr yn Gymraeg gan Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Mark Polin, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a Jo Whitehead, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod y seremoni, roedd cyfle i'r gynulleidfa rwydweithio â chyd-ddysgwyr tra'n mwynhau lluniaeth ysgafn. Roedd yn gyfle gwych i ddysgwyr gyfarfod wyneb yn wyneb, gan fod llawer ond wedi cwrdd yn rhithiol cyn hynny. Daeth y digwyddiad hefyd â nifer o'n partneriaid a sefydliadau allanol ynghyd, gyda Nant Gwrtheyrn, Mentrau Iaith Cymru a Siop ySiswrn yn cymryd rhan yn y digwyddiad trwy osod stondinau a darparu gwybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael.

Yn dilyn y seremoni, derbyniodd Tiwtor y Gymraeg a Swyddog Cefnogi'r Gymraeg nifer o ymholiadau gan sefydliadau allanol a'r cyfryngau. Cafodd y digwyddiad sylw gan raglen 'Heno' S4C, Rhaglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru, a chyfwelwyd y Swyddog Cefnogi ar drothwy'r seremoni a'r enillydd, Manuela, yn dilyn y seremoni. Ysgrifennodd Bethan Gwanas erthygl tudalen lawn am y gystadleuaeth yn yr Herald (Daily Post). Roedd y digwyddiad felly yn llwyddiant gan ddenu sylw cadarnhaol yn y cyfryngau i'r Bwrdd Iechyd wrth ddathlu'r llwyddiannau.

Roedd seremoni a gwobr Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC yn ddigwyddiad mawreddog, a roddodd y clod a'r sylw roedd pob un o'n dysgwyr yn ei haeddu. Roedd yn ddathliad gwych o lwyddiannau'r tîm Hyfforddiant Iaith Gymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r tîm yn gobeithio adeiladu ar y digwyddiad hwn yn 2024.



Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Mae Rheoliadau'r Gymraeg ar gyfer Contractwyr Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob contractwr gyflawni chwe dyletswydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth gefnogi contractwyr i gyflawni'r dyletswyddau hyn, yn ogystal â datblygu ymhellach y darpariaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y gallant eu cynnig a'u darparu i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan Dîm yr Iaith Gymraeg yn cwmpasu ystod o feysydd sy'n adlewyrchu gofynion y chwe dyletswydd statudol:

- Mynediad i Wasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd
- Darparu adnoddau (bathodynnau, cortynnau gwddf 'Siarad Cymraeg', adnoddau a chanllawiau ar gyfer ateb y ffôn yn ddwyieithog)
- Gwersi Cymraeg a ddarperir gan ein tiwtor Cymraeg mewnol, a mynediad i gyrsiau ar-lein trwy ein cytundeb gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Sesiynau ymwybyddiaeth iaith Gymraeg
- Recordio negeseuon peiriant ateb

Ar ddiwedd 2019, bu Swyddog Iaith Gymraeg Rhanbarth y Gorllewin a'r Rhanbarth Canolog y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda *Menter Iaith Môn* a Busnes Cymru (a elwir erbyn hyn yn ' *Helo Blod* ') i gychwyn cynllun i ddarparu cefnogaeth gyda Chymraeg sylfaenol i feddygfeydd ledled Ynys Môn.

Yn ymarferol, roedd y gefnogaeth gan y cynllun hwn yn cynnwys darparu cyngor ac adnoddau elfennol (megis bathodynnau pin a phosteri oren 'Cymraeg: Working Welsh'); cymorth gyda chyfieithu (gan gynnwys recordio negeseuon peiriant ateb dwyieithog); darparu mynediad i hyfforddiant iaith Gymraeg a/neu drefnu sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff meddygfeydd.

Er mwyn gwneud y cynllun mor berthnasol ac effeithiol â phosibl cafodd lefel y gefnogaeth a ddarparwyd ei theilwra'n benodol i anghenion pob practis unigol a gymerodd ran ac – yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda Meddygon Teulu a Rheolwyr Meddygfeydd – manteisiodd nifer o feddygfeydd wedyn ar agweddau gwahanol o gymorth yn ystod misoedd cyntaf 2020.

Yn anffodus, fodd bynnag, daeth y cynllun Clwstwr Meddygon Teulu Ynys Môn gwreiddiol hwn i ben yn ddisymwth oherwydd dechrau'r pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020.

Gan fod y camau cychwynnol wedi bod yn llwyddiant – a llawer iawn o adborth cadarnhaol eisoes wedi'i dderbyn gan feddygfeydd a gymerodd ran – penderfynwyd y byddai'n fuddiol ailgychwyn y prosiect cyn gynted â phosibl ar ôl llacio'r cyfyngiadau COVID-19 (yn ystod haf 2021).

Er mwyn ffurfioli nodau ac amcanion y cynllun sydd bellach newydd ailddechrau, mae targed penodol wedi'i gynnwys o fewn rhaglen waith *Fforwm Iaith Ynys Môn* ar gyfer 2022, sy'n nodi y bydd y prosiect cydweithredol yn 'darparu cymorth iaith Gymraeg sylfaenol i bum meddygfa ar yr ynys.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i nodi pa feddygfeydd fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun er mwyn ei gyflwyno'n llwyddiannus.

Ymhellach, oherwydd llwyddiant prosiect cychwynnol Ynys Môn (a chynllun peilot ar yr un pryd dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a roddodd gymorth tebyg ar gyfer saith meddygfa yn Ne Sir y Fflint), mae camau hefyd wedi'u cymryd bellach i ffurfioli'r ddarpariaeth i roi cymorth sylfaenol gyda'r iaith Gymraeg i Feddygfeydd mewn ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru.

Yn ystod 2021-22, ailgychwynnodd Tîm yr Iaith Gymraeg y bartneriaeth gyda ' *Helo Blod* ', er mwyn darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer Clystyrau Meddygon Teulu Dwyfor / Eifionydd a Meirionnydd, sy'n cynnwys y meddygfeydd canlynol:

Dwyfor / Eifionydd :

- Meddygfa Rhydbach, Botwnnog ,
- Treflan, Pwllheli,
- Tŷ Doctor, Nefyn .

Meirionnydd:

- Canolfan Iechyd Y Bala ,
- Meddygfa Minfor, Abermaw ,
- Caerffynnon , Dolgellau ,
- Bron Meirion , Penrhyndeudraeth ,
- Canolfan Iechyd Tywyn .

Wedi i gynrychiolwyr o Glwstwr Meirionnydd dderbyn manylion am y gefnogaeth sydd ar gael yn ystod cyfarfod ym mis Tachwedd 2021, fe wnaeth aelod o'r Tîm Iaith Gymraeg wedyn ddarparu'r un wybodaeth i reolwyr practis o feddygfeydd sy'n rhan o Glwstwr Dwyfor ac Eifionydd ym mis Mawrth 2022.

Mae gwaith gyda meddygfeydd unigol o'r ddau glwstwr bellach yn mynd rhagddo a byddwn yn darparu strwythur tebyg o gymorth iaith Gymraeg wedi'i deilwra i feddygfeydd mewn ardaloedd eraill o ranbarth y Bwrdd Iechyd yn ystod 2022-2023.

Mae'r Tîm Iaith hefyd, ac ar wahân i'r cynllun hwn, eisoes yn gweithio'n uniongyrchol gyda Chanolfannau Iechyd Porthmadog a Chricieth (Clwstwr Dwyfor / Eifionydd) a Chanolfan Goffa Ffestiniog (Clwstwr Meirionnydd), gan fod y meddygfeydd hyn yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ac felly arolygir eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfnodol, trwy'r Cynllun Monitro'r Gwasanaethau Dwyieithog.

Y Gwasanaeth Cyfieithu

Ers y pandemig, mae'r tîm cyfieithu wedi parhau i weithio o bell i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a di-dor i staff a chleifion. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r galw am negeseuon brys yn ymwneud â briffiau COVID-19 a gwybodaeth am frechu ar gyfer staff, partneriaid a chleifion wedi parhau i gynyddu'n ddirfawr wrth i natur y pandemig ddatblygu'n gyflym, a chan fod angen cyfathrebu gwybodaeth allweddol mewn da bryd i gleifion a staff fel ei gilydd. Mae ceisiadau brys am gyfieithiadau hefyd wedi cynnwys datganiadau i'r wasg, llythyrau cleifion, taflenni gwybodaeth a gwybodaeth iechyd cyhoeddus ar gyfer cyfryngau cymdeithasol. Mae gwasanaeth y tu allan i oriau hefyd ar gael ar gyfer cyfathrebiadau brys, ac mae'n fodd o sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei chyhoeddi mewn modd amserol.

Mae'r galw am wasanaethau cyfieithu yn gyffredinol hefyd wedi parhau i gynyddu'n sylweddol, ar draws pob cyfarwyddiaeth a maes clinigol. Mae'r ceisiadau yn ystod y cyfnod adrodd am hysbysebion a disgrifiadau swyddi wedi codi'n arw, yn rhannol oherwydd prinder staff ar draws y sefydliad ers dechrau'r pandemig, ac oherwydd bod swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i newidiadau sefydliadol gyda chyflwyno ein Gwasanaeth Gweithredu newydd - 'Stronger Together / Mewn Undod Mae Nerth'. Roedd y ceisiadau hyn yn fwyfwy ar fyr rybudd, oherwydd y gofyniad brys i lenwi swyddi gwag. Mae'r tîm wedi cefnogi nifer cynyddol o ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu cyfweliadau yn y Gymraeg trwy ddarparu cyfieithu ar y pryd ac wedi cefnogi cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau rhanddeiliaid a fforymau amrywiol.

Mae'r Tîm Cyfieithu wedi recriwtio rhai aelodau newydd yn ystod y cyfnod adrodd ac mae wrthi'n ceisio ehangu'r tîm ymhellach er mwyn optimeiddio'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, a sefydlwyd yn wreiddiol ym mis Ebrill 2021. Cytunwyd i barhau â'r ddarpariaeth hon o 1 Ebrill 2022. Mae'r Tîm hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyfieithu i'r sector gofal sylfaenol, y meddygfeydd preifat a reolir, a chontractwyr annibynnol.

Cyfanswm y geiriau a dderbyniwyd i'w cyfieithu yn ystod 2021-2022 oedd 4,948,310, sef cynnydd o 39.3 y cant ers blwyddyn adrodd 2020-2021. Mae hyn yn gynnydd sylweddol yn y galw, ac yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Gweithio mewn Partneriaeth

Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru
Mae BIPBC yn parhau i arwain y ffordd o ran cydymffurfio'n eang â'r nodau a'r egwyddorion a hyrwyddir yn *Mwy na geiriau.* Mae llawer o waith y Bwrdd Iechyd yn

hyn o beth naill ai'n cael ei lywio, ei arwain neu ei gefnogi gan Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru. Mae'r fforwm yn cyfarfod bob chwarter i hwyluso gweithredu fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar draws y rhanbarth ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Tîm Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r grŵp aml-asiantaethol hwn. Roedd y cyfarfod cyntaf ym mis Mai 2016. Ynghyd â Swyddogion Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd, mae Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau eraill perthnasol, gan gynnwys y chwe awdurdod lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor.

Mae'r fforwm rhanbarthol, a gadeirir gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, sydd hefyd yn Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Iechyd, bellach wedi dechrau cyfarfod yn llawer mwy rheolaidd unwaith eto, gan mai dim ond un cyfarfod a fu yn 2020-2021 oherwydd y pandemig. Yn dilyn y pandemig, mae aelodau wedi ail-werthuso blaenoriaethau'r Fforwm ac wedi ailasesu'r dull o gyflawni ei amcanion. Mae'r grŵp bellach mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nodau ac amcanion rhaglen waith genedlaethol nesaf *Mwy na geiriau*.

Mae Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru yn parhau i fod yn lle pwysig i rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer dda mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith yn parhau i ddangos manteision dilyn dull cydweithredol, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n amcanion cyffredin ar draws y rhanbarth yn llwyddiannus.

Fforwm Iaith Ynys Môn

Mae Tîm Iaith Gymraeg BIPBC yn cyfrannu at waith *Fforwm Iaith Ynys Môn* . Mae'n cael ei drefnu gan *Fenter Iaith Môn*, *ac* yn dod â nifer o gyrff perthnasol ynghyd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar yr ynys.

Dr Haydn E. Edwards yw'r cadeirydd presennol, ac mae'r grŵp yn cynnwys cynghorwyr a swyddogion o sawl adran yng Nghyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â chynrychiolwyr o sefydliadau megis *Menter Môn*, *Menter Iaith Môn*, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn*, Urdd Gobaith Cymru*, *Môn FM*, *Môn CF* (Cymunedau Ymlaen), *Medrwn Môn*, *Mudiad Meithrin / Cymraeg i Blant* a *Merched y Wawr*. Mae cyflogwyr lleol amlwg fel Heddlu Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor hefyd yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm.

Fel aelod dylanwadol o'r Fforwm, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno nifer o dargedau penodol, mesuradwy i'w cynnwys yn rhaglen waith flynyddol *Fforwm Iaith Ynys Môn.*

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r amcanion hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff y Bwrdd Iechyd a chafodd hyn ei gynnwys drwy roi'r targedau canlynol yn *Rhaglen Waith Fforwm Iaith Ynys Môn* (Blwyddyn 5) ar gyfer 2021:

- 100 aelod o staff y Bwrdd Iechyd i gwblhau cwrs 'Iaith Gwaith' ar-lein

- 50 aelod o staff y Bwrdd Iechyd i gwblhau cwrs hyfforddi mewnol y Tiwtor Iaith Gymraeg (a gyflwynir yn rhithiol, trwy Microsoft Teams)

Cyflawnwyd y ddau amcan yma'n llwyddiannus ac y dilyn hynny cyflwynwyd targedau tebyg ar gyfer 2022.

Ochr yn ochr â thargedau rhaglenni gwaith blynyddol penodol, anogir aelodau hefyd i gydweithio i ddatblygu a gwireddu prosiectau cydweithredol ychwanegol, er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym Môn. Mae darparu cefnogaeth Gymraeg sylfaenol i bum meddygfa yn Ynys Môn wedi ei gynnwys fel un o dargedau'r Fforwm ar gyfer rhaglen waith Blwyddyn 6 (2022).

Datblygwyd dau brosiect cydweithredol arall yn ystod 2021-2022 gyda staff corfforaethol a chlinigol y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu tuag atynt.

Crëwyd ap dwyieithog o'r enw *OgiOgi* ar gyfer darpar rieni a rhieni babanod newydd-anedig a phlant ifanc. Mae'r ap yn cynnig llwyth o wybodaeth, gyda mwy na 400 o ddolenni defnyddiol i adnoddau lleol a chenedlaethol, sy'n cynnwys popeth o wybodaeth gyffredinol am feichiogrwydd a gwasanaethau gofal iechyd a lles cysylltiedig, i galendr digwyddiadau lleol. Mae'r adnodd hefyd yn cynnwys adran ar ddatblygiad plant ac arweiniad ar fanteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg o'u genedigaeth, ynghyd â digonedd o weithgareddau llawn hwyl a rhestrau chwarae i blant ifanc a rhieni eu mwynhau gyda'i gilydd.

Mae data cychwynnol yn dangos bod ap *OgiOgi* eisoes wedi'i lawrlwytho gannoedd o weithiau o fewn yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl cael ei ryddhau. Er i'r ap gael ei ddatblygu'n wreiddiol ar gyfer anghenion teuluoedd Ynys Môn, mae'r llwyddiant cychwynnol wedi creu diddordeb mewn rhannau eraill o Gymru ac o'r herwydd mae'r potensial i ehangu'r cysyniad a'i ddatblygu'n adnodd 'Cymru Gyfan' eisoes wedi ei drafod gyda Llywodraeth Cymru.

Y prosiect arall oedd datblygu adnodd ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar-lein ar gyfer Grŵp Myfyrwyr Llandrillo Menai, a lansiwyd yn gynnar yn 2022, dan y teitl 'Y Gymraeg yn y sector iechyd, gofal a gofal plant yn Ynys Môn':

Y Gymraeg yn y sector iechyd, gofal a gofal plant ym Môn (google.com)

Ceir gwybodaeth gyffredinol am y Bwrdd Iechyd a'i ddarpariaeth Gymraeg, ac mae cyfweliad gyda ffisiotherapydd yn Ysbyty Glan Clwyd sy'n trafod ei phrofiadau o weithio'n ddwyieithog. Mae hefyd yn cynnwys cyflwyniad o'r enw 'Y Gymraeg: Sgil hanfodol ar gyfer y gweithle', sy'n egluro pwysigrwydd darparu gwasanaeth gofal iechyd cyfrwng Cymraeg a manteision cyffredinol dwyieithrwydd i bobl ifanc, wrth iddynt baratoi i adael addysg a symud i fyd gwaith.

Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau

Bu Tîm y Gymraeg yn cydweithio ag ysgolion, colegau, addysg bellach ac addysg uwch ers blynyddoedd bellach i hyrwyddo pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i amlygu bod yr iaith Gymraeg yn sgil a fydd yn cefnogi eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Gyrfa Cymru
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'r bartneriaeth gyda Gyrfa Cymru ac wedi bod yn rhan o nifer o ddigwyddiadau a mentrau llwyddiannus dros y blynyddoedd. Trefnwyd digwyddiad ar-lein gan Gyrfa Cymru ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 ac 13 yn Ysgol Maelor, (Penley ger Wrecsam) yn ystod Wythnos Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2021. Bu aelod o Dîm yr Iaith Gymraeg hefyd yn cymryd rhan mewn dau ddigwyddiad 'STEM Gogledd' ar gyfer grwpiau o ddisgyblion blwyddyn 10 a blwyddyn 11 o Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol Godre'r Berwyn (Y Bala) ac Ysgol y Moelwyn (Blaenau Ffestiniog). Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad ychydig cyn Nadolig 2021 gyda'r Bwrdd Iechyd yn manteisio ar y cyfleoedd i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd fel sgil hanfodol ar gyfer cyflogadwyedd i bobl ifanc a allai fod yn ystyried gyrfaoedd o fewn y sector iechyd.

Cyfrannodd Tîm y Gymraeg hefyd at yr Wythnos Ddigidol Canfod Gyrfa a drefnwyd gan Gyrfa Cymru yn gynnar ym mis Gorffennaf 2021. Yno rhoddwyd pum niwrnod o gyngor ar-lein am yrfaoedd gan ganolbwyntio ar gyflogwyr, a gweithgareddau cysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8, 9 a 10 ledled Cymru.

Buom yn gweithio gyda ffisiotherapydd sy'n siarad Cymraeg yn Ysbyty Glan Clwyd i greu pecyn fideo byr, sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd dwyieithrwydd o fewn y sector iechyd. Cafodd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r pecyn fideo eu creu i Gyrfa Cymru eu defnyddio fel rhan o'u sesiynau 'Manteision cael iaith arall' ar ddydd Iau 9 Gorffennaf . Cafodd y cyfweliadau byr eu cynnwys hefyd mewn post Facebook a grëwyd ar gyfer ail Ffair Flynyddol Swyddi Cymraeg Ar-lein Prifysgol Bangor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022.

Grŵp Llandrillo Menai
Yn ogystal â'r adnodd ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar-lein ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai, 'Y Gymraeg yn y sector iechyd, gofal a gofal plant ym Môn', bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Sgiliaith i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i Grŵp Staff Llandrillo Menai yn ystod 2021-22 er mwyn llywio eu rhaglenni addysgu. Mynychodd tiwtoriaid a darlithwyr iechyd, gofal a gofal plant y coleg sesiwn gydag un o Swyddogion Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2021 i gael gwybodaeth am raglen waith gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd, pwysigrwydd gallu darparu gwasanaethau gofal iechyd yn ddwyieithog, a sut mae staff yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Prifysgol Bangor
Yn fuan ar ôl i bandemig COVID-19 orfodi sefydliadau addysg bellach ac uwch i symud i addysgu ar-lein, creodd Tîm y Gymraeg gyflwyniad Microsoft PowerPoint, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog a sut mae'r

defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo o fewn y Bwrdd Iechyd. Defnyddiwyd y cyflwyniad llawn hwn i gefnogi dysgu dau fodiwl Prifysgol Bangor – '*O'r Senedd i'r Swyddfa*' a '*Cymdeithas , Iaith a Phrotest*' - yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Ym mis Mawrth 2022, mynychodd aelod o Dîm y Gymraeg seminar wyneb yn wyneb yn Adeilad Wheldon, Prifysgol Bangor, i roi fersiwn wedi'i diweddaru o'r cyflwyniad i grŵp o fyfyrwyr '*O'r Senedd i 'r Swyddfa'.*

Dilynwyd y cyflwyniad gan sesiwn holi ac ateb / trafodaeth am bwysigrwydd gwasanaethau dwyieithog a sut mae gofynion statudol perthnasol (hy Safonau'r Gymraeg) yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle.

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i gydweithio'n agos ag Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor drwy roi cyfleoedd i fyfyrwyr nyrsio ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu cyfnodau gyda lleoliadau clinigol o fewn y Bwrdd Iechyd. Bu aelod o Dîm yr Iaith Gymraeg hefyd yn trafod effaith Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd gyda thiwtor o'r Brifysgol Agored yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2021 i ystyried ffyrdd penodol o gefnogi myfyrwyr nyrsio sy'n siarad Cymraeg.

Hyrwyddo ac Ymgysylltu

Ymgyrch Defnyddiwch eich Cymraeg / Use Your Welsh
Ym mis Mehefin 2021 ail-lansiodd Tîm y Gymraeg yr ymgyrch 'Defnyddiwch Eich Cymraeg'. Prif ffocws yr ymgyrch hon yw annog staff i ddefnyddio pa bynnag sgiliau Cymraeg sydd ganddynt yn y gwaith, boed hynny gyda chydweithwyr, cleifion a /neu ymwelwyr. Roedd yr ymgyrch yn annog pob aelod o staff i ddefnyddio eu Cymraeg, boed hynny'n ddim ond ychydig eiriau, neu os ydynt yn rhugl ond wedi colli hyder. Roedd yn gyfle i bwysleisio bod defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn bwysig iawn yn y sector iechyd, gan fod ymchwil yn dangos bod cleifion Cymraeg eu hiaith yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg. Os yw staff yn defnyddio'r Gymraeg, bydd cleifion yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy tebygol o ddefnyddio eu Cymraeg gyda staff.



Un o negeseuon allweddol yr ymgyrch oedd na ddylai aelodau staff betruso cyn defnyddio unrhyw Gymraeg sydd ganddynt, ac na ddylent fyth deimlo nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da. Mae cleifion yn gwerthfawrogi unrhyw ymdrech a wneir i siarad Cymraeg â nhw. Mae cyflwyno'r ymgyrch hon wedi codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fewnol ymhlith staff, a phwysigrwydd defnyddio'r iaith o fewn y sector iechyd. O ganlyniad caiff cleifion fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Defnyddiwyd fideo i lansio'r ymgyrch ac fe'i rhannwyd gyda staff a'r cyhoedd yn amlygu prif nodau ac amcanion yr ymgyrch. Roedd y fideo yn dilyn profiad claf canser oedd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod pandemig COVID-19. Rhannodd ei daith a phwysleisiodd fod gallu siarad Cymraeg yn yr amgylchfyd hwnnw wedi bod yn amhrisiadwy, ac wedi rhoi tawelwch meddwl iddo mewn cyfnod ansicr. Roedd y fideo yn agor a chloi gyda negeseuon gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ill dau yn cadarnhau pwysigrwydd defnyddio pa bynnag sgiliau Cymraeg sydd gan staff, er budd ein cleifion. Datblygwyd y fideo ddwyieithog gydag is-deitlau gan Dîm yr Iaith Gymraeg a'i rhannu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Edrychodd cyfanswm o 1,657 arni.

I gyd-fynd â'r ymgyrch, lansiodd y tîm y pedwerydd rhifyn o'n Newyddlen 'Defnyddiwch eich Cymraeg'. Fe'i dosbarthwyd trwy e-bost i bob defnyddiwr gyda neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a dolen i'r dudalen fewnrwyd Defnyddiwch Eich Cymraeg sydd wedi ei diweddaru.


Defnyddiwch eich CYMRAEG yn y gwaith

Use your WELSH at work

Edition 4

Dim ots faint o Gymraeg sydd gennych, gwnewch DDEFNYDD OHONI

Mae'n gwneud gwahaniaeth!

It doesn't matter how much Welsh you have, USE IT

It makes a difference!

Welcome to the fourth edition of BCUHB's Welsh Language Team's Newsletter. The past few months have been challenging for us all but thank you all for your continuing hard work for the benefit of our patients. Your ongoing efforts to continue to provide bilingual services are greatly appreciated. Diolch! In this edition, we'll discuss how hearing the Welsh language can make a positive difference for patients as well as some examples from staff, enjoy!

Patients Appreciate the Welsh Language

"I'm Alwyn, I'm 60 years old and live in Anglesey with my family. Back in March, I was taken ill at home and rushed to Ysbyty Gwynedd in Bangor. There, I was told that I'd had a bleed on the brain (a stroke).

For the first five days I was quite ill and out of it. As I started to come around from the trauma I was extremely confused and anxious. Because of the stroke, I was having difficulty expressing myself in English. The first doctor I saw was very polite but I found it very difficult at the time trying to explain how I felt and where the pain was and so on because he didn't understand or speak Welsh.

I was then seen by two other doctors who were Welsh first language. At the time, having the opportunity to speak to them in Welsh made me feel much happier and at home. Although I was still a little confused, trying to find the words to describe how I felt in Welsh was a lot easier than trying to find the words in English. After the stroke I found it harder to speak English: it seemed to affect my ability to speak clearly in English. Although I can speak English, to some extent I found myself far more confused in this language. Welsh is my first language and that is what I spoke when I was a young boy, throughout my career as a teacher and of course now at home with my family. Welsh is my first language.

Adding to all this, my recent stay in hospital was during Covid-19 time, so I couldn't have any visitors to see me on the ward. So, conversing in Welsh with all the Welsh-speaking staff on the ward was an added comfort to me.

I would like to sincerely thank all the staff at Ysbyty Gwynedd who cared for me during this difficult time. "

"It was a great comfort for me to hear the Welsh language and to use the language while I was on the maternity ward. I spoke in Welsh with two midwives and with other staff members while baby Jimi was having his hearing and physical examination. It was lovely to be able to communicate in Welsh and I'm very grateful for the care Jimi and I received from all the staff at YGC. Jimi Lloyd Machin arrived on the 4th May 2021, weighing 8lb 2oz." Elin Machin

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn arbennig o heriol i'n cleifion, ac mae'r cyfyngiadau parhaus yn golygu mai ychydig iawn o ymweliadau a ganiateir yn ein hysbytai, os o gwbl. Oherwydd hynny roedd y newyddlen yn canolbwyntio ar straeon cleifion a'r effaith gadarnhaol a gafodd clywed dim ond ychydig o eiriau Cymraeg ar eu hamser yn yr ysbyty. Casglwyd pedair stori go iawn gan gleifion, aelodau staff, ffrindiau a theulu, yn cynnwys claf strôc o Ynys Môn a dreuliodd amser yn gwella yn Ysbyty Gwynedd. Gan nad oedd ei deulu'n cael ymweld ag ef roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i siarad Cymraeg â'r staff nid yn unig gan mai Cymraeg oedd ei iaith gyntaf ond gan fod y strôc wedi arwain at drafferthion wrth gyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg. Felly, bryd hynny, roedd siarad Cymraeg â staff mor bwysig er mwyn ei helpu i ddisgrifio ble'r oedd y boen a sut roedd yn teimlo.

Roedd mam newydd ar y ward famolaeth hefyd wrth ei bodd yn clywed y Gymraeg tra yn yr ysbyty wedi geni ei mab newydd, a chawsom wybod am fanteision clywed canu Cymraeg oedd yn rhoi rhyddhad a chysur i glaf dementia. Cawsom sgwrs gyda gŵr bonheddig oedd gan ffobia o ysbytai, ac a gafodd ei ruthro i'r Adran Achosion Brys. Roedd mor ddiolchgar ac wedi ei gysuro o glywed y Gymraeg tra yn yr ysbyty gan fod y meddyg oedd yn gofalu amdano wedi sicrhau ei fod yn derbyn gofal gan siaradwyr Cymraeg. .

Er bod rhesymau gwahanol iawn pam fod y cleifion hyn yn yr ysbyty, yr hyn oedd yn gyffredin yn yr holl esiamplau oedd bod eu holl brofiadau wedi'u gwella ac yn fwy cadarnhaol gan fod staff wedi siarad Cymraeg efo nhw.

Rhan allweddol arall o'r ymgyrch oedd y cyfle i ymgysylltu â staff a dysgu am eu profiadau. Soniodd staff oedd yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Therapïau am eu hamser yn gweithio yn un o'r Ysbytai Enfys ar anterth y pandemig, a'r gwahaniaeth yr oedd clywed y Gymraeg wedi ei gael ar glaf oedd yn gwella o COVID-19:



"Yn ddiweddar bûm yn gweithio gyda gwraig ar ward Ysbyty Enfys yng Nglannau Dyfrdwy a oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ac roedd hi'n gwerthfawrogi'n fawr ei bod yn gallu sgwrsio yn y Gymraeg, yn enwedig gan ei bod eisoes yn teimlo'n ddryslyd yn amgylchedd rhyfedd yr ysbyty maes. Ar yr un pryd, dechreuodd ein Hyfforddwr Technegol Cymraeg ei iaith helpu ar y ward felly bu hithau'n sgwrsio â'r claf yn y Gymraeg hefyd, tra'n cefnogi'r claf i fwyta ac yfed. Gobeithio ein bod wedi gwneud yr arhosiad fymryn yn haws."

Mae'r Adran Radioleg yn adran sy'n mynd y tu hwnt i'r dyletswyddau deddfwriaethol er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i gleifion. Bu'r adran yn rhagweithiol iawn wrth gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac yn ystod wythnos Santes Dwynwen maent yn cynnal wythnos o ddathliadau bob blwyddyn yn cynnwys sesiynau gyda'r Tiwtor Cymraeg, addurno'r adran ag addurniadau Cymreig, a gwobrwyo staff am eu defnydd o'r Gymraeg.

"Fe wnaethon ni berfformio llinell PICC bore ma ac roedd y claf yn nerfus iawn ac yn siarad Gymraeg trwy'r driniaeth. Cafodd y claf wasanaeth Cymraeg o'r amser y daeth i mewn hyd at gydsynio a pherfformio'r driniaeth. Gofynnodd y claf yn benodol wrth gyrraedd yr adran a oedd unrhyw un yn siarad Cymraeg ac roedd wrth ei fodd pan eglurwyd wrtho fod pob aelod o staff a oedd yn bresennol yn siarad Cymraeg. Drwyddi draw, roedd yn brofiad llawer gwell i'r claf."

Tîm Radioleg Ymyriadol, Ysbyty Gwynedd



Sylwodd aelodau'r Tîm Prostheteg ar yr effaith gadarnhaol y mae siarad ychydig o Gymraeg yn ei gael ar glaf:

"Roedden ni'n trin claf oedrannus oedd yn cael trafferth deall rhai cyfarwyddiadau ynglŷn â gwisgo ei phrosthesis. Roedd hyn yn achosi i'r claf fod yn anniddig. O bryd i'w gilydd byddai'r claf yn troi i'r Gymraeg ac er nad ydwi'n deall popeth, roeddwn i'n gallu dweud brawddegau a chyfarwyddiadau syml gan sgwrsio yn y Gymraeg. Roedd hyn yn ddefnyddiol ac yn gysur i'r claf, ac roedd yn gymorth iddi ddeall y broses yn well."

Prif ffocws yr ymgyrch oedd annog staff i siarad mwy o Gymraeg, ac un model arloesol i gynorthwyo hyn oedd darparu gwersi blasu Cymraeg i annog staff i ddefnyddio'r sgiliau oedd ganddynt eisoes. Trefnodd y Tiwtor amrywiaeth o wersi blasu amrywiol ar draws pedair lefel wahanol – o ddechreuwyr pur (lefel ESR 0 -1) i uwch / magu hyder (ESR lefel 4). Roedd y gwersi yn gyfle gwych i staff gael blas ar sut beth oedd cael gwersi Cymraeg gyda'r Tiwtor newydd ac roedd gwersi ar lein hefyd yn newydd i sawl un. Penderfynodd rhai staff hefyd fynychu dwy wers wahanol ar wahanol lefelau i weld pa lefel oedd fwyaf addas iddyn nhw.





Datblygwyd adnodd newydd i gefnogi neges graidd yr ymgyrch - cylch allweddi iaith i helpu staff i ddysgu a defnyddio ymadroddion a geirfa Gymraeg allweddol yn y gweithle. Mae'r cylch allweddi yn cynnwys 20 cerdyn gyda'r nod o gyflwyno ymadroddion Cymraeg sylfaenol, ac mae pob cerdyn yn cynnwys cod QR unigryw. Pan gaiff ei sganio gyda ffôn clyfar mae'r cod QR yn cysylltu â thudalen YouTube Tiwtor Cymraeg BIPBC gyda fideos cyfatebol yn egluro sut i ynganu pob gair ar y cerdyn. Maent wedi bod yn boblogaidd iawn a hyd yma, mae dros 350 wedi'u dosbarthu.

Bu hon yn ymgyrch arall lwyddiannus, gan ddangos bod ymgysylltu â staff a chleifion yn hollbwysig wrth gynllunio a llywio gwaith y tîm ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf.

Wythnos y Gymraeg 2021

Cynhaliwyd pedwaredd Wythnos Gymraeg flynyddol BIPBC rhwng 11 a 15 Hydref 2021. Er bod parhad pandemig COVID-19 wedi rhwystro'r Tîm y Gymraeg rhag trefnu unrhyw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, roeddem yn gallu adeiladu ar lwyddiant Wythnos y Gymraeg rithiol 2020, drwy gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ar-lein ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd a rhanddeiliaid allanol.

Tra bod y digwyddiadau hyn yn hyrwyddo pwysigrwydd gofal iechyd cyfrwng Cymraeg, roeddent hefyd yn dathlu gwaith diflino gweithwyr sydd bob amser yn sicrhau fod cymaint o wasanaethau a phosibl yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

Yn dilyn llwyddiant yr ymweliadau ag ysgolion uwchradd / colegau addysg uwch a gynhaliwyd yn ystod dwy Wythnos y Gymraeg gyntaf BIPBC (yn 2018 a 2019), cyflwynwyd nifer o seminarau ar-lein i ddisgyblion a myfyrwyr trwy Microsoft Teams. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i addysgu pobl ifanc am bwysigrwydd gwasanaethau

gofal iechyd cyfrwng Cymraeg, a hefyd yn rhoi gwybod iddynt am fanteision sgiliau dwyieithog, a'u hannog i wneud y gorau o'u sgiliau iaith presennol.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau i ddysgwyr Cymraeg fel rhan o'r dathliadau a barhaodd am wythnos. Yn dilyn lansio Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn 2022 BIPBC ddechrau'r wythnos, cyflwynwyd y cyntaf mewn cyfres newydd o fideos 'Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos' ar fewnrwyd BetsiNet, cafwyd cinio arbennig ar-lein yn y Clwb Clebran ' ('Sgwrs Amser Cinio'). Cynhaliwyd cwis i nodi 'Diwrnod Dysgwyr Cymraeg 2022' y Bwrdd Iechyd, a fynychwyd gan y Prif Weithredwr ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd. Trefnwyd cyfarfod o Fforwm *Mwy na geiriau* Gogledd Cymru i gyd-fynd â 'Diwrnod Gweithio Mewn Partneriaeth' Wythnos y Gymraeg.









Mae'n bwysig iawn cydweithio gyda sefydliadau eraill i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog. I'r perwyl hwn mae Tîm y Gymraeg BIPBC yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Awyr Las, ac yn datblygu ei gefnogaeth i 'Cymraeg i Blant'. Parhawyd i weithio gyda swyddogion 'Cymraeg i Blant', gan sicrhau bod gwybodaeth am grwpiau ar-lein, ac am ailddechrau rhai sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb, yn cael ei rannu a'i dargedu at staff a chleifion ar draws gogledd Cymru.

Cefnogwyd yr wythnos o ddathlu gan uwch reolwyr y sefydliad, gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwasanaeth gofal iechyd cyfrwng Cymraeg trwy ysgrifennu at bob aelod staff.

Cyfleoedd Hyrwyddo i Ddathlu'r Gymraeg

Cafodd Diwrnod Santes Dwynwen, sy'n dathlu Santes Cariadon Cymru ar 25 Ionawr, ei nodi eleni drwy ofyn i staff beth oedden nhw'n ei garu am weithio i'r Bwrdd Iechyd a'r GIG. Daeth nifer o ymatebion a sylwadau o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn nodi pam eu bod yn caru eu swyddi a'u hangerdd dros helpu eraill. Dyma rai enghreifftiau o'r negeseuon a gawsom. Rhannwyd yr ymatebion ar gyfrifon corfforaethol Instagram a Twitter y Bwrdd Iechyd i ddathlu gyda'r cyhoedd, ac roedd adborth da ar y ddau lwyfan.



Er mai prif ffocws ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi eleni oedd seremoni wobrwyo Dysgwr y Flwyddyn, defnyddiwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu straeon newyddion da ac enghreifftiau o'r arferion gorau. Paratowyd neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg bob dydd ar draws y Bwrdd Iechyd ac effaith gadarnhaol clywed dim ond ambell air yn yr iaith ar gleifion.

Datblygiadau Gwasanaethau Ychwanegol

Pecyn Hyfforddiant Ar-lein Cymru Gyfan - Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg

Yn unol â Safonau Iaith Gymraeg 102 a 103, mae rhwymedigaethau cyfreithiol ar bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'w staff. Yn dilyn trafodaethau ag aelodau eraill Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg y GIG a gadeirir gan Lywodraeth Cymru, cytunodd Tîm yr Iaith Gymraeg i gymryd y prif gyfrifoldeb dros ddatblygu'r modiwl hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r gofyniad statudol hwn.

Creodd Tîm yr Iaith Gymraeg y cynnwys cyn penodi cwmni allanol drwy broses dendro i drosi'r cynnwys yn adnodd hyfforddi gweithredol a rhyngweithiol. Cytunwyd ar ddrafft terfynol o'r pecyn hyfforddi cwbl ryngweithiol hwn yn gynnar yn 2022 a buom yn cydweithio gyda Rheolwr Rhaglen Dysgu Digidol GIG Cymru i sicrhau y gellid uwchlwytho'r modiwl newydd i'r platfform Cofnod Staff Electronig.




Mae'r cwrs yn cynnwys adrannau ar brofiad y claf, *Mwy na geiriau* a'r *d*deddfwriaeth berthnasol.

Mae adrannau sy'n cynnwys dwy stori wedi'u hanimeiddio, yn seiliedig ar ddigwyddiadau go iawn a phrofiadau cleifion sy'n pwysleisio pwysigrwydd dewis iaith mewn perthynas ag asesu, diagnosis a rhoi caniatâd.







Ar ddiwedd y cwrs ceir adran wybodaeth 'Cymorth i Staff' a 'Chwalu Chwedlau', er mwyn rhoi gwybodaeth a hyder ychwanegol i weithwyr GIG Cymru a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, hyd yn oed os nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr rhugl. Bydd yn cael ei lansio ledled Cymru ddiwedd haf 2022, a'r prif neges yw y dylai staff geisio magu hyder i 'wneud yr hyn a allant', er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog.

Cydsyniad a Chapasiti

Fel rhan o'i rôl gyda Grŵp Cydsyniad a Chapasiti'r Bwrdd Iechyd, nododd Tîm y Gymraeg yr angen i gyfeirio at ddeddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'i arwyddocâd wrth ddatblygu fideo hyfforddi Cymru gyfan gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer clinigwyr ledled Cymru mewn perthynas â chydsynio.




Roedd y fideo, a ddatblygwyd fel rhan o'r cwrs ehangach, yn pwysleisio'r angen a phwysigrwydd ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses gydsynio. Mae'r fideo yn cyfeirio at hyn fel gofyniad cyfreithiol i bob Bwrdd Iechyd fel rhan o Safonau'r Gymraeg, gan ganolbwyntio ar y rhagdybiaeth na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnig i bob claf y dewis i fynd drwy'r drefn gydsynio yn y Gymraeg.

Mae'r fideo hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd arbennig cael cydsyniad gwybodus gan y saith grŵp categori cleifion a nodir fel rhai agored i niwed yn *Mwy na geiriau.* Mae'r fideo yn egluro bod gan y cleifion yn y grwpiau hyn, ee y rhai sy'n byw gyda dementia, yr henoed a phlant ifanc, nid yn unig yr un hawl neu ddewis cyfreithiol i gydsynio yn y Gymraeg, ond hefyd angen ieithyddol oherwydd efallai na fyddant yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Saesneg.

BetsiNet

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu safle mewnrwyd newydd i'r Bwrdd Iechyd, mae tudalennau mewnrwyd Tîm yr Iaith Gymraeg yn un o'r rhai cyntaf i symud drosodd i blatfform newydd BetsiNet . Buom yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ailwampio a symud ein tudalennau gwybodaeth drosodd i'r safle newydd a lansiwyd i gyd-fynd ag Wythnos y Gymraeg.



Mae'n un o'r adrannau yr ymwelwyd â hi fwyaf ar y wefan Gymraeg, a rhoddwyd amlygrwydd i'r porth cyfieithu er mwyn sicrhau mynediad hawdd i bob cais am gyfieithiad. Mae yno adran 'Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos' lle gall staff wylio fideos wythnosol gydag awgrymiadau chyngor ar ddysgu Cymraeg. Mae adran bwrpasol ar gyfer dysgwyr Cymraeg, gyda gwybodaeth am gyfleoedd dysgu gwahanol, ac adran i wneud cais am adnoddau megis y cylch allweddi iaith, ac adran Cwestiynau Cyffredin. Ategir yr holl adrannau parhaol hyn gan yr adran newyddion a diweddariadau ar ochr dde'r dudalen sy'n cynnwys datblygiadau rheolaidd gan y tîm. Mae adran hefyd ar BetsiNet ar gyfer Polisïau a Gweithdrefnau, ac mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, megis Safonau'r Gymraeg a'r *Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog* wedi'u huwchlwytho i sicrhau hygyrchedd a chysondeb.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r data isod yn unol â Safon 120 y Gymraeg Safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cynllunio'r Gweithlu

- ***Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:***
  - ***y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu;***

Nifer y Gweithiwyr	2019/20		2020/21		2021/22	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	8031	42.4%	8158.	41.6%	8324.	41.7%
1 - Entry/ Mynediad	2443.	13%	2601	13.3%	2652	13.3%
2 - Foundation / Sylfaen	1227.	6.5%	1280.	6.5%	1298.	6.5%
3 - Intermediate / Canolradd	1254	6.6%	1307.	7%	1307.	6.6%
4 - Higher / Uwch	1525.	8.1%	1568.	8%	1596.	8%
5 - Proficiency / Hyfedredd	2338.	12.4%	2467.	12.6%	2573.	12.9%
Cyfanswm	**16,818**	**89%**	**17,381**	**89%**	**17,750**	**89%**
Cyfanswm y staff	**18,922**		**19,610**		**19,955**	

Data 2021 / 2022:

Roedd 89 y cant o'r holl weithlu wedi cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig

Data 2020 / 2021:

Roedd 89 y cant o'r holl weithlu wedi cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig

Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg

- ***Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i lefel cymhwyster penodol***

Data 2021 / 2022:

Nifer gweithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 1,583

Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 7.9 y cant o weithlu presennol y Bwrdd lechyd

Data 2020 / 2021:

Nifer gweithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 752

Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 3.8 y cant o weithlu presennol y Bwrdd lechyd

Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofyniad bod:***

Data 2021 / 2022:

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 403 (6.4 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 5828 (92.8 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 33 (0.5 y cant)**
- **Y Gymraeg ddim yn sgil gofynnol - 14 (0.2 y cant)**
- **Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd - 6278**

Data 2020 / 2021:

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 236 (6.1 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 3595 (92.6 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 17 (0.4 y cant)**
- **Y Gymraeg ddim yn sgil gofynnol - 33 (0.9 y cant)**
- **Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd - 3881**

Cwynion

- ***Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg***

  Derbyniodd y Bwrdd Iechyd saith cwyn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a deliwyd yn llawn â nhw o dan y Rheoliadau *Gweithio i Wella.* Yn ogystal, cychwynnodd Comisiynydd y Gymraeg bedwar ymchwiliad. Diystyrwyd dau ymchwiliad ar ôl methu canfod dim tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio.

  Roedd y ddau ymchwiliad arall, a'r rhan fwyaf o'r cwynion, yn ymwneud â'r Rhaglen Cyflenwi Brechiadau COVID-19. Roedd y materion yn canolbwyntio'n bennaf ar arwyddion a gohebiaeth dros dro. Mae Tîm y Rhaglen Frechu wedi bod yn gwbl gefnogol i fabwysiadu unrhyw newidiadau sydd eu hangen a rhoddwyd cynllun gweithredu manwl ar waith i fynd i'r afael â diffygion. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu cymhwyso i lywio'r trefniadau ar gyfer rhaglen frechu 2022-2023.

Cyflawniadau a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos cynnydd wrth wneud y pethau a ganlyn:

- gwella ansawdd y gofal a ddarparwn drwy gyfrwng yr iaith a ddewisir gan gleifion
- cynyddu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol
- adnabod camau sydd wedi'u gweithredu a'u lledaenu i ymateb i angen ieithyddol fel elfen annatod o ofal
- gwell cefnogaeth sefydliadol i'r gweithlu fedru darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Yn ogystal â'r hyn a gyflawnwyd eisoes, mae'r Bwrdd Iechyd yn gyffrous am y mentrau a'r cyfleoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf. Mae rhaglenni pellach wedi'u cynnwys yn ein cynllun gwaith blynyddol, megis ailgyflwyno ymweliadau safle yn ein harolygon siopwr cudd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros yn eiddgar am gyhoeddi cynllun pum mlynedd *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu ag unigolion a rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cam datblygu i lywio'r cynllun terfynol. Rhagwelir y bydd cynlluniau a chamau gweithredu sydd eisoes ar waith yn y Bwrdd Iechyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Ein nod yw datblygu'r rhain yn ystod y flwyddyn i ddod, gan gefnogi datblygiadau allweddol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-2025, mae datblygiadau'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cydnabod fel galluogwr allweddol. O ganlyniad, mae cyllid sylweddol wedi'i addo i gryfhau capasiti o fewn meysydd gwaith penodol, gyn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer cyfieithu, cydymffurfiaeth statudol ac ymgysylltu mewnol ac allanol. Rydym yn frwdfrydig iawn wrth i ni agosáu at y cam nesaf hwn o ddarparu gwasanaethau, ac mewn rhai achosion, y camau adferol sydd eu hangen yn dilyn y pandemig. Ein gweledigaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yw cynyddu ymhellach

ein gallu fel Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal addas i gleifion trwy gyfrwng y Cymraeg, gan gofio bob amser ein hanogaeth…*Defnyddiwch eich Cymraeg!*

Mawrth 2022